UNIVERSITY OF TORONTO
3 1761 01483171 3

# COFIANT
A
# GWEITHIAU
Y PARCH. ROBERT ELLIS
*YSGOLDY.*

Digitized by the Internet Archive
in 2011 with funding from
University of Toronto

http://www.archive.org/details/cofiantgweithiau00jone

William Powell
1522 High St
Utica N.Y.



LONDON STEREOSCOPIC CO: PERMANENT PHOTO:PROCESS.

*By doing the will well.*
*Robert Ellis*

ENTERED AT STATIONERS HALL.

# COFIANT A GWEITHIAU

Y

# PARCH. ROBERT ELLIS,

YSGOLDY, ARFON,

GAN Y

PARCH. JOHN OWEN JONES,

CAPEL COCH, LLANBERIS.

" Da wladwr, duwiol ydoedd,
A gŵr i Dduw o'r gwraidd oedd."—*Eben Vardd.*

CAERNARFON:
J. R. EDWARDS, ARGRAFFYDD, 35, HIGH STREET.

1883.

LIBRARY
14 JUL 1976
UNIVERSITY OF TORONTO

ENTERED AT STATIONERS' HALL.

# AT Y DARLLENWYR.

ANWYL GYDWLADWYR,—

Ymgymerwyd â'r gorchwyl o gasglu yn nghŷd y gyfrol hon ar daer ddymuniad Cyfarfod Misol Arfon. Yr oedd cydsynio â'r cais yn beth y tueddid ninau iddo gan ein hoffder a'n hedmygedd personol o'r gwrthddrych.

Darfu i'w ddull syml, sydyn a naturiol argraffu ei hun ar ein meddwl pan yn blentyn, a chynyddodd ein parch tuagato yn ddirfawr yn nhreigliad blynyddoedd ein hadnabyddiaeth. Ni bu ein dyfodiad i gysylltiad *teuluaidd* âg ef ond moddion ychwanegol i ëangu a dyfnhau ein hedmygedd ohono, fel y rhoddai hyny well cyfleusdra i ni i'w adnabod yn holl amrywiol arweddau ei gymeriad pur a dysglaer. Teimlem fod ei fawredd ef yn gyfryw o ran ei natur, fel mai po agosaf y gellid nesau ato, ac aros yn nghyfrinach ei enaid, mwyaf oll yr ymddangosai fel dyn, sant a gweinidog ffyddlawn i Grist. Nis gellid peidio teimlo yn wylaidd yn ei bresenoldeb wrth weled mor gyffredinol oedd ei wybodaeth, ac mor drwyadl gydnabyddus ydoedd â phob amrywiaeth o faterion. Byddai yr ymdeimlad hwn o gywilydd a bychander yn fwy, wrth ystyried yr anfanteision dan ba rai y dygwyd ef i fyny o'u cydmaru â'r eiddom ni y blynyddoedd hyn. Yn ei farwolaeth collwyd y fath gorph cyflawn o wybodaeth hanesiol am leoedd a phersonau, yn wladol a chrefyddol, fel nad hawdd ydyw amgyffred maint y golled.

Ni amcanwyd genym yn y gyfrol hon i ysgrifenu bywgraffiad o'n heiddo ein hunain ohono. Gwell oedd genym, hyd y gellid, ei adael ef i ddyweyd ei hanes yn ei ddull a'i eiriau ei hun, am y syniwn mai *rhagoriaeth* cofiant ydyw fod y gwrthddrych ei hun yn amlycaf o bawb drwyddo. Yr oedd genym fantais i hyn, rhaid addef, gan ei fod ef wedi ysgrifenu cymaint o'i hanes, fel nad oedd eisieu wrth adysgrifenu ond casglu y darnau yn nghyd i wneyd un cyfanwaith ohonynt. Têg ydyw ychwanegu hefyd fod y gorchwyl hwn yn fwy anhawdd, fel yr oedd ganddo ddau neu dri o wahanol adroddiadau ysgrifenedig o'r un digwyddiad, y naill yn cofnodi rhyw fanylion nad oeddynt yn y llall. Ceisiasom wneyd un adroddiad o'r cyfryw, gan amcanu peidio gadael allan o'i hanes ddim a

ystyriem yn angenrheidiol er cyflwyniad darlun llawn ohono fel yr oedd mewn gwirionedd.

Gyda golwg ar ei Weithiau, rhaid fu dethol, a'n rheol yn y detholiad oedd rhoddi i mewn yr ysgrifau y bernid eu bod fwyaf cyffredinol a pharhaol eu dyddordeb, a'r rhai oeddynt hefyd fwyaf nodweddiadol ohono ef fel ysgrifenydd Cymraeg diledryw. Drwg genym na chafwyd lle i ychwaneg o'i Bregethau. Rhoddwyd un *sheet* ychwanegol at y gyfrol yn fwy na'r bwriad cyntaf, a hyny yn gwbl er gallu rhoddi i mewn bump o'i bregethau fel *engreifftiau* o'r wêdd hollol gyfeiriadol ac ymarferol oedd ar ei weinidogaeth. Yr oedd fod y gofod i'r pregethau mor brin yn ein dwyn i wyneb yr anhawsder o ddewis yr ychydig o blith cynifer o gannoedd oedd yn ysgrifenedig o'n blaen. Wedi dewis y pregethau drachefn, deuai yn gwestiwn i'w benderfynu pa *gopy* o'r pregethau hyn a ddewisid. Y mae ei bregethau yn *gyfresau*, gan yr ail-ysgrifenai, ac mewn un ystyr, byddai yn *ail-wneyd* yr un pregethau bob rhyw bymtheng mlynedd, fel y mae tri neu bedwar *copy* o'r rhan fwyaf ohonynt ar gael, a chryn wahaniaeth rhwng rhai o'r cyfryw a'u gilydd. Nodweddiadol o'r copïau diweddaf ydyw yr ysgrifenai arnynt mai *tàlfyriadau* ydynt. Fel yr oedd yn hên-eiddio, yr oedd yn dyfod i bregethu yn fyrach, ond mor gydwybodol ydoedd i'w Dduw fel y mynai dàlfyru a chrynhoi yn yr *ysgrifen* yn gystal a'r *traddodiad*. Yr oedd y *tàlfyriad* iddo ef yn gofyn yr un parotoad a'u gwneyd i gyd o newydd. Yn y pregethau sydd yn y gyfrol, dewiswyd y *copy* cyflawnaf, a gofalwyd hefyd am roddi i mewn sylwadau o'r copïau ereill y bernid eu bod yn angenrheidiol i *orpheniad* y bregeth.

Nid oes genym bellach ond cyflwyno y deyrnged hon o'n parch i goffadwriaeth un oedd anwyl gan, a llwyr-ymroddedig i'w wlad a'i Dduw, yn y gobaith y bendithir ni sydd ar ol â deuparth o ysbryd rhagorol y tadau a gymerir oddiarnom o bryd i bryd.

JOHN OWEN JONES.

Bronygraig, Llanberis, Awst 1af, 1883.

# CYNWYSIAD.

---


| | TUDAL. |
|---|---|
| At y Darllenwyr ... ... ... ... ... ... | iii., iv. |

## COFIANT.

PENNOD I.

| | |
|---|---|
| Sylwadau Arweiniol ... ... ... ... ... ... | 1 |

PENNOD II.

| | |
|---|---|
| O'i Enedigaeth hyd ei Ymuniad â Chrefydd ... ... | 7 |

PENNOD III.

| | |
|---|---|
| O'i Ymuniad â Chrefydd hyd Ddechreu Pregethu ... ... | 15 |

PENNOD IV.

| | |
|---|---|
| Ei ordeiniad i Waith y Weinidogaeth ... ... ... | 31 |

PENNOD V.

| | |
|---|---|
| Y Deugain Mlynedd Hyn. Rhan I. ... ... ... ... | 43 |

PENNOD VI.

| | |
|---|---|
| Y Deugain Mlynedd Hyn. Rhan II. ... ... ... ... | 54 |

PENNOD VII.

| | |
|---|---|
| Y "Pregethu" a'i Helyntion ... ... ... ... ... | 76 |

PENNOD VIII.

| | |
|---|---|
| Ei Ddydd-lyfr ... ... ... ... ... ... ... | 98 |

PENNOD IX.

TUDAL.
Ei Lythyrau ... ... ... ... ... ... ... 108

PENNOD X.

Byr-nodiadau ... ... ... ... ... ... ... 117

PENNOD XI.

"Ei Ddiwedd" ... ... ... ... ... ... ... 123

PENNOD XII.

"Dyn Duw" ... ... ... ... ... ... ... 133

PENNOD XIII.

Adgofion Cyfoedion a Chydlafurwyr ... ... ... 149

---

TRAETHODAU, &c.

Eglwys Drefnus. Llith Gyntaf ... ... ... ... 166
" " Yr Ail Lith ... ... ... ... 170
" " Y Drydedd Lith ... ... ... ... 175
" " Y Bedwaredd Lith ... ... ... 180
" " Y Bummed Lith ... ... ... ... 185
Eglwys Weithgar. Ysgrif Gyntaf ... ... ... ... 190
" " Yr Ail Ysgrif ... ... ... ... 196
" " Y Drydedd Ysgrif ... ... ... 202
" " Y Bedwaredd Ysgrif ... ... ... 207
Ein Cyfarfodydd Eglwysig ... ... ... ... ... 214
Adgofion am Ddiwygiad Beddgelert ... ... ... ... 223
Adfywiad Crefyddol y Flwyddyn 1832 ... ... ... 237
" " y Blynyddoedd 1839 a 1840 ... ... 244
" " y Flwyddyn 1859. Rhan I. ... ... 252

| | | TUDAL. |
|---|---|---|
| Adfywiad Crefyddol y Flwyddyn 1859. | Rhan II.... ... | 259 |
| " " " " | Rhan III. ... | 268 |
| Cyfarfod Misol Sir Gaernarfon. | Rhan I. ... ... ... | 275 |
| " " " | Rhan II. ... ... ... | 282 |
| " " " | Rhan III. ... ... ... | 288 |
| " " " | Rhan IV. ... ... ... | 294 |

## PREGETHAU.

Crefydd Bersonol ... ... ... ... ... ... 302

Dyro i ni ein bara ... ... ... ... ... ... 308

Caleb ... ... ... ... ... ... ... ... 313

Yr Asen Wyllt ... ... ... ... ... ... ... 319

Y Ddau Lwyddiant ... ... ... ... ... ... 325

## GWELLIANT GWALL.

Yn tudalen 11, llinell 19 o'r gwaelod, darllener "Tynymaes" yn lle "Tanydderwen," gan mai yno yr adeg hono yr oedd y dafarn a fu yn y lle olaf ar ol hyny.

# COFIANT, &c.

## PENNOD I.

### SYLWADAU ARWEINIOL.

*"Gwybodus o synwyr a deall"—Enwogion gwlad a thref—Cymru ac Ysgotland—Waen Gynfi, ei lleoliad a'i hanes—Cyflwr y trigolion—Eu hymdrech am ryddid ac annibyniaeth—Arweinwyr crefyddol yr ardal a'r Sir—Eu dylanwad ar yspryd Mr. Ellis, a'r defnydd rhagorol a wnaeth o'r manteision hyn.*

Y MAE neillduolrwydd hanes a chymeriad gwrthddrych y Cofiant hwn i'w gael yn gryno, ac i fesur yn gyflawn yn ngeiriau HIRAM am SOLOMON, pan y dywed ei fod yn "wybodus o synwyr a deall." Y cyfuniad hapus hwn o'r ddwy elfen anmhrisiadwy yma mewn undeb âg athrylith ddiledryw, wedi eu cysegru yn llwyr i wasanaeth ei Arglwydd, a rydd gyfrif am y safle anrhydeddus a enillodd iddo ei hun, a'r ymdeimlad dwfn o wir golled a brofir yn herwydd ei symudiad oddiwrthym.

Tra mai anfynych, os byth, y ceir y gwybodus o synwyr heb y gwybodus o ddeall, y mae yn digwydd yn aml y ceir yr olaf heb y blaenaf, a'r adeg yma daw y wybodaeth yn allu peryglus, a therfyna, y rhan fynychaf o lawer, yn ninystr ei pherchen. Ond credwn y bydd i'r tudalenau dilynol argyhoeddi pob darllenydd meddylgar ein bod yn mhresenoldeb gŵr o synwyr cryf, yn gystal ag o wybodaeth ëang a chyffredinol.

Y mae genym awdurdod ysprydoledig SOLOMON o blaid y cyfuniad hwn, fel y sicrha ragoriaeth uchel i'w berchen. "Tafod y synwyrol a draetha wybodaeth yn dda;" hefyd, "Calon y synwyrol a ymgais â gwybodaeth." Dyma galon a thafod dan deyrnged y synwyr i ymroddiad cysegredig i'r wybodaeth uchaf, yr hon, o'i thraethu yn iawn, a fendithir gan Dduw er iachawdwriaeth eneidiau.

Ceir fod ei oes wedi ei threulio yn nerth y synwyr hwn. Fel y mae y wenynen yn casglu mêl o flodeuyn i flodeuyn, felly y bu yntau yn amcanu manteisio ar yr holl amgylchiadau y gwelodd Duw yn dda ei osod ynddynt i ychwanegu at ystorfa ei wybodaeth, ac i droi y wybodaeth hon er defnyddioldeb pellach a helaethach dros ei Arglwydd. Yn y cysylltiad hwn, ni a gawn fod hyd yn nod safle ddaearyddol y cwmwd y dygwyd ef i fyny ynddo, sefyllfa wasgedig y trigolion, a neillduolion yr arweinwyr crefyddol a gafodd yn nghychwyniad ei yrfa, yn dyfod yn elfenau

pwysig yn ffurfiad a dadblygiad delweddiad ei feddwl, gan mor gryf ynddo ydoedd y synwyr a fedrai droi bobpeth i'w gynydd mewn gwybodaeth ac ymbarotoad ar gyfer bywyd o weithgarwch crefyddol.

Felly mewn trefn i'r darlun o'r gwrthddrych fod yn gyflawn a chywir, y mae yn angenrheidiol manylu ychydig ar yr amgylchiadau crybwylledig y bu ganddynt y fath ddylanwad ar y ffurf a gymerodd iddo ei hun, ac ar y nôd uchel a osododd i'w fywyd.

Yn nglyn â safle ddaearyddol y cwmwd y magwyd ef o'i fewn, ac yn yr hwn, yn wir, y treuliodd ac yr ymdreuliodd gan mwyaf ei oes faith o ddefnyddioldeb, y mae yn rhaid dyweyd ar y dechreu mai *gwladwr* ydoedd yn ngwir ystyr y gair. "Duw a wnaeth y wlad, ond dynion wnaeth y dref," medd y bardd Cowper, ac yr oedd delwedd y *wlad* yn gyferbyniol i'r *dref* arno ef yn ei amrywiol gysylltiadau. Y mae yn hynod yn nghanol holl debygrwydd Ysgotland i Gymru, tra y mae prif enwogion y flaenaf yn y can' mlynedd diweddaf yn *drefwyr* yn eu haniad, y mae enwogion y ddiweddaf bron yn ddieithriad yn *wladwyr*. Yn y dref, yr ydym yn cael i Dr. Chalmers, Syr David Brewster, Hugh Miller, Robert a William Chambers, Dr. Guthrie, ac eraill o nôd a rhagoriaeth, gael eu geni; ond y wlad a roddodd fôd i John Elias, Williams o'r Wern, Christmas Evans, John Jones, Talysarn, Eben Fardd, Henry Rees, Hiraethog ac eraill, yn Nghymru. Yr oedd yn amlwg hefyd fod a fyno y wlad â ffurf delweddiad meddyliau y rhan fwyaf ohonynt. Pa gyfrif sydd i'w roddi am y gwahaniaeth hwn nis gwyddom; mynegi y peth yn unig fel ffaith ydyw ein hamcan presenol.

Dechreuodd Mr. Ellis ei oes mewn cwmwd a adnabyddir fel Waen Gynfi, y rhan ohoni sydd yn nghŵr uchaf plwyf Llanddeiniolen. Yn ol desgrifiadau cyhoeddedig ohoni,* y mae ei safle ddaearyddol, a chymeryd eglwys Llandinorwig yn safon, oddeutu chwe' milldir a haner o Fangor, mewn cyfeiriad de-ddwyreiniol, ac oddeutu saith milldir o Gaernarfon mewn cyfeiriad dwyreiniol, a cheir fod oddeutu saith milldir drachefn ohoni i ben y Wyddfa mewn cyfeiriad de-ddwyreiniol. Hir-gron ydyw ffurf arwyneb y Waen hon; a cheir fod y tir yn llethru ychydig i'r de a'r de-orllewin. Mawndir a chleidir oer ydyw ei gweryd gan mwyaf; ond mewn rhai manau, cyfarfyddir â choch-bridd rhywiog. Ei chynyrchion tyfiannol naturiol oedd brwyn, eithin, grug, marchwellt, a throellgoryn. Prif gynyrch y tir yn bresenol ydyw

* Gwel "Traethodau Undeb Llenyddol Deiniolen," yn 1868, gan Meistri D. Peris Jones, John Roberts, a J. Hughes, i'r rhai yr ydym fwyaf dyledus am y manylion hyn.

gwair, ac ambell glwt o geirch a phytatws at wasanaeth y trigolion a'u hanifeiliaid. Prif anifail y Waen yn awr ydyw y fuwch, ac ambell fochyn; ond ymddengys mai y ddafad a'r march oedd yn cael mwyaf o sylw y cyn-drigolion, fel y mae enwau y tai a manau eraill yn dangos yn eglur.

Prif afon Waen Gynfi ydyw y Galedffrwd, yr hon a dardda o'r Marchlyn Bach, ac ar ol rhedeg gyrfa mewn cyfeiriad gorllewinol, gan ddilyn godreu yr Elidir, y Braichpoeth, y Foelgron, y Big-gul, a'r Clegir, a ymarllwysa i'r afon Rhyddallt (Groth-allt, mae yn debyg), ychydig islaw Bryn'refail, ar ol teithio o dair i bedair milldir o'i tharddiad. Y mae y Galedffrwd yn derbyn amryw fân-ffrydiau ar ei rhediad, megys afon y Garnedd, gerllaw Corlan y Bont, a'r Afon Goch, gerllaw ffermdy o'r un enw.

Y mae yr esboniadau ar ystyr yr enw "Cynfi" yn ei berthynas â'r Waen hon yn bur amrywiol. Mŷn rhai mai llygriad o "Cynfil" ydyw, ond gadewir ni yn y tywyllwch gan yr esbonwyr hyn am ystyr y gair hwn y dywedir ei fod yn llygriad ohono. Eraill a haerant mai ffurf ddaearyddol y Waen a roddodd iddi yr enw hwn, fel talfyriad o "Gefnhir." Llawer mwy naturiol ydyw yr eglurhad mai llygriad o "Cenfydd" ydyw, am fod y fath amrywiaeth o olygfeydd arddunol, rhamantus, a pherswynol i'w cael oddiarni. Gyda llawer o briodoldeb hefyd yr esbonir yr enw yn "Waen y Cwynfan," am y sicrheir yr ymladdwyd brwydr galed yn y lle rhwng y Cymry a'r Gwyddelod tua diwedd y bedwaredd ganrif. Ond yr eglurhad â mwyaf o naturioldeb a symledd yn perthyn iddo ydyw, mai "Waen Gynefin" ydoedd yr enw cyntefig, oblegid mai lle *cynefin* defaid ydoedd gan mwyaf y pryd hyny.

Yr hyn sydd yn bwysig i'n hamcan ni yn bresenol ydyw, fod safle y Waen hon yn nghanol y fath gasgliad godidog o amrywiaeth golygfeydd na cheir eu tebyg, mewn cylch mor fychan, yn un rhan arall o'r ddaear. Oddiarni, gan fwrw eu hysbwrial i lawr ei hystlysau, ceir chwarelau enwog Caebraichycafn a Dinorwig; uwchlaw iddi, yn nghesail y mynydd, y gorwedd y Marchlyn Mawr a'r Marchlyn Bach, ac odditanodd ymdona yn brydferth lyn Padarn, Llanberis. Ar un llaw y mae Foel Rhiwen a Moel-y-ci yn codi eu hysgwyddau tua'r nen, tra, ar y llaw arall, y ceir yr Elidir a'r Fronllwyd yn ymddyrchafu tua'r nefoedd. Yn y golwg, er ychydig yn mhellach, gwelir Carnedd Ddafydd a Charnedd Llewelyn ar y naill ochr, a'r Wyddfa, brenhines y bryniau, ar yr ochr arall yn ymfawrygu yn ei huchafiaeth ardderchog. Yn ei chymydogaeth y mae *Pass* Llanberis a'i olygfeydd aruthrol, a'r rhaiadr ffrochwyllt sydd yn atdyniad y miloedd i synu at ei ddisgyniad trystfawr.

Yn mhresenoldeb natur fel hyn ar ei heithaf mewn dadblygiad o'i gogoniant, yr agorodd ein gwrthddrych ei lygaid gyntaf ar y byd; ac yn y fath gymdeithas aruchel a gorlawn o farddoniaeth fyw y treuliodd ei holl oes. I un o'i athrylith ef, yn meddu llygad i weled anian, calon i gydymdeimlo âg anian, a gwroldeb a faidd gydfyned âg anian, yr oedd y ffaith o'i eni yn nghanol y fath swynion o brydferthwch a rhamantrwydd, yn meddu dylanwad o'r fath fwyaf pwysig ar ffurf delweddiad ei feddwl.

Ni a gawn hefyd fod cyflwr gwasgedig trigolion y fro-dir hon, yr adeg yma, yn gyfryw ydoedd yn feithriniad i annibyniaeth meddwl ac yspryd i un o synwyr Mr. Ellis. Cafodd ei eni ar adeg yr oedd ei rieni a'u cymydogion yn ymdrechu yn galed yn erbyn gorthrwm a thraws-feddiant tir-feddiannwyr cylchynol o'r rhanau hyny o'r Waen Gynfi oeddynt er cyn cof yn *gommon* agored. Yr oedd yr ymdrechfa hon yn cael ei dwyn yn mlaen er's rhai blynyddoedd, yn ngwaith amryw o'r bobl yn ceisio adeiladu tai ar y *common*, a chau i mewn ranau ohono yn dir llafur a phorfa iddynt eu hunain. Gwrthwynebai y tirfeddiannwyr cylchynol yr amcan hyd at anfon dynion yno i dynu i lawr y muriau a adeiledid. Fel hyn y byddai y gwladwyr cyffredin, tra yn adeiladu âg un llaw, yn gorfod dal arf i ymladd â'r llaw arall. Ymdrechasant yn wrol, a haeddasant well llwyddiant nag a gawsant. Yn mlaenaf yn y gorchwyl hwn yr oedd tad a mam Mr. Ellis, gan y ceir hwy tuag adeg ei enedigaeth yn dechreu adeiladu y Garnedd, a elwir felly oddiwrth y garnedd anferth o geryg mawrion oedd o'i flaen, a thybient fod ganddynt gystal hawl a rhywun arall ar y *common* hwn. Fel hyn yr adrodda Mr. David Peris Jones yr hanes yn ei draethawd crybwylledig, ac yn y prif ffeithiau cytuna y ddau eraill ag ef:—

"Cyn hir wedi yr adeiladu, daeth John Evans, cyfreithiwr o Gaernarfon, yn nghyda llu o wŷr y *pinau*, i fyny i'w chwalu, a mawr fu yr helynt. (Dylid egluro yma mai fel cynrychiolydd T. Assheton Smith, Ysw., o'r Faenol, yr oedd y cyfreithiwr yn gweithredu). Galwyd E. Evans (tad Mr. Ellis) o'r chwarel, a daeth i lawr yn ddioed, a llawer o'r chwarelwyr, ei gyfeillion a'i berthynasau, i'w ganlyn yn llu gwrol a phenderfynol o yru yr aflonyddwyr yr un ffordd ag y daethant gyda cheryg, tyweirch, a llaid, ac felly fu. Baeddwyd yr oll, a chlwyfwyd rhai yn ysgafn; a'r cyntaf ei droed fu yr iachaf ei gefn y pryd hwnw. Dywedir i'r ymddiddan canlynol gymeryd lle rhwng yr hen Farged, Clwtybont, a John Evans, cyfreithiwr, tra yr oedd yn myned heibio ei thŷ yn frysiog am Gaernarfon. 'Wel, wel, Sionyn bach, mae dy gôt di yn fudr, ac yn hyll iawn,' ebai Marged. 'D——l a dy gipio,' ebai yntau yn ddigofus, gan gyflymu yn mlaen am Gaernarfon nerth y carnau. Ond fodd bynag, ni

therfynodd y cweryl yn y fan yna; anfonwyd gwŷr gydag awdurdod cyfreithiol i fyny o Gaernarfon i ddal y troseddwyr, a daliwyd rhai, sef Dafydd Ellis, Minffordd; Richard Jones, Rhydfadog; a Ffoulk Evans, Celyn; a dygwyd hwy i'r carchar i Gaernarfon, lle y buont hyd flwyddyn y Jubili. Diangodd rhai eraill ar ffò, ac yn eu mysg yr oedd Ellis Evans a William Evans, Celyn. Rhoddwyd desgrifiad ohonynt mewn newyddiadur, yn nghyda gorchymyn i'w dal; a chlywais i Ellis Evans, tra yn cerdded ar heol un o drefydd y Deheudir (Abertawe y mae yn ymddangos oedd y dref), gyfarfod â gŵr o ymddangosiad boneddigaidd ar ei farch, yr hwn a alwodd arno wrth ei enw. 'Hei! Ellis Evans,' meddai. 'Holo!' meddai Ellis Evans, gan droi ato, a dywedyd, 'Nis gwn pwy ydych.' 'Na wyddoch, mae'n debyg,' ebai y boneddwr, 'ond mi wn i pwy ydych chwi, canys gwelais ddesgrifiad ohonoch, a gorchymyn i'ch dal, mewn newyddiadur; ond dyma i chwi wers i beidio ateb i'ch enw os gelwir arnoch eto,' ac ymaith ag ef i'w daith. Dywedir fod hen wraig Hafodoleu hefyd wedi cymeryd rhan yn y cweryl hwn, â'i bod wedi dianc gan ofn i ymguddio i ryw hen gwpwrdd, lle y bu am ddeuddydd neu dri yn cael ei phorthi gan rywun, fel Elias gynt gan y cigfrain. Dywedir hefyd fod Sian Williams, y Garnedd, gwraig Ellis Evans, wedi ffoi i ymguddio i ryw ogof yn agos i'r Marchlyn, lle y bu am ddiwrnod neu ddau. Dywed rhai fod y Parch. R. Ellis yn faban bach gyda'i fam y pryd hwnw yn yr ogof; ond dywed eraill, oddiar awdurdod uwch, mi dybiaf, ei fod ef yn cael ei warchod yr adeg hono gan ei daid a'i nain yn y Ceunant, Llanberis."

Y mae sicrwydd, erbyn hyn, nad oedd Sian Williams na'i baban, gwrthddrych y cofiant hwn, ddim yn mhlith y rhai aethant hyd at y Marchlyn, ac nad aeth neb yno i ogof mewn ffoedigaeth. Yr oedd Sian Williams, y pryd hwn, gyda'i baban tri mis oed yn ei breichiau, yn cychwyn o'r Ceunant, Llanberis, i hebrwng ei phriod, Ellis Evans, dros y *Pass* ar ei ffoedigaeth i Merthyr Tydfil. Nid oedd ffordd, nac yn wir un llwybr sathredig ac amlwg drwy y lle yr adeg hono. Heblaw hyny, yr oedd wedi gwlawio nes yr oedd yr afon wedi gorlifo ei glanau, a chydag anhawsder mawr y gallodd Ellis Evans ei chynorthwyo hi a'i baban i groesi tua'r lle y mae Pont y Gromlech yn bresenol. Daeth yr adeg i ymadael â'u gilydd, a rhoddodd Ellis Evans i'w wraig yn union haner yr arian oedd ganddo yn cychwyn i'w daith, sef *haner gini.* Dychwelodd hithau a'i baban i gyfeiriad y Ceunant; ond rhaid oedd croesi yr afon, ac yr oedd hyny yn anhawdd, gan nad oedd modd gan y llifeiriant gadw y sarn oedd yno. Tynodd ei hesgidiau oddiam ei thraed, a thaflodd hwy drosodd o'i blaen, a cherddodd drwodd yn ddyogel.

Ond erbyn cyrhaedd y làn arall, cafodd fod un o'i hesgidiau wedi myned gyda'r llif, a'r haner gini wedi ei cholli yn y fargen. Felly dychwelodd hi a'i baban i'r Ceunant gydag un esgid am ei throed, ac heb ddim arian yn ei phoced at ddechreu ymladd â'r byd yn yr adeg gyfyng hon arni.

Tra y mae y gwladwyr diniwed, ond dewrgalon hyn, yn ymladd am eu hawliau ac yn ymdrechu yn erbyn traha a thrachwant y tir-feddiannwyr, ac yn ymddangos yn enill nerth ac yn gorchfygu, y mae y boneddigion o'r tucefn iddynt yn llwyddo i gael deddf gan y Llywodraeth i gau i mewn y *commons* hyn, a'u rhanu yn ol y gellid cytuno am danynt rhwng yr amrywiol etifeddiaethau oedd yn terfynu arnynt. Yn 1809 y daeth yr *Enclosure*s *Act* i rym, pryd yr anfonwyd dau Ddirprwywr i lawr i ranu y *commons* ac i benderfynu y terfynau. Y mae sylw Mr. Ellis ei hun mewn blynyddoedd diweddarach am y Ddeddf hon yn dangos fel yr oedd adroddiad yr hen bobl am y camwri a'r gorthrwm wedi cynhyrfu ei yspryd, pan y dywed "fod yr *Act* hon y fwyaf gorthrymus ac annheg a basiwyd erioed."

Yn nghanol y cynhyrfiadau hyn y cafodd ei fagu, ac yr oedd clywed yr hanes gan ei rieni a'r cymydogion yn rhwym o fod yn feithriniad i'r annibyniaeth meddwl a'r cariad angerddol at ryddid oedd mor amlwg yn ei nodweddu ar hyd ei oes. Gyda llaw, pa bryd, tybed, y gellir disgwyl cyfiawnder i gael ei le gyda'r meddiant annheg hwn ar y tiroedd hyn, a llawer o'u cyffelyb drwy ein teyrnas? Y mae yn bryd, bellach, i rywun gymeryd y mater i fyny, a chael *returns* o holl diroedd y deyrnas, gyda phob manylion yn nghylch y modd y daeth eu perchenogion i feddiant ohonynt ar y cyntaf, er cael gweled pa faint ohonynt a ddeil oleuni cyfiawnder y bedwar ganrif ar bymtheg er sicrhau eu perchenogaeth.

Y mae a fyno neillduolion yr arweinwyr crefyddol y dygwyd ef i fyny dan eu harolygiaeth â'r neillduolrwydd dull a'r delweddiad meddwl oedd mor nodweddiadol ohono ef ar hyd ei oes. Cafodd bob cymhorth i fod fel efe ei hun, ac nid i efelychu neb arall, gan yr arbenigrwydd hwn oedd yn perthyn i'r rhai y dygid ef i fyny wrth eu traed. Yr oedd yn yr Ysgoldy ac yn sir Gaernarfon gewri yn y dyddiau hyny, a chewri oeddynt yn gallu fforddio cadw eu hunaniaeth gwreiddiol a naturiol, ac eto yn gallu ymgolli mewn cydweithrediad er llwyddiant achos Iesu Grist. Yr oedd cael nodded ac amddiffyniad, yn gystal a bod yn ddisgybl i rai o nôd a gwreiddiolder Robert Roberts, Blaenycae; John Ffoulk, Maesydref; a Robert Evans, y Celyn, a'u cyffelyb yn yr Ysgoldy, yn beth na cheir mohono ond unwaith mewn oesau, ac yr oedd cael bod dan aden gysgodfawr enwogion o safle John Jones, Talysarn; James Hughes,

Lleyn; Michael Roberts, Pwllheli; Daniel Jones, Llandegai, a'u cydweithwyr yn sir Gaernarfon, yn gaffaeliad o'r fath werthfawrocaf i ddyn ieuanc o feddwl pur a phenderfynol, ac o ysbryd ymroddedig fel y mae yn amlwg ydoedd Mr. Ellis yr adeg hon. Cafodd eraill yr un manteision lleol a sirol ag a gafodd yntau; ond o ddiffyg rhywbeth, ni ddaeth pob un a fu yn agored i'r dylanwadau iachusol hyn i fanteisio arnynt fel eu gilydd. Pa fodd bynag, yr oedd y gallu, y ddawn, a'r ymadroddiad ganddo ef; ac oblegid hyny, gwnaeth iawn-ddefnydd o bob dylanwad i gymhwyso ei hun fwy-fwy ar gyfer gwaith mawr ei oes o bregethu Iesu Grist i bechaduriaid. Dysgodd ei athrylith ef i gymeryd iddo ei hun fanteision y fagwraeth grefyddol hon a gafodd heb golli ei hunaniaeth, a'r naturiolder dull ac ysgogiad a berthynai iddo. Cadwodd ei grefydd amlwg ef rhag ymfalchïo yn y gallu a rodded iddo, a'r nodded a'r cysgod a gafodd gan y tadau oeddynt mor feithriniol o'r ddawn i bregethwr yr oeddynt mor graff i'w hadnabod yn y dynion ieuainc a fegid yn eu plith. Bu ei synwyr da yn ddyogelwch iddo, ei wybodaeth ëang yn gymhwysder, a'i grefydd yn goron o ogoniant ar y cwbl, a barai fod yr holl ddylanwadau hyn yn cydweithio i'w lwyddiant yn y cylch o ddefnyddioldeb yr oedd Duw yn amlwg wedi ei fwriadu iddo.

---

## PENNOD II.

### O'I ENEDIGAETH HYD EI YMUNIAD A CHREFYDD.

*Achau a hynodion ei rieni—Ei enedigaeth—Ei arosiad gyda'i daid a'i nain—Cymeriad y ddau—Ei fynediad yn ol at ei rieni—Cyfyngder eu hamgylchiadau—Myned i'r Chwarel—Diwygiad crefyddol a'i ddylanwad ar y plant—Troi allan yn annuwiol—Chwarter o ysgol—Cael blas ar ddarllen—Myned i wrando at yr Annibynwyr—Myned i weithio i Chwarel Caebraichycafn—Cael ei arwain i ffieiddio Annibyniaeth ac i garu Methodistiaeth—Helyntion a dylanwad yr arosiad yn Chwarel y Cae—Yn cael ei feddiannu gan ystyriaethau o ddifrifwch—Yn dechreu gweddïo—Syrthio i gyfeillach Ellis Foulkes—Hanes a nodweddau y cyfaill hwn—Gadael Chwarel y Cae, a chael gwaith yn Chwarel Dinorwig—Trallod am ei gyflwr—Myned i'r Seiat am y tro cyntaf—Ei dderbyniad yn gyflawn aelod—Ei ddarlun ef ohono ei hun.*

---

Yn nechreu yr ymgais diweddaf a wnaeth Mr. Ellis i ysgrifenu hanes ei fywyd, dywed:—"Rhoddais lawer cynyg ar hyn; i ba beth nis gwn: ond gwnaf un cynyg eto." Y cwbl amcenir genym yn yr hanes hwn ydyw casglu y ffeithiau a'r sylwadau o'i eiddo yn yr

amrywiol adroddiadau, a'u corphori yn nghyd i wneyd yr hanes cyflawnaf ganddo ef am dano ei hun.

"Robert Ellis ydyw fy enw, ond'yn ol enw fy nhad, Robert Ellis Evans. Mab ydoedd Ellis Evans, fy nhad, i Evan Sion Ffowc a Margaret Rowland, Celynisaf, Llanddeiniolen. Yr oedd fy nhaid yn fab i Sion Ffowc, y gwehydd, o'r un lle, a fy nain, Margaret Rowland, yn ferch i Rowland Owen, Brynderw, a Choch-hir yn niwedd ei oes. Fel y mae i bob teulu ryw linellau arbenig yn eu cymeriad, a'r llinellau hyny yn dilyn o dad i fab, felly y mae i deulu y Celyn eu hynodrwydd. Tylwyth o bobl blaen, cywir, diweniaeth, dilol, diymffrost, gelynion calon i bob ffuantrwydd, gair byr, a hwnw heb fod bob amser yn fwyn, rhywbeth yn ddu a chwta, ac yn tynu at fod yn anhyblyg, oedd y teulu hwn, yn ol fel y cydnabyddid hwy yn eu hoes. Wrth feddwl am danynt mewn blynyddoedd dilynol, a sylwi ar eu rhagoriaethau a'u diffygion, yr wyf yn cael fy arwain i edrych arnynt, yn nghanol eu holl ragoriaethau, yn ddiffygiol yn yr hyn sydd anhebgorol werthfawr fel cymhwysder i fagu plant, am y tueddai fod gormod o bellder rhyngddynt—y tad yn ormod o feistr, a hyny yn meithrin yn y plant fwy o ofn gwasaidd nag o hyfdra mabaidd. Mae prif hynodion teuluaidd y taid weithiau yn colli yn y mab, ond yn dyfod i'r golwg yn eu holl rym drachefn yn yr ŵyr.

"Fy mam oedd Jane Williams, merch William Morris ac Elspath Michael, Ceunant, Llanberis. Yr oedd hi yn hollol wahanol o ran tymher ac ysprydiaeth i fy nhad. Tueddai i fod yn wyllt ei thymher, yn meddu bywiogrwydd a phenderfyniad yspryd. Yr oedd wedi ei throi i'r byd fel yr asen wyllt, ond meddai synwyr naturiol o'r fath gryfaf, ac edrychid tuag ati yn ei hardal fel cyfuniad o nerth, gwroldeb, a rhagoriaeth doethineb. O'r ddau deulu hyn y'm hanwyd, ond rhywfodd, collais hynodion y naill a'r llall. Yr wyf yn hynaf o wyth o blant, ac y mae i mi bedwar o frodyr a thair o chwiorydd.

"Fe'm ganed yn Celynisaf, Llanddeiniolen, ar y 12fed dydd o Ragfyr, 1808, ac fe'm bedyddiwyd gan ryw offeiriad yn Eglwys Blwyfol Llanddeiniolen. Tuag adeg fy ngenedigaeth, darfu i'm rhieni adeiladu tŷ ar y *common* yn Ngwaen Gynfi, a'i alw y Garnedd, tua thri chwarter milldir o bellder o'r Celynisaf, ac yr ydym, yn y bennod flaenorol, wedi manylu ar yr anhawsderau a gawsant yn y gwaith. Pan yn ddwy flwydd oed, cymerodd fy nhaid a fy nain fi atynt i'r Celynisaf, ac yno y bu'm nes yr oeddwn yn saith mlwydd oed. Hen ŵr cywir a phlaen ydoedd fy nhaid, a hollol glir oddiwrth bob cymhendod. Yr oedd yn hoff o'r ddiod, ac yn Eglwyswr selog o'r hen stamp. Elai i'r Llan bob Sul, a gofalai

fyned yno yn ddigon buan, er mwyn cael rhan o'r ymgom o dan yr hen goeden ywen o flaen drws yr Eglwys, lle y byddai yr hen frawdoliaeth Eglwysaidd yn cyfarfod, os byddai yr hîn yn caniatau, i drin helynt y byd a'r amseroedd, pawb a phobpeth yn ei dro. Tybiai y frawdoliaeth hon, a fy nhaid, wrth gwrs, yr un modd, nad oedd y Pengryniaid oedd y pryd hwn yn dechreu aflonyddu yr ardaloedd a'u hen arferion difyrus, ond sismaticiaid melldigedig a rhagrithiol; ac edrychai fy nhaid yn bur ddirmygus ar ryw gwt o gapel bychan oedd newydd ei godi yn lled agos i'r Celyn, *Yr Ysgoldy*.

"Yr oedd fy nain, o'r tu arall, yn hen wraig ddarllengar a meddylgar. Dechreuodd yn gynar wrando ar y Methodistiaid; ac yn fuan ar ol sefydlu eglwys yn yr Ysgoldy, ymunodd â'r ychydig gyfeillion yno. Yr oedd fy nhaid yn ddigon boddlawn iddi i fyned yno i wrando, ond yn ei fyw nis gallai ddirnad beth oedd amcan y cyfarfod eglwysig. Yr oedd yn methu gwneyd dim o hwnw. Cofus genyf ei glywed yn dyweyd wrth fy nain unwaith mewn tymher chwerw, 'Ti gei ddarllen, a gweddïo, a chanu yn y fan yma (y tŷ), a pha beth arall ar wyneb y ddaear sydd arnat eisiau.' Ond glynu yn ei phroffes wnaeth fy nain. Darfu i'w chynghorion a'i haddysgiadau adael argraff dda ar fy meddwl am hir amser. Cefais fagwraeth dyner, a dichon ormod o foethau, gan fy nhaid a fy nain. Yr un pryd, cychwyn sâl i mi fu hyn, am y gwnaeth y gormod moethau a'r gordynerwch fwy o ddrwg nag o dda i mi. Bid a fo, rhai sâl i fagu plant ydyw taid a nain. Eto, parodd i'r hyfforddiant crefyddol a gefais, yn enwedig gan fy nain, fod arnaf ofn pechu yn erbyn Duw er pan ydwyf yn gallu cofio dim.

"Ar ol marw fy nhaid, pan oeddwn tua saith mlwydd oed, symudais o'r Celyn isaf at fy rhieni i'r Garnedd. Yr oedd fy nhad yn ddyn crefyddol, ac wedi ymuno â'r eglwys Fethodistaidd yn yr Ysgoldy, ond fy mam y pryd hwnw oedd ddigrefydd; ond darfu iddi hithau ildio yn mhen blynyddoedd, a bu yn ffyddlawn ac yn ymroddedig i'r achos goreu yn yr Ysgoldy a Chefnywaen, hyd ei marwolaeth yn y flwyddyn 1874. Yr oedd fy rhieni y pryd hwn yn llawn helbul, yn magu y plant, yn cau y tyddyn, ac yn ceisio trin ei lanerchau. Profent yr adeg hono beth oedd prinder pobpeth, prinder arian, prinder dillad, a phrinder bwyd; a bu raid i minau gymeryd fy rhan o'r blinfyd, ac mor fawr oedd y cyfnewidiad arnaf o lawnder y Celyn i brinder y Garnedd. Ond nid oedd helbul fy rhieni ond peth yr oedd cannoedd yn yr ardaloedd hyn yn ei brofi y blynyddoedd yma a'r rhai dilynol; gwario yr holl enill a wnaent yn y chwarel, a rhagor yn aml, i adeiladu tŷ, cau tyddyn o'r mynydd, a llafurio yn ddybryd, yn hwyr ac yn foreu, i barotoi hwnw yn lle i gadw dwy neu dair o wartheg; ac felly digwyddodd

lawer gwaith gweithio yr einioes allan cyn gorphen y dasg, a'r boneddigion o'r diwedd yn meddiannu y cwbl. Yn fy marn i, nid oedd meddianniad y Faenol o'r tiroedd hyn ond lladrad, er ei fod yn cael ei wneyd o dan nawdd yr *Enclosures Act*, sydd hollol annheg, afresymol, anonest, o ran egwyddor ac ymarferiad. Mae barn i fod am hyn.

"Yn raddol, pa fodd bynag, gwellhaodd amgylchiadau fy rhieni, a daeth haul ar fryn. Pan yn wyth mlwydd oed, dechreuais fyned gyda'm tad i'r chwarel, ond nid yn gwbl gyson nes yr oeddwn yn ddeuddeg oed. Tua naw mlwydd oed oeddwn, mi debygaf, pan y cymerodd yr adfywiad crefyddol grymus hwnw le, a adnabyddir wrth yr enw 'Diwygiad mawr Beddgelert,' am mai yn Meddgelert y dechreuodd, ac yno hefyd y dywedir y bu fwyaf nerthol. Yr oedd yr adfywiad hwn yn effeithio yn rymus iawn ar blant, ac felly yr oeddwn inau yn un o 'blant y diwygiad;' ond fel yr oerodd y Diwygiad, fe gollodd y dylanwad oddiarnaf fi, fel oddiar lawer, yn llwyr, ac erbyn cyrhaedd deuddeng mlwydd oed yr oeddwn yn fachgen mor annuwiol a digrefydd a nemawr i fachgen yn yr holl ardal. Rhyw fachgen diofal oeddwn, ac eto yn llawn o ryw ferw parhaus. Un annyben oeddwn yn dysgu, ac annyben yn deall pobpeth. Yr oeddwn yn llawn awydd i fod yn ben y gamp fel bechgyn eraill, ond yn rhy lwfr o yspryd, yn rhy lwfr hyd yn nod i ollwng ergyd o wn, nac i fyned dros fy mhen i'r dwfr wrth ymdrochi. Llinell ddofn yn fy nghymeriad ar hyd fy oes fu *llwfrdra*, a thrugaredd fawr i mi fu hyny.

"Pan yn bedair blwydd ar ddeg oed, cefais chwarter o ysgol ddyddiol gyda hen athraw o'r enw Hugh Lloyd, lle y cefais gychwyn ar ddysgu ysgrifenu. Nid oedd yn y Garnedd, fy nghartref, y pryd yma yr un llyfr ond y Beibl ac Esboniad Samuel Clarke. Yn fuan, pa fodd bynag, dechreuais sylwi ar lyfrau, a chyn bod yn ddeunaw mlwydd oed, yr oedd genyf ryw dri neu bedwar o lyfrau yn fy meddiant fy hun, a benthyciwn gynifer ag y cawn afael arnynt, llyfrau hanesyddol fyddent gan mwyaf. Yr oeddwn hefyd yn ddarllenydd diwyd ar hanesiaeth Ysgrythyrol. Rywbryd, pan tuag un neu ddwy flwydd ar bymtheg oed, arferwn wrando ar yr Annibynwyr yn nghapel Ebenezer, a hyny oherwydd mai yno y disgynai y lluaws pobl ieuainc, gwylltion, yr ymdrown fwyaf yn eu mysg. Yr oeddwn y pryd yma yn fachgen ieuanc caled, hollol ddiofn Duw, a dibarch i'w ddydd a'i bobl. Bu cyfeillachu â'r ieuenctyd a arferent fynychu y lle hwnw yn felldith ofnadwy i mi. Pe buaswn o feddwl mwy gwrol, buaswn yn gampwr mewn pob annuwioldeb. Melldith ofnadwy i blant ydyw bod eu rhieni yn eu gollwng yn rhydd ar y Sabboth i fyned lle y mynont. Cefais

brawf poenus o hyn yn fy hanes fy hun. Yn nghanol y caledrwydd, yr anystyriaeth a'r annghrefydd i gyd, yr oedd cydwybod genyf, a byddai gan hono rywbeth i'w ddyweyd pan gaffai gyfleusdra.

"Tua'r flwyddyn 1826, a mi yn ddeunaw mlwydd oed, aethum i weithio i chwarel Caebraichycafn, yn ochr Bethesda i Waen Gynfi, lle oedd oddeutu tair milldir o'r Garnedd. Aethum i letya i Dai'r Mynydd. Yr oedd yr hen ŵr a'r hen wraig yr aroswn dan eu cronglwyd yn aelodau gyda'r Annibynwyr. Yr oedd rhywbeth yn grefyddol iawn hefyd yn yr hen ŵr, ond lled ganolig yn yr ystyr yma oedd yr hen wraig. Perthynai i'r teulu hefyd ddwy ferch, mab-yn-nghyfraith, a thri neu bedwar o letywyr. Yr oeddym yn deulu digon digrefydd, a byddai yr ymddiddanion teuluaidd yn gyffredin yn rhywbeth gwaeth na diles. Yr oedd y teulu oll yn dwyn cryn sel dros Annibyniaeth, ac yn elynion calon i Fethodistiaeth. Byddai pobpeth Methodistaidd yn anghymeradwy ganddynt. Yr oedd yn ddiareb yn y teulu os byddai rhywun gwaeth na'i gilydd, 'Yr oedd yn eithaf Methodist.' Parodd eu hymddiddanion cableddus i mi ffieiddio yr Annibynwyr a phobpeth a berthynai iddynt yr adeg hono, a bu'm yn bur hir heb ymgymodi. Parodd hyn i mi ddychwelyd yn ol i wrando y Methodsitiaid. Arosais i weithio yn Chwarel y Cae tua dwy flynedd, gan letya yn y teulu hwn yr holl amser. Bu y ddwy flynedd hyn yn dymhor hollol ddigrefydd ac annuwiol arnaf, yn fwy felly nag un adeg ar fy oes; eto, nis gallwn yn fy myw ymroddi i bechod fel rhai o'm cyfoedion. Rhyw unwaith y darfu i mi feddwi, a hyny yn nhafarndy Tan-y-dderwen, rhwng Tynymaes a Bethesda, yr hwn oedd yn gyrchfan chwarelwyr y Cae yr adeg yma. Yr oedd yn rhy dda genyf arian i'w rhoddi am ddiodydd meddwol. Nis gallwn fod yn ddigon hyf i 'redeg i ferched,' fel y dywedir. Bu'm yn gryn *regwr* unwaith. Darfu i mi un tro ollwng cawod o regfeydd am ben rhyw ddyn yn y chwarel am rywbeth. Yr oedd y dyn yn Gristion diniwed. Ar ol i'r ffit wyllt fyned trosodd, daeth y dyn ataf, a dywedodd wrthyf yn bur ddifrifol am fy ymddygiad ffol, gan apelio at fy nghydwybod. Ond y parch a gafodd am ei rybudd caredig oedd cael ei regi drachefn, a diau iddo feddwl y buasai yn well ei fod wedi tewi. Cafodd ei rybudd y fath argraff ar fy meddwl fel nad wyf yn cofio i mi regi byth ar ol hyny."

Yn mis Gorphenaf, 1827, ysgrifena mewn dyddlyfr: "Dyma y mis cyntaf i mi i dalu am fy mwyd. Yr wyf yn y Cae gyda W. Dafydd. Derbyniais y mis hwn £2 3s. 0c.;" a blwyddyn a haner yn flaenorol, yn mhlith pethau eraill, dywed, "Myned adref am ddeuddeg o'r gloch, ac i dŷ E. J., y gwehydd, at y cwmni llawen. Ysmocio yno nes myned yn sâl iawn. I'r Celyn at fy nain. Yr oeddwn yn

sâl. Yr oeddwn y pryd hwn yn hollol lân oddiwrth bob teimlad Cristionogol." Ar gyfer diwrnod arall tua'r un adeg, cawn yn ei ddyddlyfr, Chwef. 8fed, 1826: "Ysgrifenu llyfr cynghorion John y *Sgwl.*" Yn y flwyddyn 1827, ysgrifena: "Y cyfarfod chwechwythnosol cyntaf y bum ynddo, a gynnaliwyd yn yr Ysgoldy. Yr oedd yno luaws o bobl, a chwyno mawr oherwydd gwylltineb yr ieuenctyd; ac yn herwydd bod balchder, anlladrwydd, a meddwdod yn bechodau penuchel iawn. Gofid meddwl fod bechgyn o ddeg i bymtheg oed yn heidio i'r tafarndai. Dywedodd Robert Roberts ei fod yn cofio y gwaith (Chwarel Dinorwig) am fwy na deng mlynedd heb na llŵ na rheg i'w glywed gan neb o'i mewn; ond nid felly yn awr."

"Yn yr adeg wyllt hon arnaf, byddai rhyw ystyriaethau difrifol yn galw heibio y meddwl yn awr a phryd arall. Mewn adeg yr oedd llawer iawn o ddamweiniau angeuol yn cymeryd lle yn y chwarel, llanwyd fy meddwl â'r fath fraw, fel y meiddiais geisio gweddïo. Byddwn yn arfer *dywedyd* fy mhader bob amser, ond yn awr ceisiais ei *weddïo.* Awn drosto fwy nag unwaith, gan geisio gwthio fy enaid i mewn i'w erfyniadau. Ond rhyw noswaith, mi gofiaf yn dda am dani, yr aethum dros ei erchwyn i geisio rhoddi rhyw ddarn ato. Dechreuais wrando gyda mwy o ddyfalwch y pryd hwn, a dilyn yr Ysgol Sabbothol gyda mwy o gysondeb. Syrthiais i gyfeillach Ellis Foulkes, yr hwn oedd o duedd mwy difrifol na mi; a bu yr undeb cyfeillgar, yr ymddiddanion crefyddol a fu rhyngom, o fendith annhraethadwy i mi. Glynodd fy enaid wrth y cyfaill hwn fel y glynodd yr eiddo Jonathan wrth Dafydd. Yr oedd Ellis Foulkes yn ieuengach na mi o fwy na thair blynedd. Yr oedd yn ddyn ieuanc call, meddylgar, a gwyliadwrus. Nid oedd genym neb arall o gyffelyb feddwl i ymrwbio ynddynt. Ciliem ni ein dau oddiwrth bob bechgyn digrefydd, a chilient hwythau oddiwrthym ninau. Nid oedd ond ychydig iawn o fechgyn ieuainc crefyddol i'w cael yn yr ardaloedd hyn ar y pryd, a'r ychydig hyny â phellder mawr rhyngddynt a phobl ieuainc digrefydd.

"Ein prif bleser ein dau yr adeg hon ydoedd ymddiddanion crefyddol, darllen, cyfarfodydd crefyddol, son am bregethau, a rhedeg yma ac acw i wrando pregethau. Nid oedd y llygredigaeth oedd yn y byd drwy drachwant yn un brofedigaeth i ni, ac nid oedd ein natur lygredig yn cael un fantais i'n blino. Ond cawsom lawer profiad chwerw ar ol hyn fod 'yr hen ddyn' a'i chwantau yn llawn a chryf ynom ni fel eraill. Yr oeddym ar y pryd yn *dduwiol iawn.* Bron yn *rhy dduwiol!*

"Yr oedd gan Ellis Foulkes un fantais neillduol arnaf fi. Yr oedd

efe yn naturiol yn ddyn ieuanc penderfynol, fel mai unwaith y penderfynai rywbeth yn ei feddwl, fe'i gweithiai allan trwy y tew a'r teneu. Yr oeddwn inau yn anwadal, yn ansafadwy fel dwfr. Pe buaswn mor benderfynol a'm cyfaill, nis gwn pa le y buaswn erbyn hyn. Ni buaswn yn y gynffon, bid a fo. Yr ymollwng hwn fu yn wendid ynwyf ar hyd fy oes. Gwnaeth fy nghalon ddrwg a'r diafol ffŵl ohonof lawer canwaith. Gwahaniaeth arall rhyngom o natur bwysig ydoedd, tra y byddai Ellis bob amser yn bwyllog a hunanfeddiannol, byddwn inau yn wastad yn sydyn a byrbwyll. Costiodd hyny i mi, druan, beth wmbreth o drallodau. Arferai Sion Ffoulk, yr hen flaenor, ddyweyd am danaf fod 'Robert yn dueddol iawn i fyned oddiar y *rail* (yr haiarn yn iaith y chwarelwyr), ond y mae un gamp dda arno, y mae yn bur hawdd ei gael ar y *rail* yn ol.'

"Pan yn agos i ugain mlwydd oed, cefais, yn mhlith cannoedd eraill, fy nhroi ymaith o chwarel Caebraichycafn, ac felly collais ar unwaith y cymdeithion llygredig yr ochr hono i'r mynydd a fuont mor niweidiol i mi yn flaenorol i hyn. Yr oedd cryn lawer o gyfoedion yn lletya yn yr un gymydogaeth, ac yr oeddym yn llygru llawer ar ein gilydd, fel y mae yn naturiol i bobl ieuainc wneyd. Ond y pryd yma, fe'n chwalwyd gyda'r pedwar gwynt—rhai i bob man. Yr oedd y tro i mi, yr adeg hono, yn un profedigaethus, canys bu'm am dymhor yn methu a chael gwaith yn un man. Tro bendithiol fu i mi er hyny, am y collais ar unwaith ac am byth fy holl gymdeithion llygredig. Bu bod am dymhor heb waith hefyd yn foddion i ddofi a sobri llawer ar fy meddwl, ac i ddwyn fy sylw yn fwy at grefydd a'i phethau. Tra y bu'm allan o waith, cefais un mis o ysgol yn Nghaernarfon, a gynhelid y pryd hyny mewn lle a elwid Plas-mawr, gydag un o'r enw Mr. Davies fel athraw; ond dysgwr sâl oeddwn bob amser.

"Cyn hir, bu Mr. Griffith Ellis, goruchwyliwr chwarel Mr. Smith, mor dirion a gadael i mi, trwy eiriolaeth fy nhad, gael gwaith yn Chwarel Dinorwig. Gweithiwn yno mewn lle o'r enw 'Chwarel Sion Morgan:' lle newydd ydoedd. Ond yr oedd y gweithwyr oll y pryd hyny yn ddynion cwbl ddigrefydd, oddieithr un; a byddai yr ymddiddanion yn annuwiol, ac yn fynych yn gableddus. Eto, er yr holl ddylanwadau anffafriol, yr oedd yr argraffiadau crefyddol yn dyfnhau yn fy meddwl, a gwrando pregethau, darllen, &c., yn dyfod fwy-fwy fy mhrif ddifyrwch.

"Ymunodd fy nghyfaill a'm cefnder, Ellis Foulkes, â'r eglwys yn nghapel yr Ysgoldy. Taflodd hyny fi i fwy o drallod nag o'r blaen, ac yn mhen ychydig fisoedd ar ei ol yn y flwyddyn 1828, a mi yn llanc ieuanc ugain mlwydd oed, troais inau fy wyneb i'r un man. Mi gofiaf y *seiat* gyntaf am byth. Nos Lun cyntaf o'r mis oedd y

noson hono, ac felly yr oedd cyfarfod gweddi cenhadol o flaen y cyfarfod eglwysig. Yr oedd hyn yn fantais nid bychan i'r gwan. Dydd Llun mawr i mi oedd y dydd Llun hwnw. Diwrnod o bryder, o ofn, ac o weddïo. Aethum i'r capel y noson hono ar hyd llwybr anghyfanedd, a llawer gwaith y bu'm ar fy ngliniau yn ceisio gweddïo. Ar ol y cyfarfod gweddi, arosais yn fy *sêt*, ac yr oeddwn yn crynu bob modfedd ohonof. Ond dyma y cyfeillion yn fy ngweled ac yn fy ngalw gerbron, gan ddechreu fy holi. Nid oedd genyf, pa fodd bynag, fawr i'w ddyweyd wrthynt y noson hono. Coffa da am danynt hefyd, yr oeddynt yn bur dirion ac ymgeleddol ohonof. Yr oedd ohonom y pryd hwnw rhyw bump neu chwech o bobl ieuainc yn perthyn i'r eglwys yn yr Ysgoldy, ac yr oeddym yn *frodyr* mewn gwirionedd. Yr oedd gwir grefydd yn beth pwysig genym. Yr oeddym yn cadw yn glir â, ac yn mhell oddiwrth, arferion y byd, a'n cyfoedion ieuainc annuwiol yn ein dirmygu o'r herwydd, ac yn cilio oddiwrthym." Ni chadwyd ef yn hir yn yr eglwys heb ei dderbyn yn gyflawn aelod, oblegid yn ei ddyddlyfr am Mawrth 7fed, 1829, ysgrifena: "Nos Sadwrn bwysig oedd hon i mi. *Seiat* yn yr Ysgoldy! Daniel Jones yno yn ei chadw. Derbyniwyd fi i'r ordinhad. Dywedais fy mhrofiad fel y gallwn. Yr oedd arnaf ofn mawr. Yn yr un *seiat* derbyniwyd hefyd Ellis Foulkes, Daniel Pritchard, a Catherine Mathew." Am dranoeth, yr 8fed, ychwanega: "Daniel Jones yn cyfranu. Derbyniais y sacrament am y tro cyntaf. Braint fawr. Yr wyf yn ofni nas gwelais yn mhellach na'r elfenau."

Dygir y bennod hon i derfyniad gyda'r desgrifiad ohono ei hunan tua'r adeg hon, er y teimlwn ei fod yn mhell o fod yn deg a chyfiawn tuag ato ei hunan, am fod gogwyddiad ei feddwl yn nglŷn âg ef yn bersonol yn wastad tua'r ochr anffafriol. Yr un pryd, ceir yn y darlun rhyw adlewyrchiad o'r fel yr oedd ef yn ymddangos iddo ei hunan yn y cyfnod gwir bwysig hwn yn ei hanes. "Nis gallaf gael darlun gwell ohonof fy hun nag a ddywedir am Reuben, 'Ansefydlog oeddit fel dwfr, am hyny ni ragori.' Dim yn fawr, dim yn wreiddiol; arwynebol, byrbwyll, sydyn; dim yn ddichellgar; gormod o dân, hawdd troi; dim blas ar weniaeth; gwneis lawer o addunedau, llawer o benderfyniadau. Pe cadwaswn at bob penderfyniad a wnaethum, buaswn yn rhywbeth erbyn hyn. Dechreuwn ar rywbeth yn boeth ulw heddyw, ond erbyn yfory byddwn wedi oeri. Y mae fy nhymher anwadal yn peri fy mod ar hyd fy oes fel y plant yn chwareu sigl-denyn, o'r naill bared i'r llall; felly finau, o'r naill eithaf i'r llall. Y canlyniad ydyw, nid oes dim wedi ei orchfygu, ni ragorir mewn dim. Creadur *amgylchiadau* ydwyf yn hytrach na chreadur *syniadau*—y dymher

yn llywio yn amlach na'r farn. Llong hwyliau i forio wrth y gwynt ydwyf, yn hytrach na'r *steamer*, i fyned yn mlaen wrth nerth ei pheiriant mewnol. Eto, y mae i'm cymeriad inau ryw fanteision. Wrth fod bob amser yn ofni y gwaethaf, byddaf ar hyd fy oes yn cael fy siomi yr ochr oreu. Byddaf bob amser mewn pryder, a'r rhan amlaf o lawer mewn prudd-der. Nis gall neb feddwl yn îs ohonwyf nag y byddaf yn meddwl ohonwyf fy hun. Y mae yma uchelgais, ond heb ddim asgwrn cefn, ac felly yn wan. Mae sydynrwydd fy nhymher wedi rhoddi i mi lawer iawn o boen erioed. Milwaith yr archollais fy hun â dywediad byrbwyll, ac yn gystal a hyny âg ymddygiad byrbwyll. Os digwydd i mi beri poen i rywun arall, bydd deall hyny yn sicr o beri poen i minau. Gallaf ddigio, ond nis gallaf ddal dig. Gwnaethum beth un diwrnod yr oedd yn edifar iawn genyf fod wedi ei wneyd erbyn dranoeth, ond tradwy y mae yn dda genyf nas gallaswn yn fy edifeirwch mo'i ddadwneyd. Dyma fy helynt. Bob amser byddaf mewn rhyfel â mi fy hun, ond byth yn gorchfygu. Am na fuaswn wedi gweithredu wrth reol, yr wyf, er ffwdanu ar hyd fy oes, heb weithredu i nemawr bwrpas. *Ansafadwy, ni ragori.*" Dengys hyn yn ddiddadl na allasai neb ei drin yn fwy gerwin, os nad, yn wir, yn fwy creulawn, nag yr arferai fod tuag ato ei hun. Y mae y darlun hwn ganddo ef ei hun, i'r rhai a'i hadnabyddent oreu yn ei fywyd, yn sicr o gael edrych arno yn hollol gywir fel ei syniad ef am dano ei hun, ond yn rhy dywyll, digalon, a phruddaidd i fod yn ddarlun cywir ohono fel yr oedd ei gyfoedion a'i gydoeswyr yn ei weled ac yn ei ddeall.

---

## PENNOD III.

### O'I YMUNIAD A CHREFYDD HYD DDECHREU PREGETHU.

*Dylanwadau ffafriol i'w lwyddiant crefyddol—Ellis Foulkes ac yntau yn parotoi ar gyfer bywyd o ddefnyddioldeb—Yr addoliad teuluaidd—Myned i'r ysgol i Wrexham—Ei hanes a'i deimladau tra yn yr ysgol—Myned o'r ysgol i Lerpwl i geisio gwaith—Dychwelyd adref yn siomedig—Awydd myned yn genhadwr—Meithriniad yr awydd—Ail-ymaflyd yn ei waith yn y chwarel—Y ddamwain a'i heffeithiau arno—Marwolaeth ei dad—Hyny yn peri i'r awydd cenhadol farweiddio—Yr awydd drachefn yn adfywio—Y llythyrau yn y 'Drysorfa'—Rhoddi i fyny y bwriad—Meddwl dechreu pregethu—Ellis Foulkes ac yntau yn hysbysu eu bwriad i'r blaenoriaid—Y ddwy bregeth gyntaf—Crynodeb ohonynt.*

---

Yr ydym yn cael i'n gwrthddrych fod yn dra ffodus yn yr adeg yn gystal ag yn y man yr ymunodd â chrefydd, oblegid cafodd nifer o

gyfeillion ieuainc o gyffelyb feddwl difrifol a chrefyddol, a chafodd yn yr un lle nifer o henafgwyr oeddynt gewri mewn crefydd yr adeg hon yn sir Gaernarfon, gan y rhai y cafodd ef a'i gyd-ieuenctyd yr addysg oreu a'r feithriniaeth fwyaf gwerthfawr. Cawsant eu dwyn i fyny o dan gysgod eu hadenydd, ac ar yr un pryd eu dysgu ganddynt i lwyr-ymgysegriad i waith crefydd fel amcan uchaf bywyd. Yr oedd yr hen bobl dda hyn yn feithrinwyr diail, a'r dynion ieuainc yn tyfu i fyny yn gedrwydd cryfion o dan eu harolygiaeth. Ond y ddau gefnder, Ellis Foulkes a Robert Ellis, oeddynt y ddau a mwyaf o arwyddion amlwg arnynt i lanw cylch pwysig yn ngwinllan eu Harglwydd. Ymddengys fod y ddau wedi ymgolli mewn crefydd o'r dechreu, ac wedi ymaflyd o ddifrif yn ei gwaith ar unwaith. Fel hyn yr ysgrifena Mr. Ellis am yr adeg hon:—"Yr oedd ein meddyliau ar y pryd yn ddifrifol iawn, a dylanwad pethau crefyddol ar ein teimladau yn ddwys. Rhedeg i bob man i wrando pregethau fyddai ein prif hoffder. Yr oedd ychydig wyr ieuainc eraill yn perthyn i eglwys Ysgoldy o gyffelyb feddwl. Yr oeddym, mewn gwirionedd, yn cydffurfio â gorchymyn yr Apostol Paul i Timotheus, 'Chwantau ieuenctyd, ffo oddiwrthynt, a dilyn gyfiawnder, ffydd, cariad, tangnefedd, gyda'r rhai sydd yn galw ar yr Arglwydd o galon bur.' Dyna'r fath rai oeddym ninau y pryd yma. Cefais i ac Ellis Foulkes, fel dynion ieuainc, bob chwareu teg gan hen flaenoriaid Ysgoldy i ddyfod rhagom. Rhoddent ni yn y tresi, ac ni roddent arnom i dynu yn rhy galed. Cynghorent a dysgent ni fel eu plant. Yr oedd fy nghefnder o nodwedd fwy gochelgar, ac yn fwy hen ffasiwn na mi, ac felly yn pasio yn well gyda'r hen bobl. Yr oeddwn inau drachefn o dymer sydyn, yn anwyliadwrus a byrbwyll, a chostiodd hyny i mi beth mawr o ofidiau. Canwaith y rhoddais fy 'nhroed ynddi.' Ond wrth archolli teimladau eraill, archollwn lawer mwy ar fy nheimladau fy hun. Costiodd byrbwylldra i mi golli llawer o gysgu.

'Gwnes addunedau fil,
I gadw'r llwybr cul,
Ond methu'r wyf.'"

Nid ydyw yn rhoddi i ni lawer o fanylion ei hanes yn y tymhor hwn, ond ymddengys fod yr adeg wedi ei threulio mewn parotoad i waith mewn darllen ac astudio, mewn ymchwiliad dibaid am addysg, ac mewn ymrysonfa galed âg yspryd ac awyddfryd cenhadol. Treuliai ei nosweithiau naill ai yn y capel neu gartref gyda'i lyfr, a byddai efe a'i gefnder, Ellis Foulkes, yn treulio llawer iawn o amser y pryd yma i gyd-ddarllen a chydfyfyrio, gan awchlymu eu meddyliau yn y gwirioneddau a fyddont dan sylw

ag ymddiddanion, os nad hefyd raddau o ddadleuaeth yn eu cylch. Fel hyn, darfu iddynt ystorio y meddwl i fyny â gwybodaeth werthfawr, ac arferyd eu hunain i gwrs o astudiaeth a disgyblaeth a fu yn anmhrisiadwy iddynt yn eu hoes o ddefnyddioldeb ar ol hyny. Dywed mai un o'r tasgau anhawddaf oll a brofodd yn nglŷn â gwaith crefydd oedd dechreu ymaflyd yn yr addoliad teuluaidd. "Yr oedd fy nhad wedi fy nghymhell at hyn droion, a minau yn gwrthod, a mawr oedd fy mlinder o'r herwydd. Ond un boreu gwaith, tra yr oedd fy rhieni heb gyfodi, a minau yn cael y gegin yn y tŷ i mi fy hun, mentrais, deued a ddelo; darllenais bennod o'r Beibl a gweddïais yn uchel, a chefais yr un cyfle i wneyd hyny am ddau foreu drachefn, a gorchfygais. Bu hyn pan oeddwn newydd ddyfod at grefydd."

Yn y flwyddyn 1832 ni a'i cawn yn gadael y chwarel i fyned i'r ysgol i Wrexham, at y diweddar Barch. John Hughes, Liverpool, a'i amcan, medd ef, "oedd ceisio dysgu Saesoneg, er ceisio cymhwyso fy hun at fod yn genhadwr 'yn eno dyn.' Bu'm yno am yspaid pum' mis. Dyna hyny o ysgol ddyddiol reolaidd a gefais. Yr oeddwn wedi meddwl y dysgwn yr 'iaith fain' mewn rhyw haner blwyddyn. Ond och fi! y mae heb ei dysgu genyf eto, ac heb ei dysgu byth y bydd bellach. Deallais yn lled fuan, er ymdrechu yn hwyr ac yn foreu, mai dysgwr annyben oeddwn." Y mae yn amlwg fod ei feddwl mewn trafferth galed âg efe ei hunan, hyd yn nôd yn y misoedd hyn o ymofyniad am wybodaeth. Ceir ganddo yn ei ddyddlyfrau amryw grybwylliadau a ddangosant mor galed y ddisgyblaeth grefyddol y ceisiai ddarostwng ei feddwl a'i galon iddi yn yr adeg gymharol ieuanc hon ar ei oes grefyddol. Rhaid boddloni yn unig ar ryw dair o engreifftiau.

Y mae yn gosod ei *gŵyn* yn yr ystyr yma ar gân unwaith, ac yn dywedyd:—

"'Rwy'n teimlo 'nghalon heddyw yn drom
Gan faint y pla sydd yn llenwi hon,
Mae hon yn wâg o bethau Duw,
A llawn o ragofalon yw;
Mae'n llechu yn fy mynwes drist
Rhyw bryf sydd groes i garu Crist,
Ei enw yw anfoddlonrwydd câs,
Am ddifa mae bob dafn o ras."

Ar gyfer Rhagfyr 17eg, 1832, ysgrifena: "Heno fe'm dychrynwyd i raddau gan yr ystyriaeth pa fath greadur ydwyf. O! fy enaid, ystyria hyn. Ystyria pa fodd y mae Duw wedi ymddwyn tuagatat. Y mae genyt gyflawnder o fendithion tymhorol, iechyd, a digonedd o ddillad. Mae genyt ymborth a dillad, boddlona ar

hyny. Nid oes arnat eisiau dim. Mae dy fanteision crefyddol yn lluosog iawn. Yr ydwyt wedi dy blanu mewn bryn tra ffrwythlawn. Pa beth yn ychwaneg oedd i'w wneuthur nag a wnaed i ti? Ystyria y lluaws dirifedi sydd yn îs a gwaeth eu hamgylchiadau, ac yn llai eu manteision crefyddol na thydi! A'r holl ffrwyth a ga Duw arnat ti ydyw *grwgnach*, ai îe? Felly wir!! Pa le y mae y diolch? Yr ydwyt yn temtio Duw i ymddwyn fel arall tuagatat. Yn wir, nid rhyfedd os felly y bydd. Am hyny, i'r frwydr ag anfoddlonrwydd; na lochesed mwy yn fy mynwes. Amen."

Drachefn ysgrifena: "Dyben fy nghreadigaeth ydyw gogoneddu Duw. Os ydwyf yn fyr yn hyn, yr wyf yn fyr o ateb dyben fy nghread. Oni ogoneddaf fi Dduw yn y byd hwn, mŷn Efe ei ogoniant oddiwrthyf yn y byd a ddaw. Os na chaiff trugaredd a gras ogoniant yn fy achubiaeth, mŷn cyfiawnder a sancteiddrwydd ogoniant yn fy namnedigaeth. Oni chodir fi yn berl yn nghoron Iesu, darostyngir fi yn droedfainc i'w draed. Gogoniant neu waradwydd. Ond pa un bynag, gogoneddus fydd Iesu. O! fy enaid, ystyria hyn. Y mae yr Arglwydd yn cynyg pobpeth i ni ond ei ogoniant. Eithr nid oes dim a foddlona fy nghalon lygredig ond cael y gogoniant hwnw. O ffrwyth pob pren o ardd Duw y caf fi fwyta, caf ei Fab i'm gwaredu, ei yspryd i'm sancteiddio, ei air i'm dysgu, ei efengyl i'm goleuo, ei ras i'm nerthu, ei drugaredd i'm hymgeleddu, ei addewidion i'm cysuro, ei angylion i'm gwarchod, a'i nefoedd i'm gogoneddu byth. Ond am y ffrwyth gwaharddedig hwn y dywedodd Duw, a'm 'gogoniant ni roddaf i arall, na'm mawl i ddelwau cerfiedig.' Y mae yr Arglwydd yn rhoddi pobpeth i mi dan ardreth; a dyma y rhent, ei ogoniant. Ni wnai y gogoniant hwn ddim lles i mi, ac ni bydd gogoneddu Duw yn un golled i mi. Y mae gogoneddu Duw yn ddyled arnaf y dylwn ei thalu; am hyny, dymunwn fyw i Dduw. Fy nyben penaf fyddo ei ogoneddu Ef. Molwch yr Arglwydd."

"Yn gynar yn y flwyddyn 1833, mi a ddaethum adref o'r ysgol. Aethum o Wrexham i Liverpool, a dyma y tro cyntaf i mi weled y dref hono. Bu'm yno am tua pymthegnos yn ceisio cael gwaith, ond methais a chael dim. Daethum adref ar fy nhraed, a chymerodd i mi ddau ddiwrnod i gerdded. Nid oedd dim i'w gael i'm cludo ond y cerbyd pedwar-ceffyl, ac nid oedd genyf arian i dalu hwnw. Pan ddaethum adref deallodd fy nghyfeillion fy mod wedi dysgu mwy o lediaeth a choegni ffol na dim arall, a gwelent ar unwaith fod y dduwioldeb fawr, yr ocheneidio a'r gwyneb hir wedi myned i rywle. Ond bydded a fyddo, collais rywbeth yn Wrexham ag y mae i mi golled fawr ar ei ol. Methais byth wedi hyny a chael gafael ar yr un dymer grefyddol. Pa fodd bynag, er mor annyben

yr oeddwn yn dysgu, daethum yn raddol a thrwy ddyfalwch dygn i allu deall llyfr Saesoneg bron yn gystal ag un Cymraeg. Ond yr ydwyf byth ar ol mewn siarad a deall araeth neu bregeth, ac ystyriaf hyn yn golled fawr i mi. Gyda Saeson nis gallaf egluro nac amddiffyn fy hun, ac mewn cwmnïaeth Seisnig byddaf yn edrych arnaf fy hun yn rhywbeth îs nag ydwyf mewn gwirionedd, ac y mae hyny ar y goreu yn dasg front. Y mae yn ddigon i ddyn fod bob amser cyn ised ag ydyw mewn gwirionedd, heb fod yn ddim îs.

"Yr oedd awydd cryf ynwyf y pryd yma am fyned yn genhadwr at y Paganiaid, ac nis gwn o ba le y tarddodd yr awydd hwn. Parhaodd, pa fodd bynag, yn gryf am bedair blynedd. Darllenwn gyda mawr awydd bob hanesion cenhadol y cawn afael arnynt, ac yr oeddwn drwy hyny yn hollol hyddysg yn holl helyntion Cymdeithas Genhadol Llundain, ei gorsafau, a'i chenhadon. Mor angerddol fyddai yr awydd ar brydiau fel y penderfynwn fyned yn forwr er gallu cyrhaedd rhyw wlad Baganaidd, Affrica felly yn benaf; ond er maint yr awydd, fy llwfrdra naturiol a orfyddai. Gwnaethum lawer o benderfyniadau y pryd hwn, y rhai, pe y cadwaswn atynt, fuasent yn fy ngwneyd yn rhywbeth tra gwahanol i'r hyn ydwyf. Ond er i mi ddysgu *penderfynu*, ni ddysgais erioed fod yn *benderfynol*.

"Yr oedd gerllaw Chwarel Sion Morgan, lle y gweithiwn ar y pryd, ryw ogof o dan y ffordd, lle allan o olwg pawb, ac yno yr ymneillduwn ar bob adeg o hamdden, megys yr awr giniaw ganol-dydd, i ddarllen, myfyrio a gweddïo. Bu yn dda genyf am dani am amser maith. Y mae yr hen ogof ei hun wedi ei chladdu er's blynyddoedd; ond gobeithio na chladdwyd ac na chleddir mo bobpeth a fu ynddi. Yr oedd un dyn yn y rhan grybwylledig o'r chwarel o'r enw Thomas, ac yr oedd yn proffesu crefydd. Dyn tlawd a helbulus ydoedd; eto, yr oedd yn grefyddol ac o feddwl craffus. Bu ymddiddanion âg ef o les mawr i mi. Rhyw foreu Llun yr oeddym wedi dyfod i'r chwarel, ac yn eistedd o dan y graig cyn dechreu gweithio, yn cydymddiddan rhywbeth yn nghylch caledi yr amseroedd. Yr oedd Thomas, druan, yn cwyno yn dost ei fod yn methu cael digon o arian i dalu ei ffordd, a minau yn ceisio ei gysuro mai hyny oedd oreu. 'Na,' meddai Thomas, 'gweddi Agur ydyw y peth goreu, Portha fi â digonedd o fara;' a'r gair eto yn ei enau, daeth careg i lawr o ben y chwarel, a lladdodd ef yn y fan! a bu farw heb wybod dim am dano—dim cymaint ag un loes, a'r creadur truan yn cael ei gipio o ganol ei helbul i ddedwyddwch. Cafodd hyn argraff ddaionus iawn ar fy meddwl. Yr wyf yn sicr mai dyma y tymhor mwyaf crefyddol

a fu arnaf erioed. Edliwiai rhai o'm cyfeillion i mi fy mod yn rhy dduwiol i barhau yn hir iawn fel yr oeddwn, a bu adegau llawer mwy iach ar fy ysbryd ar ol hyny, a llawer mwy anwyliadwrus, ond fe'm cynhaliwyd rhywfodd hyd yn hyn.

"Pan oeddwn yn dair ar hugain mlwydd oed bu farw fy nhad, a phrofedigaeth lem iawn oedd hon i mi. Yr oeddwn yr hynaf o wyth o blant, a rhai ohonynt yn bur ieuainc, a'r lleill yn anhydrin, caled, a digrefydd. Teimlwn i'r byw y rhwymedigaeth oedd arnaf i sefyll yn lle tad iddynt. Ond yn mhen y flwyddyn, priododd fy mam eilwaith, a rhoddodd hyn i mi fesur o ryddhad. Bu fy nhad-yn-nghyfraith yn dad da i'r plant, a chawsent y Garnedd yn gartref croesawus hyd nes eu priodwyd oll. Tra y darfu i farwolaeth fy nhad dawelu yr awyddfryd cenhadol, am y credwn fod bys Rhagluniaeth yn cyfeirio at y cylch newydd hwn o rwymedigaeth a dyledswydd mewn gofal am fy mam a'r teulu, bu i waith fy mam yn ail briodi roddi ail gyfle i'r ysbryd cenhadol i aflonyddu fy meddwl, a daeth drachefn yn dân poeth yn fy enaid, nes byddwn bron ymddyrysu. Yn yr adeg hon, darfu i Mr. John Hughes, Liverpool, tad y Parch Josiah Hughes, cenhadwr yn Malacca, anfon llythyr i'r *Drysorfa* i ofyn a oedd neb o bobl ieuainc Cymru âg awydd ar eu calon i fyned yn genhadon. Wel, gwared ni! dyma fy ysbryd ar unwaith yn fflam. Anfonais lythyr at Mr. Hughes yn ebrwydd, ac ynddo mynegais fy holl hanes a holl dywydd fy meddwl. Clamp o lythyr blêr ddigon ydoedd, ond yr ydoedd yn gynyrch calon wresog. Yn mhen y ddwy flynedd, cyhoeddodd Mr. Parry, o Gaerlleon, fy llythyr yn llawn llythyren yn y *Drysorfa*, yn nghydag ysgrif arall o'm heiddo ar yr un mater. Cefais lythyr yn atebiad oddiwrth Mr. John Hughes, yr hwn ydoedd henuriad parchus gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Rose Place. Yr oedd yn dirion iawn. Rhoddodd imi amryw gynghorion, ond eto dangosai nad oedd gobaith i mi, am fy mod mor amddifad o ddysg. Parodd hyn i mi ymroddi i geisio dysgu Saesoneg, a hyn fu yn symbyliad i mi i fyned i'r ysgol i Wrexham, fel yr awgrymwyd o'r blaen. Adroddais fy nhywydd cenhadol yn mhen tipyn i'm hathraw, y Parch. J. Hughes. Yntau, ar ol tipyn o ddigrifwch, a'm cynghorodd i roddi y meddwl heibio, am nad oedd un gobaith y derbynid fi gan Gymdeithas Genhadol Llundain, ac mai y peth goreu oedd i mi feddwl am ymroddi i wasanaethu teyrnas nefoedd yn mhlith fy nghenedl fy hun. Ac felly y bu. Yn raddol, bu yr ysbryd cenhadol farw mewn anobaith. Ond ni chefais nemawr o fantais ar hyn, am yr ymosodwyd arnaf gan lu o ddrygau, chwantau cnawdol, uchelgais, a rhyw gant o bethau drwg. Ac am na chawn fyned i Affrica yn *bersonol*, aethum yno yn *ddychymygol*.

Bu'm yno am flynyddoedd lawer yn pregethu, ac yn llwyddo yn anghyffredin, fel y daeth trigolion barbaraidd canolbarth Affrica yn deyrnas gref a blodeuog. Cynyddai gwareiddiad, lledaenid addysg, llwyddai y pregethu, adeiledid trefi mawrion, gwneid ffyrdd haiarn a phobpeth, llenwid y canolbarth â phob sefydliadau cenhadol, llenyddol, a chrefyddol. Ac nid oedd y cwbl ond castell yn yr awyr. Aeth hyn, pa fodd bynag, i mi yn fagl. I'r fan yma y rhedai fy myfyrdodau am flynyddoedd, ac yn wir mae yn demtasiwn i mi byth."

Bydd yr hanes hwn yn fwy cyflawn wrth roddi i mewn yma y ddau lythyr crybwylledig, o'r *Drysorfa* am fis Rhagfyr, 1833, fel yr eglurant mor ddwfn yr oedd yr yspryd hwn wedi ymaflyd ynddo, ac hefyd fel y dangosant mor rhagorol yr oedd yn yr adeg foreu hon ar ei oes yn ysgrifenu Cymraeg mewn arddull mor syml, pur, a darllenadwy :—

"GALWAD I YSTYRIED YR ACHOS CENHADOL.

"Mae'r fath fawredd yn yr achos cenhadol, fel nas gellir yn hawdd osod allan ei ragoroldeb. Mae holl achosion bydol, pan eu cydmarer â hwn, yn ymguddio o'r golwg, fel y gwna dysgleirdeb y sêr ar ymddangosiad yr haul. Dyma achos ag y gellir yn briodol ei alw yn achos Duw, yn winllan Crist, yn gynhauaf yr efengyl, ac yn rhyfel y groes.

"Mae'r achos cenhadol yn dra gogoneddus yn ei ddybenion, yn rhyfeddol yn ei ddull yn gweithredu, yn hynod o lwyddiannus yn ei ymdrechiadau, ac yn ddaionus yn ei effeithiau. Dybenion yr achos hwn yw dyrchafu enw Crist, achub pechaduriaid, cario'r iechydwriaeth fawr drwy'r byd, a llenwi'r ddaear â gwybodaeth am Dduw.

"Ond er mor ogoneddus yw'r achos cenhadol, ac er mor deilwng yw o'n sylw, eto gofidus yw meddwl mor ddiofal a diymdrech yn gyffredinol yw y rhai a alwant eu hunain yn *grefyddwyr*, mewn perthynas iddo. Llawer sy'n proffesu undeb â Christ, a chariad at Dduw, ond os edrycher ar eu llafur gyda'i waith, rhaid barnu nad yw eu holl ymffrost ond twyll.

"Ac i'r dyben o gyffroi ein hystyriaethau, gwresogi ein cariad, enyn ein sêl, a helaethu ein llafur gyda'r achos hwn, buddiol fyddai i ni ystyried y pethau canlynol :—

"1. Ystyriwn mor druenus yw y dynion hyny sy'n amddifad o'r efengyl. Diau nas gall meddwl amgyffred, na thafod adrodd, mor druenus a dychrynllyd yw eu harferion, mor lluosog a chyfeiliornus yw eu dychymygion, ac mor echryslawn yw eu defodau crefyddol. Ystyriwn, pa mor druenus rhaid bod y dynion hyny, y rhai ydynt

heb wybod dim am Dduw na'i ddeddfau, nac am Grist na'r waredigaeth drwyddo; ac ydynt yn hollol ddibrofiad o felusder gwybodaeth, dyddanwch teuluaidd, a hyfrydwch cyfreithiau rhyddid; ïe, mewn gair, nis gwyddant braidd ddim am gysuron bodau rhesymol: ar lawer ystyriaeth, îs ydynt na bwystfilod y maes. Eto mae ganddynt eneidiau gwerthfawrocach na'r byd, ac mae eu tywyllwch mor fawr, fel nad arswydant yn wyneb brenin y dychryniadau; canys ymorphwysant mewn gwag obaith am ryw ddedwyddwch dychymygol, pan, mewn gwirionedd, y maent yn anocheladwy golledig. Y gwirionedd yw, 'Mae tywyll leoedd y ddaear yn llawn o drigfanau trawsder.' Diau nas gall dyn ystyriol eistedd yn llonydd a diofal, pan y meddylio am y cyfryw bethau. A dyben yr achos cenhadol yw anfon goleuni mawr yr efengyl i'r bröydd tywyll hyny. Ac oni ddylem ninau lafurio i anfon y cyfryw *oleuni* i'r cyfryw greaduriaid truenus?

"2. Ystyriwn, er mor druenus yw yr olwg ar y byd yn bresenol, eto mae genym yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd luaws o addewidion mawr iawn a gwerthfawr mewn perthynas i lwyddiant yr efengyl; sef, y bydd i Satan gael ei rwymo, ac y bydd i'w deyrnas syrthio, ac y bydd i holl au-grefyddau'r byd ffoi ymaith o flaen dysgleirdeb yr efengyl, ac y bydd i wybodaeth o Dduw lenwi'r ddaear, fel y töa y dyfroedd y môr. Ac y bydd mynydd tŷ yr Arglwydd wedi ei sicrhau yn mhen y mynyddoedd, ac y bydd llwyddiant yr efengyl mor gyffredinol, fel na bydd eisiau i frawd ddywedyd wrth ei frawd, Adnebydd yr Arglwydd; y bydd sancteiddrwydd yn argraffedig ar bob peth, ac y bydd i'r holl fyd ymuno yn un gymdeithas hawddgar. Am hyny, gwelwn mai gwaith sicr o lwyddo yw'r achos cenhadol; a gwybyddwn, os na lafuriwn *ni* gyda'r gwaith hwn, y mŷn Duw weithwyr i'w winllan.

"3. Ystyriwn hefyd, mai dyledswydd arbenig ar yr holl rai hyny a brofasant ddaioni yr efengyl, yw ymdrechu i'w hanfon i eraill, yn ol y cyfleusdra fo ganddynt. Mae hon yn ddyledswydd osodedig drwy awdurdod Duw, ac i gyflawni pa un y dylai cariad Crist ein cymhell, ac nis gallwn ymwrthod â hi, heb ddangos diffyg o egwyddor Gristionogol, a dibrisiad dychrynllyd o'r efengyl, yn nghyda thynu arnom euogrwydd dirfawr. Da fyddai i ni ystyried, tra yr ydym yn fyr o wneyd a allom i anfon yr efengyl i'r Paganiaid, ein bod yn fyr o wneyd ein dyledswydd.

"4. Ystyriwn hefyd, mai yr achos cenhadol yw y prif foddion ag y mae yr Arglwydd yn ei ddefnyddio i ddwyn yn mlaen ei amcanion grasol o efengyleiddio'r byd. Priodol fyddai galw y cymdeithasau cenhadol yn *adenydd yr efengyl;* canys â'r rhai hyn y mae hi yn ehedeg i ardaloedd pellenig y byd. Am hyny, os ydym yn esgeuluso

y cyfleusdra teg sydd genym, i anfon yr efengyl i blith y Paganiaid, diau y gofynir eu gwaed ar ein dwylaw ni.

"5. Peth arall ag y byddai yn dda i ni ei ystyried yw, y mawr lwyddiant a fu eisoes ar yr achos cenhadol. Pe gallem mewn byr amser ymweled â'r holl sefydliadau cenhadol, diau y caem olygfeydd a genhedlai syndod a llawenydd nid bychan yn ein meddyliau. Caem weled y byddinoedd cenhadol yn bloeddio i'r frwydr yn erbyn y *cedyrn*, a'u harfau yn nerthol drwy Dduw yn bwrw cestyll cedyrn Paganiaeth a choel-grefydd i'r llawr; caem weled banerau y groes yn hwyfan, ïe, hyd yn nod ar byrth yr 'Ymherodraeth nefol;'* gallem glywed hyfryd-lais yr efengyl, ïe, hyd yn nod yn mherfedd-dir anial a Phaganaidd Affrica; caem weled lluaws oedd ychydig yn ol yn grwydriaid gwallgofus a barbaraidd, yn awr yn eistedd yn eu dillad a'u hiawn bwyll, ac yn derbyn addysg Gristionogol; caem weled llawer oedd ychydig yn ol yn eistedd mewn tywyllwch dudew o eilun-addoliaeth a choel-grefydd, yn awr wedi gweled goleuni mawr. Ac a ydym ni mor ddiymdrech gyda'r gwaith, yr hwn sy'n ysu pob annymunoldeb o blith dynion, ac yn trosglwyddo iddynt fendithion y cyfamod hedd, yn nghyda lluosogrwydd o gysuron dynolion?

"6. Da fyddai i ni ystyried hefyd, er cymaint a wnaed drwy'r efengyl, nad ydyw ond ychydig iawn wrth y peth sydd eto i'w wneyd. Ychydig iawn yw nifer y rhai hyny a brofasant ddaioni yr efengyl, ac sydd yn gwneyd i fyny fyddin Crist, pan eu cydmharer â'r *chwe' chan' miliwn* Paganiaid, *dau can' miliwn* Mahometaniaid, *can' miliwn* Pabyddion, *deng miliwn* Iuddewon, a *miliynau lawer* o Gristionogion Groegaidd a Phrotestanaidd, y rhai ydynt fyddinoedd y diafol, ac maent yn ymladd yn erbyn Duw, ac ar y ffordd i ddistryw tragywyddol. Ond er hyny mae'r byd yn addfedu i dderbyn yr efengyl, ac am hyny mae'r cynhauaf yn fawr, ond mae y gweithwyr yn anaml iawn. Ac i'r dyben o ddiwallu angen y byd â phregethwyr, mae yn ofynol cael oddeutu *saith gan' mil*. Ymddengys hyn yn rhif mawr, ond mae yn rhaid eu cael, a dymunol fyddai i ni fod yn daerach wrth orsedd gras am i Arglwydd y cynhauaf anfon gweithwyr i'w gynhauaf. A'r prif foddion i gael y cyfryw weithwyr yw yr achos cenhadol, am hyny ni a ddylem, yn nghyda gweddïo, arfer y moddion tebycaf o lwyddo.

"7. Hefyd i'r dyben o gofio y cenhadau yn ein gweddïau gyda mwy o daerineb, da fyddai i ni ystyried natur eu hymneillduaeth. Edrychwn ar y cenhadwr, yn cefnu yn wirfoddol am byth ar y

---

* Felly y myn y Chineaid alw eu Hymherodraeth.

perthynasau a'r cyfeillion anwylaf ac ar y manteision crefyddol lluosocaf, ïe, mewn gair, ar *Baradwys y byd*, ac yn wynebu mordaith hirfaith a pheryglus, a thirio mewn gwlad, hinsawdd pa un sy'n rhy gref i gyfansoddiad Ewropeaidd ddal ond ychydig heb adfeilio; a threulio oes (a hono yn gyffredin yn afiach a bèr) yn mhlith y dynion ag mae eu hanwybodaeth yn alaethus, a'u hymlyniad wrth ddefodau echryslawn eu hynafiaid braidd yn anwahanadwy, a'u sarugrwydd at grefydd ddieithriol yn dra annymunol. Eto, rhaid i'r cenhadwr fyned yn mlaen heb wneyd cyfrif o ddim o'r pethau hyn; ond rhaid iddo ymwthio drwy bob anhawsder, a diystyru pob dirmyg, a gwneyd ymdrech i ateb y dyben o'i anfoniad. Ac oni ddylai hyn enyn cydymdeimlad yn ein mynwesau, a thaerineb yn ein gweddïau, am i'r Arglwydd ddyddanu y cenhadon, yn wyneb anhawsderau, a'u nerthu o wendid i yru byddinoedd y diafol i gilio?

"Ond ystyried yn ddifrifol y pethau a nodwyd, diau y byddai ein sêl yn wresocach gyda'r gwaith hwn, ein gweddïau yn daerach am ei lwyddiant, ein cyfraniadau yn helaethach at ei gynal, yr hyn a barai lwyddiant cyflymach iddo."

"Arfon." "R. Ellis."

---

"LLYTHYR A ANFONODD GWR IEUANC O OGLEDD CYMRU AT MR. JOHN HUGHES, O LIVERPOOL, AR YR ACHOS CENHADOL.

"Syr,—Mae yn sicr fy mod i chwi yn eithaf dyeithriol, ac na chlywsoch erioed air o grybwylliad am danaf. Eto yr ydwyf fi yn gydnabyddus â chwi, trwy glywed son am danoch fel henuriad eglwysig; ac hefyd eich bod yn dad i'r gwr ieuanc hynodol hwnw, y Parch J. Hughes, cenhadwr yn Malacca. Ac er mor ddyeithriol ydwyf i'ch cydnabyddiaeth, eto yr wyf yn anturio anfon y llinellau hyn atoch, gan obeithio y gwnewch ryw sylw arnynt, a hyny oddiar fy nhyb eich bod yn caru y tueddiadau cenhadol lleiaf, mewn unrhyw ddyn ieuanc, pa mor ddyeithriol bynag y byddo efe i chwi. Am hyny yn ostyngedig yr erfyniaf arnoch fy ngwrandaw yn amyneddgar.

"Fe'm ganed i oddeutu diwedd y flwyddyn 1808. Cefais fy magu yn eglwys Dduw nes oeddwn yn ddeuddeg oed. Wedi hyny mi a aethum i ganlyn fy nhueddiadau llygredig; eto, methais ag amlygu cymaint o lygredd fy natur a llawer o'm cyfoedion, a hyny oherwydd gwylder fy nhymer, a dysgyblaeth fy nheulu. Ond yn mhen amryw flynyddau wedi hyny, fe ymwelodd yr Arglwydd â mi mewn modd neillduol, a mi a ymunais âg eglwys y Trefnyddion Calfinaidd yn Llanddeiniolen.

"Tueddwyd fy meddyliau, pan oeddwn yn lled ieuanc, i sylwi ar druenus gyflwr y Paganiaid, gweithrediadau y Gymdeithas Genhadol, a helyntion y cenhadon. A'r peth a dueddodd fy meddyliau gyntaf at hyn ydoedd, i mi ddarllen hanes Mr. Isaac Hughes, yr hwn a anfonwyd yn athraw cenhadol i Ddeheudir Affrica, yr hwn hanes a welais yn *Ngoleuad Cymru*. A mi a ddaethum yn fuan i sylwi mwy ar yr achos cenhadol nag unrhyw achos arall. Ac nid hawdd y gallaf adrodd yr effaith a fyddai hanes helyntion y cenhadon, a llwyddiant y genhadaeth, yn ei gael ar fy meddwl. A mi a ymdrechais i ddarllen cymaint ag a allwn gael yn yr iaith Gymraeg o hanesyddiaeth genhadol.

"Ond wrth hir ddarllen, dechreuodd rhywbeth sibrwd yn fy meddwl, y byddai yn dda genyf inau gael fy anfon yn genhadwr at y Paganiaid. Ac fe fyddai truenus gyflwr y Paganiaid yn cael rhyw effaith ryfedd ar fy meddyliau ar brydiau. Ac fe fu meddyliau am gynyg fy hun i 'Gymdeithas Genhadol Llundain' yn cartrefu ynof am oddeutu blwyddyn a haner. Ond yn amser urddiad y Parch. J. Hughes, mi a feddyliais fy mod yn rhy fychan mewn gwybodaeth ieithyddawl a chelfyddydawl, yn nghyda phethau eraill, i gael derbyniad gan y Gymdeithas Genhadol. Yna mi a benderfynais wneyd a allwn gartref gyda'r gwaith cenhadol, a hyny trwy gyfranu at ei gynal, gweddïo am ei lwyddiant, ac anog eraill i wneyd yr un peth.

"Byddai fy meddwl yn hynod o boenus os byddai y casgliadau cenhadol yn lleihau. A byddwn braidd bob dydd yn myned i'r dirgel i weddïo am lwyddiant ar y gwaith. Ond nid hir yr ymlonyddodd fy meddyliau yn yr agwedd yma; canys yr oedd rhyw dân yn llosgi ynof am gael myned at y Paganiaid. A mi a fwriedais (os gwelai yr Arglwydd yn dda) fyned yn forwr, a thrwy hyny fyned i'r lle y meddyliwn y byddwn debycaf o wneyd rhywbeth tuagat efengyleiddio'r Paganiaid. A'r modd y byddwn yn meddwl myned yn mlaen yn mhlith y Paganiaid ydoedd, dilyn rhyw alwedigaeth, nes dysgu iaith y brodorion, ac yna offrymu fy hun i'r Gymdeithas Genhadol, os cawn dderbyniad ganddi. A'r lle bu'm yn meddwl fwyaf am fyned iddo (os gallwn rywfodd) ydoedd Malacca, a hyny oherwydd bod un o'm cyd-genedl, ac hefyd o'r un enwad crefyddol a mi yno, sef Mr. Hughes, ar ol ei ymadawiad o Loegr. Llawer gwaith y meddyliais mai y peth mwyaf dymunol genyf o ddim fyddai bod gydag ef yn Malacca, yn gwneyd y swyddau iselaf yn y gwaith cenhadol.

"Bu'm yn bwriadu unwaith (os byddai bosibl) ysgrifenu llythyr ar y mater hwn, i Malacca, at Mr. Hughes, ond nis gwnaethum. Ond wrth ystyried y rhwystrau lluosog oedd rhyngof fi a Malacca,

mi a syrthiais i anobaith drachefn, mewn perthynas i'm bwriadau cenhadol. A byddai hyny yn achos o dristwch dwys i'm meddwl. A'r wers oedd genyf i'w dysgu y pryd hyny ydoedd, 'Os oedd yr Arglwydd yn bwriadu i mi gael rhan yn y fath waith, yr agorai Efe y ffordd i hyny gymeryd lle; ac onite, gwell i mi aros gartref mewn distawrwydd, a gwneyd a allwn yno. Ond os gwel yr Arglwydd yn dda ryddhau y ffordd i mi rywbryd, mi a'i cyfrifwn yn wir fraint i mi gael myned.'

"Ond hefyd, mae'n rhaid i mi addef fy mod yn llawn o ofnau; sef, ofn gau-ddybenion, ofn ymyraeth â'r gwaith pwysfawr hwn, ac na fwriadodd yr Arglwydd i mi gael un rhan ynddo; ond rhyfygu dyweyd am gyflwr colledig, a Christ yn Geidwad, wrth eraill, heb erioed brofi'r peth mewn gwirionedd fy hun. Rhag y cyfryw beth gwareded fy Arglwydd fi. Weithiau fe fyddai ystyriaeth o druenus gyflwr y Paganiaid yn cenhedlu y fath sêl ynof, nes byddwn yn dymuno bod yn mherfedd-dir Affrica, heb air o son am danaf, os gallwn felly fod yn foddion tröedigaeth rhyw enaid. Ië, mi a fu'm mor ynfyd a meddwl y chwenychwn gael fy alltudio i blith Paganiaid, os gallwn drwy hyny (yn llaw Duw) fod er bendith i rai ohonynt.

"Llawer gwaith y dirdynwyd fy nhueddiadau cenhadol gan y dyb nad oedd yr Arglwydd yn bwriadu fy anfon i, ac onite, buasai yn trefnu sefyllfa fy rhieni, fy manteision a'm galwedigaeth inau, yn fwy manteisiol i hyny. Pryd arall byddwn yn meddwl y gallai Efe, yr hwn sydd yn arfer gwneyd pethau mawrion drwy offerynau gwael, fy nefnyddio inau hefyd, i oleuo rhyw Bagan am ei sefyllfa druenus, a'r waredigaeth ohoni.

"Nid ydwyf chwaith heb ystyried lawer gwaith, pa fath yw anturiaethau y cenhadwr; sef, *ffarwelio* am byth â pherthynasau mwyaf anwyl, a chyfeillion mwyaf hoff, a chymydogion mwyaf caredig, ac â blaenoriaid eglwysig mwyaf tadol ac ymgeleddol. Ië, mewn gair, cefnu am byth ar 'Baradwys y byd,' sef Prydain; a gwynebu ar fordaith hirfaith a pheryglus; a thirio mewn gwlad, hinsoddau pa un sydd rhy gryf i gyfansoddiad Ewropeaidd ddal ond ychydig heb adfeiliad, a'r trigolion sydd yn eistedd mewn tywyllwch a chysgod angau. A threulio oes (a hono yn gyffredin ond bèr) yn mhlith y gelynion mwyaf rhagfarnllyd, a gwreiddiol elyniaethol yn erbyn y gwirionedd.

"Ond er y cyfan, os caf le i feddwl fod Duw yn gweithio y tueddiadau hyn ynof, a bod cariad Crist yn fy nghymell, ac y rhydd yspryd Duw ei wyneb gyda mi, yn llawen iawn y wynebaf yr anturiaeth fawr hon. Ac ni wnaf fwy sylw o'r holl bethau daionus a adewir ar ol, nag a wna y baban o'i deganau, pan gaffo afael ar y

fron. Ac nid ofnaf beryglon yr anturiaeth, mwy nag yr ofna plentyn yn llaw ei dad ysgrechiadau plant y gymydogaeth. Gwybyddwch hefyd, na chafodd rhyw dueddiadau fel hyn letya yn fy meddwl heb eu chwilio a'u profi lawer gwaith, ïe, eu troi allan hefyd, a phenderfynu na chaent byth ddyfod i mewn, a hyny oddiar y dyb eu bod yn tarddu oddiar hunan a balchder. Ond cyn gynted ag y darllenwn rhyw ddarn o hanes cenhadol, hwy a ddeuent i mewn drachefn, ac a losgent fel tân yn fy mynwes.

"A phan ddarllenais eich llythyr yn y *Drysorfa*, rhif 20, mi a deimlwn yr hen dân (canys yr oeddwn braidd a meddwl ei fod wedi diffodd) a deimlaswn gannoedd o weithiau er's pedair blynedd, yn dechreu llosgi yn fy mynwes, a mi a ddywedais, 'O na welai yr Arglwydd yn dda fy anfon i at Mr. Hughes yn Malacca! Eto, bydded ei ewyllys ef ar y ddaear.'

"Hefyd, mi a ddymunwn i chwi sylwi, i mi ymdrosi gyda'r meddyliau cenhadol am yn agos i bedair blynedd (yr hyn, yn ddiau, a fu yn nychdod mawr i'm hyspryd), heb hysbysu dim ohonynt i neb, ond yn unig i ddau neu dri o'm cyfeillion penaf. Hefyd, nid wyf yn amcanu gwneyd dim (ond yn unig anfon y llythyr hwn atoch chwi) heb gydsyniad fy anwyl flaenoriaid eglwysig. Yr wyf yn addef yn ddifrifol, gerbron Duw, yr hwn yn fuan fydd yn fy marnu, na ddywedais i, yn hyn o gyfaddefiad (hyd yr wyf yn gwybod), ddim ond gwirionedd.

"Bellach, mi a derfynaf fy ysgrif drwsgl, gan ddymuno yn ostyngedig am i chwi faddeu i mi am fy hyfdra yn anfon y llythyr hwn atoch. Ond, efallai y gofynwch, paham yr ydwyf yn anfon y fath lythyr trwsgl, annrhefnus, a llawn gwallau, atoch chwi? Fy ateb yw, am i chwi ofyn yn y *Drysorfa*, 'A oes neb o'r ieuenctyd a glyw ar ei galon adael ei wlad i lafurio i blith y Paganiaid?' I chwi, yn neillduol, yr wyf finau yn ateb, Oes; dyma fi (ond cael boddlonrwydd Duw a chydsyniad ei bobl), yn barod i fyned, a da genyf gael myned. Fy mhenderfyniad presenol yw (os gwel yr Arglwydd yn dda) myned i'r ysgol i ddysgu Saesoneg, hyd y goddef fy amgylchiadau; ac os bydd drws agored, mi a ymroddaf i'r gwaith cenhadol; ac onidê, mi a dreuliaf fy oes yn athraw Ysgol Sabbothol yn nyffrynoedd iachuslawn yr Eryri. Mi a ddymunwn i chwi beidio ag amlygu hyn i neb, oni bydd angenrheidrwydd am hyny Da genyf os gyrwch air yn ol o gynghor neu rybudd, a hyny yn fuan.

"Ydwyf, anwyl syr, eich ufudd wasanaethwr,

"R. E."

"Rhywbryd yn y flwyddyn 1833, ar ol i'r ysfa genhadol ddarfod, y dechreuais feddwl am bregethu. Nis gwn eto beth a barodd i

mi feddwl am y fath beth. Ond meddwl a ddarfu i mi, ac aeth y meddwl hwnw ar gynydd. A dyna fi o'r diwedd yn cael fy hun yn dechreu gwneyd pregethau. Ysgrifenais hwy yn y chwarel i ddechreu ar lechau, a deuwn â hwy adref i'w hysgrifenu mewn llyfr. Ysgrifenais ryw chwech felly. Ond nid oedd genyf ar y cyntaf yr un bwriad i wneyd y peth yn hysbys. Rhyw brydnawn Sadwrn, pa fodd bynag, yr oeddwn gyda'r Parch. John Williams, Llanrug, pan y gofynodd yn ddifrifol i mi pa beth oeddwn yn feddwl wneuthur. Adroddais inau yn rhydd iddo fy holl feddwl. Cynghorodd yntau fi i adrodd yr helynt wrth Robert Roberts, Blaenycae, blaenor yr Ysgoldy. Rhoddodd hyn ar unwaith wedd mwy difrifol ar y peth yn fy meddwl. Aethum adref, ac at Ellis Foulkes. Adroddais iddo yr holl ymddiddan, ac erbyn deall, yr oedd yntau yn glaf o'r un clefyd. Ar ol ymddiddan o'r fath fwyaf difrifol, penderfynasom neillduo yr wythnos ganlynol i weddïo ar y mater, ac i roddi y peth y Sabboth wedi hyny o flaen Robert Roberts. Ac felly y bu. Difrifol fu y gweddïo, a'r Sabboth a ddaeth. Cyn yr oedfa ddau o'r gloch, dywedasom wrth yr hen flaenor Robert Roberts y byddai yn dda genym gael ymddiddan âg ef ar ol oedfa y nos, a hyny ar fater pwysig. Felly yr awr ddifrifol a ddaeth o gwmpas. Aeth yr hen wr a ni ein dau at gefn y capel, a gofynodd, 'Wel, hogiau, beth sydd genych?' Dan grynu, dywedasom ar unwaith mai meddwl am bregethu yr oeddym. Derbyniodd yr hen frawd yr hysbysiad yn bur garedig a thirion. Rhoddodd i ni amryw gynghorion. Holodd ni am natur a maint ein llafur gyda golwg ar bregethu, a gofynodd pa nifer o bregethau oedd genym. Dymunodd arnom hefyd anfon iddo ryw nifer ohonynt, er mwyn iddo gael eu darllen a'u barnu. Felly y bu.

"Yr oedd yr hen flaenor Sion Ffoulk yn crafu ei lechwedd wrth glywed fod yr *hogiau* am bregethu. Aeth misoedd heibio heb i'n tadau y blaenoriaid gymeryd arnynt eu bod am wneyd un sylw o'n hysfa bregethwrol, heblaw ein galw yn amlach i ddywedyd ein profiadau yn y cyfarfodydd eglwysig, a'n rhoddi hefyd i ddechreu moddion cyhoeddus. Yn nechreu y flwyddyn 1834, rhoddwyd rhybudd i mi i 'ddyweyd' tipyn ar y bennod rhyw nos Sabboth yn Ysgoldŷ bach Cefnywaen, a dyma *globen* o bregeth allan ar y 'Mab Afradlawn.' Cyn pen hir, cymhellwyd fi i wneyd peth cyffelyb yn nghapel yr Ysgoldŷ. Y testyn y pryd hwnw oedd, 'Oherwydd bod digofaint, gochel.'"

Y mae y ddwy bregeth gyntaf hyn yn ysgrifenedig yn mhlith ei bapyrau, ac nid anfuddiol, y mae yn ddiamheu, gan y darllenwyr fydd terfynu y bennod hon âg amlinelliad ohonynt. Rhaid y cydnabyddir wedi eu darllen ei fod o'r dechreu yn rhodio ar ganol

sianel y gwirionedd gyda duwinyddiaeth ac "ymadrodd iachus na ellir beio arno."

"Y MAB AFRADLAWN."—Luc XV.

Wedi ychydig sylwadau eglurhaol ar gysylltiad y tair dameg hyn â'u gilydd, ac ar achlysur eu llefariad, y mae yn dangos y ceir yn y ddameg olaf hon ddesgrifiad o *ddychweliad pechadur at Dduw.* Ynddi y gwelir yn

"I. Ddyn yn ei gyflwr natur. Pedwar gair yn y ddameg yn egluro hyn—'a gymerth ei daith i wlad bell,' 'a wasgarodd ei dda, gan fyw yn afradlawn,' 'yntau a ddechreuodd fod mewn eisiau,' ac 'efe a aeth, ac a lynodd wrth un o ddinaswyr y wlad hono; ac ni roddodd neb iddo.'"

Y mae yn manylu ar y gwirioneddau cynwysedig yn y pedwar ymadrodd yma, gan wneuthur sylwadau rhagorol ar y pellder oddiwrth Dduw y ceir y pechadur ynddo, yn yr achos ohono, a'r hyn sydd gynwysedig ynddo; ar agwedd afradlonus dyn wrth natur, fel y mae yn afradloni trugareddau Duw; y newyn y mae yn ei afael, a'r gwrthnysigrwydd sydd yn perthyn i bechadur a bâr iddo ymdrechu diwallu ei enaid â'r pethau mwyaf gwâg, yn hytrach na throi ei wyneb at Dduw.

"II. Natur gwir edifeirwch, drwy yr hwn y mae pechadur yn dychwelyd at Dduw, a osodir allan yn y ddameg mewn dau ymadrodd—'efe a ddaeth ato ei hun,' 'efe a gododd, ac a aeth at ei dad.'"

Sylwa ar yr amrywiol gamrau a arweiniant i ddychweliad at Dduw, fel yr eglurir hwy yn hanes yr afradlawn—dyfod ato ei hun, marw o newyn, gwala a gweddill o fara, tŷ fy nhad, mi a godaf, ac a äf, cyfaddef y pechod, a dadleu annheilyngdod.

"III. Ymddygiad tirion yr Arglwydd tuagat y pechadur edifeiriol ar ei ddychweliad. Y mae y pechadur yn cael (1) derbyniad croesawgar; (2) derbyniad ymgeleddol; (3) derbyniad llawen.

"YR ADDYSGIADAU.

"1. Gwelwn y modd y mae Duw yn ateb gweddi. 'Gwna fi yn was,' meddai y mab afradlawn. 'Fy mab hwn,' meddai y tad. 'Dywedaf, cyffesaf,' meddai yr afradlawn; ond cyn iddo braidd wneyd hyny, yr Arglwydd a faddeuodd.

"2. Gwelwn y cyfnewidiad mawr sydd yn cymeryd lle yn amgylchiadau y pechadur dychweledig. Yn lle bod yn grwydryn, wele ef yn nhŷ ei dad; yn lle bod yn gaethwas, wele ef yn fab; yn lle bod yn noeth, wedi ei wisgo â'r wisg oreu; yn lle y cibau, yn gwledda ar y llo pasgedig; ac yn lle cywilydd, ofn, a galar, llawenydd a chysur."

Ar ddiwedd y copi ysgrifenedig, ceir y nodiad:—"Cefnywaen, Ionawr 22ain, 1834. Heno y bu'm yn ceisio dyweyd y tipyn cyntaf erioed oddiwrth un rhan o Air Duw. Teimlwn yn bur galed."

"OHERWYDD BOD DIGOFAINT, GOCHEL."—JOB XXXVI. 18.

Mewn ffordd o agoriad i'r testyn, y mae yn sylwi ar amcan cyffredinol y llyfr, ac yn crynhoi y dadleuon fel y gweithient i gyrhaeddiad yr amcan mewn modd galluog ac effeithiol. Daw geiriau y testyn i mewn ganddo "yn rhybudd sobr i Job i beidio parhau yn ei gyndynrwydd, oherwydd bod digofaint, am fod yr Arglwydd fel pe b'ai yn dangos nad ydyw pobpeth yn dda, gochel; gochel ymgaledu, parhau yn gyndyn, rhag iddo dy gymeryd ymaith â'i ddyrnod."

"Ni a gawn yn y testyn fel y mae yn dwyn perthynas â ni:—

"I. Rhybudd difrifol. Mae y rhybudd hwn yn cenhedlu pump o ymofyniadau:—1. Pwy sydd yn ddig? 2. Pwy ydynt wrthddrychau y digofaint? 3. Am ba beth y mae Duw yn ddig wrthym? 4. Gan ein bod wedi digio Duw â'n pechodau, pa fath ydyw y digofaint Dwyfol?" Yn nglŷn â'r ymofyniad hwn, enwa wyth o ystyriaethau yn nglŷn â'r digofaint." 5. Pa bethau sydd yn profi fod y fath ddigofaint yn Nuw?" Manyla ar saith o bethau yn atebiad i'r ymofyniad hwn.

"II. Anogaeth serchog—'Gochel.' Mae yr anogaeth hon eto yn ein harwain i dri ymofyniad:—

"1. Pa un ydyw yr ochelfa? Yn nacaol y mae tair gochelfa siomedig: *Gobeithio'r goreu, gwneyd ei oreu, a phroffes wâg o grefydd;* ac yn gadarnhaol, yr unig fan diogel i bechadur lechu rhag y digofaint sydd ar ddyfod ydyw yn Nghrist.

"2. Gan mai Crist ydyw yr unig noddfa, pa fath noddfa ydyw?

"*(a)* Y mae yn lle o osodiad Duw.

"*(b)* „ „ addas.

"*(c)* „ „ diogel.

"*(d)* „ „ o gysur a dyddanwch.

"*(e)* „ croesaw i bawb droi ato am noddfa.

"3. Pa fodd y mae dyfod i'r noddfa hon? Gwna atebiad Paul i geidwad y carchar y tro yma, 'Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi.'

"III. *Bygythiad Ofnadwy.* 'Rhag iddo dy gymeryd ymaith â'i ddyrnod.'"

Ar ddiwedd yr ysgrif hon eto ceir a ganlyn:—"Dydd Gwener y Groglith, 1834. O! fy enaid, ystyria a ydwyt yn y noddfa? Ysgoldy, Mawrth, 1834; Llanrug, Mai, 1834."

## PENNOD IV.

### EI ORDEINIAD I WAITH Y WEINIDOGAETH.

*Llais eglwys Ysgoldy yn ei achos—Ei dderbyn i'r Cyfarfod Misol—John Elias a Michael Roberts Blino ar y chwarel—Dysgu bod yn siopwr yn Nefyn—Agor siop yn Clwtybont—Ei brofiad fel siopwr—Ei lythyr at Dr. O. Thomas—Cwyn y llais—Ei "Fwriadau"—Ei "Gyfammodau"—Y siopwr yn cael ei golli yn y pregethwr—Profiad crefyddol—Ymofyn gwraig—Priodi—Hapusrwydd teuluaidd—Ei ddewis i'w ordeinio—Ei ordeiniad.*

---

Wedi pregethu ei bregethau cyntaf hyn yn Ysgoldy a Chefnywaen, ni chollwyd dim amser mewn rhoddi i'n gwrthddrych bob chwareu teg i fyned yn mlaen, oblegid yn mis Mawrth, 1834, anfonwyd y Parch. John Jones, Talysarn, yno gan y Cyfarfod Misol i'w brofi ef ac Ellis Foulkes, ac i wrandaw llais yr eglwys yn eu hachos. Daethant drwy y prawf yn dda. Yr oedd yr holl eglwys yn un llais am iddynt gael pregethu. Fel hyn yr ysgrifena efe yr hanes yn mlaen:—

"Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn y Graig, yn mis Mai, fe'n derbyniwyd yn aelodau o Gyfarfod Misol Sir Gaernarfon. Cyfarfod Misol difrifol i mi oedd hwn. Yr oedd yn bresenol Mr. Elias, o Fon; y Parchedigion Michael Roberts; James Hughes; John Jones, Tremadog, ac ereill. Yr oedd pedwar ohonom i gael eu derbyn fel pregethwyr—Owen Thomas, Bangor (yn awr Dr. Owen Thomas, Liverpool); Robert Jones, Rhydfawr; Ellis Foulkes, a minau. Yr oedd ein tadau yn dirion iawn ohonom, yn ein cynghori ac yn ein dysgu. Darfu i Mr. Elias wrth fy holi am fy mhrofiad o bethau yr efengyl, ymosod arnaf yn lled chwyrn, ond nid yn ormod felly ychwaith. Gofynodd a oedd genyf ryw seiliau i obeithio fy mod i fy hun yn gadwedig? Nis gallwn ateb ei gwestiwn yn ddigon cryf, pendant, a phenderfynol ganddo ef; ond dywedais fod '*rhywbeth* arnaf yn wahanol i'r hyn a fu'm unwaith.' Nid oedd yn cael ei foddhau yn yr atebiad. Ar hyn cyfododd braidd yn gyffrous, a dywedodd, '*Rhywbeth*, dyn yn gwaeddi ar eraill, ffowch: yr ydych mewn perygl oni ddiengwch, fe'ch difethir; a'r dyn heb ddianc o'r perygl ei hunan! Pa hawl sydd gan ddyn i gyhoeddi cadwedigaeth i eraill, ac yntau yn ngafael colledigaeth ei hunan! Dyn yn cymhell Crist yn Waredwr i eraill, ac yntau ei hun heb ei dderbyn! Na, nid *rhywbeth* a wna y tro i fyned i bregethu.' Nid anghofiaf byth ei wedd ddifrifol pan yn dyweyd yr ymadroddion

hyn. Yr oeddwn yn crynu o'i flaen, a braidd yn myned i lesmair. O! Elias, ni welais neb fel tydi! Naddo neb; tebycach oeddit i angel nac i ddyn. Ond cododd y Parch. Michael Roberts i fyny, a chymerodd blaid y gwan, gan ddyweyd, 'Nis gall duwiolion, ïe, a hen dduwiolion yn fynych, gael dim gwell enw ar waith gras yn eu heneidiau na *rhywbeth*. Y *peth hwn* y galwai yr Apostolion y tywalltiad grymus hwnw o'r Yspryd Glan ar ddydd y Pentecost. *Rhywbeth* ydyw gwaith yr Yspryd Glan byth nad ydyw dyn, er ei deimlo, yn deall braidd i ddim ohono, ac eto y mae yno *rywbeth*.' Yr oedd fy llygaid fel dwy ffynon wrth glywed yr amddiffyniad yma i fy '*rhywbeth*.' 'Michael bach' fel y galwai yr hen chwiorydd ef, un gwych oedd efe am gymeryd plaid y gwan. Ond y mae hen gwestiwn Elias byth heb farw yn fy meddwl. Pa sail sydd genyf i hyderu fy mod i fy hun yn gadwedig? Yn y diwedd fe'n derbyniwyd oll yn unfrydol fel aelodau o'r Cyfarfod Misol, i bregethu yn holl gylch Sir Gaernarfon.

"Ar ol hyn ymroddais i ymaflyd yn y gwaith o bregethu goreu y gallwn. Ond yr oedd fy amgylchiadau yn lled anffafriol i wneyd dim yn debyg i degwch â gweinidogaeth y Gair. Yr oeddwn heb ddim dysg, ond prin ddigon i ddeall llyfr Saesoneg eglur. Yr oedd fy nawn a'm llais yn afrwydd a dilywodraeth, fy meddwl yn arwynebol, a gwaeth na'r cwbl, yr oedd diffyg ymroddiad yn fy llethu. Byddai fy mhregethu y pryd yma yn hynod o anwastad. Ar rai adegau byddwn yn cael fy nghodi yn llawer uwch na mi fy hun; brydiau eraill yn îs, os oedd modd i hyny fod hefyd. Weithiau byddai y pregethu yn tra rhagori ar y bregeth. Bryd arall byddai y pregethu yn llawer llai peth na'r bregeth. Bu cymeryd mwy o lafur gyda'r bregeth yn foddion i wastadhau llawer ar y pregethu. Pa un ai enill a'i colled fu hyny, sydd amheus!

"Yr oeddwn y pryd hyn yn dilyn fy ngalwedigaeth yn y chwarel, a chan y byddai rhyw foddion yn y capel agos bob nos, yr oedd yr amser i lafurio ac astudio yn brin iawn genyf. Mor ddymunol yr adeg yma fyddai cael ambell ddiwrnod drycinllyd er cael peidio myned i'r chwarel! Yn mhen dwy flynedd neu lai, dechreuais flino ar y chwarel. Nid blino ar weithio yr wyf yn sicr. Ond pa alwedigaeth arall a gawn? Nid oedd y tâl am bregethu yr adeg yma ond prin iawn, ddim yn haner digon i gynal dyn sengl, a byw yn y ffordd gynilaf.

"Daeth i fy meddwl y gallwn wneyd byd gwych ohoni trwy gadw siop fechan, ond llwyddo i gael lle i'w chadw y cawn ddigonedd o amser, a rhyddid i fyned a dyfod fel y mynwn. Wel, dyna hi, siop raid gael. Tra yn berwi y peth yn fy meddwl, a chynyg ar fan neu ddau, ond y drysau yn gwrthod agor; ar funyd, dyma

ddrws yn agor yn Nghlwtybont. Dyma obaith da am siop a siopwr. Am unwaith mewn oes, gwelwn y byd yn wỳn o'm blaen. I aros i'r siop fod yn barod, y peth cyntaf oedd i'w wneyd oedd myned i rywle i geisio gwneyd siopwr o hen chwarelwr. Yr oeddwn yr adeg yma yn wyth ar hugain mlwydd oed. Agorodd drws yn bur ddidrafferth i hyny. Mor hwylus y mae pobpeth yn gweithio pan y mae Rhagluniaeth dirion yn agor drysau! Nid oes ei bath hi am agor a chau. Dyma fi yn myned i Nefyn am dri mis at Mr. a Mrs. Roberts, Shop y Maes, a dyna lle bu y ddeu-ddyn anwyl hyn yn ddiwyd ac yn ddygn, yn rhoddi eu holl ddoethineb ar lawn gwaith yn ceisio gwneyd y peth mawr, afrosgo, mynyddig, yn *siopwr*. A diau iddynt deimlo lawer gwaith eu bod wedi ymgymeryd â thasg hollol anobeithiol. Nid oedd yn y creadur oedd o'r tu ol i'r *counter* ddim defnydd at siopwr, ond yr *awydd*. Yr oedd ynddo awydd, ac awydd angerddol hefyd. Bydded pobpeth arall fel y byddant; dyma sylfaen dda, *awydd*.

"Rhywbryd yn mis Mai, 1837, dyma fi yn fy siop. Dyn byw! Haf ati bellach! Dechreuais yn y fan isaf. Yr oedd fy chwaer Margaret, yr hon oedd yn ieuanc o ran oed a phriodi, y pryd yma, gyda mi yn cadw tŷ. Gwnaeth hi ei rhan yn ffyddlawn. Nid oedd genyf ond £30 o arian o'm heiddo fy hun yn dechreu; ond trwy fod yn ddyfal, yn fanwl, ac yn ofalus, daeth y siop yn weddol rhagddi. Ac felly, fe gollwyd y chwarelwr yn y siopwr. Ond och fi! fe lyncodd y siopwr y pregethwr hefyd. Do. Yr oeddwn yn cael mwy o ryddid a mwy o amser nag yn y chwarel, ond collodd yr *awydd*. Mae sefyllfa fanteisiol yn rhy fynych yn troi yn anfanteisiol i ddyn.

"Dywedwyd gair wrthyf gan hen chwaer yn Nefyn, pan oeddwn yn aros yno, a wnaeth i mi yn y cysylltiad hwn lawer o les. Sioned Owen ydoedd enw yr hen chwaer synhwyrol a chrefyddol, a dyma oedd ei chynghor: 'Peidiwch a disgwyl gormod wrth eich cyfeillion crefyddol gyda'ch siop. Yr oedd erfyniadau taer yn cael eu gwneyd gan frodyr Nefyn am i Robert Owen (y Parch R. Owen, Rhyl, yn bresenol) i ddyfod yma i fyw, i gadw siop, ac yr oeddynt yn addaw pob cynorthwy, trwy brynu yn y siop, wrth gwrs. Nid trwy ein cyfeillion crefyddol, ond trwy ryw gigfrain y mae ein Tad Nefol yn anfon cynhaliaeth i ni.' Gallaf finau dystio yr un peth.

"Profedigaeth lem i bregethwr yn byw ar gadw siop ydyw hon; dyn yn rhoddi ei amser a'i lafur i wasanaethu cynulleidfa a chymydogaeth, ac mewn cymydogaeth boblogaidd bydd y llafur yn fawr os mŷn dyn fod yn ffyddlawn; ac eto y 'cyfeillion crefyddol' yn dangos y dibrisdod mwyaf ohono yn ei amgylchiadau

bydol. Gwerthant ef bob dydd, nid am ddeg ar hugain o arian, ond am ddimai goch. Disgwylir iddo lafurio mor lwyr-ymroddgar a'i gymydog sydd yn cael ei gynal i hyny. Ond disgwylir iddo ef a'i deulu ymgynal wrth y siop. Atolwg, pwy sydd i gynal y siop? Nid y bobl dda sydd yn galw am ei lafur, bid siwr; ond rhyw gigfrain sydd yn teimlo ar eu calon wneyd y gymwynas yma iddo ef a'i deulu. Gwir fod llawer mewn cymydogaeth yn ymddwyn yn wahanol, gan deimlo dros eu pregethwr, a gwneyd eu rhan i'w gynorthwyo. Mae pob pregethwr sydd yn byw ar gadw siop, wedi cyfarfod â'r brofedigaeth hon i'w feddwl gan'waith a chan'waith drachefn.

"Nid yn y fan yma ychwaith y mae yr aflwydd hwn yn diweddu. Mae ymddygiadau gwahanol y cyfeillion crefyddol yn gosod y pregethwr mewn profedigaeth i ymddwyn yn wahanol tuag atynt hwythau yn ei lafur bugeiliol, trwy wneyd mwy o'r naill nag o'r llall. Yn wir, rhaid cael gras mawr i beidio, os gellir peidio er pob gras. Nis gall dyn, er cael pob gras, fod yn ddim uwchlaw *dyn grasol.* Dyma anffawd flin. Disgwylir i'r pregethwr sydd yn cadw siop wneyd gwaith y gweinidog mor llawn a'i gymydog nad oes ganddo ddim fel galwedigaeth ond y weinidogaeth, a disgwylir iddo yr un pryd fod yn siopwr mor drwyadl a chymydog arall nad oes ganddo ddim i'w wneyd ond gwerthu y tu ol i'r *counter.* Ar ol blynyddoedd lawer o brawf, mi a gynghorwn bob dyn i beidio byth a cheisio llenwi dau gymeriad mor wahanol i, ac anghydrywiol â'u gilydd.

"Bellach, yr oeddwn yn bregethwr yn cadw siop. Tua'r adeg hon, collais bob blas ar ddarllen llyfrau duwinyddol, a methais ei gael yn ol o gwbl i'r graddau y bu yn dylanwadu arnaf yn flaenorol, er ei geisio yn egnïol. Parodd y siop i mi lawer o bryder, ond cefais fwy o amser i barotoi pregethau o'r fath ag oeddynt. Gwnawn hyn gan amlaf wrth y *counter* yn y siop."

Y mae y nodiadau helaeth a ysgrifenodd Mr. Ellis yn ystod y deng mlynedd hyn yn ei ddyddlyfr, yn ychwanegol at y nodiadau blaenorol, yn dangos eto ei fod yr adeg yma yn nodedig galed a didrugaredd tuagato ei hun, ac yr oedd pryder yn nghylch ei fywyd ysprydol mewn crefydd bersonol, ei ofal am anrhydedd y weinidogaeth, ei ofn rhag i'r fasnach droi allan yn aflwyddiannus ac yn niweidiol i effeithiolrwydd ei bregethu, yn nghyda'r awydd angerddol a'i meddiannai am i'w weinidogaeth gael ei harddel gan Dduw er adnewyddiad a cadeiladaeth y saint ac achubiaeth pechaduriaid, yn peri fod y blynyddoedd hyn yn neillduol o boenus, pruddaidd, a thrallodus yn ei hanes. Yn mis Mai, 1835, cawn ef yn ysgrifenu y llythyr canlynol at ei gyfaill serchus a'i gydymaith yn

y weinidogaeth, y Parch. O. Thomas, Bangor (yn awr Dr. Thomas, Liverpool), yn yr hwn y ceir profion diamheuol mor lawn o bryder ydoedd am i'r cam a gymerodd gael ei fendithio gan Dduw er lleshad eneidiau :—

"Anwyl Owen,

"Yr wyf yn anturio anfon y papuryn hwn atoch, gan obeithio trwy hyny ddal i fyny yn nghyda meithrin yr ychydig gyfeillach a ddechreuasom. Buan iawn y diffodda amser y gyfeillach wresocaf, oddieithr defnyddio rhyw foddion i atal hyny. Ac oherwydd yr anghyfleusdra sydd i ni fwynhau cyfeillach ein gilydd trwy ymddiddanion, nid anfuddiol ydyw i ni ymgymdeithasu trwy lythyrau.

"Un o'r pethau sydd yn cael mwyaf o le yn fy meddwl yn bresenol ydyw ofni, rhag ar ol i mi bregethu i eraill, fod fy hunan yn anghymeradwy. Byddaf yn meddwl yn fynych am 'fuwch frith fawr' Jones, Tremadog. Y mae yn ddiau fod pregethu (a dyweyd yn gydmariaethol) yn gyfansoddedig o gorph ac enaid. Dawn, gwybodaeth, gweddusrwydd, callineb, &c., ydynt gorph pregethu, *h.y.*, pethau allanol y weinidogaeth ; ond y mae gan wir bregethu *enaid*, ac *enaid* y weinidogaeth ydyw cymdeithas â Duw. Pa addurniadau bynag a allant fod mewn gweinidog, oni bydd cymdeithas rhyngddo a Duw, ni bydd ei weinidogaeth amgen na chorph marw heb enaid. Frawd anwyl, gwareded Duw ni rhag anog eraill i rodio llwybrau nad oes ynom ddim ymdrech i'w rhodio ein hunain, dangos drwg pechod heb weled ei ddrwg ein hunain, a dangos rhagoriaethau Crist i eraill a ni ein hunain heb erioed ei weled oll yn hawddgar ac yn rhagori ar bawb. Ond dyma fel y dylai fod, yr hyn a welsom, yr hyn a glywsom, hyny yr ydym yn ei fynegi i chwi.

"Dymunwyf hysbysu fy mod mewn cryn raddau o ddyryswch o achos fy llais, canys pa mor gymhwys bynag fyddo y materion, oni bydd hyseinedd yn y traddodiad, ni byddant yn gymeradwy. Er nad ydwyf yn hoff o ymdrechu i rodio llwybrau rhai eraill, eto, y mae yn rhaid i mi i raddau ymadael â'm ffordd bresenol o draddodi, ac am hyny rhaid gwneyd un newydd. Natur ydyw rheol fawr llafaredigaeth, eto natur wrteithiedig. Ond wrth adael fy null aflafar presenol, nis gwn ar y ddaear ar ba law i droi. Mae arnaf ofn fod gan falchder lawer o law yn y fath gynhwrf.

"Y mae rhyw dueddiadau grwgnachlyd yn aflonyddu fy meddwl oherwydd prinder amser i ddarllen a myfyrio, heb ystyried nad ydyw Duw yn gofyn oddiar fy llaw, yn fy amgylchiadau presenol, yr hyn y mae yn ei ofyn gan y rhai nad oes ganddynt ddim i ofalu

yn ei gylch ond pregethu. Yr hyn a ofynir genym ydyw—'Bydd ffyddlawn hyd angau.' Peth gwerthfawr ydyw cael cymhorth i ddilyn yr Arglwydd yn ei Ragluniaeth.

"Rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen, gan edrych ar Iesu. Gwareder ni rhag edrych ar neb nac ar ddim arall fel arno Ef; myned trwy barch ac anmharch, gan edrych ar Iesu; ymladd â'n gelynion, gan edrych ar Iesu; codi ein holl groesau, gan edrych ar Iesu; ymostwng i ewyllys Ragluniaethol y Jehofah, gan edrych ar Iesu. Bydded Iesu Grist ein pobpeth. Na fydded i ni wybod dim ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio.

"Yr wyf newydd dderbyn llythyr oddiwrth fy nghyfaill anwylgu Ellis Foulkes. Da genyf eich hysbysu ei fod yn iach a chysurus. Y mae yn amlwg i bawb fod gwylder a gostyngeiddrwydd yn fawr yn y dyn ieuanc duwiol hwn. Wele frawddeg neu ddwy o'i lythyr: 'Y mae ymadrodd a welais yn y *gems* yn aml wrth fy meddwl. 'Y neb a elo yn rhy uchel i gymeryd cynghor gan yr *isaf*, sydd yn anaddas i roddi cynghor i neb'; a'r peth ddywedodd Mr. Elias wrthym yn y Graig, 'Mae colli golwg ar fawredd y gwaith sydd yn peri i ddynion fyned yn falch.' Ac, meddyliwyf i mi gael mwy o olwg ar bwysigrwydd y gorchwyl o bregethu ar ol dyfod i Gaer nag a welais erioed o'r blaen!' Balasarn *(ballast)* gwerthfawr yn y meddwl onide ydyw hyn, i'w gadarnhau yn erbyn y fath groeswyntoedd a gwrth*deitiau* a allant ymosod ar bregethwr ieuanc yn y fath le a Chaerlleon.

"Yr wyf yn teimlo yn hynod o awyddus a hiraethus am eich cyfeillach eto, canys nid oes genyf neb o'r cyffelyb feddwl, *h.y.*, neb yn fy nghymydogaeth y gallaf dywallt fy meddwl iddo yn ddibetrusder, neb a allai gydymdeimlo â mi yn fy nigalondid mynych, na neb a wna (neb rhyw ddyn wyf yn feddwl) fy lloni trwy gyfarwyddiadau fel y gwnaethoch chwi lawer gwaith. Gadewch i mi eich cael yn gyfaill mynwesol.

"Yr Arglwydd a'ch bendithio yn gwbl oll. Amen. Da genyf os caf glywed oddiwrthych.

"Ydwyf eich annheilwng Gyfaill,

"ROBERT ELLIS."

"Garnedd, Mai 7fed, 1835."

Ymddengys y parodd aflafareidd-dra llais lawer iawn o boen iddo yn ystod y tymhor hwn. Y mae yn ei ddyddlyfr lawer o gyfeiriadau at hyn wedi eu hysgrifenu yn Saesoneg, am yr amcanai drwy hyny berffeithio ei hun yn yr iaith hono. Tua'r adeg yr ysgrifenodd y llythyr blaenorol, dywed: "Yr wyf mewn penbleth dirfawr gyda'm llais aflafar am nas gallaf ei reoli. Y

mae yn waeth yn awr nag erioed." Y mae yn rhyfedd fel y gallodd trwy ddeall mewn pryd, a thrwy arfer ei lais i ddisgyblaeth galed, ddwyn llais ydoedd yn naturiol yn grâs a garw, i beidio cael ei deimlo yn annerbyniol gan ei wrandawyr. Yr oedd er's blynyddoedd lawer o ran hyny a'i lais mor nodweddiadol ohono a dim a berthynai iddo. Ni fuasai yn Robert Ellis heb y llais neillduol oedd ganddo, a daeth hyd yn nod y llais yn dderbyniol a chymeradwy fel rhan ohono ef ei hunan.

Y mae ei ddyddlyfr y tymhor hwn hefyd yn cofnodi nifer o "Fwriadau" o'i eiddo, wedi eu hysgrifenu ganddo ar wahanol adegau, fel penderfyniadau y gweithid ef iddynt gan argyhoeddiadau am dano ei hun, arferion drwg, a chynydd a llwyddiant yr achos goreu. Bydd casgliad ohonynt yma yn gystal dangoseg o ystâd ei feddwl a'i galon y pryd hwn a dim ellir gael:—

"1. Yr wyf yn bwriadu yn sobr i lafurio mwy yn y Beibl, i bregethu mwy o'r Gair, gan osod yr Ysgrythyr yn sylfaen i'm holl bynciau, a bod yn fwy hyddysg yn y gwirionedd.—Chwefror 25, 1836.

"2. Yr wyf yn bwriadu yn sobr i ymdrechu â'm holl egni o blaid achos cymedroldeb yn mhob modd a thrwy bob moddion. Am hyny ni byddaf yn fyr o wneyd fy ngoreu drwy gymhorth gras.—Mawrth 18, 1836.

"3. Yr wyf yn sobr yn penderfynu na bydd i mi, trwy gymhorth gras, yfed yr un dyferyn o ddiodydd meddwol ond fel meddyginiaeth.—Gorphenaf 3, 1836.

"4. Yr wyf yn penderfynu gosod Iesu Grist wedi ei groeshoelio yn ganolbwynt i fy holl bregethau. Mi a ddylwn drin pob cangen o athrawiaeth fel ag i agor y ffordd i ogoniant Crist ymddisgleirio. —Gorphenaf 5, 1836.

"5. Yr wyf yn bwriadu yn sobr i chwilio yr holl bynciau yn y 'Cyffes Ffydd,' a'u profi yn ngwyneb y Beibl a llyfrau eraill, ac felly i geisio gosod yn fy meddwl Gorph o Dduwinyddiaeth.—Awst 26, 1837.

"6. Mi a ddymunwn na byddo i mi wneyd dim tuagat fod yn ddyn cyhoeddus, *h.y.*, na byddo i mi ymwthio i un lle, cyflawni un gwasanaeth, ffurfio un agwedd arnaf fy hun, na dyweyd dim i foddio y duedd lygredig sydd ynof i ddangos fy hun.—Ion., 1837.

"7. Dymunwn ymdrechu i ddyweyd sylwedd wrth bregethu yn hytrach nac amcanu at sŵn.—Chwefror 19, 1837.

"Yr un Sabbath, yn mhwlpud Brynaera, penderfynais yn—

"8. Na bydd i mi eistedd cyn i'r gynulleidfa orphen canu, oni bydd rhywbeth mawr yn galw am hyny.

"9. Yr wyf yn bwriadu, trwy gymhorth gras, i wastraffu llai ar fy amser, ac i'w ddefnyddio yn well.—Mawrth 30, 1838."

Nos Wener, Chwefror 6ed, 1839, cawn ef yn cyflwyno ei hun i'r Arglwydd yn y geiriau hyn:—

"Dyma fi unwaith eto yn dymuno offrymu fy hun i'r Arglwydd a'i waith. Yr amodau y dymunwn sefyll atynt ydynt—(1), Peidio â phechod. (2), Chwilio pa beth a orchymynir i mi yn y Gair, ac ymdrechu i gadw at y cyfryw orchymynion. Dymunwn wneyd y cyflwyniad hwn ohonof fy hun i'r Arglwydd bob dydd."

Dydd Sadwrn, y 27ain o Orphenaf, 1839, o dan y penawd, "Cyfamod newydd," ysgrifena fel y canlyn:—

"Yr wyf yn dymuno cael myned i gyfamod â'm Duw drachefn. Dymunwyf—

"1. Roddi fy holl achosion tymhorol yn ei law Ef.

"2. Iddo Ef fy arwain a'm tywys ar hyd y ffordd hono y byddaf fwyaf o ogoniant i'w enw, ac o ddefnydd gyda'i waith.

"3. Cael cymhorth i'w ddilyn yn ei Ragluniaeth yn dawel a diddig o ran fy yspryd, heb ymrwystro yn ormodol gyda negeseuau y bywyd hwn, ond cael bod yn foddlawn i'r hyn sydd genyf, ymdawelu yn wyneb ei droion chwerwon, bod yn bererin ar y ddaear, ac felly i beidio a theimlo llawer oddiwrth wên na gwg y byd.

"4. Yr wyf yn dymuno cyflwyno fy hun iddo—gorph ac enaid—i'm cadw byth trwy Grist.

"5. Yr wyf yn dymuno cael byw mewn awyr mor glir o ran fy yspryd, fel y byddo ei fwynhau Ef fy hyfrydwch penaf.

"6. Yr wyf yn dymuno cael y fath adnabyddiaeth o'm Gwaredwr a'r iachawdwriaeth trwyddo, nes ei garu yn benaf, ac ymorwedd ar ei drefn.

"7. Yr wyf yn dymuno ymarweddu mewn pobpeth i fynegu rhinweddau yr Hwn a'm galwodd.

"8. Yr wyf yn dymuno ymnerthu i'w waith a'i wasanaeth yn y modd mwyaf llwyr tra byddaf byw.

"9. Yr wyf yn dymuno ac yn gweddïo am gymhorth i gadw at, a dilyn y rheolau hyn."

Y mae y dyddlyfr yn rhoddi i ni amryw o'r cyfamodau hyn a wneid ganddo rhyngddo â'i Dduw, yn neillduol felly ar ddechreu blwyddyn; ac er y ceir hwynt yn amrywio rhyw gymaint yn manylion eu cynwysiad, y maent yn eu prif faterion, dymuniadau, ac amodau, yn ateb i'r un a roddwyd uchod. Nis gellir darllen y rhai hyn heb deimlo fod ein gwrthddrych yn un ydoedd bob amser mewn trafferth gydag ef ei hun, ac mewn awydd angerddol i gyflwyno i'w Arglwydd y gwasanaeth goreu a ffyddlonaf a allai.

Tra y mae yn rhwym o roddi rhyw gymaint o'i amser i'r fasnach, eto y pregethu a'r cynghori ydyw baich cynwys ei ddyddlyfr. Gyda'r rhai hyn yr oedd yn pryderu ac yn gwir ofalu. Masnachu

yr oedd yn hollol er mantais i ymroddi i bregethu, ac er cyfleusdra i gyflwyno i'w Dduw well a helaethach gwasanaeth. Felly wrth ddarllen cofnodiadau ei ddyddlyfr y tymhor hwn, ni cheir nemawr i air am y fasnach; a phan y ceir ef, y mae hyny bob amser pan y mae yn ofni i'r masnachwr gymylu a thori ar effeithiolrwydd llafur a defnyddioldeb y pregethwr. Y mae corph mawr y cofnodiadau yn ddatganiad o'i deimlad yn y llafur Sabbothol, ei ymroddiad i'r gwaith cartrefol, ac yn enwedig ei ddiffygion ei hunan yn yr ymgysegriad llwyr a hollol i'r gwasanaeth. Ymdrechai yn galed a di-ildio y pryd yma mewn llafur i wneyd pregethau newyddion, a chymerai boen lawer bob amser yn eu parotoad. Byddai ganddo bregeth neu ddwy yn newydd bob mis, yr hyn, yr adeg hono, a dyweyd y lleiaf, oedd yn newydd-beth pur hynod. Wrth, ac ar ol eu cyfansoddi, pryderai lawer yn nghylch eu llwyddiant yn eu hamcan goruchel fel cenadwri cymod Duw at fyd colledig. Gellir deall hyny wrth ddarllen y cyfryw sylwadau a ganlyn yma a thraw yn y "Dyddlyfr" am ei Sabbothau:—"'Dydd y pethau bychain'—cefais gymorth. 'Rhybuddio y drygionus'—tywyll. 'Ni rwystrir'—goleu canolig. Taith Ysgoldy a Rhydfawr. Yr oedd fy mhregethu y Sabboth yn ddarlun o'm byw trwy yr wythnos. Bu'm i yn yr wythnos fyw yn mhell oddiwrth Dduw; ar y Sabboth bu Duw yn bell oddiwrthyf finau."

Y mae y cofnodiadau hyn yn dra lluosog, ond gwasanaetha y rhai hyn yn engreifftiau i ddangos fel yr oedd ei feddwl o'r dechreu yn gwbl fyw i bwysigrwydd y gwaith yr ymgymerodd âg ef, ac o'r angenrheidrwydd am wyliadwriaeth wastadol arno ei hun er cadw ei hunan mewn agwedd y byddai Duw yn debyg o gymeradwyo a bendithio ei lafur a'i wasanaeth.

Yn ei gofnodiadau gwna y sylwadau canlynol ar brofiad crefyddol, y rhai a achlysurwyd, fel y mae y cofnodiadau blaenorol a dilynol yn dangos, gan agwedd ei feddwl a'i brofiad ei hunan:—

"Mae crefydd yn beth i'w phrofi. Nid yn unig y mae i'w chwilio a'i deall, i'w gweithio a'i hymarfer, ond hefyd y mae yn beth i'w mwynhau. Mae argyhoeddiad, edifeirwch, maddeuant, cariad, gobaith, ffydd, llawenydd, nid yn unig yn bethau i'w deall, ond hefyd yn bethau i'w profi. Os darllenwn y Beibl, ni a welwn y byddai y duwiolion yn profi llawer ohonynt.

"Yr hyn yr ydym yn ei brofi sydd genym o grefydd mewn gwirionedd. Mae cael profi ychydig yn well na gwybod llawer. Mae ychydig o oleuni yn y galon yn well na llawer o oleuni yn y pen. Mae gwybedyn byw yn well na llew marw. Mae ychydig o alar oherwydd pechod yn well na dawn angelaidd i ddyweyd am dano. Mae aderyn mewn llaw yn well na dau mewn llwyn. Mae ychydig

mewn profiad yn well na llawer mewn hanes. Nid ydyw gwybodaeth noeth heb brofiad ddim amgen na chorph marw heb enaid, eistedd wrth fwrdd llawn o ddanteithion heb ymborthi, lamp heb olew, adeilad heb graig yn sylfaen, a darlun ar y pared heb ddim bywyd.

"Y mae *theory* gyda chrefydd yn beth peryglus—dyn yn dysgu morwriaeth yn ei barlwr heb wybod dim am gael ei luchio gan y tonau, a'i guro gan ruthriadau croes-lanw; dysgu defodau milwraidd heb erioed weled ei elynion, heb wybod fawr beth yw bloeddio i'r frwydr, na pha beth ydyw chwyrnelliad y bwledi o amgylch ei ben, cleddyfau yn chwareu o gwmpas ei galon, dros ei esgidiau mewn gwaed, heb wybod nemawr am ymgyrch chwyrnwyllt y meirchfilwyr, a bidogau y gelynion yn bygwth trywanu ei galon. Y mae profi ychydig yn well na gwybod llawer. Dyma fel y mae gormod gyda chrefydd, yn gwybod llawer yn hanesiol, ond heb wybod dim yn brofiadol, gwybod ond ychydig am daranau Sinai, am farw i'r ddeddf ac am aileni, oherwydd pechod, yn gwybod ond ychydig am rinwedd gwaed y groes a maddeuant pechodau.

"'Rho brawf, rho brawf ar frys i ni
O ddwyfol haeddiant Calfari.'"

Tua diwedd y tymhor hwn, yr ydym yn cael i ddau ddigwyddiad pwysig iawn gymeryd lle yn ei hanes, priodi gwraig a chael ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth. Cymerodd y ddau amgylchiad le yn y flwyddyn 1842. Caiff ef ei hunan adrodd yr hanes fel yr ysgrifenwyd ef ganddo yn y flwyddyn 1879:—

"Yr oedd ysfa gwraig arnaf byth er pan ddechreuais gyda'r siop, os nad ryw gymaint cyn hyny. Yr oedd genyf dri thestyn i'm gweddi y pryd hyny—cael crefydd o'r iawn ryw fy hunan, gweinidogaeth fuddiol, a gwraig. Bu'm yn cynyg fy hun i ryw ddwy fenyw, ond darfu i'r ddwy fy mwrw ymaith braidd yn ddirmygus. Effeithiodd hyny gymaint arnaf fel na chlywn ar fy nghalon gynyg fy hun i'r un ferch drachefn. Cefais lawer o *drwbl* meddwl gyda helynt y priodi. Yr oeddwn o hyd yn teimlo y dylwn briodi, ond gyda phwy? Nid oedd dim yn fy meddwl yn tueddu at yr un ferch mwy na'u gilydd. Oblegid hyny cymerais y peth yn fater gweddi, ac os gweddïais yn ddifrifol am ddim erioed, gwnaethum hyny am gael gwraig. Gwraig a fyddai yn gymhorth i mi gyda'i waith Ef fyddai baich y weddi bob amser. Os cefais fy ngwrando mewn dim, cefais yn hyn. Gan nas gallwn gael gwraig fy hun, cymerodd fy Nhad Nefol y gorchwyl o'm llaw. Daeth a gwraig i mi heb ei cheisio. Gwnaeth i mi ei phriodi er fy ngwaethaf. Ni bu iddi hi gymhell ei hun i mi, ac ni bu i minau gymhell fy hun iddi hithau. Eto aeth yn gyfrinach rhyngom. Cyn dyfod i bwynt,

oherwydd rhywbeth neu gilydd, dyrysodd fy meddwl, a mynwn dynu yn ol, ac nid oedd neb am wrthdynu. Elwn inau yn ol os felly y dymunwn. Ond ni fynai fy Nhad Nefol ryw chwareu ffŵl felly. Pan y gofynwn iddo pa beth a wnawn, dywedai wrthyf mewn iaith mor eglur fel nas gellid ei chamgymeryd, 'Mae yn rhaid i ti gymeryd Hon a Hon yn wraig.' Felly y bu. Da fu y tro. Bendithier ei Enw. Ar y 23ain dydd o Fawrth, 1842, ymunais mewn priodas â Jane Evans, merch Mr. Humphrey Evans, Cae'r-ffynon, ger Harlech. Yr oedd hi eisoes er yn lodes wedi arfer â siop, ac yr oedd yn meddu llawer iawn o gymhwysder at gadw siop. Dyma oedd ei helfen. Profodd yn wraig ac yn fam deilwng o'r enw. Gwnaeth bobpeth a allai yn fy ffordd fel pregethwr. Gweithiai yn galed yn y siop er mwyn fy arbed. Hwyliai fi bob amser yn siriol i'm cyhoeddiadau. Gwnai bobpeth mor *bleasant* ag y gallai i'm derbyn adref yn ol. Profodd yn ymgeledd gymhwys i eithaf y gair. Mae duwioldeb a sêl grefyddol fy ngwraig uwchlaw ei amheu. Nid ydyw yn berffaith mwy nac eraill o'r saint, ond y mae yn bur dduwiol, ac yn ymroddgar i wasanaethu Duw trwy bob dyfal bara. Byddai yn dda genyf pe gallwn fod mor hyderus am fy niogelwch fy hun ag yr wyf yn gallu bod am gyflwr fy ngwraig. Yr ydym bellach wedi cyd-deithio trwy anialwch bywyd daearol er's dwy ar bymtheg ar hugain o flynyddoedd, wedi gweled llawer pant a bryn, ac yr ydym rywfodd yn myned yn fwy hoff o'n gilydd o hyd, os yw hyny yn bosibl. Bydded i ni ein dau gael cydfyw, ac na fydded pellder mawr rhwng dyddiau ein marw, ond bydded ewyllys Duw am hyn.

"Bu i ni chwech o blant, pedwar o feibion a dwy o ferched. Troes ein plant oll allan yn blant crefyddol, ond i'r fam, fel moddion, y rhaid diolch am hyny, ac nid i mi. Bu hi yn ofalus ac ymroddgar yn eu maethu a'u meithrin yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd ar y Sabbothau, ac adegau eraill, pan y byddwn yn gorfod bod oddicartref yn pregethu.

"Yn nechreu yr un flwyddyn y dewiswyd fi, gyda'm cyfaill John Owen, Gwindy, Eifionydd (y diweddar Barch. John Owen, Ty'nllwyn), gan Gyfarfod Misol Sir Gaernarfon, a gynhaliwyd yn Mhwllheli, i gael ein hordeinio. Nid oeddwn bresenol yn y Cyfarfod Misol ar y pryd, a phan ddeallais, teimlais ar unwaith fod camgymeriad mawr wedi ei wneuthur gyda golwg arnaf fi. Peth braf i'w ordeinio yn wir! Buasai fy atal i bregethu yn beth llawer cymhwysach. Yr wyf yn credu yn benderfynol eu bod wedi methu. Fe ddengys Duw iddynt eu *mistake* rywfodd neu gilydd. Fe ŵyr yr Arglwydd nad ydwyf gymhwys i fod yn weinidog yr Efengyl.

"Yr oedd ordeinio gweinidogion gyda'r Methodistiaid cyn hyn

yn dechreu myned i'r goriwaered; ac felly yr aeth, nes myned i'r pant isaf. Un o'r pethau isaf sydd yn perthyn i Fethodistiaeth ydyw ei *hordeiniad*. Yr oedd yr ordeinio y pryd hyny yn rhoddi rhyw fath o urddas ar ddyn yn ngolwg rhyw ddosbarth; ond y mae hyny, bellach, wedi llwyr ddarfod. Ac eto, y mae difrifwch o'r mwyaf yn hyn i'r ordeiniedig. Dyn yn cael ei alw gan wlad i fod yn weinidog! Yr oeddwn yn meddwl ar y pryd, ac yr ydwyf yn parhau i feddwl felly, na ddylai yr un dyn ymgymeryd â'r fath alwad ddifrifol yn unig er mwyn yr enw *gweinidog*. Na, fe ddylai pawb sydd yn derbyn galwad ei frodyr feddwl o ddifrif am *lenwi yr enw*, hyd y gallo. Bu hyny yn boen i mi ar y cyntaf, ar ol i'r ordeiniad fyned trosodd, fod rhywrai oedd yn meddu dylanwad mawr yn y wlad yn arfer y dylanwad hwnw er fy ngwthio yn mlaen. Bu hyn yn wanychdod poenus i mi, rhag mai dynion oedd yn fy ngosod yn y weinidogaeth, ac nid Crist.

"Cymerodd yr ordeiniad le yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 8fed, 1842. Yr oedd Cymdeithasfa y Bala y pryd hyny heb golli ei gogoniant. Naw ohonom oedd yn cael eu hordeinio yr adeg hono, ac o'r naw nid oes ond pedwar ohonom yn fyw ac yn y weinidogaeth, sef y Parchn. Roger Edwards, Wyddgrug; William Pierce, Rhosesmor; Owen Jones, Llandudno, a minau. Y mae un brawd arall yn fyw, ond heb fod yn bresenol (y flwyddyn 1879) yn pregethu. Yn y *Drysorfa* am Awst, 1842, cawn y llywyddid 'y cyfarfod gan y Parch. John Jones, Tremadog. Dechreuodd y Parch. Lewis Morris trwy ddarllen a gweddïo. Y Parch. John Hughes, Liverpool, a adroddodd araeth ar Ansawdd bresenol Methodistiaeth yn Nghymru, yn nghyda'r dyledswyddau a'r peryglon. Bwriodd olwg gryno ar ffurf gyfansoddol, gwedd amgylchiadol, ac ansawdd ysprydol y Corph, gan ei gymharu yn awr â'r hyn ydoedd yn ei fabandod. Yn mysg ein peryglon, nododd fod yn beryglus i ni anghofio ein swcwr, colli yspryd barn a doethineb mewn swyddogion, gwanhau mewn undeb a brawdgarwch, myned i seguryd a marweidd-dra, &c. Cyn terfynu, crybwyllodd am yr arwyddion o fywyd sydd eto yn ein mysg, gan ein calonogi i fyned yn mlaen. Y Parch. Evan Harris, o'r Deheudir, a ofynodd y cwestiynau athrawiaethol arferedig i'r brodyr a neillduid; ac wedi derbyn eu hatebiad, y Parch. John Hughes, sir Drefaldwyn, a ofynodd am yr arwydd o ddewisiad y Corph ohonynt i weinyddu yr ordinhadau o Fedydd a Swper yr Arglwydd. Rhoddwyd hyny trwy ddyrchafiad dwylaw. Y Parch. William Roberts, Amlwch, a draddododd gynghor tra difrifol i'r brodyr ordeiniedig, a diweddodd y Parch. John Jones, Llanbedr, sir Aberteifi, trwy weddi.'"

Wrth edrych yn ol yspaid dwy ar bymtheg ar hugain o flynydd-

oedd, nis gallai lai na thori allan i ddywedyd, "Diolch, diolch am y cadw a'r cuddio a fu arnaf fi!"

"Myfi oedd yr olaf ar y rhestr yn y Bala, ac yr oeddwn felly yn mhob ystyr. Rhywfodd yn y gynffon yr wyf byth, er i mi wingo llawer yn fy oes am fyned ychydig yn mlaen. Yr wyf bellach yn dechreu boddloni ar y lle yr ydwyf, ac yn gallu llawenhau wrth weled eraill yn fy mhasio. Ond trwy gymhorth Duw, mi wnaf fy ngoreu. Rhodded yr Arglwydd ras i mi i fod yn ffyddlawn ar ychydig. Gwareded fi rhag pob gweithred ddrwg, a chadwed fi i'w dragywyddol deyrnas, trwy Grist Iesu. Amen."

---

## PENNOD V.

### "Y DEUGAIN MLYNEDD HYN."

#### RHAN I.

*Ymroddiad i waith—Yr ardystiad dirwestol, a'i ymdrechion o blaid sobrwydd—Ei edmygedd o Mr. Elias—Ei sylwadau ar Mr Elias fel gwrandawr—Difrifwch Mr. Ellis—Ei afiechyd, a'i effeithiau—Ei daith i'r Deheudir—Ei ymdeimlad dwfn o lygredd y galon—Pryder yn nghylch taith i Loegr—Ceisio ymroi i'r byd—Mr. Roberts, Amlwch, yn Nghymdeithasfa y Bala—Ei gyfarfyddiad â, a'i edmygedd o Mr. Humphreys, Dyffryn—Bedyddio ei ferch ei hun—Y gofid a'r pryder yn ei herwydd—Sylwadau ar natur a phwysigrwydd yr ordinhad o Fedydd.*

---

Tymhor o weithio caled fu y tymhor hwn, ac o ymroddiad cysegredig i waith yr Arglwydd yn ei amrywiol gysylltiadau. Yr ydoedd Mr. Ellis, yn ystod y rhan fwyaf o'r tymhor yma, yn gorfod trafferthu â negeseuau y bywyd hwn er cynhaliaeth iddo ei hun a'i deulu. Ond pregethu, a gweithio dros ei Arglwydd, oedd meddwl mawr llywodraethol ei oes. I hyn yr aberthodd ei hun gorph ac enaid. Yr ydoedd yr hunan-aberthiad hwn i Iesu Grist yn peri ei fod bob amser yn un o'r rhai cyntaf i syrthio i mewn â phob symudiad tueddol i lesoli dynoliaeth, ac i'w gwaredu o'i thrueni. Cawsom, yn y bennod ddiweddaf, ei fod mor foreu a Gorphenaf, 1836, wedi gwneyd penderfyniad i lwyrymatal oddiwrth bob math o ddiodydd meddwol, ac felly i fod yn ddirwestwr. Efe a'r diweddar Barchedig Thomas Edwards, Ebenezer, oeddynt y ddau gyntaf yn y plwyf a'r cymydogaethau i gymeryd yr ardystiad hwn. Gwnaethant hyny yr un adeg yn nghapel Dinorwig, ar ddiwedd cyfarfod, yn yr hwn yr oedd y diweddar Mr: Robert H. Williams, y

pryd hyny o Fanchester, ac yn ddiweddaf o Menai Bridge, yn areithio ac yn llosgi *alcohol*, er llawer o syndod a boddhad i'r gynulleidfa. Parhaodd yn ffyddlawn i'w ardystiad hwn hyd y diwedd, ac ymgymerodd yn galonog â phob ffurf newydd ar y cwestiwn, gan ystyried mai ei ddyledswydd a'i ragorfraint ydoedd cael gwneyd ei hun yn bobpeth i bawb, fel y gallai drwy hyny enill rhai. Gwnaeth ei oreu bob amser trwy esiampl, perswadiad personol, ac areithio cyhoeddus i gael ei gydgenedl o drueni a dinystr cyfeddach a meddwdod. Ni bu neb a'i barch yn fwy fel dirwestwr egwyddorol a phybyr nag efe am yspaid pum' mlynedd a deugain.

Gwelir iddo gael ei ordeinio yn mhen y flwyddyn wedi marwolaeth y Parch. John Elias, ac yr oedd yr ymdeimlad o'r golled ar ei ol ef fel tywysog a gŵr mawr yn Israel wedi syrthio, yn peri fod ei ddylanwad ar ddynion ieuainc yn gwynebu y weinidogaeth yn llawn cymaint yn ei farwolaeth ag ydoedd yn ei fywyd. Yr ydym yn cael fod Mr. Ellis, oddiar ei adnabyddiaeth o Mr. Elias, yn edmygydd trwyadl ohono, ac yn teimlo yn ddwfn y golled a brofwyd yn ei ymadawiad. Yn mysg ei bapyrau, cawn y sylwadau canlynol ar

MR. ELIAS FEL GWRANDAWR.

"Nid yn unig yr oedd Mr. Elias y *pregethwr* goreu yn ei oes, ond yr ydoedd hefyd y *gwrandawr* goreu. Mae wedi digwydd yn rhy fynych fod y pregethwr enwog yn gwneyd gwrandawr sâl, ond nid ydyw hyny mor hyllig a gwrthun a bod rhyw gorach o bregethwr yn gwneyd trwyn sur a gollwng ei *dursiau* wrth wrando ar ei frodyr yn pregethu. Ond yr oedd Mr. Elias yn wrandawr da. Ymddangosai fel wrth ei fodd yn mwynhau gweinidogaeth pregethwyr cyffredin eu doniau, os caffai eu bod yn amcanu yn gywir at leshad eu gwrandawyr. Ar y cyfryw rai byddai yn gwrando â'i holl egni. Byddai yn fwy felly nag odid i neb yn y gynulleidfa. Daliai ar bob gair a ddywedai y pregethwr, edrychai yn siriol, porthai, amneidiai, gan ddal ei oreu ar y gwirionedd a draddodid. Byddai ei holl agwedd yn llefaru geiriau Cornelius, 'Yr awrhon, gan hyny, yr y'm ni oll yn bresenol gerbron Duw, i wrando yr holl bethau a orchymynwyd i ti gan Dduw.' Mor hawdd fyddai pregethu i gynulleidfa o wrandawyr fel efe! Dyn yn pregethu i'r gwynt, fel y dywedir, neu ynte un yn dwyn i mewn heresiau, fyddai yn wrthodedig ganddo. Byddai ei feddwl sanctaidd yn tosturio wrth y naill ac yn dirmygu y llall.

"Rhyw deirgwaith neu bedair y bu'm i yn ceisio pregethu yn ei glywedigaeth. Y tro cyntaf ydoedd yn nghapel y Graig, a hyny yn lled fuan ar ol i mi ddechreu pregethu. Ychydig o fisoedd yn

flaenorol yr oeddwn yno mewn Cyfarfod Misol yn cael fy nerbyn yn bregethwr. Aethwn oddicartref i'r Graig ar foreu Sabboth gwlybyrog. Yr oeddwn yno yn foreu. Rhyw haner awr cyn amser dechreu, dywedodd gŵr y tŷ wrthyf fod un arall i bregethu gyda mi y boreu hwnw. Holais pwy ydoedd. 'Oh! Mr. Elias,' oedd yr ateb. Ond nid aeth y newydd yn rhyw brofedigaeth fawr i mi ar y pryd, am y gwnaethum fy meddwl i fyny yn y fan na wnawn bregethu, a theimlwn yn bur sicr na byddai neb mor ffol a cheisio genyf. Dechreuais ofni, pa fodd bynag, rhag y ceisid genyf ddechreu yr oedfa. Yn mhen enyd, rhyw ddeng mynud cyn yr amser, dyma Mr. Elias at y drws yn ei *gig*. Daethai y boreu hwnw o'r Borth. Ni byddai efe byth ar ol ei amser. Mawr oedd yr helynt gan y cyfeillion yn ei gylch, ac yn enwedig felly gŵr y tŷ capel. Yr oedd Mr. Elias mor nodedig o ofalus fel na ddeuai i'r tŷ nes rhoddi y ceffyl, y *gig*, a phobpeth yn eu lle. Mynai efe weled y diwedd ar bobpeth. Ond o'r diwedd, i'r tŷ ag ef, a phawb am y goreu i'w groesawu. Yr oedd yntau yn siriol ac yn dirion wrth bawb. Ysgydwai law â'r holl gyfeillion, a hyny gyda gwên, ond gwên ddifrifol, cofier. Byddai difrifwch hyd yn nod yn *ngwênu* Elias. Ar ol i bawb orphen eu moes-gyfarchiadau, dywedwyd wrtho pwy oeddwn inau. Edrychai arnaf gyda gwên. Daeth yr amser i ddechreu yr oedfa. Dywedodd y blaenor y gwnawn i ddechreu yr oedfa, a dyna y gwrid i'r wyneb a'r cryndod i'r cymalau. 'Na,' ebe Mr. Elias, gyda gwên fyth, 'rhaid i'r gŵr ieuanc bregethu; efe sydd i fod yma heddyw: myfi ydyw yr *intruder*.' 'Na, gwell genyf beidio, os gwelwch yn dda, Syr,' meddwn inau. 'O na,' ebe Mr. Elias, 'rhaid i chwi bregethu.' Ac i'r capel yr aed dan grynu. Darllenais a gweddïais, ac yr oeddwn yn teimlo rhwyddineb. Yr oedd 'Amen' Elias i'w glywed dros y capel. Ar ol darfod y gwasanaeth dechreuol, troais ymaith i roddi lle i'r gŵr enwog. Ymaflodd yntau ynof o'r tu ol â'i ddwylaw, ac a'm gwthiodd i'r *front* drachefn, a dywedodd eilwaith yn y modd mwyaf serchog a thyner fod yn rhaid i mi bregethu. Felly fu. Nid oedd dim i'w wneyd ond pregethu neu fethu. Pa beth bynag am fy mhregethu, yr wyf yn sicr nad oedd yno neb yn well gwrandawr, os cystal, â Mr. Elias; ac yr oedd ei waith ef yn 'porthi,' fel y dywedir, yn rhoddi i mi lawer iawn o hwylusdod a hyfder i wneyd fy ngoreu yn y gwaith. Yr oedd yn ymorchestu i'm gwneyd yn ddiofn.

"Ar ol i'r gwasanaeth orphen, aethum i'r tŷ capel, ac yno yr oeddym ein dau i giniawa. Cymerodd fi gydag ef yn ei *gig* i Dan-y-maes at ddau o'r gloch, ond yr oedd efe yn myned i'r Crûg i orphwys. Yr oedd yn y tŷ ac ar hyd y ffordd yn hynod rydd a

chyfeillgar, yn ymddiddan yn siriol ac yn cynghori yn dadol. Yr wyf yn cofio ei fod yn rhoddi cynghor felly i mi:—'Myfyriwch bob gwirionedd yn drwyadl, fel y gellwch ei ddeall o bob tu, a'i adnabod yn ei holl gysylltiadau a gwirioneddau eraill. Dyna y Wyddfa, nid ydyw yn ymddangos yn hollol yr un fath o Gapel Curig, o Lanberis, ac o Feddgelert, eto y Wyddfa ydyw. Er mwyn ei hadnabod yn iawn, rhaid edrych arni o bob pwynt. Felly y mae gydag athrawiaethau y Beibl. Ewch o'u cwmpas, ac edrychwch arnynt o bob cyfeiriad. Edrych ar y gwirionedd o un ochr sydd yn arwain i gamsyniadau. Ymroddwch i fyfyrio y gwirionedd yn drwyadl.' Yr wyf yn cofio sylw arall o'i eiddo ar y pryd—'Gofelwch am bregethu yn blaen ac yn eglur. Y mae y cyffredin o'r gwrandawyr yn llawer mwy anwybodus nag y byddwn ni yn meddwl. Mi a wn pa beth ydyw pregethu yn ieuanc, a pha beth bellach ydyw pregethu yn hen. Mi a wn yn dda mai temtasiwn pregethwr ieuanc ydyw ceisio boddhau y dosbarth mwyaf gwybodus yn y gynulleidfa, ond edrychwch chwi ar y boblach isel fydd ar y meinciau ar lawr y capel, a phregethwch i'r rhai hyny, a gadewch i bobl ymyl y *gallery*, y bobl ddeallus, i gymeryd eu siawns.'

"John Elias oedd yn bob peth o ddifrif. Os gwrando, gwrando o ddifrif. Os pregethu, pregethu o ddifrif. Nis gallai fod yn ysgafn gyda dim. Yn wir yr oedd gweled Elias yn rhoi rhyw awydd am unwaith ar rai lled ddiofal i fod o ddifrif. Bydd gweled ei ddarlun ar hyd y parwydydd yn peri i mi deimlo yn gywilyddus. Bydd yn cymhell i'r meddwl, *dyma ddyn fu byw o ddifrif.* 'Elias oedd ddyn' y mae yn wir, yn meddu ei wendidau fel dynion eraill, ac yn gorfod dioddef fel eraill; ond o'r holl ddynion a welais erioed, ni welais neb wedi esgyn mor agos i'r angel, yn gymaint felly fel y byddai amheuaeth yn y dychymyg ar brydiau pa un ai dyn ai angel fyddai mewn gwirionedd."

Nis gellir darllen yn ystyriol y sylwadau uchod am y diweddar Mr. Elias heb deimlo y rhaid fod y neb a'u gwna ei hunan yn ddyn difrifol. "Pob cyffelyb, ymgais." Y mae hyn yn wirionedd yma beth bynag. Nerth yr elfen o ddifrifwch ynddo ef ei hunan a'i gwnelai mor wresog, ac a daniai ei enaid â brwdfrydedd byw i adnabod a gwerthfawrogi difrifwch mewn eraill, a hyny, fel yn y darlun blaenorol, nes ymylu ar syrthio o flaen y corphoriad ohono yn Mr. Elias i'w haner addoli. Y mae y difrifwch hwn fel gwythien euraidd yn rhedeg trwy ei holl ymwneyd â gwaith Duw ar hyd ei oes, ac yn ddiamheu fod hyn yn elfen bwysig o guddiad cryfder y bywyd o ddefnyddioldeb a dreuliodd mor lwyr gysegredig i'w Arglwydd.

Y mae yn ei ddyddlyfr am y blynyddoedd cyntaf ar ol yr ordeiniad, yn llawn o brofiad o ddifrifwch meddwl oedd yn ymdeimlo ar y naill law a mawr bwysigrwydd y gwaith yr oedd wedi ymgymeryd âg ef, ac ar y llaw arall a'i wendid a'i anallu ei hunan i gyflawni un gwasanaeth teilwng i'r Arglwydd Iesu. Yn nghanol y ddau deimlad yma oeddynt yn llethol i'w yspryd, yr oedd yn cael nerth i wneyd ei oreu mewn cymdeithas agos â Duw, ac mewn sylweddoliad o gyflawnder ei addewidion i'r rhai a fyddant ffyddlawn ac ymroddedig.

Yn y flwyddyn 1843, y mae yn cael ei gymeryd yn sâl iawn gan *influenza*, ac fel hyn yr adolyga efe ei hun yn mis Gorphenaf, y rhan a aeth heibio o'r flwyddyn:—"Treuliais y misoedd cyntaf o'r flwyddyn hon yn wrthgiliedig iawn o ran fy yspryd, ac yn hynod ddilafur. Yr oedd fy yspryd mewn agwedd ddrwg iawn. Ond yn nechreu mis Mai, tarawyd fi gan glefyd blin yr *influenza*. Bu'm yn gorwedd am fis, a bu'm am fis arall yn wanllyd iawn, nes weithiau ofni na chawn fyw. Y nawfed dydd o'r mis hwn yr ail ddechreuais ar fy llafur trwy gyfranu yr ordinhad yn Rhydfawr y boreu, ac yn Ysgoldŷ y nos. Pregethais yn y daith y Sabboth canlynol. Gallaf ddyweyd fel y Salmydd, 'Da yw i mi fy nghystuddio;' 'Cyn fy nghystuddio yr oeddwn yn cyfeiliorni.' Yr oeddwn wedi myned yn fydol iawn. Yr oeddwn yn galw am rywbeth chwerw. Bu y cystudd yn foddion i ddeffroi llawer arnaf, ac i'm hysgwyd o'm cysgadrwydd. Bu gorfod i mi fwrw golwg dros fy holl oes grefyddol. Dygwyd fy holl *driciau* o flaen fy llygaid. Bu raid i mi chwilio i mewn i'm *bwndel* crefydd i edrych a oedd genyf Grist yn fywyd, a methais a'i gael. Penderfynais dreulio gweddill fy oes i ymofyn am dano. Yr ydwyf heddyw yn teimlo graddau o arswyd rhag llithro eto i'r hen *draciau* y bu'm ynddynt o'r blaen, a dwyn arnaf fy hun yr hyn a fo gwaeth. Mi a ddymunwn gan Dduw i hyn fod yn ddechreuad cyfnod newydd yn fy oes grefyddol. Dymunwn hefyd allu ymddiried fy amgylchiadau i'r Arglwydd, ac eto bod yn ofalus gyda'm dyledswyddau bydol. Felly cynorthwyed yr Arglwydd fi."

Yn mis Mehefin, 1844, ysgrifena:—"Er pan y bu'm uwchben y llyfr hwn o'r blaen, bu'm ar daith yn y Deheudir, *forsooth*, am saith wythnos gyda David Pritchard, Rhydfawr (Pentir wedi hyny), a phregethais fy hun allan o lais, allan o bregethau, ac allan o yspryd pregethu. Ac er fy mod gartref er's dros fis, nid wyf wedi dyfod ataf fy hun eto. Y mae pregethu bob tro yn faich arnaf. Y pryd hyn y llynedd yr oeddwn yn sâl iawn, a gwnaethum lawer o addunedau teg. Meddyliais yr adeg hono y buaswn yn Gristion ac yn bregethwr heb ei fath, ond syrthiais i'r hen *draciau*, ac yn ddyfnach

i'r llaid nag erioed. Byddaf yn digio yn arw yn yr olwg ar drueni y natur ddynol, ond yr holl drueni a welaf yn wasgaredig dros y ddaear, erbyn edrych yn graff, a welaf wedi ei grynhoi i'm calon fy hun. Nid oes eisiau i mi fyned i Rufain i weled twyll crefyddol, i'r Iwerddon i gael golwg ar annhrefn, i Poland i weled gorthrwm a gormes, i Twrci i gael golwg ar farbareidd-dra, i Ffrainc i weled annuwiaeth, i China i gael golwg ar falchder, ac i Lundain i weled puteindra, caf lawn olwg ar y pethau hyn oll yn fy ymyl—yn fy nghalon fy hun. Mi a luniais lawer o *theories* erioed, ond y mae pob un wedi erthylu. Byddaf yn dychryn weithiau wrth feddwl am ddydd y cyfrif. Y mae y gair hwnw yn fy nghanlyn yn barhaus, 'Os ydwyf annuwiol, gwae fi.' Y peth sydd yn peri i mi amheu cywirdeb fy nghrefydd fwyaf o bobpeth ydyw, fy mod yn cael mwy o bleser mewn pethau eraill nag yn ngwaith yr Arglwydd. Ni orchfygais elyn erioed."

Ymddengys ei fod tua'r adeg hon mewn llawn cymaint trafferth gydag ef ei hun ag odid unrhyw adeg, oblegid fe'i ceir ar y 27ain dydd o'r un mis yn ysgrifenu :—"Pa beth a wnaf? ai parhau yn yr un agwedd, yn yr un diffrwythder a difaterwch, yn yr un diogi a byw yn yr un pechodau, ai ynte ceisio ymysgwyd eto unwaith, ac ail ddechreu byw, ail ddechreu llafurio, a hyny o ddifrif? Rhoddais lawer cynyg erioed i ddeffroi a chodi o blith y meirw, ond syrthio wed'yn y byddaf i'r un agwedd yn fuan iawn. Ond os ydwyf am ail ddechreu eto, pa bethau sydd raid i mi eu gwneuthur?" Yna mae yn manylu ar naw o bethau, y rhai, gan mwyaf, ydynt yn ateb i'r *bwriadau* o'i eiddo a roddwyd yn llawn yn y bennod ddiweddaf.* Ac ar ddiwedd y naw "rhaid" yma ychwanega, "Mae y diafol yn chwerthin am fy mhen er's meityn. Mae wedi fy ngweled yn gwneyd rheolau da lawer gwaith, ac yn eu tori yn chwilfriw cyn pen deuddydd. Yr wyf finau yn gwybod mai un peth ydyw *gwneyd* rheolau, ac mai peth arall hollol wahanol ydyw eu *cadw*. Nid oes ond dylanwadau gras Duw yn unig a ddaw a phechadur i'w le, ac a'i ceidw hefyd yn ei le.

"'Rhaid i mi gael pob gras, pob dawn,
O'th drysor llawn yn gyfan;
Ac oni chaf, fy enaid prudd
A gyll y dydd yn fuan.'"

Y dydd olaf o Gorphenaf, 1844, cofnoda yn ei ddyddlyfr :—"Yr wyf yn hwylio fy hun i fyned i Lerpwl a Manchester am fis Awst; ond i beth? O! i bregethu! i ddysgu ffordd Duw yn fanylach, i dywys pechaduriaid at ffynonau bywiol yr iachawdwriaeth, ac i'w

* Gwel tudalenau 37 a 38.

troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw!! Gŵr braf i ddysgu gwrandawyr Rees a Hughes! Myfi yn gymhwys i ddysgu boneddigion Lloegr!! Yr wyf yn dlawd o bobpeth—o bregethau ac o yspryd pregethu. O! na allwn gadw yn agos at fy Nuw! Mi a ddymunwn gan Dduw na byddo un ymddygiad ynof yn un man na chyda neb a fyddo yn iselhad i grefydd Iesu Grist."

Gydag ef ei hun yr ydym yn ei gael yn barhaus yn y blynyddoedd hyn. Y mae yn myned drwy y cylch arferol o waith cyhoeddus fel gweinidog yr efengyl, ond o hyd yn methu boddloni ei hun â gwasanaeth digon perffaith i'r Duw yr oedd wedi ei feddiannu â syniadau mor aruchel am dano. Yn mis Mai, 1845, ysgrifena:—"Yr wyf drwy y gwanwyn hwn wedi fy llyncu yn ormodol gan y byd; yr wyf yn ymrwystro gormod gyda negeseuau y bywyd hwn. Y mae ein trallod bydol yn fawr. Meistr caled ydyw y byd. Gwrthoda yn lân roddi dim seibiant i ystyriaethau crefyddol. Yr wyf yn teimlo nas gellir gwasanaethu Duw a Mammon. Hawdd ydyw troi crefydd i wasanaethu y byd, ond ffydd yn unig a all droi y byd i wasanaethu crefydd. Goruchafiaeth lew ar y byd yw cael ganddo y rhyddid, yr hamdden a'r hwylusdod hyny sydd yn angenrheidiol i fywyd gwir dduwiol."

Nid ydym yn cael ganddo ond un cofnodiad am y flwyddyn 1846, heblaw y cylch arferol o waith, a chondemniad arno ei hun am ei wneyd mor sâl. Yn niwedd Ionawr, gwna y sylw canlynol am ei bregethu:—"Un peth sydd wedi gwanhau llawer ar fy mhregethu yn ddiweddar ydyw, ceisio gwneyd pregethau ar *scale* helaeth, ac felly ceisio myned yn *bregethwr mawr* trwy gyfansoddi *pregethau mawr*. Wrth weled eraill yn enill enwogrwydd a pharch mawr gan y gwrandawyr blysig trwy gyfansoddi pregeth anferth, a hel rhyw ddrychfeddyliau nerthol, daeth arnaf finau flys gadael y *retail preaching* (pregethu mân-werthol), y pregethu plaen ac agos, a cheisiais yn dêg ddyfod yn *wholesaler* (pregethwr cyfan-werthol). Ond ow! fi, yr oedd fy *stock* yn rhy fechan i ymgodi i *scale* uwch; ac erbyn heddyw, nid wyf ar y goreu amgen na phregethwr wedi tori!!"

Yn mis Mehefin y flwyddyn hon, bu yn Nghymdeithasfa y Bala; ac er nad oes ganddo un cofnodiad am waith na phregethu y Gymdeithasfa yn gyffredinol, y mae yr adroddiad canlynol yn llawn o ddyddordeb mewn mwy nag un cysylltiad:—"Mewn Cymdeithasfa Chwarterol yn y Bala, gwnaeth y Parch. William Roberts, Amlwch, sylw tebyg i hyn ar farwolaeth y diweddar Barch. William Williams, Manchester. Dau weinidog oedd wedi

marw er y Gymdeithasfa flaenorol, sef y Parchn. John Parry o Gaer, a William Williams. Yr oedd sylwadau parchus yn cael eu gwneyd gyda phob parodrwydd gan luaws o frodyr ar farwolaeth Mr. Parry. Yr oedd ei goffadwriaeth ef yn fendigedig gan yr holl frodyr, ac oherwydd hyny, nid oedd pall ar y ganmoliaeth. Ond erbyn dyfod at Mr. Williams, yr oedd pawb yn fud. Ni ddywedai neb air. Ar ol rhai mynudau o ddistawrwydd, cyfodai Mr. Roberts ar ei draed, ac ar ol gosod ei gorph, a thynu ei wyneb i wedd ddifrifol, dywedai:—'Y mae tri gŵr hynod wedi marw yn ddiweddar—Mr. Parry, o Gaer; William Williams, Manchester (gynt o'r Bryndu, Mon), a'r Pab.' Yr oedd y Pab o Rufain newydd farw yr adeg hono. Darfu gwaith yr hen frawd yn enwi'r Pab daflu pawb i dymher dda i wrando yr hyn oedd ganddo i'w ddywedyd yn ganlynol. Yna ychwanegai: 'Yr ydym i edrych ar gymeriadau ein brodyr—yn fyw ac yn farw—â golwg gyffredinol. Nid ydym i edrych gormod ar ryw un peth tywyll yn ein gilydd. Y mae dynion craffus yn dyweyd fod brychau yn wyneb yr haul. Dyn hynod oedd ein brawd William Williams. Gwybu y brawd gymaint a neb am wahanol hîn. Gwybu beth oedd cychwyn yn fachgen tlawd, a gwybu beth oedd cyrhaedd sefyllfa o barch fel pregethwr ac fel masnachydd. Gwybu hefyd beth oedd bod yn y fan isaf heb le i roddi ei ben i lawr. Ond gwenodd Rhagluniaeth arno drachefn. Daeth i lanw lle o ymddiried a pharch eilwaith yn Manchester. Nid peth bychan i'n hanwyl frawd oedd cadw ei gymeriad yn lân, a byw naw mis o'r deuddeg mewn tafarndai, *hotels*, &c.; ac nid peth bychan oedd gwneyd i wragedd y cyfryw westtai dystio, Os oes neb duwiol ar y ddaear, y mae Mr Williams yn dduwiol.'

"Meddyliais am ei ddywediad lawer gwaith wedi hyny—edrych ar gymeriadau ein gilydd â golwg gyffredinol—cymeryd y drwg a'r da i mewn, y manteision a'r anfanteision. Nid oes yr un dyn mor ddisglaer nad oes rhyw lanerchau tywyll yn perthyn i'w gymeriad. Yr ydym ni lawer rhy dueddol i edrych ar gymeriadau dynion, ac yn wir ar bobpeth o un pwynt, a hwnw, fe ddichon, yr un mwyaf anffafriol i'w hadnabod wrtho. Yn yr ochr dywyll hon i'r natur ddynol yr edrychai Dafydd pan y dywedai yn ei ffrwst fod pob dyn yn gelwyddog, tra yr oedd yn mhlith ei genedl lawer allent ddywedyd y gwir cystal ag yntau. A'r un modd yr oedd gydag Elias pan dybiai nad oedd neb yn yr holl wlad yn ofni Duw ond efe ei hunan, tra yr oedd yr Arglwydd, o edrych ar y genedl o bwynt arall, yn adnabod yn Israel ryw saith o filoedd, y rhai ni phlygasant eu gliniau i Baal."

Yr oedd sylw fel hwn o eiddo Mr. Roberts yn un y buasid yn

disgwyl iddo gael argraff ar feddwl Mr. Ellis. Yr oedd ei hunan o'r fath ëangder o ran ei feddwl, fel yr oedd yn gallu cymeryd i mewn, mwynhau, ac edmygu yr amrywiaeth mwyaf mewn meddyliau. Profion diymwad o feddylgarwch ac o grefydd ddiamheuol oeddynt anhebgorion mawr ei edmygiad o gymeriadau. Gwelsom yn barod fel yr oedd difrifwch Mr. Elias, ac ëangder a rhyddfrydedd Mr. Roberts wedi ei daraw; a chawn ganddo mewn cofnodiad arall y modd yr arweiniwyd ef i edmygu, ïe, fel y dywed ef ei hunan, i fod "dan demtasiwn i addoli" y diweddar Mr. Humphreys, o'r Dyffryn. Rhywbeth pur wahanol i ddifrifwch Mr. Elias ac eangder Mr. Roberts ydoedd ynddo ef i wneyd argraff ffafriol ar y meddwl, naturioldeb a symledd mewn cyfuniad a synwyr cyffredin o'r fath gryfaf. Yn yr ystyr yma, tueddir ni i gredu fod mwy o debygolrwydd rhwng Mr. Humphreys a Mr. Ellis na nemawr i ddau y gellir meddwl am danynt.

Fel hyn yr adrodda efe am Mr. Humphreys:—"Yr wyf yn cofio yn dda y tro cyntaf i mi weled y gŵr hynod hwn yn dechreu yr oedfa ddeg o'r gloch ar gae yn ochr y Twthill, yn Nghymdeithasfa Caernarfon. Nid ydwyf yn gwbl sicr o'r flwyddyn, ond yr oeddwn yn bur ieuanc. Ac er fy mod ar y pryd yn ieuanc a disylw, eto, yr oedd y gŵr a ddechreuai y cyfarfod a rhywbeth mor hynod o'i gwmpas, fel y gofynais i rywun yn y fan pwy ydoedd. Yr ateb a gefais mai Mr. Humphreys, y Dyffryn, ydoedd. Yr oedd y 'Mr.' yn yr atebiad yn peri i mi feddwl ei fod yn rhyw ddyn anghyffredin, o achos ni byddai braidd neb o bregethwyr yn cael eu hanrhydeddu â'r teitl hwn y pryd yma. Yn wir, byddai raid i bregethwr enill cryn urddas i gael ei enw ei hun yn llawn. Pa beth yn y gŵr dyeithr a ddechreuai yr oedfa a dynai fy sylw, nis gwyddwn, heblaw nad oedd dim ynddo yn debyg i ddyn arall. Ni chlywais neb erioed yn darllen nac yn gweddïo yr un fath. Yr oedd y penill yn ddyeithr, a'r rhoddiad allan ohono yn newydd. Nid oedd dim ynddo yn debyg i bregethwr—cadach du, a dullwedd gwledig, ac eto, y mae yna rywbeth yn urddasol nas gallwn lai na'i barchu. Nis gwyddwn ar y cyntaf yn mha gŵr o Gymru y gallai y Dyffryn, cartref y gŵr hwn, fod. Ond trwy holi ac ymwrando, daethum yn fwy cydnabyddus â hanes y gŵr a'i hynodion. Cyn hir, clywais fod Mr. Humphreys yn dyfod ar gyhoeddiad trwy y wlad, a mawr oedd fy llawenydd. Yr oedd dyn ieuanc o'r enw William Jones yn ei ganlyn ar y daith hon. Yr oedd y ddau ar eu traed. Yr oedd Mr. Humphreys y pryd hwn yn nghanolddydd ei oes; y màn goreu y byddai byth, chwedl yntau. Pregethai yn yr Ysgoldy boreu Sabboth, Rhydfawr am ddau, a Phentir yn yr hwyr. Canlynais ef trwy y dydd. Yr oedd ei ddawn rhwydd, naturiol,

synwyrol, yn fy swyno yn hollol. Tybiwn ar y pryd na chlywais neb mor dda, mor newydd, ac rywfodd mor ddidrafferth. Nid oedd fymryn gwaeth yn y diwedd nag yn y dechreu. Yr oedd yn medru myned drwy ei waith heb anmharu dim arno ei hun, ac eto yn llwyddo i hoelio pob clust wrth ei wefusau. Mor hapus ydoedd! Un o'i destynau oedd, 'Gan ddiolch i'r Tad, yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.' Y gair cyntaf ddywedodd ar ol darllen ei destyn oedd, 'Y mae Duw yn gwneyd pobpeth yn *gymhwys*. Gwnaeth ddyn yn gymhwys i'r byd hwn. Gwnaeth y dyn a'r ddaear yn gymhwys i'w gilydd. Buasai byw yn y byd hwn oni buasai am bechod yn beth dedwydd iawn, y mae y ddau mor gymhwys i'w gilydd. Wel, y mae Duw eto yn gwneyd y rhai a ymostyngant i'w drefn yn gymhwys i fyd y goleuni.' Yr oedd dull mor naturiol a hwn, mor ddigwmpas, er nad oeddwn ond bachgen un mlwydd ar hugain oed, yn gwirioni fy meddwl yn hollol. Byth ar ol hyny, ni chyfarfyddwn âg un dyn y byddwn dan fwy temtasiwn i'w addoli.

"Y tro cyntaf i mi gyfarfod âg ef ar ol yr adeg hon oedd yn mhen blynyddoedd, pan wedi bod yn pregethu am beth amser yr aethum gyda'r Parch. Griffith Hughes, Edeyrn, ar daith drwy Sir Feirionydd. Yr oeddym yn Harlech y boreu, Gwynfryn y prydnawn, a'r Dyffryn y nos. Pan yn myned o Harlech tua'r Gwynfryn, mewn trofa ar y brif-ffordd, pwy welwn yn sefyll ar y ffordd draw o'm blaen ond Mr. Humphreys—corph mawr, un o'r rhai mwyaf, esgyrniog, yn tynu at fod yn afrosgo. Yr oedd ei drwsiad y dydd hwnw braidd yn rhy gyffredin i'r dyn, gan mai hen ddillad duon wedi myned braidd yn garllwyd, a chôb fawr dros y cwbl, oedd ganddo. Mr. Humphreys ei hun oedd y gŵr boneddig, ac nid y gwisgiad. Ei gyfarchiad cyntaf oedd, 'Wel, mi a ddaethum hyd o'r Faeldref, rhag i chwi gael dyweyd na ddaeth neb i droi mo'ch trwyn.' Cyn cyrhaedd y capel, gofynodd, 'Griffith, p'le cest ti afael ar y bachgen yma?' 'Yn y chwarelau acw,' oedd yr ateb. 'Fe ddywedir mai bechgyn glew ydynt hwy. Mae hwn yn edrych yn llefnyn go lew. A ydyw yn symol hawdd ei drin?' 'Ydyw, am a wn i,' oedd atebiad Griffith Hughes. 'Wel, ïe, mae ambell greadur nad oes modd gwybod i beth y gwnaed ef, ond i brofi amynedd dynion.' Ac felly yn y blaen. Cadwodd fy meddwl mewn llawn gwaith i'w ryfeddu o hyny hyd brydnawn dranoeth. Yr wyf yn sicr na threuliais ddau ddarn o ddiwrnod erioed yn fwy hapus. Mor dda genyf pe buasai ei holl sylwadau wedi eu hargraffu ar fy nghof. Bydd genyf goffa da byth am dano."

Ar y 19eg dydd o Ebrill, 1847, ganwyd ei ail ferch, yr hon a alwodd Jane, ac y mae yn manylu ei hunan, oherwydd un peth a wnaeth yn yr amgylchiad hwn, a barodd iddo fesur mawr o ofid. Fel hyn y mae yn adrodd yr hanes:—"Dydd Gwener, Ebrill 30ain. Heddyw y gwnaethum beth rhyfedd a thra chwithig, tro a fydd i ryw raddau yn ofid i mi tra y byddaf byw. Mi a fedyddiais fy lodes fy hun, Jane, â'm dwylaw fy hun, a hyny pan oedd mewn *ffit* ac yn debyg i farw, ac felly y mae yn parhau. Cymerais fy mherswadio i hyn gan y merched. Yr oeddynt yn anfoddlawn iddi farw heb fedydd. Yr oeddwn inau, ac yr ydwyf eto, yn ystyried bedyddio plentyn i farw y darostyngiad mwyaf ar ordinhad Duw, ac yn un o gynffonau Pabyddiaeth, gan y gwna bedydd yn ail-enedigaeth. Ond nid ydyw bedydd yn ddim i'r plentyn at farw. Nid bedyddio i farw a wneir, neu o'r hyn lleiaf a ddylid ei wneyd, ond bedyddio i fyw. Nid arwydd derbyniad i'r eglwys yn y nefoedd ydyw, ond derbyniad i'r eglwys ar y ddaear. Nid bedyddio rhai *i* feirw, ond bedyddio *dros* y meirw neu *yn lle* y meirw, y mae gair Duw yn son am dano. Nid bedyddio yr ydys i fod er mwyn cael gwneyd cynhebrwng, a chael claddu yn ngoleuni dydd, ond bedyddio i ddysgu, i weddïo, i feithrin yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Taenellir dwfr ar y baban ar fin trengu, a hyny yn y tŷ, er mwyn lliniaru teimladau gofidus y rhieni, ac er mwyn cael gwneyd claddedigaeth iddo, a rhag bod yn wahanol i arferiad yr ardal! Nid bedydd ydyw peth fel hyn. Nid bedyddio yn ol gorchymyn Crist ydyw, bid a fo. Y mae hyn y cellwair mwyaf âg ordinhad Duw. 'O Arglwydd, na ddos i farn â'th was' am y tro chwithig hwn."

Y mae yn dda meddwl fod y syniad ofergoelus a phechadurus yma am ordinhad mor ysprydol a sanctaidd yn darfod o'n plith mor brysur, a bod yr ordinhad yn cael ei dyrchafu genym i'w lle fel ordinhad *eglwysig* ac nid *teuluaidd*, ac ordinhad wedi cael ei sefydlu i amcanion ysprydol mewn cysylltiad â ffydd y rhieni a'r eglwys yn y gweinyddiad gweddïgar ac ymddiriedgar ohoni. Nid oedd neb yn fwy ymwybodol bob amser na Mr. Ellis o'r ddau berygl yr ydym yn agored iddynt yn nglŷn â'r ordinhad hon, naill ai myned i wneyd gormod ohoni neu ei diystyru trwy wneyd yn rhy fychan ohoni. Y mae y naill a'r llall mor andwyol a'u gilydd. Gwnaeth efe ei oreu o'r adeg hono allan i gyfarwyddo y rhieni i ddilyn canol llwybr barn ar fater o'r fath bwysigrwydd, ac i argraffu ar eu meddyliau y rhwymedigaeth a'r ymgymeriad oedd yn osodedig arnynt yn yr ordinhad i fagu eu plant a'u dwyn i fyny yn gysegredig i'r Duw yr oeddynt yn gyflwynedig iddo trwy fedydd.

## PENNOD VI.

### "Y DEUGAIN MLYNEDD HYN."

RHAN II.

*Ei adolygiad ar y flwyddyn* 1849—*Troi dalen newydd—Ei lafur gweinidogaethol yn ei Sir—Ei ffyddlondeb i'r teithiau gwanaf—Ei lafur cartrefol—Ei gymhwysder nodedig i wastadhau ymrafaelion—Ymweled â dwy Eglwys—Ei fasnach—Y coel—Arian parod—Ei gylch-lythyr ar Ddrygedd Coel—Methiant y cynllun newydd—Adfywiad crefyddol* 1859—*Cyflwyniad Darlun a Thysteb iddo—Awydd cael mwy o "hamdden"—Ymroddi mwy i'r byd—Anturiaethau Llanberis—Cyfyngder yr amgylchiadau—Neillduo o'r fasnach—Sefydlu yn nhy capel Ysgoldy—Ymgymeryd â gofal bugeiliol y tair eglwys—Ei brofiad yn y symudiad—Segurdod ac ariangarwch—Ei gysylltiad â'r achos yn Ysgoldy, ac â Chyfarfod Misol Arfon—Teimladau "Hen Weinidog."*

---

Byddai gwrthddrych y sylwadau hyn arferol ar ddiwedd blwyddyn ag adolygu y tymhor oedd wedi myned heibio, a rhagolygu ychydig am y dyfodol mor belled ag yr oedd a fyno ei deimladau a'i ddymuniadau â'r dyfodol hwnw. Yr ydym wedi cyfeirio at rai ohonynt o'r blaen, ac y mae gradd o debygrwydd ynddynt oll i'w gilydd, gan mor anfoddlawn fyddai yn cael ei hun ar ei gynydd ysprydol a'i weithgarwch crefyddol. Pa fodd bynag, y mae yr adolygiad a wna yn niwedd y flwyddyn 1849, yn cynwys trem ar y gyfran o'r oes oedd wedi ei threulio. Yn mhlith pethau eraill, dywed: "Yr wyf yn llawn un a deugain mlwydd oed er yr unfed ar ddeg o'r mis hwn, yn proffesu crefydd er's un mlynedd ar hugain, yn pregethu yr efengyl er's un mlynedd ar bymtheg, ac yn weinidog ordeiniedig er's saith mlynedd. Yr ydwyf yn byw yn Nghlwtybont er's dros ddeuddeng mlynedd, ac yn briod er's mwy na saith mlynedd. Yr ydym yn deulu cyfan o ŵr a gwraig a phedwar o blant, yn mwynhau iechyd da a phob cysuron tymhorol, yn dda iawn arnom, ac hyd yma wedi ein cadw rhag bod yn gynen tafodau. Yr wyf yr awr hon yn bwrw golwg dros fy nhaith ddaearol. Nid oes i mi ond cywilydd wyneb. Nid ydyw fy muchedd, fy llafur, a'm gwasanaeth crefyddol yn gyfryw y dymunwn eu gweled a'u cyfarfod ar ol hyn. Y mae yn hawdd i mi gyfaddef fy ffaeleddau, ond nid mor hawdd diwygio. Nid oes i mi gysur ond yn y sicrwydd fod gan Dduw drefn i'm cuddio. * * * * Hawdd i mi ydyw ysgrifenu pethau duon a chwerwon yn fy erbyn fy

hunan; ond yr wyf, erbyn hyn, braidd yn anobeithio bod yn ddim amgen na'r hyn a fu'm ar hyd fy oes. Mae fy nydd yn dechreu prydnawnio. Dichon y bydd goleuni yn yr hwyr. Pa beth a wna y Duw mawr ohonof, nis gwn; cymaint a allaf ei wneyd ohonof fy hun ydyw *creadur llygredig*, a chosp dragywyddol ydyw fy haeddiant. Cefais bobpeth gan Dduw a ddymunais yn dymhorol. Ni bu neb mewn gwell mantais i fyw yn dduwiol ac i wneuthur daioni."

Yn dilyn y golygiad pruddaidd hwn y mae yn "cynyg ar droi dalen newydd unwaith eto," pan y dywed: "Yr wyf yn teimlo awydd, ac mi a ddymunwn beth bynag *fod o heddyw allan yn ddyn newydd* —newydd yn fy narlleniad—newydd yn fy nghymdeithas â Duw—newydd yn fy myfyrdodau—newydd mewn gwyliadwriaeth arnaf fy hun, ar fy nghalon, ar fy nhafod, ac ar fy yspryd—newydd yn fy ymddiddanion—newydd yn fy mhregethu—newydd yn fy llafur fel gweinidog i Grist—newydd yn fy nheulu—newydd yn fy ardal—newydd yn yr eglwys, a newydd yn mhob man a chyda phobpeth.

"Y mae ewyllysio hyn yn barod genyf, ond cwblhau yr hyn sydd dda nid wyf yn medru arno. Nid oes genyf ddim ymddiried yn y cyffro presenol yn fy meddwl mwy na llawer o'r fath a deimlais fwy nag unwaith o'r blaen. Heb ddylanwadau Yspryd Duw nis gallaf fi ddim. Yr wyf yn euog o'i dristau filwaith.

"'Os gwelir fi bechadur
Ryw ddydd ar ben fy nhaith,
Rhyfeddol fydd y canu
A newydd fydd yr iaith.'"

Cyfyngodd Mr. Ellis ei lafur gweinidogaethol yn yr ugain mlynedd cyntaf, gan mwyaf, i Sir Gaernarfon, ac yn yr ugain mlynedd diweddaf i Arfon yn fwyaf neillduol. Yr oedd yn ffyddlawn i fyned i bob taith y ceisid ganddo; a bu yn ddiarebol o ffyddlawn i'r lleoedd lleiaf a gwanaf yn Lleyn ac Eifionydd, pan oedd y Sir yn un Cyfarfod Misol, ac i Arfon ar ol y rhaniad. Un o'r gwŷr traed ydoedd efe hefyd, ac nid oes gweinidog yn fyw yn y Cyfundeb a gerddodd ychwaneg yn mhell ac agos i gyhoeddi cenadwri y cymod. Teimlai yn gwbl argyhoeddedig yn y blynyddoedd diweddaf iddo wneyd llawer o gam a niwed i'r cyfansoddiad cadarn-gryf y cafodd ei fendithio âg ef trwy y dreth ormesol a roddodd arno o gerdded ugeiniau o filldiroedd, a sefyll i fyny i bregethu dair gwaith yr un diwrnod. Collodd ei "gerdded," fel y dywedai, ac nis gwyddai pwy a'i cafodd os na ddaeth yn gynysgaeth priodasol i un o'i ferched.

Ond pa faint bynag a fu enill Sir Gaernarfon, ac Arfon yn enwedig, o'i gael ef i dreulio ei oes yn eu mysg, y mae yn ddiamheuol mai

ardaloedd chwarelau Dinorwig a Llanberis a gawsant y nodded a'r ymgeledd fwyaf ganddo, a chymydogaeth Ysgoldy, Clwtybont, a Chefnywaen, mewn modd arbenig iawn. Yma y bu gwbl ffyddlawn ac ymroddedig. Yn wir, ystyrid ef yn esgob y rhan hon o'r wlad a gyrhaeddai o Bentir, Rhydfawr, a Llanrug, i gŵr uchaf plwyf Llanddeiniolen a Llanberis, gydag awdurdod llawer mwy dibetrus nag un *Congè d' élire* penodiad esgobion gwladwriaeth yn gadwen euraidd olynwyr yr Apostolion. Byddai am flynyddoedd lawer cyn bod cysylltiad ffurfiol rhyngddo âg un eglwys yn cynal tri neu bedwar o gyfarfodydd eglwysig bob wythnos, gan fyned ar gylch i Bentir, Rhiwlas, Cefnywaen, Dinorwig, Capelcoch, Cwmyglo, &c.; ac wrth gwrs, os byddai anghydfod mewn eglwys, neu eisiau cymhorth ar eglwys i ddewis blaenoriaid, neu eisiau cymeryd llais eglwys gyda golwg ar ymgeisydd am y weinidogaeth, ni feddyliai y Cyfarfod Misol am wneyd penodiad heb ei fod ef yn un o'r anfonedigion.

Yr oedd yn meddu cymhwysder neillduol i'r rhan yma o'r gwaith crefyddol, yn enwedig y ddawn a feddai i wastadhau cwerylon ac anghydfyddiaethau yn mhlith crefyddwyr. Yr oedd ei bwyll a'i farn dda bob amser yn ei arwain i'r dyfarniad a gariai argyhoeddiad gydag ef o'i degwch a'i annhueddrwydd. Cyfeiriwn yn unig at ddwy engraifft o hyn. Geilw efe un ohonynt yn "fwrw'r cythraul allan," a dywed yr hanes fel y canlyn:—"Bu'm heno yn ——— gyda'r Parch. J. Owen, Ty'nllwyn, a Mr. Lewis, Bangor, yn ceisio bwrw yr yspryd drwg allan o'r eglwys hon. Yr oedd wedi medru dyfod i mewn er's dros flwyddyn, ac wedi gwneyd drygau enbyd. Daeth i mewn trwy ryw dwll yn y cyfrifon, ond twll wedi ei dori ganddo ef ei hun ydoedd, erbyn gweled pa fodd yr oedd pethau yn sefyll. Yr oedd amryw o'r brodyr wedi eu cnoi ganddo yn ddychrynllyd. Bu Mr. Lewis a minau yno o'r blaen ar gais y Cyfarfod Misol. Llwyddasom i'w hèl allan am y tro, ond ni buom ddigon gofalus i gau y twll. Daeth i mewn eilwaith, ac ail-ddechreuodd ar ei waith anfad. Anfonodd yr awdurdodau ni yno drachefn i orphen ein gwaith. Fel y mae pob gorchwyl o'r fath yn anhawddach ei wneyd yr ail dro na'r tro cyntaf, felly yr oedd yma. Ni bu'm yn myned i un man erioed yn fwy fel 'ci i'w grogi,' na'r tro hwn. Ond o fawr drugaredd Duw, llwyddasom erbyn deg o'r gloch y nos i gael yr *hen walch* allan, ac ni a hyderwn i gau ei dwll hefyd y tro yma, a hyny mor glòs, fel nas gall 'yr un drwg' ddyfod i mewn eto heb fyned i'r drafferth o dori twll newydd."

Y mae yr engraifft arall yn nglŷn âg achos o anghydfod mewn eglwys oedd wedi ymranu yn bleidiau o'r herwydd, a'r rhwygiad yn andwyo crefydd yn y lle. Yr oedd efe wedi bod yno lawer

gwaith o'r blaen ar achosion cyffelyb. Ond teimlai ar ol gwrando yr holl achos y tro hwn, ei fod yn anhawddach ei wastadhau na dim a welsai yno yn flaenorol, a daeth yn argyhoeddedig nad oedd modd cael terfyn arno trwy gyhoeddi barn ar yr achos, heb orfod gweinyddu disgyblaeth o ddiarddeliad ar nifer mawr o'r eglwys. Trwy ei ddoethineb llwyddodd i ddwyn y pleidiau yn llawer nes at eu gilydd, ac i deimlo yn fwy caredig y naill at y llall, yn gymaint felly, fel y gwelodd y gallai gael terfyniad ar yr anghydfod heb ddiarddel neb, a chrefydd yr un pryd i fod dan ei choron. Y dyfarniad a gyhoeddodd oedd, fod y cwbl a fu dan sylw yn nglŷn â'r anghydfod i'w gladdu am byth y noswaith hono, ac fod pwy bynag a glywid yn crybwyll y peth yn diaelodi ei hun o'r eglwys ar unwaith drwy hyny. Yn mhen y flwyddyn digwyddai fod yn pregethu yn y lle, ac o ran chwilfrydedd, gofynodd yn ddigon difeddwl-ddrwg i gyfaill oedd gydag ef yn tŷ capel ar ddiwedd oedfa'r prydnawn, beth ddaethai o'r anghydfod ar ol iddo fod yno yn ceisio ei wastadhau. A'r atebiad a gafodd ydoedd y cwestiwn, "A oes arnoch eisiau cael fy niarddel heno am son am dano?" Ni bu gair o grybwylliad byth am y peth hyd y mae yn wybyddus, a daeth yr holl frawdoliaeth yn nhreigliad amser i ddeall eu gilydd, anghofio yr hyn a fu, ac i gydweithio yn egnïol ac effeithiol er llwyddiant crefydd. Mor werthfawr ydoedd y gair a'r weithred hon mewn pryd, a doethineb anmhrisiadwy o werthfawr ydoedd hon a rodded iddo i farnu yr amser i arfer tynerwch a llymder mewn disgyblaeth. Bu eglwysi y saint yn y dosbarth hwn ar eu mantais yn fawr o'i gael ef yn ŵr o gyngor iddynt yn eu dyryswch a'u hanhawsderau.

Treuliodd bum' mlynedd ar hugain o'r deugain mlynedd hyn mewn cysylltiad masnachol; ac fel yr oedd y teulu yn lluosogi, teimlai fod y rhwymedigaeth i ddarparu ar eu cyfer yn dyfod yn fwy. Cafodd, fodd bynag, gymhorth gwir werthfawr yn y rhan hon gan ei briod, yr hon a gymerai arni ei hun ofalon a thrafferthion y siop er mwyn iddo ef gael ymroddi i lafur ar gyfer y weinidogaeth. Y mae yn anmhosibl dyweyd faint ydyw dyled Cymru i'r dosbarth hwn o chwiorydd, y rhai a gysegrasant eu hunain yn gwbl oll i wasanaeth crefydd. Felly y bu beth bynag yn yr amgylchiad hwn. Yn nhreigliad blynyddoedd hefyd yr oedd y fasnach yn ëangu, a'r galwad am aberth o du y wraig mewn canlyniad yn dyfod yn fwy.

Yr hyn y mae yn ymddangos oddiwrth yr ychydig gofnodiadau a wneir ganddo yn y cysylltiad hwn oedd yn peri mwyaf o boen a phryder iddo ef a'i briod ydoedd y *prynu a'r gwerthu ar goel*, a geid y pryd hwn mor gyffredinol arferedig yn ardaloedd y chwarelau, ac sydd eto, ysywaeth, lawer iawn yn ormodol felly. I ddyn

difrifol fel efe, oedd yn arferol ag ystyried canlyniadau niweidiol yr arferiad i'r prynwr ac i'r gwerthwr, yr oedd y coel yn annyoddefol. Daeth mor ddwfn argyhoeddedig o ddrygedd yr arferiad fel y penderfynodd yn y flwyddyn 1849, roddi terfyn ar y gyfundrefn a throi i werthu yn unig am arian parod, gan gredu mai "Hwda i ti, a moes i minau," ydyw y ffordd oreu a diogelaf. Rhoddodd ar ddeall i'w gwsmeriaid mai felly y byddai o hyny allan, ac y caent dalu yr hen fel y gallent, neu os na allent, y byddai iddo faddeu yr hen ddyled yn gwbl oll. Ond cyn gwneyd hyny, y mae yn barnu yn ddoeth argraffu cylch-lythyr at ei gydardalwyr i alw eu sylw at ddrygedd y coel, a chredwn ei fod mor gryno a chyflawn fel y bydd darlleniad ystyriol ohono yn debyg o ddeffroi ein meddyliau i synied yn briodol ac i weithredu yn unol â'r syniad er ceisio cael yr arferiad waradwyddus hon yn gwbl allan o'n plith. Wele y llythyr:—

"DRYGEDD YR ARFER O BRYNU A GWERTHU AR GOEL.

"Anwyl Gydwladwyr,—Gobeithio na bydd yn flin genych dderbyn hyn o gyfarchiad, er galw eich sylw at effeithiau niweidiol yr arferiad o *brynu a gwerthu ar goel*, sydd mor gyffredin yn ein plith.

"Ar ol ymchwiliad manwl a theg, fe ymddengys bod yr arfer a nodwyd uchod wedi achosi llawer iawn o ddrygedd yn ein hardaloedd—ei bod yn niweidiol i bawb—i'r prynwr yn gystal a'r gwerthwr; ei bod yn dwyn i'w chanlyn lawer o ddyryswch, annhrefn, a thlodi; yn peri anghydfod teuluaidd, yn wrtaith cryf i bob anghyfiawnder, yn rhoddi mantais i ddynion twyllodrus a diegwyddor i wneyd drygau anfad, ac yn arwain dynion gonest i gyfarfod profedigaethau miniog—yn eu gosod mewn temtasiwn gref i wneuthur yr hyn nas mynent. Gellir cyhoeddi yn ddibetrus mai dyma ddrwg y drygau yn ein plith.

"1. Mae yr arfer o brynu a gwerthu ar goel a thuedd naturiol ynddi i leihau gwerth yr hyn a brynir yn ngolwg y prynwr. Gwir nad yw pawb felly; y mae llawer yn gallu defnyddio yr hyn a ddêl i'w dwylaw gystal a phe buasent wedi talu am danynt wrth eu derbyn. Ond nid yw y ddawn yma gan bawb, mae y lluaws fel arall. A chan nad ydynt erioed wedi arfer talu am eu heiddo ar y pryd, y maent yn chwanog i'w defnyddio fel pe byddent yn eu cael yn rhad; ac oherwydd hyny, i redeg trwyddynt yn llawer cynt. Fe addef pawb fod cynildeb yn dda, a gwastraff yn ddrwg; mae yr arfer hon yn milwrio yn erbyn y naill, ac yn gymhelliad cryf i'r llall.

"2. Y mae yr arferiad o brynu ar goel yn temtio teuluoedd i fyw yn uwch nag y mae eu sefyllfa yn caniatau. A'r neb sydd yn euog o hyn, sydd yn sicr o droseddu ar sefyllfa eraill. Mae yr Arglwydd

yn ei ragluniaeth ddoeth a da wedi trefnu terfynau preswylfod dyn, hyny yw, ei sefyllfa, a chadw ei fywoliaeth o fewn y terfynau hyny ydyw yr unig ffordd i ddyn i fod yn ddiogel a chysurus. Yma y gall ofyn a disgwyl bendith yr Arglwydd ar ei amgylchiadau bydol. Ond y felldith fawr yn ein hardaloedd yw, bod yr arfer o *goelio* yn rhoi mantais i ddynion, ac yn wir, yn eu temtio, i fyw yn uwch na'u sefyllfa. Y dyn, yn lle edrych arno ei hun, sydd yn edrych ar eraill; yn mŷnu pobpeth fel y mae yn gweled gan *eraill;* dodrefnu ei dŷ a gwisgo am dano fel *eraill,* heb ofalu pa un a fydd ei sefyllfa yn caniatau hyny ai peidio. Dyma fel y mae'r byd yn rhedeg, a drygau aneirif sydd yn canlyn. Yn lle cymeryd pwyll i ddilyn Rhagluniaeth (elai felly drwy y byd yn llawer mwy diboen iddo ei hun a diofid i eraill), mŷn y creadur wylltio ar ol arfer yr oes, ac yn mlaen âg efe, costied a gostio. O'r diwedd y mae yn rhedeg dros ei ben i ddyled, wynebau ei ofynwyr yn dechreu newid, ei gymeriad yn colli, ac yntau yn disgyn i dlodi, ac, yn rhy fynych, i hunan-ddibrisdod. Onid dyma aflwydd blin cannoedd o deuluoedd yn ein hardaloedd? A pha beth a fu yn achlysur o hyn oll, onid *yr arfer o brynu a gwerthu ar goel?* Ond pe buasai y cyfryw deuluoedd wedi arfer o'r dechreu talu am bobpeth wrth ei gael, buasent felly dan orfod i fyw at eu sefyllfa; buasent yn rhwym o ddysgu y wers bwysig *o lunio'r gwadn fel bo'r troed.*

"3. Mae yr arfer hon o brynu a gwerthu ar goel yn rhoi drws agored i ddynion twyllodrus ac anghywir i wneyd colledion mawrion—i ddrygu eraill a gwneyd eu hunain yn waeth. Mae y dosbarth hwn o ddynion yn lluosog, a thra pery yr arferiad hon yn y fath fri, lluosogi a wnant yn barhaus, canys y mae *coelio* yn eu cynyrchu.

"4. Trwy ddilyn yn rhy ddiofal yr arfer yma o brynu ar goel, y mae llawer o rai gonest a chywir, a duwiol ysywaeth, wedi myned i amgylchiadau nas gallent wneuthur cyfiawnder, er dymuno hyny. Egwyddor onest wedi myned i'r fath garchar fel nas gall brofi ei hun sydd deimlad anhapus iawn. Y truan helbulus yn canfod ei hun wedi myned, rywfodd neu gilydd, yn swp o ddyled! ei faich mor drwm fel nas gall mewn un modd ymuniawni, ei fron yn brudd, a'i yspryd yn nychu; ac yn lle dyfod yn nes i'r làn, myned ddyfnach ddyfnach dan ddwfr yn barhaus. Ei Sadwrn setlo yw y dydd duaf iddo ef o ddyddiau'r mis. Ac aml dro y dygwyddodd i'r cyfryw farw felly, a'r enw dyledog yn aros felly byth ar lyfrau y gofynwr: canys nid bob amser y mae y cyfryw wedi magu plant mor gydwybodol fel ag i glirio enw eu tad trancedig. Ond pe buasai y rhai hyn wedi ymgymeryd yn brydlon â chyfundrefn arall

o fyw, buasai yn hollol wahanol arnynt. Yn lle bod yn gaeth-weision i'w gofynwyr, buasent yn annibynol; eu dydd tâl yn ddydd llawenydd eu calon, ac er y dichon y buasai tlodi, mewn llawer amgylchiad, yn taflu trem i'w trigfan, megys oddiar y gorddrws, eto nis meiddiai ddyfod i mewn. Canys nid oes neb i'w cyfrif yn *dlawd* tra y mae ei gymeriad yn gyfan, a neb yn ei ofyn.

"5. Mae yr arferiad o *goelio* wedi achosi llawer iawn o anghydfod ac anghysur teuluaidd, trwy fod y naill yn myned i ddyled heb yn wybod i'r llall. Ac y mae hyn weithiau wedi rhedeg mor bell, nes dyrysu cysur teuluaidd yn hollol. Ac os unwaith y collir cysur o'r teulu, pa le y ceir ef mwy?

"6. Y mae *proffit* pobpeth, yn y blynyddoedd diweddaf, wedi syrthio mor isel, fel y mae yn anmhosibl gwerthu ar goel a thalu ei ffordd, heb naill ai rhoddi amryw brisiau ar yr un nwyddau, fel bo'r *cwsmer*, neu ynte godi *proffit* oddiar y gonest i gyfarfod â'r golled a geir oddiar ddwylaw yr anonest; canys y mae gwerthu ar goel heb gyfarfod â cholledion yn beth anmhosibl. Ond llawer tecach a mwy diogel yw gwerthu i bawb at arian parod, ac am yr un prisiau. Felly, caiff y prynwr *blesio* ei hun, a bydd y gwerthwr dan rwymau i *blesio* pawb, yn lle gwneyd gwyneb têg ar un, a gostwng ei aeliau ar y llall.

"7. I'r arferiad o brynu a gwerthu ar goel y mae priodoli bod cymydogaethau y chwarelau yn ddyfnach mewn dyledion nag unrhyw ardaloedd eraill yn ein gwlad.

"8. Mae yr arferiad yma o brynu a gwerthu ar goel yn effeithio yn ddrwg iawn ar foesau y genedl. Mae yr holl ddrygau a achosir ganddi yn aneirif. Y mil myrdd mân gelwyddau—yr holl dwyll a'r anghyfiawnder—yr holl dori addunedau: a beth dâl dyn ond ei air? Ond y mae yr arfer hon wedi dysgu llawer i fod yn hollol ddiofal yn nghylch y *gair*. Mae colli y *gair da* yn golled o bwys mawr i ddyn cyffredin yn enwedig. Ond nid hyny yn unig, y mae yr arfer hon yn peri llawer iawn o deimladau drwg mewn ardal. Y fath deimladau poenus a phechadurus a geir yn fynych yn hanfodi rhwng y gofynwr a'r dyledwr. Nis gallant gyfarfod â'u gilydd na bydd eu gwynebpryd yn syrthio, na son am eu gilydd heb ollwng allan y gair du *enllib*. Ac weithiau fe lysg y tân hwn o ddigofaint hyd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth.

"9. Mae yr arferiad yma yn peri llawer iawn o gablu ar grefydd. Mynych y clybuwyd y cyhuddiad du hwnw yn cael ei roddi, 'Bod proffeswyr gan waethed a neb, os nad gwaeth.' Dyma yr *haeriad*, ond nid hyn yw'r *ffaith*. Gwir fod rhai yn perthyn i bob eglwys a'u cymeriad yn isel yn hyn yma, a hyny, yn benaf, nid o ddiffyg cywirdeb, ond rhyw lynu diofal wrth yr arferiad o *brynu ar goel*, a

wnaeth y drwg. Diau hefyd fod ambell un i'w gael wedi profi ei hun yn ddyn diegwyddor ac anghywir. Ac oherwydd y cyfryw rai, ïe, oherwydd anghyfiawnder a budr-elwa, yn ochr y gwerthwr yn gystal a'r prynwr, y mae crefydd Crist yn cael ei gwarthruddo. Yr oedd cyhuddiadau llawn mor haerllug yn cael eu dywedyd, flynyddau yn ol, yn erbyn proffeswyr oherwydd diota a meddwdod; ond darfu i ddirwest eu symud ymaith yn llwyr o bob eglwys a ymgymerodd â hyny yn drwyadl. Yr un modd y gwnai llwyr-ymwrthodiad â'r arfer o goelio, symud ymaith lawer cyhuddiad o anghyfiawnder a wneir yn erbyn y rhai sydd yn proffesu duwioldeb. Mae yr adeg hon ar yr Eglwys Gristionogol, yn anad yr un tymhor a fu arni erioed, yn galw am ddwyn allan y gorchymyn hwnw i weithrediad bywiog a llawn. '*A phob un sydd yn enwi enw Crist, ymadawed oddiwrth anghyfiawnder.*' Mae enw Crist ac anghyfiawnder yn hollol anghydweddol â'u gilydd. Am hyny dylai y rhai sydd yn dilyn Crist, ofalu hefyd am fod yn '*ddilynwyr cyfiawnder.*'

"Ar yr un pryd, nid ydys yn condemnio *coelio achlysurol.* Mae o'r bron bawb yn cyfarfod â rhyw amgylchiad neu gilydd sydd yn gwneyd cau hyn allan, nid yn unig yn angharedigrwydd, ond yn greulondeb; nid yn unig byddai yn beth anghymydogol, ond byddai yn beth croes i drugaredd. Mae gair Duw yn gorchymyn, 'Na thro oddiwrth yr hwn sydd yn ewyllysio echwyna genyt. Nid y peth yn *achlysurol*, ond yr *arferiad gyffredin*, sydd yn arwain i ddrwg.

"Na thybied neb chwaith ein bod wrth wneyd y sylwadau uchod yn cymeryd pawb sydd yn nglŷn yn yr arfer o brynu a gwerthu ar goel, yn euog o'r holl, nac, yn wir, o'r un o'r drygau a nodwyd. Na, fe ŵyr pawb y byddai hyny y cyhuddiad mwyaf anwireddus ac anfaddeuol, canys y mae llawer o deuluoedd parchus yn meddu llawnder o aur ac arian, a llawer o rai tlodion, gonest ac ymdrechgar, yn nglŷn yn yr arferiad, y cyfryw ag y mae eu gair yn llawn werth eu harian. A phe felly pawb, ni buasai y niwaid y ddegfed ran o'r peth ydyw. Ond dynion o gymeriad didwyll sydd yn cadw y gyfundrefn hon yn fyw; pe ciliai y rhai hyn ymaith, byddai farw ohoni ei hun; a'r fath waredigaeth i'n gwlad ni fyddai hyn! Y mae y coelio yn sicr o fod yn fwy o ddrwg nag o dda i bawb sydd yn ei arfer.

"Am hyny bydded i bob un sydd yn caru byw arno ei hun, i bob un sydd yn hoffi gwelliant ei gymydogaeth, bydded i bawb sydd yn caru lles moesol ei gyd-ddynion, bydded i bawb a ddymunai weled cymeriad yr eglwysi yn fwy glanwaith—ymddidol, mor ebrwydd ag y gallont, oddiwrth y *system* niweidiol hon.

"Mae llawer yn ein hardal mewn sefyllfaoedd mor glyd, fel na

byddai gwneyd hyny yn un anghyfleusdra iddynt. Byddai raid i eraill wneyd cryn lawer o hunan-ymwadiad ac ymdrech; ond byddai cael eu hunain unwaith a'u traed ar y lân, yn glir â'r byd, ac heb neb yn eu gofyn, yn ddigon o wobr am eu holl ymdrech. Mor hyfryd yr ymdeimlent! Caent fwynhad o'r hyn sydd iddynt yn awr yn beth amheuthyn iawn—RHYDDID.

"R. ELLIS."

"Clwt-y-Bont, Mehefin 1af, 1849."

Ar gyfer y dyddiad Mehefin, 1849, ysgrifena: "Y mis hwn gwnaethom gyfnewidiad pwysig yn ein hymdrafodaeth fydol, sef troi ymaith yn llwyr oddiwrth yr arferiad o werthu ar goel. Nid ydym yn *coelio* neb. Beth ddaw ohonom ar ol hyn, nis gwyddom. Gwyn fyd na allwn ymddiried yr amser dyfodol i law fy Nhad Nefol. Yr wyf yn teimlo nad oes ond ffydd a all orchfygu y byd. Gwas da ydyw y byd, ond y mae yn feistr creulawn."

Pa hyd y parhaodd i sefyll at y penderfyniad hwn o beidio gwerthu ar goel, nis gwyddom yn sicr. Yr ydym yn cael yn mhen blynyddoedd ei fod yn gweled ei hun, wrth gael ei adael ei hunan yn yr ymdrech ganmoladwy, yn rhy wan i ymladd yn unigol âg arferiad oedd wedi gwreiddio mor ddwfn; a cheir ef yn llithro, bob yn ychydig, i *goelio* drachefn, fel, yn mhell cyn ei ymneillduad o'r fasnach, yr oedd mor ddyfned yn y camwedd a'r masnachwyr yn gyffredinol. Gresyn mawr hefyd na fuasai wedi cael cefnogaeth ei gydfasnachwyr ar y pryd i weithio allan y penderfyniad. Buasai sefyllfa y masnachwyr a'r cwsmeriaid hefyd lawer o filoedd o bunnau heddyw yn fwy ffafriol, heblaw y buasai gan y naill a'r llall y boddhad o deimlo iddynt gydweithio yn llwyr ddarostyngiad arferiad mor wastraffus, niweidiol, a diraddiol ag ydyw y *coelio*, a rhoddi eu cefnogaeth i'r egwyddor sydd y cyfnerthiad cryfaf i gynildeb, darbodaeth, a diwydrwydd.

Yr oedd, drwy yr holl gyfnod hwn yr ymroddai i fasnach, yn gwasanaethu gyda ffyddlondeb yr achos crefyddol yn yr Ysgoldy a'r eglwysi cymydogaethol, gan fod at eu galwad ar bob achlysur i wneyd pob gwasanaeth iddynt oreu y gallai.

Cafodd efe ei hunan raddau helaeth o adnewyddiad i'w yspryd yn y gwaith, yn gystal a phrofiad o lawenydd wrth weled yr eglwysi o'i ddeutu yn cael eu deffroi i lafur ac ymdrech yn ffordd achubiaeth pechaduriaid, trwy yr adfywiad crefyddol grymus a gymerodd le yn Nghymru yn y flwyddyn 1859. Bydd yr adroddiad canlynol am yr adfywiad yn sicr o fod yn ddyddorol a gwerthfawr:—

"Blwyddyn ryfedd ydyw hon ar gyfrif ei hadfywiadau crefyddol. Dyma flwyddyn gymeradwy yr Arglwydd. Blwyddyn

ei waredigion Ef a ddaeth. Y mae yn amheus a fu ei chyffelyb yn y ganrif hon. Yr adsain bendigedig sydd yn cyrhaedd ein clustiau o wahanol wledydd y ddaear—o America, yr Iwerddon, Ysgotland, Sweden, ac o Ddeheudir Cymru! Ac o'r diwedd, y mae y cyffro wedi syrthio yn rymus iawn ar yr ardaloedd hyn. Y mae Llanddeiniolen, Llanberis, a Llanrug yn dân poeth o gyffro crefyddol. Gobeithio yr ä yn mlaen nes goddeithio yr holl wlad.

"Ni bu annuwioldeb erioed yn fwy ei rwysg yn ein hardaloedd na'r haf hwn, er ein holl gyfarfodydd crefyddol, ein holl bregethu, a phregethu pob dull, pob gwirionedd, a hyny gan bob dawn. Yr oedd genym gyfarfodydd dirwestol yn gyson, a phob dull o gynghori ac anog yn y rhai hyny. Yr oedd yr Ysgolion Sabbothol, y cyfarfodydd eglwysig, cyfarfodydd llenyddol, &c., yn cael eu cynal yn rheolaidd. Ond er lluosoced ein cyfarfodydd, ac er troi pob moddion a feddem i ymosod ar lygredigaeth ein hardaloedd, cynyddu, er pob ymdrech i'w erbyn, yr oedd annuwioldeb. Amlhäi meddwdod er ein gwaethaf. Meddiennid yr ieuenctyd gan ryw ysgafnder annuwiol. Nid oedd gan nifer mawr ohonynt barch i Dduw na dyn, Sabboth, na Beibl, na dim. Darfu adeiladu Llandinorwig grëu rhyw reibio poenus a dilywodraeth yn yr ardaloedd. A chan fod y gwibio hwn yn cymeryd arno ei hun rhyw rith o grefydd, yr oedd yn fwy anhawdd dywedyd yn ei erbyn.

"Er fod genym luaws o bobl ieuainc yn aelodau o'n heglwysi, yr oedd llawer ohonynt yn peri poen mawr, ac eto, yn llwyddo i ymgadw rhag dyfod i afael â disgyblaeth lac o'r fath sydd genym. Rhwng y naill beth a'r llall, yr oedd dynion difrifol yn dechreu petruso pa beth a ddeuai o'r genedl. Haerai rhai dynion da nad oeddym i ddisgwyl adfywiad crefyddol grymus fel a fu yn yr oes o'r blaen yn ein gwlad, bod eu tymhor wedi darfod, a bod y llwyddiant bellach i ymddibynu ar fesur y llafur. Dywedid fod yr adfywiadau grymus i ateb yr un dyben a'r gwyrthiau ar y dechreu, sef i roddi cychwyn da i grefydd Crist mewn gwlad; ac yna i ddarfod rhag y temtid yr eglwysi i wneyd cam-ddefnydd ohonynt. Yn yr ystyr yma edrychid ar yr adfywiadau yn debyg i waith amaethwr cefnog pan yn rhoddi ei fab mewn ffarm, yn ei gynorthwyo yn hael ar y cyntaf, *stocio* y tyddyn, a'i hwylio i gychwyn yn dda yn mhob peth; ond cyn pen hir, y mae yn rhoddi ar ddeall i'r gŵr ieuanc i beidio disgwyl gormod wrth ei dad, bod yn rhaid iddo ymdaro drosto ei hun, a bod ei lwyddiant bellach yn ymddybynu ar ei ymroddiad a'i ofal ef ei hun. Pa mor resymol bynag yr ymddengys syniad o'r fath, y mae yn hollol amlwg fod yr hen ffarm (Cymru), er maint ein llafur, yn myned yn anialwch

dan ein dwylaw. Rhywfodd, nid oedd y llwyddiant ychwaith yn ateb i'r llafur. Yr oedd yn ein plith lawer o lafur, ond ychydig iawn o lwyddiant.

"Ond yn y nos dywyll yma o aflwyddiant a digalondid, dyma rywbeth pur ddyeithriol ac annisgwyliadwy yn ymddangos. Dechreuodd yn Waenfawr. Nid oedd mor wyllt yno ar y cyntaf; eto, yr oedd dynion o bob math yn cael eu dwys-bigo yn eu calon, ac yn heidio i'r eglwys ar ddarfod am danynt. Torodd allan drachefn yn Cwmyglo. Yr oedd yn dân poeth yno. Gwelid yno y dewr yn gorfod gwaeddi yn groch. Canu, gweddïo, a gorfoleddu y byddent drwy y nos. Yr oedd dynion annuwiol a bechgyn gwylltion yn teimlo nerthoedd y byd a ddaw, ac yr oedd gofidiau uffern a dychryn y farn mewn sydynrwydd wedi meddiannu y meddwl mwyaf diofal ac anystyriol. Mynych y gwelwyd y llanc caled-galon yn myned i'r cyfarfod i wawdio y gorfoledd, ond cyn pen deng munyd yn gorfod llefain ei hunan. Gwelid rhai dynion cryfion yn methu dal heb lewygu, nes gorfod eu cario allan yn haner marw. Yr oedd dynion, yn hen ac yn ieuainc, yn feibion ac yn ferched, yn heidio yno o'r cymydogaethau cylchynol i weled y 'peth hwn' oedd mor ddyeithriol, a'r difrifwch ar unwaith yn meddiannu pawb.

"Bydd Sabboth yr 21ain o Awst, 1859, yn ddiwrnod a gofir yn hir yn nghapelau Llanddeiniolen. Myfi oedd yn gweinidogaethu yn Ysgoldy. Nid oedd dim i'w deimlo yn y gwasanaeth cyhoeddus, os nad oedd yn wir braidd yn fwy trymaidd nag arferol. Yr oeddwn wedi digaloni cymaint ar ol pregethu y boreu fel y penderfynais gymeryd hen bregeth y nos yn lle yr un a fwriadwn ei phregethu. Nid oedd dim hynod drachefn y nos, ond ei bod ychydig yn ysgafnach na'r boreu. Yr oedd ordinhad Swper yr Arglwydd yn cael ei weinyddu ar ddiwedd pregeth y nos, ond nid oedd dim hynod yn y rhan yma o'r gwasanaeth ychwaith, nes yr aed i ganu yn y diwedd. Wrth ganu yr hen benill—

"'Gwnaed concwest ar Galfaria fryn,' &c.,

twymnodd yr holl eglwys—aeth llawer iawn i wylo, a rhai i lefain a gorfoleddu. Ond darfyddodd y gwasanaeth. Aeth llawer adref. Ond yr oedd llawer yn anfoddlawn i ymadael â'r capel. Dechreuwyd cyfarfod gweddi. Darllenodd un o'r brodyr ran o bennod oedd yn cynwys hanes croeshoeliad y Gwaredwr. Yr oedd yr hanes mor newydd a dyeithriol a phe buasid heb ei glywed erioed o'r blaen, ac yr oedd ar unwaith yn cynyrchu teimladau dwysion iawn. Ond ar ganol y weddi, fel taran-follt, dyma rywbeth annarluniadwy yn syrthio ar bawb oedd yn y capel, fel gwynt

nerthol yn rhuthro, nes llenwi yr holl dŷ, a pheri i bawb lefain am eu bywyd. Yr oedd y bechgyn afreolus, er eu bod yn rhyw lun o aelodau eglwysig, yn syrthio i waelod y seti, ac yn wylo, llefain, a gweddïo. Yr oedd pawb yn y cyffro mwyaf. Beth a allai hyn fod? Wrth glywed y gwaeddi, daeth lluaws o'r cymydogion yn nghyd, hen ac ieuainc, crefyddol a digrefydd, ac fel ar ddydd y Pentecost, felly y bu yma, hwy a drallodwyd. Yr oedd pawb yn llefaru megys â thafodau dyeithr. Ni welwyd y fath beth er's saith mlynedd ar hugain yn yr Ysgoldŷ. Buwyd yno hyd yn blygeiniol. Yr oedd pawb wedi eu bedyddio â'r Ysbryd Glân, ni a fawr hyderwn. Dydd Llun a ddaeth, a diwrnod rhyfedd fu yn y cymydogaethau hyn. Erbyn clywed yr hanes, yr oedd peth cyffelyb wedi cymeryd lle yn holl gapelau yr ardaloedd, yn cynwys Cefnywaen, Ebenezer, Dinorwig, Sardis, Rhydfawr, Rehoboth a Llanrug. Yr oedd yr holl wlad felly yn y cyffro mwyaf, a'r diwygiad oedd yn ngenau pawb. Yr oedd rhyw sobrwydd a difrifwch wedi meddiannu yr holl ardalwyr. Ceid y gweithwyr yn y chwarel am unwaith ac ar unwaith fel wedi dyfod yn ddynion eraill, y llwon a'r rhegfeydd, y geiriau gwag a'r coeg-ddigrifwch wedi darfod. Nid oedd ymddiddan i'w gael am ddim ond y diwygiad, y cyfarfod gweddi, tröedigaeth hwn, a dychweliad y llall.

"Am yr wythnosau canlynol byddai goleuni yn mhob capel hyd haner nos, a phellach na hyny yn aml, a sŵn canu, gweddïo a gorfoleddu, a glywid yn adsain drwy y nos, yn enwedig yn yr wythnos gyntaf. Y mae braidd yr oll o fechgyn meddwon ac afreolus y cymydogaethau wedi sobri, ac yn ymuno â'r naill neu'r llall o'r eglwysi. Er ein bod arferol a gweddïo llawer, o'r fath ag ydoedd, er's hir amser am adfywiad ar grefydd, eto ni ddychymygodd neb am ei gael yn y wedd yma. Ond fel hyn y daeth, ac yr ydym ninau fel rhai yn breuddwydio.

"Fel y bu i bob adfywiad crefyddol, felly y mae i hwn ei hynodion. Yn un peth, y gweddïo yw y cwbl. Peth cyffredin pan y mae yr Arglwydd yn bywhau ei waith ydyw, ei fod yn rhoddi bri newydd yn ngolwg y byd ar rywbeth, rhyw athrawiaeth neu ddyledswydd a fyddai wedi syrthio i anfri. Felly yma. O'n holl gyfarfodydd crefyddol, nid oedd yr un wedi myned mor ddisylw a'r cyfarfod gweddi. Mewn aml i gynulleidfa, ni byddai un o gwbl ond y cyfarfod gweddi cenadol y nos Lun cyntaf o'r mis. Ychydig ddeuai i hwnw, ac oeraidd iawn a fyddai. Ond yn yr adfywiad presenol, ar ben y Dafydd hwn o gwrdd gweddi y tywalltodd Duw ei gorn olew. Go ryfedd hefyd! Yr holl gynulleidfa yn dyfod yn nghyd i gyfarfod gweddi! Y mae y canu a'r gweddïo yn bethau newyddhollol. Y mae pawb 'yn wresog yn

yr yspryd.' Nid oes digon o gyfarfodydd gweddïau i'w cael. Ni bu dim hynod yn y pregethu, heblaw bod yn llawer iawn hawddach pregethu nag o'r blaen. Felly, nid oes na phregethwr na blaenor na neb arall dan un demtasiwn i ladrata dim o'r gogoniant iddo ei hun. Peth arall sydd yn hynod yn y cyffro presenol, *cyffro* ydyw. Dan ei ddylanwad y mae y dyn diofal ac anystyriol fel yn deffro ar unwaith, ac yn teimlo fel pe byddai dinystr yn agoryd ei safn i'w lyncu ar unwaith. Dèlir dynion gan ofidiau uffern, dychryn y farn, nerthoedd y byd a ddaw, a chan ofn marw yn annuwiol. Y fath ddychryn a'r fath drallod sydd ar y creadur! Y bachgen gwyllt, gwamal, wedi ei ddal, yn crynu, yn wylo, yn llefain, yn syrthio ar ei wyneb ac yn ceisio gweddïo!

"Er ein galar, y mae y cyffro hwn yn gadael llawer iawn o hen wrandawyr ar ol. Cyffrowyd hwythau ar y cyntaf, ond ymgaledu y maent. Yn yr adfywiad fu ar grefydd yn Arfon ddeunaw mlynedd yn ol, dynion yn cloffi rhwng dau feddwl a ddygwyd i mewn i'r eglwysi braidd yn hollol. Ond yn hwn hyd yma, y mae y dosbarth hwn fel yn cael eu gadael allan. Eto y mae ambell un yn cael eu bachu.

"Yr ydwyf yn ysgrifenu hyn yn mhen y tair wythnos ar ol toriad allan y diwygiad. Nid hawdd eto penderfynu beth ydyw rhif y dychweledigion. Tua deuddeg a thri ugain sydd yn Ysgoldý, ond y mae y nifer yn llawer mwy yn Nghefnywaen a Dinorwig.

"Beth fydd y canlyniadau o hyn nis gallwn eto ddyfalu. Y mae genym achosion lawer i lawenhau, ond dylem, yr un pryd, ymlawenhau mewn dychryn. Oni bydd swyddogion eglwysig yn bur effro a ffyddlawn i'w hymddiried, gall y canlyniadau fod yn ddychrynllyd. Yr wyf yn ofni ac yn pryderu rhag pan ddarfyddo y cyffro y bydd genym fwy o broffeswyr penrhydd nac erioed. Beth all fod yn fwy o felldith i grefydd na hyny?"

Ar ddiwedd yr ysgrif hon gwna y sylw canlynol:—"Yr wyf yn ysgrifenu hyn gyda'r amcan iddo gael ei gadw a'i gyhoeddi i'r oes nesaf. Er ei fod yn rhy ddiwerth i'w gyhoeddi ar hyn o bryd, dichon y bydd yn werthfawr erbyn hyny. Medi 12fed, 1859. Diwrnod cyntaf Cymdeithasfa Bangor.—ROBERT ELLIS."

Bendith anmhrisiadwy i Gymru a fu y diwygiad hwn. Cafodd crefydd afael sicr ar filoedd fuont nodedig o ddefnyddiol, ac a dreuliasant eu hoes yn gwbl yn ei gwasanaeth. Diamheu genym y teimla pob darllenydd ystyriol fod y desgrifiad a roddir yma o agwedd y wlad cyn toriad allan yr adfywiad yn ddarluniad pur gywir o agwedd pethau yn ysprydol yn ein dyddiau ninau, os nad oes yn ein plith ninau hefyd ryw syniadau yn cael eu coleddu fod oes y diwygiadau ar ben. Ein hangen mawr ni, gan hyny, ydyw

cael eto "y peth yma" a welwyd ac a glybuwyd ar ddydd y Pentecost i ddechreu, ac ar ol hyny y gwelodd Duw yn dda fendithio ei bobl âg ef, pan y dygid hwy gan wir deimlad o'r angen i'w geisio yn ddifrifol fel eu hunig waredigaeth a'u llwyddiant.

Yn y flwyddyn 1860, ni a gawn fod teimlad yn cryfhau am wneyd rhyw arwydd sylweddol o werthfawrogiad o'i lafur a'i wasanaeth; fe gymerodd y teimlad y ffurf o gyflwyniad darlun a swm o arian iddo yn gydnabyddiaeth o'i ffyddlondeb a'i ymroddiad. Fel hyn yr ysgrifena ef ei hun yr hanes:—"Ar brydnawn Sadwrn yn mis Medi, 1860, bu cyfarfod lled hynod yn nghapel yr Ysgoldŷ. Cyfarfod ydoedd i fy anrhegu â'm darlun, yn nghyda phwrs yn cynwys deg punt o aur, fel arwydd o barch am fy llafur gweinidogaethol meddant hwy. Yr wyf yn sicr na feddyliais erioed am dderbyn y fath beth. Ni chrybwyllais air wrth neb fy mod yn disgwyl y cyfryw gydnabyddiaeth, ac nid ynganodd neb wrthyf finau fod y fath beth ar droed hyd nes y daeth yr arlunydd (y diweddar Barch. Evan Williams, Caernarfon) i'm tŷ i ofyn fy nghydsyniad i eistedd o'i flaen. Tarawodd y peth braidd yn boenus ar fy nheimlad ar y cyntaf. Nid bob amser y mae *testimonials* yn effeithio yn dda. Gydag achosion fel hyn yn rhy gyffredin y mae teimladau da un dosbarth o ddynion yn cynhyrfu teimladau drwg rhai eraill; canys nid oes yr un dyn cyhoeddus, fel y dywedir, na bydd rhyw rai yn teimlo yn ddrwg tuag ato. A gwn yn burion nad wyf finau wedi gallu 'dal y ddysgl yn wastad' i bawb. Ofnwn felly ar y dechreu rhag y byddai i garedigrwydd fy nghyfeillion beri i eraill deimlo yn genfigenllyd a brwnt. Gwyddwn fod helynt felly wedi bod gyda thystebau mewn ardaloedd eraill. Ond hyd yr ydwyf yn deall, ni bu dim o'r fath beth y tro hwn. Pa fodd bynag, bydd yn dda gan rywun gael y darlun ar ol i mi fyned o'r golwg, ac y mae yn dda iawn i minau gael yr arian. Mae fy nheulu yn fawr, a dim wrth gefn genyf.

"Yr wyf yn prisio yr anrheg yn llawer uwch na'i gwerth arianol, fel y mae yn ffrwyth cariad a theimlad da. Am fy helynt fel pregethwr a gweinidog, nis gall neb o'm cymydogion ei ddeall. Ond y mae yr Arglwydd yn gwybod. Y fath helynt ydyw ceisio dal i fyny ddau gymeriad mor wahanol ag ydyw pregethwr a siopwr. Mae y naill o hyd am ddyrysu y llall. Nis gellir gwneyd dim yn iawn gyda'r siop, heb yspryd siop; ac nis gellir gwneyd dim yn iawn gyda'r pregethu heb yspryd pregethu. Y mae y ddau yspryd mor wahanol fel y dylent gael dau gorph gwahanol, dwy galon wahanol, dau wyneb gwahanol, a dau bobpeth gwahanol. Mae y frawdoliaeth yn disgwyl i'r pregethwr fod yn gystal siopwr a'i gymydog nad oes ganddo ddim gorchwyl arall i feddwl am

dano. Disgwylir iddo fod yn gystal pregethwr ag un arall nad oes ganddo ddim i'w wneyd ond pregethu. Y mae hyn yn rhy galed. Pan y bydd yspryd pregethu, bydd raid *attendio'r* siop, ac yn rhy fynych, bydd raid myned o ganol trafferth y siop a'i hyspryd i geisio pregethu. Fel hyn, wrth geisio gwasanaethu dau arglwydd, digio y ddau. Mae gwahaniaeth mawr wed'yn rhwng pregethwr yn siopwr, a siopwr yn bregethwr. Y mae rhyw fymryn o gysur i minau yn hyn, os ydwyf yn bregethwr *sâl*, yr wyf yn siopwr *salach*. Ond fel y mae goreu'r lwc, yr wyf yn well allan na'r lluaws o'm brodyr y siop-bregethwyr. Y mae fy 'haner oreu' yn siop-wraig ragorol. Felly yr wyf yn cael gwell chwareu teg na llawer. Pe digwyddai yr anffawd i mi ei cholli, beth ddeuai o honof! Rhynged bodd gan Dduw i mi ei chael tra byddwyf. Amen.

"Y mae y llafur gweinidogaethol, fel ei gelwir, yn fawr mewn ardal boblog fel hon. Bydd raid cychwyn i rywle, i rywbeth, a hyny yn wastad—myned yma ac acw i gadw *seiat*—i fedyddio, i'r ŵylnos, i gladdu, i briodi, ac i ymweled â chleifion. Hyn oll hefyd sydd raid fod yn ychwanegol at y cyfarfodydd y bydd pawb yn arfer bod yn bresenol ynddynt. Nis gellir gwasanaethu Crist heb hefyd wasanaethu dynion. Wrth wasanaethu yr eglwys Fethodistaidd, rhaid gwasanaethu Methodistiaeth. Y mae y naill rywfodd yn y llall. Felly yr edrychai yr Arglwydd Iesu ei hunan ar y mater, 'Yn gymaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch.' Rhodded yr Arglwydd ras i mi fod yn ffyddlawn i wasanaethu fy nghenedlaeth fel Dafydd, pa un bynag a gydnabyddir hyny gan ddynion ai ni wneir. Nid ydyw hyny yn perthyn i mi. Byddaf yn teimlo yn bur fyw, a hyny yn bur fynych, oddiwrth annheilyngdod fy ngwasanaeth crefyddol. Yr wyf yn teimlo yn bur gynhes am yr arwydd yma (y darlun a'r pwrs) o gydnabyddiaeth fy nghymydogion. Er nad ydyw y gwerth arianol yn fychan, y mae yn llawer mwy yn fy ngolwg am y credaf ei fod yn ffrwyth cariad, nid ataf fi yn unig, ond at Iesu Grist ei hunan. Teimlaf rywbeth yn gyffelyb i'r Apostol Paul, 'Nid oherwydd fy mod i yn ceisio rhodd: eithr yr ydwyf yn ceisio ffrwyth yn amlhau genych erbyn eich cyfrif chwi.' Hynyma ar y darlun."

Y mae yn amlwg ei fod yn awyddu bob amser am gael ei ryddhau o ofalon masnachol er cael pob hamdden i ymgysegru yn llwyr a hollol i wasanaeth crefydd, ac yr oedd yr awydd hwn yn cryfhau fel yr oedd yntau yn cynyddu mewn oedran. Yn mis Medi, 1864, dyma fel yr ysgrifena ar y mater:—

"Yr wyf, ar hyn o bryd, yn cael fy hun mewn agwedd ryfedd. Yr oeddwn bob amser yn rhyw *rygnu* trin y byd hwn fel cynorthwy

i'm gwraig. Hi, pa fodd bynag, oedd *dyn y byd*. Hi oedd yn gofalu am y fasnach ac yn hwylio y gofalon teuluaidd, a minau weithiau yn helpu, ac weithiau yn beio. Ond yn y llafur crefyddol y byddwn yn fy elfen, ac erbyn yr adeg hon, yr ydwyf wedi colli pob awydd at y byd hwn. Yr oedd ei drafferth a'i ofalon yn wir flinder i mi. Nid oedd arnaf eisiau dim gan y byd ond ymborth, dillad a *hamdden*. Ond er mor ddymunol fuasai cael hyny, nid oedd seibiant i'w gael. Yr oeddwn er's blynyddoedd yn edrych yn mlaen at y cyfnod hwn arnaf, pan y byddai y plant hynaf wedi dyfod yn gyfryw o ran oedran ag i gymeryd rhan o'r drafferth, ac y cawn inau fwy o hamdden. Yr *hamdden* hwn oedd fy aderyn brith, ceisio dal hwn fyddai nôd a phwynt y rhedegfa. Tybiwn ond cael hyny—yr hamdden fendigedig!—y gwnawn 'felin ac eglwys' gyda'r gwasanaeth crefyddol. Byddai trafferthion a helbulon y fasnach yn nychu fy meddwl, fel y byddwn yn fynych yn faich i mi fy hun, y dymher yn bigog, a'r geiriau yn frathog, ac yn bobpeth hollol anghymwys i'r siop. Eto yn y siop y byddai raid bod. Ar gongl ei *chounter* hi y byddai raid llunio y bregeth, o air i air, ac o frawddeg i frawddeg, blith draphlith â thrafferthion y fasnach. Rhywfodd nis gallaf fod yn esmwyth yn fy nghroen heb fod genyf bregeth ar y *blociau*. Ac os na chawn ychydig hamdden gyda'r bregeth yn awr ac yn y man, byddwn yn flinder i mi fy hun ac i bawb o'm deutu. Ond er na byddwn yn cael pleser wrth drin y byd, byddwn yn teimlo i'r byw oddiwrth ei ofalon, ei bryder, a'i ofnau. Tra yr oeddwn fel hyn yn ymryson â phawb, ac â phobpeth, ac â mi fy hun ; do, do, bu'm yn euog filoedd o weithiau o ymryson â'm Lluniwr bendigedig, am fy mod wedi fy ngeni dan blaned mor flin, daeth i fy meddwl fod yn rhaid i mi beidio gwingo yn erbyn y symbylau, ac fy mod trwy hyny yn gwneyd fy hun a phawb o'm cwmpas yn annedwydd.

"Yr oeddwn hefyd yn dechreu dirgel gredu bellach na byddai i'r *hamdden*, y sychedwn gymaint am dano, effeithio yn ddaionus arnaf yn mhob cysylltiad. Yr oeddwn wedi cael prawf gofidus o hyn aml i dro pan yn gwasanaethu yr achos crefyddol am wythnos yn Liverpool a Manchester. Felly yn yr adeg hon, tröais at yr Arglwydd i geisio doethineb a gras i wneyd fel y dylwn. Ystyriais fod fy Nhad Nefol wedi rhoddi i mi deulu lluosog i'w dwyn i fyny, ac mai fy nyledswydd a'm braint ydoedd cael gwneyd hyny yn lle cwynfan a thuchan o'r herwydd. Mor hawdd fuasai i'r Duw mawr fy ni-blanta! Mor chwerw fuasai hyny! Rhywfodd daeth yspryd newydd hollol i'm meddiannu. Penderfynais ymaflyd yn y byd o ddifrif, a hyny, nid i'w gasglu, ond i *fyw*, i lenwi fy lle fel gŵr, a thad, a phenteulu. O hyny hyd yn hyn y mae trin y byd

yn dyfod yn bleser genyf, ac y mae yr hen bruddglwyf câs a'i *griw* wedi fy ngadael am dymhor o leiaf, a gobeithio am byth.

"Ond yr wyf yn ystyried fy hun eto mewn perygl. A beidiaf ag ymrwystro â negeseuau y bywyd hwn? A beidiaf a myned yn-ddyn y byd? A beidiaf a charu y byd presenol? Beth ddaw o'r pregethu? Yr Arglwydd Iôr a'm gwaredo rhag myned yn ddyn bydol. Y mae tlodi a'i holl anghysuron yn fil gwell na hyny."

Tymhor byr iawn fu i'r pleser crybwylledig o drin y byd heb i'r pruddglwyf a'i gymdeithion annyddan ddyfod i'w boeni drachefn, ac fe ymddengys mai trwy ormod baich o ofalon bydol y gwelodd Rhagluniaeth y Nefoedd yn dda ei arwain i lwyr neillduaeth o bob trafferthion masnachol, ac i gael terfynu ei ddyddiau yn yr hamdden a garai mor fawr, ac ydoedd yn ol ei syniad ef mor wir hanfodol i effeithiolrwydd y weinidogaeth. Bu i'w waith tua'r adeg hon yn ymdaflu i'r byd a'i amgylchiadau, wrth weled y plant yn tyfu i fyny ac yn dyfod yn gymhorth gwerthfawr yn y fasnach, beri iddo ddymuno am agoriad lle newydd i un neu ychwaneg o'r plant sefydlu ynddo. Yr oedd Llanberis y pryd hyny yn prysur gynyddu o ran poblogaeth, a'r adeiladu yn myned yn mlaen mor gyflym fel yr oedd yn lle gwir addawol. Heblaw hyny yr oedd yn ddigon agos i Glwtybont, fel y gallai ef a'i briod arolygu y cyfan eu hunain. Temtiwyd ef gan ystyriaethau o'r natur yma i brydlesu darn o dir yn Coedyddol, Llanberis, ac adeiladodd dŷ mawr arno, wedi ei gyfaddasu at fasnach a lletŷa dyeithriaid. Bu yr anturiaeth hon bron yn fwy nag y gallai ymgynal dani. Aeth a'i holl enillion oddiwrth y fasnach am flynyddoedd, a channoedd o bunnau yn ychwanegol. Cafodd lawer o helbul gyda'r adeiladwyr, a cholledion arianol drwy yr anturiaeth a fuont agos a'i lethu. Dywed ef ei hun am yr adeg hon ei fod bron ag ymddyrysu yn y brofedigaeth:—"Bu ein trallodau yn ystod y flwyddyn hon a'r un ganlynol (1865 a 1866), a'n teimladau, y tuhwnt i'w darlunio. / Yr oeddym yn onest ac am i bawb gael ugain swllt y bunt genym. Ond credem ein bod wedi myned yn rhy ddwfn mewn dyled i allu cyrhaedd hyny. Yr oeddwn yn credu wrth bregethu yn nghapel Dinorwig un nos Sabboth, mai dyma y tro diweddaf i mi gael cynyg pregethu am byth. Nid oedd neb yn gwybod am ystormydd fy meddwl ond myfi a'm Duw. / Byddwn yn gweddïo mwy na mwy, ddydd a nos, am ymwared ac am ras i ymostwng, a chefais fy ngwrando. Erbyn dechreu y flwyddyn 1868, yr oedd yr awyrgylch amgylchiadol yn clirio. Cafodd pawb oedd yn ein gofyn ugain swllt y bunt, a rhai fwy na hyny, am eu bod yn ddigon diegwyddor i geisio mwy. Rhoddwyd y gangen-fasnach yn Llanberis i fyny, a gosodwyd y tŷ a'r siop dan ardreth."

Diddyfnodd hyn ei feddwl yn llwyr o bob awydd at anturiaethau masnachol, ac fe drefnodd yr Arglwydd iddo gael neillduo yn niwedd ei ddyddiau oddiwrth bob gofalon bydol o'r natur yma. Yn ystod y flwyddyn grybwylledig penderfynodd roddi i fyny y siop yn Clwtybont i ofal ei fab Robert a'i ferch Jane, y rhai, trwy ofal ac ymröad, â bendith y Goruchaf, a lwyddasant.

Cyfnerthwyd ef hefyd i gredu fod bŷs Duw yn cyfeirio tua'r neillduaeth hwn, yn ngwaith eglwysi Ysgoldŷ a Disgwylfa yn ei gymhell tua dechreu y flwyddyn dan sylw i ymryddhau o ofalon masnachol, a dyfod yn fath o "fugail" arnynt, â'r hyn y cydsyniodd gyda pharodrwydd mawr :—"Yr oedd y ddwy eglwys i roddi i mi *ddeuddeg punt* bob un yn y flwyddyn am fy ngwasanaeth. Yr adeg yma yr oedd cyfeillion Ysgoldŷ yn adeiladu tŷ capel newydd. Cymhellwyd y wraig a minau i ddyfod yma i fyw. Daethom yma yr 22ain o Orphenaf, 1868. Dros ba hyd y byddwn yma eto ni pherthyn i ni ei wybod. Pan ddêl ychydig flynyddoedd, ni a rodiwn lwybr, ar hyd yr hwn ni ddychwelwn. Tua'r un adeg, darfu i gyfeillion Bryn'refail fy nghymhell i ddyfod yno mor aml y gallwn i gadw cyfarfodydd eglwysig ac ymweled â'u cleifion, ac y rhoddent i mi bedair punt yn y flwyddyn am fy llafur. Felly cydsyniais i fyned, ond bu y cyfeillion hyn yn well na'u gair. Rhoddasant i mi chwe' phunt yn y flwyddyn. Bu'm yn eu gwasanaethu hyd 1879, pan ddaeth tymhor fy ngwasanaeth i ben, ac y daethant hwythau yn awyddus am fugail mwy teilwng o'r enw.

"Yn y flwyddyn 1868, yr oedd anesmwythder yn mhlith rhai o bobl ieuainc Disgwylfa am gael gwell bugeiliaeth. Wrth ddeall hyny, a rhag bod yn rhwystr ar ffordd llwyddiant yr achos, terfynodd fy nghysylltiad â'r eglwys hon ar ddiwedd y flwyddyn. Mae y byd bob amser yn barotach i addoli yr haul fo'n codi na'r haul fo'n machlud.

"Er dechreu y flwyddyn hon (1879) yr ydwyf wedi rhoddi fy hun yn bwysau ar 'Drysorfa y Gweinidogion,' a da iawn ei chael. Nid oes ond hen weinidogion a'u gweddwon yn gallu deall gwerth y gronfa hon. Bendith ar benau y brodyr fuont yn haelionus a llafurus i'w sicrhau. Y mae yn gysur mawr i'r hen, yr unig, a'r methedig.

"Yr oedd y symudiad o ganol helbulon a phryder ein masnach i dŷ capel newydd Ysgoldy, yn gyfnewidiad pwysig iawn i Sian a minau. Trwy ein bod wedi cefnu ar y byd heb neb yn gallu ein gofyn o geiniog, tybiodd y byd, ein cymydogion, ein bod wedi ei adael yn gefnog, a bod genym ddigon o fodd i fyw. Ac fel rhai felly yr ymddygid tuag atom. Ond gofalodd ein Tad Nefol am danom, ac ni bu arnom eisiau dim. Mor dawel ac mor ddedwydd

y teimlem yn yr hen ardal lonydd hon. Yr oedd i ni ein dau yn nefoedd ar y ddaear, er ein bod yn byw bellach o'r llaw i'r genau Os ychydig oedd yn dyfod i mewn, ychydig oedd i fyned allan. Yr oedd yn hawdd cael y ddeupen yn nghyd. Ni ddychymygais erioed fod yn bosibl i mi gael y fath dawelwch hyfryd. I'n Tad Nefol y byddo y clod. Efe a'n harweiniodd i'r anialwch, ac yna i 'le diwall,' a llefarodd wrth fodd ein calon. Gwir fod helynt ein plant yn peri i ni bryder. Nid oedd hyny ond peth i fod. Ond gofalodd yr Arglwydd yn rhyfedd am ein plant hefyd, a gwnaeth yn rhyfeddol â hwy. Gobeithio y byddant ffyddlawn yn ei wasanaeth.

"Y brofedigaeth i mi yn y symudiad hwn oedd tuedd rhy ariangar fy nghalon. Tra yn trin arian yn y siop, nid oedd arian y weinidogaeth yn un brofedigaeth i mi. Ni byddwn yn gofalu dim pa faint a gawn am bregethu. Yn wir, ni byddwn byth yn eu cyfrif. Am y pum' mlynedd ar hugain cyntaf o'm pregethu, nid oeddynt yn werth eu cyfrif. Tybiai yr hen flaenoriaid fod ychydig sylltau at draul dillad a theithio yn ddigon, os nad gormod, i bregethwr ieuanc o ddawn a gallu cyffredin. Ond erbyn i mi ddyfod i ddybynu yn hollol ar yr ychydig a roddid am bregethu, daeth hyny yn brofedigaeth atgas i mi. Ac er ei bod yn dawel oddiallan, byddai yn rhyfel boeth rhyngof â'm calon oedd ry ariangar genyf. Cefais fesur o fuddugoliaeth. 'Nid yn ariangar.' 'O bydd genym ymborth a dillad, ymfoddlonwn ar hyny.' Y mae pregethwr ariangar yn beth atgas gan y byd. Y mae y byd yn caniatau i bob dyn fod yn ariangar, os mŷn, ond 'gŵr Duw.' Gan hyny, nid oes dim y dylai gŵr Duw ei ochelyd yn fwy na rhoddi argraff ar feddwl y byd ei fod yn ddyn ariangar.

"Daeth tawelwch ty capel Ysgoldŷ a phrofedigaeth arall i mi. Yr oedd Sian a minau wedi bod mewn cymaint o drafferthion a helbulon, a thros ein penau mewn trallodau, fel yr oedd y cyfnewidiad i'r fath dawelwch braidd yn ormod o newidiad. Gwaith mawr i mi bellach oedd gochel *segurdod yspryd*. Yr oedd ac y mae genyf ddigonedd o amser at bob amcan, a'r brofedigaeth i fod yn segur oedd yn un gâs iawn. Y mae wedi bod yn rheol genyf er pan ydwyf yma, i roddi y boreu at y bregeth, a'r prydnawn i ymweled â chleifion. Byddai genyf hefyd, hyd y flwyddyn 1879, dair *seiat* i ofalu am danynt bob wythnos, eto nis gallaswn yn fy myw beidio cael fy hun yn rhy segur fy yspryd. Y gwir yr wyf yn ei ofni ydyw, fy mod yn llawer gwell pregethwr pan yn nghanol trafferthion y byd."

Ni bydd yr hanes hwn yn gyflawn heb fanylu rhyw gymaint ar ei gysylltiad â'r achos crefyddol yn Ysgoldŷ, ac â Chyfarfod Misol

Arfon. Y mae efe ei hunan wedi ysgrifenu cryn lawer ar y cysylltiad cyntaf a nodwyd, ond gan fod amryw o'r ffeithiau arweiniol wedi eu crybwyll yn barod yn nglŷn â'i hanes boreuol ef yn yr ail bennod, ni a ddyfynwn y rhanau dilynol a eglurant y lle a gafodd a'r defnyddioldeb y bu mor nodedig ynddo yn nglŷn â llwyddiant crefydd yn ei ardal enedigol. Pan aeth i'r seiat i'r Ysgoldŷ, ac efe tuag ugain mlwydd oed, "Nid oedd ond un yn unig o'r plant a fagwyd yn yr eglwys hon wedi aros ynddi hyd yr oedran priodol i gael ei gyflawn dderbyn. Byddai yr hen bobl yn anmharod i dderbyn plant i gyflawn aelodaeth heb argoel o ddifrifwch crefyddol ynddynt, ac yn ddiamheu eu bod yn eu lle yn hyn. Yn yr hen Ysgoldŷ y derbyniwyd fi yn bregethwr, ac ni thorwyd y cysylltiad rhyngof â'r eglwys hon hyd heddyw. Gwir y bu fy enw am rai blynyddoedd ar lyfr eglwys Disgwylfa. Eto byddwn yn dyfod i bob cyfarfod eglwysig yn yr Ysgoldŷ fel o'r blaen, ac yn cydofalu â'r brodyr am yr achos. Yr ydwyf bellach wedi bod yn gwasanaethu tair cenhedlaeth yn y lle hwn. Mae y genhedlaeth gyntaf wedi hen ymadael. Ein tadau, pa le y maent? a'n mamau, a ydynt hwy fyw byth? Na, y maent oll wedi myned. Y mae yr ail genhedlaeth wedi myned yn hen, yn ychydig o ran nifer, ac yn agos i ddifianu. A bellach dyma y drydedd genhedlaeth wedi dyfod i'r chwareu-fwrdd i fyned trwy eu rhan yn *nrama* fawr bywyd. * * * *

"Yr ydwyf, bellach, wedi bod yn llafurio gyda'r achos goreu er's chwe' blynedd a deugain fel pregethwr a gweinidog. Ar ol i Ellis Foulkes ymadael, nid oedd yma yn yr holl ardaloedd yr un enw o bregethwr ond myfi. Byddai y galwadau am fy ngwasanaeth o'r herwydd yn lluosog—i gadw seiat i Dinorwig, Fachwen, Cefnywaen, Bryn'refail, Rhydfawr, Pentir, Cwmyglo, ac weithiau i Lanberis. Bedyddiais filoedd o blant, a chedwais filoedd o ŵylnosau. Am flynyddoedd gwnawn y cwbl fel '*thank you job*.' Rhoddwyd yr enw hwn ar y math yma o lafur pregethwr gan yr hen flaenor, Robert Roberts, Blaenycae. Ni feddyliwn am dderbyn dim fel tâl, a meddyliai yr hen flaenoriaid, gan nad oeddynt hwy yn derbyn dim am eu llafur, y dylasai y pregethwr hefyd weithio yn rhad, yn unig derbyn rhyw ychydig am ei bregeth. Ond pan ddaeth blaenoriaid ieuainc i ddechreu llywodraethu, meddylient hwy nad iawn oedd galw am wasanaeth pregethwr heb gydnabod rhyw gymaint arno. Pan agorwyd mynwent Machpelah, fel lle i gladdu, arnaf fi yn gwbl am flynyddoedd y disgynai y gwasanaeth hwn, ac yr oedd y gwasanaeth yma eto yn rhad ac yn rhodd. Gofynai ambell un, ond anaml iawn, pa faint oedd arnynt am y gwasanaeth? Yr ateb bob amser fyddai, *Dim*. Cyn hir, daeth y

Parch. William Rowlands i fyw i Ebenezer, a disgynodd rhan helaeth o'r gwaith arno ef. Bydd genyf barch calon i'r gŵr da hwn. Y mae yn frawd gwir grefyddol, yn ddyn hynod o ran synwyr cyffredin, ac yn meddu gwybodaeth ëang. Bu yn dda iawn i'r ardaloedd poblogaidd hyn, ac yn arbenig felly i Gefnywaen, ei gael.

"Y mae mwy nag a feddylia llawer o anfantais i bregethwr o fod trwy ei oes yn gwasanaethu mewn pethau crefyddol yn ei fro enedigol. Gwir ddywedodd y Gwaredwr, 'Nid yw prophwyd heb anrhydedd, ond yn ei wlad ei hun ac yn ei dŷ ei hun.' Cefais inau brofi yn helaeth o ystyr yr hen sylw, 'Onid hwn yw mab y saer?' Ychydig cyn ymadael o'r siop yn Nghlwtybont, daeth bachgen yno, a gofynodd, 'Ai hon ydi siop Robin y Garnedd?' Dyna hi—'mab y saer.'

"Y mae genyf hen gyfrif du rhyngof â'm Duw. Oes, oes! A byddaf yn erfyn ddydd a nos am ei gymod a'i faddeuant, trwy waed ei groes Ef. Nis gall fy nghymydogion fy nghyhuddo o'r un camymddygiad mewn dim, na thuagat neb, ond yn unig taflu gair rhy sydyn a byrbwyll. Mae genyf gydwybod ddirwystr tuagat bob dyn, ond nid felly ysywaeth tuagat Dduw."

Am ei gysylltiad â Chyfarfod Misol Arfon, ysgrifena:—"Cefais, neu yn hytrach, cymerais fwy nag a ddylaswn o ran yn ngorchwylion y Cyfarfod Misol hwn. Pan ranwyd y Sir yn ddau Gyfarfod Misol tua'r flwyddyn 1840, aeth y gallu llywodraethol i'r pen arall i'r Sir. Yr oedd y diweddar Barch. John Jones, Talysarn, a'i frawd, y Parch. D. Jones, yn perthyn i Arfon, ac yn selog o blaid y rhaniad. Ni bu John Jones erioed yn ddyn cynhadledd, y pwlpud oedd ei le ef. Cymerai ran yn yr ymddiddan, a siaradai yn dda odiaeth, pan yn y dymher i hyny. Ond ni cheisiodd erioed at lywodraethu. Yr oedd David Jones o'r ochr arall yn ddyn rhagorol mewn cynhadledd. A phwy erioed mor ddoeth a gochelgar, ac mor anwyl! Yr oedd gormod o ddyn ynddo i amcanu at dra-awdurdod, ac yn wir, i ymhòni dim yn y cyfeiriad o lywodraethu eraill. Ac eto yr oedd pawb yn foddlawn iddo gael bod yn arweinydd. Yr oedd y Parch. W. Roberts, Clynnog, yn hynach pregethwr na neb yn Arfon, ond nid oedd yr hen frawd yn gofalu dim pwy fyddai yn benaf. Felly rywfodd rhwng 'cil a chlwyd,' daeth Cyfarfod Misol Arfon dan lywodraeth nifer o flaenoriaid. Parhaodd yn y cyflwr hwn nes y cliriwyd yr hen frodyr anwyl hyn ymaith gan henaint ac angau. Byddai John Jones, Talysarn, yn teimlo yn chwerw oblegid hyn; ond yn hytrach nag ymryson, esgeulusai y Cyfarfod Misol hyd y gallai. Am ei frawd, David Jones, gwênai ef yn hawddgar ar y cwbl, a gadawai iddynt. Eto, byddai efe i'w gael

yn mhob Cyfarfod Misol, a gweithiai gyda'r lluaws o'i frodyr. O! 'r gŵr anwyl!

"A thrwy fy mod inau yn llawn o ryw yni, a pharod i siarad ar bobpeth, yn rhy barod, efallai; bid a fo, mi a ddaethum yn ddyn y Cyfarfod Misol. Cefais a chymerais fwy o le ynddo nag a fuasai briodol a doeth. Goddefwyd hyny hefyd rywfodd i mi. Ac o'r herwydd meddyliodd rhyw frodyr diwybod fy mod yn llawer mwy o ddyn nac oeddwn.

"Ac eithrio y ddau frawd, bu adeg lled isel ar bregethwyr Arfon. Am yr ugain mlynedd cyntaf yn oes y Cyfarfod Misol hwn, gelwid fi i bregethu braidd yn mhob un, oddigerth y rhai cartrefol. Byddwn inau yn tybied, o leiaf, y byddwn rywfodd yn cael llawer gwell hwyl ar bregethu mewn Cyfarfod Misol nac yn un man. Yn raddol, pa fodd bynag, dechreuodd Arfon ymgyfoethogi mewn pregethwyr. Daeth y Parch. Rees Jones yma o'r Abermaw; y Parch. John Phillips, o Fôn; a'r Parch. John Owen, o'r Gwindŷ, Eifionydd. Daeth y Parch. John Griffith yma hefyd o Ddolgellau. O hyny hyd yn awr, y mae rhyw ddyfodiaid yn cael eu galw i eglwysi Arfon yn wastadol. Sicr ydyw mai felly y bydd rhagllaw, ac felly yn debygol y mae y goreu iddi fod. Peth anrhydeddus yn y blaenoriaid ydyw peidio gosod o'r neilldu hen frodyr fu yn dwyn pwys y dydd a'r gwres gyda'r gwaith cyn geni llawer ohonynt, ond hyd yn nôd pe yr anghofid hyn, nid grasol yn neb fyddai cwyno o'r herwydd, gan fod y gwaith yn syrthio i ddwylaw brodyr teilyngach."

Parhaodd yn ffyddlawn i'r Cyfarfod Misol tra y gallodd, ac y mae hanes y cyfarfodydd y byddai efe ynddynt yn dangos nad oedd un gradd o berygl y 'gosod o'r neilldu' a ofnai yn y sylwadau blaenorol. Yr oedd "yr hen weinidog," fel y gelwid ef, yn ei ardal yn oracl mewn barn, ac yn dad mewn parch ac anrhydedd yn ei gymydogaeth, a pharhaodd yn "esgob" yn llawn ystyr y gair yn holl gylch y Cyfarfod Misol mewn dylanwad ac urddas hyd y diwedd. Fel y dywedwyd o'r blaen, efe ei hunan ydoedd y caletaf a'r creulonaf wrtho ei hun o bawb, a chwid ef yn disgyblu ei hun trwy ostyngeiddrwydd a gwyleidd-dra, tra y mynai ei frodyr ei anrhydeddu fel eu harweinydd a'u cynghorwr diogel a rhagorol.

Ni a ddygwn hanes "y deugain mlynedd hyn" i derfyniad trwy osod i lawr "deimladau" yr "hen weinidog" yn yr adeg hon. Fel hyn yr ysgrifena:—"Dywedodd Mr. Elias wrthyf unwaith mewn ymddiddan personol, y gwyddai efe yn dda beth oedd teimladau pregethwr ieuanc, a beth hefyd oedd teimladau hen bregethwr. Yr wyf finau, bellach, yn gwybod am y naill a'r llall. Peth atgas i deimlad hen bregethwr ydyw cael ei fwrw o'r neilldu. Croes

ydyw, ond croes i'w chodi a'i dwyn ganddo yn ddiddig a distaw. Ein lle ni sydd wedi heneiddio ydyw diolch i Dduw, a chymeryd cysur wrth weled brodyr ieuainc llawn o yspryd gweithio yn ymaflyd yn eu gwaith. Ac eto ni ddaw henaint ei hunan. Un o wendidau henaint, yn ddiamheu, ydyw ofn cael ei adael o'r neilldu, ac hefyd ofn bod ar y ffordd. Y mae genyf bob achos diolch i'm Duw, ac hefyd i'r brodyr am fy ngalw i bregethu i holl gapelau Arfon, heb neb yn fy esgeuluso. Y maent yn gwneyd hyny, mi gredaf, nid am nas gallant gael fy ngwell o lawer, ond galwant arnaf o barch i mi fel hen weinidog. Y mae hyn yn fwy o rywbeth i deimladau hen bregethwr nac y mae llawer yn ei feddwl. Ac O! na byddai fy yspryd yn y gwasanaeth yn llawer mwy ïraidd a gostyngedig. Dyma yr agwedd y dymunwn dreulio prydnawnddydd fy oes ynddi er gogoniant i Dduw, anrhydedd i'r efengyl, a chymeradwyaeth i grefydd, fel colofn coffadwriaeth gras Duw yn ymgeleddu pechadur, ei sancteiddio, a'i ogoneddu yn y diwedd."

## PENNOD VII.

### Y "PREGETHU" A'I HELYNTION.

*Prawf ei anfoniad—Gwneyd pregeth—Darllen a gwneyd pregeth—Gwneyd pregeth yn y Siop—Helynt y pregethau—Pregethu yr un pregethau—Tri graddau pregethwr—Pregethwr yn cadw Siop—Dydd Llun pregethwr—Teimladau y pregethwr—Trefn a rhyddid—Barn a theimlad—Pregethwr cyfiawnder.*

Yr ydym yn y pennodau blaenorol wedi cael profion amlwg o'r pryder dwfn a gwirioneddol a deimlai yn nglŷn âg effeithiolrwydd ei bregethiad o'r efengyl, ac o'i ymdeimlad byw a llawn o'i ddiffygion ei hunan yn y gwaith. I ni fe ymddengys y pryder a'r ymdeimlad yma yn gyfryw ag y gellir ei ystyried yn brawf diamheuol mai gŵr ydoedd "wedi ei anfon oddiwrth Dduw," a chenadwri y cymod wedi ei hymddiried iddo i'w thraddodi i ddynion. "Efe," yn yr ystyr yma, "oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo."

Yn mysg ei bapyrau, ceir amryw ysgrifau ar bregethu a phregethau. Y maent ar un olwg yn ymdrin â'r mater mewn gwedd rhy gyffredinol i'w corphori yn ei fywgraphiad, ac ar olwg arall, wrth eu darllen yn fanwl, fe welir mai efe ei hun sydd fel is-rêdlif *(under current)* yn rhoddi bywyd a ffurf i'r cwbl. Ar yr ystyriaeth hon y barnwn yn briodol eu casglu yn nghyd i fod yn bennod o

hanes ei fywyd yn nglŷn â'r "pregethu" a'i helyntion, gan eu bod yn rhoddi i ni ei syniad a'i deimlad ef am dano ei hun yn nglŷn â gweinidogaeth y Gair.

## GWNEYD PREGETH.

"Y mae pob pregethwr teilwng o'r enw yn gwybod yn dda pa beth ydyw 'poeni yn y Gair a'r athrawiaeth,' ac felly yn deall rhywbeth am y llafur a'r helbul o wneyd pregeth. Nid ydyw pregeth mwy na rhywbeth arall i'w chael heb ei gwneyd. Oni bydd y bregeth yn werth rhyw gymaint o drafferth i'w gwneyd gan y pregethwr, odid fawr y bydd yn werth ei gwrandaw gan y gwrandawyr. Sarhad ar gynulleidfa ydyw i ddyn ruthro i'r pwlpud i draethu rhywbeth dan yr enw pregeth, na chostiodd iddo ef ddim llafur blaenorol. Y mae yr helbul o wneyd pregeth yn beth na ŵyr neb am dano ond a'i profodd. Yr hen syniad a fu, ac sydd eto gan lawer ydyw, nad oes eisieu i'r pregethwr ond agor ei enau, na ddaw y bregeth allan fel pistyll; bod llafur y pregethwr yn gynwysedig mewn myned i'r lle, esgyn i'r pwlpud, darllen testyn, dyweyd y peth cyntaf a ddaw i'w feddwl, a thewi pan ddealla y bydd y gynulleidfa yn dechreu blino. Tybiwyd hyd yn ddiweddar iawn hefyd mewn llawer lle mai yn ol hynyna o lafur yr oedd eisieu cydnabod y pregethwr mewn ffordd o dâl arianol. Y mae y byd yn gwella yn hyn fel yn mhobpeth.

"Cyn y gellir gwneyd pregeth, rhaid cael testyn. Bydd y pregethwr weithiau mewn cryn benbleth gyda'r testyn. Gŵyr yn dda pa beth ar adegau ydyw methu taro ar destyn. Er cael yn ei law y Beibl, llyfr y testynau, a hwnw yn llawn o destynau o bob math, ac at bob achos, ac yn cynwys corph o wirioneddau Dwyfol, y mae y pregethwr yn methu yn lân a chael testyn. Mae y cwbl fel dan rhyw glô poenus, ac yntau wedi colli yr agoriad. Y mae adeg felly ar y meddwl yn galw am weddi ddyfal. Rhaid cael pregeth, nis gellir ei chael heb destyn, ac y mae y testyn hyd yma yn anweledig. Mor hynod anhwylus y mae yn teimlo!

"Y mae yn digwydd weithiau fod rhyw syniad o'r gwirionedd sanctaidd yn nofio yn ei fyfyrdodau, ac eto nis gall yn ei fyw gael adnod na darn o adnod a wna destyn priodol i'r fath syniad. Mae y *llafn* ganddo, ond metha daraw ar yr ymadroddion cymhwys i wneyd *carn* ohonynt. Sylwa John Foster yn nechreu un o'i bregethau ei 'fod wedi cymeryd y geiriau hyn yn destyn, nid am eu bod mor briodol i'r mater a drinir, ond am eu bod y rhai goreu y gallaf daraw arnynt at y pwrpas.' Dichon mai doeth fyddai i'r pregethwr gadw mater felly yn ei feddwl nes y cyferfydd â thestyn priodol. Ni ddylai fod un amheuaeth genym nad oes

testyn priodol i bob ffurf ar y gwirionedd ond i ni fod yn ddigon cyfarwydd yn y Beibl i'w gael allan. Ieuad anghydmarus ydyw uno testyn a phregeth anghydweddol â'u gilydd. Wrth wrandaw pregeth felly, dywedai Mr. Richards, Tregaron, unwaith, 'Ffarwel destyn anwyl.' Peth sydd yn gwanhau ac yn hacru pregeth yn fawr ydyw ei bod yn ymadael â'i thestyn y cynyg cyntaf. O'r ochr arall, yr hyn a rydd nerth a phrydferthwch i bregeth ydyw ei bod yn gwreiddio yn, a thyfu allan yn naturiol o'r testyn, gan sugno iddi ei hunan ei yspryd a'i fywyd.

"Ar ol dyfod o hyd i destyn, a chael gafael ar ei fater, nid ydyw helbul y gwneyd ond dechreu. Rhaid cael cynllun. Y mae cael cynllun da yn fwy na haner y gwaith. Y mae cynllun da yn prydferthu y bregeth, yn hwyluso y traddodi, ac yn gymhorth i gyrhaedd yr amcan gyda'r gwrandawyr. Dylid ystyried fod pregeth yn beth i'w chofio gan y rhai a'i gwrandawant, yn gystal a chan yr hwn sydd yn ei thraddodi. Y mae i'w chofio yn gystal ag y mae i'w deall a'i hystyried ganddynt. Ceir ambell i bregeth yn anialwch o beth, didrefn a dilun, ei holl ranau, os bydd rhanau yn perthyn iddi, yn rhedeg i'w gilydd, fel nas gall yr un gwrandawr wneyd dim ohoni ond gadael iddi basio. Bydd aml i bregeth wir dda o ran mater, meddyliau a thraddodiad yn gorfod myned heibio felly. Yr oedd y gwrandawyr yn cael eu swyno ar y pryd, ond y cwbl yn diflanu yn ebrwydd gyda'r 'Amen.' Os bydd a fyno rhai o'r gwrandawyr a galw i gôf rywbeth a glybuwyd, bydd hyny yn anhawdd, am nad oedd y bregeth yn rhoddi mantais i'r côf i gael gafael ar ddim, oddieithr ei fod yn ddigon galluog i gymeryd yr holl bregeth i mewn yn un goflaid. Dywedai 'Yr hen Brophwyd' Morris Jones, Jerusalem, unwaith ar ol gwrando pregeth o'r fath, 'Yr oedd yn myn'd yn ddychrynllyd, fel yr *Express*, ond yn myn'd o'r golwg.' Eto, rhaid cofio y dichon pregethau felly adael argraff dda ar y gwrandawyr. Yr un pryd, da fyddai i'r pregethwr ystyried fod gan ei wrandawyr gôf yn gystal a galluoedd eraill. Tuagat gael pregeth dda, rhaid cael cynllun.

"Y mae rhai pregethwyr yn llawer mwy ffodus gyda chael cynllun nag eraill. Maent yn llwyddo i gael y testyn, y mater a'r cynllun oll ar unwaith, fel nad oes eisiau ond myned at y *gwneyd*. Y canlyniad ydyw fod y bregeth yn barod ar unwaith, ac y mae ei hawdwr yn foddlawn arni yn ei ffurfiad cyntaf. Nid ydynt yn meddwl unwaith y gellir gwella arni, a dyna fel y rhaid iddi fod. Dedwydd o ddynion ydyw y rhai hyn. Y mae eraill yn fwy anffodus; canys er cael testyn a mater, maent yn methu a boddloni eu hunain ar gynllun. Ar ol cymeryd y cynllun oedd yn ymddangos ar y pryd y goreu, änt yn mlaen i weithio ar hwnw, a

gweithiant ef i'r pen, efallai, ac yna syrthiant allan â'r cynllun, a rhaid dadgymalu y bregeth druan, a myned ati i ail gynllunio. Digwydda yn fynych na bydd yr ail yn fwy llwyddiannus na'r cyntaf. Mawr yw helbul y pregethwr gyda'i bregeth. Nis gall ei gwneyd na'i gadael heibio. Y mae yn cynyg arni drachefn, ac yn methu wed'yn. Ond wrth hir gynyg a methu, y mae yn llwyddo. Llwydda i gael cynllun, a llwydda i'w weithio allan, a theimla iddo gael tâl da am ei lafur. Y mae pregeth a gostia y fath lafur a hyn yn debygol o gael gafael gryfach ar deimlad y pregethwr, ac o barhad hwy na rhywbeth gyrhaeddodd berffeithrwydd mewn un-dydd un-nos. Mae y bregeth fyr-lafur yn gyffredin yn fyr-hoedlog.

"Ceir fod cymaint o amrywiaeth gan bregethwyr yn eu dull o gyfansoddi pregethau bron ag sydd o bregethwyr. Gwna pawb yn eu ffordd eu hun. Ac eto gellir gwneyd dosbarthiad ohonynt. Nid ydyw yr hwn a gyfansodda bregeth i'w thraddodi ond unwaith, yn debyg o gymeryd cymaint o boen gyda hi a'r hwn sydd yn parotoi pregeth i'w thraddodi lawer gwaith. Bydd y cyntaf, o angenrheidrwydd, yn fwy bâs ac arwynebol, tra y bydd yr olaf yn cymeryd gafael gryfach a dyfnach yn ei fater. Y mae i'r ddau eu peryglon. Perygl y blaenaf ydyw peri i'w wrandawyr edrych yn rhy gyffredin ar y gwirionedd, a pherygl y diweddaf ydyw, os yn ddyn llafurus ac o feddwl galluog, gwneyd pregeth rhy fawr ac uchel i gael ei hamgyffred gan gorph y gwrandawyr. Y mae yn bosibl i bregeth fod yn rhy fawr yn gystal ag yn rhy fechan, yn rhy ddwfn yn gystal a rhy arwynebol. Dyn meddylgar a digonedd o amser at ei alwad, oni bydd i Yspryd Duw drin ei yspryd ef, a gyfansodda y fath bregeth alluog fel nas gall ond ychydig o'r rhai mwyaf galluog o'i wrandawyr wneyd dim ohoni. Rhydd y cyfryw fwy o waith i chwilfrydedd nag i galonau ei wrandawyr. 'Dyna bregeth dda a galluog,' meddai y lluaws wrth adael yr addoldŷ; ond atolwg, da i ba beth? Mae cynulleidfaoedd Cymru yn cael eu blino yn ormodol gan y dosbarth hwn o bregethau, nad oes ond ychydig yn eu deall, na neb yn gwybod i ba beth y maent yn dda a buddiol.

"Bydd rhai pregethwyr yn llwyddo i wneyd pregethau da yn eu myfyrdod eu hunain. Y mae ganddynt y fath feistrolaeth ar eu meddyliau eu hunain fel y medrant gynllunio, llenwi i fyny, a gorphen y bregeth cyn unwaith roddi pin ar bapyr gyda hi. Gallant alw eu meddwl at ei waith a'i gadw gyda'i waith, pa le bynag y byddant. Gwŷr dedwydd ydyw y rhai hyn. Gwyddis am rai pregethwyr yn cyfansoddi eu pregethau (os cyfansoddi ydyw hefyd) rhywbeth yn debyg fel y bydd plant yn y gauaf yn gwneyd 'caseg

eira ;' dechreuant gydag un sylw a throant hwnw gan ychwanegu ato hyd nes y daw yn bregeth, a phregeth deilwng o'r enw erbyn y diwedd. Bydd eraill yn defnyddio y pin a'r papyr mor belled ag y bydd yn angenrheidiol i dynu allan y brâs-linelliad, gan lenwi y gwagleoedd yn y traddodiad allan o'u myfyrdodau eu hunain. Cynllun da ydyw hwn i'r neb a all ei weithio allan, a'i ymarfer yn deilwng. Ond un peryglus iawn ydyw i'r diog a'r dilafur. Bydd eraill yn gorfod ysgrifenu yr oll o'u pregethau. Y mae rhai wedi myned mor gaeth i'r drefn hon fel nas gallant gael un math o reol ar eu myfyrdodau oni bydd y pin yn eu llaw, a'r papyr o'u blaen. Mae y drefn hon yn un hynod o flinderus a cholledus, dyn wedi myned yn gaeth i'w bapyr. Nis gall feddwl i ddim trefn nac amcan oni bydd ei bapyr o'i flaen yn barod i'w dderbyn. Wedi gosod y meddwl ar y papyr, rhaid iddo drachefn fyned i'r helbul o wneyd y meddwl hwnw yn eiddo iddo ei hun. Druan o'r pregethwr! Y mae ganddo bregeth dda, yr hon sydd wedi costio llafur dybryd iddo, ond y mae wedi ei llyffetheirio yn nghaethiwed y papyr. Ei feddwl ef ydyw y mae yn wir, ond meddwl mewn caethiwed. Y fath helbul fydd ceisio traddodi pregeth gaeth, ac mor anystwyth! Y mae dyn, wrth geisio traddodi ei bregeth ei hun, fel pe byddai yn pregethu pregeth rhywun arall. Y mae y pregethwr sydd a'i feddwl yn rhydd yn agored i dderbyn llawer ar hyd y ffordd. Gall sylw newydd hollol ddyfod i'r meddwl rhydd, a hwnw yn llawer cryfach a phoethach na dim oedd ganddo o'r blaen, mor boeth fel ag i roddi enaid y pregethwr ar dân, a thrwy hyny beri tân yn nghalonau y gwrandawyr, a dyna gynulleidfa ar dân. Dyma y *rhywbeth* bendigedig y bu hen gapelau Cymru yn dystion ohono filoedd o weithiau. Ond y peth agosaf i wyrth ydyw i'r bregeth gaeth wneyd peth fel hyn. Nis maidd y pregethwr edrych ar ddê nac ar aswy, rhag colli *track* y papyr. Rhaid dilyn hwnw, bant a bryn, a gwylio rhag colli y *rail*, onide dyna y cwbl yn ofer. Er ceisio cael ymwared o flinder y caethiwed caled hwn y syrthiodd rhai dynion da i'r arferiad o ddarllen eu pregethau. Ond a ydyw *darllen* pregeth yn deilwng o'i alw yn *bregethu?*

"Wedi y cyfan, teg ydyw i bob pregethwr gael ei ffordd ei hun gyda chynllunio a chyfansoddi ei bregeth. Pawb yn ol ei ddawn a'i allu ei hun. Ac eto y mae eithafion y byddai yn dda eu gochelyd. Y mae meddu dawn rhwydd a meddwl parod yn achlysur weithiau i bregethwr ymddiried gormod yn hyny, a gadael heibio lafurio. O'r ochr arall, mae afrwyddineb ymadrodd a diffyg hyder dyn ynddo ei hun, yn achlysur i eraill syrthio yn ormodol i gaethiwed y papyr, ac felly beri i'w dawn sydd wrth natur yn afrwydd, ddyfod yn fwy afrwydd, a'u hymadrodd yn fwy tafod-

drwm. Y mae dawn a phobpeth yn rhwyddhau wrth eu harfer. Gwneler fel y gwneler gyda'r bregeth, ond gofaler beth bynag am gadw y meddwl gydag amcan mawr ac uchel gweinidogaeth y Gair; dyma ydyw hyny, 'Rhybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn yn mhob doethineb, fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu.'"

## DARLLEN A GWNEYD PREGETH.

"Darllenwr sâl a fu'm ar hyd fy oes, hyny ydyw, ar Dduwinyddiaeth. Yr ydwyf yn gampus am y papyr newydd, a rhaid i mi ochelyd y *novels*, onide bydd i'r cyfryw ddarlleniad fy swyno a'm hudo yn hollol. Cefais brawf o hyny yn ddiweddar trwy ddarllen un o nofelau Syr Walter Scott. Ond am ddarllen Duwinyddiaeth bu'm yn anesgusodol feius. Gwneyd fy mhregethau bob amser o'm meddwl fy hunan y byddaf, a'r meddwl hwnw heb gael ei faethu, ei nerthu, a'i fywiogi gan feddyliau dynion eraill, nes fy myned o'r diwedd heb feddwl gwerth ei alw felly. Rhaid i mi naill ai darllen mwy neu golli y pregethu yn hollol.

"Y mae darllen meddyliau eraill i'r pregethwr yr un peth a'r tân i'r cogydd. Diflas ydyw bwyd oer. Rhaid cael tân cyn cael blasusfwyd. Nis gellir gwneyd pregeth heb dân. Nis gellir cael tân heb danwydd priodol, a'r tanwydd hwnw ydyw darllen meddyliau dynion mawr. Mor boenus ydyw ceisio gwneyd pregeth â meddwl oer! Yn wir, nis gellir; rhaid i'r meddwl gael ei danio gan rywbeth cyn y gall goginio pregeth. Y mae darllen hefyd yn foddion i wresogi y galon. Cynghor Apostolaidd ydyw hwnw, 'Glŷn wrth ddarllen.' Naturiol ydyw disgwyl y bydd rhyw gymaint o arogl y tân ar y bwyd. Gellir casglu oddiwrth arogledd y bregeth pa beth y mae pregethwr wedi bod yn ei ddarllen, ac ar ba beth y mae ei feddwl yn byw."

## GWNEYD PREGETH YN Y SIOP.

"Gwneyd pregeth! Mae rhai brodyr mor hapus arnynt fel y gallant bregethu, a hyny yn dda, heb y *gwneyd*, *h.y.*, heb roddi pin ar bapyr. Mae y gwneyd oll yn eu myfyrdod. Y mae y feistrolaeth yma ar y meddwl yn wir ddedwydd. Ond aethum i yn rhy hen, a'r arfer o ysgrifenu yn beth rhy ddwfn, i allu ymgymeryd â'r dull hwn. Dichon hefyd fy mod yn rhy brin mewn hyawdledd naturiol a gwroldeb meddwl i anturio rhoddi cyfarchiad rhydd. Yn wir ni bu dim o'r hyawdl ynof erioed. Y mae siarad yn gyhoeddus yn beth hollol annaturiol i mi. Felly, erbyn hyn, rhaid i mi naill ai ysgrifenu y bregeth, goreu y gallaf, neu beidio pregethu o gwbl. Nis gallaf bregethu bellach heb ryw lûn o

bregeth. A'r hyn sydd yn waeth fyth ydyw, nis gallaf bregethu y bregeth *y tybiwyf y gallaf ei gwneyd yn well.* Onid yw yn òd na buaswn yn llawer gwell pregethwr? Ond gwneyd pregeth yn y siop sydd dan sylw. Y mae gorfodaeth felly arnaf yr haf hwn (1862). Beth feddyliai fy mrodyr parchedig o beth fel hyn? Bydd llawer yn teimlo yn ddigon o orchest i lunio pregeth yn y *study.* Ond beth am wneyd pregeth yn y siop? Rhaid ei llunio, nid bob yn ben, na phob yn frawddeg, ond yn fynych bob yn air, ïe, bob yn sill! Pwy gred hyn? Nid ydyw ei gredu na'i anghredu o bwys yn y byd i neb. A da hyny. Pan ar fedr ysgrifenu rhyw sylw, dyma rhywun i mewn ac yn galw am neges. Rhaid codi ato. Dyna hyny drosodd./ At y bregeth ynte. Dyna ryw un gair i lawr a darn o un arall, a dyma gwsmer i mewn ar frys gwyllt yn gofyn am owns o dybacco, 'a brysiwch,' meddai. Dyna hwnw yn troi ymaith, a minau yn ol at y bregeth. Cyn cael yr ail air ond prin i lawr, dyma alwad frysiog gan rywun eto. Rhaid ufuddhau.

"Dyma esiampl:—Yr wythnosau hyn, ysgrifenais bregeth ar ran o adnod olaf y Salm Fawr, 'CAIS DY WAS.' Ein mater ydyw [neges os gwelwch yn dda] adfeiliad [haner owns o ———] ac adferiad [pwys o siwgr, &c.] Mae y Cristion yn [ceiniogwerth o sparblis] agored i ad- [rho'wch i mi gant o hoelion mewn munyd] feilio yn ei [dowch, y mae arnaf frys am neges] grefydd. Mae gwir grefydd yn ag- [sut 'rydach ch'i yn gwerthu'r sebon?] ored i waethygu [wel, sut yr ydach ch'i, yn tydi hi yn dywydd gwlyb iawn, &c., &c.], cariad yn agored i oeri [gâ i ddwylath o bapyr fel gafodd modryb Màl], ffydd yn agored i [pa faint sydd arnai i ch'i?] wanhau, y tueddfryd sanctaidd yn agored i nychu [Nhad, faint ydi pris hwn?], a'r yspryd mwyaf disglaer yn agored i rydu [dowch i nol cinio, Robert Ellis]. Ond ni bydd lawn can waethed a hyn bob amser. Ceir weithiau chwarter awr a haner awr, heb i neb aflonyddu. Nid ydyw dwndwr a siarad y siop yn gymaint o ddyryswch i mi, ond i mi fy hun gael llonydd. Nid bob adeg ychwaith y bydd yr yspryd gwneyd pregeth mor boeth ag i beri i ddyn hèl yr amser mor llwyr a hyn. O! na, pe buasai yr holl amser yn cael ei ddefnyddio mor fanwl a hyn, buaswn yn rhywbeth llawer amgen nac ydwyf. Ond rhaid curo yr haiarn tra bydd yn boeth. Yn y siop yr ysgrifenais y llinellau hyn, ac yr wyf yn sicr i mi gael fy aflonyddu tra y bu'm yn eu hysgrifenu fwy na dwsin o weithiau. Ac y mae dau yn barod yn disgwyl am y gair olaf. Amen."

## HELYNT Y PREGETHAU.

"Dechreuais bregethu yn Ngwanwyn y flwyddyn 1834. Byddwn er's blynyddoedd yn arfer cymeryd rhyw adnod i fyfyrio arni pan

wrthyf fy hun. O'r diwedd dechreuais ysgrifenu rhyw fath o bregethau ar amryw destynau. Yr oedd genyf chwech wedi eu hysgrifenu cyn dechreu pregethu, sef—1. Pob duwiol a weddïa. 2. Aileni. 3. Y Mab Afradlawn. 4. Gochel y digofaint. 5. Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd. 6. Ni'th wared iawn mawr. Ni bu erioed y fath ryfyg, troi allan i'r byd yn bregethwr, heb ond rhyw chwech o bregethau! Erthylodd pedair o'r chwech y cynyg cyntaf. Yr oeddynt oll yn bethau hynod ddilun. Er fy mod uwchlaw pump ar hugain mlwydd oed, nid oeddwn amgen na llawer bachgen pymtheg oed yn bresenol."

Yn y fan hon adrodda hanes ei waith yn dechreu pregethu a'i dderbyniad i'r Cyfarfod Misol, yr hyn sydd wedi cael manylu arno o'r blaen * :—"Ar ol cael fy nghydnabod yn bregethwr, o hyn allan mawr fu fy helbul, ac nid y lleiaf o'r helbulon fu helbul y pregethau. Un camgymeriad mawr y syrthiais iddo ar y dechreu oedd, amcanu gwneyd llawer o bregethau, yn hytrach na gwneyd ychydig yn dda a gorphenedig, ceisio gwneyd rhyw hylldod, a'r rhai hyny oll yn bethau hynod o ddilun a diddim. Ac felly syrthiais ar y cychwyn i ddull anghoethedig o gyfansoddi a thraddodi.

"Mi a bregethais y blynyddoedd cyntaf ar luaws mawr o wahanol destynau. Felly yr wyf yn parhau i wneyd. Pregethais ar lawer o destynau ond unwaith, ac ar eraill ddwy a thair gwaith. Ond byddwn yn syrthio yn *ffrynd* âg ambell i bregeth, ac yn pregethu yr ychydig hyny ddegau, ïe, rai ohonynt, ugeiniau o weithiau, eu pregethu yn mhob man. Un o lawer a fyddai y bregeth hòno, pregeth a *myn'd* ynddi, pregeth hwylus, a rhyw eneiniad arni. Ar ol cael gafael ar bregeth fel yna, anhawdd iawn fyddai *maddeu iddi* a'i throi o'r neilldu. Yn lle hyny, ei gyru tra yr elai a wneid. Ar ol cael pregeth afaelgar, fuddiol, a rhyw eneiniad arni, mae yn ddyledswydd ei phregethu (os deil) trwy gylch y cyhoeddiadau. Yn wir anhawdd iawn fydd ei rhoddi heibio. Er i mi gyfansoddi llawer iawn o bregethau, a phregethu ar gannoedd o wahanol destynau, ychydig o bregethau o'r fath a nodwyd a gefais yn fy oes.

"1. Aileni. '*Oddieithr geni dyn drachefn.*'—Yr oedd hon yn un o'r pregethau mwyaf gafaelgar a fu genyf o gwbl. Yr oedd hefyd yn un o'r rhai cyntaf.

"2. Ffydd. '*Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.*'—Bu yr eneiniad yn amlwg ar hon.

"3. Neshad at Dduw. '*Minau, nesâu at Dduw sydd dda i mi.*' —Cychwynodd yn wych ond darfu yn ebrwydd.

---

* Gwel tudalenau 28 i 32.

"4. Gweniaeth. '*Ymwenieithio y mae efe iddo ei hun.*'—Daeth amryw at grefydd gyda hon.

"5. Bywhad y gwaith. '*O Arglwydd, bywha dy waith yn nghanol y blynyddoedd.*'—Gormod o geisio dynwared Elias fu gyda hon.

"6. Rhybuddio y drygionus. '*Oni rybuddi ef, ac oni leferi i rybuddio y drygionus.*'—Gafael yn erwin y byddai hon tra y parhaodd.

"7. Dydd y pethau bychain. '*Pwy a ddiystyrodd ddydd y pethau bychain.*'—Y fwyaf llwyddiannus o'r cwbl o lawer.

"8. Yspryd Crist. '*Od oes neb heb yspryd Crist ganddo.*'—Un o'r rhai goreu.

"9. Sancteiddhad. '*Sancteiddia hwynt yn dy wirionedd.*'—Rhedodd yn dda a pharhaodd yn hir.

"10. Crefydd yn ieuanc. '*Da yw i wr ddwyn yr iau,*' &c.—Er i'r bregeth hon fod dan ryw gymaint o arddeliad, eto erthylodd yn fuan.

"11. Rhoddi i fyny. '*Pa fodd y'th roddaf ymaith, Ephraim?*'—Pregeth gynhyrfus fu hon, a dygodd ffrwyth.

"12. Ymadael ag anghyfiawnder. '*Pob un sydd yn enwi enw Crist, ymadawed oddiwrth anghyfiawnder.*'—Trowyd hon heibio yn rhy fuan. Dichon y bydd yn dda i mi wrthi eto.

"13. Gweddio. '*Gweddïwch yn ddibaid.*'—O'r braidd y bu hon yn werth ei gosod ar y rhestr. Yr oedd cicaion Jonah yn arwyddlun ohoni.

"14. Arfer Duwioldeb gartref.—'*Dysgant yn gyntaf arfer duwioldeb gartref.*'—Un o'r pregethau mwyaf ymarferol o'r cwbl. Cafodd lawer gafael gref. Diau y bu o les mawr. Gwyn fyd na allwn wneyd un gyffelyb iddi eto.

"15. Diwallu a thrugaredd. '*Diwalla ni yn foreu â'th drugaredd.*'—Rhedodd yn dda, ond gyrwyd hi allan o wynt yn bur fuan. Mwy o *ffroth* na dim arall.

"16. Nathanael. '*Ti a gei weled pethau mwy na'r rhai hyn.*'—Pregethais lawer iawn ar y testyn hwn, a diamheu y bu yn foddion i gyffroi meddyliau llawer o bechaduriaid. Yr amcan ydoedd dwyn dynion i ystyried mai trwy dalu sylw priodol i bethau bychain y mae cyrhaeddyd pethau mwy.

"17. Credu yn Nghrist. Ioan iii. 36, a v. 24.—Pregeth blaen, yn amcanu dangos pa beth ydyw credu yn Nghrist, *h.y.*, pa fodd y gall dyn ddeall hyn arno ei hun. Yr wyf yn credu i lawer o'r saint gael diddanwch trwy y bregeth hon.

"Duwioldeb yn elw. '*Ond elw mawr yw duwioldeb gyda boddlonrwydd.*'—Pregeth fechan syml iawn. Bu yr eneiniad gyda

hi, ond bu llawer gormod o *rygnu* arni. Yr wyf yn ofni ddarfod i mi wneyd gormod o *elw* ohoni.

"19. TROEDIGAETH. '*Oddieithr eich troi chwi, a'ch gwneuthur fel plant bychain.*'—Methiant fu hon eto, ond nid wyf wedi rhoddi y testyn i fyny.

"20. SICRWYDD CREDU. '*Mi a wn i bwy y credais.*'—Pregeth ddysyml, eto yr oedd bendith ynddi.

"21. ENWAEDIAD. '*Yr enwaediad ydym ni.*'—Cref a gafaelgar iawn.

"22. Y GAIR I REDEG. '*Gweddïwch drosom ni, ar fod i air yr Arglwydd redeg, a chael gogonedd.*'—Bu gafael yn hon, ond byr fu ei gwynt.

"23. CELWYDD. '*Gan fwrw ymaith gelwydd.*'—Pregeth ymarferol yn erbyn dyweyd celwydd.

"24. OBADIAH. '*Obadiah oedd yn ofni yr Arglwydd yn fawr,*' a '*Y mae dy was di yn ofni yr Arglwydd o'm mebyd.*'—Nid mor dda y mae hon yn troi allan eto, ond yr wyf yn methu ei throi heibio (y flwyddyn 1858).

"Y mae y rhestr hon yn gwneyd i fyny ryw ychydig o'm pregethau, sef y rhai hyny y bu rhyw eneiniad arnynt. Y pregethau hyn ac eraill cyffelyb iddynt ydyw y rhai y bydd fy meddwl yn cymeryd gafael gref ynddynt. Nid hawdd fydd medru taflu rhai felly heibio. Un peth ydyw gwneyd pregeth i'w thraddodi am unwaith i gynulleidfa, ond peth arall ydyw gwneyd un i gerdded trwy ddeg ar hugain o gynulleidfaoedd. Mae darparu pregethau newyddion bob wythnos i gynulleidfaoedd newyddion erbyn bob Sabboth yn beth anmhosibl i'r un dyn. Os bydd un wedi cael pregeth rymus, sylwadau gafaelgar ar ryw destyn ac argoelion fod yr Arglwydd yn bendithio, y mae pregethu ar y testyn hwnw drachefn i gynulleidfaoedd eraill yn demtasiwn rhy gref i gnawd ei gwrthsefyll. Yn wir byddai peidio yn beth pechadurus. Digon têg ydyw parhau i'w phregethu tra y parhâ i lewyrchu, a thra y ceir cynulleidfaoedd gwahanol i'w gwrando. Ond y mae parhau i *rygnu* ar destyn felly ar ol i'r bregeth wisgo ei bywiogrwydd allan yn beth annheilwng i'r eithaf. Rhaid fod rhywbeth pur neillduol i gyfiawnhau pregethu yr un bregeth i'r un gynulleidfa fwy nag unwaith. *Trick* hollol *annheilwng* ydyw ceisio marchogaeth yr un bregeth ar wahanol destynau."

## PREGETHU YR UN PREGETHAU.

"A ydyw yn ddoeth pregethu yr un pregethau rhagor nag unwaith, ac os ydyw, pa mor fynych, sydd ymofyniad digon teilwng o sylw. Mae dosbarth neu ddau o bregethwyr, fe ddichon,

nad oes a fyno y cyfryw ymofyniad â hwy. Y dosbarth cyntaf ydyw y pregethwyr hyny sydd byth a hefyd yn pregethu i'r un gwrandawyr. Mae mantais ac anfantais i bob modd a threfn. Felly y mae i'r gweinidog hollol sefydlog. Bydd raid i'r cyfryw ofalu am *destyn* newydd bob tro, pa fodd bynag y bydd am y bregeth. / Y mae bod dan orfodaeth i barotoi dwy neu dair o bregethau bob wythnos am flynyddoedd olynol yn rhwym o naill ai peri iddo fyned yn arwynebol, a gwneyd ei gynulleidfa felly hefyd, neu ynte y lladd ei hun trwy or-lafur, oddieithr ei fod o alluoedd meddyliol a chorphorol cryfion anghyffredin. Dyna hen dyddynwr na fedd fwy o bleser mewn dim na chau clawdd ceryg. Nid gorchwyl hyfryd ganddo ydyw codi ceryg o'r ddaear neu eu cario o bell. Llawer hwylusach ganddo ydyw chwalu yr hen i wneyd y newydd. Gall fyned felly gyda phregethu sefydlog. Fe ymddengys i ddyn dibrofiad braidd yn boenus i bregethwr fod fel 'ceffyl-whimsi' yn troi, yn troi yn ddiddiwedd yn yr un man. Oni fyddai ychydig newid i ddyn felly yn iechyd i'w gorph ac i'w yspryd, ac o bosibl i'w gynulleidfa hefyd? A ydym i feddwl fod y Duw holl-gyfoethog sydd wedi darparu amrywiaeth diddiwedd ar gyfer meddwl ei greadur, yn cyfyngu arno ei hun yn unig yn nghyfoeth ei ras? Heblaw hyny, y mae yn wastraff ar ddyn a'i amser i barotoi pregeth wir dda a buddiol, a chael cyfle i'w phregethu ond unwaith am byth!

"Mae yr ail ddosbarth yn cyfeirio at bregethwyr nad ydynt yn sefydlog iawn, ac sydd o hyd yn pregethu yr un pregethau. Darfu i'r pregethwr yn ei flynyddoedd cyntaf lwyddo i lunio rhyw ychydig o bregethau, ac yr oedd yr ychydig hyny yn rhoddi pob boddlonrwydd iddo ef ei hun. Mae ganddo gylch ëang i droi ynddo. Yn raddol, mae ei feddwl yn dechreu marweiddio i ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth. Cynygia yn dêg am bregeth newydd yn awr ac eilwaith, ond rhy wanaidd ydyw yr ymroddiad, ac y mae yn methu. Gan hyny nid oes dim i'w wneyd ond gyru y march a gerddo. Fel y mae y gweinidog sefydlog yn rhwym o newid ei destynau, felly y mae y brawd dan sylw o dan angenrheidrwydd i newid ei wrandawyr, o leiaf bob Sabboth. Rhaid i'r naill a'r llall fod i fesur yn ddynion *llafurus*, y naill yn llafurio i *feddwl*, a'r llall yn llafurio i *deithio*. Ond er cadw rhyw fath o urddas ar ei gymeriad fel pregethwr, rhaid iddo yntau ymgymeryd â rhyw ychydig o lafur meddyliol, sef *carnio* hen bregethau ar destynau newyddion. Mae hyn bellach yn galw am ychydig gywreinrwydd. Nid ydyw medru asio hen bregeth wrth destyn newydd bob amser yn beth hawdd. Eto y mae yn llawer iawn llai o drafferth na gorfod gwneyd y cwbl yn newydd. Fe ymddengys

yn bur glir pan elo dyn yn rhy ddiog i wneyd pregethau newyddion, mai gweddus ydyw iddo hefyd roddi y pregethu heibio yn hollol. Pan y mae meddwl dyn yn marw i lafur yn y gwirionedd, y mae *yspryd* y weinidogaeth hefyd yn rhwym o golli yn y dyn hwnw. Mae y naill a'r llall yn cyd-fyw ac yn cyd-farw hefyd.

"Ond at y gofyniad, A ydyw yn weddus pregethu yr un bregeth rhagor nag unwaith, ac os ydyw, pa mor aml? Cymerir yn ganiataol fod gan y pregethwr gylch i droi ynddo, er ei fod mewn rhai manau yn amlach na manau eraill, eto y mae y cylch yn ëang. Mae efe trwy lafur wedi gwneyd pregeth newydd (nid ydyw pregeth mwy na rhywbeth arall i'w chael heb ei gwneyd, oddieithr ei lladrata), ac y mae yn teimlo fod y gwirionedd sydd ganddo i'w draethu yn gyfryw y dylai ei wrandawyr wneyd sylw ohono. Ymddengys gan hyny yn eithaf rhesymol i bregeth felly gael ei phregethu tra y parhao ei chenadwri yn fyw yn nheimlad y pregethwr. Yn y cyffredin, y mae y bregeth sydd wedi costio yn ddrud i'r pregethwr yn myned well-well. Mae ei gwirionedd yn ymaflyd gryfach, gryfach, yn enaid y pregethwr, a'r un modd yn nheimlad y gwrandawyr. Tra y pery, fe bery y newydd-deb, ac fe fydd i'r bywyd aros. Cyhyd ag y parha felly, y mae yn rhesymol, ïe, yn ofynol ei phregethu mor aml ag y ceir cyfleusdra i hyny. Yr un pryd rhaid gochel gwneyd hyn ond unwaith i'r un gynulleidfa. Pan y mae pregeth yn dyfod yn gyffredin yn nheimlad y pregethwr, y mae yn naturiol rywfodd yn dyfod felly hefyd i feddwl y gwrandawyr. Goreu po gyntaf bellach i'w throi heibio. Arferai John Jones, Edeyrn, ddyweyd y gellir yn briodol 'barhau i odro y fuwch laethog, ond mai diflas a chreulawn ydyw ceisio godro y fuwch hesp.'

"Yn y cyffredin, er nad bob amser, y mae pregeth yn parhau yn hir neu yn diflanu yn fuan, yn ol maint y llafur a gostiodd i'r pregethwr. Os gwna y bregeth fyr-fyfyr gymeryd yn dda am unwaith, y mae yr un mor ebrwydd yn diflanu i ffordd. Mewn noswaith y bu, ac mewn noswaith y darfu. Y mae ei hargraff ar feddwl y gwrandawyr yn y cyffredin yn darfod yr un mor fuan. Casgliad hollol naturiol ydyw, nas gellir disgwyl i'r hyn na bu ond dros ychydig yn myfyrdod y pregethwr, i aros yn hir yn nheimlad y gwrandawyr. O'r ochr arall, gwna y bregeth, yr hon y mae ei hamcan yn gywir at yr hyn sydd wir fuddiol, a'r hon sydd yn ffrwyth myfyrdod dwfn a gweddi, ac sydd wedi derbyn eneiniad yr Yspryd, fyw yn hir, a pheri llawer o ddaioni. Eto rhaid gofalu gyda hon am beidio ei gyru yn rhy chwyrn, a gofalu hefyd am iddi gael yfed o'r afon ar y ffordd. Bydd y rhai mwyaf meddylgar yn y gynulleidfa wrth wrando ambell i bregeth gan ambell i

bregethwr yn barod i ddywedyd, 'O frenin, bydd fyw byth.' Ni ddylai pregeth felly fod yn bregeth am dro, nac am flwyddyn, ond am oes. Gresyn oedd i'r bregeth dda odiaeth gael ei gweithio i farwolaeth yn moreu ei hoes. Yn ddiweddglo felly i'n sylwadau ar y rhan hon o'r mater, cofier gan hyny fod gan bobpeth yn y bywyd hwn derfynau i'w parchu ac eithafion i'w gochelyd."

## TRI GRADDAU PREGETHWR.

"Nid yn unig y mae graddau yn mhlith pregethwyr, ond y mae uwch ac îs ar yr un pregethwr. Gŵyr pob pregethwr o bosibl am hyn. Y diweddar Barch. Cadwaladr Williams, Môn, oedd yr unig eithriad gwybyddus i mi. Ni wyddai yr hen dad parchedig hwn am fod yn uwch nac yn îs, am na goleuni na thywyllwch, ond byddai efe yr un fath bob amser. Ond y mae y cyffredin o bregethwyr yn gwybod am hyn. Gwyddant yn brofiadol beth ydyw pregethu yn oleu ac yn dywyll, pa beth ydyw cael cymhorth a gorfod bod heb gymhorth. Dichon hefyd nas gall y pregethwr gael allan bob amser paham y mae yn oleu neu yn dywyll arno. Fel rheol gyffredin, os bydd yr yspryd yn ei le, yn ymdeimlo â difrifwch ei swydd ac â gwirionedd ei genadwri, y mae yn cael goleuni a nerth. Ond digwydda weithiau, er bod yn yr agwedd hon, ei fod yn cael ei adael. Bryd arall, er ymaflyd yn y gwaith mewn yspryd digon cyffredin, y mae yn teimlo nerth a rhwyddineb. Eto nid ydyw hyn yn cenhadu i ni ymaflyd yn y gorchwyl o bregethu y Gair yn ein hyspryd cyffredin ein hunain. Ond am y tri graddau a nodir uchod.

"Un ydyw pan y mae y pregethwr cystal âg ef ei hun. Nid ydyw yn fwy nac yn llai na'r hyn ydyw. Dyma i chwi gyfle i weled *y dyn ei hun.* Dyma ei faint, yn ei hyd, ei led, ei uchder a'i ddyfnder, ei ddawn ei hun a'i allu ei hun. Os oes talent ganddo, dyma yr adeg i'w gweled. Dyma efe y peth ydyw, a'r peth ydyw fel pregethwr.

"Y gradd nesaf ydyw pan y mae y pregethwr yn llai nag ydyw mewn gwirionedd. Pa beth sydd? Y mae rhywbeth y mater arno, nid efe ei hunan ydyw! Y mae y ddawn naturiol hwylus yn afrwydd. Mae rhywbeth yn *graclyd* ynddo. Mae yn colli ei hunan, yn colli ei feddyliau, ac yn colli ei dymher, y naill air yn dyfod yn lle y llall, a'r naill ben yn newid lle â'r llall. Mae yr adnodau a ddylasent fod yn y bregeth wedi ehedeg ymaith. Nid oes hanes am danynt. Dyma gip-olwg ar gynffon un, o'r braidd na chaed gafael arni, ond llithro ymaith fŷn. Ond y mae gan y pregethwr ryw sylwadau i fod cyn y diwedd. Bu y sylwadau hyny yn gwneyd galanastra droion o'r blaen. Y mae er ei holl

ddyryswch yn cadw ei galon i fyny, gan ymddiried yn y cewri hyn. Y mae yn prysuro yn mlaen, ond erbyn dyfod atynt, y maent druain yn meirw yn ei ddwylaw. Mae yr hyn a osodai brydferthwch arnynt ar goll, ac y maent yn gant gwrthunach nag hebddynt. Y mae y pregethwr yn teimlo hyny, ac y mae pobpeth yn myned *drib-drab*. Os ydyw y pregethwr yn un o dymher boethlyd, mae yn debyg o golli pob meddiant arno ei hun, mae yn curo ac yn ffusto, yn crug-leisio ac yn rhuthro i waeddi y peth cyntaf ddaw ato, boed gam, boed gymhwys. Wedi iddo golli y llywodraeth arno ei hun, nis gall gadw meddiant o'r gynulleidfa. Atolwg, pa fodd y mae pethau tua'r gynulleidfa bellach? Y tebyg ydyw fod yna luaws mor ddisylw a difarn nas gwyddant amgen nad yw pobpeth yn myned yn mlaen yn y modd goreu, oddieithr fod yr olwg ar wynebau anfoddog y prif ddynion tua chymydogaeth y pwlpud yn eu hargyhoeddi o beth arall. Mae y rhai mwyaf crefyddol yn gwyro pen, ac ambell un yn cau ei lygaid, ac ambell i hen chwaer yn ceisio sugno rhyw fendith fechan o rywbeth a ddywedir, ac yn cael ymwared o'r boen a deimla trwy ryw ochenaid brudd a throm-lwythog. Y mae y rhai sydd a mwy o grefydd yn y pen nag yn y galon yn edrych yn anfoddog ryfeddol, a cheir gweled hwn ac arall yn taflu golwg ar y *clock*. Bydd ambell un mwy hunanol nag eraill yn codi ar ei draed, ac yn troi ei gefn ar y pwlpud. Ceir y bydd eraill yn trin eu llyfrau er difyru eu hunain. Bydd rhan arall o'r gynulleidfa wedi cymeryd cwrs llawer esmwythach er cael ymwared o'r awr boenus, trwy ymollwng i gysgu. O'r diwedd, dyma y gair anwyl, hir-ddisgwyliedig wedi ei gael, yr *Amen*. O air melus! Y fath ymwared i'r pregethwr druan, ac i'r gynulleidfa siomedig! Dyna y gynulleidfa bawb yn troi i'w fan, yn ddigon iach eu calonau, a llawer ohonynt yn tybied y dylasent fod wedi cael llawer gwell pregeth. Ond y pregethwr druan! Y mae rhyfel boeth yn llenwi ei fynwes, balchder, cywilydd a hunan-ddirmyg, a llawer o deimladau gwahanol yn berwi trwy eu gilydd o'i fewn. Ceisia ymiachau goreu y gallo. Mae yn ceisio ffoi am loches i gysgod anystyriaeth. Dywedir y byddai y diweddar Barch. Richard Jones, o'r Wern, yn cerdded yn ol ac yn mlaen ar hyd yr ystafell, ac yn *chwibanu* pregeth dywyll o'i feddwl.

"Awn i'r tŷ capel, i edrych pa fodd y mae y pregethwr yn teimlo yno. Os daw rhyw rith cysgod o ddaioni o'r bibell a'r tybacco byth, yn awr y daw. Nid pawb fydd yn arfer a dyfod i'r tŷ capel sydd i'w cael yno yn bresenol. Mae y brodyr beirniadol wedi prysuro adref yn eu sorr. Ac am y rhai a ddaethant, rhyw dynu gwyneb hir a gwyro pen y maent; nid oes gair gan neb i'w ddyweyd, oddieithr son am y tywydd a rhyw helynt ddigon pell.

O'r diwedd, y mae rhyw hen frawd diniwed yn tori ar y distawrwydd, ac yn dywedyd, 'Yr wyf yn cofio clywed Mr. Hwn a Hwn yn pregethu yn rhagorol yn y fan ar fan ar eich testyn chwi heddyw.' Ond pa beth ydyw y pregethwr haws ar hyny? Mae yn ceisio cadw ei deimladau poenus iddo ei hun, ac ymddangos mor ddiofal ag y mae yn bosibl. Ond, ow! y mae ei ddyn oddimewn fel crochan berwedig, pobpeth ar draws eu gilydd! Ni byddai yn wahaniaeth mawr ganddo ar hyn o bryd daflu y pregethu ymaith yn llwyr a hollol. Ac y mae yn sicr na chaiff y bregeth ddiweddaf gynyg drachefn. Iach son i'r testyn yna mwy. Eto mae i'r bregeth dywyll ei gwersi. Dywediad cyffredin y diweddar Barch. Robert Roberts, Clynnog, ar ol pregeth dywyll fyddai, 'Pregeth i Robin wedi myn'd.' Y mae yn bur debygol y bydd i'r pregethwr yna sydd yn eistedd yn y gadair, a'i enaid yn ymgnoi gan gywilydd ar ol yr oedfa galed hon, ddysgu rhywbeth iddo ei hun, os oes dysgu i fod arno.

"Y trydydd gradd ydyw, pan y mae y pregethwr yn uwch nag ef ei hun. Mae pawb yn ei dro yn gwybod am hyn. Rhwyddineb gyda phobpeth. Mae darlleniad yr emyn ar ddechreu y gwasanaeth yn taraw yn hapus. Mae y bennod a ddarllenir yn cael sylw. Mae yr eneiniad ar y pregethwr, ac ar bawb eraill. Profir yr ymadrodd yn hwylus, tòn y llais yn ei lle heb fod na rhy uchel na rhy isel. Teimlir fod mor hawdd siarad ag ydyw tewi. Y mae y gŵr sydd yn y pwlpud yn teimlo yn hwylus ac wrth ei fodd. Nid oes eisiau erfyn sylw na gwrandawiad y gynulleidfa. Mae pawb yn sylwi a phawb yn gwrando, ac ambell un yn gwrando megys â'i enau, fel pe byddai y clustiau yn beiriannau rhy annigonol i dderbyn y ffrydlif nefol. Ymgyfyd y pregethwr yn raddol i'r goruchelder. Daw gwedd hollol newydd ar yr hen adnodau cyffredin. Y mae yr yspryd yn gwresogi, yn poethi ac yn tanio, ac wrth redeg allan trwy yr ymadroddiad yn rhoddi iaith ei hunan ar dân. Bygythia yr ymadroddion tanllyd roddi y gynulleidfa hefyd ar dân. Mae y pregethwr, nid yn unig yn cael gafael hwylus ar bob sylw oedd ganddo yn flaenorol, ond hefyd yn derbyn syniadau newyddion megys o'r nefoedd, syniadau newyddion hollol, a rhyw iaith gref aruthrol i'w gollwng allan. Ni freuddwydiodd am y fath beth erioed o'r blaen, ac nis gall er ceisio eu cael yn yr un modd byth mwy, pethau unwaith am byth ydynt. O'r nefoedd y daethant, ac yno y cymerwyd hwy drachefn. Rhyw fendith bach byr gan y nefoedd i'r ddaear oeddynt. Yn nghanol y fath ryferthwy, y mae y pregethwr wedi colli ei hunan fel nad ydyw yn hollol sicr pa un ai efe ei hun ydyw, ai rhywun arall sydd wedi cymeryd meddiant ohono am dymhor. A phe gallai y gynulleidfa

ymbwyllo, byddent hwythau yn sicr o fod mewn dyryswch cyffelyb, ac yn methu penderfynu pa un ai dyn ai angel sydd yn llefaru. Mae yn y pwlpud yn bresenol bobpeth yn ateb i'w gilydd. Mae y dylanwad Dwyfol wedi rhoddi yspryd pregethwr ar dân. Nid tân hyawdledd naturiol mohono. Tân Duw ydyw. Mae y dyn, bryfyn brau, wedi ei wisgo â nerth o'r uchelder. Mae y llais sydd yn naturiol yn wan neu yn aflafar fe ddichon yn awr yn gryf a soniarus. Y mae y corph yn gryf a bywiog, a phob ysgogiad yn cydweddu yn hollol â'r grymusder, y llygaid yn llawn tân, a'r wynebpryd yn annarluniadwy. Derbyniodd y corph am y tro nerth cyfartal i weithrediad nerthol y meddwl. Mewn gair, y mae Duw yn y lle, ac mor ofnadwy ydyw ei amgylchoedd! Edrycher ar y gynulleidfa, pwy all ddarlunio yr olygfa? Mae yma *rywbeth* o ddydd y farn. Y mae yr annuwiol wedi ei ddal â dychryn, mae y dewr yn barod i waeddi yn groch, mae y cadarn-galon yn crynu gan fraw, mae y caled-galon yn ymorchestu i fod yn ddifraw, er fod yn hawdd canfod ei wendid, pe byddai gan rywun hamdden i sylwi hefyd. O'r ochr arall y mae y duwiol wedi ei lenwi â gorfoledd, 'Wele, dyma ein Duw; gobeithiasom ynddo, ac efe a'n ceidw: dyma yr Arglwydd; gobeithiasom ynddo, gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth ef.'

"'Mae dy arswyd trwy'r grëadigaeth
Pan y byddost ti gerllaw.'

"Eto rhaid addef mai anfynych iawn y digwydd amgylchiad tebyg i'r un y ceisir ei ddarlunio yma. Bu yr hen Fethodistiaid, pa fodd bynag, lawer pryd yn dystion ohono."

Rhoddir engraifft o hyn mewn modd tarawiadol yn yr ysgrif gan Mr. Ellis, ond gan ei bod yn cael ei hadgoffa yn weddol lawn yn hanes "Diwygiad Beddgelert" a geir yn y "Gweithiau," gadewir y desgrifiad allan yn y fan hon. Terfynir yr ysgrif hon ganddo trwy sylwi "y gellir yn hawdd gael lluaws mawr o engreifftiau o bethau cyffelyb, y pregethwr yn cael ei gipio i'r drydedd nef, ac felly yn uwch o beth anrhaethadwy nag ef ei hun. Ac er na ŵyr pob pregethwr am droion mawr fel y rhai y gwyddant trwy weled neu glywed fod eraill wedi eu cael, eto tebygol ydyw y gŵyr lluaws o bregethwyr am ryw droion y teimlent y byddent wedi eu dyrchafu yn llawer uwch na hwy eu hunain. 'Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod ogoniant.'"

## PREGETHWR YN CADW SIOP.

"Paham yr aed yn bregethwr, sydd ofyniad a ofynwyd gan y pregethwr iddo ei hun ganwaith, ac nid yw eto wedi cael yr ateb boddlonol. Ond paham yr aeth y pregethwr yn siopwr, sydd eglur

hollol iddo, sef er mwyn i'r pregethwr gael modd i fyw a chadw ei deulu. Yr oedd byw wrth yr efengyl y pryd hyny allan o'r cwestiwn, yn beth nas gellid, ac hefyd yn beth nas goddefid. Ac edrychid ar y neb a geisiai wneyd hyny yn segurddyn gwrthodedig.

"Bychan a feddyliodd y pregethwr ei fod wrth fyned yn siopwr yn cysylltu dau gymeriad mor wahanol ac mor niweidiol i'w gilydd. Mae y pregethwr a'r athraw yn gymydogion megys; dysgu sydd i'r naill, a dysgu sydd i'r llall. Ac nid yw y pregethwr a'r amaethwr i ormesu llawer ar eu gilydd, gellid meddwl. Ond wfft i'r pellder sydd rhwng y pwlpud a'r siop! Rhaid i'r creadur helbulus sydd yn ceisio llenwi y ddau le pellenig yna, fod o hyd yn rhedeg o'r naill eithafion i'r llall. Ac wrth geisio llenwi y ddau, mae yn andwyo y ddau; mae y naill yn dyrysu y llall. Wrth geisio bod yn siopwr, y mae y pregethwr yn dihoeni, ac wrth geisio bod yn bregethwr, mae y siop yn colli. Mae y naill a'r llall yn galw am yr oll o'r dyn. Nis gellir dyfod i fyny âg unrhyw alwedigaeth yn llwyddiannus heb ryw gymaint o yspryd yr alwedigaeth hono. Siopwr salw a wna dyn heb fesur helaeth o yspryd y siop. Ond mae dringo i'r pwlpud heb yspryd pregethu yn fwy anmhriodol fyth; nis gall dim fod yn bellach o'i le. Os gellir symud weithiau yn lled hwylus o'r siop i'r pwlpud, ac o'r pwlpud i'r siop, nid mor hwylus y gellir newid o'r naill yspryd i'r llall. Gorchwyl anhawdd yw trin ysprydion: nid ar ben y gair yr ä un yspryd ymaith nac y daw yspryd arall i mewn. Dyma lle mae y dyryswch, pan fydd y pregethwr dros ei ben yn yspryd y bregeth, bydd y siop yn galw, a rhaid gwrando ar y llais; ond y fath siopwr llipa fydd un felly! Yn sicr, nid rhaid i siopwyr eraill y gymydogaeth ofni llawer oddiwrtho. Mae siopwr a phregeth yn berwi yn ei feddwl mor agored i roddi un ar ddeg neu dri ar ddeg yn y dwsin yn gystal a deuddeg. Dyna gyfle i'r dyn diegwyddor am fargen. Pryd arall pan y bydd y creadur yn boeth gan yspryd y siop, bydd raid hwylio at bregethu. A pha ryfedd os daw rhywbeth allan o'r pwlpud a barai i'r gwrandawyr betruso a ydyw y pregethwr yn *sound* yn ei ben! Mae y pregethwr yn gorfod teimlo fod y naill neu y llall o'r galwadau hyn yn llawn ddigon i ddyn o alluoedd cyffredin, ac eto nis gall efe rywfodd ymryddhau oddiwrth y naill na'r llall.

"Mae drwg arall yn y cawl: nid yn unig y mae ceisio llenwi dau gymeriad mor wahanol yn dyrysu meddwl y pregethwr, ond hefyd yn dyrysu meddyliau pobl eraill. Mae dynion yn edrych arno yn y naill gymeriad yn lle y llall, neu yn hytrach, yn y naill gymeriad trwy y llall. O'r pwlpud, y siopwr sydd yn cael ei feirniadu; ond yn y siop, y pregethwr sydd yn cael ei wylio.

Rhaid pregethu yn nghymeriad siopwr, a rhaid siopio yn nghymeriad pregethwr. Gwaeth eto: disgwylir i'r pregethwr sydd yn cadw siop fod yn ogystal siopwr a'i gymydogion nad oes ganddynt yr un dim i ofalu am dano ond eu siopau, a disgwylir iddo wneyd holl waith y gweinidog mor drwyadl a chymydog arall sydd yn cael ei gynal yn hollol i hyny. Disgwylir iddo gydredeg â'r naill, a chydredeg gyda'r llall, er fod y naill a'r llall yn rhedeg yn hollol groes i'w gilydd. Disgwylir iddo fel gweinidog a bugail redeg yma ac acw i ymweled â chleifion yr ardal; disgwylir iddo roddi ei bresenoldeb mewn rhyw gwrdd neu gilydd bob nos o'r wythnos; disgwylir iddo boeni yn y gair a'r athrawiaeth er cael rhywbeth i'w ddywedyd gwerth ei wrando. Ond disgwylir iddo gadw ei deulu wrth gadw siop. Mae yntau, druan, yn teimlo ei rwymedigaethau i'r byw, ac mae ei fethiant yn ofid calon iddo. Mae yn teimlo ei fod dan angenrheidrwydd o wneyd cam â'r gweinidog, neu â'r siop, neu â'i wraig, ac yn wir â'r tri. Wrth geisio bod yn ddau, mae yn syrthio i fod yn neb. Pa ryfedd os bydd ei feddwl weithiau yn bruddglwyfus, a'i yspryd yn ymollwng rhwng dau bwn?

"Mae y pregethwr sydd yn cadw siop yn gwybod yn dda am brofedigaeth arall, ac un boenus i'w deimlad am nad ellir yn hawdd ei gorchfygu. Mae yn dygwydd yn fynych nad yw cyfeillion y pregethwr a chyfeillion y siopwr yr un rhai. Bydd gan y pregethwr lawer o gyfeillion yn ymddangos fel yn rhoddi bri ar ei lafur, ac yn dangos gwynebau siriol iddo yn mhob man ond yn ei siop, gofalant am gadw eu gwynebau allan ohono. Tra bydd y cyfeillion hyn yn proffesu eu bod yn rhoddi pris uchel ar y pregethwr, gwerthant y siopwr am lai na dimai goch. Ond y mae iddo ei gyfeillion er hyny, a chyfeillion teilwng o'r enw; cyfeillion yn mhob man ac ar bob helynt, rhai yn dangos iddo lawer o garedigrwydd, a hyny er mwyn ei waith. Ond nid hyny yn gymaint yw ei brofedigaeth ef, am y gŵyr yn dda mai têg i bawb wneyd a fynont â'r eiddynt eu hunain. Ond ei brofedigaeth ef ydyw, methu ymryddhau yn ei gymeriad o weinidog yn ddigon llwyr oddiwrth y gwahanol deimladau a gynyrchir ynddo gan amrywiol ymddygiadau y gwahanol gyfeillion hyn. Mewn gair, y gamp ydyw i'r pregethwr anghofio y siopwr, bod heb adnabod neb yn ol y cnawd, caru yn helaethach er cael ei garu yn brinach, talu cariad am rywbeth tebyg i gâs. Dyna ormod o hunanymwadiad i gnawd, a hynod y fath le effeithiol i gnawdoli dyn ydyw siop! Weithiau bydd raid gweinyddu cerydd ar *gwsmer;* dyna y pryd y bydd cnawd yn gwingo ac yn ysgrwtio. Rhaid cael llawer o sancteiddrwydd yspryd i orchfygu profedigaethau o'r fath yma.

"Poenedigaeth lawn o chwerwedd i yspryd pregethwr yn cadw siop yw lled gymhell arno, fel siampl i'w hefelychu, lafurwaith gweinidogion eraill nad oes ganddynt yr un dim i fod yn ei gylch ond eu gwaith priodol eu hunain. Nid yn unig dyna ydyw eu galwedigaeth, ond dyna hefyd yw eu *bywoliaeth* hwy. Mae efe o'i galon yn dymuno gwneyd yr oll a allai gydag achos ei Waredwr, ond poenus i'w deimlad a fydd danod iddo lafur brodyr eraill sydd mewn sefyllfa lawer mwy manteisiol.

"Fel hyn, mae gan y pregethwr sydd yn cadw siop, nid yn unig ei dreialon pregethwrol fel rhyw bregethwr arall, a'i helbulon masnachyddol fel rhyw fasnachwr arall—a dyna ddigon o ddau bŵn i unrhyw ddau ddyn—ond mae iddo hefyd ei *ben-pwn,* sef treialon ei feddwl gyda'r cysylltiad poenus o bregethwr a siopwr, treialon nad oes neb yn eu gwybod ond efe a'i gyffelyb.

"Wedi y cwbl, nid oes ganddo neb i'w feio. Nis gall feio ei gyfeillion crefyddol, canys nid ydynt yn gofyn oddiwrtho ond yr hyn a ddylent gael. Nis maidd feio yr eglwysi am beidio ei alw yn llwyr a hollol i'w gwasanaethu, am y gŵyr yn dda nas gall bellach ddyfod i fyny â'u mesurau. A rhywfodd, nis gall feio llawer arno ei hun, am y bu adeg y byddai yn dda ei gael fel yr ydoedd, a bod ei lafur eto, fel y mae, i raddau, yn dderbyniol. Llawer gwaith y bu mewn profedigaeth gref i syrthio yn hollol i'r naill neu y llall o'r galwadau hyn; weithiau ymroddi i'r siop, a gadael y pregethu i'r rhai sydd yn meddu mwy o allu a gwell mantais; pryd arall ymroddi i wasanaethu yr efengyl, a gadael i'r siop fyned lle yr elai. Ond erbyn dyfod o ddifrif uwchben mater fel hyn, nid mor hawdd ei *setlo* ag a feddylid. Ar ol blynyddoedd lawer o bregethu, os teilwng yr enw, nis gellir goddef y syniad o'i ro'i heibio bellach, tra galler, a thra caffer. Ac nid teimlad cysurus iawn yw rhoddi yr hen siop heibio, tra y dalio wrth ei gilydd, a syrthio ar drugaredd dynion, canys nid yw dynion da sydd yn gyfoethog o bethau eraill yn rhyw gyfoethog o drugaredd. Gan hyny nid oes gan y pregethwr sydd yn cadw siop ond un cwrs i'w gymeryd, sef hwbio yn mlaen oreu y gallo gan newid ei faich o'r naill ysgwydd i'r llall, a gwylio rhag gwneuthur dim drwg, a gweddïo am ras i fod yn ffyddlawn ar ychydig. Daw adeg cadw noswŷl cyn hir.

"A chyda phobpeth, y mae efe o galon yn dymuno gweled yr holl eglwysi yn prysuro i alw dynion cymhwys i'w gwasanaethu fel gweinidogion, gan gymeryd oddiwrthynt bob esgus i ymrwystro gyda negeseuau y bywyd hwn.

"Cynghorai hefyd bregethwyr ieuainc i ymaflyd yn eu gwaith o ddifrif, a dymuno cael marw cyn myned yn hen, canys y mae

dynolryw erioed yn llawer parotach i addoli yr haul pan yn codi na'r haul pan yn machlud."

## DYDD LLUN PREGETHWR.

"Clywais lawer pan yn fachgen gan yr hen bobl am *ddydd Llun du,* ond y pryd hwnw ni wyddwn ddim am ei ystyr. Ond er's blynyddoedd lawer bellach gwn yn dda beth ydyw, a hyny oddiar brofiad. Bydd yn ddu iawn os bydd y Sabboth o'i flaen yn un du. Gwn yn bur dda beth ydyw hyn hefyd. Teimlad o anhwylusdod ac o annhueddrwydd at waith ydyw yr hyn a deimlir y dydd Llun hwn. Mae y peiriant wedi sefyll, a'r ager wedi rhedeg allan. Teimlir fel pe byddai holl raffau natur wedi llacio, a phobpeth byd a chrefydd fel wedi eu gwisgo â duwch. Arweinir fi ar y dydd hwn i amheu fy nghrefydd a phobpeth. Bydd rhyw niwl du ac oer o brudd-der wedi ymdaenu dros holl wlad yr enaid. Y mae y dymher yn mhell o'i lle, y croen yn deneu ac yn teimlo pobpeth. Anhawdd iawn ydyw cadw y gair pigog i mewn. Y mae y meddwl yn rhy farw i ymaflyd mewn dim, os na bydd 'papyr newydd' wrth law. Byddaf yn gweled eraill yn cael Sabboth. Mae fy natur inau yn dyweyd y dylwn inau ei gael. Sabboth i mi! Nag oes, tra y bydd siop a phregethu fel dau bwn ar fy nghefn ar unwaith. Er bod yn flin ac anhwylus boreu Llun, rhaid gwneyd gwên siriol a siarad geiriau teg. Bydd gwneyd y fath ragrith yn beth anhawdd, ïe, yn beth gwir boenus. Na, nid ydyw yr Hollalluog yn gosod y fath dasg a hon ar ei greadur. Ond nis gallaf fi yn awr weled un ffordd i'w gochelyd. 'Byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol *yn y byd sydd yr awrhon*' ddylai fod yr amcan mawr, ac ymddiried yn ein Tad Nefol am bob nerth i ddwyn y croesau ac i orchfygu gŵg yn gystal a gwên y 'byd drwg presenol.'"

## TEIMLADAU Y PREGETHWR.

"Waeth hyny na mwy, yr wyf yn *bregethwr.* Pa fodd bynag y bu, cam ynte cymhwys, y ffaith ydyw, fe'm gwnaed yn rhyw fath o bregethwr er's blynyddoedd lawer. Do, a gwae y diwrnod! Nis gwn eto yn iawn beth fu y cychwyn, pa un ai hunanoldeb digymysg ynte a oedd rhywbeth arall gwell wrth y gwraidd. Dyma fel y bu, bid a fo. Mi a ŵn nad oedd y cynhyrfiad i gyd yn dda. Yr oedd ac y mae ysywaeth, gan fy hen elyn hunan-gais rywfaint o law yn hynyma. Ond ai hunan-gais ydyw y cwbl sydd gwestiwn nas gellais am fwy nag ugain mlynedd gael atebiad boddhaol iddo. Ond beth bynag ydyw, y mae wedi costio i mi ryw lawer iawn o deimladau, a'r rhai hyny, gan mwyaf, yn rhai poenus. Os clod dynion oedd y nôd genyf, mi a'i methais, ac a'i methaf hyd y

diwedd. Mae yr oes yr wyf yn byw ynddi wedi troi allan yn addolwyr talentau, ac ni chefais inau ond *un dalent fechan*, ac wrth ddyfod i'r golwg yn ddyn mor ddiddim, yn lle cael y parch yn cael y dirmyg. Gwn yn dda ddigon bod llawer o'r rhai fyddant yn fy ngwrando yn fy nirmygu o'u calonau, a hyny am fy mod yn bregethwr bychan.

* * * * * * *

"Y mae yr ystyriaeth o'm hannheilyngdod fel pregethwr bron a fy llethu. Yr ydwyf ar hyd fy oes o dan draed y teimlad hwn. Ni bydd arnaf byth gywilydd o'r materion. Byddaf bob amser yn gofalu am fater da a theilwng. Ni bydd arnaf ychwaith gywilydd o fy amcan, canys fy amcan bob amser fydd argraffu y gwirionedd Dwyfol ar galonau fy ngwrandawyr. Ond fel pregethwr, bydd fy ngwaeledd a'm diffygion yn fy llethu. Byddaf yn clywed yn fynych ocheliadau yn cael eu rhoddi i bregethwyr rhag myned yn falch a chwyddedig, ond nid rhaid i mi wrth y cyfryw ocheliadau. Pregethwr balch! Nis gwn beth ydyw. Yr ydwyf yn rhy adnabyddus ohonof fy hun. Yr wyf bob amser yn ddirmygus yn fy ngolwg fy hun. Gwn fy hyd a'm lled cystal a neb arall, a gwn am fwy o bethau gwael a diffygiol ynof nag a ŵyr neb arall o blant dynion. Pâr y teimlad hwn i mi yn fynych ofni bod ar y ffordd, ac eto mi a ddymunwn gael gwneyd cymaint a allaf o ddaioni dros yr Arglwydd a wasanaethir genyf yn Efengyl ei Fab.

"Byddaf yn cael fy nghuro yn dost gan y teimlad fy mod wedi fy hyrddio i ormod cyhoeddusrwydd. Yr wyf yn sicr mai *gwthio* ac nid *ymwthio* a fu yn hyny. Mae pobpeth yn hardd yn ei le ei hun. Mae Cristion yn hardd yn wir yn ei le ei hun, a'r dyn ffyddlawn a chywir yn llon'd ei le, ac y mae yn brydferth yr olwg arno Ond pan y mae yr hwn sydd brydferth yn ei le ei hun yn cael ei osod i eistedd mewn cadair uwch, ac heb y cymhwysder i'w llenwi, y mae yn anhardd, yn wrthun ac yn rhwym o gael ei ddirmygu. Dan ddylanwad y teimladau isel a digalon hyn y byddaf yn cael fy hun y rhan amlaf o lawer, ond gwn yn dda hyd sicrwydd am ambell belydr a fflachiad o oleuni a dâl yn llawn am yr iselder a'r tywyllwch a'i gwnaeth yn doriad-gwawr dydd ar fy enaid. Gwir ddymuniad fy yspryd bob amser ydyw—

"'O! na allwn roddi 'mhwys
Ar dy ardderchog law,
* * * * *
* * * * *
A byw dan nawdd y dwyfol waed
Yn ngolwg hyfryd dŷ fy Nhad.'"

Dichon yr ystyria y darllenydd y sylwadau hyn o eiddo y "pregethwr" arno ei hun, ei bregethau a'i bregethu heb fod mor gymesur ag y byddai ddymunol, os yn wir na theimla fod ynddynt raddau o anghysondeb, ond bydd sylw manylach arnynt yn sicr o'i argyhoeddi mai arwynebol ac ymddangosiadol yn unig ydyw yr anghysondeb. Y mae y ffrydlif gref o wirionedd sydd yn sail y cwbl yn eu huno yn nghyd mewn mynegiant o holl amrywiaeth agweddau a theimladau "cenhad hedd" oedd a'i yspryd ar dân mewn aiddgarwch ac awyddfryd duwiol i leshad eneidiau a gogoniant Duw. Rhwydd addefwn nad oes ynddynt ychwaith y drefn fuasai yn ddymunol gan lawer ei chael, ond y mae ynddynt beth llawer iawn gwell, *rhyddid.* Ni a gyfarfyddwn yma â hyder yn Nuw yn tori allan mewn hyfder dros Dduw, i draethu yn ffyddlawn ei holl gynghor, gan ymddiried y cyflawna Efe ei holl ewyllys ar ran byd colledig yn ei amser da Ef ei hun.

Onid ydyw mewn difrif yn galed wrtho ei hun, ond pan yr arweinir ef i olwg ar Dduw, y mae ei wendid, ei ddiffygion a'i annheilyngdod yn dyfod yn rymusder a chymhwysder iddo i ddefnyddioldeb mwy a rhagorach. Rhaid addef fod y duedd i wrando gormod ar deimlad yn elfen o wendid iddo, ond cadwyd ef rhag i'r diffyg hwn droi yn ddinystr iddo gan ei synwyr cyffredin cryf. Yr oedd ganddo synwyr naturiol ac ysprydol i brofi pethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt, nes yr enillodd iddo ei hun un o'r safleoedd uchaf fel dyn o farn glir ac aeddfed, ond yr oedd ei deimladau yn ei orchfygu ac yn ei ddwyn dan eu traed yn lle ei fod ef yn eu gorchfygu hwy. Y canlyniad ydyw, nad oedd mor ddiogel i'w ddilyn mewn cwestiwn o *deimlad* ag ydoedd mewn cwestiwn o *farn.* Ond darllen y bennod hon yn ngoleuni y gwirionedd hwn, gellir felly yn bur hawdd ei farnu heb ei *gam*-farnu.

Y mae ystyriaeth ddifrifol i'r hyn a geir yma yn nglŷn â phregethu yn ein hadgofio o ddywediad Louis XIV. o Ffrainc, yr hwn ar ol gwrando ar Esgob Claremont (un o brif bregethwyr y Cyfandir yn yr oes hono) yn pregethu, a ddywedai: "O Dad Massillon, clywais lawer o bregethwyr yn y capel hwn, a *boddheid* fi yn fawr ynddynt; ond am danoch chwi, pa bryd bynag y byddaf yn eich gwrando, byddaf yn ymadael mewn *anfoddlonrwydd* â mi fy hun, am y byddaf yn gweled mwy o'm cymeriad gwirioneddol fy hun." Nid ydym yn petruso gwneyd cymhwysiad o'r dywediad hwn at ddylanwad ac effeithiau oes weinidogaethol Mr. Ellis. Yr oedd bob amser mewn ymrafael âg ef ei hun, ac yn gwneyd ei oreu i gael ei wrandawyr i anfoddloni arnynt eu hunain. Adnabyddid ef gan y rhai a wyddent fwyaf am dano fel "pregethwr cyfiawnder," a

hyny yn holl ëangder yr ystyr a berthyn i'r ymadrodd. Treuliodd oes faith o ymgyflwyniad i bregethu, gan ddysgu y "rhai gwrthwynebus i edrych a roddo Duw iddynt hwy ryw amser edifeirwch i gydnabod y gwirionedd; a bod iddynt ddyfod i'r iawn allan o fagl diafol, y rhai a ddelid ganddo wrth ei ewyllys ef."

## PENNOD VIII.

### EI DDYDD-LYFR.

*Dydd-lyfrau â'r Dydd-lyfr—Cofnodiadau ei Ddyddiaduron—Dyfyniadau ohonynt o* 1853 *hyd ddiwedd* 1880—*Trafferth gwneyd ac ail-wneyd pregethau—Gwerth y cofnodiadau—Sicrhau ei hunaniaeth.*

Y mae cyfeiriadau mynych wedi eu gwneyd genym yn barod at "Ddydd-lyfr" Mr. Ellis, a chryn nifer o ddyfyniadau wedi eu cymeryd ohono, yn gystal a bod llawer o ffeithiau ei hanes wedi eu casglu o'r cyfryw. Ceir fod y dydd-lyfr hwn ganddo yn wasgaredig trwy wahanol fân-lyfrau, ac yn amcanu gyda manylwch rhoddi i ni ei brofiad, hanes ac agwedd ei feddwl, yn nghydag amrywiol dröadau gyrfa ei fywyd. Yr ydym wedi gorphen â'r dydd-lyfrau yn y wedd hon arnynt yn y chweched bennod. Y mae a wnelom yn y bennod hon â'r dydd-lyfr fel y cynwysa "gofnodiadau byrion yn fy Nyddiaduron er y flwyddyn 1853." Arferai ysgrifenu brawddeg neu ddwy y rhan fynychaf o lawer am bob dydd o'r deng mlynedd ar hugain diweddaf o'i oes, a phan y methai weithiau gan amgylchiadau a gwneyd hyn yn ddyddiol, byddai yn sicr o roddi crynodeb o'r wythnos gyda'i gilydd. Yn y mynegiadau hyn, ni a gawn, nid yn unig agoriad i ystâd meddwl difrifol gydag ef ei hun â'r gwaith yr ymgymerodd âg ef, ond y mae y dywediadau yn nodweddiadol hollol ohono ef ei hunan, am eu bod yn fynych yn ffurf gwirebau neu ddiarhebion byrion, ond cynwysfawr. Gwasanaetha dyfyniadau o'r dydd-lyfr hwn felly i ddwyn i'r golwg wedd ar ein gwrthddrych nad ydyw y pennodau blaenorol wedi caniatau rhoddi arbenigrwydd arni.

Y mae llawer o'r cofnodiadau yn unig yn cyfeirio at y pregethau a bregethid ganddo ar y Sabbothau, a rhyw air neu weithiau arwydd i osod allan ei deimlad ef ei hunan yn y gwaith. Ceir rhai o'r *marciau* hyn yn ddoniol, a dyweyd y lleiaf. Pan bregethai bregeth newydd, y gair a arferir amlaf ganddo ydyw "Lans" *(launch),* am, mae yn debyg, yr ystyriai hyny yr un peth â'r bregeth a gwaith y llong-adeiladydd yn gollwng y llong oddiar y *blocks* i'r môr i nofio yn ei helfen ei hun. Pan y teimlai ei fod wedi cael

gafael wrth bregethu, a'r bregeth wedi "myn'd" yn dda, ceir ganddo lûn llong dan lawn hwyliau, a phan fel arall, byddai y llûn llong naill ai ar ei hochr neu a'i hwyliau ar lawr.

Ein hamcan yn y bennod hon fydd dyfynu o'r "Dyddiaduron" hyn y cyfryw sylwadau y bernir eu bod o ddyddordeb cyffredinol, ac yr un pryd ydynt yn egluro rhyw linell neu gilydd yn ei gymeriad ef ei hun. Ar ddechreu ei ad-ysgrifiad ef o rai o'r blynyddoedd hyn, dywed: "Am y pedair blynedd ar bymtheg blaenorol, nid oes genyf gyfrif dyddiol manwl. Ond y mae cyfrif manwl wedi ei gadw yn rhywle arall. O! am faddeuant a chymod *heb gyfrif!* Nis gallaf heb hyny sefyll i gyfrif y farn ddiweddaf.

"1853.

"Hydref 30.—Bangor a Hirael. Tlawd iawn fu y pregethu heddyw. Y mae yn debyg na chaf gynyg ar y daith hon mwy. Nid wyf gymhwys i'r fath gynulleidfa.

"Tachwedd 15.—Morwyn newydd yn dyfod i'r teulu. A fydd hyny o ryw fantais grefyddol iddi?

"1854.

"Ionawr 1.—Nid yw newid blwyddyn yn newid dim ar fy natur lygredig.

"Ionawr 8.—Ysgoldŷ a Bryn'refail. Ffigysbren ddiffrwyth a phregeth ddiffrwyth.

"Chwefror 8.—Ysgoldŷ: seiat. Pawb a'i bŵt.

"Chwef. 19-26.—Syrthio, brifo a chloffi am y tro cyntaf yn fy oes. Teimlo yn wrth-giliedig, yn oer a dideimlad. Ysgoldŷ, seiat, ond teimlo yn rhy gloff a diyspryd i fyned yno. Methu gwneyd dim, yn dda i ddim. A gedwir fi? Ochr Duw yn oleu, gyda mi y mae y tywyllwch. Y mae goleuni yn Nghrist i bechadur tywyll. Troi yno!

"Mawrth 29.—Gwneyd pregeth ar 'Adfywiad.' Balchder yspryd yn cymhell ei hun. Hen ŵr boneddig *noble!*

"Ebrill 26.—Dydd ympryd y Llywodraeth yn achos y rhyfel. Methu gwybod am ba beth i weddïo, ac felly gweddïo am bobpeth, a'r gweddïo yn ddim yn y diwedd.

"Mai 10 a'r 11.—Cyfarfod Misol Cae'rhûn. Gwrando y Parch. Cadwaladr Owen. Pregethwr iawn! Ai nid gwell *ychydig o* bregethwyr da na *llawer* o rai cyffredin?

"Mai 13.—Ceisio dwyn y meddwl i ddygymod â bywoliaeth fechan, gryno.

"Mai 17.—Jane Ellis yn cychwyn i Sir Feirionydd. Chwareu têg iddi. Hi ddylai gael *holidays.*

"Mai 18.—Ceisio sythu i fod yn siopwr. Rhaid edrych ar ol y byd neu syrthio dan ei draed, a lle symol ydyw hwnw.

"Mehefin 1.—Ymdrech galed â chalon fydol. Llefain yn erbyn ei thrais, eto colli y dydd. O na chawn oruchafiaeth!

"Mehefin 14–16.—Cymdeithasfa Llanrwst. Yr oeddwn yno. Cyfarfodydd da, ond dim *clec.*

"Gorphenaf 9–16.—Dim ond helynt yr adeiladu. Pe gwelid helynt fy nghalon, nid oes yno ddim i'w gael—adeiladu, ceryg, grô, calch, coed, *bricks*, pobpeth, a phobpeth ar draws eu gilydd.

"Dydd Sadwrn, gadael yr holl aflerwch am Bettwsycoed, a gosod yr Hollalluog yn *boliceman* i wylio y lladron. A gymer efe hyny?

"Rhagfyr 4.—Colli Cyfarfod Misol Bangor. A allant wneyd hebof? Y diafol balch!

"1855.

"Ionawr 7.—Gwrando ar ——— yn pregethu. Ceisio at y teimlad y tucefn i'r deall. Y deall yw y porth prydferth i'r galon.

"Mawrth 18.—Salem, Rhyd-ddu, Beddgelert. Yr un pregethau. Wel! dyma yr achos fod fy mhregethu mor ddŵl. Rhygnu gormod ar yr un rhai. Hen bregethau wedi colli eu danedd, nid oes berygl iddynt frathu!

"Mawrth 25–31.—Ymdreulio i finio fy mhregethau at Liverpool. Rhaid cael mîn ar yr yspryd. Dyma a rydd fin ar y bregeth.

"Ebrill 30.—Troi adref o Gaernarfon. Colli fy llyfr pregethau. Gafr wyllt! 'doedd fater ychwaith. Yr wyf wedi blino ar bregethau papyr! Gwae fi erioed fyned i gaethiwed y papyr.

"Mehefin 1.—Teimlo yn hapus, cymundeb â'r Nefoedd. O! fasnach ddedwydd, masnach ddiddig a *phroffit* dda!

"Medi 10.—Sôn am eglwys newydd yn Ll———. Os felly, bydd yn gareg ar fedd ysprydol llawer.

"1856.

"Mehefin 7.—Mr. Pryder-Bydol yn talu ymweliad. Y diafol hyll!

"Mehefin 15.—Rhygnu hen bregethau. Nid ydyw clustiau newyddion yn gwneyd y pregethau yn newydd.

"Tachwedd 23–30.—Gwneyd pregeth ar 'Orchfygu y byd.' Gŵr brâf i wneyd pregeth ar y testyn hwn, wedi methu ei orchfygu erioed ei hun. Dan ei draed bob amser. Yr wyf yn ymladd serch hyny!

"Rhagfyr 15 a 16.—Cyfarfod Misol Gate-house. Parch. O. Thomas yn pregethu ar fy mater, 'Puro y gydwybod;' minau yn dianc adref. Beth arall oedd i'w wneyd?

"Rhagfyr 21-28.—Dinorwig: seiat. Cefnywaen: seiat. Bedyddio yn y ddau le. Y fath gawod o blant!

"1859.

"Mehefin 26.—Pregethu dilewyrch. Yr wyf bron tori fy nghalon. Pa beth a wnaf?

"1860.

"Mai 27.—Wel, dyma beth newydd. Eistedd er rhoddi mantais i Evan Williams i dynu fy llûn! Pw!!

"Medi 15.—Derbyn fy narlun a phwrs yn cynwys deg punt o arian. Da iawn. Dylwn deimlo yn ddiolchgar i'r Arglwydd o'r herwydd. Cafwyd cyfarfod brwdfrydig iawn. Yr oedd Dr. Harris Jones a Mr. Levi yn digwydd bod yn bresenol, a chymerasant ran yn y drafodaeth.

"Tachwedd 15.—Galw llyfr eglwys Disgwylfa am y tro cyntaf.

"Tachwedd 19.—Cyfarfod Misol Rhydfawr. Gwneyd *ffŵl* ohonof fy hun trwy siarad gormod.

"Rhagfyr 3.—Cyfarfod Misol Bangor. Siarad gormod eto yn hwn. Beth yw yr ysfa siarad fydd arnaf? Mewn Cyfarfod Misol yn unig y bydd y *mania* hwn yn fy mlino.

"1861.

"Ionawr 12.—Sadwrn *setlo*. Gwan, gwan. Beth, a ydyw yr hen fyd am ddechreu cicio? Cicied o!

"Chwefror 26.—Mor ddigrefydd a diafol!

"Mawrth 13.—Nid oes dim at seiat dda i *fendio* ysprydoedd cynhyrfus.

"Mai 19-26.—Wythnos niwlog i'm teimlad fu yr wythnos hon. Ond niwl fy naear afiach i fy hun ydyw.

"Mehefin 2.—Tabernacl, Bangor. Beth wyf yn ei geisio gan y llefydd mawr yma?

"Gorphenaf 14.—Bu tro yn ——— darawodd fy meddwl yn boenus. Ar ol gadael y byd, Sadwrn *setlo* prysur, i'r wraig a'r plant, ac oll ohonynt yn wanaidd, a cherdded pedair milldir ar ddeg i ———, ar ddiwedd yr oedfa, wele bedwar o wŷr grymus yn dringo i'r llofft i brisio fy llafur am bregethu a chyfranu, a'r pris têg oedd *pedwar swllt*. Wel, wel. Gnawd! taw!!

"Medi 1.—Sylw da gan un hen frawd wrth bregethwr, 'Pe gallwn bregethu haner cystal a chwi, mi bregethwn yn well na chwi o'r haner.'

"Medi 15.—Myned yn mlaen yn y daith ddaearol, cymeryd pobpeth fel y delo, a gwneyd y goreu o'r gwaethaf. Dyna'r fel!!

"Hydref 13.—Y byd hwn yn myned a mwy na'i ran. Y gwalch!!

Ceisio llunio pregeth ar 'Fywyd diffrwyth,' ond baid y bregeth ei hun a bod yn *ddiffrwyth?*

"Tachwedd 10.— ———. Byddaf yn teimlo bob amser yn mhwlpud y capel hwn fel pe byddai cawod o *farug* yn disgyn ar fy yspryd. Paham hyny, nis gwn.

"Tachwedd 17.—Ysgoldŷ a Macphelah. 'Crefydd bersonol.' *Lans.* Pw, pw! *Trwblus* oherwydd dim! Cael mantais i weled fel y mae y gair mwyn yn meistroli, ac hefyd y mae yn rhad.

"1862.

"Mawrth 2-9.—Hogi fy nghrymau at ———. Rhaid cael arfau miniog i fyned yno.

"Mawrth 9.———. Rhai o'r boneddigion yn gorfod teimlo. 'Crefydd bersonol.' Mae taro gwaed yn hon.

"Ebrill 10 a'r 11.—Cyfarfod Misol Jerusalem. Balchder fy nghalon wedi ei glwyfo. 'Doedd fater!

"Ebrill 20.—Cyfarfod Pasg Llanllyfni a Thalysarn. Wel, mi a fu'm ar drothwy 'y pregethwr mawr,' ond methais a myned i mewn. Ni chefais fy ngalw i gyfarfod pregethu byth wedi hyn! Wel, rhaid myned i waered!!

"Awst 17.—Borth a Llandegfan. Poeni o achos gormod o *brepian* yn y pwlpud.

"Awst 25.—Cael fy fflangellu gan Baxter yn 'Ngorphwysfa'r Saint.'

"Medi 7.—Llanllechid. Profedigaeth gâs, *lansio* pregeth newydd dan gamp. Hono yn rhedeg i'r traeth y cynyg cyntaf! Trafferth ofer!

"1863.

"Chwefror 11.—Macphelah. Seiat gythryblus. Helynt deuluaidd. Minau âg un gair wedi rhoddi y cwbl ar dân. Y mae yn anobeithiol i mi ddysgu llywodraethu fy nhymher. 'Y ffol tra tawo a gyfrifir yn ddoeth.' Gan nas gallaf ddysgu *siarad,* pa bryd ynte y dysgaf *dewi?*

"Chwefror 17.—Seiat yn Macphelah. Aros gartref i sorri. Gwas brâf! Didrallod, ond digrefydd. Mor anhawdd ydyw cadw pethau yn wastad. Mae boddlonrwydd mewn tlodi yn fil gwell na chyfoeth gyda thymher anfoddog.

"1864.

"Chwefror 7-14.—Y gwastraff gwaethaf oll ydyw gwastraff *meddwl.* Mae gwastraff ar arian, amser, ymborth, dillad, &c., yn andwyol, ond gwastraff meddwl sydd yn ofnadwy. Ac eto y fath wastraff sydd ar feddyliau!

"Chwefror 14.—Gartref yn gwrando ———. Llithrig. Rhy lithrig i neb ddal dim. *Nodiad.*—Oni bydd crefydd oddimewn, ni bydd y cwbl oddiallan ond rhagrith. O! am ffydd i sefydlu awdurdod y gwirionedd yn y galon! Mae anghrediniaeth yn chwythu rheswm ymaith.

"Mawrth 6-13.—Wythnos gythryblus i'm meddwl fu hon, syrthio allan â mi fy hun ac â phobpeth. Yr hulpyn dŵl!

"Mawrth 20-27.—Pryder bydol, ofn llithro i dlodi. Os felly y rhaid, dymunwn fod yn dlawd gonest, a chael gras i ymostwng.

"Mai 14.—Y byd wedi dyrysu. Byd dyrys ydyw byth ar ol pechu ohono, a dyrys a fydd. Nid oes ond dyryswch lle bo pechod.

"Medi 6.—Seiat gyntaf Disgwylfa. Pawb yn methu gwybod yn iawn pa fodd i agoryd ei enau, ac a oedd ganddynt enau hefyd. Pobpeth mor newydd ac mor ddyeithrol.

"1865.

"Ionawr 3.—Cyfarfod Misol Caeathraw. Cafodd yr hen Adda *jerk* ofnadwy. Aeth fy mhregeth yn fwg! yn fwg! Mae *damp* yn y teimlad. Yr wyf yn wrthodedig gan fyd ac eglwys.

"Chwefror 6 a 7.—Cyfarfod Misol Felinheli. Yr oedd hwn fel ei chwiorydd, y gwartheg culion, yn llyncu y rhai tewion; gormodedd o faterion lleol, a dim amser at bethau uwch a mwy eu pwys. Byw mewn niwl.

"Ebrill 6.—Byw yn dduwiol mewn gwaed oer. Dyna y gamp. Nid oes ar ffydd eisieu gwaed poeth.

"Tachwedd 23.—Cyfarfod eglwysig yn ———. Mae yr yspryd drwg yn aelod ffyddlawn er's llawer dydd yn yr eglwys hon.

"1866.

"Ionawr 3.—Peth fel troi tŷn-dir ydyw ymddiddan â phobl ieuainc yn y cyfarfod eglwysig.

"1867.

"Mawrth 9.—Campus o beth at *fendio* meddwl dyn ydyw *arian!* Och, fydol-ddyn!

"Mawrth 11.—Dyfod adref—y corph a'r meddwl yn *griciau* i gyd. A'm helpo! Ai myfi ydyw Mr. Blino-ar-y-byd?

"Mai 22.—Ysgoldŷ: seiat. Llusgo y cyfarfod yn mlaen yn erbyn gwallt ei ben. Mor boenus!

"1869.

"Ionawr 1.—Diau fod i'r flwyddyn hon ei helbul fel pob blwyddyn. Ond y mae yn dechreu arnom ni fel teulu bychan yn bur wahanol

i'r blynyddoedd diweddaf. Tawelwch a hamdden yn cael eu mwynhau genym, a'r pryder a'r ofnau dychrynllyd yn cael eu chwalu ymaith. Ond y mae yr hen galon ddrygionus, ddaearol ac anghrediniol yn aros! Nid oes genyf ddim rhith o ddim i ofalu am dano gyda'r byd hwn ond y plant. Mae y byd wedi ei groes-hoelio i mi, ond a ydwyf fi i'r byd?

"Mawrth 25.—Cyfarfod Misol y Graig. Rhyw anialwch o Gyfarfod Misol oedd hwn.

"Mawrth 31.—Taclu 'Thomas' (pregeth), ond waeth heb na thaclu, cyfnod tlawd ar fy mhregethu ydyw yr un presenol.

"Mai 9.—Tair o longau newyddion yn cael eu gollwng i'r môr yn Ysgoldŷ, ond pa fodd yr hwyliant?

"Mai 23-30.—Troi yn yr un cylch, eto llusgo yn mlaen yn ddigon digrefydd. Calon lygredig yn cymeryd mantais ar bobpeth i ewynu allan ei thòm a'i llaid. Mae cael llonydd i geulo ar ein sorod yn beth peryglus.

"Gorphenaf 12.—Anianol. Ceisio gwarchod rhag i'r diafol roddi y galon ddrygionus ar dân.

"Awst 25.—Syrthio i'r llaid. Rhoddi caniatad i genad Satan gernodio. Os caiff Satan gernodio, hen gernodiwr brwnt ydyw.

"Tachwedd 17.—Ysgoldŷ: seiat. Ceisio gwneyd tân â mawn gwlybion.

"1870.

"Ebrill 18.—Gartref yn gwarchod, ac yn ymladd â Satan; y cena' digywilydd!

"Mehefin 13.—Cyfarfod Misol llipa. Pa beth ddaw o'r cynulliad hwn? Mae yn òd y bydd cymaint o waith trwsio ar yspryd dyn wedi dyfod o ambell Gyfarfod Misol a phe buasid wedi bod mewn ffair.

"1871.

"Chwefror 23.—Bryn'refail. Seiat bach gwla. *Melancholi* dduwiol!

"Mawrth 26 hyd y diwedd.—Wythnos gythryblus i'm teimlad fu hon. Dan gerydd yr Hollalluog, a cherydd yn y dyn oddimewn, oherwydd bywyd digrefydd. Yr oedd geiriau bygythiol yr hen Feibl yn chwyrnu o gwmpas fy mhen, y gydwybod yn cynhyrfu, cenad Satan yn cernodio. Ond a fydd hyn oll yn foddion i'm sancteiddio? Os felly, da.

"Mai 3.—Rhoddi lle i ddiafol. Yr hen walch!!

"1872.

"Chwefror 23.—Ail wneyd pregethau. *Job* digon di-*broffit,* ond beth arall a wna hen bregethwr?

"Ebrill 28.—Dinbych. Llawer gwell na'r disgwyliad. Y diafol neu rywbeth yn ceisio gwneyd *ffwl* ohonof, trwy fy mherswadio fy mod yn bregethwr!

"Gorphenaf 7-14.—Cyfarfod Misol Bethania, Beddgelert. Bu'm yno yn enw o Lywydd am y chwe' mis dyfodol. Llywydd wir! heb erioed ddysgu llywio fy hun! Nid oes genyf flas ar y gorchwyl hwn, bid a fo.

"Rhagfyr 26.—Y tair seiat ar yr un noson, a minau, a'm helpo, yn methu a bod yn *un iawn*, chwaithach bod yn *dri*.

"1873.

"Mehefin 14.—Wedi blinio yn ceisio rhoddi mîn ar y cryman at yfory. *Poor fellow!!*

"Medi 22.—Blaenau Ffestiniog. Dyfod adref, ond mor ddigrefydd ag y mynai y diafol i mi fod.

"1874.

"Ionawr 11-18.—Mae i bregethu ei gerdded, ei dithio a'i *gallopio*. Ceir y cyntaf yn y dechreu, yr ail yn y canol, a'r olaf yn y diwedd. Y gamp wrth bregethu ydyw gadael i'r naill a'r llall eu lle priodol. Nis gellir hyny heb hunan-feddiant. Y mae dyn o dymher boethlyd am brysuro o'r naill i'r llall, a bydd y *gallopio* felly lawer rhy debyg i geffyl dall, yn gyru yn ynfyd.

"Rhagfyr 7.—Cyfarfod Misol Rhostryfan. O holl Gyfarfodydd Misol y flwyddyn, hwn oedd y mwyaf lliprynaidd, yr hîn yn wlybyrog ac yn oer iawn. Pawb yn rhynu a'r lle yn amlwg, ac yn ben ar y cwbl yr oedd 'angau yn y crochan.'

"1875.

"Awst 15.—Rhaid troi 'Caleb' i'r borfa am dymhor eto.

"1876.

"Chwefror 6-13.—Wedi blino ar bobpeth. Eisieu gorphwys. Ond daw'r bedd ar fyrder. Ond beth am y nefoedd? O am hyder clir!

"Chwefror 22.—Disgwylfa: seiat. Dim un swyddog ond ——— a minau am dani. Ond y mae genym ein dau gryn feddwl ohonom ein hunain. Da hyny. Nid yw yn ymddangos fod neb arall yn meddwl nemawr ohonom.

"Chwefror 25.—Pymtheg o ymweliadau. Os oes crefydd mewn cerdded tai, tybed na bu heddyw yn dra chrefyddol?

"Mehefin 22.—Bu ——— yma yn rhwydo, a daliodd bob rhyw beth.

"Gorphenaf 13.—Pwnio pregeth ar 'Mab y dyn, pan ddêl,' &c. Cynyg yn deg deirgwaith a methu, a methu rhoddi i fyny yr ymdrech hefyd.

"Medi 1.—Cyfarfod ymadawol ———. Lol-mi-lol. Bachgen da hefyd.

"Rhagfyr.—Un Sabboth dywed: 'Yr Eunuch yn nacâu gweithio,' a Sabboth arall, 'Yr Eunuch yn nacâu dyfod.'

"1877.

"Rhagfyr 12.—Yr wyf heddyw wedi cyrhaedd naw a thri ugain mlwydd oed, ac wedi myned yn hen ŵr. Y mae natur yn pallu, ac eto yn iach. Y mae y cymylau yn dychwelyd ar ol y gwlaw. Dim llawer o ddiddanwch i'w ddisgwyl mwy ond a ddaw o'r nefoedd! Ac O! na byddai yr awyr yn clirio oddiyno!!

"'Gwasgara'r tew gymylau
Oddiyma i dŷ fy Nhad;
Dadguddia i mi beunydd
Yr iachawdwriaeth rad, &c.

"1878.

"Chwefror 10-17.—Ceisio rhoddi yr ymweliad â theuluoedd yr eglwys mewn ymarferiad. Nid mor lwyddiannus y mae hyd yma. Yr amcan ydyw cael ymgôm grefyddol â'r aelodau eglwysig yn eu tai. Yr wyf yn benderfynol o'i weithio allan trwy gymhorth. Cadwaf yn glir â phob chwedleua, ac amcanaf ei wneyd gyda phob purdeb.

"Ebrill 1-6.—Yr iechyd o'r diwedd yn dechreu gwaethygu. Bu'm yn odiaethol o iach ac o gryf trwy fy oes, ond yr wythnosau hyn y mae rhyw *harmiad* bychan ar yr iechyd. Y mae yr effaith yn fwy poenus yn y pwlpud nac unman. A ydyw angeu gyda'i *binsiar* main yn peidio tynu rhyw bin bychan o'r adeilad er cael mantais i dynu darn mwy? Hen chwalwr rhyfedd ydyw efe!

"Tachwedd 3.—Beddgelert. Caiff y lle hwn fod yn *fedd* i'r ddwy bregeth oedd genyf yma heddyw. Maent wedi gorphen eu gwaith.

"Tachwedd 3-10.—Dim yn werth ei gofio yr wythnos hon, ond yr ymdrech gyda mi fy hun. Ceisio gwneyd pobpeth, a methu gwneyd dim, dim yn iawn fel y dymunwn. Y methiant mwyaf poenus ydyw methu byw yn grefyddol yn y dyn oddimewn.

"1879.

"Chwefror 20.—Cyfarfod Misol Bontnewydd. Digonedd o wenith tramor. Dim gofyn am hen ŷd y wlad.

"1880.

"Ebrill 1.—Os bydd i bryder gynyrchu mwy o weddïo, fel dâl y costau.

"Hydref 3-10.—Ymdeimlo â'm gwaeledd, a gwneyd dim. Llefain am oleuni. Cynefin hollol â'r ochr dywyll, fy ochr fy hunan. Nid oes yma ond tywyllwch. Crist yw fy ngoleuni. Ond y mae y cymylau duon sydd yn codi o'm calon ddrygionus yn cuddio y goleuni hwn o'm golwg. Llewyrcha, llewyrcha!

"Rhagfyr 13.—Dyfod adref o'r Waenfawr yn llesg a blin. Hiraethu am gael pobpeth yn gliriach rhyngwyf â'm Gwaredwr. Teimlo awydd cadw noswyl, ond ofn y cyfrif! Mae rhoddi i fyny y cyfrif yn llawen allan o gwestiwn i mi."

Yn y Dyddiaduron hyn, nid oes odid wythnos heb ryw grybwylliad am ei bregethau, a'r drafferth barhaus gyda'u gwneyd a'u hailwneyd. Y mae yr amrywiaeth geiriau a ddefnyddia wrth sôn am y drafferth hon yn ddoniol a gogleisiol yn y gwahanol gysylltiadau yr arferir hwy ganddo. Ceir y dydd-lyfrau dan sylw yn ddryfrith o grybwylliadau cyffelyb i'r rhai canlynol:—"Trwsio yr 'Enwaediad,' ail-bobi 'Bara beunyddiol,' *patchio* yr 'Eunuch,' ail-fwrw 'Nathanael,' ail-*drimio* 'Ceisio yn gyntaf,' ail-*foldio* 'Timotheus,' ail-daclu 'Caleb,' ail-gaboli 'Llefain,' ail-*wampio* 'Trugaredd,' &c.

Yn y crybwylliadau hyn yr ydym yn ei weled yn urych ei feddwl ei hunan bob dydd yn ei ddydd. Nid oedd ynddynt ond yn rhoddi ffurf allanol mewn mynegiant i'r hyn oedd ef ei hunan mewn gwirionedd. Fel y mae y darlun anrhegol a adawodd ar ei ol yn cadw mewn coffadwriaeth ffurf a delwedd allanol ei berson, felly y mae cynwys y dydd-lyfrau hyn yn parhau mewn cadwraeth i'r oesau dyfodol y meddwl a'r yspryd a roddes y fath fri ac urddas ar y person. Ynddynt cawn efe ei hun yn egluro ei hunan, a hyny mewn dull anymwybyddol, gan nad oedd ganddo un amcan ynddynt ond gosod i lawr symudiadau ei feddwl a gwahanol agweddau ei deimlad er mantais iddo yn nghreigliad blynyddoedd i gyrhaedd adnabyddiaeth fwy trwyadl ohono ei hunan. Cyrhaeddasant yr amcan hwn yn nglŷn âg ef yn bersonol, ac yn awr yn y ffurf hon gwasanaethant i egluro i'r darllenydd un neu ychwaneg o'r nodweddau oeddynt yn ei hynodi ef, ac yn ei wneyd yn gymeriad mor arbenigol ar ei ben ei hun. Fe argraffa ei hunaniaeth mor annileadwy trwyddynt fel nas gellir ei gamgymeryd am neb arall. Efe ei hun ydoedd mewn gwirionedd.

## PENNOD IX.

### EI LYTHYRAU.

*Y ddawn o ysgrifenu Llythyr—Prawf o wir athrylith—Symledd a naturioldeb—Rhagoriaeth Mr. Ellis fel ysgrifenydd llythyrau—Detholiad a dyfyniadau o'i lythyrau at ei blant a'i berthynasau.*

---

Y mae y ddawn i ysgrifenu llythyr da yn gystal prawf a dim o athrylith wir, ac o athrylith o radd uchel. Yn y llythyr, fe ddisgwylir i'r ysgrifenydd fedru gwneyd ei hun yn bresenol o ran meddwl a theimlad tra y mae yn absenol o ran ei berson allanol. Efe ei hun yn y meddwl a'r yspryd wedi ei argraffu ar y llèn bapyr ydyw y llythyr i fod, a'i neges ydyw cyflawni yr un gwasanaeth dros ei ysgrifenydd ag a wnaethai ef yn bersonol pe buasai bresenol. Yn ol y darnodiad hwn o amcan a gwasanaeth llythyr-ysgrifaeth, nid oes modd bod yn rhy syml a naturiol yn ei gyfansoddiad.

Bydd i ddarlleniad pwyllog ac ystyriol o'r hunan-fywgraffiad blaenorol ddwyn yr elfenau hyn o symledd a naturioldeb i'r fath amlygrwydd yn Mr. Ellis, fel ag i grëu disgwyliad ynom am lythyrau di-ail fel ffrwyth ei ysgrifell. Yn hyn nid oes un perygl i neb gael ei siomi. Y mae rhai ohonynt yn gynllun-lythyrau mewn gwirionedd, ac yn sicr o enill iddynt eu hunain safle anrhydeddus yn mysg ceinion llenyddiaeth Gymreig o'r dosbarth yma.

Yn y bennod hon rhaid boddloni ar ddyfyniadau o amrywiol lythyrau ac ar ddetholiad o ychydig yn gyflawn fel engreifftiau o'r arddull syml a naturiol oedd mor nodweddiadol ohono yn eu cyfansoddiad.

Pan yr oedd un o'i ferched yn cadw siop yn Llanberis, ysgrifena ati un " nawn Sadwrn " fel y canlyn:—

" Gair oddiwrth dy hen dad. Byddaf yn meddwl llawer am danat yn dy helynt newydd. Croes hollol fel y gwyddost i'm teimlad oedd dy osod, yn yr oedran tyner hwn, ac o gyfansoddiad tynerach na hyny, dan bwys gofalon a phryder masnach. Y mae y meddwl dy fod dy hunan yn y fan yna heb neb i ddywedyd dy gŵyn wrtho nac i ymgynghori âg ef yn ofid i mi. Y cynghor sydd genyf i'w roddi i ti ydyw, Paid a theimlo gormod oddiwrth yr helynt yna. Gwyddost nad ydwyf fi yn siampl ymarferol i ti o beth felly ychwaith. Teimlo gormod oddiwrth bobpeth yw fy ngwendid ar hyd fy oes, gormod o bryder, gwneyd baich mawr anferth, a hèl pobpeth i'r rhaff, a llawer o bethau hollol ddychym-

ygol hefyd, a lladd fy hun yn cario y baich, yn lle gadael iddo 'Bwrw dy faich ar yr Arglwydd, ac efe a'th gynal di.' 'Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd, ac ymddiried ynddo; ac efe a'i dŵg i ben.' 'Treigla dy weithredoedd ar yr Arglwydd, a'th feddyliau a safant.' Mor ragorol y mae yr Hen Lyfr yn ein dysgu! Paid dithau a beichio gormod ar dy feddwl. Gwna dy ddyledswydd, a gâd y canlyniad i'th Dad, yr hwn sydd yn y nefoedd. Tra yn y siop, bydd yn feddylgar, ond ar ol troi cefn, paid a meddwl dim am dani. Os na bydd genyt bob peth y bydd galw am dano, paid a phoeni, ond gwertha y peth fydd genyt, os gelli. Os daw *trafeiliwr* i wneyd gwyneb am arian, gwna dithau wyneb o brês i'w gyfarfod. Paid a phoeni gormod os na bydd digon i'w gyfarfod ar y pryd. Os cyfarfyddi â gair *bynafog* gan neb, gâd iddo basio heb feddwl dim mwy ohono. Os gwnei gamgymeriad, paid a meddwl gormod ohono, heblaw meddwl a phenderfynu gochel peth felly drachefn. Ar ol cau y siop, cau bob meddwl yn ei chylch, yn yr un modd, nes y delych yno drachefn. Tafl feddyliau poenus ymaith oddiwrthyt i'r llyn,* a chau bob meddyliau bydol allan o dy ystafell wely.

"Dyma i ti *res* o gynghorion rhyfedd. Rhyw ofn sydd arnaf rhag i ti yn dy unigedd nychu dy hun â gormod o ofalon a phryder meddwl. Byddai hen lencyn a adwaenwn unwaith yn arfer a dyweyd fod 'dau fynud a haner o amser yn llawn ddigon i boeni oherwydd dim bydol.' Ond hen lanc oedd ef, deall. Arfera dy hun i feddyliau ysgafn, tyner a siriol. Wrth feddwl ysgafn, ti a wyddost y golygaf meddwl dibŵn, difaich. Mae crefydd y Beibl yn caniatau hyny. Nid oes dim crefydd mewn pryder, poen meddwl a phruddglwyf. Mae rhyw fath o ddynion yn dueddol i fyned o'r naill eithafion i'r llall. Tra mai diofalwch ydyw yr eithaf y mae rhai dynion yn fwyaf agored iddo, dy berygl dithau ydyw yr eithaf arall o fod yn rhy bryderus. Mae rhywbeth felly wedi bod yn dy deulu. Un felly oedd dy daid o du dy dad, Ellis Evan, y Garnedd. Pan yn llanc, nid oedd yn yr holl blwyf ddim un mwy diofal, ond pan briododd, ac y daeth i ddechreu adeiladu tŷ, aeth yn ofal a phryder bob mymryn. Paid a meddwl gormod o ddim daearol. Gelli fod yn ofalus, yn brydlon, yn drefnus, yn fanwl ac yn dy le yn mhobpeth heb lwytho dy feddwl â phoen. Chwertha, cana, chwibana feddyliau poenus ymaith. Dyma i ti lythyr blêr ddigon, gwaith deng munyd. Gwella ei wallau.

"ROBERT ELLIS."

Yr oedd y fagwraeth grefyddol a gafodd y plant yn gyfryw tra

---

* Llyn Llanberis.

y teimlent ryw fath o yswildod a lledneisrwydd i adrodd eu "helynt ysprydol" i'w tad mewn ymddiddan, yr oeddynt bob amser yn ddigon hŷf arno i ysgrifenu iddo eu hanes crefyddol ac i geisio ei gynghor a'i gyfarwyddyd. Rhoddai yntau hyny iddynt mewn llythyr yn ddiymdroi. Y mae y llythyrau hyn yn drysorau o'r fath werthfawrocaf gan y teulu, nid yn unig ar gyfrif y cynghorion eu hunain, y rhai ydynt anmhrisiadwy ynddynt eu hunain ac i bawb yn eu gwahanol amgylchiadau, ond am eu bod hwy wedi eu profi yr adeg hono mor gyfaddas a phriodol i'r agwedd meddwl ac yspryd neillduol yr oeddynt ynddi ar y pryd. Nis gallwn roddi ond dau o'r cyfryw lythyrau allan o luaws fel engreifftiau, ac ychydig ddyfyniadau o rai eraill:—

"Anwyl Ferch,

"Derbyniais dy lythyr, a da genyf gael gair o dy helynt ysprydol. Yr wyf yn deall dy fod mewn gradd o bryder ac ofn, fod dy agwedd ysprydol yn lled dywyll i dy feddwl. Da genyf dy fod wedi agor dy deimladau i dy hen dad, a chyda'r pleser mwyaf yr ydwyf yn ceisio dy gyfarwyddo. Mae yn ymddangos fod yr amgylchiad sydd yn dy aros yn taflu ei gysgodion tywyll dros dy deimladau, fel y mae yn naturiol i bob un yn dy sefyllfa. Mae pob gwraig ystyriol yn teimlo ac yn ofni yn gyffelyb mewn cyffelyb amgylchiadau. Felly y byddai dy fam bob tro, ac felly y gwelais bob un arall, oddieithr rhai hollol anystyriol. Ond nid ydyw teimladau pryderus o'r fath i'w cymeryd yn ysgafn. Cofia, pa fodd bynag, fod nerth i'w gael. Mae dy achos crefyddol yn dywyll i dy feddwl, ac yr wyt yn bryderus am hyny. Ofni yr ydwyt nad ydyw dy grefydd yn gywir, a bod y peth mawr hwnw yn ddiffygiol genyt. Ni fynwn er dim dy wneyd yn ddiofn a diofal gyda pheth o gymaint pwys. Ac o'r ochr arall, nid ydwyt mewn un modd i fod yn anobeithiol, nac ychwaith yn ddigalon a phruddaidd. Yr wyt yn cwyno dy fod yn methu darllen dy Feibl, yn methu gweddïo, yn methu credu ac yn methu pobpeth. Ac y mae hyny yn ofid i ti. Wel, mae gwir grefydd yn hyn i gyd. Dyma helynt pob gwir gredadyn, *ceisio, methu* a *gofidio.* Ceisio, ac er ceisio, methu, ac oherwydd methu, gofidio. Ac felly y mae o hyd, o hyd fel anthem gròn. Dywedaf eto, dyma helynt pob credadyn.

"Yr wyt yn ofni dy fod yn methu darllen y Beibl fel y dylet. Dos at yr Hen Lyfr er hyny. Yr wyt yn methu gweddïo. Dos i'th ystafell er hyny, cau dy ddrws, a gweddïa fel y medri ar dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel. Er teimlo dy hun yn galed, yn oer a dideimlad, dos at dy Dad Nefol o hyd, o hyd. Gelli hyderu fod dy dad naturiol yn cymeryd *interest* yn dy helynt ysprydol. Pa

faint mwy dy Dad yr hwn sydd yn y nefoedd? Nesâ ato Ef, agor dy holl helynt ysprydol a thymhorol o'i flaen Ef. Cyfaddef ger ei fron dy holl ddiffygion. Syrthia wrth draed ei drugaredd yn bechadur heb ddim ond 'bratiau budron,' a hyny yn enw yr Hwn a fu farw trosom. 'Yr Hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd Ef trosom ni oll; pa wedd gydag ef hefyd na ddyry efe i ni bobpeth?' Dyma i ti air anwyl!

"Yr wyt yn dymuno credu yn Nghrist, ac yn methu credu. Wel, y mae credu mewn dymuno credu, mae credu mewn ceisio credu, ac y mae credu mewn methu credu. Deall dithau hyn. Nid oes neb ond credadyn yn trafferthu dim ar ei feddwl yn nghylch credu. Pa beth ydyw y credu hwnw sydd yn cadw yr enaid? Pechadur tlawd yn teimlo nad oes ganddo ddim i'w ddangos gerbron Duw fel teilyngdod, dyled fawr a dim i'w thalu, a'i lygaid yn sefydlu ar aberth Crist, 'yr Hwn a osododd Duw yn iawn,' fel ei unig obaith am fod yn gymeradwy gyda Duw. Dyna gredu. 'Ac y'm cair ynddo ef, heb fy nghyfiawnder fy hun, yr hwn sydd o'r gyfraith, ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist.' Dyna gredu. 'A'r publican, gan sefyll o hirbell, ni fynai gymaint a chodi ei olygon tua'r nef; eithr efe a gurodd ei ddwyfron, gan ddywedyd, O Dduw, bydd drugarog wrthyf bechadur.' Dyna gredu. Meddai rhyw druanes, 'Pe cawn ond cyffwrdd âg ymyl ei wisg Ef, iach a fyddaf.' Dyna gredu. 'Os ewyllysi, ti a elli fy iachau.' Dyna gredu. Gan hyny nis gallaf dy gynghori yn well nag i ti arfer dy hun i nesâu at orsedd-fainc y gras. Dyma y fan. Awn yn hyderus i'r fan yna. Awn heb ddim i dalu, awn yn ei enw Ef, awn fel y caffom drugaredd, awn fel y caffom ras yn gymhorth cyfamserol, ac awn gan gredu fod yr Arglwydd da yn hoffi ein gweled, ac yn barod i'n derbyn. Ac os na bydd ein gweddïau yn cael eu hateb ar ben y gair, gadawn iddo Ef ei amser ei hun i hyny. Ymarfer, atolwg, âg ef; o hyn y daw i ti ddaioni. Os ydyw yn dywyll, fe ddaw yn oleuach. Yr 'hwn a ddêl ataf fi,' medd y Gwaredwr grasol, 'nis bwriaf ef allan ddim,' ac yn ol y Saesoneg, 'nis bwriaf ef allan mewn modd yn y byd.' Na ddigalona, ac na lwfrhâ. Ymnertha yn yr Arglwydd. Dyro dy holl achos yn ei law Ef, gan ymostwng i'w ewyllys, ac ymddiried ynddo.

"Dy dad, Robert Ellis."

Ni a ddyfynwn eto o lythyr a ysgrifenodd yn mhen pum' mlynedd drachefn at yr un ferch. Yn hwn dywed: "Y mae yn llawenydd i'm calon ddeall dy fod yn parhau mewn mesur o drafferth gyda dy achos ysprydol dy hun. Y mae dy fod mewn trafferth a thrallod gyda'r peth penaf oll yn arwydd er daioni. Damnedigaeth yr oes hon ydyw difaterwch gyda'r pethau pwysicaf.

Os nad ydyw yn ddydd goleu arnat, nid ydyw ychwaith yn nos dywyll. Mae yn amlwg dy fod yn dymuno, yn ceisio ac yn sychedu am ryw ansawdd grefyddol ar dy enaid, ac er pobpeth yn methu ei gael, yn methu ei gael yn agos i'th foddlonrwydd dy hun. Yr wyt yn arfer a gweddïo, da iawn; ond yn teimlo dy enaid yn oer a ffurfiol, a'th feddyliau yn wibiog yn yr ymarferiad â'r dyledswyddau. Yr wyt yn arfer darllen gair Duw i ti dy hun. Gwŷn fyd na byddai pob gwraig ieuanc yn gwneyd yn gyffelyb, ond er gwneyd, yr wyt yn methu cael y blâs a ddymunet brofi drwy hyny. Gwelaf hefyd dy fod yn bryderus am wneyd dy ran fel *mam*. Da iawn eto. Gresyn na byddai pob mam yn teimlo yr un peth. Mae yn wir dda genyf ddarfod i ti agor dy deimladau crefyddol mor rydd. Wel, i gyfarfod â thywydd dy feddwl y mae genyf i'w ddywedyd wrthyt, na fydded i'r pryder hwn golli o'th deimladau. Mae *ofn* i fod mewn crefydd. 'Ofnwn gan hyny.' Mae gair Duw yn mhob man yn edrych yn ffafriol ar yr ansawdd yma ar deimladau dyn.

* * * * * * *

"Os ydwyf yn dy ddeall yn iawn, y mae yr Arglwydd Iesu yn ùn i'w ddymuno genyt. * * * Cadw dy feddwl o hyd at y nôd yma o gredu yn yr Arglwydd Iesu. Er petruso ac ofni, cadw at y pwynt. Ond paid a dyrysu gormod gyda dy gredu dy hun, *h.y.*, na fydded i'r cwestiwn o gredu gymylu dy feddwl, na pheri i ti deimlo dy fod yn bell oddiwrth dy Waredwr. Mae tuedd mewn credinwyr y blynyddoedd hyn i wneyd eu credu yn gagendor poenus rhyngddynt â'u Ceidwad. Y gamp, pe camp hefyd, ydyw edrych pa beth ydyw Crist i bechadur andwyol, a phwyso arno yn llwyr a hollol.

* * * * * * *

"Byddi yn ofni, mi feddyliwn, rhag mai colli fydd y diwedd. Na, na, nid yn y cyfeiriad yna y mae colli. Mae hyny mewn cyfeiriad hollol wahanol. Cadw sydd yn y cyfeiriad y mae yn ymddangos dy fod di arno. * * * * Paid a disgwyl am ddim ond *cynydd graddol*. Nid ar 'hwb, cam a naid' y mae cyrhaedd y gamp, ond yn ddygn, yn ymroddgar, yn ddi-roi-i-fyny, eto yn benderfynol. * * * * *

"Y mae yn wir dda genyf ddeall dy fod yn athrawes yn yr Ysgol Sabbothol. Da iawn. Nid yn unig y mae arnom eisieu crefydd i'n *cadw*, ond hefyd i *weithio* dros Iesu Grist ar y ddaear. Amcana yn dêg at lenwi pob lle y mae Rhagluniaeth wedi dy osod ynddo fel Cristion. Mae 'peth daioni' yn gymeradwy ganddo Ef."

Yspaid o amser wedi hyn, y mae yn ysgrifenu y llythyr canlynol at ei ferch arall:—

"Anwyl Ferch,

"Derbyniais dy bŵt llythyr y boreu hwn. Da oedd genyf gael mymryn o'th deimlad crefyddol. Nid oes neb yn cael eu hesgeuluso yn yr eglwys yn hyn o beth yn fwy na gwragedd pregethwyr a blaenoriaid, oddieithr iddynt fel dy hen fam *fentro* dyweyd eu helynt heb i neb eu cymhell.

* * * * * * *

"Peth digon naturiol os bydd natur wedi ei churo i wendid ydyw, fod y meddwl hefyd yn agored i guriadau unrhyw a phob gelyn a ddymuna guro arno. Mae y gelyn hwnw bob amser wrth law ac yn gwylio ei adeg, a gŵyr yn dda pa fodd i guro y gwan i lawr, os goddefir iddo. Ac y mae y Gwaredwr grasol rywfodd yn goddef i'r ci hwn gyfarth ei blant a'i anwyliaid er eu hèl yn nês ato ei hun. Cofia hyn, y mae pobpeth, pa mor chwerw a chroes bynag, yn ateb dyben da i'r saint os byddant yn foddion i'w dwyn yn nês-nês at eu Duw. Yn wir, dyma yr allwedd i agoryd a myned i mewn i ddeall dirgelwch yr amcanion sydd i oruchwyliaethau chwerwon Duw tuagat ei blant, *eu dwyn yn nês ato ei hun*, a'u cymhwyso i fyw byth mewn mwynhad llawn ohono. Esboniad yr Apostol yn y darn pennod hynod yn y llythyr at yr Hebreaid ar amcan ceryddol tadol Duw ydyw, 'Eithr hwn er lleshad i mi, fel y byddem gyfranogion o'i sancteiddrwydd Ef.' Nis gall fod amcan uwch na hwn yn bosibl, bod yn gyfranogion o sancteiddrwydd yr Anfeidrol. Nid rhyfedd fod yr un Apostol yn dyweyd mewn lle arall, 'Ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni.' Rhaid felly ei fod yn odidog ragorol. A pha beth ar y ddaear a all fod mor odidog?

"Yr wyt yn cwyno yn dy lythyr dy fod yn cael dy guro i ddigalondid, yn gymaint felly nes wylo, a neb ar y pryd wrth law i dy gysuro. Yr oeddit yn cwyno nad oedd dy ——— yna gyda thi, ond y mae 'dy Iesu' wrth law bob amser. Y mae efe 'yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.' Ond dros bwy? Dros 'y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw.' Gwna yn fawr, fawr o orseddfainc y gras. Cawn fyned yno yn hyderus, heb haeddu dim. Trefn Duw i gyfarfod â'r tlawd a'r anghenus ydyw. Dyrchafa lef ato o'r fan lle byddi ac fel y byddi. Mae i ti ryddidl lawn i draethu dy holl helynt o flaen Duw yn ei enw Ef, a hyny, nid yn y cymeriad o Gristion, ond yn y cymeriad o bechadur tlawd, annheilwng ac heb ddim ond bratiau budron. Yn lle edrych o hyd

beth wyt ti a dy grefydd i Grist, edrych hefyd pa beth ydyw Crist yn holl olud ei ras i druan tlawd heb ddim. Oddiyma y daw goleuni, a 'Christ a oleua i ti.'

"Dywedi fod rhywbeth yn dyweyd wrthyt nad oes genyt ddim ond rhagrith. Y mae yn bur hawdd i ti ddeall o ba le y daeth y sibrwd yna i dy feddwl. O'r drwg, 'does dim os. Nid yw rhagrith y rhagrithiwr erioed wedi blino dim arno. *Cywirdeb* yn unig sydd yn ofni *rhagrith.* Tafl y cyhuddiad yna yn ol at ben y cyhuddwr fel y taflodd Luther yr *inkstand* at ei ben, a dywed yn groew yn ei wyneb, '*Celwydd* Satan.' Yr wyt, mi welaf, yn pryderu rhag nad ydyw dy grefydd o'r iawn ryw. Argoel dda o gywirdeb mewn crefydd ydyw fod dyn yn ddifrifol gyda mater ei enaid, yn ofni, yn pryderu, ac eto yn llefain ar y Duw byw. Tro dithau at Waredwr holl-ddigonol yn ngeiriau yr hen benill—

"'Dyma fi, Iesu, fel yr wyf,
A chuddia fi yn dy farwol glwyf,' &c.

"Yr wyt yn addunedu gweddïo mwy. Da iawn. Dechreu ar unwaith. Dywedodd hen chwaer wrthyf amser yn ol ei bod wedi gwneyd cyfamod â hi ei hun i daro at Dduw mewn gweddi fèr bob tro y clywai y *clock* yn taro : nid myned i'w hystafell bob tro, ond taro i weddïo mewn saeth-weddi pa beth bynag arall fyddai ganddi mewn llaw ar y pryd.

"Wel, anwyl eneth, da genyf dy fod yn graddol wellhau. Bydd dda dy amynedd, a bydd ofalus am dy iechyd. Glŷn wrth ddarllen, ond paid a darllen gormod. Dyro dy hun o hyd i Grist fel dy Waredwr, a phaid a meddwl mor isel ohono ag y gwna Efe *dreifflo* âg achos truan trallodus a geisio roddi ei achos iddo. Os byddwn ni o ddifrif, bydd yntau yn sicr o fod o ddifrif. Pob serch atat.

"Dy hen dad, Robert Ellis.

"O.Y.—Yr wyt yn gofyn i mi weddïo drosot. Byddaf yn arfer gwneyd coffa am fy holl blant mewn gweddi gerbron Duw bob amser, a hyny hefyd wrth eu henwau.—R. Ellis."

Pa fodd bynag, yn ei lythyrau at ei fab ieuangaf, y diweddar Humphrey E. Ellis, yn ystod ei arosiad yn y Drefnewydd, ac yn ei grwydriadau ôl a blaen am adferiad iechyd ac estyniad einioes, y cawn ef yn ei ddull rhydd, agored, yn tywallt ei holl galon, ac yn dadguddio ei holl gyfrinach. Y mae y llythyrau hyn yn llawer mwy tebyg i eiddo cyfeillion mynwesol at eu gilydd nag o dad a mab, gan mor ymglymedig ydyw y naill yn y llall. Yn nghanol yr amlygiadau uchaf o agosrwydd cyfaill, y mae serch a gofal y tad caredig yn dyfod i'r golwg mewn gwyliadwriaeth drosto a

chynghorion rhagorol iddo. Dyma fel yr ysgrifena ato yn fuan wedi ei fynediad i siop yn Drefnewydd :—

"Anwyl Humphrey,

"Derbyniasom dy lythyrau, y diweddaf y boreu hwn, a mawr oedd llawenydd dy fam a minau o'u darllen. Yr ydym yn lloni yn dy lwyddiant cychwynol hwn. Gobeithio y pery yn hir. Yr oedd dy law-ysgrif yn boenus o anhawdd ei deall. Ymdrecha i ysgrifenu *llaw gròn* fel dy dad. Yr oeddym yn casglu oddiwrth dy lythyr dy fod yn teimlo yn lled hapus ar y cyfan. Gwelwn y bydd raid i ti ddysgu rhyw fath o Saesoneg er dy waethaf. Da genym dy fod yn hoffi dy feistr a'th feistres. 'Wythnos gwâs newydd' ydyw arnat cofia, ond gobeithio mai fel hyn y parhâ o hyd. Da iawn oedd genym ddeall hefyd dy fod yn ymroddi i arferion crefyddol trwy fod yn gyson, mor gyson ag y gelli, yn y cyfarfodydd crefyddol. Dyma un ffordd i fod yn gymeradwy gyda Duw a dynion—*cysondeb*.

"Mae dy fam yn enwedig yn teimlo yn hiraethus ar dy ol, ond y mae hiraeth yn beth anadnabyddus i mi; eto y mae *pryder* yn gydymaith pur ffyddlawn i minau. Byddaf finau yn pryderu llawer yn dy gylch di a'r plant eraill. Carem gael genyt eto ychwaneg o hanes y teulu, y capel, &c.

"Bydd ofalus am dy iechyd, bydd ofalus o dy gymeriad, bydd ddarbodus gyda dy arian, paid gwario yr un geiniog yn ofer, paid benthyca, dysga gadw. Un o'th ddiffygion pwysig di ydyw peidio edrych yn llygad y geiniog. Gofala di am y geiniog, a gofala y bunt am dani ei hunan. Bydd ofalus hefyd o dy grefydd. Gwylia mewn lle dyeithr pwy a pha fath fydd dy gyfeillion. Gwna dy oreu i ddeall ffordd dy feistr a'th feistres, ac i'w boddio yn mhob peth. Bydd yn onest i'r eithaf, a gwna i dy feistr deimlo dy fod yn wâs o ymddiried. Bydd siriol gyda phawb, ac felly ti a enilli serch pawb. Paid er dim a throseddu rheolau y teulu trwy aros allan yn hwyr. Gochel ymdroi. Peth atgas i feistr ydyw cael hyny yn ei weinidog. Mae ymdroi braidd yn fagl i tithau. Hyd y mae ynot, ymgais am wellhau dy gôf. Cofia o hyd mai côf drwg sydd genyt. Yna ti a ymwellhäi. Y mae yn hawdd dy gynghori. Wel, gwna dy oreu. * * * * *

"Yr ydym oll yn cofio atat,

"Dy dad a dy fam, Robert a Jane Ellis."

Mewn llythyr arall ysgrifena :—

"Diolch i Dduw am dy fod yn cael gafael mor gref mewn pethau crefyddol. Dyma *y pethau!* *Y pethau* a berthynant i'n heddwch—

*y pethau* a râd roddwyd i ni gan Dduw—y *pethau* sydd uchod—y *pethau* ni welir a'r *pethau* sydd dragywyddol. Yn y pethau hyn y mae para. Ni raid bod yn llac gyda'r pethau tymhorol, er bod mewn gafael â'r *pethau* sydd uchod. Mae gan dy dad bregeth ar y *pethau.* Eu hadnabod, eu meddu, a'u profi yw y cwbl i ddyn.

* * * * * * *

"Bydd wych. Cadw dy feddwl yn siriol. Dianc rhag y prudd-glwyf i gysgod addewidion Duw, ac at dy waith. Cyflawna dy ddyledswyddau bydol dan ganu, a dy rwymedigaethau crefyddol â chalon lawen. Nid rhaid i'r hwn sydd yn ymddiried yn yr Arglwydd ofni pe symudai y ddaear. Bydd well-well.

"ROBERT ELLIS."

Adeg arall ysgrifena ato:—

"Pobpeth yn dda. Derbyniasom dy lythyr. Yr wyt yn weddol iach ni welwn, ac eto yn syrthio allan â rhyw bethau. Mae y gair *boddlonrwydd.* ni welwn, yn rhy uchel genyt, rhy gryf neu rhy rywbeth. Cymer dithau air arall—*hi ddaw yn well.* Gobeithia hyny. Ond ni ddaw byth yn well ar dy fam a minau yn y byd hwn o leiaf. Daw yn waeth pa fodd bynag. Yr ydym yn myned i waered i bantle annifyr henaint. Yr wyf yn cymeryd *phisyg.* Dywedodd ——— wrthyf nos Sadwrn wythnos i heno bod fy iau yn myned yn ddrwg, ac mi a'i credais, a dyna botelaid o *phisyg* ar unwaith. Yr wyf wedi *meddwl* fy mod yn sâl, ac y mae hyny cystal *a bod.* Yr wyf yn bwyta yn burion, ac eto y mae rhywbeth arnaf, blâs drwg ar fy ngenau, hen *lewini* câs fel y byddwn er's talm ar y *steamer* wedi rhyw haner glafychu o glefyd y môr."

Dro arall dywed wrtho yn nglŷn â'i iechyd:—

"Rhyngot ti a minau, yr wyf yn meddwl yn lled gryf am lusgo hyd y pedwar ugain oed. Ond dichon mai fel arall y bydd. Cefais oes go dda, a phur iach hyd yn hyn. Gadawer y dyfodol yn llaw yr Hwn sydd yn ei ddeall."

Yn mis Ebrill, 1878, ysgrifena at ei fab Owen a'i briod, i Detroit, America, ac yn mhlith pethau eraill, dywed:—

"Bydded i'r enaid gwerthfawr, anfarwol gael chwareu têg am ei bethau priodol ei hun, ei Waredwr ei hun, ei Feibl ei hun, ei Sabboth ei hun, ei foddion grâs ei hun, a'i nefoedd ei hun, yna bydd yn gadwedig! Gwneler y defnydd goreu o bobpeth. Gwneler i bobpeth ymestyn càn belled ag yr elo. Rhodder pobpeth yn ei le ei hun. Gwneler pobpeth yn ei adeg ei hun. Gocheler y gair garw, o achos gadawa archoll ar ei ol, tra y mae y gair mwyn yn feddyginiaeth. Byddwch ddyoddefgar mewn cystudd, yn dyfal-

barhau mewn gweddi, yn trysori sail dda erbyn yr amser a ddaw. Byddwch well-well, ac yna byddwch ddedwydd."

"ROBERT ELLIS, Ysgoldŷ, Arfon."

Rhoddwn yn unig un llythyr eto, yr hwn a ysgrifenwyd dan yr amgylchiadau hyn. Yr oedd merch ieuanc, câres i Mrs. Ellis, wedi bod yn aros gyda hwy yn Nghlwtybont, a chyn ymadael, dywedodd wrth Mr. Ellis nad oedd wedi cael cynghor ganddo o gwbl er pan oedd dan ei gronglwyd. Atebodd yntau yr anfonai un ar ei hol. Yn mhen ychydig ddyddiau, derbyniodd y llythyr hwn:—

"Anwyl Eliza,

"Byd gwŷn i ti. Bydd yn hogan dda: paid ag ymwylltio, paid a gwibio. Y mae y byd o'th flaen, ac y mae yn fyd tywyll. Y mae dy lwybr yn ansathredig, ni wyddost ddim o'i helynt. Os oes i ti ŵr, nis gwyddost pwy; os oes i ti dŷ, nis gwyddost pa le; os oes i ti blant, nis gwyddost pa faint na pha fath. Y mae i ti oes, ond nis gwyddost pa hyd. Nid oes un wrâch a all ddyweyd dy *fortune*. Yr ydwyt newydd gychwyn i'th daith, a gall fod i ti lawer o ffordd; ond y mae pob cam ohoni yn ddyeithr; am hyny, fy ngeneth, pwylla—cymer yn araf—ymgynghora—gweddïa—gwaedda ar Dduw, Ti yw Tywysog fy ieuenctyd. Meddwl ddwywaith cyn siarad unwaith. Gosod ddigon o bris arnat dy hun. Pe byddai raid i ti sefyll yn y farchnad am bum' mlynedd eto, paid a llyncu neb na dim ar yr olwg gyntaf. Cadw dy lwybr yn lân, a'th gydwybod yn dyner. Paid ag edrych ar y ffrwyth gwaharddedig. Paid a gwneyd na bychan na mawr heb ofyn cenad dy rieni, a chenad dy Dduw. Yr wyf o'm calon yn dymuno i ti bobpeth da. Dymuna dithau hyny i ti dy hun. Dyma i ti werth haner coron o gynghorion a chei *broffit* da arnynt ond i ti eu gwneyd.

"Bydd wych, a bydd well-well,

"Dy ewythr, ROBERT ELLIS."

---

## PENNOD X.

### BYR-NODIADAU.

*Y Pwlpud—Rheitheg a Rhesymeg—Rhipio yr A—Chwain Cymdeithas—Ochenaid y Siopwr—Côf drwg—Cyngor i Bregethwr—Cynghorion i Fugail—Damp yn yr Yspryd—Y Gôg a Llwyd-y-grug—Dyn a'r byd a ddaw—Llong yn yr Yard.*

---

Arferai Mr. Ellis ysgrifenu unrhyw sylwadau a ddeuent i'w feddwl fel ffrwyth myfyrdod ar wahanol faterion. Ceir y nodiadau yn ysgrifenedig mewn gwahanol lyfrau dan y penawdau, "Cadw ti gei," "Pobpeth yn ei le," ac "*Illustrations.*" Os teimlai fod sylw a

gaffai mewn cyfarfod eglwysig o werth, gofalai am ei gadw yn ei ysgrepan hon fel y byddai ar gael. Yr un modd ar ol darllen rhyw awdwr neillduol, byddai yn sicr o ysgrifenu i lawr yr hyn a enillai iddo ei hun fel ffrwyth myfyrdod ar y darlleniad hwnw. Defnyddir y bennod hon i roddi i'r darllenydd ddetholiad o'r cyfryw nodiadau, a hyny brith-draphlith o ran trefn yn hollol fel y ceir hwy ganddo yntau. Yr unig drefn a ymddengys ganddo ef ei hunan gyda golwg arnynt ydyw eu gosod i lawr o ran amseriad fel y byddent yn dyfod i'w feddwl.

"1. Y Pwlpud.—Y lle nesaf i'r farn mewn sobrwydd a difrifoldeb ydyw y *pwlpud*. Mae pob lle yn galw am sobrwydd, ond unlle gymaint felly a'r pwlpud. Mae agwedd ysgafn yn annheilwng yn mhob man, ond nid ydyw mor gythreulig yn unman a'r areithfa. Nid oes un lle y mae balchder yn gymeradwy, ond pan ddaw balchder i'r pwlpud, y mae yn wir ofnadwy. O holl weision Satan, y rhai mwyaf niweidiol i achos Duw ydyw y rhai hyny sydd yn ymwthio i'r pwlpudau. Y mae yr areithfa yn lle rhy ofnadwy i ddisgwyl gweniaeth ohono, yn lle rhy sobr i chwareu yr *actor* ynddo, ac y mae ei gyfrif yn rhy bwysig i neb fyned yno i ddangos ei hunan. / Y cythraul mwyaf ofnadwy mewn balchder o bawb ydyw hwnw a faidd ddringo grisiau y pwlpud i ddywedyd 'A welwch chwi FI?' Y rhai mwyaf eu cyfrif yn y farn ydyw y rhai a änt yno o'r pwlpudau, a'r rhai dyfnaf mewn trueni yw y rhai a änt i uffern trwy ddrws y pwlpud. Yr amser y byddwn gymhwysaf i ddringo i'r lle hwnw ydyw, pryd y gwesgir ni ddwysaf gan sefyllfa golledig y gwrandawyr. Ystyriaeth o dri pheth a barai y fath sobrwydd yn y meddwl nes sobri pawb eraill—(1.) Ystyriaeth o fawredd y Duw yr ydym yn siarad drosto. (2.) Gwerth yr eneidiau yr ydys yn siarad â hwynt. (3.) Y cyfrif pwysig sydd yn ein haros yn y byd nesaf. Y lle goreu i fyned i'r pwlpud ohono ydyw ystafell wyddfodol y Duwdod *(present chamber of the Deity)*. Geilw y pwlpud am y gweddïau taeraf, y myfyrdodau dwysaf, y llafur mwyaf diymarbed, y fuchedd ddisgleiriaf a'r profiad helaethaf o bethau ysprydol. Oh! fy enaid, ystyria y pwlpud! (Nos Sabboth, Awst 5ed, 1838, ar ol bod yn mhwlpud Cefnywaen).

"2. Rheitheg a Rhesymeg ydynt debyg i gorph a'i wisgiad. Y mae rhesymeg heb reitheg yn debyg i gorph noeth, heb wisg; gwirionedd ydyw heb ddim i'w addurno. Rheitheg heb resymeg sydd gyffelyb i ddillad gorwych wedi eu gwisgo am ddelw farw. Ond y mae y ddau gyda'u gilydd yn debyg i *ddyn* wedi ei wisgo mewn dillad hardd a gweddus. Y gwirionedd ydyw y peth mawr a phwysig, a moddion ydyw rheitheg i ddwyn y gwirionedd hwn i'r teimlad, a'i addasu i chwaeth y gwrandawr. Y mae fy'nghyfaill

J. O. yn dangos y rhesymeg gryfaf, ond gwirionedd fydd ganddo heb ei addurno â dim ond efe ei hun. Mae rhai dynion wedi derbyn pedair owns o feddwl, ac un owns o siarad. Derbyniodd eraill *un o feddwl* a *phedair o siarad*, ond y mae rhai wedi cael dwy owns o'r naill, a dwy owns o'r llall. Un mewn oes, pa fodd bynag, a dderbyniodd bedair owns o feddwl a phedair o siarad. Dyma bedwar dyn o flaen ein meddwl. Y cyntaf sydd ddyn mawr, ond annyben yn dyfod i'r golwg. Yr ail sydd siaradwr mawr ac ynfyd. Y trydydd sydd ganolig yn mhobpeth, a'r pedwerydd sydd *flaenaf* yn ei oes. Y trydydd wedi y cwbl sydd yn meddu y fantais oreu ac uchaf. (Ysgrifenwyd ar ol bod yn gwrando ——— yn siarad yn Hydref, 1839).

"3. Rhipio yr A.—Yr A yn ngwyddor fawr gwybodaeth ydyw hunan-adnabyddiaeth. Ond i ddyn ddysgu swnio hon yn iawn, gorchwyl bychan fydd swnio y lleill yn gywir. Deuparth gwybodaeth ydyw dysgu'r A yn iawn. Eto nid oes dim y gwna dynion ef yn fwy rhwydd na *rhipio* yr A, a gwaeth fyth, fe'i newidir gan ambell ysgogyn yn V, a dyma yr achos o siarad chwithig ambell i *grach-ysgolor*, swnio yr A yn V. Yr unig ffordd ddiogel i swnio y V sydd yn niwedd y wyddor yn iawn ydyw bod yn sicr o ddysgu yr A. (Ebrill, 1841).

"4. Chwain Cymdeithas.—Mae yn perthyn i gymdeithas yn gystal ag i natur ei chwain. Rhyw bethau bychain, duon, picioc, pigog, aflonydd ac anhawdd eu dal ydynt. Fel y mae ceisio cysgu mewn gwely y bydd llawer o'r creaduriaid hyn ynddo yn beth anhawdd a phoenus, felly nid difyr ydyw gorfod byw yn yr un gymdeithas â rhyw ddynionach bychain, pigog a sponclyd. Na ddeled fy enaid i'w cyfrinach. Dywedai Mr. Humphreys, Dyffryn, 'Mai pethau bychain sydd fryntaf wrth ddyn. Mae gan y march, yr ŷch a'r *elephant*, barch i ddyn, ond rhyw bethau bychain, megys gwybed a chwain ydynt y pethau mwyaf dibarch i ddyn.' Fel mân-bryfetach natur, felly y mae yr eiddo cymdeithas. Maent yn anhawddach eu dàl na nemawr i greaduriaid. Maent, nid yn unig yn bigog, ond hefyd yn bicioc, ac o bawb y dyn gwyllt ydyw yr anghymhwysaf atynt.

"5. Ochenaid y Siopwr yn herwydd ei gwsmeriaid hwyrol—

"'Da cefnu cyn y cyfnos—gwarthus
Yw gwerthu drwy'r nos;
Mae yn arw y rhaid aros
Rhoi neges i'r rhai'n agos.'

"6. Cof Drwg.—Hynod mor ddrwg ydyw côf rhai pobl. Fe ellid meddwl fod rhedeg ar eu côf yn rhan o'u crefydd. Ond nid

yw eu côf yn rhyw ddrwg iawn nes y deuant i foddion gras. Byddant yno fel pe byddent wedi gadael eu côf gartref. Nis gallant gofio dim, testyn, pregeth, cynghor nac addysg. Beth pe byddai côf y bobl hyn mor ddrwg yn mhob man arall? Fe ddyrysai pobpeth gyda hwy. Anghofiant pa le y byddant yn byw. Nis gallent gofio pa faint o arian, na pha faint o deulu, na pha faint o ddim fyddai ganddynt. Tybed y gallai côf mor sâl gadw mewn côf hyd yn nod eu henwau? Nid ar y côf, chwareu têg iddo, y mae y bai i gyd. Mae y drwg yn îs i lawr yn y meddwl. *Diofalwch* ydyw. Arferer y côf i wneyd ei waith yn briodol, ac efe a'i gwna. Gocheler rhoddi gormod o waith iddo ar unwaith. Wrth geisio cofio y cwbl, yn fynych anghofir y cwbl. Gwrandawer y bregeth oll yn fanwl, a chofier rhyw gyfran ohoni, y rhan fwyaf perthynol i ni o'r gwirionedd. Wrth ddarllen pennod neu wrando ar bennod yn cael ei darllen, arferer ein hunain i gymeryd meddiant o *rhyw air* fydd ynddi. Mae côf drwg i'w feddyginiaethu wrth ei arfer.

"7. Cynghor i Bregethwr.—Pregethwch i gadw y diafol yn effro. Gellir ofni wrth wrando ambell i bregeth fod yr yspryd drwg yn foddlawn ac yn teimlo y gall fforddio hepian a chysgu ychydig. Y mae y pregethwr yn effro, ac y mae y gwrandawyr yn effro, ond y mae y diafol yn cysgu! Pa fodd y mae felly? Am nad ydyw y pregethwr na'r gwrandawyr yn rhoddi dim trafferth iddo. Nid oes ganddo ddim i'w wneyd. Nid oes a wnelo y pregethwr â'i wrandawyr yn ddim pellach na'u difyru, dim ond boddio eu chwilfrydedd. Y mae y gwrandawyr hwythau wedi anghofio, am y pryd, fod arnynt eisiau dim arall. Maent yn foddlawn ar gael eu goglais a'u cosi. Y cwbl sydd yn myned yn mlaen ydyw chwareu, ac y mae y diafol yn ddigon boddlawn i'r gamp. Gŵyr yn dda nad oes dim a galeda ddynion yn gynt ac yn fwy llwyddiannus na chellwair gyda phethau cysegredig. Gan hyny, pregethwch i gadw yr un drwg ar lawn gwaith. Os bydd genych amcan difrifol i ddeffroi yr ystyriaeth, i gael y gwirionedd i'r galon a'r gydwybod, ac felly i'w gwaredu a'u gwellhau, gellwch fod yn sicr y bydd y diafol yn brysur gyda'i waith. Bydded i'ch gwrandawyr bob amser fod yn argyhoeddedig fod genych yr amcan pwysig mewn golwg o'u lleshau. Yr wyf yn cofio i mi unwaith gael brâth ofnadwy gan fy nghydwybod. Yr oeddwn yn pregethu yn ——— un prydnawn Sabboth, a'r hîn yn drymaidd iawn. Yr amcan cyntaf oedd cadw y gynulleidfa yn effro. Trwy hyny collwyd golwg ar y difrifwch sydd yn gweddu i'r pwlpud. Os llwyddwyd i gadw y gynulleidfa yn effro, ni lwyddwyd i wneyd dim arall, os nad i'w caledu. Ar ol dyfod i'r tŷ, dywedai un o'r brodyr, 'Yr oedd yna un dyn yn gwrando heddyw sydd mewn

trallod dirfawr am ei fater tragywyddol er's amryw wythnosau. Gwaeddodd rhywbeth o'm mewn inau mewn moment, 'Nid oedd *dim* yn y bregeth heddyw i ddyn *felly*.'

"8. CYNGHORION I FUGAIL. — (1.) Mynwch adnabyddiaeth bersonol o bob un sydd yn perthyn i'r eglwys a'r gynulleidfa. (2.) Gochelwch wneyd cyfeillion o *rai* yn fwy nag eraill. Gwnewch gyfeillion o bawb yn gyfartal. Gwnewch i bob un deimlo eich bod yn gyfaill iddynt. (3.) Ymwelwch â'r cleifion yn eu tai, ond gochelwch ymdroi yn hir. Arhoswch yn unig i gael ymgom grefyddol. Gochelwch y *chwedleugar*. (4.) Gwnewch i bob un deimlo eich bod yn ddyn o ymddiried, ac y bydd eu cyfrinach yn ddiogel genych. (5.) Peidiwch ag ymyraeth â gwaith blaenoriaid, eu gwaith gyda'r pethau amgylchiadol, oddieithr eu bod hwy yn eich cymhell i hyny. (6.) Byddwch yn feddylgar pa fodd i roddi pawb ar waith. Dyn gwerthfawr ydyw y dyn sydd yn meddu yspryd gweithio ei hunan, ac yn medru llwyddo i daflu hyny i eraill hefyd. (7.) Amcenwch gyda phobpeth at fod yn fyr ac i'r pwrpas. Mae pregeth hir, gweddi hir, araeth hir, yn bethau blinderus. (8.) Byddwch yn wyliadwrus rhag rhoddi achlysur i neb eich diystyru. 'Na ddiystyred neb di.' (9.) Cedwch yn glir â phob cyffröadau gwladol. 'Ni ddylai gwas yr Arglwydd ymryson.' (10.) Byddwch yn llafurus, ac yn llwyr ymroddedig i fyfyrdod ac astudiaeth nes gwneyd i bawb deimlo eich bod yn athraw iddynt teilwng o bob gwrandawiad ac ymddiried.

"9. DAMP YN YR YSPRYD.—Yr oedd dyn unwaith mewn siop *cutler* yn prynu ellyn *(razor)*. Yr oedd cryn nifer o'r arfau gloewon yn agored o'i flaen ar y *counter*, a'r dyn yn chwythu ar un o'r llafnau nes yr oedd pob llafn gloew yn llwyd gan *damp* oddiwrth ei anadliad arno. 'I beth y gwneir hyn?' meddai dyn a safai gerllaw. 'O, wel,' meddai y prynwr, 'y *metl* goreu deifl y *damp* i ffordd gyntaf.' Dyma yr addysg. Peth digon naturiol hyd yn nod i ddynion da wrth drafod pethau crefyddol ydyw cael *damp* yn yr yspryd. A phwy na bu yn teimlo felly? Ond cofier bob amser mai y *metl* goreu sydd yn taflu y *damp* i ffordd gyntaf. Y mae o bwys dàl ar hyn, oherwydd effaith naturiol *damp*, os caiff lonydd i aros ar yr yspryd ydyw, rhydu a *chancro*. Gwelwyd rhai dynion pur loew gyda chrefydd wedi *dampio*, rhydu a chancro, fel nad oeddynt dda i ddim ond i'w bwrw ymaith.

"10. Y GOG A LLWYD-Y-GRUG.—Gochelwn rhag i'r diafol ein trin fel y bydd y gôg yn trin ei gwas, llwyd-y-grug. Ni bydd y gôg byth yn gwneyd nyth i ddodwy, dëor, a magu ei chywion ynddo fel rhyw aderyn arall. Ond y mae yn gwylio am nyth llwyd-y-grug, a phan gaiff y nyth yn wâg, ä i mewn, gan adael ei

hŵy ar ol, a gadael i llwydyn druan y drafferth o'i ddëor. Gwna yntau hyny yn ddygn a diwyd, heb amheu unwaith nad ei ŵyau ei hun sydd ganddo i eistedd arnynt. Ond erbyn dëor, dyna gyw y gôg yn y nyth, ac nid hir y bydd y gwalch bach cyn gwneyd pob ymgais i ddistrywio y cywion sydd a hawl gyfreithlawn i'r nyth. Mae y diafol am drin dynion yn gyffelyb. Gwylia y cyfleusdra goreu i fwrw ei ŵy ei hun i galon Cristion. Beth ydyw *damp*, a beth ydyw tramgwydd? Wyau y diafol, a phan y dëora, daw cywion y diafol allan ohonynt. Ac amcan hwnw fydd, distrywio pobpeth da yn y galon. Na roddwch le i ddiafol. Nis gall y diafol wneyd drwg ond trwy gael benthyg nythod adar eraill. Na rodder y cyfle hwn iddo.

"11. Dyn a'r Byd a Ddaw.—Wrth edrych gyda glànau y Fenai, canfyddir lluaws o gychod na amcanŵyd hwynt erioed i ddim amgen na chwareu o'r naill làn i'r llall. Nid ydynt wedi eu hamcanu i fyned dros y *bàr*. Mae y llong fawr dri *mast* sydd yn gorwedd yn dawel ar ganol yr afon yn dyweyd yn eglur i bawb a'i gwêl ei bod hi wedi ei bwriadu i'r môr mawr i chwareu ar hyd wyneb yr eigion maith a gwyllt. Y mae ar hyd y ddaear luaws o greaduriaid na fwriadwyd mohonynt gan eu Creawdwr doeth i ddim ond i chwareu am dymhor byr hyd lànau amser, ac yna darfod am danynt. Ond dyn! y creadur ardderchog, gwir ardderchog yn ei greadigaeth! Mae hwn wedi ei fwriadu gan yr Hwn a'i gwnaeth, ar ryw adeg ddifrifol sydd o'i flaen, i godi angor, a hwylio dros y *bàr*, i gyffiniau mawrion a diderfyn y *byd a ddaw*. Peth difrifol yw bod yn ddyn!

"12. Llong yn yr Yard.—Dyma lestr newydd yn cael ei hadeiladu yn yr *yard*. Rhaid cael cryn amser i'w gorphen. Llawer o guro, naddu a chymhwyso sydd wedi bod arni, a llawer o goed rhyddion a ddefnyddir i'w dal yn ei lle. Mae y tŷ a adeiledir gerllaw i aros am oesoedd lle y mae. Ond nid felly y llong. Mae adeg o'i blaen hi y bydd yn llithro oddiar y blociau, gan adael yr hen *yard* a'i thaclau oll ar ol, ac i'r môr a hi. A chyda hwnw mwy y rhaid iddi hi ymdaro. Felly dyn. Mae llawer o wneyd a hwylio arno tra yn yr *yard*. Gwneyd mawr yw gwneyd *dyn!* Ond y mae y munyd difrifol wedi dyfod! Dyna ddyn yn llithro o'r hen *yard*, gan adael y byd a'r bywyd hwn, ei drafferthion a'i helbulon oll ar ol, ac i'r byd a ddaw, y byd mawr, ysprydol, a dyeithr hwnw! Dyna mwy fydd ei gartref tragywyddol ef. Difrifol iawn ydyw yr adeg pan y gorfydd myned yno!

"'Nid i'r ddaear hon y'm ganed,
Tragywyddoldeb yw fy lle.'

"Awst, 1868." "R. Ellis."

# PENNOD XI.

## "EI DIWEDD."

*Argoel o'r "diwedd"—Afiechyd ei briod—Marwolaeth ei fab Humphrey—Llesgedd ei natur—Ymdrechu am wellhâd—Dyddlyfr cystudd—Y bregeth ddiweddaf—Ei brofiad wrth lithro i'r glyn—Ei lythyr olaf—Ei farwolaeth—Ei gladdedigaeth—Cyfarchiadau cyd-lafurwyr yn y weinidogaeth—Pregeth angladdol—Ei gof-golofn.*

---

Y "diwedd a ddaeth," a hyny lawer iawn cynt nag yr oedd y cyfansoddiad cawraidd a chadarn y cafodd ei fendithio âg ef, yn rhoddi lle i'w berthynasau a'i gydnabod ddychymygu am dano. Hànai o deulu cryfion o gorph a hir-hoedlog mewn dyddiau. Bu ei fam fyw hyd yn 86 mlwydd oed, ac hyd yr ychydig wythnosau diweddaf o'i heinioes, yr oedd yn sionc, hoew a bywiog. Yr oedd yntau drachefn o gyfansoddiad mor ystwyth-gryf, fel nad oedd ryfedd o gwbl ei fod yn rhyw feddwl ei hunan o gryfder i gyrhaedd pedwar ugain mlynedd. Ond "nid edrych Duw fel yr edrych dyn; canys dyn a edrych ar y golygiad." Y mae "ei ddyddiau ef wedi eu rhag-derfynu, rhifedi ei fisoedd gyda" Duw, "a gosod ohono ei derfynau fel nad êl drostynt." Yn ngrym yr ystyriaeth hon, nid rhyfedd ei fod dair blynedd cyn i'r "diwedd" hwn ei ddal oddiar ymdeimlad o ryw *harmiad* bychan ar yr iechyd yn gofyn, "A ydyw angeu hefo'i *binsiar* main yn peidio tynu rhyw *bin* bychan o'r adeilad, er cael mantais i dynu darn mwy?"* Felly, pa fodd bynag, y troes allan yn yr amgylchiad hwn, ac fel hyn y dywed efe ei hun yr hanes:—"Yr oeddwn y dyn iachaf yn y wlad ar hyd fy oes nes myned heibio i ddeng mlwydd a thriugain oed, ac yn wir, yr oeddwn yn tybied fy mod felly yn nechreu mis Mai, 1880. Ond yn niwedd y mis crybwylledig, dechreuodd yr anadl fyrhau genyf, a theimlais fy natur oll yn cydlesgau. Erbyn i mi graffu ychwaneg ar fy helynt yn y blynyddoedd blaenorol, gwelais fy mod wedi dechreu gwanhau yn lled fuan ar ol gadael y triugain mlwydd oed.

"Yn niwedd Tachwedd, 1878, cymerwyd Jane Ellis yn sâl iawn gan glefyd y tân iddwf, a bu yn agos i angeu. Yr oedd y gauaf hwn yn un o'r rhai oeraf yn fy oes. Aeth ein morwyn adref yn sâl yr un adeg. Yr oeddwn inau gyda'r merched gan ofal a phryder

---

*Gwel tudalen 106.

yn gorfod bod ar fy nhraed nos a dydd. Effeithiodd hyn ar fy natur, curiodd fy nghnawd, a dechreuais besychu yn sych. Cafodd Jane Ellis wella, er y bu am fisoedd mewn gwendid mawr, a diolch i'r Arglwydd am ei harbed i mi." Yn mis Mawrth, 1879, bu farw ei fab ieuengaf Humphrey, yn bedair ar hugain mlwydd oed ar ol un mlynedd ar bymtheg o gystudd a dyoddefaint oddiwrth *epileptic fits*. Cafodd yr amgylchiad hwn argraff ddofn ar feddwl y tad, a chawn ef yn rhoddi mynegiant i'w alar a'i dristwch yn y geiriau hyn:—"Efe yn gyntaf o'n teulu a aeth i'r nefoedd. Aeth yno heb wybod beth oedd angeu mewn gwirionedd. O'i gwsg, syrthiodd i'r ffitiau, ac o'r ffitiau ehedodd yr yspryd anfarwol ymaith, gan adael y corph llesg ac anafus i lygredigaeth y bedd. Er ei fod yn afiach, mor chwith genym ein hystafell fechan hebddo! O fy mab Humphrey! Humphrey fy mab! Yr oeddwn wedi meddwl iddo fyw ar fy ol, ac y buasai ei lygaid ef yn gwerthfawrogi rhyw sylwadau a ysgrifenais o'm hanes yn y llyfr hwn. I ba beth yr ysgrifenaf air yn rhagor? Prysuro i fyned ar ei ol ddylai fy ngwaith fod. 'Myfi a äf ato ef, ond ni ddychwel efe ataf fi.'"

Bu y dyrnod hwn yn dilyn mor ebrwydd ar ol pryder afiechyd peryglus ei briod, yn llethol i'w gorph a'i yspryd ar y cyntaf, ond "pan ddaeth hamdden a hâf, dechreuais ddyfod o gwmpas. Yr oedd fy natur, pa fodd bynag, wedi derbyn *harmiad* heb yn wybod i mi. Gweithredai hwnw yn ddistaw a dirgelaidd, a minau yn tybied fod pobpeth yn *all right*. Erbyn dechreu hâf 1880, wele yr effeithiau yn tori allan mewn byrhad yr anadl, colli fy llais a gwendid cyffredinol." Ymgynghorodd â'r diweddar Dr. W. Jones, Plâshên (gynt Caergeiliog), a bu gyda Dr. Waters, Caerlleon, a dywedodd yr olaf mewn modd gonest wrtho fod ymollyngiad cyffredinol ei natur yn dyfod o gwmpas, ac fod ei gyfansoddiad a ymddangosai mor gryf oddiallan yn prysur dreulio ymaith yn fewnol, fel nad oedd ei ymddatodiad ond cwestiwn o ychydig amser yn unig. Gwnaeth bob ymdrech am adnewyddiad nerth trwy fyned i Drefriw a lleoedd eraill, ond nid oedd yn derbyn un lleshâd. "Er pob ymdrech, gwaethygu yn raddol fu fy helynt. Yr oedd fy natur yn llesgâu, ac yn ymollwng fel ohoni ei hun."

Daliodd ati i bregethu cyhyd ag y medrodd fyned o gwmpas, gan orphwys ambell i Sabboth a phregethu am ryw haner awr ddwywaith ambell i Sabboth arall. Yn ei "Ddyddiadur" y misoedd hyn, ni a gawn ei brofiad yn amrywio cryn lawer, fel y dengys y dyfyniadau canlynol:—

"Ionawr 9-15.—Y gwynt yn fŷr, fŷr, a bywyd ei hun yn flinder. Awydd cryf am gael 'ernes yr yspryd.' Ofn cyfarfod y Barnwr.

"Chwefror 6-13.—Ymdeimlo â'm gwaeledd. Ystyried fy mod o'r diwedd wedi cyrhaedd i 'rosydd Moab.' Dymunaf ar i'r cystudd lân-buro fy sothach, a thynu ymaith fy holl alcam, a'm gwneyd yn gyfranog o'i sancteiddrwydd Ef. Yna pobpeth yn dda.

"Chwefror 13-20.—Teimlo awydd cryf am ei chael yn glir rhyngof â'm Tad Nefol mewn iawn. 'O gwasgara'r tew gymylau,' &c.

"Mawrth 13.—Ysgoldŷ. Pregethu *farewell sermon* i'r hen gapel oddiar 1 Samuel vii. 12. Yr adgof o fywyd annheilwng bron a fy llethu, eto llefain o'r dyfnder.

"Ebrill 25.—Hiraethu am ei chael yn oleuach rhyngof â'm Tad Nefol.

"Mai 8-15.—Y mae fy nerth a'm calon yn pallu. O na allwn ddyweyd yn fwy croew, 'nerth fy nghalon a'm rhan yw Duw yn dragywydd.' Y mae wedi darfod arnaf yn hollol ond o Grist Iesu. 'A ffarwel am danaf fythol, oni chaf ei haeddiant ef.'

"Mehefin 4.—Methu cael hwyl ar fyw yn dduwiol.

"Mehefin 4-11.—Cael fy hun rhywfodd yn boenus o anmharod i newid dau fyd. Ceisio drwy bobpeth ymgydnabyddu â'm Gwaredwr.

"Gorphenaf 4.—Bu y gelyn yn dost iawn wrthyf neithiwr. Bygythiai fy nghau dros byth yn uffern, ond cefais ymwared mewn rhyddid i nesâu at orseddfainc y grâs.

"Gorphenaf 6-15.—Yn ymdroi tua Chriccieth, yn ceisio yfed gwynt y môr. Hwnw fel pobpeth yn cydweithio i brysuro yr ymddatodiad. Yr wyf fi a'r byd hwn yn prysur ddarfod â'n gilydd. Fy ngweddi ydyw am i mi gael fy ngwneyd yn gymhwys i'r byd a ddaw. Y mae yn ymyl!"

Ymadawodd o Griccieth y 15fed o Orphenaf, a gorphwysodd y noson hono gyda'i gares, Mrs. Owen, priod y Parch. T. Owen, Porthmadog. Aeth oddiyno dranoeth i Bettwsycoed i fod yn barod at y Sabboth. Pregethodd ddwywaith yno, y boreu ar "Grefydd bersonol" oddiar Rhuf. ii. 29, a'r nos ar "Bara beunyddiol," oddiar Matthew vi. 11. Dyma y tro diweddaf yr esgynodd i'r pwlpud i geisio pregethu o gwbl. Teimlai yn ddigalon oblegid ei lesgedd, canys dyma ddywed: "Dyfod adref yn llipryn gwael a digalon. *Rhaid* aros gartref bellach."

Awst 21, ysgrifena:—"Methu myned i Gaerhûn i bregethu. O'r gwely i'r gongl, ac o'r gongl i'r gwely yn ormod o daith. 'Ebrwydd y derfydd.' Cael ymosodiad ofnadwy o ffyrnig gan fy hen elyn anobaith. Llefain trwy y nos am oruchafiaeth. Bendigedig fyddo Duw! daeth yr oruchafiaeth yn yr ystyriaeth fod genyf le cryf i hyderu fy mod i a threfn gras Duw er's llawer dydd mewn gafael â'n gilydd. Trefn Duw i gadw pechadur, dyna y drefn i minau. Diolch am y goleuni a'r ymwared.

"Erbyn hyn (Awst 1881) yr wyf yn rhy lêsg a byr fy anadl i ddim ond i eistedd yn y gadair ac i orwedd yn fy ngwely. Bellach y mae yr holl lafur crefyddol ar ben. Mae y nos wedi fy nàl, fel nas gallaf weithio."

Parhaodd, pa fodd bynag, i godi rhyw gymaint bob dydd hyd y tridiau diweddaf, ac er mewn gwendid mawr, ysgrifenodd hyd y gallodd i orphen ei adgofion dyddorol am Gyfarfod Misol Arfon, a dydd Mawrth, yr 20fed o Fedi, y cawn ef yn ysgrifenu y frawddeg olaf yn nglŷn â'r ysgrifau hyn. Dyma fel y dywed am ei brofiad yn yr wythnosau diweddaf hyn :—

"Wrth fyned yn fwy-fwy anghymhwys i'r bywyd hwn, y peth mawr i mi bellach ydyw, cael fy ngwneyd yn gymhwys i'r byd ysprydol. Y mae bwrw golwg ar oes hir, a hono heb fod mor ffrwythlawn ag y buasai ddymunol genyf, yn drallodus i mi heddyw. Mae dau beth yn bur glir genyf. Yn gyntaf, fy mod yn bechadur brwnt ac annheilwng. Hanes fy meddwl trwy fy oes sydd yn fy lladd. Yr wyf yn sicr mai bratiau budron yw fy holl gyfiawnderau. Mae fy holl wasanaeth crefyddol yn halogedig. O, fy nybenion annheilwng! 'Pechadur yw fy enw, ni feddaf enw gwell.' 'O ba rai, penaf ydwyf fi.' Yn ail, yr wyf yn sicr mai trefn gras Duw trwy Grist ydyw fy unig obaith am ymwared. Fy ngweddi gyson ydyw, 'Ac a'm cair ynddo Ef, heb fy nghyfiawnder fy hun, yr hwn sydd o'r gyfraith.' Fy nghysur, fy ngobaith a'm cwbl ydyw trefn gras Duw yn Nghrist, fel y mae yn sicrhau diangfa, ac yn dwyn gobaith ymwared i'r penaf o bechaduriaid. Y fath gysur i mi ydyw yr ymadroddion Dwyfol, y tystiolaethau dianwadal ydynt yn agor drws gobaith o flaen pechadur andwyol! 'Gwir yw y gair ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid;' 'Awn yn hyderus at orseddfainc gras,' &c.; 'Am hyny, gan fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r cysegr,' &c.; 'A hwy, wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu, yr hwn a osododd Duw yn *iawn*,' &c. IAWN!! O air anwyl! Geiriau gwerthfawr iawn genyf hefyd ydyw, 'Yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymeradwy yn yr Anwylyd, yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras ef.'

"Yr wyf yn diolch i'm Tad Nefol am y cystudd, ac yn gweddïo am i mi trwyddo gael 'fy ngwneyd yn gymhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.' 'Pan y'n bernir, y'n ceryddir gan yr Arglwydd, fel na'n damnier gyda'r byd.' Yr ydwyf yn llithro i angeu mewn modd tawel, gan ddisgwyl am ei drugaredd ef, a chan lefain am fwy o oleuni."

Cafodd y goleuni hwn y llefai gymaint am gael ei fwynhau, fel

y dengys y llythyr canlynol a ysgrifenodd at y Parch. J. Hughes, D.D., Liverpool, a dyma ei ymgais olaf am byth i ysgrifenu llythyr:—

"Ysgoldŷ, Medi 3ydd, 1881.

"Anwyl Frawd,

"Diolch i chwi am eich llythyr caredig a llawn o gydymdeimlad. Yr wyf yn synu fod fy mrodyr a'm cyfeillion yn mhob man yn dangos y fath gydymdeimlad â mi yn fy nghystudd.

"Yr wyf yn deall yn burion fy mod yn llithro yn raddol i'r *glyn*. Ond y mae genyf Waredwr holl-ddigonol. Diolch iddo am beidio fy llwyr adael. Hyny a haeddais. Gweithiwch 'tra yr ydyw hi yn ddydd, *y mae y nos yn dyfod*.'

"Rhaid i mi fod ar fyr eiriau,

"Byddwch well-well.

"ROBERT ELLIS."

Yn yr adeg hon, disgwyl yr ydoedd, meddai, "am gyflawniad o addewid Iesu Grist. 'Myfi a'm hegluraf fy hun iddo.'" Cafodd hyny mewn modd amlwg a diamheuol, gan y clywid ef yn sibrwd mewn modd anwyl a mwynhaol lawer gwaith yn ei oriau olaf, "O! Iesu bendigedig!" a hyny pan yn rhy wan i fedru dyweyd dim arall. Ond fel y dywedai ei hun, ac y mae y dywediad yn gwbl nodweddiadol o'i holl fywyd, "Nid peth i wneyd arddangosiad rhodresgar ohoni ydyw crefydd, ond peth i'w *phrofi a'i mwynhau*, ac yr wyf finau yn ei chael felly mewn gwirionedd yn y dyddiau yma."

Yn y modd tawel, hamddenol yma yr aeth efe i mewn i'w orphwysfa nefol am wyth o'r gloch nos Sadwrn, y 24ain dydd o Fedi, 1881, yn 73 mlwydd oed. Yn ei fywyd, cydnabyddodd yr Arglwydd, a hyfforddiodd Duw ei holl lwybrau; ac yn ei farwolaeth, sylweddolwyd yn llythyrenol eiriau yr Arglwydd trwy y prophwyd, "Ni frysia yr hwn a gredo."

"A gwŷr bucheddol a ddygasant" ei gorph "i'w gladdu, ac a wnaethant alar mawr am dano ef." A ganlyn ydyw yr adroddiad o'r gladdedigaeth fel yr ymddangosodd yn y *Goleuad* am Hydref 8fed, 1881:—

"Ond heddyw dyma sydd i'w ddyweyd, 'Efe a fu farw ac a gladdwyd!' Y mae y corff tàl, lluniaidd, urddasol hwnw yn gorwedd dan briddellau y dyffryn yn mynwent Machpelah, yn mhentref Clwtybont, yr hen fynwent y bu ef ei hunan gannoedd o weithiau, mae'n debyg, yn gweinyddu ynddi mewn claddedigaethau. Y mae y wyneb llawn a hawddgar y byddem bob amser yn caru edrych arno, a'i rosynau erbyn hyn wedi gwywo dan

awelon marwolaeth. Y mae y llaw fu yn arwain yr ysgrifbin i gynyrchu cynifer o bethau mor ddetholedig a phrydferth yn gorphwys yn y beddrod tywyll. Y mae y tafod arianaidd fu am agos i haner canrif yn cyhoeddi efengyl y tangnefedd gyda'r fath nerth, wedi ei glôi gan angeu. Ddoe, ar y 30ain o Fedi, yr oeddem yn hebrwng ei weddillion i dŷ eu hir gartref. Er mai am haner awr wedi dau yr oeddid wedi hysbysu y cychwynai yr orymdaith ddifrifol o'r Ysgoldŷ, oriau cyn hyny yr oedd y cerbydau o bob cyfeiriad i'w canfod yn dylifo i'r ardal, a lluoedd ar draed yr un modd. Am yn agos i awr cyn cychwyn, aeth cannoedd ar gannoedd, y naill ar ol y llall, i gael un olwg ar ei wedd, welw erbyn hyn, ac nid ychydig o ddagrau gollwyd gan lu o'i hen gydnabyddion o bell ac agos. Cyn cychwyn oddiwrth y tŷ rhoed allan emyn briodol i'w chanu gan y Parch. W. Ryle Davies, un o'i hen ddisgyblion, a'r hwn erbyn hyn sydd yn weinidog ar eglwys Disgwylfa. Gweddïwyd yn dra phriodol gan ei gymydog a'i gydlafurwr yn yr ardaloedd, y Parch. W. Rowlands, Cefnywaen. Yna ffurfiwyd yn orymdaith bruddaidd; yn blaenu yr oedd y gweinidogion a'r pregethwyr, yn dri a thri; yna y blaenoriaid yn yr un drefn; wedi hyny y cantorion yn llu mawr; yn dilyn deuai yr elor-gerbyd; yna y cerbydau yn cynwys y teulu a'r perthynasau, ac wedi hyny luaws mawr o gerbydau eraill, a thyrfa ddirfawr ar draed. Bernir gan rai cymhwys i farnu nad oedd beth bynag lai na 4000 wedi dyfod i dalu y gymwynas olaf i'n hen dad anwyl. Cyn myned i'r gladdfa aed i gapel ëang Disgwylfa, yr hwn a orlanwyd gan gynulleidfa. Er mor ëang ydyw, yr oedd lluaws mawr yn methu cael dyfodiad i mewn. Cymerwyd yr arweiniad yn Disgwylfa gan y Parch. W. Rowlands. Wedi canu emyn, 'Ar lan Iorddonen ddofn,' &c., gweddïwyd yn dra gafaelgar gan y Parch. T. Owen, Porthmadog.

"Y Parch. W. Rowlands, cyn galw ar frodyr eraill, a sylwodd fod y diweddar Mr. Ellis wedi bod yn y weinidogaeth am wyth mlynedd a deugain. Yn ystod yr holl amser llafuriodd yn ei ardal enedigol. Ni bu ohoni o gwbl ond ychydig fisoedd. Er iddo barhau yn ei ardal ei hunan, yr oedd ei barch yn parhau hefyd, ac yn myned yn fwy at y diwedd. Edrychid i fyny ato ef am gynghor a chyfarwyddyd gan bawb. Yr oedd yn ddyn anymhongar—un o'r rhai mwyaf felly. Yn ei farwolaeth, y mae bwlch wedi ei wneyd, bwlch na lenwir mohono yn fuan, i'r un graddau ac yn yr un ystyr ag y llenwid ganddo ef. Yr oedd yn awyddus am anrhydedd, nid iddo ei hun, ond i'r Arglwydd Iesu Grist.

"Y Parch. H. Roberts, Bangor, a sylwai fod y golled ar ol ein diweddar frawd, Mr. Robert Ellis, nid i'r ardaloedd y bu yn llafurio

ynddynt yn fwyaf uniongyrchol yn unig. Yr oedd yn golled i Gyfarfod Misol Arfon, ac yn golled i'r Gymanfa. Y mae siroedd Cymru wedi cael colled. Yr ydym wedi colli dyn, ac wedi colli Cristion—Cristion enwog yn mysg ei frodyr. Yr ydym wedi colli gweinidog—gweinidog ffyddlawn, un o'r rhai mwyaf ffyddlawn yn y sir yma, ac yn siroedd Cymru. Os gofynir yn mha le y mae Mr. Ellis, yr un fyddai yn mhob Cyfarfod Misol—yn mha le y mae? Nid yw ar y ddaear, y mae wedi myned o'r byd hwn; y mae wedi myned o'r eglwys—yr eglwys filwriaethus. Nid yw yn un man ar y ddaear. Y mae wedi ei golli o'r weinidogaeth. Y mae wedi rhoddi ei swydd i fyny i Ben mawr yr eglwys. Y mae wedi ei golli. Ond y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig. Wedi cael *promotion* y mae ein brawd. Y mae wedi cael ei anrhydeddu. Y mae y geiriau hyny, 'Yr wyf yn ewyllysio lle yr wyf fi fod ohonynt hwythau hefyd gyda myfi,' wedi cael eu sylweddoli ganddo ef. Ni ddywedaf fi mai efe oedd y duwiolaf, ac ni ddywedaf mai efe oedd y pregethwr rhagoraf. Pe gwnawn i hyny, mi a wnawn gam â chenedlaeth pobl yr Arglwydd. Ond mi a ddywedaf ei fod ef heddyw yn dduwiolach na neb sydd ar y ddaear. Y mae ei wybodaeth erbyn hyn yn helaethach na gwybodaeth neb sydd ar y ddaear. Nis gwn i ddim yn mha sefyllfa y mae yn y Nefoedd—pa safle y mae wedi ei chymeryd. Nid oes fawr eto er pan y mae wedi myned yno. Ond y mae ei ddedwyddwch yn berffaith. 'Y mae efe wedi marw, yn llefaru eto.'

"Y Parch. G. Jones, Tregarth, a ddywedai ei fod yn teimlo yn alarus ar ei ol. Yr oeddem yn gyfoed, yn gyd-ieuenctyd. Yr oeddem wedi ein geni a'n magu yn y wlad hon, ac wedi aros ar hyd ein bywyd yn y wlad hon. Buom ni yma o hyd. Y mae yma rai eraill wedi eu geni a'u magu yn y wlad, ond nid ydynt cystal a ni. Y maent hwy wedi bod yn crwydro tipyn. Dechreuais i bregethu flwyddyn neu ddwy o'i flaen. Yr adeg yr oeddym yn dechreu pregethu, yr oedd ef yn son am fyned allan yn genhadwr. Ysgrifenodd lythyr at Parry, o Gaer, gyda golwg ar hyny. Cymdeithas Genhadol Llundain oedd yn bod y pryd hwnw. Byddai y Gymdeithas hono yn cael ein harian ni, ond byddent yn gwrthod ein pobl ni. Am hyny, cyn hir, fe ffurfiwyd cymdeithas genadol i ni ein hunain. A phe buasai y gymdeithas hon yn bod yr adeg hono, diau y buasai ein hanwyl frawd wedi myned allan. Yr oedd o yn ddyn gwrol iawn, yn wahanol iawn i mi. Ac am ei fod yn fwy gwrol a phenderfynol na mi fe aeth o 'mlaen i er's talm. Fe'm gadawodd i fel pregethwr a phobpeth. A dyma fo wedi myn'd o 'mlaen i eto. Fel arall y byddem ni yn trefnu gyda'n gilydd. Fe fyddem ni yn trefnu i mi fyned i ffwrdd yn nghyntaf. Ond dyma

fo wedi ein gadael ni yn gynarach nag yr oeddem ni yn meddwl iddo fo wneyd. Y mae wedi cael cadw noswŷl yn gynar. Felly y mae meistr ag anrhydedd ynddo yn gwneyd gyda gweision da bob amser. Y mae yn gadael iddynt gadw noswŷl yn gynar. Felly am ein hanwyl frawd, cafodd gadw noswŷl yn gynar. A dyma ni heddyw yn myned a'i gorff i'r bedd. 'Dallwn ni ddim gwneyd dim gwell iddo heddyw. Ac yr ydym yn cael ei ro'i mewn lle go dda hefyd—ei ro'i yn y lle 'y gorweddodd yr Arglwydd.' Dyma y gymwynas olaf allwn ni wneyd iddo, ei ro'i yn y bedd. Y mae gan Iesu Grist un gymwynas eto i'w wneyd iddo, ei godi o'r bedd. Bendith y Nef fyddo ar ei deulu, ar ei weddw yn arbenig. Y mae hi wedi dyfod i berthynas newydd â Duw yr wythnos yma. Hi all hawlio Duw dan deitl nas gallasai ei hawlio erioed o'r blaen, 'Barnwr y gweddwon.'

"Y Parch. T. Roberts, Jerusalem, a ddywedai mor fawr oedd y parch a deimlai tuagat y diweddar Mr Ellis. Yr oedd wedi ei gyfarfod am y waith gyntaf yn llettŷ y pregethwyr yn Liverpool. Yr oedd dau beth ynddo wedi ei daro yn neillduol, un o ba rai a ganfu, wedi iddo ddyfod i'w adnabod yn well, nad oedd wir am dano. Un o'r ddau beth oedd ei gariad at y gwaith, a'i ymroddiad i'r gwaith. Po fwyaf cydnabyddus y deuai â Mr. Ellis, cai fod hyny yn hollol wir am dano. Peth arall ynddo oedd ei ymddygiad swta, ac ymddangosiadol sarug. Ond wedi dyfod i Arfon i breswylio, a bod gryn lawer yn ei gymdeithas, yr oedd dyn yn dyfod i'w hoffi yn fwy fwy o hyd, ac yn dyfod i weled nad oedd dim sarugrwydd yn ei galon. Yr wyf yn gobeithio y cawn ni eto ei fwynhau yn ei ysgrifeniadau. Yr oedd yn ysgrifenydd Cymraeg rhagorol a gwych. Y mae ei ysgrifeniadau yn cynwys profion fod ynddo wir athrylith. Yr oedd yn esiampl o Fethodistiaeth dda, o Fethodistiaeth Arfon. Ychwaneg na hyny, yr oedd yn Fethodist Calfinaidd. Ac yr oedd yn fwy na hyny, yr oedd yn gallu cydymdeimlo â phob plaid grefyddol. Dywedai air mewn Cyfarfod Misol amser yn ol oedd yn profi hyny, pan yr oedd gweddïo dros y weinidogaeth yn destyn ymddiddan, i berwyl felly, na byddai byth yn cychwyn o'i ystafell ar brydnawn Sadwrn, pan yn myned i'w daith Sabboth, heb ofyn i'r Arglwydd fendithio nid yn unig ei weinidogaeth ef ei hunan, ond gweinidogaeth ei holl frodyr gyda phob plaid grefyddol. Dyna i chwi rywbeth 'Catholic' yn ngwir ystyr y gair. Y mae dau air o'i eiddo ag y mae yn gweddu i ni eu hystyried yn ddifrifol. Un o'r ddau oedd y cwestiwn y clywid ef yn ei ofyn yn fynych, Beth wnewch chwi o'r holl bobl annuwiol sydd yn yr eglwysi? A dyna y gair arall, Nad oes obaith am lwyddiant crefydd yn y wlad heb gael diwygiad crefyddol grymus.

"Y Parch. D. Morris, Bwlan, a sylwai fod amlder ei feddyliau o'i fewn yn peri iddo fethu gwybod pa beth a ddywedai. Pe y methwn a dyweyd dim gan fy nheimladau, dywedwch am danaf, 'Wele fel yr oedd efe yn ei garu.' Dydd o alar mawr yw heddyw. Dylai fod yn ddydd o ddiolch mawr hefyd. Yr ydym wedi colli un ag y cyflawnwyd llawer o dystiolaethau y Beibl ynddo. Nid oes gan neb ddim i'w ddyweyd ond y da am dano. Fel y dywedwn weithiau am ambell un, 'Cystal ag y disgwyliwch iddo fod.' Fe fu ein brawd Mr. Ellis felly, cystal ag y gallesid disgwyl iddo fod. Beth pe gallesid dyweyd hyny am bob un sydd yn y gynulleidfa fawr hon? A fyddai gan ryw un ohonoch rywbeth i'w ddyweyd fel pe dywedwn am dano yn ngeiriau y Beibl, 'Yr oedd efe yn ŵr cyfiawn'? Daw i fyny âg aml un o hen dduwiolion y Beibl. Pe y dywedwn air arall am dano, 'Gyda Duw y rhodiodd efe,' a oes rhywbeth gan neb ohonoch i'w ddyweyd yn erbyn hyny? 'Yr oedd efe yn ŵr Duw.' A oes yma ryw un a wrthwynebai y dywediad yma am dano? Yr oedd yn ŵr Duw atoch chwi, ac yn ŵr Duw trosoch chwi. Nid adnabum i yn fy oes neb ffyddlonach nag ef. Beth y mae y dyrfa yma yn ei ddyweyd? A fuasai rhywun, ond ar gyfrif ei ffyddlondeb a'i ddaioni, yn peri fod cynifer â hyn yn dyfod i'w gladdedigaeth? Fe barhaodd ysbryd y gwaith ynddo hyd y diwedd. Nid oedd yn ymresymwr ond yn ergydiwr. Yr oedd yn rhy frysiog i ymresymu. Ond gallai ergydio i wneyd i fyny am y diffyg.

"Terfynwyd y gwasanaeth yn y capel drwy weddi gan y Parch. D. Morris.

"Wedi gosod y gweddillion i orwedd yn y bedd, cyfarchwyd y dorf gan y Parch. W. Herbert, Cysegr. Dywedai fod pawb ohonom yn barod i ddyweyd heddyw fel Eliseus ar ol Elïas, 'Fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel a'i farchogion.' Y mae gwas ffyddlon i'r Arglwydd fel yr un a gleddir heddyw yn dad i'w genedl a'i wlad. Ac fel y mae cerbydau rhyfel a marchogion yn foddion i amddiffyn y wlad, felly y mae gwŷr da fel hyn yn amddiffyn i wlad rhag drygau. Colled yr ardal yn fawr am un oedd wedi ei osod yn wyliedydd i dŷ Israel, am un oedd yn penderfynu bod yn lân oddiwrth waed pawb oll. Bu ei weinidogaeth yn afaelgar a miniog. Beth wnaethoch chwi, ei hen wrandawyr, â'i weinidogaeth? Nis gellwch fyned heibio i orsedd y farn heb i'ch cyfrif fod yn frith gan bregethau, cynghorion, a rhybuddion Robert Ellis. Ein dyledswydd ni heddyw ydyw gogoneddu Duw ynddo ef. Er fod yma un llestr pridd a ddygai ynddo y trysor anmhrisiadwy wedi ei dori, eto y mae y trysor ei hunan yn parhau yn ei gyflawnder. Gweddïwn am i Arglwydd y cynhauaf anfon gweision i'w gynhauaf."

Yr oedd yn bresenol gorph mawr o weinidogion, pregethwyr a blaenoriaid Arfon, yn nghyda lluaws o gydlafurwyr iddo o siroedd ereill, heblaw miloedd o drigolion yr ardaloedd cylchynol, wedi dyfod yn nghyd i dalu y gymwynas olaf i un oedd mor barchus ganddynt, ac un a weithiodd argyhoeddiad i gydwybodau pawb a'i hadwaenai mai gŵr Duw ydoedd mewn gwirionedd.

Traddododd y Parch. Rees Jones, Brynmenai, bregeth angladdol i Mr. Ellis yn nghapel Disgwylfa noson y gladdedigaeth, i gynulleidfa luosog a llawn galar gan ymdeimlad o golled, oblegid y gwyddent "i dywysog ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel." Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. William Thomas, Dyffryn, a phregethodd Mr. Jones yn afaelgar a grymus oddiar 2 Timotheus iv. 7, 8: "Mi a ymdrechais ymdrech dêg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon rydd yr Arglwydd, Barnwr cyfiawn, i mi y dydd hwnw, ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef."

Darfu i bwyllgor Undeb Llenyddol Deiniolen gynyg gwobr o ddeg gini am Bryddest Goffadwriaethol iddo ar gyfer eu cylchwyl flynyddol, dydd Nadolig, 1882, gan ymddiried y gorchwyl o feirniadu i'r prif-fardd Gwalchmai. Allan o bump cyfansoddiad gwir ragorol, barnwyd yn oreu bryddest "Yr Eryr," sef y Parch. G. Tecwyn Parry, Llanberis. Y mae y cyfansoddiad hwn gyda'r feirniadaeth arno wedi ei gyhoeddi yn llyfr destlus.

Yn mis Mai, 1883, gosodwyd Côf-adail ysgwâr, gyda *Draped Vase* ardderchog ar ei phen, o *Aberdeen Red Granite*, i ddynodi "man fechan ei fedd" ar draul y teulu, ar yr hon y mae yn gerfiedig:—

ER COF AM

Y PARCH. ROBERT ELLIS,

YSGOLDY,

A FU FARW MEDI 24, 1881,

YN 73 MLWYDD OED,

WEDI PREGETHU GYDA'R TREFNYDDION CALFINAIDD

AM 48 MLYNEDD,

A GWASANAETHU EI ARGLWYDD GYDA

PHOB FFYDDLONDEB.

"A FU FFYDDLAWN YN EI HOLL DY, MEGYS GWAS."

Pa mor anrhydeddus bynag y dichon y gôf-adail hon gael ei hystyried, y gwirionedd ydyw yn ngeiriau Tecwyn :—

"Ei fywyd sanctaidd yma dan eneiniad
A erys yn wyrdd-lesni i'w gymeriad ;
Côf-golofn gras a fydd ei fywyd ef
Yn tlws arddangos pur rinweddau'r nef ;
A'i eiriau erys yn ysprydion byw
I anfarwoli enw gwron Duw."

Terfynir hanes y diwedd hwn a ddaeth yn rhan iddo yn ngeiriau diweddaf yr adroddiad crybwylledig o'r gladdedigaeth :—"Bellach, heddwch i lwch y diweddar ffyddlawn Robert Ellis, Ysgoldŷ, a nodded y nef fyddo dros ei weddw a'i blant, ei frodyr a'i chwiorydd galarus. O'i blant y mae pump yn aros, Mr. R. B. Ellis, Clwtybont ; Mr. Ellis E. Ellis, Ysgoldŷ ; Mr. O. R. Ellis, yn America ; Mrs. J. Owen Jones, Capel Coch, Llanberis ; a Mrs. D. P. Williams, Medical Hall, Llanberis. Duwioldeb ac ymroddiad eu tad a'u taid ddisgyno yn helaeth ar y plant a'r wyrion. Ei ddiwedd tangnefeddus ef fyddo eu diwedd hwythau un ac oll."

---

## PENNOD XII.

### "DYN DUW."

*Cymeriad Mr. Ellis yn nghyfuniad y ddau air hyn—Mr. Ellis fel Dyn—Darlun desgrifiadol ohono—Fel meddyliwr—Athrylith, ei natur a'i nodweddau—Mr. Ellis yn ddyn o athrylith—Symledd a naturioldeb—Y Pregethwr a'r Ysgrifenydd—Craffder sylwadaeth—Dyn Duw—Ei grefydd bersonol—Mr. Ellis fel Pregethwr—Nodwedd ei bregethau—Darlun ohono yn y Pwlpud—Mr. Ellis yn y Cyfarfod Eglwysig—Ymweled â Chleifion—Yn y Cyfarfod Misol a'r Gymdeithasfa—Ei dynerwch at bregethwyr ieuainc—Mr. Ellis fel masnachydd—Fel gwladwr—Cyfanrwydd ei gymeriad.*

---

Rhoddir i ni yn nghyfuniad y ddau air yma a ffurfiant destyn y bennod hon grynhodeb cyflawn o nodwedd a neillduolion gwrthddrych ein sylw presenol. Yr oedd Mr. Ellis yn *ddyn*, ac yn un o'r esiamplau goreu o'r ddynoliaeth uchaf mewn corff a meddwl. Ond pa mor rhagorol bynag yr ymddangosai

fel dyn, yr oedd ei fod yn "ddyn Duw" yn addurn a choron ar y cwbl.

Fel y dywed efe ei hun mewn un cysylltiad, nas gall dyn, er cael pob gras, fod yn ddim uwchlaw *dyn grasol,* felly y rhaid cydnabod na wneir i fyny mewn cael pob gras am y diffyg o'r hyn sydd hanfodol i *ddynoliaeth* ardderchog. "Er i ti bwyo ffôl mewn morter a phestl yn mhlith gwenith; eto nid ymedy ei ffolineb âg ef." Pa mor wrthun bynag y swnia yr ymadrodd *dyn ffôl duwiol,* y mae yn enw digon priodol ar y neb sydd ganddo ddynoliaeth sâl o radd isel, ac eto y gwêl Duw yn dda trwy ras ei achub. Felly i sicrhau defnyddioldeb mewn bywyd a chymeradwyaeth ein crefydd i at-dynu eraill at y Gwaredwr, y mae o'r pwys mwyaf, nid yn unig ein bod wedi ein geni o Dduw, ond hefyd fod dynoliaeth hyd yn nod "yr hen ddyn" ei hunan yn meddu olion amlwg o elfenau gwir fonedd natur. Y mae *dyn* eto yn werthfawrocach nag aur coeth; ïe, *dyn* na chûn o aur Ophir.

Cafodd gras y fantais hon ar Mr. Ellis o gael dynoliaeth wir ardderchog i fod yn sylfaen cymhwysiad arno i yrfa o ymroddiad a hunan-aberthiad dros Iesu Grist. Yr oedd efe yn *ddyn* yn llawn ystyr y gair, ac fel "dyn Duw," sancteiddiwyd y ddynoliaeth hon i ymgysegriad trylwyr yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Yr oedd ei ddynoliaeth trwy ras yn cymeradwyo yr Efengyl i bawb a'i hadwaenai.

Teimlwn raddau neillduol o anhawsder i dynu portreiad o'i ddynoliaeth allanol, am nad oes genym ymddiried yn ein gallu desgrifiadol i wneyd cyfiawnder â'r gwrthddrych. Nis gwyddom yn nglŷn â'r anhawsder hwn pa un fwyaf ydyw gyda golwg ar y rhai a'i hadwaenai yn bersonol ynte y rhai na chawsent y fantais hono. Gyda'r blaenaf, ein perygl fyddai syrthio yn îs na'r hyn a ddisgwylid; a chyda'r olaf, ofni yr ydym nas gallwn roddi ond darlun anmherffaith iawn ar y goreu. Dan yr amgylchiadau, nis gallwn wneyd yn well na gosod yma ddesgrifiad ohono o ran "y dyn oddiallan" yr anrhegwyd ni âg ef gan ein cyfaill medrus yn y cylch hwn o athrylith lenyddol, y Parch. G. T. Parry. Dyma fel y desgrifir ef ganddo:—

"Yr oedd urddas yn perthyn i ddynoliaeth Mr. Ellis uwchlaw y cyffredin o ddynion. Yr ydym yn cofio sylwi arno yn arbenig un tro pan yr eisteddai yn Nghadair Lywyddol Cyfarfod Misol Arfon. Y mae yn cyfodi ar ei draed. Y mae yn ei *humour* naturiol ei hun heddyw—pob ysgogiad o'i eiddo yn naturiol ac awgrymiadol, a'r *peth hwnw*—nid oes enw i'w roddi arno—sydd yn bod pan y mae meddwl dyn o ran ansawdd yn gartrefol, yn rhoddi eneiniad ar bobpeth a berthyn iddo.

"Ymdrechwn dynu ardeb bychan ohono yn ei gorph ac ansoddau ei feddwl bywiog er mwyn i'r oes a ddêl gael rhyw syniad am ei neillduolion.

"Meddai gorff lluniaidd iawn, tàl, a hoenus yn ei ysgogiadau, syth a glân o ran ei brydwedd, yn gydnerth a gogyhyd ei esgeiriau, ac yn ei symudiadau yn sydyn fel y gwynt. Mor ddynol ydyw ffurf ei wyneb, ac y mae y graen sydd ar ei wyneb yn sicrwydd fod bywyd yn gryf yn ei gyfansoddiad. Y mae ei ben o faintioli ychydig yn fwy na'r cyffredin, talcen uchel, llydan a llawn, yr aeliau braidd yn drymaidd, a dau lygad byw, chwareus, a thyner pan y mae pobpeth yn iawn, ond yn dân byw, fflamllyd, a gwibiog pan y mae rhywbeth o'i le ynddo ef ei hun, neu ynte mewn rhywrai eraill. Y mae y gruddiau, y trwyn, y genau, a'r ên yn naturiol, holl ranau y wynebpryd yn cyfateb i'w gilydd mewn ffurf a maint, a theimlir wrth edrych arno ei fod yn *specimen* da o'r wynebpryd dynol yn ei arddunedd cynhenid, a choronir y nodweddion prydferth hyn âg urddas yr henafgwr—gwallt gwŷn fel y gwlân.

"Yr oedd amrywiaeth yr *expressions* yn y wynebpryd bron yn ddiderfyn, ac yn hollol ddarostyngedig i'r *mood* hwnw y byddai ei feddwl ynddo ar y pryd.

"Yr oedd yr olwg allanol hon arno yn *gredit* i'r Cyfundeb y perthynai iddi, ond yn y 'dyn oddimewn' yr oedd ei wir ragoriaeth, oblegid ei neillduolrwydd mawr, a'r hyn oedd yn achos o'r holl ysgogiadau sydyn, nwyfus, gweledig oedd y meddwl gwreiddiol, annibynol, nwyfus a chwareus oedd yn gweithredu yn yr anweledig. Hwn oedd yn edrych yn llym neu dyner trwy y llygaid, yn ol ei deimlad pruddglwyfus neu lawen ar y pryd—yn gwrando, er heb glywed ond ambell air gan absenoldeb meddwl, ac yn y cynhyrfiad yn peri iddo neidio i fyny yn fyw o drydan gwyllt, dirëol, ac weithiau yn carlamu yn mlaen, heb ffrwyn y farn i lywodraethu ei gamrau trystiog a nwyfus i'w dwyn dan rëol—yn gyru yn mlaen gan godi ei lêf yn grâs, a'i drem yn wyllt, yn eistedd yn sydyn, yn synfyfyrio—yn cyfodi eilwaith—yn sefyll yn fud—yn tyneru yn ŵyl fel baban yn ei gryd, ac *yn galw ei eiriau* yn ol. Y gweithrediadau rhyfedd hyn oeddym ni yn eu gweled, ond yr oedd yr achos mawr ohonynt yn anweledig yn y meddwl gwreiddiol, hoenus, oedd yn rhydd ac yn nghanol ei nwyfiant. Cymerai y pethau hyn le weithiau pan na byddai neb yn disgwyl am danynt, ond yr oeddynt yn amlygiadau neillduol o nodweddion ei feddwl, yn ei arabedd llym a ffraeth, a'i dynerwch prydferth yr un pryd.

"Plentyn natur ydoedd mewn gwirionedd, a thyfodd hyd y

diwedd, gan gadw ei neillduolion er holl nerth dynwaredol ac unffurfiol yr oes. Tra yr oedd pawb bron yn sefyll, cerdded ac yn edrych yn yr ystûm, yn meddwl ac yn siarad yn yr un dôn, yr oedd ef yn eu canol yn cadw ei neillduolion ei hun, ac enillodd ei le yn anrhydeddus fel y cyfryw yn holl gysylltiadau ei fywyd. Un Robert Ellis a fu, ac ni ddaw arall ar ei ol. Y mae y *type* wedi ei roddi i'w gadw. Ond erys ei gymeriad crŵn, cyfan a phur yn gôfgolofn ardderchog iddo yn ei wlad, ei eiriau ffraeth fyddant yn ysprydion byw trwy gymoedd Eryri am lawer oes, a'i athrylith dlôs a flagura yn ei ysgrifeniadau tra y darllenir iaith y Cymry. Heddwch i'w lwch."

Eithr nid oedd y dyn oddiallan, er mor ardderchog, ond y babell, yn yr hon y preswyliai yr enaid anfarwol a gafodd ei fodolaeth yn ngwaith Duw yn anadlu yn ei ffroenau ef anadl einioes. Yr enaid hwn ydyw y dyn mewn gwirionedd. Dyma addurn a choron rhagoriaeth creadigaeth dyn, a dyma ogoniant dynoliaeth y gwrthddrych dan sylw. Meddiannwyd ef yn nechreuad ei oes âg argyhoeddiad dwfn o uwchafiaeth yr enaid ar y corff, ac o'i ddyledswydd yntau mewn canlyniad i feithrin, diwyllio a choethi galluoedd yr enaid hwn i'r gradd uchaf o berffeithiad y gallai ymestyn ato. Y mae ei hanes boreuol yn ei ddangos yn un a lafuriai yn ddyfal yn y cyfeiriad yma. Y canlyniad fu, daeth yn feddyliwr ac yn gymeriad hollol ar ei ben ei hun. Nid ydym yn dyweyd ei fod yn uwch fel meddyliwr na dynion yn gyffredin, ond trwy y cwrs o astudiaeth a sylwadaeth y disgyblodd ei hun drwyddo, daeth yn feddyliwr nad oedd undyn am foment yn tybied ei fod yn ceisio efelychu neb arall. Gwnaeth ffurf neu gynllun *(mould)* o feddwl a barodd ei fod yn ymddangos yn hollol fel efe ei hunan, ac nid neb arall. Yr oedd o feddwl yn hoenus, pert a sydyn, ond yn hollol dlws a naturiol. Rhoddes hyn fath o fireindra i'w ddull o feddwl a'i gwnai bob amser yn llawn o swŷn i wrando arno. "Nid yw pob pren yn y goedwig yn tyfu yn yr un ffurf, er bod y bywyd sydd yn yr oll yr un o ran natur; ond gwahaniaetha yn y dadblygiad ohono. Yr un modd y gellir dyweyd am y bywyd dynol. Nid ydyw hwn ychwaith, er yr un o ran natur, yn dadblygu yn yr un ffurf, oblegid fel rheol y mae i bob dyn nodwedd gynhenid sydd yn perthyn iddo ef ei hun."

Y mae y wedd hon ar y dyn yn ein dwyn wyneb yn wyneb â chwestiwn pwysig ei athrylith. Profa y dyfyniad blaenorol fod elfen o *wreiddiolder* yn perthyn iddo, ac y mae hyny yn gyfystyr â dyweyd ei fod i ryw raddau yn athrylithgar. Gorchwyl digon anhawdd yr un pryd yw medru dyweyd beth ydyw athrylith. Y mae y darnodiadau o'r hyn ydyw bron mor amrywiol a'r ffurfiau y

mae hi ei hunan yn profi ei bodolaeth drwyddynt. Dichon y bydd dyweyd fod gwir athrylith yn gynwysedig mewn cyfuniad ansoddau meddyliol cyferbyniol, os nad gwrthwynebus i'w gilydd, yn ddarnodiad llawn mor gryno a chynhwysfawr a'r un arall. Yn ol y darnodiad hwn, ceir ymdreiddiad dwfn yn gyfunedig â dychymyg bywiog, a chraffder cyflym yn gyfunedig âg ymroddiad di-ildio a phenderfynol. Y mae yr athrylith hon, gan hyny, yn gwneyd ei hun yn hysbys trwy ddwyn o gwmpas yn ei ffordd ei hun mewn rhyw gylch o weithrediad dynol rywbeth *anghyffredin*. Nid ydyw yn gwneyd un gwahaniaeth pa un ai mewn rhoddi ffurf *newydd* i'r hyn oedd yn bod yn flaenorol, ynte dyfeisio yr hyn sydd *newydd* a wna athrylith. Profa ei bodolaeth yn y naill ffordd a'r llall. Felly y mae ei chynyrchion hi bob amser yn cael eu nodweddu â *gwreiddiolder* o ran *ffurf* neu *wirionedd*.

Pa un bynag ai yn ol safon y darnodiad hwn o athrylith, neu ynte yn ol y deffiniad ohoni fel gallu i gymeryd trafferth, neu ryw ddarnodiad arall, nis gall un darllenydd ystyr-bwyll ar ol darllen yr hunan-gofiant blaenorol a'r gweithiau dilynol wrthod i'n gwrthddrych safle o anrhydedd yn mhlith gwir feibion athrylith. Y mae y symledd a'r naturioldeb arddull a berthyn iddo yn brawf diymwad ohoni. Ceir ynddo ymdreiddiad dwfn i'r egwyddorion ydynt o dan ac yn llywodraethu digwyddiadau, a hyny yn gyfunedig â'r dychymyg mwyaf bywiog. Y mae craffder a dyfal-barhad wedi cael ieuad prydferth odiaeth o gymharus ynddo. Y mae yr asbri ysgafn llawn o fywyd a rêd drwy ei ysgrifeniadau yn brawf anwadadwy o athrylith wir.

Ond nodwedd neillduol ei athrylith ef, fel y daw i'r golwg yn ei bregethau a'i ysgrifeniadau, ydyw y gallu i gymeryd trafferth gyda phobpeth nes ei wneyd yn iawn. Nid oedd ei feddwl yn cael ei nodweddu gan barodrwydd i gynyrchu llawer, yn gymaint a'r drafferth a gymerai, a'r ymdrech y byddai ynddi yn barhaus i ddwyn allan yr hyn fyddai ganddo yn y symledd a'r naturioldeb oedd mor briodol iddo. Ysgrifenai ei bregeth bedair neu chwe' gwaith drosodd cyn meddu ymddiried ynddi i'w thraddodi, a'r un modd drachefn gyda'i ysgrifeniadau cyn anturio eu hanfon ymaith i'w hargraffu. Rhydd hyn gyfrif i fesur mawr am symledd, coethder a dillynder ei iaith a'i arddull yn ei bregethau a'i ysgrifeniadau. Yr oedd hyd yn nod y *blwch* a gynwysai y perl o feddwl yn gaboledig ganddo, ac yn waith celfyddyd o'r radd uchaf, ac yr oedd y perl cuddiedig ynddo yn llawn gwerth y drafferth a gymerid gyda'r blwch oedd i'w gadw. "Chwiliodd y pregethwr am eiriau cymeradwy." Pregethodd yr efengyl, ac ysgrifenodd yn iaith y werin, gan gyflawni pob diffyg o eiddo hono a chyflawnder

iaith y Beibl Cymraeg. Rhoddodd adgyfodiad i lawer hen air Cymraeg oedd wedi ei gladdu, gan beri i ni deimlo y golled a gawsom trwy ollwng ymaith eiriau syml ac unsill yr hen iaith, a'u newid am fursendod cymysg-ryw llawer o'r bastardd-eiriau diweddar. Sicrheir gan wŷr o farn a gallu fod ei Gymraeg yn ei bregethau a'i ysgrifeniadau yn gynllun o symledd, nerth ac effeithiolrwydd.

Beth bynag ydoedd rhagoriaeth ei athrylith fel y deuai i'r golwg yn amwisg allanol ieithweddiad, yr oedd ei phrif ragoriaeth yn nghynwysiad y bregeth a mater yr ysgrif. Tra yr oedd gwir fywyd athrylith yn amlwg yn y bregeth a'r ysgrif, yr oedd llinell eglur o wahaniaeth rhyngddynt â'u gilydd, a gwahaniaethiad sydd yn codi o syniad priodol am yr hyn sydd hanfodol i'r naill a'r llall ohonynt. Nodwedd ei bregethau, gan mwyaf, ydoedd y cyffrous a'r ymarferol. Yr oedd ei hunan yn ddyn o feddwl difrif-ddwys. Yr oedd dyfnder yn ei grefydd, ac o ganlyniad dwysder yn ei weinidogaeth. Hyn, y mae yn bosibl, sydd yn un peth yn cyfrif am y ffaith mai anfynych iawn y ceid ganddo bregeth ar bwnc duwinyddol a ofynai ymresymiad manwl a chywrain. Nid oedd ganddo nemawr o flâs ar, na hamdden at orchwyl felly. Fel y sylwai y Parch. David Morris, ddiwrnod ei gladdedigaeth, nid oedd ganddo yr amynedd angenrheidiol i ymresymu yn fanwl, ond yn hytrach ergydiwr ydoedd a anelai ei saethau, ac a luchiai ei belenau i ganol gwersyll y gelynion, ac a glwyfai yn farwol y rhan amlaf o lawer. "Pregethwr cyfiawnder" oedd y teitl a enillodd ar hyd ei weinidogaeth, ac wedi ei farw gellir clywed aml un yn gofyn, "Pwy a ddywed wrthym bellach am fyw yn onest, talu ein dyledion, ac arfer cyfiawnder ymarferol ar ol ymadawiad Robert Ellis?"

Yn ei ysgrifeniadau, drachefn, ni a gawn ei athrylith ddiledryw yn dyfod i'r golwg yn y bywyd sydd yn rhedeg trwy ei holl ddesgrifiadau. Y mae yn portreadu y gwahanol ddigwyddiadau mor fyw a gwirioneddol nes y mae y meddwl yn eu gweled yn ymsymud ger ei fron. Teimlir wrth eu darllen y gallai arlunydd medrus dynu darlun campus ar y *canvas* oddiwrthynt. Y mae adgyfodiad bywyd i'w gael ynddynt i'r cymeriadau o rai rhagorol y ddaear a bortreadir ganddo yn ei ysgrifau. Megys y dywed am dano ei hun fel darllenwr, "Rhaid i mi ochelyd y *novel*, onite bydd i'r cyfryw ddarlleniad fy *witchio*. Cefais brawf o hyny yn ddiweddar yn un o nofelau Syr Walter Scott." Felly y gellir dyweyd am dano fel ysgrifenydd, fod ei feddwl yn cynwys y teithi hyny a fuasent yn sicrhau iddo safle uchel ac anrhydeddus fel ffug-hanesydd o draddodiadau a rhamantau Cymreig yn wladol a

chrefyddol. Ond cysegrodd ef ei holl dalentau i grefydd, a bydd crefydd ar ei henill am byth oblegid yr ymgysegriad hwn o'i eiddo.

Yn ngrym yr athrylith hon, er iddo hanu o urddasol feibion llafur, a pharhau ar hyd ei oes faith o ran teimlad ac yspryd yn un o'r bobl gyffredin, dyrchafwyd ef i fod yn frenin arnynt i'w llywodraethu yn mhob daioni a rhinwedd. Cariodd argyhoeddiad o ddifrifoldeb a chydwybodolrwydd gyda'i holl ddysgeidiaeth a ddiarfogai feirniadaeth, ac a orfodai ei wrandawyr i gredu ei fod yn ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth o gariad tuagatynt, ac o awydd pur a syml am ogoniant y Duw a wasanaethai. Ni chafodd ond ychydig o fanteision addysg, ond gwnaeth y defnydd goreu o'r ychydig a gafodd, a chyda meddwl parod i dderbyn, parhaodd i lafurio, ac yn enwedig i sylwi ar bobpeth, fel yr oedd yn un o'r dynion ëangaf ei wybodaeth yn amrywiol ganghenau dysgeidiaeth gyffredinol a duwinyddol y cyfarfuasom âg ef. Cofus genym glywed am y diweddar Mr. Humphreys, Dyffryn, yn gofyn am ddyn y dywedid am dano wrtho ei fod yn ddyn o wybodaeth ëang, "*But is he a man of observation?*" ("A ydyw yn ddyn o sylwadaeth?") Hyn mewn modd neillduol oedd un o nodweddion arbenig Mr. Ellis. Yr oedd yn sylwedydd craffus, manwl a chofus, fel nad oedd dim bron yn digwydd yn ei ddyddiau, nad oedd trwy ei sylwadaeth yn ychwanegu yn barhaus at ystorfa ëang ei wybodaeth. Fel y dywed un am dano, nid oedd genym neb a dalodd fwy o sylw i agwedd crefydd yn ein plith, ac ni feddem wyliwr mwy effro a ffyddlawn ar ffurfiau Seion nag efe. Y mae ei ysgrifau ar yr Adfywiadau Crefyddol, ac ar Gyfarfodydd Misol Sir Gaernarfon ac Arfon, yn brawf diamheuol o'r elfen hon a nodweddai ei athrylith.

Y mae y sylw a wnaed ar ei waith yn cysegru ei athrylith i wasanaeth crefydd Iesu Grist, yn ein dwyn ar unwaith o edrych arno fel *dyn*, i syllu arno fel yr oedd yn "ddyn Duw." Beth bynag a ddaeth trwy lafur ac ymröad i fod fel dyn, aberthodd y cwbl ar allor crefydd i'r Duw y teimlai mor rwymedig iddo am ddiangfa ac iachawdwriaeth i'w enaid. Nid oes un lle i neb amheu gwirionedd ei grefydd bersonol. Y mae yn ddiamheu mai efe ei hunan a amheuodd fwyaf arni o bawb. Dwy elfen fawr lywodraethol ei fywyd crefyddol oeddynt fyfyrdod a gwaith. Trwy yr elfenau hyn fel moddion y derbyniai ei nerth ysprydol. Ei hoff awduron i'w darllen er adeiladaeth ysprydol oeddynt Baxter, Gurnal, Bunyan, Charles o'r Bala, George Lewis ac eraill o dueddfryd i gynyrchu gydag ychwanegiad gwybodaeth, yspryd defosiynol ac addolgar. Llefara yr un frawddeg a ddyfynwyd yn barod o'i ddydd-lyfr, "Cael fy *chwipio* gan Baxter yn 'Nghorphwysfa'r

Saint'" gyfrolau am ansawdd a moddion cynydd ei grefydd bersonol ac ysprydol. Treuliodd oes ddisglaer fel Cristion cywir er anrhydedd i'w Waredwr a gogoniant i Dduw.

Ond yr oedd efe yn "ddyn Duw" mewn ystyr uwch na hon. Dyma ydoedd efe mewn modd arbenig yn y cymeriad o bregethwr yr efengyl. Yr oedd ef yn y cysylltiad hwn yn llenwi i fesur mawr syniad Dr. Owen, fod gwir weinidog i Grist yn grëadigaeth o eiddo Duw. Yn y gwâs a'r prophwyd anfonedig yma gan Dduw, a chenadwri cymod wedi ei hymddiried iddo i'w thraethu i fyd colledig, y ceir eglurhad llawn a boddhaol ar y gwneyd a fu arno fel *dyn*. Buasai dynoliaeth allanol a meddyliol o'r fath oedd ganddo ef mewn perygl o fyned yn ofer, ond fel y daeth yn gysegredig ganddo yn y cymeriad o "ŵr Duw."

Mewn trefn, gan hyny, i'w weled yn y cymeriad uchaf hwn, rhaid i ni ei ddilyn yn ngwahanol gylchoedd ei weithgarwch a'i ddefnyddioldeb. Fel y cylch uchaf a phwysicaf, rhaid ei ddilyn i'r pwlpud, er cael golwg arno fel "cenad hedd" yn sefyll rhwng y byw a'r meirw. Yr ydym yn barod wedi manylu ar ei bregethau fel cyfansoddiad, a chyn cael darlun ohono fel pregethwr y mae sylw neu ddau ar *nodwedd* ei bregethu yn ymddangos i ni yn angenrheidiol. Yr oedd ei bregethu yn amlwg yn amcanu at leshâd ysprydol ei wrandawyr. Ceid yn ei bregeth amrywiaeth, cymesuredd a chysondeb, ond ymgollai y cwbl mewn unoliaeth bywyd hardd. Yn hyn tebygai i'r Arglwydd Iesu. Pregethai yn fynych gyda'r fath rymusder nes dychrynu y di-grefydd. Arweiniai ei wrandawyr at Sinai, "mangre y daran-follt gref," ond ymarferol, fel yr awgrymwyd o'r blaen, oedd nodwedd amlwg ei bregethu. Eglurai grefydd fel peth y dylid ei byw, a cheir y wedd ymarferol, hon yn gnewyllyn y bregeth, fel yr arferai ddyweyd, "Os ydyw dy grefydd yn rhy wan i lywodraethu dy fywyd, y mae yn sicr o fod yn rhy wan i gadw dy enaid." Dylid cofio hefyd ei fod yn gryf yn yr ymarferol, nid am ei fod o feddwl arwynebol. Na, y dwfndreiddiol fedr ddyfod agosaf atom yn yr ymarferol. Cawn yr engraifft uchaf o hyn yn Iesu Grist. "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn," meddai ei wrandawyr. "A bu aruthr ganddynt wrth ei athrawiaeth ef; canys ei ymadrodd ef oedd gydag awdurdod." Eto ni lefarodd neb eiriau mor blaen a gwirioneddau mwy ymarferol nac Efe. Felly nerth a dyfnder gweithrediad y meddwl a fendithiai yr Yspryd Glân i roddi y fath rym ac eneiniad ar wirioneddau ymarferol bywyd crefydd yn ngweinidogaeth Mr. Ellis.

Bellach y mae yn bryd cael golwg arno yn pregethu, ac nis gallwn yn well i wneyd cyfiawnder âg ef yn y cymeriad hwn na

gadael i'n cyfaill, y Parch. G. Tecwyn Parry, ei ddesgrifio yn y dull medrus a naturiol a nodwedda ei "Bryddest Goffadwriaethol":—

"O Efengylydd mâd, ei ddoniau gwir
Sy'n llifo 'n fyw arabedd yn y tir;
Darfelydd awen fu 'n anturio 'n mlaen
I roddi amlinelliad—rhoi ar daen
Ei dlws nodweddion;—wele, saif yn fud,
Yn dàl, unionsyth, penwyn, teg ei bryd,
Mewn urddas yn y pwlpud; onid yw
Ei safiad fel urddasol angel Duw
Pan y derbynia arch o'r orsedd wèn
I draethu cenadwri Ior uwch ben
Colledig fyd? Difrifwch sy'n ei wedd,
Arwyddlun pryder calon ar ei sedd;
Ei lygaid wibiant fel y fellten lem—
Arwyddion cynhyrfiadau sy'n ei drem;
Ei luniaidd gorph a blyga 'n ŵyl i lawr—
Estyna'r *Llyfr Emynau;* rhydd yn awr
Yr emyn allan mewn acceniad clir,
Ei oslef ddywed fod barddoniaeth wir
Yr emyn yn cynhyrfu 'i galon ef,
A chwyd ei yspryd i gymundeb nef,—
Cymundeb anweledig yw yn awr;
Ond wele fflachiad bywiol, tŷr yn wawr
Ar feddwl yr addolwyr; gwelir gwên
Yn chwareu mewn tynerwch ar yr hên
A'r ieuanc dan gynhyrfiad teimlad byw
Ei galon yn y gwaith; ac onid yw
Barddoniaeth bur fel pelydr huan mawr
Yn enyn bywyd nefoedd ar y llawr?

"Yr emyn a ddatgenir—onid gras
Yn swynol a accenir gyda blas?
Mae yntau 'n uno weithiau; clywch ei lef
Yn adsain uwch y dorf mewn accen gref;
Dystawa 'n sydyn; synfyfyria 'n brudd,
Och'neidiau dyfnion prudd-der welwa 'i rudd;
Eistedda 'r dorf, ac onid yw eu gwedd
Yn siarad iddynt brofi dwyfol hedd?

"Yn awr, ymeifl yn hen oraclau 'r nef—
Darllena 'r gair yn hyglyw; dyrcha'i lef,
Arafa 'n sydyn, dyna'r dorf yn sŷn—

Newidia gwedd ei wyneb, saif ar hyn,
Ni fỳn anturio 'n mlaen; try 'n ol ar frys;
Darllena eilwaith gyda grym, a'i fŷs
Yn pwyso ar y fan; newidia gwedd
Ei wyneb hardd, ymdaena arno hedd
Fel awel hâf; ymdreiddia'n anadl fyw
Trwy'r dyrfa oll yn ngrym gwirionedd Duw.

"'Gweddiwn' yw y gair ddyfera'n ŵyl
Dros ei wefusau pur mewn hyfryd hwyl;
Difrifwch sy'n teyrnasu, enfyn ef
Ei ddymuniadau 'n enw Crist i'r nef;
Ymgyll yn llwyr yn yr ymdrechfa hon,
A'i ddymuniadau sydd yn chwyddo 'i fron;
Mor daer a dyfal yw; ei enaid sydd
Yn esgyn fry i mewn i oleu dydd
Ysprydol fyd. O nefol adeg swynol—
Adgofion hyfryd sydd yn llifo'n fywiol
Aberoedd fel y grisial pan fa'i ef
Mewn aml weddi daer yn siglo'r nef.

"Darllena 'i destyn gyda phwyslais clir,
Accenai fel pe mynai nodi 'r gwir—
Y gwir y mynai ef eu sylw 'n awr
Ar feddwl ei wrandawyr; onid oes
Atdyniad anweledig yn y Groes?
Hwn ydyw testyn mawr ei ymffrost ef.
Ei olwg sydd angylaidd; mae y nef
Yn gwenu ar ei ysbryd heddyw 'n olau,
Ac yntau 'n rhodio ar ei uchelfanau;
Sirioldeb chwery ar ei ruddiau mâd,
O dan awelon hyfryd nefol wlad.
O! genad hedd i'r byd—'Gwr Duw yw ef'—
A bri osodwyd arno gan y nef
Fel efengylydd gwir. Mor dlws a byw
Yr athronydda ddwfn feddyliau Duw
Yn ei oraclau bywiol ger ein bron;
Newydd-deb a gwreiddioldeb grëa dòn
O wir lawenydd; saif y dyrfa'n sỳn
Pan ymddyrchafai ef fel 'angel gwyn,'
Yn ngrym ei fyw athrylith, sanctaidd, gref,
Mewn ehediadau uchel tua 'r nef;
Mae 'i gorff yn crynu dan ddylanwad nerthol

"Gwirionedd Duw fel trydan byw gwefreiddiol
Yn chwyddo 'i galon fawr; newidia 'i wedd,—
Ei lais, a'i ystum sydd fel cenad hedd
Yn ymyl Duw; estyna'i ddeufys hir—
Arwyddlun yw i ni o lanw 'r gwir
Mewn nerth yn tori dros geulanau llyn
Ei feddwl mawr; ymchwyddo 'n uwch a fyn
Ei fyw athrylith; dring fynyddoedd bàn
Y brynedigol drefn yn raddol, gan
Ddarlunio eu teleidion; daw pob un
Yn ngwisg dryloew 'i feddwl ef ei hun
Fel *panorama*—mŷg ogoniant hon
Gynhyrfa 'i ysbryd mawr a chrëa dòn
Addoliad yn nghalonau'r dyrfa sydd
Yn crogi wrth ei wefus bur, a'r dydd
Yn tori ar eu meddwl gyda swyn
Tangnefedd dwfn y nefol fyd, gan ddwyn
Arddunedd yr Eneiniog yn ei fri
Yn ngoleu llachar marw Calfari.
Mae tinc ei lais yn llawn peroriaeth swynol,
A'i oslef ddywed fod awelon nefol
Yn chwareu tanau 'i galon; onid yw
Ei ddywediadau fel y marwor byw
Oddiar yr allor ddwyfol yn y nef?
Ymddyrcha mewn arddunedd, cwyd ei lef,
A ffrwd hyawdledd sy'n ymarllwys gan
Drydanu'r gynulleidfa yn y fan.
Llefara 'n hyf—'Fy nhestyn yw y Groes;
'Y Groes. O destyn uchel—dwyfol loes
'Y dwyfol ddyn. Paham dyrchafwyd Ef
'I'r Groes?—Paham?—I agor pyrth y nef
'I golledigion byd: O eiriau swynol,
'A'u llewyrch yn pelydru dydd tragwyddol—
'Mae 'r gair "A minau os dyrchefir fi
'"A dynaf bawb" yn adsain dwyfol fri.
'"Dyrchafu," "tynu," tynu ato'i Hun—
'O ddwyfol nerth—nerth Trindod yw yn un;
'Un cariad annherfynol fel y môr;
'Un ymchwydd o drag'wyddol fynwes Ior,
'I nofio dyn i'w heddwch; onid oes
'Atdyniad annherfynol yn y Groes?—
'A yw y Groes yn tynu 'th galon di?
'Mae coron ynddi o anfeidrol fri.'"

"Dyn Duw" oedd efe hefyd mewn modd neillduol yn y cyfarfod eglwysig. Yr oedd y ddawn i ymddiddan mor gref yn naturiol ynddo, fel yr oedd yn tynu allan y frawdoliaeth i rydd-ymddiddan am bethau ysprydol. Yr oedd ei "synwyr cyffredin" anghyffredin yn ei ddysgu mai gwanychdod i'r "seiat" ydyw meithder gormodol. Ni byddai efe un amser, oddieithr mewn amgylchiadau neillduol iawn, yn foddlawn i'r cyfarfod barhau mwy nag awr, a gwasgai i'r "awr" yma fwy o waith nag a wneir gan aml un mewn dwy. Byr, bywiog a buddiol oedd ei arwyddair ef yn y cysylltiad hwn. Mor fedrus ydoedd i drin profiadau y saint, i'w dwyn i orwedd yn mhorfeydd gwelltog y gwirionedd, ac i'w tywys gerllaw dyfroedd tawel myfyrdod a chymundeb â Duw. Medrai efe ddefnyddio profiad y naill i gael allan brofiad y llall, a thrwy ymddiddan mewn rhyddid, byddai y cynulliad yn troi allan yn foddion gras, ac yn ymgeleddiad ysprydol i blant yr Arglwydd.

Elfen neillduol o werthfawr iddo yn y cysylltiad hwn oedd y gallu a feddai i adnabod y *dinc* mewn profiad. Gwyddai ar unwaith pa un ai arian bathol y Nefoedd ynte arian drwg rhagrith a ddygid i'r bwrdd cyfnewid yn y seiat. Yr oedd hefyd yn ddigon hŷf a didderbyn-wyneb i gondemnio profiad y *gwyddai* mai un *gwneyd* ac *arwynebol* ydoedd. Clywsom am dano unwaith wrth ymddiddan âg aelod yn cael gair gan un yr oedd ganddo seiliau cryfion i gredu nad oedd hollol ddidwyll fel profiad iddo. Troai ymaith yn sydyn tra yr oedd y brawd ar ganol adrodd, a symudai at y nesaf gan ddyweyd mewn tôn awgrymiadol, "Twt! twt!" Bu y tro o fendith, a gwnaeth y cerydd leshâd, gan yr arweiniodd y cyfryw un i ymofyn gwir brofiad. Yr oedd yn gofyn doethineb mawr i wybod yr adeg, ac yspryd crefyddol o radd uchel i fedru gwneyd peth fel hyn heb beri mwy o ddrwg nac o ddaioni trwyddo. Pan yn ymddiddan â dyn y credai oedd yn y perygl o fod yn rhy fydol, dywedai, "Rho'wch chwareu teg i'r enaid," a gofalai am olew cariad i wella yr archoll trwy ddyweyd fod "yn llawer haws i'r *tlawd* gael crefydd bur na chyfoeth byd." Ond gyda'r hen dduwiolion profiadol y byddai yn cael ei godi i ehedeg yn uchel, a byddai ei yspryd yn cael ei danio gan y gwirionedd nes peri iddo golli ei hunan mewn hyawdledd cyffyrddiad marmoryn oddiar allor Duw a'i wefusau. Byddai pawb wrth eu bodd y pryd yma, a'r Nefoedd yn tywallt arnynt, nes ar rai adegau y terfynai y cyfarfod mewn sain cân a moliant.

Yr oedd y ddawn hon oedd ganddo o ddyweyd y gair priodol a'r gair mewn pryd wrth bob dosbarth yn elfen anmhrisiadwy o werthfawr yn ei ddefnyddioldeb cyhoeddus. Nid oedd y gallu hwn yn fwy prydferth yn un man, nac yn fwy derbyniol ychwaith

nag yn ei ymweliadau â'r cleifion. Ymweliad *crefyddol* fyddai yr eiddo ef, ac nid dim arall. Y cyfryw ymweliad ydoedd a barai i'r claf deimlo yn fynych y bu "angel Duw" gydag ef, ond fel y teimlai y gwyddai "yr hen weinidog" am ei ofnau a'i brofiad yn llawer gwell na'r un angel yn y nefoedd.

Un ydoedd hefyd a safai ar ei ben ei hun yn hollol yn ei weinyddiad o'r gwasanaeth crefyddol yn nglyn â chladdedigaethau Fel y mae Methodistiaid rhan uchaf plwyf Llanddeiniolen er's amser maith wedi sicrhau claddfa yn eiddo iddynt fel Ymneillduwyr, ac fel mai efe am dymhor hir fu yr unig weinidog perthynol i'r Cyfundeb yn y rhanbarth hwn, yr oedd yr alwad am ei wasanaeth yn hyn o orchwyl yn dra mynych, ac i weinyddu y gymwynas olaf hon i bob math o bersonau, duwiol ac annuwiol. Yr oedd hefyd wedi arfer gwneyd math o anerchiad neu bregeth fèr oddiar gyfran o'r Ysgrythyr ar bob achlysur, fel yr oedd hyn yn gofyn doethineb mawr yn ei grybwylliad am y marw, yn enwedig ar rai amgylchiadau, rhag ar y naill law archolli teimlad y perthynasau trwy ddyweyd gormod o wirionedd, ac ar y llaw arall i wŷn-galchu pob cymeriad i fod i gyd yr un fath a'u gilydd. Y mae yr anerchiad hwn i bob un a ddechreuodd arno yn sicr o fod yn fater *delicate* a dyweyd y lleiaf. Clywsom unwaith am athraw coleg yn holi tad un o'r efrydwyr oedd wedi sefydlu fel gweinidog ar eglwys pa fodd yr oedd Thomas yn dyfod yn mlaen yn ei gylch newydd. Atebai y tad "ei fod yn gysurus ac yn ymddangos yn gwneyd yn dda iawn;" ond ychwanegai, "Gyda'r claddu y mae yn colli fwyaf." "Beth," ebai yr athraw, "'does bosibl bod neb yn codi ar ol eu claddu ganddo." Nid oedd perygl dim fel hyn yn nglŷn â Mr. Ellis. Yr oedd ei weinyddiad ef o'r gwasanaeth hwn mor briodol, gweddaidd a thueddol i wneyd y defnydd ac i sicrhau yr argraff oreu fel mantais werthfawr ar brudd-der a difrifwch yr amgylchiad, nes peri yr ymddangosai ei synwyr da a'i yspryd crefyddol yn llawn mor brydferth yma ag yn un gwasanaeth i'w Arglwydd.

Wrth ei ddilyn eto i'r Cyfarfod Misol a'r Gymdeithasfa, daw ei gynghor diogel a'i farn aeddfed fel *dyn*, a'i grefydd yn gystal a'i wasanaeth ymroddedig fel "dyn Duw" i fod yn amlycach na dim yn ei hanes. Yn ei deimlad ei hun, yr annheilyngaf a'r anghymwysaf o bawb ydoedd i gael lle a dylanwad yn mysg ei frodyr. Cadwodd yr ymdeimlad hwn ef rhag bod mor rhydd a chartrefol ag y dylasai fod yn nglŷn â'r Gymdeithasfa. Ond yn y Cyfarfod Misol bu yn lle llygaid, ac yn arweinydd diogel a rhagorol o'i ffurfiad fel Cyfarfod Misol Arfon hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd yn un a fedrai ddyweyd gair yn ei amser, a hwnw y gair yr oedd

angen am dano yn ei amser hefyd. Byddai ei sydynrwydd weithiau yn ymylu ar droi allan yn fyrbwylldra, a dywedai ambell air y pryd hwnw y gofidiai o'i blegid yn fuan, ond ymiachäi yn bur ebrwydd trwy gael codi yr un mor sydyn a dyweyd mewn modd brysiog, "'Rwy'n tynu y gair yna yn ol. Ni ddylaswn ei ddyweyd. Gair ffôl ydyw," ac eisteddai i lawr fel un wedi cael gollyngdod.

Yr oedd yn meddu gallu neillduol i dawelu ystormydd a godent yn awr a phryd arall yn y Cyfarfod Misol. Gyda barn bwyllog a gariai argyhoeddiad o uniondeb gyda hi, gwastadhâi yr anghydwelediad nes y

> "Tawelai'r 'storm heb adael dim o'i hôl,
> Ymdaena gwên ar wyneb pawb yn awr
> Fel cydnabyddiaeth o'i ddylanwad mawr."

Codai weithiau yn sydyn, a dywedai air neu ddau mewn tymher a ymddangosai yn sarug, ac fel pe buasai barod i ymladd gornest â'i wrthwynebydd, ond eisteddai i lawr yr un foment gan chwerthin yn galonog wrtho ei hun, nes peri i bawb deimlo nad oedd dyfnder o gwbl yn perthyn i'r sarugrwydd oedd ar y wynebpryd.

Byddai ganddo ar adegau y gair cyrhaeddgar, a rhaid fyddai i hwnw ateb y dyben. Cofus genym fod mewn Cyfarfod Misol yr oedd cŵyn o eglwys am anghydwelediad yn mhlith y swyddogion, ac wrth siarad a dadleu y mater, yr oedd cynrychiolydd un o'r pleidiau yn arfer y gair *hawl* a *hawliau* yn fynych iawn. Gwelid fod mynychiad y gair yn dechreu goglais Mr. Ellis, a dacw ef yn codi yn sydyn, yn ol ei arfer, ac yn gofyn, "Dywedwch i mi a oes dim *cariad* tua ——— acw? Hawliau! hawliau! hawliau! o hyd, o hyd!! Byddai i ychydig gariad *setlo* yr hawliau yma yn bur ddidrafferth." Eisteddodd ar hyny, ac ni raid dyweyd na bu son am *hawliau* wedi hyny yn y Cyfarfod Misol hwnw beth bynag.

Cynhyrfid ef ambell dro gan rywbeth a glywai mewn Cyfarfod Misol nes peri iddo golli *balance* ei hunan-feddiant yn lân, a'r pryd yma temtid ef i arfer geiriau mawr, ac er eu bod yn eiriau gwaharddedig, goddefid hwy iddo ef, am y ceid mai dan gynhyrfiad eithafol o rymus y byddai yn eu harferyd. Mewn Cyfarfod Misol yn Brynaera, yr oedd y mater o "Dyngu Anudon" dan sylw. Ar ol siarad cryn lawer, cyfeiriodd un brawd parchedig yn ddoniol at y wedd a arweiniai i'r anudoniaeth yr oedd pregethwyr yn euog ohono. Eglurodd ei hun trwy ddangos fel yr oedd pregethwyr yn chwareu â'u "cyhoeddiadau," yn cytuno i beidio rhoddi cyhoeddiad ond am dymhor penodol, a'r un diwrnod yn tori y cytundeb ac yn parhau i droseddu y rheol, fel nad oedd nemawr os dim ymddiried i'w roddi i air pregethwr mwy na rhyw ddyn arall. Aeth yn

mlaen yn bur gryf a llaw-drwm yn y cyfeiriad hwn. Fflachiai a melltenai llygaid Mr. Ellis wrth wrando arno, ac meddai oddiar ei eistedd, megys wrtho ei hun, er hyny yn glywadwy i lawer o'i amgylch, "Wel, wel, os ydyw wedi myn'd fel yna gyda ni, y d——l a'n cipio, medda i."

Yr oedd ei synwyr cyffredin cryf, ei farn aeddfed a'i feddwl clir yn peri ei fod yn gynghorwr pwyllog, ac yn allu anmhrisiadwy i gymdeithas fel a geir mewn Cyfarfod Misol. Ni chafodd y lle a deilyngai yn y Gymdeithasfa, a hyny yn gwbl oblegid ei ddiffyg ymddiried ynddo ei hun. Y mae'n hysbys erbyn hyn ei fod er's blynyddoedd, ar ol deall fod tebygrwydd y gelwid arno gan y Gymdeithasfa i gymeryd rhan yn ngwasanaeth yr ordeiniad neu i gyflawni rhyw orchwyl y penodid un yn flaenorol iddo, yn arfer anfon yn gyfrinachol at rai o'r swyddogion i ddymuno arnynt, os sonid am ei enw o gwbl, i rwystro pob symudiad pellach drwy ddyweyd ei fod ef yn gwrthod yn bendant wneyd dim yn y cysylltiadau hyn, a hyny yn hollol oblegid ei ymdeimlad o'i anghymwysder. Yr oedd hyn yn hollol nodweddiadol ohono, ymdeimlad o anallu ac anghymwysder. Nis gwyddom am neb a gurodd fwy arno ei hun yn nglyn â'i bregethu yn yr ystyr yma ar hyd y blynyddoedd. Yr oedd yr ymdeimlad o'i ddiffygion i'r gwaith yn ei gadw i lawr yn ei feddwl ei hun yn wastadol. Codai hyn, y mae yn debygol, o'r syniad uchel oedd ganddo am natur a nodwedd gwaith y weinidogaeth, a'r adnabyddiaeth ohono ei hunan fel Cristion cywir a diledryw.

Ond iddo ef ei hun yn unig yr oedd y diffygion hyn yn bod. Yr oedd y rhai a'i hadwaenai oreu yn ei ardal, ei Gyfarfod Misol, a'i wlad, yn edrych arno fel gŵr Duw, hoff ac anwyl gan yr Iesu a'i bobl, a gweithiwr difefl, cwbl ymroddedig i'r gwaith mawr a ymddiriedodd ei Arglwydd iddo. Yr oedd ei farwolaeth, o ganlyniad, tra yn ennill i'r Nefoedd, yn golled i ni yn ein hamrywiol gysylltiadau ar y ddaear, nad oes ond y Brenin Mawr a ddichon ei gwneyd i fyny.

Ni bydd ein trem ar ei gysylltiad â'r Cyfarfod Misol yn gyflawn heb air o gyfeiriad at ei *dynerwch* mawr tuagat bregethwyr ieuainc. Nid oedd neb, fe ddichon, y byddai ar ddyn ieuanc fwy o'i ofn ar y dechreu, oblegid yr ymddangosiad o sarugrwydd a welid ar ei wynebpryd ambell dro. Ciliai yr ofn ymaith fel y byddai pelydrau tynerwch calon yn ymlid ymaith hyd yn nod holl olion y sarugrwydd. Nid oedd neb o fewn yr holl gylch â mwy o dynerwch tuagat bobl ieuainc. Yr oedd rywfodd yn medru myned i mewn i'w helyntion yn fwy byw a gwirioneddol nag odid neb y gwyddom am dano. Byddwn yn meddwl fod a fyno ei brofiad ef

ei hun gyda Mr. Elias yn Nghyfarfod Misol y Graig â'r tynerwch hwn a'i llywodraethai tuagat bregethwyr ieuainc. Y mae yn sicr hefyd fod a fyno *ieuengrwydd ei yspryd* ei hunan lawer iawn â hyn. Er wedi myned yn hên o ran dyddiau, yr oedd yn parhau yn ieuanc o ran ei feddwl hyd y diwedd. Parhaodd yn ieuengrwydd ac ireidd-dra ei yspryd i feddwl a gweithio nes y daeth yr alwad arno i fyned i mewn i'w orphwysfa. Yr oedd yr yni a'r gweithgarwch hwn y parhäi ynddo i'r diwedd yn peri, er yn henafgwr o ran blynyddoedd, ei fod yn un â'r ieuainc mewn cyrhaedd a gweithio allan amcan bodolaeth. Pa gyfrif bynag sydd i'w roddi am dano, dyna y ffaith, ac yr oedd bob amser ar ol yr adnabyddid ef yn cael ei ystyried gan y dosbarth hwn fel eu cyfaill a'u cefnogydd, un y gallent nesâu ato, gofyn cynghor ganddo a dilyn ei gyfarwyddyd gyda phob hyder a dyogelwch.

Y mae dau gylch arall yn y rhai y dylid gwneyd crybwylliad byr am dano, a byr iawn hefyd, am fod ein hardrem adolygiadol hon wedi myned yn faith yn barod. Y cylch cyntaf o'r ddau ydyw ei gysylltiad â masnach. Bydd darllen yr hyn a geir yn y pennodau blaenorol ar y pen hwn yn ddigon i'n sicrhau mai ymwneyd yr ydoedd â masnach yn gwbl er mantais i'w lafur gyda'r efengyl. Felly mewn modd neillduol, " dyn Duw " ydoedd efe yn y siop fel yn y pwlpud. Ystyriai bob amser fod cymeriad y gweinidog i'w gadw neu i'w golli yn y siopwr, ac fod y siop yn gystal cylch o anrhydedd i'r efengyl ac o ogoniant i Dduw ag ydyw y pwlpud ei hunan. Gan hyny cofiodd air ei Dduw, " Bydded i chwi glorianau cyfiawn." Enillodd iddo ei hunan y cymeriad o fasnachwr dihoced ac unplyg yn ei holl drafodaethau. Ni wnai gam er dim hyd y medrai " ar farn, ar lathen, ar bwys nac ar fesur." Credai mai y rheol Ddwyfol i fasnach ydyw, " Hwda i ti a moes i minau."

" Er iddo fod yn rhwym flynyddau maith
Dan ofal a thrafferthion byd ; ' y gwaith '
Oedd testyn ei fyfyrdod ; mynai ef
Yr uwchaf le i waith urddasol nef ;
Hyn oedd ei uchelgais * *
* * * * *
Ei galon gurai 'n glir ogoniant Duw,
A'i yspryd ynddo dŷn ei nerth i fyw,
Er yn y byd, uwchlaw y byd a'i wênau—
Enillodd ef y dydd ar anhawsderau."

Y cylch arall ydyw ei gysylltiad fel gwladwr ac fel " dyn Duw " â gwleidyddiaeth. Yr oedd perthynas y gwladwr a " gŵr Duw " mor agos fel, i'w feddwl ef, yr oedd y naill a'r llall yn sathru ar hawliau eu gilydd. Meddai argyhoeddiadau cryfion a dwfn yn

wleidyddol, ac yr oedd yn anmhosibl i un o'i ddarlleniad ëang a'i sylwadaeth graff ar gwrs y byd yn ei oes ei hun, a thrwy gyfrwng hanesiaeth, mewn oesau blaenorol hefyd, beidio teimlo yn fyw i werth a phwysigrwydd rhyddid gwladol a chrefyddol. Yr oedd holl gydymdeimlad ei natur â'r blaid wleidyddol y mae ei harwyddair yn cynwys rhyddid llawn a pherffaith gyd-raddoldeb mewn gwladwriaeth a chrefydd. Ni chadwodd draw o ymarfer ei hawlfraint fel gwladwr yn yr etholfa bob tro y cafodd gyfleusdra i hyny, ac ymddygai bob amser yn unol âg argyhoeddiadau cyd-wybodol ei natur o blaid rhyddid yn ei wahanol gysylltiadau. Ond teimlai yn gryf nad ei le fel "gŵr Duw" ydoedd cymeryd rhan gyhoeddus mewn symudiadau gwleidyddol, ac nad oedd gymesur i weision y Goruchaf wasanaethu byrddau. Oblegid hyny boddlonai yn unig ar arfer ei hawlfraint yn yr etholfa. Ni wnawn un sylw cymeradwyol na chondemniol ar y syniad hwn o'i eiddo. Y mae dwy wedd ar y cwestiwn, a llawer i'w ddywedyd dros ac yn erbyn y naill a'r llall. Rhydd i bob dyn ei farn, ac i bob barn ei llafar. Hysbysu y ffaith yn nglŷn âg ef ydyw ein hamcan, fel y teifl oleuni ar yr unig gyfeiriad, fe ddichon, i'w fywyd y teimlid un gradd o amheuaeth gyda golwg ar ddoethineb y cwrs a gymerai, a'r egwyddorion yr oedd ei ddistawrwydd a'i neillduad o'r cylch cyhoeddus o ddadleuaeth yn peri ei fod yn agored i gael ei gam-gymeryd gyda golwg arnynt gan rai na feddent ond adnabyddiaeth arwynebol ohono.

"Meddai gymeriad crwn, cyfan a phur, yr hyn oedd yn sylfaen a bywyd ei ddefnyddioldeb. Yr oedd yn 'ŵr Duw' mewn gwir-ionedd. Addefai fod ganddo 'hen ddyn brwnt,' ond yr oedd y dyn newydd, trwy nerth gras, yn meddu gallu i'w gadw o dan reolaeth. Mewn gair, yr oedd ei gymeriad yn addurno ei holl nodweddion, yn coroni ei holl lafur, ac yn cyfuno y cwbl i gyrhaedd un amcan goruchel—gogoniant Duw yn Nghrist Iesu."

---

## PENNOD XIII.

### ADGOFION CYFOEDION A CHYD-LAFURWYR.

*Llythyrau o Adgofion a Sylwadau oddiwrth y Parchedigion Rees Jones, Brynmenai; David Morris, Bwlan; Hugh Roberts, Bangor; Thomas Roberts, Jerusalem; a William Rowlands, Cefnywaen.*

---

Fel prawf o ragoriaeth cymeriad a chrefydd i'r dyn ei hunan ac i'w gydoeswyr a'i olynwyr, yn nesaf at dystiolaeth ei gydwybod o ran pwysigrwydd, daw yr argraff a roddodd a'r argyhoeddiad a

weithiodd ar feddyliau y rhai a'i hadwaenai oreu. Cawn fod y diweddar Barch. John Jones, Talysarn, yn rhoddi y pwys mwyaf ar dystiolaeth ei briod a'i blant gyda golwg ar wirionedd ei grefydd bersonol. Y mae genym ninau y dystiolaeth hon am Mr. Ellis. Prawf gwaith ei briod a'i blant yn ymddiried iddo eu holl gyfrinachau ysprydol ac yn ymgynghori âg ef yn mhob helynt grefyddol, eu bod hwy, oeddynt gydag ef bob amser, yn argyhoeddedig mai cyfaill ac anwylyd Duw ydoedd.

Ond trwy yr un ffydd yn Nghrist ag a'i cymeradwyodd i'w deulu, y cafodd efe, fel yr henuriaid yn yr Eglwys Gynteiig, air da gan gylchoedd mwy allanol o gydnabyddiaeth, ei gyfoedion a'i gydlafurwyr yn y weinidogaeth. Yr oedd yn cael gair da gan yr holl frodyr hyn. Y mae miloedd gwrandawyr Arfon yn gorfod ategu tystiolaeth ei frodyr ydynt fel yntau yn poeni yn y Gair a'r athrawiaeth na bu ei efengyl tuagat ddynion "mewn gair yn unig, eithr hefyd mewn nerth, ac yn yr Yspryd Glân, ac mewn sicrwydd mawr; megys y gwyddoch chwi pa fath rai a fuom ni yn eich plith, er eich mwyn chwi." "A'm hymadrodd a'm pregeth i ni bu mewn geiriau denu o ddoethineb ddynol, ond yn eglurhad yr yspryd a nerth, fel na byddai eich ffydd mewn doethineb dynion, ond mewn nerth Duw."

Ar bwys ystyriaethau o'r natur yma, gwnaethom gais at y tadau a'r brodyr y mae eu henwau uchod am ychydig adgofion a sylwadau ganddynt ar Mr. Ellis fel yr oedd cyd-fyw a chyd-lafurio âg ef yn ei ddangos iddynt hwy. Credwn y bydd y deyrnged hon i'w goffadwriaeth yn fwy cyflawn ac hefyd yn fwy derbyniol gan ein darllenwyr, trwy gael syniad brodyr cymhwys am dano nad oeddynt yn dwyn perthynas nes âg ef na chyd-lafurwyr yn yr un gwaith ysprydol.

Defnyddir y bennod hon, gan hyny, i osod gerbron lythyrau y brodyr crybwylledig, a hyny yn y drefn y daethant i law:—

"Glanmenai, Ebrill 10fed, 1883.

"Anwyl Frawd,

"Derbyniais eich llythyr caredig yn gofyn i mi ysgrifenu ychydig o gofnodau am fy anwyl gyfaill, y Parch. R. Ellis. Yr wyf yn teimlo fy mod dan anfantais fawr, am na ẁn pa bethau sydd wedi eu hysgrifenu eisoes i ymddangos yn y 'Cofiant.' Felly y ffordd oreu i mi ydyw cyfyngu fy hun i'r adnabyddiaeth bersonol a gefais ohono.

"Yn y flwyddyn 1847 y symudais i breswylio yn Arfon. Yr oedd Mr. Ellis y pryd hyny yn ŵr lled ieuanc, dan ddeugain mlwydd oed. Yr oedd yn ŵr golygus, cryf a hoew. Nid oeddwn wedi ei

weled ond unwaith cyn hyny. Pregethai ar noswaith yn Abermaw, fy nhref enedigol. Ar ol yr oedfa aethum ato i ysgwyd llaw âg ef, a dywedodd rhywun wrtho fy mod inau yn bregethwr. Ond ni wnaeth nemawr sylw ohonof. Ysgydwodd law yn lled oeraidd, ond ni ddywedodd braidd ddim wrthyf, nac yn wir ond ychydig iawn wrth neb arall. Atebai yn gŵta yr hyn a ofynid iddo, fel pe buasai yn dymuno cael llonydd. Y farn gyntaf, gan hyny, a ffurfiais am dano oedd mai pregethwr estronol a di-gymdeithas iawn ydoedd. Nid oes genyf un côf am yr oedfa, ond yr wyf yn teimlo yn sicr nad oedd hi yn foddhaol iddo ef ei hun, oblegid daethum i ddeall ar ol hyny y byddai oedfa dywyll a diafael yn effeithio yn ddwys iawn ar ei feddwl, ac i raddau ar ei ymddygiadau hefyd. Nid wyf yn petruso dywedyd, bellach, mai dyna oedd yr achos ei fod mor ddi-gymdeithas y noswaith hono.

"Cyn hir ar ol hyny symudais i drigiannu o fewn llai na phum' milldir iddo, ac yn fuan iawn, gorfodwyd fi i newid fy marn yn gwbl am dano. Yr oedd un o'r Cyfarfodydd Misol cyntaf y bu'm ynddynt yn Arfon yn cael ei gynal yn Ysgoldy, a chan fy mod yn adnabod Mrs. Ellis cyn iddi briodi, a'n bod wedi ein magu yn agos i'n gilydd yn Sir Feirionydd, cefais fyned atynt i lettya, ac yr oedd y ddau yn groesawus, siriol a chymdeithasgar anghyffredin. Dyma y pryd yr adnabyddais Mr. Ellis gyntaf yn ei gymeriad priodol ei hun. Rhoddwyd fi i bregethu am ddeg o'r gloch gyda'r Parch. John Jones, Talysarn. Felly cefais fath o *introduction* personol ato yntau hefyd, a bu caredigrwydd y ddau yn llawer o gysur i mi pan ddaethum yma yn gwbl ddyeithr. Gŵr arall oedd yn sefyll yn mhlith y rhai blaenaf o weinidogion Arfon y pryd hwn oedd y Parch. William Roberts, Clynnog, gŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau, hynod o glir ei syniadau yn athrawiaeth yr Efengyl, ac yn deall cysondeb y ffydd yn mhell uwchlaw ei frodyr. Gŵr call a charedig ydoedd, a gresyn fu gadael iddo ddisgyn i'w fedd mor ddisylw ag y gwnaed.

"Ni chefais y fraint o glywed Mr. Ellis yn pregethu ond yn lled anfynych, a hyny bron yn unig yn y Cyfarfodydd Misol, a chan fod yn hawddach iddo ef aros na llawer ohonom, byddai yn pregethu yn fynych yn y prydnawn neu noswaith olaf y cyfarfod, pan fyddwn i ac eraill wedi myned adref. Sylwedd ei weinidogaeth oedd person ac aberth yr Arglwydd Iesu Grist, edifeirwch a ffydd, ac yn arbenig yr angenrheidrwydd am waith yr Yspryd Glân. Yr oedd ei bregethau yn wastad yn cynwys llawer o gymhelliadau i ddyledswyddau personol, teuluaidd a chymdeithasol crefydd.

"Yr oedd efe yn bleidiwr cryf a gwresog i fugeiliaeth eglwysig, ond nid trwy ddadleu drosti a'i chymhell ar yr eglwysi. eithr

mewn ffordd llawer mwy esmwyth ac effeithiol, sef trwy wneyd gwaith bugail heb na galwad na gwobr. Yr oedd efe yn ystyried fod ei ordeiniad i gyflawn waith y weinidogaeth yn rhoddi iddo lawn awdurdod i wneyd ei oreu er adeiladu eglwysi y saint, ac nis gwyddom am neb fu yn fwy dyfal a ffyddlawn yn hyn o orchwyl. Am lawer o flynyddoedd, bu yn arfer myned i ddau neu dri o gyfarfodydd eglwysig bob wythnos, yn ymweled â'r cleifion ac â'r rhai profedigaethus, a dywedodd wrthyf ei hunan na byddai byth yn arfer myned i dŷ tlawd i geisio gweinyddu iddynt gysur crefydd heb adael swllt ar ei ol tuagat eu hangenrheidiau tymhorol.

"Bu'm unwaith yn cael fy anfon gydag ef i eglwys i wneyd ymchwiliad i achos pwysig iawn, pryd y dygid achwyniad difrifol yn erbyn gweinidog yr efengyl o safle uchel. Yr oedd pedwar ohonom wedi ein henwi i fyned yno, ond ciliodd dau. Ymddygodd Mr. Ellis yn hynod iawn o bwyllog a doeth yn yr holl ymchwiliad maith, ac yn wrol a didderbyn-wyneb i ddatgan ei farn ar yr achos. Arferai ef ymwrthod âg achosion o'r fath yma, am ei fod, meddai ef, yn rhy sydyn a byrbwyll. Ond yn sicr nid felly yr oedd y tro hwnw. Teimlem ein dau yn ddwys y cyfrifoldeb, ond bu yr ymdriniaeth, pa fodd bynag, yn derfynol, ac i'r nifer mwyaf, mi gredaf, yn foddhaol.

"Y Sabboth olaf ond un y bu efe byw, y gwelais ef ddiweddaf. Golwg wywedig a gwanaidd oedd arno. Dywedai ei fod yn prysur nesâu at y terfyn, ond ei fod yn edrych yn mlaen yn obeithiol a chysurol. Nid oedd yn seilio ei gysur yn y gradd lleiaf ar ddim a wnaeth; 'yn wir,' meddai, 'y mae cofio diffygion fy ngwasanaeth crefyddol yn peri ei fod i mi erbyn hyn yn fwy o boen nac o gysur. Ond unig sail fy ngobaith ydyw person ac aberth yr Arglwydd Iesu Grist.' Ni ddarfu i neb wasanaethu yr achos crefyddol yn Arfon yn yr oes hon yn fwy ffyddlawn na Mr. Ellis. Ni byddai un amser am Sabboth heb bregethu, ac anfynych iawn yr elai allan o derfynau Arfon. Byddai yn ddoeth i lawer fod yn fwy tebyg iddo yn y peth hwn.

"Gyda chofion serchus,

"Byth yr eiddoch,

"Rees Jones."

---

"Bwlan, Ebrill 13eg, 1883.

"Anwyl Mr. Jones,

"Y mae fy adgofion i yn brinach am fy anwyl frawd nag a feddylia rhai, efallai, y cyfryw adgofion a ymddengys i mi yn werth eu rhoddi mewn Cofiant.

"Mae tymhor fy adnabyddiaeth ohono ychydig yn hwy na deugain mlynedd. Nid oeddwn yn ei adnabod cyn iddo ddechreu pregethu, ond yn unig trwy glywed sôn am dano. Yr oedd y pellder rhyngom â'n gilydd yn byw pan oedd ef yn ieuanc yn un rheswm am y dyeithrwch hwn. Clywais ef ei hun, mewn ymddiddan personol â mi ar ol iddo ef a minau ddechreu pregethu, yn sôn am ei helynt gydag amryw bethau yn nglŷn âg ef cyn iddo ddechreu, yr hyn oedd yn argyhoeddiad i fy meddwl ei fod ef y pryd hwnw yn ddyn mwy difrifol a phwysig na'r cyffredin o'r rhai oedd yn cyd-gychwyn eu gyrfa grefyddol gydag ef. Y mae yn ymddangos ei fod ef yn *bwysig* gyda phobpeth yr adeg hono o'i oes, yr hyn yn ddiamheu oedd gymhwysder iddo at y gwaith yr ymgymerai âg ef. Yr oedd y difrifwch yn nodwedd arbenig ynddo y pryd yma. Bu hyn yn un achos o'i ragoriaeth ar rai eraill oeddynt yn cyd-gychwyn âg ef. Yr oedd y difrifwch hwn yn elfen bwysig ynddo trwy ei oes, a hyny gyda phethau y bywyd hwn a phethau crefydd yn gystal a'r weinidogaeth. Beth bynag allai diffygion a chamgymeriadau ei oes fod (os bu y cyfryw hefyd), credaf mai nid ysgafnder ein hanwyl frawd a fu yn achos ohonynt. Gallasai fod ychwaneg o amynedd yn eisieu arno fel pawb eraill weithiau. Treuliodd gyfryw oes y mae yn hawdd iawn i mi basio heibio i bobpeth a dybiwn yn ddiffygiol ynddo mewn gwir edmygedd o'i burdeb duwiol a'i lafur diflin am dymhor maith yn efengyl ein Harglwydd a'n Iiachawdwr Iesu Grist.

"Yr oedd cyfeillion ein hanwyl frawd yn dangos i raddau pell pa fath ydoedd o ran cyfeillach â chrefydd ac â'i waith gweinidogaethol. Yr oedd y pregethwyr blaenaf a'r blaenoriaid parchusaf yn mysg ei gyfeillion agosaf. Cafodd lawer o gyfeillach y diweddar Barch. John Jones, Talysarn, a'i frawd, y Parch. David Jones, Mr. Humphreys, Dyffryn, ac nid mewn un modd y lleiaf ganddo oedd y Parch. John Williams, Llanrug; Ebenezer Roberts, Ysw., Crug, &c. Clywais amryw o'r rhai hyn yn siarad am dano o bryd i bryd, ac yn dywedyd fel hyn ac fel hyn yr oedd Robert Ellis yn dyweyd am y peth a'r peth, a phob amser cyfeirid ato ef fel gŵr o farn ganddynt.

"Yr oedd hyd yn nod ei atebion sydyn yn ffrwyth barn. Clywais un dyn yn adrodd am dano yn un o Gymdeithasfaoedd Llanrwst, rywbryd pan oedd ymddiddan yn myned yn mlaen yn nghylch deddf adeiladu capelau. Yr oedd rhyw frawd o Sir Fôn yn beio pobl Sir Gaernarfon oherwydd myned i ddyled wrth adeiladu capelau. Wedi i'r brawd hwn eistedd i lawr, cyfododd Mr. Ellis i fyny yn sydyn, a dywedodd, 'Yr ydym ni yn Sir Gaernarfon wrthi hi yn adeiladu capelau da, ac ni pharhânt fwy nag o chwech

i saith mlynedd i'r eithaf na bydd eisieu eu hail-wneyd hwy fel y mae goreu y modd, am fod *paganiaid Sir Fôn* yn dyfod drosodd atom ac yn eu llenwi.' Bu y sylw yn ergyd marwol i'r brawd hwnw ar y pryd. Clywais Mr. Ellis ei hun yn adrodd am dro cyffelyb mewn Cymdeithasfa yn Nolgellau gyda Mr. Cooper, Llangollen, pan nad oedd ond cymharol ieuanc. Mewn digrifwch, meddai wrth adrodd yr hanes, 'Pa beth bynag arall a wnaethum heblaw rhyfygu, mi gefais roddi cyhoeddiad i Langollen, lle na bu'm erioed o'r blaen.' Y mae fy adgof ohono yn codi hiraeth ynof am dano. Ond 'gwyn ei fyd' ef.

"Cofion caredig.

"Yr eiddoch,

"David Morris."

---

"Bangor, Ebrill 17eg, 1883.

"Fy Anwyl Gyfaill,

"Y mae yn wir fy mod yn adnabyddus â'r brawd anwyl a'r gweinidog ffyddlawn, y diweddar Barch. Robert Ellis, er's yn agos i haner can' mlynedd, gan ein bod yn byw yn yr un sir ac yn aelodau o'r un Cyfarfod Misol, pan nad oedd ond un Cyfarfod Misol i'r holl sir. Pan ranwyd y sir yn ddau ddosbarth, yr oedd Mr. Ellis yn llygad-dyst o'r cyfnewidiad pwysig hwn yn Methodistiaeth Sir Gaernarfon.

"Yr oedd Mr. Ellis yn enedigol o Sir Gaernarfon, ac yn aelod o Gyfarfod Misol y sir hon dros ei holl oes weinidogaethol. Peth rhagluniaethol oedd hyn, fel y dywed yr Apostol pan yn traethu ar lywodraeth Duw ar y byd, ac ar amserau ac amgylchiadau dynion yn y byd, 'a bennodd yr amseroedd rhag-osodedig â therfynau eu preswylfod hwynt.' Nis gŵn pa fanteision a gafodd efe fel pregethwr trwy ei gysylltiad â'r sir hon dros holl ddyddiau ei fywyd, a thros ei holl oes weinidogaethol, ond cafodd fantais fel ysgrifenydd i roddi i'r oes hon a'r oesoedd dyfodol hanes manwl a dyddorol o'r diwygiadau a gymerodd le ar wahanol amserau ac yn ei ddydd ef yn y sir hon, y rhai a fuont dra bendithiol er llwyddiant crefydd.

"Yr wyf yn cofio yn dda fy mod yn ei wrando yn pregethu y Sabboth cyntaf y bu yn Nhabernacl Bangor, a hyny yn y flwyddyn 1833. Yr oedd yn amlwg i'r rhai oedd yn ei wrando, ac yn deall rhywbeth am bregethu, ei fod, nid yn unig yn ddarllenwr, ond hefyd ei fod yn feddyliwr. Yr oedd ganddo gorff cadarn, iachus, wedi ei gymhwyso i waith a llafur dros lawer o flynyddoedd, a

meddwl galluog a llawn bywiogrwydd, fel yr oedd y cydgordiad oedd rhwng y corff a'r yspryd yn mherson Mr. Ellis yn fanteisiol iddo dros ei oes yn ngwaith y weinidogaeth. Yr oeddys y pryd hwnw, er nad oedd efe ond yn dechreu pregethu, yn gwbl argyhoeddedig ei fod wedi derbyn mesur o yspryd a dawn y weinidogaeth. Pregethai yn rhwydd, naturiol, eglur a chymhwysiadol, ac i raddau yn effeithiol. Yr oedd yn meddu llywodraeth arno ei hun a dylanwad ar ei wrandawyr. Llefaru yr oedd, nid yn unig yn eu clywedigaeth, ond wrthynt. Tuedd ymarferol oedd i'w weinidogaeth y pryd hwnw. Yr oedd yn tori digon o waith i'w wrandawyr, a hyny dros eu holl oes, sef edifarhau am bechod a chredu yn Nghrist. Yr oeddem yn rhyfeddu fod un mor ieuanc yn gallu pregethu mor ymarferol ac mor fuddiol.

"Yr oedd yn ddiragrith a diblygion yn ei swydd yn gystal ag yn ei gymeriad. Nid oedd yn personoli neb ond efe ei hunan, nac yn dal i fyny gymeriad neb dyn ond efe ei hun. Pe b'ai rhywun oedd heb adnabod y diweddar Barch. Robert Ellis yn gofyn i mi pa fath bregethwr ydoedd, yr ateb fyddai, 'Os mynwch wybod hyny, cynghorwn chwi i ddarllen ei draethodau yn y gyfrol hon.'

*　　*　　*　　*　　*　　*　　*

"Mr. Ellis ei hun sydd yn y traethodau, ei waith ei hun, ei *style* ei hun, a'i feddyliau ei hun. Gellir trwy gyfrwng ei ysgrifeniadau ddeall ei feddyliau, a chymdeithasu âg un sydd erbyn hyn yn anweledig i'n llygaid naturiol, ac un sydd mor bell oddiwrthym ag ydyw y ddaear a'r nefoedd oddiwrth eu gilydd.

"Ychydig wythnosau cyn ei farw yr oedd genyf gyhoeddiad Sabboth yn yr Ysgoldŷ. ac aethum yno ddydd Sadwrn. Wedi myned at ddrws ei dŷ, daeth efe ei hun i agor i mi, ac yn ei ddull sydyn a'i eiriau brysiog, gofynai i mi o ba le a pha fodd y daethum. Dywedais wrtho mai cerdded a wnaethum o *Station* Bontrhythallt. Synai glywed hyny, a dywedai, 'Cerdded, cerdded, ni buaswn i yn gallu gwneyd hyny pe rhoisid y plwyf i mi am wneyd. Yn bendifaddeu, chwi fyddwch byw ar fy ol i eto.' Bu yn fy ngwrando ddwywaith y Sabboth. Cefais ychydig o ymddiddan difyrus âg ef am hen bethau Methodistaidd yr oes o'r blaen sydd bellach wedi myned heibio. Dywedai wrthyf ei fod yn bwriadu, er mor lesg ac agos i farw ydoedd, myned i'r Cyfarfod Misol oedd i fod yn Dinorwig yn mhen ychydig wythnosau. Yr oeddwn yn meddwl wrth wrando arno am Gyfarfod Misol y Graig, haner can' mlynedd yn ol, fel y cyntaf y bu ef ynddo. Dau Gyfarfod Misol pwysig yn eu perthynas â'n hanwyl frawd oedd y cyntaf a'r diweddaf yma.

"Wrth derfynu hyn o nodiadau, y mae yn dda genyf gael cyfleusdra i ddatgan fy llawenydd am fod Cofiant iddo ar

ymddangos. Yr oedd trwy ei athrylith, ei dduwioldeb, ei lafur gweinidogaethol, a'i ysgrifeniadau wedi haeddu gwneuthur hyn iddo.

* * * * * * *

"Ydwyf, fy anwyl gyfaill,

"Yr eiddoch yn ddiffuant,

"HUGH ROBERTS."

---

"Bethesda, Ebrill 21ain, 1883.

"Anwyl Gyfaill,

"Gofynasoch i mi ysgrifenu gair i'w ddodi yn Nghofiant Mr. Ellis. Yr oedd yn bur ofidus genyf ar y pryd eich clywed yn gwneuthur hyny, ac nid yw fy ngofid yn llai heddyw. Gwyddwn yr adeg hono, a gwn eto, nas gallaf ddyweyd dim am dano ond a fyddai bron o angenrheidrwydd eisoes yn yr hyn a ysgrifenasoch chwi. Oblegid hyny, fy mharch dwfn i'w goffadwriaeth yn unig a'm cadwodd rhag llwyr wrthod, ac a barodd i mi gydsynio i anfon i chwi ychydig eiriau.

"Gallwn grybwyll y ddau amgylchiad cyntaf y daethum i ryw agosrwydd ato. Y cyntaf oll ydoedd tuag ugain mlynedd yn ol yn nhŷ Mrs. E. Morris, gyda'r hon y llettyai y pregethwyr a fyddent yn aros yn Liverpool. Meddwl anghywir iawn oedd fy meddwl cyntaf i am Mr. Ellis. Barnu wrth y golwg a ddarfu i mi, a throes y farn allan yn bell iawn o fod yn farn gyfiawn. Cymerais ef ar y cyntaf am ŵr garw, gerwin; tybiais bod ei ddull swta, sydyn yn ymylu ar sarugrwydd; gosododd arnaf gryn raddau o'i ofn, a rhaid i mi addef am yr oriau cyntaf o'i gymdeithas, nad cwbl hyfryd i mi oedd y rhagolwg o orfod treulio wythnos dan yr un gronglwyd ag ef. Ei threulio, pa fodd bynag, a wnaed; a chyn diwedd y dyddiau, mi a ddeallais mewn rhan yr hyn a ddeallais yn well mewn blynyddoedd mwy diweddar, bod, er y cwbl, ymysgaroedd tiriondeb a thynerwch dwfn o'i fewn ef; ac wrth ymadael, buasai fy marn am dano, nid yn wir yn ngeiriau, ond eto rywbeth yn yspryd dywediad Goldsmith am Johnson pan yr oedd rhywun wedi achwyn ar erwinder yr hen wron hwnw, '*He has nothing of the man but his skin.*'

"Mae manylion ymddiddanion a digwyddiadau yr wythnos yn Liverpool wedi dianc o'm côf i agos yn llwyr. Yr adgof bywiocaf sydd ynof yw hwnw am dano un diwrnod yn cerdded ól a blaen o gwmpas yr ystafell yn Fraser-street, gan gwyno y golled a gawsai, ac mor ddiffrwyth yr aethai ei ddyddiau, oherwydd iddo gael cyn lleied o fanteision i ddiwyllio ei feddwl, a bod angenrhaid wedi ei

osod arno i roddi darn mor fawr o'i oes i amcanion eraill, heblaw gweinidogaeth y Gair. Mae y ddelw ohono yn cerdded ac yn cwynfan y prydnawn gwaith hwnw yn lled fyw o flaen fy meddwl byth. Adroddai pwy oedd y rhai a gydgychwynasant âg ef yn y gwaith, ac yr oedd yn eu plith rai enwau o wir enwogrwydd. Dywedai am eu llafur hwy, ac hefyd am eu llwyddiant; a 'dyma finau,' meddai, 'heb wneyd ond megys dim.' Pes adwaenaswn i ef yn iawn, mae yn debyg y deallaswn ei fod ar y pryd mewn llesmair o brudd-glwyfedd, neu o leiaf, iselder meddwl. Yr oedd yn tynu i gymydogaeth yr un agwedd yspryd ag y gwelwyd ef ynddi weithiau mewn Cyfarfod Misol, pan, o ryw brudd-der, y trigai mewn distawrwydd, ac ar ambell dro y petrusai fyned i'r 'sêt fawr,' ond yn lle hyny, yr eisteddai mewn un arall ar ffiniau hono. Sicr yw, modd bynag, ei fod, ar yr adeg y soniais am dani, yn amlwg hyd yn nód i estron yn curo gormod arno ei hun, ac yn cymeryd golwg llawer rhy dywyll ar bethau. Ac am ddiwylliad meddwl, efe oedd un o'r rhai olaf a ddylasai yn hyny basio arno ei hun farn condemniad. Pa faint bynag a fu ei anfanteision, nid wyf yn meddwl y ceir neb a wâd bod iddo ef feddwl gwir ddiwylledig. Yr oedd rhyw naws gref o goethder yn naturiol yn ei feddwl ef; o leiaf, felly y bu'm i yn dychymygu. Hefyd, mi dybygwn, mai o goethder cynhenid ei feddwl, gyda llym ddisgyblaeth hefyd, bid sicr, y tarddai symlrwydd a phurdeb ei iaith, yn gystal a rhagoriaeth nodedig ei arddull.

"Mae y peth diweddaf yma yn amlwg i bawb, ac i'w weled yn ei holl ysgrifeniadau, er ei fod i'w weled yn fwy amlwg yn rhai ohonynt nac yn y lleill. Nid wyf yn golygu awgrymu mai hynodrwydd ysgrifeniadau Mr. Ellis oedd rhyw fedr noeth ar eiriau, a gallu i lunio brawddegau, a dethol ymadroddion dewisol. Nid felly. Yr oedd ei draethodau yn ddatguddiad o anian hanfodol ei feddwl, nid yn unig o ran coethder, ond hefyd o ran grym, ac o ran craffder llym i weled i mewn i'r pethau yr ysgrifenai yn eu cylch, ac ar ol eu gweled, eu dyweyd nes peri i eraill eu gweled felly hefyd. Portreiadodd rhyw bethau mewn Methodistiaeth, a rhai elfenau yn mywyd crefyddol Cymru mewn modd nas gwnaed hyny yn hollol yr un fath gan neb ond efe. Yr oedd ei edrychiad i mewn i'r pethau yna yn glir, ac hefyd yn edrychiad priodol iddo ei hun; ac felly pan ddywedai yr hyn a welai, yr oedd yn ei ysgrifeniadau ryw swŷn mwy a gwell na swŷn geiriau. Ar yr un pryd, hyd yn nód o ran y defnydd a wneir ynddynt o'r Gymraeg, haedda ysgrifeniadau Mr. Ellis eu cadw rhag y perygl o fyned ar goll. Dygant ar gôf, heb eu dynwared, weithiau rai o ysgrifenwyr goreu Cymru. Diau genyf y buasai llawer a gyfrifir yn llen-

orion yn ei ystyried yn chwithig pe cawsent eu hanog i eistedd wrth draed yr hen weinidog Methodistaidd disyml o'r Ysgoldŷ gynt, er mwyn dysgu ysgrifenu iaith eu mam, ac eto prin y gallasent byth gael gwell cynghor.

"Collais olwg ar Mr. Ellis am gryn amser wedi ffarwelio âg ef yn Liverpool. Y tro nesaf i mi ei weled a'i glywed oedd mewn cyfarfod yn un o gapelau Arfon. Cyfarfod sefydlu, ys dywedir, oedd y cyfarfod hwnw, a rhoddai yntau amryw gynghorion i'r eglwys ac i'r pregethwr oedd y pryd hwnw newydd ddyfod i breswylio i'r ardal hono. Mae arnaf ofn bod y rhan fwyaf o'i sylwadau goreu yn y cyfarfod wedi eu colli genyf erbyn hyn. Un sylw, modd bynag, yn unig a goffâf, a pherthyn y mae hwnw, nid i'r pethau trymaf a ddywedodd, ond i'r lleill; er hyny, hwyrach ei fod yn hysbysu ychydig ar ryw un ochr i feddwl Mr. Ellis. 'Byddwch yn Fethodist da,' meddai wrth y bugail, 'fydd hyny yn un rhwystr i chwi fod yn frawdol, parchus a chariadus tuagat bawb arall. Meddyliwch yn well o'r Methodistiaid nag o neb arall. Mae yn yr achos yma fel y mae rhwng gŵr a gwraig. Ro'wn i yr un *bin* o fy llawes am ddyn os na bydd ef yn meddwl mai ei wraig ef yw y wraig oreu yn yr holl wlad i gyd. Fydd hyny yn rhwystro dim arno i barchu gwragedd pawb eraill. Felly chwithau, meddyliwch yn uwch o'r Methodistiaid nag o neb arall,' &c., &c. Geiriau dyn sectol, fe ddywedai yr anghyfarwydd â Mr. Ellis, yw geiriau fel y rhai yna. Ond ni wnaethai neb gam-gymeriad mwy na'r neb a farnai felly. Yr oedd i Mr. Ellis galon Cristion, a Christion ëang, fel y gallesid yn hawdd ddangos, er nad ydwyf fi yn myned i geisio gwneyd hyny. Un gair a ddisgynodd unwaith oddiwrtho megys yn ddiarwybod iddo, mi allwn, efallai, ei grybwyll. Gair ydyw a ddywedodd mewn Cyfarfod Misol, lle yr ymdrinid ar y pryd â rhyw bethau a berthynent i lwyddiant gweinidogaeth yr efengyl. Yn ystod yr ymdrafodaeth, ac yntau ar ei draed yn siarad, fe ddywedodd—mewn ffordd oedd yn eglur ddangos nad oedd wedi meddwl dyweyd—y sylw hwn :—'Ni byddaf fi,' meddai, 'byth yn cychwyn ymaith oddicartref i'm cyhoeddiad ar ddydd Sadwrn heb fyned ar fy ngliniau i ofyn i'r Arglwydd am lewyrch ei wyneb yn y gwaith dranoeth, nid arnaf fi fy hun yn unig, ond ar fy holl frodyr, ac nid fy mrodyr yn mhlith y Methodistiaid yn unig chwaith, ond fy holl frodyr o bob enwad a bregethant Grist Iesu yn Geidwad.' Yn ei yspryd y pryd hwnw, yn gystal ag yn ei ymadroddion pan eu dywedai, yr oedd argoel goleu iawn eu bod yn eiddo gŵr oedd yn meddwl, nid am Fethodistiaeth yn unig, ond yn fwy na hyny, oedd 'yn meddwl am ei enw Ef.'

"At y ddau amgylchiad a nodais gyntaf, y man lle y gwelwn Mr. Ellis fynychaf oedd yn Nghyfarfod Misol y sir hon. Ac o'r Cyfarfod Misol hwnw, yr oedd efe yn ddarn pur fawr, er na pherthyn i mi yn y fan hon ddyweyd dim am dano yn y berthynas hono. Y peth a ddywedwyd am dano yn nglŷn â'r Cyfarfod Misol, fe ellid yn eithaf cyfreithlawn ei ddyweyd hefyd am dano yn nglŷn â'r holl wlad yma a'i thrigolion. Yr oedd Mr. Ellis yn gryn ddarn o Arfon ei hunan; tyfasai megys o'i daear i raddau mwy na llawer; yr oedd naws ei fro-dir yn gryf arno, a chyfarfyddai ynddo y pethau penaf ac amlycaf a nodweddent y bobl yn nghanol pa rai yr oedd yn trigo. Dyma lle yr oedd llawer o ddirgelwch cryfder ei ddylanwad. Gair, chwi wyddoch, sydd wedi tyfu i arferiad pur fynych yn y blynyddoedd diweddaf hyn yw *environment*. Er yr olwg hir a dyeithr sydd arno, mae yn debyg nad yw ond ymadrodd eithaf diniwed, ac mai y cwbl y mae yn ei olygu ydyw, yr hyn sydd o amgylch peth. Ac yr wyf yn meddwl y dywed y bobl fydd yn ei arfer wrthym mai yr amod fawr ar ba un y gall pob rhyw fôd fyw yn gysurus a thyciannus ydyw, ei fod yn medru addasu ei hun at yr hyn fyddo o'i gwmpas. Ni bu raid i Mr. Ellis feithrin na disgyblu y medr hwn. Yr oedd ef yn addas eisoes; ganwyd ef felly, ac yr oedd llawer o'r elfenau y bu efe byw yn eu canol ynddo megys o'r bru. Mae yn go' genyf mai un o'r geiriau cyntaf a glywais i neb yn ei ddyweyd am dano oedd hyn:—'Y mae efe yn deall y chwarelwyr yn well na neb.' Yr oedd, yn ddiau, yn eu deall yn dda; deallai hwy am ei fod yn cydymdeimlo â hwy, a chydymdeimlai â hwy am ei fod yn eu pethau priodol yn un ohonynt. Ac yn gymaint a bod ynddo gynifer o fanau lle yr oedd brodorion y wlad hon ac yntau yn cyffwrdd ac yn cydymdeimlo â'u gilydd, yr oedd ganddynt hwy ymddiried mawr ynddo ef, a chanddo ef ddylanwad mawr arnynt hwythau, yr hwn ddylanwad ni phrisid ac ni ddefnyddid ganddo, ond i'r graddau y gallai trwyddo yn fwy effeithiol wasanaethu teyrnas ei Arglwydd.

"Y tro diweddaf y gwelais i Mr. Ellis ydoedd yn yr Ysgoldŷ. Y pryd hwnw yr oedd yn bur agos i angau, a gwyddai yntau hyny. Nid oedd yn orfoleddus; prin, hwyrach, y gallesid disgwyl iddo fod. Nid cydwedd â'i natur ef fuasai ystâd yspryd felly. Ond os nad ydoedd yn orfoleddus, yr oedd yn gryf a thawel-hyderus. 'Milwaith,' meddai unwaith yn ei ymddiddan,—'milwaith yn ystod y blynyddoedd yr wyf wedi llefain "Ac y'm cair ynddo ef;" llawer, lawer gwaith yr wyf yn fy oes wedi rhoddi fy hunan i Iesu Grist, gan ofyn iddo fy nerbyn; ac y mae yn ddiamheu genyf y câf fy nerbyn ganddo; pa'm *na* châf?' meddai yn yr un llais ac yn yr un dôn led-gras a go galed a glywsom ganwaith, ag hefyd y

mae'r meddwl na chawn eto ar y ddaear glywed mwy na'r naill na'r llall, yn peri yn mhawb ohonom ar amserau gymaint o hiraeth. Wrth fyned o'r Ysgoldy y prydnawn hwnw, a thrachefn ar ddydd ei gladdedigaeth, ac aml-waith ar ol hyny, wrth feddwl am dano yn ei ddyddiau olaf, ymgodai a sibrydai yn fy meddwl eiriau Williams:—

"'Mi welaf olion traed y saint,
Dan y cystuddiau mwya'u maint,
Yn cadw'u cysur, cadw'u braint,
Yn wyneb angau glas.'

"Mae yn y tŷ yma air o'i eiddo a gedwir gyda chryn barch yn mhlith ychydig esiamplau o ysgrifen-law amryw eraill o rai rhagorol y ddaear. Y gair ydyw :—'Bydd ffyddlawn hyd angau.' Yn ystod ei gystudd diweddaf yr ysgrifenodd ef ar *bost card* at flaenor yn yr ardal hon yn hysbysu ei anallu oherwydd gwaeledd i ddyfod i'w gyhoeddiad. Ar waelod y *card*, lle y dodir yr anerch a'r cofion arferol, ysgrifenodd ef, 'Bydd ffyddlawn hyd angau.' Digwyddiad bychan a dibwys yn ddiau y cyfrifir hwn yna; eto yr oedd ac y mae yn dyweyd cryn lawer wrth y neb a'u hystyrio; wrth y rhai a adwaenent Mr. Ellis oreu y mae yn dyweyd fwyaf oll. Gair cyffredin i lawer meddwl yw y gair a ysgrifenodd, er mai gair yr Arglwydd yw; y mae wedi ei fynych ddefnyddio yn ddigon difeddwl gan bobl ddifeddwl. Ond y mae gwir ystyr iddo fel y deuai oddiwrth Mr. Ellis. Yr oedd ei fuchedd a'i helynt ef yn peri y gallai ei ddefnyddio ar fin marw heb i'w galon ei gondemnio. Yr oedd efe mewn modd enwedig yn un a gafodd y drugaredd i fod yn 'ffyddlawn.' Rhodder yr un drugaredd i minau.

"Yr eiddoch yn ddiffuant,

"THOS. ROBERTS."

---

"Ebenezer, Mai 8fed, 1883.

"Anwyl Frawd,

"Gyda theimladau tra chymysgedig o hiraeth a hyfrydwch yr wyf yn cydsynio â'ch cais o ysgrifenu ychydig o'm hadgofion am fy anwyl frawd a chyfaill, y diweddar Barchedig Robert Ellis.

"Gan fy mod wedi fy magu yn y gymydogaeth hon fel yntau, diau fy mod yn ei adnabod bron o'm mabandod, ond nid oes genyf un côf am dano hyd yr amser y dechreuodd bregethu. Yr ydwyf yn cofio yn dda yr adeg y cymerais sylw neillduol ohono. Yr oedd ef a'r diweddar Barch. E. Foulkes, ac ychydig gyfeillion crefyddol,

wedi bod ar noswaith yn hir-ddydd hâf, mewn tŷ cyfagos i'm hen gartref, yn ymweled â chwaer glaf. Yr oeddynt yn myned ar hyd llwybr yn ochr pa un y safwn i ac ychydig o'm cyfoedion. Yr oeddym yn edrych ar y ddau, sef Mr. Foulkes ac yntau, fel bodau oeddynt yn sefyll yn rhywle rhwng dynion ac angelion. Dyna oedd ein syniadau plentynaidd ni am bregethwyr, ac nid rhyfedd, canys nid oedd yma yr un pregethwr yn y gymydogaeth cyn hyny, o leiaf, i ni wybod am dano. Aethant heibio heb gymeryd un sylw ohonom ni, ond nid heb i ni sylwi arnynt hwy. Yn arbenig argraffodd Mr. Ellis ei hun yn ddwfn ar fy meddwl fel dyn cryf a heinyf o gorff, ac annibynol o feddwl. Mae yn debyg na buaswn y pryd hwnw, pan nad oeddwn ond tuag wyth mlwydd oed, yn gallu gosod fy syniad yn y geiriau yna, ond ni phetrusaf ddywedyd mai dyna oedd fy syniad plentynaidd o'i ddeongli. Mae meddwl plentyn yn barod iawn i dderbyn argraffiadau, a gorchwyl anhawdd yw eu dileu. Hyderaf na thybir fi yn hunanol wrth ddyweyd na chefais achos i newid y syniad wedi dyfod i fwy o adnabyddiaeth o Mr. Ellis, ac i fwy o aeddfedrwydd barn i ffurfio syniadau am dano.

"Yr ydwyf yn cofio yn dda am y bregeth gyntaf o'i eiddo a adawodd argraff ddofn ar fy meddwl, mor ddofn fel ag i gofio y testyn a rhywfaint o gynwys y bregeth hyd heddyw. Y testyn oedd, 'Hwythau wedi clywed *hyn*, a ddwysbigwyd yn eu calon, ac a ddywedasant wrth Petr a'r apostolion ereill, Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni.' Diau mai nid y tro hwnw oedd y waith gyntaf i mi ei glywed yn pregethu, ond dyna y waith gyntaf i mi ei *gofio* yn pregethu. Argyhoeddiad oedd mater y bregeth, mi dybiwn, canys soniai lawer am bigo, dwysbigo, dwysbigo yn eu calon, a hyny gyda difrifwch mawr. Er nas gallwn fod ond o ddeg i ddeuddeg mlwydd oed, gadawodd y bregeth hono argraff ar fy meddwl sydd, mi gredaf, yn annilëadwy. Ni wnaf grybwyll ond un arall o'm hadgofion boreuol am dano. Yn haf 1845, yr oedd amryw deuluoedd o'r gymydogaeth hon, a rhai ohonynt yn perthyn i eglwys Cefnywaen, yn ymfudo i'r America, ac yn eu plith yr hen frawd Hugh Roberts, Tan-y-buarth. Yr oedd Hugh Roberts, er nad oedd yn swyddog eglwysig, yn un o'r crefyddwyr goreu a mwyaf selog a gweithgar y pryd hwnw yn Cefnywaen. Yr oedd yn rhaid i'r hen frawd gael seiat ymadawol. Cafwyd un ragorol; yr oedd Mr. Ellis yn bresenol. Wedi i Hugh Roberts ddyweyd ei deimladau ar ei ymadawiad, ac amryw o'r brodyr adrodd eu teimladau hwythau, galwyd ar Mr. Ellis i roddi cyfarchiad ymadawol i'r hen frawd. Cododd i fyny yn sydyn, a dechreuodd yn debyg i hyn:—

'Y mae Hugh Roberts yn myned i'r America, a dymuniadau da yr eglwys hon a'r holl gymydogaeth yn ei ddilyn ef a'i deulu; ond y gŵr

bonheddig cyntaf a gyferfydd â Hugh Roberts ar ei làniad yn New York, ac a'i dilyna yn ei holl symudiadau ar gyfandir ëang America, fydd Mr. Helbul.' Yr hyn a argraffodd y sylw ar fy meddwl ac ar feddwl pawb a'i clywsant oedd ddarfod i 'Mr. Helbul' gyfarfod â'r hen frawd, nid wedi iddo lànio yn New York, ond yn Liverpool, canys yno, ar ol ychydig ddyddiau o gystudd, bu farw ei fab ieuengaf, Robert, yn un ar bymtheg oed, ac yn fachgen ieuanc gwir grefyddol. Bu'm am rai blynyddoedd oddiyma, a phan ddaethum yn ol yn niwedd 1852, yr oeddwn newydd ddechreu pregethu. Yn mis Tachwedd y flwyddyn hono y bu'm gyntaf yn Nghyfarfod Misol Arfon, yn hen gapel Rhydfawr. Y pryd hwnw yr oedd fy anwyl frawd yn mysg y rhai blaenaf—yn un o arweinwyr y Cyfarfod Misol a minau ar y sedd isaf—a'r olaf ar y sedd hono. Teimlwn fod hyny yn crëu cryn lawer o bellder rhyngom, er ein bod yn gymydogion agos—efe yn yr Ysgoldŷ a minau yn Cefnywaen. Fel y dywedais yn barod, yr oeddwn wedi ffurfio syniadau uchel am dano, mor uchel, yn wir, fel ag i deimlo yn wylaidd, os nad yn ofnus yn ei bresenoldeb. Mewn gair, yr oedd fy syniadau uchel am dano yn peri nas gallwn fyned yn hŷf arno, pe buaswn yn meddwl bod felly. Ac nid oedd ein hanwyl frawd yn un hawdd iawn i neb fyned yn hŷf arno. Yr oedd y fath aruchledd *(dignity)* yn perthyn i'w berson a'i gymeriad a'i diogelai rhag i neb ymwthio ar frys i'w gyfrinach ac ennill ei gyfeillgarwch. Daeth ef a minau yn gyfeillion mynwesol yn araf, ond yn sicr, trwy fynych gydgyfarfod â'n gilydd. Byddai yn y blynyddoedd hyny, trwy mai efe oedd yr unig weinidog ordeiniedig oedd genym yn yr ardaloedd hyn, yn dyfod atom yn fynych i'n cyfarfodydd eglwysig i weinyddu yr Ordinhad o Fedydd, a chefais fantais i'w weled a'i adnabod. Mynych, pan y byddem yn myned i'n teithiau Sabbothol yn yr un cyfeiriad, y cawsom lawer cyfeillach felus ac ymgom ddifyrus. Trwy y cydgyfarfyddiadau hyn aethom ein dau yn gyfeillion mynwesol megys yn ddiarwybod. Cyfeillgarwch o dyfiad graddol ydoedd, a pharhäodd ei dyfiant hyd y diwedd, ac y mae ynof duedd gref i gredu *ei fod yn tyfu eto* er ei fod ef wedi gadael y ddaear a myned i'r Nefoedd. Fel y crybwyllwyd yn barod, nid oedd ein hanwyl frawd yn un hawdd i bregethwr ieuanc nesâu ato yn rhwydd ar y cyntaf, a bu hyny yn achlysur i rai dybio ei fod yn uchel a sarug. Ond nid oedd felly mewn gwirionedd. Gallai ei fod felly ar y cyntaf; ond wedi cael amser i'w adnabod a dyfod i'w gyfrinach, yr oedd yn un o'r dynion mwyaf hawddgar a serchog a llawn o gydymdeimlad. Ychydig flynyddoedd wedi i mi ddechreu pregethu, yr oeddwn un Sabboth yn nhaith Ysgoldŷ a Bryn'refail; yr oedd yntau gartref y Sabboth hwnw ac yn gwrando

arnaf yn yr Ysgoldŷ y boreu a'r hwyr. Yr oeddwn wedi pregethu y Sabboth hwnw, fel llawer un cyn a chwedi hyny, yn dra anfoddhaol i mi fy hun ac ofnwyf hefyd i'm gwrandawyr. Wrth ddyfod gydag ef i fyny o'r Ysgoldŷ nos Sabboth, teimlwn yn isel a digalon, ond yn cadw hyny yn gwbl i mi fy hun. Pan yn ffarwelio â mi yn ymyl y Shop-gròn, ymaflodd yn fy llaw yn serchog, a dywedai air neu ddau mewn dull distaw a dirodres a barodd i mi deimlo fod ganddo galon gynes tuagataf, a chydymdeimlad parod â'r gwan yn mhob amgylchiad, a chefais ef felly mewn llawer profedigaeth a'm cyfarfu wedi hyny—y cyntaf i gydymdeimlo â'r parotaf ei wasanaeth yn mhob amgylchiad o brofedigaeth a thrallod, ac y mae ei goffadwriaeth yn anwyl gan luaws o deuluoedd yn y cymydogaethau hyn ar gyfrif y rhinweddau hyn oeddynt mor amlwg yn ei gymeriad.

"Nodwedd arbenig arall yn ei gymeriad oedd uniondeb diwyrni. Yr oedd yn hollol ddidwyll. Gallaf yn ddibetrus gymhwyso ato ef eiriau yr Arglwydd Iesu am Nathanäel, 'Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll.' Bu mewn llawer o amgylchiadau o ofn a phryder; yr oedd yn dueddol i gymeryd golwg brudd a thywyll ar bethau—yn ormodol felly rai prydiau. Ond byth ni phetrusai wneuthur yr hyn oedd iawn, bydded y canlyniad a fyddai. Ni fyddai achos byth ofni iddo beidio gwneyd yn iawn. 'Uniondeb yw llwybr y cyfiawn,' a dyna yn arbenig oedd ei lwybr yntau. Yr oedd hefyd yn dra eiddigeddus dros anrhydedd y weinidogaeth, ac yn dra gofalus i ymgadw rhag pob ymddygiad a allasai fod yn achlysur beio ar y weinidogaeth. Gallaf anturio dyweyd ei fod wedi cario y gochelgarwch hwn rai prydiau yn rhy bell, a sicr yw fod ei waith yn cerdded teithiau pell heb droi i un man am ychydig seibiant ac ymborth wedi profi yn niweidiol i'w iechyd, yn enwedig pan yn dechreu heneiddio. Buasai yn dda gan ei gyfeillion ei weled yn troi i mewn atynt, ac yn llawen ganddynt weini iddo, eto ni wnai ond yn anfynych, rhag trethu caredigrwydd ei frodyr a'i chwiorydd. Flynyddoedd lawer, bellach, yr oedd i fod ar Sabboth penodol yn nhaith Talysarn; yr oeddwn inau yr un Sabboth yn nhaith Llanllyfni. Rywbryd yn nghorff yr wythnos flaenorol cytunasom i gydgychwyn i'r daith bedwar o'r gloch prydnawn Sadwrn, a chofier nad oedd y pryd hwnw ond cerdded yr holl ffordd, tua thair milldir ar ddeg. Erbyn boreu Sadwrn, yr oedd yr holl wlad yn orchuddiedig gan eira, a hwnw amryw fodfeddi o ddyfnder. Anfonodd genad boreu Sadwrn i ofyn i mi, ai ni fyddai yn well i ni gychwyn am ddau gan y byddai y ffordd yn flin ac anhawdd ei cherdded? Cytunais â hyny, a chychwynasom ar yr amser diweddaf a nodwyd, sef dau o'r gloch. Erbyn cyrhaedd

y Bontnewydd, yr oedd yn dechreu tywyllu, a ninau yn teimlo yn llesg a blinedig. Wedi gadael y pentref, trôdd ataf yn sydyn, a dywedodd y dylasem droi i rywle i orphwys am ychydig a chael cwpanaid o dê. 'Mi fyddwn yn y Groeslon yn fuan,' meddwn inau, 'ac mi drown i mewn at Mr. a Mrs. Jones (Parch. J. Jones a'i briod), bydd yn dda ganddynt ein gweled, a rhoddant i ni bob croesaw.' 'Ië,' meddai, 'dyna y fan.' Aethom yno a chawsom dderbyniad siriol a charedig, a gofynai Mrs. Jones iddo a gymerai dê. 'Na, na, Mrs. Jones bach, dim ond gorphwys tipyn a *smoke*.' Cyfryngais inau yn y fan trwy ddyweyd ei fod bron llewygu er's meityn, ac nad oeddwn inau ddim gwell. Nid rhaid i mi ddyweyd beth fu y canlyniad wrth neb ydynt yn adnabod y brawd a'r chwaer grybwylledig. Wedi cael ein diwallu a gorphwyso enyd, cychwynasom i'n taith, ac wrth fyned dywedai fel yr oedd yn teimlo ei natur wedi adfywio, a mawr ganmolai garedigrwydd y teulu. 'Paham, ynte,' meddwn inau, 'yr oeddych am wrthod ei charedigrwydd?' 'Wel,' meddai, 'daeth ryw deimlad o gywilydd droswyf, a theimlwn yn annheilwng o'r fath garedigrwydd.' Byddai ofn arno yn wastad rhag i neb dybied ei fod yn cymeryd mantais ar ei safle fel pregethwr i bwyso arnynt. Gwell ganddo fuasai dyoddef blinder a newyn na chymeryd dim a fuasai yn debyg o fod yn ormes ar garedigrwydd hyd nôd yn ei gyfeillion.

"Yr oedd yn hoff o waith, ac yn myned yn fwy hoff ohono hyd y diwedd. Dywedodd wrthyf lawer gwaith yn ystod y flwyddyn ddiweddaf y bu fyw na ewyllysiai fyw yn hir wedi colli ei ddefnyddioldeb, a chafodd ei ddymuniad yn hyn mewn modd amlwg iawn. Wedi gorphen ei waith, cafodd ychydig ddyddiau i gasglu ei feddyliau yn nghyd i fyned trwy y porth i'r ddinas sanctaidd. Bu farw yn dawel a siriol, 'heb ofni grym y dŵr a'i thonog genlli';' a phan glywais am ei farwolaeth nis gallwn ymatal a dyweyd, 'Efe a aeth i dangnefedd.' Er marw, y mae yn fyw eto, nid yn unig yn y Nefoedd, ond yn nheimladau serchog côf lluaws o'i frodyr a'i gyfeillion. Bu fyw bywyd o ddefnyddioldeb nad oes llawer wedi ei gyrhaedd, a hyny am dymhor maith, a thrwy lawer o anhawsderau; a bu farw, er wedi cyrhaeddyd henaint, heb heneiddio. Wrth derfynu hyn o adgofion am un o 'rai rhagorol y ddaear,' nid oes genyf ond gofidio na allaswn roddi desgrifiad mwy cyflawn a pherffaith ohono, ond yr wyf yn teimlo fy mod yn eu cyflwyno i sylw lluaws ydynt, fel fy hunan, yn gwerthfawrogi ei goffadwriaeth, ac y bydd yn hawdd ganddynt fyned heibio i anmherffeithrwydd a diffygion yr adgofion hyn.

"Byth yr eiddoch,

"W. ROWLANDS."

"Y Parch. John Owen Jones, Llanberis."

Gwelir oddiwrth y llythyrau blaenorol pa mor uchel oedd Mr. Ellis yn meddwl ei gyfoedion a'i gydlafurwyr, a bod eu barn hwy am dano oddiar eu hadnabyddiaeth ohono yn gwbl wahanol i'r hyn a syniai efe bob amser am dano ei hun. Dangosant yn eglur ei fod yn rhagori yn yr ansoddau a'r elfenau yr oedd efe ei hun yn teimlo ei fod fwyaf diffygiol ynddynt. Ymgysegrodd i Dduw a'i achos, a chollodd ei hun yn y gwaith fel na welai ond ei ddiffygion a'i anmherffeithrwydd yn ngoleuni disglaer sancteiddrwydd ei syniad am arucheledd a mawredd y gwasanaeth cymeradwy gan yr Arglwydd.

Bydd i'w fywyd, o angenrheidrwydd, lanw lle mawr yn hanes dadblygiad a llwyddiant crefydd yn ardaloedd chwarelau Llanberis, ac o fewn cylch Cyfarfod Misol Arfon. Megys na fesurir dyddiau gan nifer eu hystormydd na phrydferthwch eu henfys, ond gan yr oriau tawel a änt heibio yn ddisylw, felly y mae bywyd "gwas yr Arglwydd" sydd yn brysur mewn distawrwydd yn dilyn ei waith anfarwol o awr i awr, i'w fesur, nid wrth reolau cynhyrfiad, arddangosiad a thrwst gwâg y byd, ond wrth ei weithrediadau distaw a'r canlyniadau tragywyddol eu parhad er yn awr yn anweledig. Yn ol y safon yma o feirniadaeth, saif Robert Ellis, o'r Ysgoldŷ, yn rhestr uchaf "ffyddloniaid yn Nghrist Iesu," am fod ei symledd, ei ymroddiad, ei burdeb a'i gydwybodolrwydd yn gyfryw nad oes ond goleuni y "dydd hwnw" a eglura y gwaith mawr a wnaed ganddo. Priodol iawn y gellir terfynu yr adgofion hyn yn ngeiriau yr Apostol Paul, fel ymadroddion a roddant i ni mewn modd cryno amrywiol arweddau ei gymeriad a sicrhaodd iddo y fath ddefnyddioldeb uchel a dyrchafedig yn ngwinllan a gwasanaeth yr Arglwydd Iesu Grist:—

"CANYS EIN GORFOLEDD NI YW HYN; *sef* TYSTIOLAETH EIN CYDWYBOD, MAI MEWN SYMLRWYDD, A PHURDEB DUWIOL, NID MEWN DOETHINEB CNAWDOL, OND TRWY RAS DUW, YR YMDDYGASOM YN Y BYD."

# TRAETHODAU, &c.

## LLITHOEDD AR EGLWYS DREFNUS.

### Y LLITH GYNTAF.

"Gwneler pobpeth yn weddaidd ac mewn trefn," sydd gyngor Dwyfol. Mae rheol a threfn, gydag unrhyw sefydliad, yn beth hwylus a hardd. Gyda rheol a threfn, gellir gwneyd pobpeth yn llawer mwy diboen ac yn llawer mwy effeithiol. Ac y mae felly gydag achosion eglwysig: eglwys o ran ei phethau allanol, yn cael ei dwyn yn mlaen yn rheolaidd a threfnus, pobpeth yn ei le ei hun, pobpeth yn ei amser ei hun, a phawb gyda'i waith ei hun—mor hylaw, mor hardd, ac mor effeithiol ydyw! A phaham na byddai felly gyda phob eglwys? Paham y llusgir yn fwy annyben a didrefn gydag achos crefyddol nag unrhyw *goncern* arall yn yr ardal? Ond ceir yn rhy fynych mai hyn yw y ffaith. Nid oes mewn ambell i ardal na ffarm, na siop, na melin, na phandŷ, yn cael eu dwyn yn mlaen mor ddilûn a didrefn a'r achos crefyddol yn y lle. Mae llawer o gŵyno genym fod *crefydd yn isel.* Gellir ofni fod cŵyno o'r fath yn fwy o arferiad nag o deimlad. Pe byddai dynion yn teimlo fel y maent yn cŵyno, gwnaent rywbeth heblaw cŵyno. Pa ryfedd fod yr achos yn isel mewn llawer man gan ei fod yn cael ei adael megys i ymdaro drosto ei hun? Pe byddai i ryw achos arall gael ei adael mor ddilûn, darfyddai am dano; nis gallai ymgynal yn y fath annhrefn. Ac oni ba'i fod mewn eglwys ryw elfen anfarwol, nis gallai hithau ymgynal. Mor annheilwng yn y rhai a broffesant eu hunain yn gyfeillion i'r Gwaredwr, eu bod yn ddynion gofalus a threfnus gyda'u pethau eu hunain, ond yn gadael ei wasanaeth Ef i ymdaro rywfodd, rywlûn! Gwir mai yr elfen sanctaidd o fywyd yw gogoniant eglwys, a bod y bywyd hwn mewn annhrefn yn tra rhagori ar ffurfioldeb trefnus a marw. Mae eglwys drefnus heb fywyd yn rhy debyg i fynwent drefnus. Trefn dan deyrnasiad marwolaeth ydyw. Ond mae yn llawer haws i'r bywyd sanctaidd hwn ymddangos yn ei ogoniant, a thori allan mewn gweithgarwch grymus, lle byddo trefn dda, nag yn nghanol aflerwch. "Nid yw Duw awdwr annhrefn ond trefn." Diafol, a rhai rhy debyg iddo, sydd yn crëu ac yn caru annhrefn.

Er dwyn yn mlaen achosion eglwysig yn drefnus, wrth gwrs,

mae yn rhaid cael swyddogion. Ni feddyliodd neb ond rhai â rhyw gymaint o'r dynol, yn gystal a'r grasol, ar ól ynddynt, fod yn bosibl cario achosion eglwysig yn mlaen, mwy na rhyw achosion eraill, heb ddynion cymhwys i flaenori. Ond da fyddai cael y swyddogaeth hon mor gyflawn ac mor effeithiol ag y byddo bosibl, yn gymaint ag mai ar y brodyr hyn y gorphwys y cyfrifoldeb o drefnu a blaenori yn mhob peth. Yn y cyffredin, bydd llawer o ddelw y swyddogion ar yr eglwys. Nis gellir disgwyl eglwys fywiog a gweithgar lle byddo swyddogion marwaidd a digychwyn, nac eglwys unol lle byddo y swyddogion yn rhanedig. Ond lle byddo y swyddogion yn "weision ffyddlawn a doeth," gellir disgwyl i'r eglwys hono fod yn un gynyddol a ffrwythlawn. "Y gwas ffyddlawn a doeth" yw yr un cymhwys i fod yn swyddog eglwysig. Os ceir gwybodaeth helaeth a dysg, dawn a moddion, da; ond os bydd y "ffyddlawn a'r doeth" ar ol, gall dyn, er meddu y pethau eraill, wneyd llawer mwy o ddrwg nag o dda. Gall wneyd purion arglwydd, ond nid "gwas."

Er gweithredu yn drefnus ac effeithiol, da hefyd fyddai cael y swyddogaeth hon mor gyflawn ag y gellir. Mae y gwaith yn amrywiol, a rhaid cael cymhwysderau amrywiol ato. Diffyg pwysig rhai eglwysi yw ceisio gwneyd â rhy ychydig o swyddogion. Rhaid i'r swyddogaeth hono a wneir i fyny o ddau neu dri o frodyr fod yn boenus o ddiffygiol, neu ynte rhaid i'r brodyr hyn fod yn hynod o ran amrywiaeth eu cymhwysderau. Nid oes dim a esgusoda fod rhif y swyddogion yn ychydig mewn eglwys, ond ei bod yn rhy dlawd o ddynion i ychwanegu atynt. Paham y beichia yr ychydig eu hunain â llafur a gofal, tra y gellir cael eraill yn yr eglwys cymhwys i gymeryd eu rhan o'r baich? Mae yn ddifrifol o beth os bydd y swyddogion yn rhy ddifeddwl, neu yn rhy hunangar i ychwanegu at eu rhif. Nid dymunol ychwaith fod y swyddogion oll yn tynu at fod yn hen, ond yn hytrach fod cymesuredd o bwyll yr hen a bywiogrwydd yr ieuanc yn cydweithio. Peth a brofodd yn niweidiol lawer gwaith ydyw, fod hen flaenoriaid da, oddiar ryw deimlad neu gilydd, yn gomedd ychwanegu atynt nes myned yn hen; yna bydd eu gwaith yn disgyn i ddynion dibrofiad yn y swydd, ac heb gael yr amser priodol i ennill y dylanwad gofynol i'w lle; canys nid peth i'w gael trwy awdurdod, na Chyfarfod Misol, na Chymdeithasfa, ac nid peth yn aros am ddyn yn y sêdd fawr, yw y dylanwad hwn, ond peth i'w ennill yn raddol, ac mewn ffordd cyfiawnder. Mae cryn lawer o annybendod ac aflerwch yn cael ei achlysuro weithiau mewn rhai eglwysi, trwy fod hen ddiacon ffyddlawn a da, ar ol bod yn hir ar y blaen yn arwain, ond o'r diwedd yn llesgâu a marweiddio gan henaint, ac eto

oherwydd plentynrwydd henaint neu rywbeth, yn dàl gafael dèn mewn rhanau o'r gwaith y byddai bywiogrwydd rhai, ac yni ieuengach yn llawer cymhwysach iddo. "Ni ddaw henaint ei hunan." Ond gresyn fod hen frodyr teilwng felly yn myned yn fwy ar y ffordd na dim arall. Mae y cyfryw yn deilwng o bob anrhydedd ac ni byddent yn fyr o hyny pe cydnabyddent eu hunain.

Er cael eglwys drefnus, mae yn ofynol i'r swyddogion fod yn fynych gyda'u gilydd, yn cydymgynghori pa fodd i ddwyn pobpeth yn mlaen yn y modd doethaf. Gyda'u gilydd fel hyn y maent i ddyfod i gyd-ddealltwriaeth ar bobpeth, i gyd-drefnu a chynllunio, ac i hwylio pawb at ei waith. Gyda'u gilydd y maent i "fwrw golwg" a oes neb afreolus yn galw am rybudd neu gerydd—a oes neb yn pallu, a pha fodd i'w adferu—a oes neb mewn afiechyd neu dlodi yn galw am ymweliad neu gymhorth—a oes rhai i'w cyflawn dderbyn, a pha ymholi yn eu cylch sydd ofynol yn flaenorol—a chânt a mwy o wahanol bethau, rhai yn llai, a rhai yn fwy pwysig, y dylai swyddogion eglwysig gydymholi a chydolygu yn eu cylch. Oni bydd gan y swyddogion ryw gydymgynghoriad fel a nodwyd, nis gall fod eglwys drefnus yn y fan hono. Byddant yn dyfod yn nghyd heb wybod pa fodd i wneyd, na pha beth i fyned yn ei gylch; a bydd yr hyn a adewir yn waith i bawb heb fod yn waith i neb, a bydd y naill yn gweithredu heb gydsyniad y llall, a'r naill yn groes i farn y llall, ac felly yn cythruddo teimladau eu gilydd, ac yn peryglu heddwch yr eglwys. Dylai y swyddogion, ar bob cyfrif, ymdrechu dyfod i gydwelediad yn eu plith eu hunain ar bobpeth, cyn dyfod gerbron yr eglwys, er gochel pob achlysur i'r aflwydd câs o ymryson ac ymbleidio. Yr anhawsder yn mhlith brodyr i ddyfod i'r cydwelediad hwn yw, y bydd ambell i frawd yn rhy annhyblyg i weled na gwneyd dim ond yn ol ei feddwl ei hun. Oni bydd i bawb blygu i'w farn a'i ffordd ef, ni wna, fel y dywedir, na thywys na thagu. Da y dywedai y diweddar John Jones, Edeyrn, mai "nid dyn ystwyth fel brwynen, yn plygu i bawb a phobpeth, ac nid dyn rhy gryf, fel trosol castell, na phlŷg i neb na dim, ond y dyn *ystwyth-gryf* yw y dyn iawn." Rhaid i frodyr, os mynant dangnefedd, *gymeryd a rhoddi* llawer i'w gilydd.

Er cael eglwys drefnus, rhaid talu sylw priodol a chyson i'w phethau bychain. Tŷ trefnus yw hwnw lle mae y teulu wedi eu harfer i roddi pobpeth yn ei le, a gwneyd pobpeth yn ei amser. Cyngor Dr. Franklin yw, "Gofalwch chwi am y ceiniogau, a gofala y punnoedd am danynt eu hunain." "Trwy esgeuluso hoel yn y bedol," medd rhyw hen air, "fe gollwyd y march." Mae yn perthyn i eglwys, fel i bobpeth, ei phethau bychain; a mynych y bydd esgeuluso y pethau bychain hyny yn arwain i annhrefn a cholled.

Ac eto y pethau bychain hyn sydd o hyd yn y perygl o ddianc ymaith yn ddisylw. Gwers fechan sydd heb ei dysgu eto yn mhob man yw dechreu yr holl gyfarfodydd yn eu hamser. Trwy esgeuluso paentio y ffenestri, fe bydrodd y coed. Am na wnaed gwaith diwrnod un adeg, bu raid gwneyd gwaith mis adeg arall. Mor ddiflas mewn Cyfarfodydd Misol fydd galw yr un casgliadau am fisoedd olynol, a methu eu cael o bob man er hyny! Gwelsom yn ddiweddar roddi tri chasgliad o gryn bwys o flaen yr un gynulleidfa yr un Sabboth, pryd, oni ba'i am ddiofalwch, y gallasai mis, o leiaf, fod cydrhwng y naill gasgliad a'r llall. Trwy ddibrisio y *bachgen*, fe gollwyd y *dyn*, a dyn erbyn hyn y buasid yn falch ohono. Trwy ychydig annoethineb, fe daflwyd teulu ymaith, a throes y teulu hwnw allan yn genedl rymus. Bendith i eglwys os bydd ganddi un neu ragor o frodyr yn ofalus a manwl gyda'i phethau lleiaf, er gwneyd i fyny y diffyg mewn ereill sydd yn tybied *pethau bychain* islaw eu sylw hwy.

Er cael eglwys drefnus ac effeithiol, da hefyd fyddai cael pawb i weithio, hyny yw, pob un y bydd gweithio ar ei galon. Mae yn perthyn i eglwys bob amrywiaeth gwaith, i gyfarfod â phob amrywiaeth dawn a gallu yn yr aelodau. Mae dyn, a dyn crefyddol, yn greadur gweithgar; ac nid hawdd y gall dyn bywiog a llawn o yni fod yn dawel i eistedd yn llonydd o fis i fis heb gyfle i ddim ond gwrando a rhoddi ei law yn ei boced i gyfranu, ac y mae mewn temtastiwn i ballu yn raddol yn hyny. Mae dynion bywiog o'r fath, wrth eu cadw yn segur, yn naturiol yn myned yn flin ac annhymherus. Rhodder digon o waith iddynt, a byddant yn llawer haws eu trin. Gallai rhai swyddogion da, wrth geisio gwneyd y cwbl eu hunain, beri i rai yn yr eglwys ddrwgdybio eu bod yn ofnus rhag i neb arall ddyfod i'r golwg; a pha le y ceir eglwys na bydd ynddi ryw rai rhy barod i *ddrwgdybio* ar bob achlysur? Gorchwyl pwysig swyddogion yw rhoddi eraill ar waith yn gystal a gweithio eu hunain. Dedwydd o eglwys yw hono lle mae ei dynion blaenaf yn fedrus i hwylio pawb at ei waith, a'r aelodau hwythau yn ddynion digon ystwyth ac ewyllysgar, pawb i wneyd ei ran. Mae yn perthyn i bob cynulleidfa ddynion, er na byddont yn aelodau eglwysig, fel y dywedir, sydd eto yn gyfryw y byddai yn dda ganddynt gael y cyfle i *wneyd rhywbeth.* Rhodder pob cyfleusdra iddynt, nid yn unig er mwyn eu gwaith, ond am y gallai hyny fod yn fendith iddynt. Mae gwers i ni i'w chael yn hanes tröedigaeth Zacchëus. Dyna yr Iesu, yn hytrach nag argyhoeddi y dyn hwnw yn llym, yn taro ar ei garedigrwydd: "Zacchëus, disgyn ar frys, canys rhaid i mi heddyw aros yn dy dŷ di." A bu cael y cyfle yna i groesawu y Gwaredwr yn foddion

iachawdwriaeth iddo. A bu dangos caredigrwydd i achos y Gwaredwr yn gyffelyb i lawer ar ei ol.

Er y dylai eglwys ymddiried llawer i'w swyddogion gyda gwahanol ranau eu gwaith, eto doeth ynddynt hwy a fyddai ymgynghori â'r eglwys ar bob achos o bwys, megys pan y bydder yn gwneyd rhyw gyfnewidiadau pwysig yn eu trefniadau, neu yn cychwyn ar ryw ysgogiad newydd. Ar gyfryw achlysuron, da fyddai galw y brodyr yn nghyd, a gosod yr achos gerbron, er mwyn cael eu syniadau; ac os ceir y frawdoliaeth yn lled unfrydol, da; onidê doethineb yw oedi hyd nes y deler i fwy o gydwelediad. Mae diffyg o gydymgynghori rhwng swyddogion âg eglwys, wedi arwain lawer gwaith i ganlyniadau gofidus; y swyddogion yn gwneyd yr hyn a ystyrid gan luaws yr eglwys yn bwysig, ac heb ymgynghori â'u brodyr, a hyny yn cynyrchu gwrthdarawiad ac anghydweithrediad; ac nid oes dim gyda gorchwylion eglwysig y dylid ei ochel yn fwy. Un peth y dylai swyddogion eglwysig ei ochel ar bob cyfrif yw, rhyw ddull rhy feistrolgar o gario pethau yn mlaen. Mae hyny yn naturiol yn chwerwi teimladau, ac yn enyn ymrysonau ac ymbleidiau mewn eglwys. Ond trwy ymgynghoriad pwyllog, mae y swyddogion yn dyfod yn hyderus o gydweithrediad yr eglwys, a'r eglwys yn rhoddi pob ymddiried ac ufudd-dod i'w blaenoriaid. Ac mor dra gweithfawr yw y cydwelediad a'r cydweithrediad hwn mewn eglwys! Mae yn werth aberthu llawer er ei gael ac er ei gadw. Ond gyda doethineb a phwyll, ac ychydig o hunan-ymwadiad, paham nad allai pob eglwys ei feddiannu?

Rhagfyr, 1867.

---

## YR AIL LITH.

Er bod yn drefnus gyda gorchwylion eglwysig, at y pethau a nodwyd o'r blaen genym, mae yn ofynol fod yr holl *gyfrifon* yn cael eu cadw yn ofalus a threfnus. Mae cyfrifon eglwysig manwl a chywir bellach yn cael edrych arnynt yn bethau pwysig, a hyny, nid yn unig ar gyfrif y boddlonrwydd a roddant i'r lluaws, ond hefyd am eu bod yn egluro ffeithiau. Wrth y cyfrifon y gwelir y cynydd neu y lleihad, ac hefyd pa fath yw sefyllfa eglwys o ran ei ffrwythlondeb. Gelwir haelioni crefyddol "yn ffrwyth yn amlhâu erbyn eich cyfrif chwi." Mae "cyfrif" o'r "ffrwyth" hwn, gan hyny, yn cael ei gadw mewn lle goruchel, a gwneir sylw manwl a chyhoeddus ohono ar adeg hynod o ddifrifol! Ond bydd y cyfle i *ffrwytho*, erbyn hyny, wedi colli byth. Pa fodd y gall *duwiolion crintachlyd* ddal y cyfrif hwnw heb iâs o gywilydd?

Lled afler a diofal a fyddai llawer o'r hen dadau gyda'u cyfrifon. Byddai aml un ohonynt yn rhoddi ymaith lawer mwy nag a dderbyniai. Nis gallent oddef y syniad fod achos eu Gwaredwr yn ddyledus iddynt hwy; ac felly nid oeddynt yn rhyw ofalus iawn i wybod pa fodd y byddai pethau yn sefyll rhwng eu llaw ddehau a'u llaw aswy. Mae yn ofnus nad yw y cyfrifon yn cael eu cadw eto mewn llawer eglwys mor drefnus ag y byddai ddymunol. Ceir eu bod weithiau mor ddidrefn fel nad oes neb ond y brawd sydd yn enw o ysgrifenydd yn gallu gwneyd dim ohonynt; ac ar rai adegau, gwelwyd y brodyr hyn yn gorfod *puzzlio* tipyn er deall eu gwaith eu hunain. Ond nid y brodyr sydd yn cadw y cyfrifon sydd bob amser i'w beio oherwydd y diffyg; maent hwy yn gwneyd y goreu gallant: er na byddant yn ddynion anllythyrenog, eto yn fynych maent yn ddynion *anffigyrol*, ys dywedir; nid ydynt erioed wedi cael yr un fantais i ddeall pa fodd i gadw cyfrifon trefnus. Erbyn hyn, nid oes braidd i eglwys nad oes yn mhlith ei haelodau ryw frawd, hen neu ieuanc, cymhwys i gadw ei holl gyfrifon yn drefnus. Ac os nad doeth fyddai gwneyd diacon o un felly, eto doeth, dybygid, a fyddai ei alw at hyn o orchwyl. Ac hefyd, mae yn bresenol ddigonedd o lyfrau pwrpasol i gadw pob math o gyfrifon eglwysig wedi eu parotoi, ac i'w cael gan amryw argraffwyr am brisiau cymedrol; ac oni fyddai defnyddio llyfrau felly yn llawer o help i rai anghyfarwydd, er gwneyd eu gwaith yn drefnus?

Dymunol, yn wir, fyddai i'r llyfrau cyfrifon hyn, nid yn unig gael eu cadw yn drefnus er mwyn yr oes hon, ond hefyd gofalu am danynt nad elont ar ddifancoll, er mwyn yr oesoedd dyfodol. Rhoddai hyn fantais i'r cenedlaethau a ddêl wybod rhywbeth am lafur eu tadau yn yr oes hon. Byddwn yn teimlo yn aml mai gresyn oedd i hen ysgrif-lyfrau eglwysig yr oesoedd o'r blaen gael eu dibrisio a'u colli. Bydded i bob eglwys, gan hyny, gadw ei holl lyfrau yn ofalus, gan wybod y cyfrifir hwynt yn mhen y can' mlynedd eto, os byddant ar gael, o werth mawr. Gyda llaw, tybygem mai buddiol fyddai fod rhyw frawd yn mhob eglwys yn gofalu am gadw côflyfr, er cofnodi ei gwahanol helyntion a'i gweithrediadau. Ni byddai hyny ond gorchwyl hawdd ar y pryd, ond gwnai treigliad oesoedd gôflyfr o'r fath uwchlaw ei brisio. Mae llawer o'n heglwysi bellach yn myned yn hen sefydliadau, wedi gweled pedair a phump, a rhai fwy na hyny, o genedlaethau; a gresyn fod y naill genedlaeth yn dyfod i mewn i lafur cenedlaeth arall heb wybod ond y nesaf peth i ddim am dreialon, llafur, a ffyddlondeb, y rhai fu yn poeni gyda'r un achos da mewn oesoedd o'u blaen hwy. Na fydded, gan hyny, i'r oesoedd dyfodol gael y

golled hon trwy ryw ychydig o esgeulusdra difeddwl o'r eiddom ni. Os tybia rhywrai ein bod trwy hyn yn galw sylw at beth rhy debyg i chwareu plant, nid oes genym ond coffa i'r cyfryw y ceir lluaws o esiamplau Ysgrythyrol o beth cyffelyb. Ni fedd hanesiaeth ddim yn fwy dyddorus nac mor werthfawr i'w gofnodi na helynt eglwys i Grist, yn cychwyn yn wan ac araf, yn cyfarfod âg ystormydd ac anhawsderau oddifewn ac oddiallan, ac er pobpeth yn mynu byw, yn dal ei ffordd ac yn ychwanegu cryfder.

Yr hyn sydd wedi bod braidd yn hynod yn hanes ein cyfundeb o'i ddechreuad, ac sydd eto i fesur yn parhâu, yw y duedd i *ddirgelu* pobpeth gyda'n casgliadau, yn enwedig y casgliad eglwysig. Mae cyfundebau eraill wedi arfer bod yn llawer mwy rhydd a gwynebagored na ni yn hynyma. Yn yr amser gynt, byddai un hen frawd neu ddau yn derbyn y casgliad, ac yn ei ranu fel y gwelent hwy yn dda, heb roddi cyfrif i neb o'u gweithrediadau. A'r cwbl am onestrwydd eu gwaith a fyddai gonestrwydd eu cymeriad. Nid yn unig byddai y diacon wrth roddi yn gwneyd hyny mor ddirgelaidd ag y gallai, ond byddai y derbyniwr hefyd am i'r derbyn fod mor ddirgelaidd, fel na wyddai y naill law beth a dderbyniai y llall. A pha ryfedd i watwarwyr alw peth felly yn "ddegwm cìl dwrn?" Mae yn debyg mai y rheswm am ddechreuad y dirgelu hwn yw, am y barnai yr hen dadau da mai eu doethineb fyddai gwneyd y gydnabyddiaeth a roddid yn llaw y pregethwr mor ddirgelaidd ag y byddai modd, rhag i'r cyffredin anwybodus a difarn gymeryd achlysur oddiwrth hyny i edrych yn îs ar weinidogaeth y gair. Bellach, nid oes cymaint o achos am y dirgelu hwn, gan fod syniad y cyffredin, yn fyd ac eglwys, wedi eu goleuo, fel y maent yn gweled yn rhesymol ac ysgrythyrol i'r rhai sydd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth gael eu cydnabod mor deilwng ag y gellir am eu llafur.

Y cyngor Dwyfol yw, "Darperwch bethau onest yn ngolwg pob dyn." Nid yn unig *gwnewch yn onest*, ond bydded i *bob dyn* gael gwybod hyny; dyger y gonestrwydd i'r "*golwg*." Mae yn ymddangos yn dêg a rhesymol y dylai y rhai sydd yn cyfranu arian at achosion crefyddol gael boddlonrwydd am y pa fodd eu defnyddir. A dylai y rhai sydd yn trafod y cyfryw arian, o ba natur bynag, ystyried fod yr amser i gadw a chuddio gyda chasgliadau crefyddol wedi myned heibio. Ac os nad doeth fyddai cyhoeddi *manylion* y casgliad eglwysig, fel y barna llawer, eto rhesymol fyddai i'r holl gyfrifon gael eu harchwilio gan frodyr o brofiad a barn, ac i'r cyfryw ddatgan eu golygiadau i'r eglwys ar weithrediadau y swyddogion. Trwy ddarparu pethau gonest fel hyn yn ngolwg pob dyn, mae yr eglwys yn derbyn pob boddlonrwydd oddiar ddwylaw ei swyddog-

ion, a'r swyddogion drachefn yn derbyn pob ymddiried oddiwrth yr eglwys, a thorir ymaith achlysur oddiwrth y rhai sydd bob amser yn llawer parotach i siarad a beio nag i gyfranu. Da fyddai i bawb gofio nad oes gan neb rhyw ddyn, bydded ei sefyllfa a'i swydd y peth y byddo, hawl i fod yn ddyn anghyfrifol. Buasai yn wir ddymunol pe buasai y sylwadau uchod yn bethau dialw-am-danynt. Canys er fod llawer o eglwysi erbyn hyn yn arfer cael pob boddlonrwydd o barth i'w cyfrifon, eto ceir fod cryn lawer o eithriadau poenus: y brodyr, oddiar ryw ddybenion da yn eu tyb hwy, mae yn ddiau, yn dewis cadw o hyd at yr hen *system* o ddirgelu a chuddio, a hyny yn achosi anniddigrwydd distaw, ac yn llesteirio llawer ar haelioni yr eglwys. Nid oes dim ôs mai goreu po gyntaf i'r cyfryw frodyr yn y cyfryw fanau fabwysiadu trefn fwy rhydd a gwyneb-agored.

Yr un modd hefyd y dylid gwneyd gyda chyfrifon y capel. Dylai y gynulleidfa gael *statement* fanwl a chlir bob blwyddyn o'i sefyllfa arianol; swm ei dyled, os bydd, pa faint a dderbyniwyd, a pha ddefnydd a wnaed ohonynt. Ac os bydd sefyllfa capel y fath fel na bydd eisieu pwyso ar haelioni y gynulleidfa yn ei herwydd, eto tra byddo *sŵn arian* yn perthyn iddo, annhêg yw i'r wybodaeth am danynt fod yn unig yn feddiant i'r ychydig. Mae gan bawb sydd yn talu neu yn cyfranu yr un hawl i'r wybodaeth â'u gilydd. Mae wedi bod, ac yn bod eto yn rhy aml, pan y peidir a gofyn cyfraniadau cynulleidfa at achos eu capel, fe beidir son hefyd am ei gynyrch ariauol. Rhaid i'r lluaws bellach foddloni ar dalu yn ddistaw am eu lleoedd, heb wybod pa ddefnydd a wneir o'r cynyrch. A pha ryfedd os bydd y *talu* hwn yn myned yn annyben a bylchog? Mae y naill ddrwg yn naturiol yn cynyrchu y llall. Os bydd yr holl drîn a'r trafod, y derbyn a'r talu, gydag arian yr eisteddleoedd, a'r holl wybodaeth yn eu cylch, yn cael ei chyfyngu yn unig i gylch ychydig o bersonau, dealled y brodyr hyn eu bod yn cymeryd iddynt eu hunain fwy o awdurdod nag sydd briodol iddynt. Ac er y gellir rhoddi pob ymddiried i'w gonestrwydd, nad ydynt yn gwneyd na thwyll na cham, eto nid gonestrwydd ynddynt tuagatynt eu hunain, na thuagat y lluaws, yw cadw y wybodaeth o hyny yn hollol yn mhlith eu gilydd. Dywedwn eto, "Darperwch bethau onest yn ngolwg pob dyn."

Er, fel y dywedwyd, y gallai fod gan eglwys bob ymddiried i'w swyddogion, eto peth hynod o'r boddus gan y lluaws yw cael hysbysrwydd clir am yr holl gyllidau, am y teimlant fod ganddynt hawl i hyny; ac nid oes dim yn fwy cymhelliadol i haelioni, gweithgarwch, ac undeb; bendithion nas gellir eu gor-brisio. O'r ochr arall, mae cadw at yr hen arfer o ddirgelu a chuddio yn

feithriniad i luaws o dymherau anffafriol i gysur a llwyddiant eglwysig. Ac nis gellir gwneyd gormod o aberth, ond peidio aberthu gwirionedd a chydwybod, er cadw ymaith y cyfryw ysprydion difäol. Hyd y galler, na rodder "lle i ddiafol."

Er bod yn drefnus, y mae yn ofynol hefyd fod gan bob eglwys *ei chyfarfod penblwyddyn*, yn mha un y byddo yr holl gyfrifon yn cael eu darllen a'u hegluro, a rhyddid yn cael ei ganiatau i'r brodyr wneyd rhyw sylwadau a dybiont yn angenrheidiol arnynt. Gallai hefyd fod yn hynod fuddiol yn y cyfryw gyfarfod i gymeryd golwg bwyllog ar holl gylch y gwasanaeth crefyddol yn y lle, gan gydymholi a chydymddiddan yn rhydd a brawdol ar ei wahanol ranau, megys, A ydyw y cynulliadau crefyddol yn peidio cael eu hesgeuluso, neu yn peidio lleihau? Ac os ydynt, pa beth yw yr achos o hyny? A ydyw yr Ysgol Sabbothol yn cael y gefnogaeth a ddylai gan yr eglwys? A ydyw y canu cynulleidfaol yn cael ei feithrin a'i gefnogi? Pa wedd sydd ar y cyfarfodydd gweddïau? A ellir gwneyd rhywbeth yn ychwaneg gyda'r plant a'r bobl ieuainc? A ydyw y cleifion a'r tlodion yn cael y sylw priodol? A ellir gwneyd y cyfarfod eglwysig yn fwy effeithiol er ateb ei ddybenion? Ac felly yn mlaen. Er na ddylai y pethau hyn, a'r cyffelyb, fod yn destynau sylw ac ymofyn cyson, eto y mae treulio cyfarfod eglwysig unwaith yn y flwyddyn, yn y wêdd uchod, wedi profi yn hynod fuddiol yn y manau y gwnaed prawf ohono. A gallai fod felly yn mhob man, yn enwedig os bydd y frawdoliaeth yn aelodau a swyddogion, yn ddynion digon gostyngedig a hywaeth i gymeryd i'w hystyriaeth ryw amneidiau a deflir i'w sylw. Dichon yr ofnid mewn rhai eglwysi y byddai i gyfarfod mor rhydd a hyn roddi mantais i ryw bersonau y mae eu geiriau yn rhy debyg i "frâth cleddyf," i anafu teimladau eu gwell, ac felly achlysuro mwy o ddrwg nag o dda. Ond tybiwn mai dyma y lle priodol i ddwyn y cyfryw greaduriaid brâthog atynt eu hunain, a hyny nid trwy roddi sèn am sèn, bid siwr, ond trwy "ateb arafaidd," ac eto gwrol. Mae rhyw ffordd i drin pawb, a chyda doethineb a phwyll gellir trin y brodyr annhymerus hyn fel ag i beri iddynt deimlo yn gywilyddus ohonynt eu hunain. A gallai y fath driniaeth fod yn drugaredd werthfawr iddynt hwy, ac yn ymwared i'r eglwys lle perthynant. Hyderwn mai ychydig yw nifer yr eglwysi hyny y mae elfenau rhy beryglus yn eu hawyrgylch i gyflafareddiad rhydd a brawdol. Ond os felly y digwydd fod, tybiwn mai gwell arfer llawer o oddefgarwch na rhoddi mantais i'r cyfryw elfenau dinystriol dori allan yn danchwa; oherwydd caed aml brawf fod awyredd afiachus eglwys, trwy ryw oruchwyliaeth o eiddo ei Phen Mawr, mewn amser yn cael ei buro a'i glirio. Gall Efe, yr hwn y

mae pob awdurdod yn ei law, yn ei amser ei hun, ac yn ei ffordd ei hun, "geryddu yr ormes;" ac y mae eto yn peri i ryw ddaear neu gilydd agor ei safn i lyncu cynulleidfa Corah. Dyma le i amynedd y saint.

Cwestiwn difrifol i'w ystyried i rywrai yw, Paham y mae naill eglwys yn fwy blinderus ac anfoddog nag eglwysi ereill? o achos yr un yw y natur ddynol yn y naill a'r llall. O'r braidd y mae yr un eglwys yn dianc na cheir yn mhlith ei haelodau ryw greaduriaid, ys dywedodd Mr. Humphreys o'r Dyffryn, "y mae yn anhawdd gwybod i ba beth y gwnaed hwy heblaw i brofi amynedd pobl ereill." Gweddied y swyddogion am fwy o "ddoethineb y Sanct-aidd," i arwain a llywodraethu, i geryddu yr afreolus, ac i fwrw allan yr ysprydion aflan. Ond gan y bydd a wnelom eto â *blin-derau eglwysig*, gadawn ar hyn yn bresenol.

Wedi y cwbl, yr ydym yn teimlo mai un peth yw cynllunio *eglwys drefnus* ar bapyr, a dywedyd pa fodd i wneyd a pha beth i'w ochel, ac mai peth arall pur wahanol ydyw codi ati a gweithredu. Nid yw pawb yn y fintai grefyddol o'r un yspryd a'u gilydd; nid yw pawb mor grefyddol, mor ffyddlawn, ac mor hunanymwadol a'u gilydd; ac felly y mae anhawsderau dybryd i gael pawb i synio yr un peth, ac i rodio wrth yr un rheol, serch i'r syniadau a'r rheolau a gymhellir arnynt fod y rhai mwyaf rhesymol ac ysgrythyrol. Bydded i bawb adnabod ei le, a gwneyd ei ran.

Mawrth, 1868.

---

## Y DRYDEDD LITH.

Dichon y bydd rhywrai wrth ddarllen hyn o lìth yn barod i dybied ein bod wedi colli oddiwrth y testyn, sef Eglwys Drefnus. Ond os nad ydym *ar* y testyn, gadewch iddo; yr ydym o'i *gwmpas*, ac yn cadw golwg arno. Mae rhagor nag un ffordd er cyrhaedd yr un amcan. Nid ein hamcan yn gymaint yn bresenol fydd traethu ar natur a chymhwysderau swydd a gwaith y diacon, oherwydd y mae efe ei hun mewn gwell mantais i ddeall hyny na neb arall. Canys ni bydd na Chymdeithasfa na Chyfarfod Misol yn pasio na bydd rhyw gymaint o drafod mewn rhyw gŵr ohonynt ar hynyma, na braidd i newyddiadur na misolyn yn dyfod trwy y wasg na cheir ynddynt ddigonedd o wersi caledion i'r diaconiaid. Ac heblaw hyny, mae yn yr eglwys lle y perthynant, yn ddiau, a'r ardal lle y maent yn byw, gynifer o bersonau sydd fel yn eu gwaith yn dangos iddynt eu rhwymedigaethau a'u diffygion. Am hyny, pe byddai dyweyd a dangos, ceryddu a beio, yn tueddu i

wneyd dyn perffaith, y diacon o bawb yn yr holl wlad a fyddai yr agosaf i gyrhaedd y gamp.

Mae diaconiaid, yn enwedig gyda'r Methodistiaid, yn ddosbarth o ddynion hynod o bwysig, yn llenwi lle mawr, ac yn ateb dybenion gwerthfawr yn y cyfundeb. Yr ydys wedi arfer galw y swyddogion hyn wrth yr enw *Blaenoriaid*, yn llawer mwy cyffredin nag wrth yr enw *Diaconiaid*. Ac os ydyw yr enw cyntaf ryw gymaint yn ëangach ei ystyr, a rhyw fymryn yn fwy ei urddas na'r olaf, tybygem ei fod yn enw llawn mor briodol arnynt; oherwydd bydd raid iddynt mewn lluaws o eglwysi, nid yn unig wneyd gwaith diaconiaid, ond hefyd ranau helaeth o waith y gweinidog, neu bydd y rhanau hyny heb eu gwneyd o gwbl. Pe buasai yr Apostol Paul yn anfon llythyr at un o eglwysi y Methodistiaid, tybed nad dan yr enw Henuriaid y buasai yn cyfarch y brodyr hyn, pa un bynag a fuasai gweinidog yn eu plith ai peidio? Bydded a fo am yr enw, nid yw enw ond *enw* wedi y cwbl; yn y rhywbeth sydd dano mae'r pwys. Mewn cyfundebau ereill, lle y mae y gweinidog a'r weinidogaeth yn hollol sefydlog, mae y llwyddiant neu yr aflwyddiant yn ymddibynu llawer ar y fath fydd y gweinidog. Ond gyda'r Methodistiaid, mae yr eglwys o ran ei gwedd allanol o leiaf yn fywiog neu yn farwaidd, yn drefnus neu yn annhrefnus, i fesur helaeth yn ol fel y byddo'r blaenoriaid. Anfynych, fel y profa lluaws o ffeithiau, y ceir gwedd swrth a diymadferth ar achos crefyddol lle y byddo y swyddogion hyn yn unol, yn ffyddlawn, ac yn ddoeth. Gan hyny y mae cyfrifoldeb y brodyr hyn yn ddifrifol dros ben! Ac nid llai, chwaith, yw rhwymedigaeth yr eglwys i'w cynorthwyo a'u parchu, hefyd i weddïo llawer drostynt. Mae gan y dynion hyny sydd ar bob achlysur yn hynod barod i feio ar eu blaenoriaid, ond byth ar unrhyw achlysur yn barod i weddïo drostynt, bob achos i ofni nad yw pobpeth o'r goreu gyda hwythau. Yn wir, nis gall fod gan ddynion mor amddifad o Ysbryd Crist yr un hawl i'r enw "brodyr yn yr Arglwydd."

Nid oes dim y gweddai i eglwys fyned yn ei gylch gyda mwy o weddïo difrifol am yspryd barn na phan yn myned at y gorchwyl o ddewis diaconiaid. Ar ryw olwg, gall methu wrth ddewis diacon arwain i ganlyniadau mwy gofidus na methu wrth godi pregethwr. Tra y gellir cael rhyw ymwared o bregethwr annheilwng, gall diacon felly fod am dymhor maith yn fwy ar y ffordd mewn eglwys na dim arall. A hyn, mae yn debyg, a barodd i rai dynion dybied y dylai eglwys gael cyfle bob rhyw gynifer o flynyddoedd i ail ddewis diaconiaid, er cadw y teilwng i mewn, a bwrw yr annheilwng ymaith. Ond mae yn eglur ddigon, nad yw y rhai sydd yn dàl y cyfryw syniad wedi meddwl yn ddigon trwyadl am yr

anhawsderau, nac ychwaith wedi ystyried yn ddigon difrifol y canlyniadau, o ddwyn i mewn i'r eglwysi y newyddbeth hyn. Tybiwn yn ostyngedig nad oes i'r syniad hwn o ail ddewis diaconiaid ddim cymaint ag amnaid o gefnogaeth yn Ngair Duw, na chwaith yr un dystiolaeth o'i blaid yn arferiad y brif eglwys; ac hefyd ni saif i brawf synwyr cyffredin. Os rhesymol fyddai i eglwys gael ail ddewis ei swyddogion er cael ymwared o'r diacon annheilwng, mor resymol a hyny hefyd, dybygid, fyddai i eglwys gael ei chwynu er cael ymwared o'r efrau sydd mor niweidiol iddi, ond yr hyn beth a waherddir yn benodol gan Grist fel gorchwyl rhy lednais i ddynion ffaeledig. Ac onid oes gan eglwys hawl i alw y swyddog annheilwng i gyfrif fel rhyw aelod arall, ac hefyd gyda chynorthwy ei Chyfarfod Misol i'w ddiswyddo, os bydd ei achos yn galw am gerydd mor eithafol, a hyny heb gyffwrdd dim â'r swyddogion teilwng? Gwelwyd rhai dynion cyn hyn yn or-selog dros y syniad o *ail ddewis;* ond rywfodd daethant hwy eu hunain i mewn i'r swydd, ac iach i'r sôn mwy am eu hoff syniad o ail ddewis. Eto nid yw hyn drachefn yn profi dim ond fod syniadau dynion felly yn ddigon ystwyth i newid fel bo'r amgylchiadau yn galw.

Mae eglwysi y Methodistiaid yn llawer mwy dyledus i'r dosbarth hwn o swyddogion nag y mae lluaws yn barod i'w gydnabod. Gwir yw fod "gwehilion i'r gwenith." Ond pa le ar y ddaear anmherffaith hon y ceir gwenith heb ei wehilion? Fel y mae yn naturiol disgwyl, ceir yn eu plith bob amrywiaeth dawn a chymwysderau, ac hefyd bob gwahanol sefyllfa a manteision. Fel rheol gyffredin, ys dywedir, mae y diaconiaid yn rhai y disgwylir llawer iawn oddiwrthynt, ac hefyd yn rhai y ceir llawer iawn ganddynt. Disgwylir i'r diaconiaid roddi eu presenoldeb a gwneyd eu rhan yn yr holl gyfarfodydd crefyddol, neillduol a chyhoeddus; ac felly y ceir hwynt. Pwy bynag fydd yn esgeuluso neu yn absenol, byddant hwy yn eu lle ac wrth eu *post*, a hyny yn fynych trwy lawer o anhawsderau sydd yn esgusodion digonol gan eraill i absenoli eu hunain. Os bydd y diacon ar ol, bydd pawb yn ymholi pa beth a allai fod yr achos. Ac ni bydd y cyfryw ymholiad yn cael ei wneyd am neb braidd ond y ffyddloniaid; canys nid yw y rhai sydd yn arfer esgeuluso yn werth gan neb ymholi llawer yn eu cylch. Disgwylir i'r diaconiaid ddwyn i'r pwlpud weinidogaeth gyson a chymeradwy, a hyny bob Sabboth o flwyddyn i flwyddyn, heb na methiant na chamgymeriad. A mawr fydd y beio os na bydd y disgwyliad hwn yn cael ei foddhau. Maent hwythau yn teimlo i'r byw oddiwrth y cyfrifoldeb dirfawr, ac nid bychan fydd eu pryder a'u trafferth er cyrhaedd yr amcan. Ac os digwydd

weithiau, trwy ryw anffawd, i'r pwlpud fod yn wâg, bydd y siomedigaeth yn llawer mwy poenus i'w teimladau hwy na neb arall. Disgwylir i'r diaconiaid fod ar y blaen mewn daioni a llettŷgarwch; ac felly yn ol eu sefyllfa y ceir hwy. Disgwylir i'r diaconiaid drin a thrafod yr holl gasgliadau; disgwylir iddynt osod eu gwyneb fel callestr i osod rhyw gasgliad neu gilydd gerbron y gynulleidfa, a hyny yn wastad; disgwylir iddynt ofalu am danynt, cadw eu holl gyfrifon yn fanwl a chywir, ac heb i'r mymryn lleiaf lynu wrth eu dwylaw; ac felly y ceir hwynt. Disgwylir iddynt fod ar y blaen yn pleidio pob ysgogiad daionus yn eu hardal; ac nid yn fynych y mae y disgwyliad hwn eto yn cael ei siomi. Disgwylir i'r diaconiaid ymweled â'r cyfeillion hyny a fo mewn afiechyd neu drallod, pa un bynag a gymhellir hwy i hyny yn ol rheol yr Apostol Iago (pen. v. 14), ai ni wneir, a pha un bynag a fydd ganddynt hamdden i hyny ai ni bydd; a cheir hwynt ar y blaen eto yn hynyma. Mewn lluaws mawr o eglwysi y Methodistiaid, ar y diaconiaid y disgyn y cyfrifoldeb o wneyd y cyfarfod eglwysig yn fuddiol ac adeiladol; hwynt-hwy sydd i'w gychwyn trwy ddwyn i sylw yr eglwys ryw faterion teilwng, a'i ddwyn yn mlaen er adeiladaeth ysprydol y frawdoliaeth. Hwynt-hwy sydd i gyngori y cyngor, i rybuddio yr afreolus, i gynal y gweiniaid, a chysuro y rhai galarus. Felly disgwylir iddynt wneyd rhan y gweinidog, er na feddant ei gyfleusderau. A bydd raid iddynt yn fynych redeg at eu gwaith o ganol trafferthion a helbulon y bywyd hwn fel ereill. Nid rhyfedd os bydd eu meddyliau weithiau ar lethu dan y cyfrifoldeb. Mor dda ganddynt lawer pryd fuasai cael dyfod i'r cyfarfod fel y maent yn gweled ereill yn cael, i ddim ond eistedd a gwrando! Ac oni bydd y cyfarfod yr hyn ddymunir, hwynt-hwy, gan rai, gânt eu beio oherwydd ei ddiffygion, er iddynt wneyd eu rhan yn ol eu dawn a'u gallu. Os bydd rhyw bethau poenus mewn eglwys y bydd raid eu trin, ar y diacon yn benaf y disgyn y gorchwyl anhyfryd hwn eto. I'w ran ef yn benaf un y disgyn y gwaith o wastadhau ymrafaelion, o athrywyn rhwng brodyr, o adgyweirio y beius, ac o garthu allan fudreddi. A mynych y mae y diacon, druan, wrth drafod pethau poenus o'r fath hyn, wedi crëu gelynion iddo ei hun, a rhai na fuasent byth yn teimlo felly tuagato oni ba'i am ei ffyddlondeb yn gweini ei swydd.

Ac at hyn oll, disgwylir i'r diaconiaid fyned trwy yr holl lafur, y gofalu a'r pryderu perthynol i'w swydd, a hyny yn gyson o flwyddyn i flwyddyn, hyd derfyn eu hoes, heb dderbyn na gwobr na diolch gan neb am eu ffyddlondeb. Ac nid ydynt hwythau chwaith yn cŵyno oherwydd hyny, nac yn disgwyl dim o'r fath beth. Peth digon cyffredin yw fod y diaconiaid yn gadael eu

galwedigaeth, eu ffermydd, eu masnach, eu gweithdai, i ofal ereill, gan fyned i Gyfarfod Misol neu Gymdeithasfa, neu rywle arall y gelwir am danynt, heb ddim i'w cymell i hyny ond y teimlad noeth o rwymedigaeth i wasanaethu achos yr Arglwydd Iesu. Mae sêl a hunanymwadiad y brodyr hyn wedi costio yn ddrud iddynt, nid yn unig mewn eiddo, ac arian, ac amser, ond hefyd, ar lawer pryd, mewn colli iechyd a byrhad einioes. Wrth weled ffyddlondeb cyson a diflino aml i ddiacon, byddwn mewn temtasiwn i ddymuno fel Moses, "O na byddai pobl yr Arglwydd oll yn ddiaconiaid!" Y fath siamplau disglaer a geir yn eu plith o rai yn cymeryd poen er mwyn enw yr Arglwydd Iesu, a hyny am dymhor maith ac heb ddiffygio! Yn sicr, fe ddylai y swyddogion hyn, a dyweyd y lleiaf, gael llawer iawn mwy o gydymdeimlad a gweddïo drostynt. Na feddylied neb ein bod wrth wneyd y sylwadau hyn yn bychanu dim ar lafurwaith a ffyddlondeb rhai ereill. Na, trwy drugaredd, y mae y "ffyddloniaid yn Nghrist Iesu" i'w cael yn mhlith pob gradd a sefyllfa, oed a rhyw; ac maent yn llu mawr iawn.

Os bydd rhyw frawd, hen neu ieuanc, wrth edrych dros hyn o lîth, yn barod i godi ei wrychyn, gan dybied fod y ganmoliaeth a gynwysa yn rhedeg yn rhy uchel, nid oes genym ond dymuno i'r cyfryw fwrw ymaith y trawst o'i lygad a'r rhagfarn o'i yspryd, a barnu yn dêg, ac fe wêl yn ebrwydd fod y diaconiaid, ar y cyfan, yn ddynion llawer mwy teilwng nag yr oedd ef wedi arfer meddwl a siarad. Ac eto, fel y dywedwyd, rhaid cydnabod, gyda gofid, fod "gwehilion i'r gwenith."

Ond er fod y brodyr hyn, y diaconiaid, yn gwasanaethu yr eglwysi y perthynant iddynt yn ffyddlawn, ac heb ddisgwyl na thâl na chlôd, eto rywfodd y maent yn fwy agored i ddifrïaeth ac enllib na neb rhyw ddynion. Megys yr oedd gynt yn nghynulleidfa Israel, rhyw ddynion yn eu gwaith yn tuchan yn erbyn Moses ac Aaron—gwnaed y ddau ŵr enwog hyn y peth a wnelont, ni byddai dim o'r bron wrth fodd y genedlaeth duchanllyd hono,—mae diaconiaid, gan ryw fath o ddynion, yn cael eu talu yn rhy gyffelyb. Gwnaed y blaenoriaid y peth a wnelont, bydd gan y tuchanwyr hyn rywbeth yn eu herbyn byth a hefyd. Mor adgas o beth mewn unrhyw gymdeithas yw y creadur hwnw nas mŷn gydnabod teilyngdod, bydded mor eglur ag y bo, eto yn chwilio am ffaeleddau, ac yn gwneyd defnydd hael ohonynt!

Mae y diacon o'r diwedd yn cyfarfod âg amgylchiad a bair i bawb ymryson i wneyd cyfiawnder â'i gymeriad, sef pan mae wedi marw: bellach ni bydd diwedd ar y clodfori. Ow! o'r ddynoliaeth gibddall, gan nas mŷn gydnabod teilyngdod y rhai a'i gwasanaetho hyd nes ar ol eu colli! Bydded a fo am glod neu anghlod dynion,

nid yw y naill mwy na'r llall i sylwi nemawr arnynt, nac ychwaith i deimlo ond càn lleied a ellir oddiwrthynt. Mae y diacon ffyddlawn, ar ol cadw noswyl, yn myned i dderbyn ei wobr, A MAWR FYDD HWNW YN Y NEFOEDD.

Awst, 1868.

---

### Y BEDWAREDD LITH.

Pawb *yn cael sylw* fydd genym fel testyn i droi o'i gwmpas yn ein llîth hon. Dichon na fethem wrth ddywedyd mai ein diffyg oll fel Cyfundeb o Gristionogion, yw y diffyg o'r hyn a olygir genym wrth *bawb yn cael sylw.* Mae y diffyg hwn yn un rhy amlwg i'w guddio na'i wadu; dyma ein màn gwan, y bwlch isaf yn ein clawdd, a bwlch trwy ba un y diangodd ymaith o'n cyrhaedd luaws aneirif, bron, o rai y bu genym unwaith lawer mwy o hawl arnynt na neb arall. O ran safon y weinidogaeth, haelioni a llafur crefyddol, a manylwch gyda disgyblaeth eglwysig, dichon y daliwn i'n cyferbynu âg unrhyw Gyfundeb crefyddol arall yn y wlad. Ond o ran y bwrw golwg, a'r gwir ofalu am yr holl braidd, yr ydym, rhaid addef, yn syrthio yn bell, bell yn ol. Ac yn hytrach na deffro at ein gwaith hwn, yr ydym yn rhy dueddol i dybied fod ein brodyr o enwadau ereill yn gwneyd gormod, ac yn ddigon parod i briodoli iddynt ddybenion rhy isel, a hyny, gellir ofni, fel esgusawd dros ein hesgeulusdra ein hunain. Mae gweithgarwch amryw o weinidogion yr Eglwys Wladol gyda hynyma yn tynu sylw; maent hwy yn deall ei ddirgelwch, ac yn gwneyd defnydd helaeth ohono, a ninau yn barotach i eiddigeddu wrth eu llwyddiant nag i'w hefelychu.

Pe cymerid ychydig drafferth i ymofyn ac ymwrandaw, ceid fod cwynion cyffelyb i'r rhai a ganlyn yn llawer rhy gyffredin yn ein plith:—"Yr ydwyf yn aelod o'r eglwys yn ——— er's llawer o flynyddoedd, ac yn mynychu ei chynulliadau crefyddol mor gyson â'r cyffredin; ond ni chymerir yr un sylw ohonwyf o flwyddyn i flwyddyn, dim pellach na galw am fy nghyfraniadau; ond byth ni wneir yr un ymofyniad yn nghylch helynt fy enaid, mwy na phe byddwn hebddo, a minau, rywfodd, yn rhy wan i gyflwyno fy hun i sylw. Ac mae y dyeithrwch hwn wedi bod i mi yn fynych yn achlysur i lawer o lesgedd a digalondid." Pan y gofynwyd i ferch ieuanc unwaith paham y gwrthgiliodd, ei hateb pruddaidd oedd, iddi ddyfod i'r cyfarfodydd eglwysig yn gyson nes oedd yn agos i ugain mlwydd oed, ond na chymerwyd erioed yr un sylw ohoni, dim ond gadael iddi trwy y blynyddoedd ddyfod

neu beidio, ac iddi o'r diwedd feddwl, naill ai nid oedd yn werth sylw o gwbl, neu ynte fod gan y brodyr rywbeth yn ei herbyn, er nas gwyddai pa beth, ac mai llawn cystal fyddai ganddynt ei gweled yn cefnu; ac felly y gwnaeth. Gofynwn, Pa faint, tybed, yw rhifedi y rhai a gollant ymaith yn flynyddol o gorlanau y Methodistiaid trwy yr un bwlch? Côf genym unwaith weled hen ŵr parchus yr olwg arno, yn taro i mewn i ystafell tŷ capel foreu Sabboth, lle yr oedd nifer o frodyr yn eistedd i aros dechreu yr oedfa: ac ar ol edrych yn graffus o'i gwmpas, dywedai mewn tymher oedd braidd yn ddigofus, "Yr ydwyf yn arfer dyfod i'r capel hwn yn gyson er's yn agos i haner can' mlynedd. Bu'm yn sâl yn ddiweddar heb allu dyfod o'm hystafell am fwy na deufis; ac ni ddaeth yr un ohonoch, na phregethwr na blaenor, na neb arall, unwaith i ymofyn am danaf. Daeth y Person rhagor nag unwaith: ac, a dywedyd y gwir i chwi, yr oedd troi i'r llan heddyw wrth basio, yn fwy o brofedigaeth i mi nag a feddyliech." Mewn cyfarfod eglwysig ar nos Sabboth yn ddiweddar, gwelsom dro oedd braidd yn taro yn ddigrifol, pe gweddus gwneyd digrifwch o'r fath beth. Cyfodai un o'r swyddogion, a darllenai *list* o rai y bwriedid eu cyflawn dderbyn mor fuan ag y byddai gyfleus. Ond wrth wneyd ymholiad yn eu cylch, cawd allan fod rhai wedi ymadael o'r gymydogaeth er's blynyddoedd, ac am rai eraill oedd ar y *list*, nis gwyddai neb oedd yn bresenol ddim yn eu cylch, i ba le yr aethant na beth ddaeth ohonynt, neu a fu y cyfryw yn y byd erioed ai naddo. Dylid cydnabod fod amgylchiadau rhai eglwysi yn llawer mwy anffafriol i arolygiaeth fanwl na'u gilydd. Ond nis gall fod yr un eglwys mewn amgylchiad mor anffafriol ag i wneyd y fath aflerwch a nodwyd yn esgusodol.

Pe na buasai cŵynion o'r fath ag a nodwyd ond digwyddiadau damweiniol ac eithriadol, ni buasent yn werth eu dwyn i sylw; ond yr oeddynt, hyd yn ddiweddar, yn gŵynion mor gyffredinol ag yw hŷd a llêd Methodistiaeth. Yn wir, cŵynion Methodistaidd ydynt; o'r braidd y maent yn adnabyddus oll yn mhlith enwadau ereill. Ac os ydyw yr *ysgogiad bugeiliol*, beth ei galwn? sydd genym yn awr ar droed yn eu lleihau, da iawn; mae iddo gyflawnder o waith. Yn bendifaddeu, argraff front ar deimlad dyn, boed ef hen boed ieuanc, boed grefyddol neu ddigrefydd, yw nad ydyw yn werth sylw, ac nad oes neb yn ymofyn am ei enaid. Rhaid i ni gymeryd y natur ddynol y peth ydyw, ac amcanu gwneyd y goreu ohoni fel y mae.

Pa beth a fu yn achlysur i'r Cyfundeb Methodistaidd aros yn fwy ar ol gyda hyn rhagor cyfundebau ereill sydd, fel llawer cwestiwn arall, yn haws ei ofyn na'i ateb. Ymddengys fod ein hen dadau

yn hynod am ochel pobpeth tebyg i rodres gyda chrefydd. Ni fynent hwy er dim amgylchu tir a môr i wneyd un proselyt, rhag iddynt, wrth hyny, wneyd mab uffern ohono. Achub y bobl ac nid eu proselytio fyddai eu hamcan mawr hwy. Mynent hwy ochel pobpeth a dueddai i wneyd crefyddwr o ddyn heb ryw argoel o oruchwyliaeth y gwirionedd ar ei galon. A dywedwn yn hŷf nad oes dim eto y dylid ei ochel yn fwy. Gwae o'r eglwys hono, os yn edrych yn fwy ar wneyd rhyw fath o grefyddwyr o ddynion, na'u gwneyd yn saint, ac yn rhoddi mwy o bwys ar ychwanegu rhif ei haelodau nag o enill pechaduriaid at y Gwaredwr. Beth bynag a gyferfydd ein Cyfundeb yn y dyfodol tywyll, cadwer ef yn bell o'r tir Sinar hwn! Barnai yr hen Fethodistiaid mai peth peryglus i ddyn fyddai gwneyd gormod o ryw helynt yn ei gylch, gan yr ystyrient foethau yn yr eglwys yn llawn mor niweidiol ag yn y teulu. Ac fel y mae yn rhy dueddol i ddynion, a dynion da, wrth geisio gochel peryglon un ochr, i syrthio yn rhy bell i'r ochr arall wrth-gyferbyniol, felly y bu i ninau; wrth geisio gochel peryglon y rhodresu a'r moethu, a'r gwneyd gormod o helynt, syrthiasom yn rhy bell i'r ochr arall, o adael i bawb ymdaro drostynt eu hunain goreu gallent, nofio neu foddi heb roddi na help na chymhorth oddieithr iddynt alw am dano. Mae yn wir fod ein cyfarfodydd eglwysig yn rhoddi i ni lawer o fantais er cyrhaedd mewn rhan yr amcan sydd genym dan sylw. Ond mae yn ofnus mai gwaith hanerog iawn a wneir eto yn y rhan fwyaf ohonynt, rhywbeth rhy debyg i lafurio canol y maes, y rhan mwyaf cyfleus a difyrus i'w drin, tra y mae amgylchoedd y maes yn cael llonydd i godi yn ddrain a mieri, yn fagwrfa i bob pryfedach gwenwynig a niweidiol. Mae helynt yr eglwysi hyny yn ddifrifol ag sydd a'u rhandir ffrwythlawn o hyd yn lleihau, a'u hanialdir o hyd yn mwyhau ac yn gwasgu i mewn.

Ond wedi'r cwbl, dichon mai yr hyn a fu yr achlysur penaf o'r diffyg hwn y cwynir cymaint o'i herwydd yn ein plith, yw fod yr hyn a adewir yn waith i bawb yn syrthio yn fŷr o fod yn waith i neb. Nid oes neb mwy na'u gilydd, rywfodd, yn gyfrifol am dano. Efallai y bydd eglwys yn edrych ar ei swyddogion fel yn fwy cyfrifol yn hyn nag ereill, fel yn ddiau y maent; ond dichon wedy'n na bydd y rhai hyny yn meddu yr hamdden na'r cyfleusdra i wneyd yr hyn y maent hwy eu hunain yn ystyried y dylid ei wneyd gan rywun. Ac felly, cydrhwng pawb, mae y gwaith yn cael ei adael. Ond nid pa fodd y daeth pechod i'r byd, medd rhywun, yw'r cwestiwn penaf, ond yn hytrach pa fodd i'w gael allan. Ac felly yma, nid y cwestiwn pwysig i ni pa fodd y bu, ond yn hytrach pa fodd i ymwellâu.

*Pawb yn cael sylw!* Os cymerwn yr olwg naturiol ar hyn, mae yn eglur ddigon fod yn rhaid i ni yn ein hymdrafod grefyddol, fel yn mhob ymdrafodaeth arall, gymeryd y natur ddynol fel yr ydym yn ei chael, ac amcanu gwneyd y goreu ohoni yn y modd y mae. Yn wir felly y mae gras Duw yn gwneyd; tra y mae am ddinystrio y pechod sydd yn y dyn, eto mae am gadw yn ofalus hyny o friwfwyd gweddill o ddynoliaeth sydd i'w gael ynddo. Fel rheol gyffredin, ys dywedir, yr hyn sydd yn taro yn dda ar deimlad dyn, yw cael lle i feddwl fod ereill yn rhyw ofalu am dano, ac yn ceisio ei lesâd ysprydol. Rhaid i'r dyn hwnw fod wedi ei feddiannu gan rywbeth yn terfynu ar galedwch barnol oni bydd i ymgais addfwyn a doeth tuagat ei lesâu ddadmer rhyw gymaint ar ei galon. Mae gan hyd yn nòd y dyn sydd yn ymddangos yn dàlgryf a ffrom, ei gydwybod; a dyna ei *fan* gwan; ac ond medru y ffordd at hono, mae ei gryfder, er ei waethaf, yn pallu.

Bydd yn mhob eglwys ac ardal o hyd ryw rai mewn adfyd a galar, a bydd talu ychydig sylw a dangos cydymdeimlad â rhai felly yn beth hynod gydnaws â'u teimladau prudd. Ac yn wir, mae y gwas i Grist, yn ei ymweliadau â theuluoedd adfydus o'r fath, yn llawer tebycach i'w Feistr, nag yn nhŷ gwledd, neu fangre'r ymgom ddigrifol. Rhyfedd drachefn fel y mae calon y tlawd isel ac esgeulus yn llòni wrth gael ychydig sylw, pe na byddai ond cyfarchiad caredig wrth ei basio ar y ffordd neu rywle arall. A gwelwch fel y mae llygaid y bachgen a'r lodes bach yn sirioli wrth gael eu cydnabod. Yr un modd y rhai oedranus; rhyfedd fel y mae ychydig sylw ohonynt a gofal am danynt yn dygymod â'u teimladau, pa rai sydd bellach wedi eu cylchynu â gwendidau henaint. O ran hyny, mae rhyw ofal a sylw o'r natur yma, ond ei arfer mewn "mwyneidd-dra doethineb," yn effeithio yn dda ar ddynion, gan nad beth fyddo eu hoed a'u sefyllfa. Pan ofynwyd unwaith, pa fodd y gallodd rhyw weinidog lwyddo i gasglu y fath gynulleidfa, a'i chadw yn gynyddol trwy ei oes, ag yntau mor gyffredin o ran ei alluoedd fel pregethwr, yr ateb a gaed, fod dirgelwch ei lwyddiant i'w gael yn ei ragoriaethau fel bugail. Ymddengys ei fod yn ŵr da, o yspryd a chymeriad gwir grefyddol; a pha beth bynag am ei ddysg, yr oedd yn was ffyddlawn a doeth, ac fel y cyfryw ca'i pob un yn yr eglwys a'r gynulleidfa eu rhan briodol o'i ofal a'i sylw. Perchid ac anwylid ef gan "bobl ei ofal" fel eu tad, eu brawd, a'u cyfaill goreu; a hynod fu ei lwyddiant.

Tybygem ei bod yn hen bryd i ninau bellach fel Cyfundeb droi ein sylw yn fwy i'r cyfeiriad yna. Yn bendifaddeu, gwybodaeth lwyr angenrheidiol i fugail eglwysig, er gwneyd ei waith yn

effeithiol, yw meddu deall dwfn o'r natur ddynol—deall gwahanol deimladau dynion, a'u gwahanol dueddiadau, a deall pa fodd i'w cyfarfod ar bob achlysur. Mynych y ceir siamplau gofidus o ddynion da, er meddu llawer o wybodaeth, eto o ddiffyg talu mwy o sylw i'r wybodaeth hon o ddynolryw, yn gwneyd llawer o ddrwg wrth geisio gwneyd da.

*Pawb yn cael sylw!* Mae hyn eto yn cael ei ddysgu i ni yn glir a mynych yn Ngair Duw—llyfr ein crefydd. Yma gwelwn mai elfen fawr ymgorfforiad eglwys i Grist yw cariad. Dyma nerth ei bywyd, cwlwm ei hundeb, a gwraidd ei gweithgarwch. Gwneir cynulleidfa eglwysig yn gyffredin i fyny o bob amrywiaeth o ran oedran, sefyllfa, dirnadaeth, teimlad ac ansawdd meddwl. Ond mae yr elfen fyw yma o gariad am ffurfio o'r amrywiaeth yma o aelodau un corff cyfanwedd, gan osod yr holl aelodau yn wasanaethgar y naill i'r llall. A dyma un achos paham yr ordeiniodd y Duw doeth y wedd gymdeithasol hon ar ei eglwys; fel y byddai i'r naill sylwi a gofalu am y llall, y cyfoethog am y tlawd, y cryf am y gwan, y synwyrol am y dŵl, ac felly yn mlaen. "Canys megys y mae genym aelodau lawer mewn un corff, ac nad oes gan yr holl aelodau yr un swydd; felly ninau, a ni yn llawer, ydym un corff yn Nghrist, a phob un yn aelodau i'w gilydd." "A nyni, y rhai ydym gryfion, a ddylem gynal gwendid y rhai gweiniaid, ac nid rhyngu ein bodd ein hunain." "Dygwch feichiau eich gilydd, ac felly, cyflawnwch gyfraith Crist." Ac er ein dysgu yn mhellach yn ein gwaith hwn, dywed yr un Apostol, "Ac yr ydym yn deisyf arnoch, frodyr, rhybuddiwch y rhai afreolus, diddenwch y gwan eu meddwl, cynaliwch y gweiniaid, byddwch yn ymarhous wrth bawb." Mae yr Ysgrythyrau sanctaidd yn llawn o anogaethau cyffelyb, lle gwelwn fod Pen yr eglwys wedi ordeinio fod i'w holl aelodau fod yn ofalus y naill am y llall, gan gyd-ddwyn â'u gilydd, a chynorthwyo eu gilydd yn mhob peth.

Mae hyn hefyd yn rhwymedigaeth gyffredinol, nid ar y swyddogion yn unig, ond hefyd ar yr holl eglwys; pawb yn ol ei le a'i allu. Bydd gan bob un, pa mor ddinôd bynag, os yn meddu cariad Crist, ryw hatling i'w bwrw i'r drysorfa gyffredinol hon o garedigrwydd brawdol. Os nad priodol i eglwysi yr oes hon gyffredinoli eu golud bydol, fel yr eglwys hono gynt yn Jerusalem, er fod llawer mwy i'w wneyd yn y cyfeiriad hwnw nag a wneir, eto priodol ac angenrheidiol yw fod y gofal a'r cydymdeimlad yn beth cyffredinol, a phawb yn cael ei gyfran priodol ohono. *Pawb yn cael sylw.* Bydd genym ychwaneg i'w ddywedyd ar hyn y tro nesaf.

Gorphenaf, 1869.

## Y BUMMED LITH.

*Pawb yn cael sylw* sydd genym eto yn ein llîth hon. Er fod y rhwymedigaeth yma o sylwi a gofalu am eu gilydd yn perthyn i'r holl frawdoliaeth, fel y sylwasom yn ein llîth flaenorol, eto mae yn disgyn yn fwy arbenig i ran y swyddogion. I hyn yn benaf y maent wedi eu gosod yn eu swydd, ac yn gymaint mai hwy sydd i flaenori yn mhob peth, felly hefyd y disgyn arnynt flaenori yn hynyma. Ac mae yn eglur ddigon fod y rhan yma o'u gwaith yn galw am lawer iawn o ddyfalwch a doethineb. "Yr hwn sydd yn llywodraethu, gwnaed mewn diwydrwydd," yw un o'r rheolau Dwyfol.

Mae yr hyn a roddai yr Apostol Paul yn siars i henuriaid eglwys Ephesus, yr un mor briodol hefyd i henuriaid y Methodistiaid: "Edrychwch arnoch eich hunain, ac ar yr holl brâidd ar yr hwn y gosododd yr Yspryd Glân chwi yn olygwyr, i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe â'i briod waed." Y fath ymadroddion difrifol sydd yma! y fath gyfrifoldeb arswydus! digon i gadw balchder yn bell o yspryd pob henadur ystyriol o'i sefyllfa. A rhaid fod y swyddog eglwysig hwnw sydd yn ddiystyr o rwymedigaeth a chyfrifoldeb ei swydd, wedi gwneyd y camgymeriad mwyaf damniol wrth ymaflyd ynddi! Nid oes i'r cyfryw na rhan na chyfran yn y fath alwedigaeth sanctaidd.

Cawn yr Apostol Pedr hefyd wrth anerch y cyffelyb swyddogion, yn gwasgu arnynt yr un siars: "Porthwch brâidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith, gan fwrw golwg." "Gan fwrw golwg," cofier. Dyma yr hyn a olygir genym wrth *bawb yn cael sylw*, neu yr hyn a dermir bellach yn ein Cyfundeb yn "Fugeiliaeth Eglwysig." Ac y mae yn cynwys rhywbeth llawer mwy manwl, a llawer mwy trafferthus, na bwrw golwg ar eglwys yn un cyfangorff—pwy sydd bresenol a phwy yn absenol o'i chynulliadau—pwy yn iach a phwy yn afiach—beth yw enwau yr aelodau, a pha le maent yn byw, ac yn y blaen. Er fod hyn i mewn yn y "bwrw golwg," eto mae yn ofnus nad yw yr arolygiaeth mewn llawer eglwys yn dyfod i fyny yn agos â pheth mor arwynebol a hyn. Ond y mae yn amlwg fod bugeilio prâidd neu "eglwys Dduw" yn cynwys yr hyn sydd yn galw am lawer mwy o graffder a dyfalwch, sef meddu, hyd y gellir, bob ymwybyddiaeth o helynt grefyddol ac ysprydol pob un, pa un ai yn ol ai yn mlaen y maent yn tynu, pa fath yw eu gwahanol ogwyddiadau a'u peryglon, a pha ymwared neu ymgeledd ellir weinyddu i'r naill a'r llall; rhywbeth yn debyg i'r fel y bydd bugail gofalus gyda'i brâidd; hyn, dybygem, yw meddwl yr Apostol wrth "fwrw golwg."

Mae yr hyn a briodolir i'r Pen-bugail yn beth i gyrchu ato hefyd gan yr îs-fugeiliaid. Iddo ef y priodolir, nid yn unig borthi ei brâidd, ond hefyd, "â'i fraich y casgl efe ei ŵyn, ac a'u dŷg yn ei fynwes, ac a goledda y mammogiaid." Dyma ofal a thynerwch at y gwan hên a'r gwan ieuanc. Ac yn ol ei siampl ef hefyd, mae y darfedig o hyd i'w dychwelyd, y friwedig o hyd i'w rhwymo, a'r llêsg i'w chryfhau. Mae hyn oll, ac ychwaneg, yn y bugeilio a'r bwrw golwg. Gan hyny y mae yma faes llafur ëang ac amrywiol, a llafur sydd yn galw am lawer o ymroad, a doethineb, a dyfal-barhâd. Ac y mae y cyfrifoldeb hefyd yn un difrifol! Nid yw bugeiliaeth eglwysig heb hyn ond peth mewn enw; ac nid yw peth mewn enw ond y nesaf dilês i fod hebddo. Da fyddai i bawb sydd yn cymeryd arnynt y cyfrifoldeb o fugeilio eglwys Dduw fod yn ystyriol o'r hyn a ddisgwylir oddiwrthynt, nid yn unig gan yr eglwys, ond hefyd gan ei Phen.

Mae dyfod i fyny â bugeiliaeth eglwysig mor fanwl a gofalus ag a nodwyd, yn enwedig mewn eglwysi lluosog, yn ymddangos fel peth anhawdd, os nad anmhosibl; ac eto, gyda chynllun da a dyfal-barhâd, gellir dyfod i mewn iddo i fesur llawer perffeithiach nag y gallai rhai dybied ar yr olwg gyntaf. Nis gellir disgwyl i'r diaconiaid, a hwy yn unig, ddyfod i fyny â hyn ond yn bur hanerog. Bydd ganddynt hwy luaws o drafferthion ereill mwy priodol i'w swydd i ofalu am danynt ac ymboeni ynddynt. Ac nid yw trafferthion bydol y lluaws ohonynt yn caniatau yr hamdden sydd ofynol i hynyma. Ac eto ceir fod y brodyr hyn, er eu holl drafferthion ereill, yn gwneyd gwasanaeth rhagorol yn y cyfeiriad hwn hefyd. Yn wir, nis gellir dwyn y fugeiliaeth hon yn mlaen heb eu cynorthwy a'u cydweithrediad hwy. Gwyddom am eglwysi nad oes neb i wneyd y gwaith o fugeilio ond y diaconiaid, ac eto fe'i gwneir mor rhagorol fel nad oes gan yr eglwysi hyny gymaint achos cwyno o'r herwydd. Wrth gwrs, nis gall eglwysi felly fod yn lluosog o ran rhifedi eu haelodau. Nid yw o nemawr bwys, o ran hyny, dan ba enw y gwneir y gwaith bugeiliol hwn, ond ei *wneyd*. Os ceir y gwaith, yna eled yr enw lle yr elo.

Mae gwneyd gwaith y bugail hefyd i'r graddau y byddai yn ddymunol ei gael yn ormod i'w ddisgwyl oddiwrth y brodyr teilwng hyny sydd yn llafurio yn y weinidogaeth, ac eto yn gorfod trafferthu llawer gyda gofalon y bywyd hwn. Rhaid i bregethwr, fel rhywun arall, a dŷno y byd hwn yn ei ben, feddwl o ddifrif am ei ymladd, neu bydd yn y perygl o syrthio dan ei garnau; a gŵyr rhai pregethwyr trwy brofiad mai nid rhyw le dymunol iawn yw hwnw. Gallodd lluaws o weinidogion yr efengyl, a gallant eto, drafferthu rhyw gymaint gyda y byd hwn, heb fod yn euog o

"*ymrwystro* gyda'i negeseuon." Ac eto mae y "trafferthu" a'r "ymrwystro" yn terfynu ar eu gilydd, ac y mae yn bur hawdd llithro yn ddiarwybod o'r naill i'r llall. Clywsom frawd, ac nid un anenwog, yn haeru fod trafferthion bydol yn bethau angenrheidiol i weinidog yr efengyl er ei symbylu i fywiogrwydd; fod gormod o seguryd yn beth niweidiol i gorff a meddwl pob rhyw ddyn. Addefwn yn rhwydd, os bydd gweinidog yn y perygl o fyned yn *ddyn segur*, mai trugaredd werthfawr fydd iddo gael ei symbylu gan rywbeth. Ond os bydd ei yspryd yn fyw i'w waith—a pha hawl sydd gan neb i fod yn weinidog i Grist heb fod felly?—caiff ddigon o'i symbylu o gyfeiriadau ereill ag i drafferthion y byd hwn adael eu dwylaw yn llonydd. Ond dyweyd yr oeddym nas gellir disgwyl i'r brodyr hyny sydd yn gorfod trafferthu llawer gyda'r byd hwn ddyfod i fyny â holl fanylion gwaith "bugail." Ac eto mae gwasanaeth y cyfryw wedi bod ac yn bod yn wir werthfawr. Dylid cofio mai yn nwylaw pregethwyr a gweinidogion oedd yn trafferthu llawer gyda'r byd, er cael modd i fyw a chadw eu teulu, y daeth ein Cyfundeb i'r peth ydyw. Ac mewn adeg fel hon, pan y mae Cyfundeb yn dyfod trwy gyfnewidiad pwysig gyda golwg ar ryddhau gweinidogion oddiwrth drafferthion bydol, er cael eu gwasanaeth yn llwyrach at eu gwaith mwy priodol, dylid bod yn ofalus, meddwn, rhag na byddo dim yn cael ei amneidio a dueddo i osod y ddwy adran yma o swyddogion y naill yn erbyn y llall. Na fydded i'r naill ddywedyd wrth y llall, "Nid rhaid i ni wrthych." Mae yr hên fath o weinidogion o hyd yn gyfryw nas gellir eu hebgor; hyd yma hwynt-hwy ydyw y colofnau. Mae ein gweinidogion gosodedig—beth eu galwn?—wedi bod hyd yn hyn braidd yn rhy symudol i'w galw yn *golofnau.*

Mae yn eglur ddigon, dybygem, nas gellir cael bugeiliaeth eglwysig teilwng o'r enw, yn enwedig mewn eglwysi lluosog, heb i rywrai gael eu neillduo i gymeryd y gwaith a'r cyfrifoldeb hwn arnynt eu hunain, ac i'r rhai hyny hefyd gael yr hamdden angenrheidiol er rhoddi eu hunain yn llwyr a chyfan iddo. Yr hyn sydd werth ei wneyd o gwbl sydd hefyd yn werth ei wneyd yn iawn. Ond ni bydd yna fugeiliaeth eglwysig wedy'n, oni bydd y brawd sydd wedi ymgymeryd â'r swydd yn deall ei waith, yn ei deimlo, ac yn meddu yspryd ac yni i fyned yn ei gylch. Ac os mŷn wneyd gwaith teilwng, bydd raid iddo wrth lawer iawn o ddoethineb ac ymroddiad. Heb fod yn ddoeth, gall wneyd drwg wrth geisio gwneyd da; ond trwy feddu yr hyn a eilw yr Ysgrythyr yn "fwyneidd-dra doethineb," bydd iddo ennill llawer o ryw feistrolaeth a dylanwad gwerthfawr ar y natur ddynol. Bydd i'r "bugail" o fewn cylch ei lafur bugeiliol ymwneyd â llawer math o ddynion, a

chyferfydd â llawer o bethau fydd yn tueddu i'w gythruddo a'i wan-galoni; ond gall ddyfod i ben yn lled ryfedd â phawb ac â phobpeth ond bod yn gyfoethog o'r grâs gwerthfawr hwn. A bydd raid iddo hefyd, er cadw ei yspryd yn fyw i'w waith, fod o hyd a'i galon yn cael ei chynesu gan gariad Crist. Heb hyn ni bydd ar y goreu ond "gwâs cyflog," na'i lafur chwaith ond peth oer a ffurfiol; ac os felly, bydd ei waith yn fwy o flinder iddo na dim arall. Ac os bydd ei waith yn flinder iddo, nid hir fydd yr eglwys heb ddeall hyny a blino ar ei wasanaeth. Os bydd yn lled awgrymu ei fod yn deilwng o gael ei gynal er mwyn yr enw gweinidog sydd arno, fe awgrymir iddo yntau cyn hir y gellir gwneyd hebddo. Dyma ni eto ar grwydr oddiwrth y mater; ond meddwl yr oeddym fod yn rhaid cael *gweithiwr* cyn y ceir *gwaith*.

Tybiwn fod brawd wedi ei osod yn "fugail" ar eglwys o gryn rifedi, ac y mae yn dechreu ymaflyd o ddifrif yn ei waith. Yn sicr, nis gall swydd y dyn yna fod yn "swydd segur." Bydd ganddo ei "bawb" i'w gwasanaethu; "pawb" y gynulleidfa yn gystal a "phawb" yr eglwys—"pawb" y tlodion yn gystal a "phawb" sydd uwch. Mae efe i fod yn wâs i "bawb;" yn wâs, cofier, ac nid yn feistr. Mae efe i wneyd ei hun yn bobpeth i "bawb," a hyny gyda'r amcan o'u llesâu. Bydd raid iddo, mae yn wir, dreulio cyfran o'i amser i borthi ei feddwl ei hun er ei gymwyso i borthi meddyliau ereill. Ond nid dyn ydyw i gau ei hun i fyny yn ei gell, ac na bydd byth i'w weled allan ohoni, oddieithr yn rhedeg i'r capel, er fod ganddo ei ranau pwysig i'w cyflawni yn hwnw; ond erbyn hyn mae llawer o waith y bugail yn disgwyl am dano o'r tuallan i'w furiau. Bydd yn ofynol iddo ymdroi llawer yn mysg ei "bawb," er ymgydnabyddu â hwy, eu hadnabod, a'u deall; canys heb hyny ni bydd yn alluog i "fwrw golwg." Bydd yn ofynol iddo amcanu gwneyd cyfeillion o bawb fel eu gilydd. Os gwna gyfeillion neillduol o rai, bydd yn y perygl o wneyd câseion o ereill. Er nad ydyw i dreiglo o dŷ i dŷ i segura a chwedleua, eto bydd ei ofal yn galw am dano i dai a theuluoedd, a hyny yn fynych. Bydd y claf, a'r neb sydd wedi eu caethiwo gan henaint a methiantwch, yn disgwyl ei ymweliad, a hyny hefyd nid ryw unwaith yn y pedwar amser. Bydd rhyw dŷ galar a theulu trallodedig o hyd yn galw am ei gydymdeimlad a'i ddiddanwch. Bydd bwthyn y tlawd a'r helbulus, a'r un modd aelwyd y weddw a'r amddifad, yn galw am eu sirioli ganddo; ac hefyd bydd "calon y dyeithr" wedi disgyn i'r ardal, yn galw am ei sylw a'i ofal. Fel hyn bydd gan y "bugail" lawer i'w wneyd trwy ymweliadau teuluaidd ac ymddiddanion personol. Bydd ganddo o hyd rywrai afreolus i'w rhybuddio—rhai gweiniaid i'w cynal—rhai

llesg i'w cryfhau—rhai trallodedig i'w diddanu—rhai tramgwyddus i'w meddyginiaethu—rhai briwedig i'w rhwymo—a rhai yn pallu oddiwrth râs Duw i'w hadferu. Tuagat i'r bugail fod yn ddefnyddiol gyda'i lafur bugeiliol, bydd yn ofynol iddo ddyfod rywfodd yn ŵr calon yr eglwys; nid yn unig i'w ofni yn gymaint ag i'w barchu a'i anwylo—yn gyfryw o ran ei holl ymagweddiad nas meiddiant goleddu yr un meddwl isel ohono, na dywedyd yr un gair isel am dano—yn un y bydd ganddynt bob ymddiried ynddo fel eu cyngorwr a'u cyfaill goreu—yn un y bydd yn ddymunol ganddynt bob amser weled ei wyneb yn dyfod i'w tai, gan edrych arno, yn hyny, nid fel un yn ceisio yr eiddynt, ond hwy eu hunain —yn un y gallant ddisgwyl oddiwrth ei ymweliad, nid chwedleuau, ond rhyw ymgom grefyddol, er gwasgar hynawsedd crefyddol yn awyrgylch y teulu; mewn gair, yn un y gall "pawb" edrych arno yn mhobpeth fel un yn ceisio ac yn gwir ofalu am eu llesâd penaf. Ac y mae hefyd i fyned yn nghylch ei waith amrywiol a phwysig hwn, nid gyda'r amcan o foddhau dynion, onidê bydd rhywrai digon craff i weled i mewn i'w geudeb, ond gyda'r amcan uchel o "rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn yn mhob doethineb, fel y cyflwyno bob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu." Dyma rywbeth o'r hyn ydyw "bugail" teilwng o'r enw i amcanu ato. Gwyddom yn dda trwy brofiad mai un peth yw cynllunio gwaith fel hyn ar bapyr, a pheth arall tra gwahanol yw cario y *theory* allan i ymarferiad llwyddiannus.

Hyderwn na bydd i ni dynu arnom ddirmyg ein brodyr dysgedig wrth ddywedyd, nad ydyw yn beth anhebgorol angenrheidiol i fugail, er llwyddo yn ei alwedigaeth uchel, fod yn ŵr o ddysg ddofn, a gwybodaeth helaeth yn mhob celf a gwyddor; nid rhaid iddo wybod y dirgelion oll; nid rhaid iddo lwyddo i ennill unrhyw ddwy lythyren at ei enw; ac nid rhaid iddo chwaith fod yn "bregethwr mawr," er y gallai y pethau hyn, o'u hiawn-ddefnyddio, fod yn llawer yn ei ffordd. Ond *rhaid* iddo fod yn ŵr Duw —*rhaid* iddo fod yn weddïwr mawr—*rhaid* i'w yspryd fod yn wresog yn ei waith—*rhaid* iddo fod yn ddyn athrawaidd ac ymarferol—*rhaid* iddo fod yn ddyn gwyliadwrus, doeth, a hunanymwadol—a *rhaid* iddo hefyd deimlo ei ymddibyniad llwyr ar Dduw pob grâs am ei gynorthwyon grasol i'w waith.

Nis gall gweinidog, ac yn wir nis dylai, geisio myned a'i waith bugeiliol yn mlaen heb gydymgynghoriad a chydweithrediad ei frodyr y diaconiaid. Er fod i'r naill a'r llall eu priodol waith eu hunain, eto mae gwaith y naill a'r llall o hyd yn rhedeg i'w gilydd, fel y bydd yn ofynol i'r naill a'r llall ar bob achos gyd-olygu a chydweithredu. Doethineb, dybygem, yw i'r gweinidog adael y

"pethau amgylchiadol" i'r diaconiaid, heb ymyryd â hwynt, oddieithr iddo gael ei gymell i hyny. Peth i'w ochel o du y gweinidog yw bod yn rhy ymyrgar â phethau nad ydynt mor briodol i'w swydd. Gwelwyd rhai brodyr, oherwydd rhyw duedd ymyrgar o'r fath, yn difwyno eu defnyddioldeb, ac yn gwneyd eu sefyllfa yn annymunol o boenus. Ni ddylai gweinidog ar un cyfrif fod yn rhy uchelfryd, yn rhy annibynol i dderbyn unrhyw amnaid oddiwrth eraill a dueddo i ddangos iddo pa fodd i ymberffeithio yn ei orchwyl.

Terfynwn ein llîth gan ddywedyd fod crefydd Crist yn galw ar bob un i deimlo ei rwymedigaeth a gwneyd ei ddyledswydd.

Medi, 1869.

---

## EGLWYS WEITHGAR.

### YSGRIF GYNTAF.

Y mae yr ymdriniaeth ar Eglwys Drefnus yn arwain yn naturiol i sylwi ar Eglwys Weithgar. Gall eglwys fod yn weddol drefnus, ac eto heb fod rhyw hynod o weithgar. Ond y mae gweithgarwch mewn annhrefn yn llawer gwell na rhyw fath o drefn mewn diogi. Y ddau yn nghyd, gweithio bywiog mewn trefn dda, sydd gampus. Felly fe weithir yn llawer mwy diboen, ac hefyd yn llawer mwy effeithiol.

Eglwys weithgar! A chymeryd golwg gyffredinol, mae yn hawdd deall wrth ein hystadegau fod y Cyfundeb yn dyfod trwy waith dirfawr mewn un flwyddyn, a bod y gweithgarwch hwn o hyd yn cynyddu. Canfyddir yr un peth wrth sylwi ar gofnodau ein Cyfarfodydd Misol. Yr ydym yn ystyried y cofnodau hyn yn bethau hynod o werthfawr a buddiol i bawb sydd yn cymeryd dyddordeb yn llwyddiant y Cyfundeb. Ac nid yw yspryd y dyn hwnw y maent yn ddiwerth yn ei olwg mewn un modd yn un i genfigenu wrtho; canys pa ddyn bynag sydd yn meddu calon i weithio, bydd yn dda gan hwnw gael pob mantais i ddeall pa fodd mae y *gweithio* yn myned yn mlaen yn mhob man arall. Wrth y cofnodau hyn, ceir mantais i weled y fath fywyd o weithgarwch sydd yn rhedeg trwy'r holl gorff; y fath adolygu gwaith, cynllunio gwaith, ac ymanog i waith o fis i fis yn mhob sir a dosbarth! Ac eto nid yw yr hyn a ddaw i'r golwg, yn ein holl ystadegau a'n cofnodau, ond mymryn o'i gymharu â'r holl weithio cyson a didwrf a geir gan bob cynulleidfa fach a mawr, o wythnos i wythnos ac o nos i nos, trwy holl gylch y Cyfundeb—gweithio nad oes ond

golygon yr Hollwybodol yn unig a all gymeryd cyfrif ohono! Yn yr olwg yma, pwy a faidd ddarogan fod yr Hen Gorff yn debyg o farw? Marw yn wir! marw yn ei lawn nerth a'i lawn waith! Ni fu erioed yn iachach, yn gryfach, yn fwy gweithgar, nac yn debycach o fyw yn hir! Gall Cymru eto ddisgwyl pethau mawrion o hynyma: "Canys nid yw Duw anghyfiawn, fel yr anghofio ein gwaith, a'r llafurus gariad, yr hwn a ddangosasom tuagat ei enw ef." Ac eto y mae yn rhaid i ni deimlo nad ydym mewn un modd i fod yn uchelfrydig; y mae tir lawer eto heb ei feddiannu, a gwaith mawr eto heb ei wneyd ac yn disgwyl wrthym. Ac er maint a weithir, nid ydym heb sail i ofni fod y gwaith sydd yn aros heb ei wneyd yn cynyddu yn llawer cyflymach na'r gweithio.

Wrth fwrw golwg ar yr eglwysi mwyaf gweithgar yn y Cyfundeb, yr ydym yn tybied mai nid yn mhlith y rhai cryfaf, cyfoethocaf, a mwyaf amlwg y deuir o hyd iddynt, ond yn îs i lawr; yn mhlith y rhai nad oes ganddynt na rhif, na chyfoeth, na gallu i ymffrostio ynddynt. Ceir yn fynych esiamplau nodedig o weithgarwch mewn eglwysi nad ydynt mewn un modd i'w hystyried yn amgen na gweiniaid. Rhaid i'r eglwys wan yn aml wingo ei goreu er cadw ei hachos i nofio rywfodd. Ac fel hyn, mae yr eglwysi gweiniaid, fel eu gelwir, er gwaethaf pobpeth yn mynu byw. Mae yn beth hynod ac yn werth sylw, na chlywir braidd byth am yr un eglwys Fethodistaidd, pa mor wan bynag, *yn marw o wendid.* Rhyfedd y fath *blwc* a geir weithiau mewn ambell eglwys wan; chwalu yr hen gapel ac adeiladu un newydd, ac ni orphwysir nes talu ei ddyled; ac yn hytrach na boddloni ar ryw un bregeth y Sabboth yn ysgîl eglwys gref, cadwant bregethwr eu hunain, a chydnabyddant ef mor anrhydeddus nes codi cywilydd, pe byddai bosibl, ar eglwysi llawer cryfach. Yma y ceir pawb yn ymorchestu—yn tynu yr ewinedd o'r blew, ys dywedir, i weithio; yma y ceir pawb yn cyfranu, nid yn ol eu gallu, ond yn mhell uwchlaw hyny; rhoddi nes teimlo bod eu rhoi yn aberth mewn gwirionedd. A phe byddai i'r holl eglwysi sydd gryfach a lluosocach ddangos rhywbeth yn gyffelyb mewn sêl a ffyddlondeb, y fath wedd rymus a llwyddiannus fyddai ar y Cyfundeb. Ond, ysywaeth, fel arall y mae yn digwydd bod. Lle mae gwendid y mae nerth, a lle mae nerth y mae gwendid.

Nid oes dim haws ei ganfod na bod rhai eglwysi yn llawer iawn mwy gweithgar nag ereill. Fel y mae yn digwydd mewn eglwys, fod aelodau diffrwyth yn pasio yn nghysgod eu ffyddlonach, felly hefyd y mae yn mhlith yr eglwysi. Tra y mae lluaws yn gweithio yn ymroddgar, mae ereill yn boenus a diymadferth yn llechu fel yn eu cysgod. Mae eto ormod, a llawer gormod, o eglwysi llonydd.

*Eglwys lonydd!* Ni fyn y fath yma o eglwysi dori tir newydd gyda dim; trin ychydig ar hen feusydd, a chymeryd a geir, yw eu ffordd hwy; cadw at yr hên drefn, ac ymesgusodi am yr aflwyddiant trwy gŵyno ei bod yn amser isel iawn ar grefydd,—ffordd hwylus i guddio diofalwch. Mae gormod o'r wedd hên ffasiwn a geir ar ffarm yn yr ardal, i'w chael hefyd ar yr eglwys yn y lle; a dichon fod y gŵr sydd yn amaethu y naill yn swyddog yn y llall. Y cyhuddiad yn erbyn llawer o amaethwyr Cymru yw, eu bod yn glynu yn rhy ystyfnig wrth eu hên drefn o amaethu. Ni fŷn y mab wneyd ond fel y gwelodd gan y tad, ac ni ddysgodd y tad ddim ond a ddysgodd gan y taid. Gwrandewch arno: "Deg o fuchod oedd ar y ffarm hon gan fy nhad, a deg oedd yma yn amser fy nhaid; ffarm i ddeg o fuchod ydyw; deg a dim mwy sydd i fod yma." Onid oes gormod o'r wedd henafol yna ar lawer o eglwysi y Methodistiaid? Gwrandewch beth a ddywed blaenor eglwys lonydd: "Tri sydd yma ohonom yn flaenoriaid; ni bu yma ddim mwy na thri yn amser yr hên bobl; mae tri yn ddigon yma; yr ydym ein tri yn myned yn hên; nid oes mo'r help am hyny; y mae yn bur ddiolwg am neb yn ein lle. Un bregeth y Sabboth, a hono am ddeg o'r gloch, a fydd yma bob amser, a chyfarfod gweddi y nos. Ychydig ddaw i hwnw ar amser isel fel hyn; bydd y bobl yn gwylltio i bob man at y nos neu yn aros gartref. Mae yr hên frawd sydd yma yn dechreu cânu wrth y gorchwyl bellach yn mhell dros ddeng mlynedd ar hugain; ac un ffyddlawn òd ydyw; nid yw yn deall fawr ar ganu, fe ddywedir; ond mae yn bur siŵr o ryw fesur neu gilydd bron ar bob penill. Yr hên frawd Thomas a fydd yn myned i bob Cyfarfod Misol; mae yn hawdd iddo ef fyned, ac mae yntau yn hoffi myned, a byddwn ninau yn gadael iddo. Ni ein tri fydd yn derbyn ac yn trin pob casgliad fydd yma; ac ni byddwn yn rhoi cyfrif i neb, na neb yn gofyn hyny. Felly yr oedd hi yma yn amser yr hên bobl; ac ni byddwn ninau yn blino ond càn lleied ag y byddo modd ar y cyfeillion â chasgliadau. Peth diflas yw cadw sŵn am arian o hyd; nid oes fawr o grefydd mewn sŵn arian. Gwell genym ni gael ein dwrdio gan y Cyfarfod Misol am beidio gwneyd rhyw gasgliad na blino'r bobl; ni bydd neb ohonom ni yn clywed y dwrdio hwnw ond Thomas, ac y mae o yn hên frawd pur ddyoddefgar. Bydd y pethau ifainc yma yn cadw *reiat* eisieu newid hyn a newid y llall; ond, druain, ni wyddant hwy fawr beth yw bod dan bwysau'r achos."

Er cymaint a ysgrifenir ac a ddywedir, onid oes genym achos i ofni fod gormod o eglwysi, os nad yn hollol, yn dyfod yn rhy agos i'r darlun trymaidd uchod? Gresyn, gresyn fod hên frodyr cyson

a da yn rhy hwyrdrwm i adnabod eu hamser a'u lle; a gresyn hefyd na chai'r "pethau ifainc," a phawb, yn wir, bob mantais i deimlo pa beth yw bod dan "bwysau'r achos." Mewn ardaloedd lle ceir y fath eglwysi llonydd a diymadferth, a'r fath swyddogion difywyd a dilygaid i weled, y fath gyfleusdra têg a adewir i goeg-athrawon cyfrwys i hud-ddenu plant a phobl ieuainc, ac i lithio eneidiau anwadal, i'w synagog eu hunain! Yn bendifaddeu, nid amser i gysgu a breuddwydio, nid amser i lusgo a chloncio, rywfodd, rywlun, gydag achosion eglwysig, yw yr amser hwn. Ai nid ydym i ofni fod yr amser tawel a fwynhawyd gan eglwysi Ymneillduol Cymru er's rhai oesoedd bellach yn tynu at ei derfyn? Mae yn rhy amlwg fod ysprydiaeth wedi deffro yn y wlad sy'n benderfynol o ddefnyddio pob moddion a ddaw i'w cyrhaedd, têg neu arw, fel bo gyfleus, er dilëu Ymneillduaeth yn llwyr o blith y genedl. Mae y rhyfel eisoes wedi ei gyhoeddi, ac nid oes yma yr un lle i gymod. Pe buasai yr yspryd hwn am gyrhaedd ei amcan trwy arfau cyfiawnder a gwirionedd—trwy bregethu yn well a byw yn well—pe yn amcanu yn ddifrifol at wneyd y genedl yn well Cristionogion, ac yn burach eglwysi—gan ymosod yn erbyn ei hannuwioldeb a'i hangrefydd, lle pob Cristion a fuasai mawrygu yr amcan a llawenhau yn y llwyddiant, oherwydd nid yw bod yn Ymneillduwr yn unig er mwyn Ymneillduaeth yn beth i neb ymffrostio ynddo. Ond rhaid i ni gredu, er mor boenus yw hyny, nad yw y gallu hwn yn amcanu at ddim o'r fath beth; nid yw am ryfela â bychan na mawr, ond âg Ymneillduaeth yn unig; dyma yr ysgymunbeth yn ei olwg, ac y mae wedi ymddiofrydu i'w ddyfetha, ac mae ganddo bob dylanwad a fêdd mawredd bydol, cyfoeth a ffafrau daearol, o'i blaid. Gall rhywrai gymeryd hyn yn beth ysgafn; ond os nad ydym yn camgymeryd yn hollol, caiff eglwysi Ymneillduol Cymru brofi mai nid gelyn i'w chwerthin ymaith—i'w wawdio a'i ddirmygu ymaith yw hwn. Ac nid o'r cyfeiriad yna yn unig y mae ein perygl. Yn wir, y mae ein peryglon yn dyfod o bob cyfeiriad. Pwy a faidd amheu nad yw diafol ar hyn o bryd, yn nghysgodion tywyll anghrefydd y genedl, yn hwylio cadrawd o anffyddwyr i ymosod arnom, a bod y llêng hon yn barod i wneyd ei gwrhydri; dim ond cael rhyw ddyn digon galluog a digon beiddgar i'w harwain? Ond i ba beth yr ydym ni yn ymdroi fel hyn? Er ceisio dangos ei bod mewn gwirionedd yn "amseroedd enbyd" arnom, a'i bod yn bryd, yn llawn bryd, i bawb sydd yn caru'r gwirionedd megys y mae yn yr Iesu, i ymddeffro at eu gwaith a dyfod allan yn gynorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn.

Mae yn perthyn i'r Cyfundeb erbyn hyn luaws o eglwysi cryfion,

aelodau pa rai sydd i'w rhifo wrth y cannoedd, a chyfoeth yr aelodau hyny i'w gyfrif wrth y miloedd. Os ydym yn deall yn iawn, perygl yr eglwysi cryfion a goludog hyn yw moethau crefyddol.

*Eglwys foethus!* Mae yma bobpeth yn cael ei gario yn mlaen yn weddol o drefnus. Mae'r brodyr sydd yn blaenori, o bosibl, yn ddynion *business*, ys dywedir; ac y maent yn dwyn hyny i mewn i'w trefniadau eglwysig. Mae yma wêdd barchus ar bawb a phob-peth; nis gellir goddef dim o chwaeth isel mewn gwisg na moes, ac mae *y rhy syml* hefyd yn wrthodedig yma. Mae pwysigrwydd y dref neu'r ardal, gwychder yr addoldŷ, gwêdd barchus y gynull-eidfa, a'u safle mewn cymdeithas, yn peri iddynt dybied eu bod gryn lawer yn uwch mewn urddas nag eglwysi llai a mwy gwledig, ac felly y maent mewn temtasiwn i fesur eu hunain wrthynt eu hunain, a cholli golwg ar fesurau eglwysi ereill. Mae yma gasgliadau grymus, a hawdd y gall hyny fod heb i neb roddi ond o'r hyn a fo yn weddill ganddo. Mae'r cyfoethog yn rhoddi, nid yn ol fel y llwyddodd Duw ef; wrth gwrs, mae hono yn rheol llawer rhy uchel i gyfoethogion, ond am nas gall fod yn barchus heb roddi. Mae y brawd o radd isel yn tybied mai'r cyfoethog a ddylai roddi, ac felly nis mŷn ef roddi ond càn lleied ag a oddef ei aelodaeth. Eilun eglwys foethus yw *boddhad;* maent yma am gael pobpeth i'w boddhau. Y pwnc mawr yma yw cael gweinid-ogaeth i'w boddhau; ac er cael hono, fe eir led-led y gwledydd i'w cheisio, a thelir hefyd yn anrhydeddus am dani. Yma, mae rhyw fymryn o gyfarfod eglwysig nos Sabboth yn ddigon gan y lluaws; bydd yr un wythnosol yn druenus o deneu. Mae dyweyd, a gwrando dyweyd profiad, a rhyw bethau cyffelyb, yn rhy hên ffasiwn a diflâs, nid oes dim boddhad i'w gael mewn peth mor gyffredin a hyny. Ac oni cheir rhyw ddull newydd ar "gadw seiat," rhaid bwrw yr hen gyfarfod anwyl ymaith fel dodrefnyn heb hoffder ynddo. Am yr Ysgol Sul, y mae yn gynulliad rhy lafurus a dibleser i bobl barchus, oddigerth ychydig iawn ohonynt, i ymboeni yn ei gylch, ac felly rhaid gadael iddi fyw neu farw yn nwylaw rhyw nifer o rai mwy selog a hunanymwadol. Ac am gyfarfod gweddi, os oes un o gwbl, nid oes neb yn y gynulleidfa barchus yn gwybod dim am dano oddieithr rhyw ychydig o bobl, druain, dlodion sydd yn hoffi galw ar enw yr Arglwydd. Hunan-foddhad sydd yma yn teyrnasu, ac oni cheir hyny yn y cyfarfod crefyddol, rhaid ei geisio mewn rhyw gyfeiriad arall.

Pa beth! a ydym wedi tynu darlun o'r hyn nad yw? Ai nid oes lle i ofni fod rhai, a dyweyd y lleiaf, o'n heglwysi cryfion ar y llithrigfa arswydus hon, yn llithro o hyd i ffurfioldeb marw a

difywyd? Yr ydym yn arswydo oherwydd cynydd yr hyn a elwir Defodaeth yn yr Eglwys Wladol. Ai nid ydym i ofni fod y gelyn marwol i grefydd ysprydol yn dyfod i mewn dan enw arall i'n gwersyll ein hunain? Nid yw fod eglwys yn ymdecâu yn ei golwg ei hun yn profi dim ond fod ei pherygl yn fwy. Wrth eglwys foethus a hunan ddigonol y dywedir y geiriau difrifol hyny: "Felly, am dy fod yn glaiar, ac nid yn oer nac yn frwd, mi a'th chwydaf di allan o'm genau; oblegid dy fod yn dywedyd, Goludog wyf, ac nid oes arnaf eisieu dim." Nid yw hanesiaeth eglwysig yn profi dim yn gliriach nag y dichon i eglwys a gyfrifid unwaith yn enwog ar gyfrif ei sancteiddrwydd a'i sêl, ymlygru yn raddol a diarwybod iddi ei hun oddiwrth y symlrwydd sydd yn Nghrist, nes myned yn y diwedd yn synagog Satan. Wrth eglwysi moethus y Methodistiaid y dywedir heddyw, "Bydded genyt sêl ac edifarha, a gwna y gweithredoedd cyntaf."

Y fath allu grymus i wasanaethu achos y Gwaredwr a fyddai'r eglwysi cryfion hyn, pe gellid eu cael rywfodd i ymdeimlo â'u rhwymedigaeth, ac i ddeffroi at eu gwaith! Nid yw cynal eu hachosion eu hunain yn anrhydeddus ond gorchwyl ysgafn iddynt hwy; ac y mae eu Perchen yn disgwyl llawer mwy na hyny oddiwrthynt. Mae efe yn disgwyl iddynt roddi help llaw i'r eglwysi gweiniaid sydd o'u hamgylch yn *ymlabrio* eu goreu er cadw eu hachos yn fyw rywfodd. Os ydyw yn rhwymedig ar frawd cryf i gynorthwyo brawd gwan, pa faint mwy y mae ar eglwys gref i helpu eglwys wan? "Dygwch feichiau eich gilydd, ac felly cyflawnwch gyfraith Crist," yw y rheol Ddwyfol i'r naill a'r llall. Y fath sirioldeb i eglwys wan a thlawd fyddai derbyn cymorth yn awr ac eilwaith oddiwrth ei chwaer-eglwys gyfoethog! Byddai caredigrwydd o'r fath yn werth ei ysgrifenu yn y Nefoedd. Ac heblaw hyny, mae yn digwydd yn aml fod gan yr eglwysi cryfion hyn waith mawr yn aros heb ei wneyd, ac yn disgwyl wrthynt, yn bur agos i'w drysau. Dyna luoedd o blant yn tyfu i fyny heb ddysgu na darllen na deall, heb wybod rhagor rhwng eu llaw ddeheu a'u haswy, na neb yn gofalu am eu heneidiau; ac oni ddaw ymwared o rywle, cyfyd y rhai'n i fyny yn genedl o farbariaid yn nghanol gwlad Gristionogol. Ac nid plant yn unig, ond y mae meibion a merched o bob oed, mor baganaidd o ran gwybodaeth, arferion, a theimlad, â phaganiaid tywyll-leoedd y ddaear. Amcanu gwneyd y goreu o'r genedlaeth esgeulus hon, dyma waith i'r eglwysi cryfion; dyma gyfle i hunan-ymwadiad Cristionogol brofi ei hun; a dyma le i aelodau cyfoethog roddi eu harian ar lôg. Pe byddai i foneddigion a boneddigesau, ac aelodau ereill ein heglwysi cryfion, agor eu llygaid ar y mawrwaith hwn sydd yn disgwyl

wrthynt, a meddu digon o yni hunanymwadol i ymaflyd ynddo, yna byddai diwedd ar y moethau crefyddol y buom yn cwyno o'u herwydd.

Aeth ein rhagymadrodd braidd yn faith; bellach at ein pregeth, a dyna ydyw hono: Gwaith ydyw crefydd, ac mae gan grefydd Crist waith i bawb.

Ebrill, 1871.

---

## YR AIL YSGRIF.

Gwaith ydyw crefydd, ac y mae gan grefydd Crist waith i bawb. Os felly, beth am ffydd? Wele, ffydd yn gweithio trwy gariad ydyw; canys ffydd heb weithredoedd, marw yw; ac o bob peth, ffydd farw yw'r peth mwyaf dilês. Dywedai Paul, "Ac heb fod genyf gariad, nid wyf fi ddim!" Gwir; a dim hefyd, ond mewn enw, yw cariad heb waith. Os cariad o'r iawn ryw ydyw, bydd yn "llafurus gariad," yn gariad â'i lygaid yn agored i weled gwaith, a'i ddwylaw yn barod i ymaflyd ynddo. Pa werth yw crefydd heb deimlad? Yn hytrach, pa werth yw teimlad heb waith? Mae yn rhy debyg i lawer o aberoedd Cymru, yn rhedeg o hyd gan gadw twrf, heb gymaint a throi melin eithin neu helpu'r forwyn i gorddi. Gwybodaeth a deall, meddwch, yw pob peth yn yr oes hon. Bydded felly; ond mae ystôr helaeth o wybodaeth, wrth ei chadw yn ddiwaith, yn rhy debyg i gyfoeth wedi ei gadw, yn llawer mwy o niwed i'r perchenog nag o lês i neb arall. Mae ffydd, gobaith, cariad, yn elfenau gweithgar, ac nis gellir eu hadnabod ond wrth eu gwaith.

Mae'r Cristion, nid i fod yn feudwy, yn byw ynddo ei hun ac iddo ei hun, ond yn ddyn Crist; dyna ystyr ei enw: dyn am Grist, i Grist, a throsto. Ac nid gadael *ei ddyn* yn y byd hwn y mae Crist i ymboeni â'i ddiffygion ei hun, ac i ymflino â thrallodau y llawr, ond er mwyn iddo fod yn rhywbeth gyda'i waith ac yn ei wasanaeth, yn halen y ddaear ac yn oleuni y byd; a'r hwn nid yw yn amcanu bod felly, nid yw yn deilwng o'r enw Cristion. Mae y dyn a fŷn broffesu Crist, gan foddloni yn unig ar yr enw o hyny, yn rhywbeth gwaeth na diwerth; mae yn aml yn offeryn rhy hylaw at amcanion diafol i'w adael yn llonydd. Byddai dda i aelodau diffrwyth yn yr eglwysi,—ac, ysywaeth, mae amledd ohonynt—ystyried fod bygythiad mor ddifrifol a hyny â'i lygaid arnynt, "A phob cangen ynof fi heb ddwyn ffrwyth, y mae efe yn ei thynu ymaith!"

*Eglwys weithgar!* Er gosod ei waredigion mewn gwell mantais

i weithio drosto yr ordeiniodd Duw y wêdd gymdeithasol hon sydd ar ei eglwys, fel y byddai i'r naill gynorthwyo y llall, sêl y naill wresogi y llall, cryfder y naill gynorthwyo gwendid y llall, a doethineb a phrofiad y naill arwain ereill, fel y byddont oll yn un er gweithio allan amcanion mawrion teyrnas eu Gwaredwr ar y ddaear. A thuagat i eglwys fod yn effeithiol i ateb dyben uchel ei ffurfiad, rhaid i'w haelodau gael eu bedyddio â'r un yspryd, a chyd-weithio, bawb yn ol ei le a'i allu, er cyrhaedd yr un amcan. Gorchymyn yr Apostol Paul, "Eich bod yn sefyll yn un yspryd, âg un enaid, gan gydymdrech gyda ffydd yr efengyl," sydd un o ran ystyr âg aneirif ymadroddion ereill i'r un perwyl yn yr Ysgrythyrau. Dyma undeb yspryd ac undeb amcan; a dyma esgeiriau eglwys weithgar. Nis gall aelodau eglwysig wneyd gormod o aberth, ond peidio aberthu gwirionedd, er cadw yr undeb yspryd hwn yn nghwlwm tangnefedd. Mae yr undeb yspryd a'r cydweithrediad hwn — pawb yn teimlo ei rwymedigaeth, yn adnabod ei le, gan fod yn barod i wneyd ei ran—yn ansawdd ar eglwys sydd yn annhraethadwy uwchlaw ei brisio. Yn wir, dyma ydyw ei gogoniant a'i nerth. A dryllio'r undeb bendigedig hwn yw amcan holl ystryw pyrth uffern, a da fuasai i'r dyn a roddo help llaw i'r diafol yn ei amcan melldigedig hwn, pe nas ganesid ef.

Am hyny er cael eglwys weithgar, hyd y gellir, rhaid cael pawb i weithio; nid rhai yn gweithio a rhai yn segura; nid rhai yn gweithio ac ereill yn barnu, yn beio, ac yn sori. Gall gwasanaeth Crist yn bur hawdd hebgor y fath yna. Mae yma waith i bawb, a gwaith y gall pawb ei wneuthur. Fel peth cyffredin, gwneir eglwys i fyny o bob amrywiaeth o ran oed a sefyllfa—o ran deall, medr, a moddion. Ond mae yma bob amrywiaeth gwaith i gyfarfod â phob amrywiaeth dawn a gallu yn y gweithwyr. Nis mỳn crefydd Crist ddywedyd wrth neb, bydded ei allu mor lleied ag y bo, "Nid rhaid i mi wrthyt." Felly nid oes neb mewn eglwys, os yn grefyddol, i'w esgusodi a'i ddibrisio, bydded mor isel a dinôd ag y byddo. Mae llawer gormod o beth felly wedi bod ac yn bod. Mor brydferth y mae'r Apostol yn trafod hyn wrth ysgrifenu at eglwys Corinth: "Eithr yn hytrach o lawer, yr aelodau o'r corff y rhai a dybir eu bod yn wanaf, ydynt angenrheidiol," ïe, ydynt *angenrheidiol*, sylwer! "A'r rhai a dybiwn ni eu bod yn anmharch-edicaf o'r corff, yn nghylch y rhai hyny y gosodwn ychwaneg o barch." Dyna i ni wers iawn pa fodd i ymddwyn tuagat y rhai iselaf yn yr eglwys. Cyfrifir mai gwraig dda yw hono sydd yn gallu gwneyd y defnydd goreu o bobpeth yn ei thŷ; felly hefyd, gallu nas gellir mynegu ei werth mewn swyddogion yw y medr i hwylio pawb mewn eglwys, pawb y mae hwylio arnynt, bob un at

ei waith mwyaf priodol ei hun, heb esgeuluso neb; gwneyd y goreu o bawb.

*Gwaith i bawb!* Wel, aroswch: dyna hên chwaer nad oes dim a gyfrif y byd hwn yn ddymunol o'i chwmpas, ond yn unig ei bod yn wir grefyddol. Pa beth a all hi wneyd? Mae gweled yr hên chwaer yna, trwy lesgedd a gwendid, mor gyson yn dilyn moddion grâs, yn bregeth a fydd rywbryd yn llosgfa yn nghydwybodau gwragedd ieuainc esgeulus. A dyna eto, mynych y ceir gan yr hên chwiorydd brofiadau mor gynes, mor nefol, ac mor wreiddiol, nes gwresogi rhyw gymaint ar deimlad eglwys oer. Pwy a faidd roddi gwerth ar hynyna ar adeg fel hon? Dywedai rhyw hên chwaer wrth weinidog enwog yn yr America, nas gwyddai hi i ba beth yr oedd ei Thad Nefol yn ei gadael yn y byd hwn, nad oedd hi dda i ddim. Atebai y gweinidog, "Yr ydych yn camgymeryd yn fawr; chwi o bawb yw fy llaw ddê i yn y pwlpud; bydd eich sirioldeb chwi yn gwrando yn peri i mi deimlo fod fy ngweinidogaeth yn gymeradwy gan y saint." Ond beth am eu gweddïau a'u cyngorion? Yn wir, byddai yn well genym "dŷ cwrdd," heb nac awrlais nac addurn, nag heb yr un o'r hên chwiorydd anwyl hyn. Gwaith i bawb.

Dyna eto ddosbarth lluosog: morwynion mewn gwasanaeth. Pa beth a allent hwy wneyd? Yr ydym yn ofni yr edrychir ar luaws ohonynt, yn enwedig yn y trefydd, yn fwy o *lumber* yn yr eglwysi na dim arall. A diau nad oes yr un dosbarth o'r eglwysi wedi cael eu hesgeuluso a'u dibrisio yn fwy. Meddylier am lodes fach ddeuddeg oed yn gorfod troi allan i "weini," heb y nesaf peth i ddim o ysgol nac hyfforddiant, yn cael ei threiglo o deulu i deulu, ac o ardal i ardal, heb neb yn ceisio ei llesâd, ond pawb am wneyd y geiniog oreu ellir ohoni. Mŷn y feistres ei bod hi ei hun yn gyflawn o berffeithrwydd, ond nad ydyw ei morwyn, druan, ond swp o ddiffygion, tra y gallai y ddwy yn bur hawdd ranu yr ymrafael. Pa ryfedd os ydyw cymeriad lluaws ohonynt yn ddiffygiol, a'u harferion weithiau yn boenus? Y rhyfeddod yw fod cynifer ohonynt yn gallu glynu yn eu proffes rywlun; ïe, yn wir, yn dal eu ffordd ac yn chwanegu eu cryfder! Y gwir ydyw, mae'r morwynion hyn wedi eu hesgeuluso yn ormodol genym; ond y maent yn ddosbarth llawer rhy bwysig i'w dibrisio; *y maent yn allu i wneuthur daioni.* Mae morwynion crefyddol lawer pryd wedi bod yn Feiblau byw mewn teuluoedd na fynent dalu sylw i'r un Beibl arall. Pan soniwyd unwaith wrth feistr am grefydd ei forwyn, dywedai, "Nis gŵn pa faint o grefydd sydd gan y llances yn ei chalon, ond gŵn fod llawer iawn o grefydd yn ei gwasanaeth." Go dda. Onid gwir fod morwynion Cymreig wedi bod yn foddion i gychwyn a

dwyn yn mlaen achosion crefyddol yn rhai o anial-leoedd moesol Lloegr? Yr ydym yn crybwyll y pethau hyn er dangos fod morwynion mewn gwasanaeth yn ddefnyddiau yn yr eglwysi sydd yn llawer rhy werthfawr i'w diystyru. Pe ca'i Eglwys Rhufain afael arnynt, gwnai hi lawer amgen defnydd ohonynt. Yr hyn sydd yn eisieu yw, dyrchafu teimlad y forwyn i feddwl mwy ohoni ei hun yn ei chysylltiad â chrefydd. Mae yr esgeuluso fu arni yn ei themtio i deimlo nad yw hi *neb*. Os mynir cael dyn i deimlo ei fod yn ddyn, rhaid ymddwyn yn ddynol tuagato. A'r peth sydd yn gwneyd y morwynion hyn yn ddosbarth pwysig iawn yw, y byddant hwy eu hunain yn fuan yn wragedd, yn famau, ac yn galonau teuluoedd. A chwestiwn pur ddifrifol i bawb sydd yn caru llwyddiant crefyddol y genedl yw, pa fodd i wneyd y defnydd goreu ohonynt? Gan hyny, dysger y forwyn i deimlo ei bod hithau hefyd yn rhywbeth. Gwaith i bawb!

Gan i ni ddechreu gyda'r chwiorydd, byddai yn wirioneddol dda pe gellid cael eu sylw un ac oll, o bob oed a gradd, ar y lle helaeth sydd wedi ei ordeinio iddynt gyda gwaith eu Harglwydd. Maent yn ddosbarth lluosog a dylanwadol, yn allu grymus er gwneuthur daioni, pe gellid rywfodd eu galw allan i fwy o weithgarwch. Mewn lluaws o eglwysi, hwynt-hwy ydyw y mwyafrif. Ond y gwall a fu, eu bod wedi cael eu harfer i synio mai unig le merch yw gwarchod gartref, dysgu mewn distawrwydd, a myned i'r Nefoedd felly yn ddistaw, goreu y gallont. Ac ychydig ohonynt, mewn cymhariaeth, sydd yn meiddio tori y tuallan i'r cylch sefydlog hwn. Addefwn mai gartref y mae castell merch; yno y mae ei dylanwad grymus i'w deimlo. Ac os bydd y dylanwad hwnw yn un crefyddol, fe dreiddia yn bell trwy gylchoedd cymdeithas er daioni. Ond byddai dda i'r chwiorydd ddeall fod yr Iesu y maent yn ei garu yn disgwyl llawer mwy na hyny oddiwrthynt. Wrth sylwi, fe welir fod merched yn mhob oes yn gwneyd gwasanaeth gwerthfawr dros eu Duw a'u Gwaredwr. Pa waith da erioed a fu gan yr eglwys ar droed nad oedd iddynt hwy eu rhan ynddo? Yr oedd i'r merched eu rhan yn ngwneuthuriad y tabernacl. Ceir fod y merched yn cynorthwyo i adeiladu muriau Jerusalem. Cawn fod y gwragedd yn gweini o'r hyn oedd ganddynt i'r Gwaredwr bendigedig yn adeg ei ddarostyngiad; a hwy oedd y rhai diweddaf i adael ei groes, a'r rhai cyntaf i ymweled â'i fedd; a'r gwragedd fu y tystion cyntaf o'i adgyfodiad. Cawn fod yr Apostolion yn ordeinio i'r chwiorydd eu llawn waith, a cheir rhestr anrhydeddus ohonynt yn nghronicl y brif eglwys.

Ond y cwestiwn yw—ac y mae yn un teilwng o bob ystyriaeth—a ydyw yn bosibl, rywfodd, codi y dosbarth lluosog a dylanwadol

hwn yn ein heglwysi i fwy o weithgarwch ? Gresyn fod gallu mor werthfawr yn cael ei adael i orwedd yn rhy lonydd mewn adeg y mae gwir angen am eu help. Ceir fod rhyw nifer o'r chwiorydd yn gweithio yn rhagorol ; ond paham na cheir llawer yn rhagor i weithio felly ? Mae nifer o'r chwiorydd yn gweithio yn dda fel athrawesau yr Ysgol Sabbothol ; ond paham na byddai y rhifedi yn llawer mwy ? Mae lluaws mawr ohonynt yn meddu cymwysderau i fod yn athrawesau da, dim ond cael y meddwl at hyny. Mae rhai chwiorydd wedi ymgymeryd â llafur mor hunan-ymwadol a chychwyn a dwyn yn mlaen "Ysgolion Sabbothol Carpiog." Campus ! Ond ai nid ellid cael ereill i ymgymeryd â llafurwaith mor wir angenrheidiol ? Mae eglwysi Rhufain a Lloegr yn deall dirgelwch dylanwad merch ar gymdeithas, ac yn gwneyd defnydd helaeth ohono ; a phaham nad allai y Methodistiaid Calfinaidd wneyd yn gyffelyb ? Os bydd ar y Methodistiaid Wesleyaidd eisieu casglu arian at rywbeth, maent hwy yn bur gyffredin yn galw y merched at y gwaith ac yn llwyddo. Paham na roddem ninau fwy o'r llafur hwn i'r chwiorydd ? Os bydd eisieu gwneyd casgliad grymus at gapel neu rywbeth, pe gellid darbwyllo y chwiorydd i ymgymeryd â gwneyd eu rhan, dyna'r gwaith ar ben ; canys pa gasgl erioed a erthylodd yn eu dwylaw hwy ? Gŵyr pawb nad oes debyg iddynt am fedru y ffordd i galonau a llogellau *meibion* dynion.

Mewn rhai eglwysi trefol, ceir fod nifer o chwiorydd yn llafurio yn ddiwyd gyda'r hyn a elwir ganddynt yn *Gymdeithas Dorcas.* Yr amcan yw dilladu'r noeth, a gweinyddu dyddanwch i'r anghenus a'r afiach. A pha amcan mwy cymeradwy gan y Nefoedd ? Y mae y gymdeithas hon yn gweithio yn dda, ac yn ateb dybenion gwerthfawr, mor bell ag y mae yn cyrhaedd ; ac mae'r chwiorydd sydd yn llafurio yn gyson a distaw gyda hynyma, yn sicr o'u gwobr. Ond paham nad ellid cael Cymdeithas Dorcas, neu rywbeth i'r un amcan, dan ba enw bynag, neu heb enw oll, yn beth llawer mwy cyffredinol ? Yn sicr, mae "llafurus gariad" y chwiorydd teilwng hyn yn teilyngu llawer mwy o sylw a chefnogaeth. Paham y mae yr hyn sydd yn cael cymaint o le yn y Testament Newydd, a'r Hen hefyd, sef cynorthwyo'r tlawd a'r afiach, yn cael càn lleied o sylw yn ein cynadleddau ni ? Mae gan Eglwys Rhufain yr hyn a eilw yn "Chwiorydd Trugaredd," ac y mae eu llafur a'u hunan-ymwadiad yn syndod i'r byd. Prawf hyn pa beth a all merched ei wneyd ond cael eu cyfeirio a'u cefnogi yn briodol. Mae yn perthyn i bob cynulleidfa eglwysig, o'r braidd, hên chwiorydd yn wir weddwon ac unig, heb ddim i'w cynal ond "ceiniog brin y plwyf," ac ereill ieuengach, mewn hir waeledd a nychdod, ac wedi eu hamgylchu â

dygn dlodi, ac eto, o bosibl, y rhai adfydus hyn yn anwyliaid y Nefoedd! Yr ydym yn crybwyll hyn er dangos fod i "Chwiorydd Trugaredd" y Methodistiaid gyflawnder o waith yn disgwyl wrthynt. Nid yw yn ofynol iddynt, pe byddai raid, ond hebgor mymryn o'u moethau eu hunain er gweinyddu llawer o ddyddanwch a sirioldeb meddwl, i rai llwythog gan henaint, gwaeledd ac adfyd. A byddai iddynt, trwy eu caredigrwydd hwn, dynu arnynt eu hunain, nid yn unig fendithion y rhai sydd ar ddarfod am danynt, ond bendithion y Nefoedd hefyd. Gwirionedd yr ydym ni yn llawer rhy anmharod i'w gymeryd i'n hystyriaeth yw, mai un achos fod yr Arglwydd doeth a da yn gadael ei rai anwyl am dymor yn y byd hwn mewn iselder a gwaeledd ydyw, er rhoddi cyfleusdra i'r rhai sydd mewn iechyd a llawnder ddangos eu cariad tuagato Ef, trwy eu caredigrwydd iddynt hwy. "Yn gymaint a'i wneuthur ohonoch i'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch."

Nid ydym wedi darfod eto gyda'r chwiorydd. Yr ydym ni, y "brodyr," wedi bod yn areithio, yn cynllunio, ac yn poeni gyda dirwest er's hir amser; ac y mae yr achos da hwn, a wnaeth gymaint o ddaioni yn "ei ddydd," wedi myned yn *dead lock* hollol yn ein dwylaw. Yr ydym yn disgwyl, ond yn ofer, am i ryw arwr ymddangos i roddi bywyd newydd yn y corff marw. Beth fyddai i'r chwiorydd droi eu sylw at hyn? Clywsom am foneddiges yn un o drefydd Lloegr, trwy ei sêl a'i hymroddiad, wedi bod yn foddion i waredu cannoedd o feddwon. Yr ydym yn credu, ac am hyny yn dywedyd, pe byddai i rai o'r chwiorydd yn ein trefydd a'n hardaloedd poblogaidd, daflu eu hunain i hyn o ddifrif calon, y gallent hwythau hefyd wneyd gorchestion. Gwyn fyd nad ymddangosai yn ein plith ryw *Maid of Orleans* i gasglu a bywiogi, ac arwain i fuddugoliaeth, y byddinoedd dirwestol sydd wedi eu gorchfygu a'u digaloni.

Yr ydym wedi ymdroi braidd yn hir gyda'r chwiorydd; a'n rheswm am hyny yw, fod y gallu dylanwadol hwn yn ein heglwysi wedi cael ei adael yn rhy hir, yn llawer rhy lonydd a diwaith. Nid yw y pethau a grybwyllwyd genym ond ychydig o'r gwahanol ffyrdd y gallent fod yn ddefnyddiol gyda gwaith yr Arglwydd. Nid rhaid iddynt ond agor eu llygaid na bydd eu gwaith mewn pob amrywiaeth yn eu golwg. A gwyddys yn dda eu bod yn gampus am gynllunio, ac mor gampus a hyny am weithio eu cynlluniau allan. Esgusoded ein chwiorydd ein hyfdra hwn arnynt. Nid ydym mewn un modd am iddynt wneyd mwy na'u rhan. Nid ydym am iddynt fod yn ben, ac nid boddlawn ydym chwaith iddynt fod yn gynffon—esgusoder gair mor isel—ond

yr ydym am iddynt fod YN GALON i bob gwaith da. Nid yw y gwaith mawr sydd gan Grist ar y ddaear yn caniatau iddynt fod yn dystion distaw a llonydd. Am hyny bydded i bob chwaer, o ba sefyllfa bynag, ofyn i'w Harglwydd, "Pa beth a fyni di i mi ei wneuthur?" Mae gan grefydd Crist, cofier eto, waith i bawb.

Gorphenaf, 1871.

---

## Y DRYDEDD YSGRIF.

Gwaith i bawb! Dyna oedd genym yn ein hysgrif flaenorol, a dyma sydd genym eto. Y dosbarth y dymunem alw sylw ato yn bresenol yw y llu mawr iawn o bobl ieuainc sydd yn yr eglwysi. Ceir yn eu plith lawer math o gymeriadau, rhai yn fwy a rhai yn llai crefyddol, ac felly rhai yn fwy a rhai yn llai gobeithiol. Dyna luaws ohonynt yn y deufor-gyfarfod—y cyfwng mwyaf peryglus ac anhawdd, rhwng y bachgen a'r dyn; ac nid ychydig ohonynt a geir hefyd yn gymeriadau poenus amheus, fel ar groesffordd, nas gwyddys yn iawn i ba gyfeiriad y tröant. Mae bron yr oll o'r aelodau ieuainc hyn yn "hâd yr eglwys," ac wedi eu dwyn i fyny yn yr eglwys o'u mebyd. Ac wedi iddynt gyrhaedd rhyw oedran, yna rhaid yw eu derbyn i "gyflawn aelodaeth." Ac yna, ysywaeth, yn rhy aml, dyna y cwbl drosodd gyda hwy!

Goddefer i ni sylwi "wrth basio" mai wrth dderbyn plant yr eglwys i gyflawn aelodaeth y cyfarfyddir, ni a dybiwn, âg un o'r pethau mwyaf anhawdd o fewn cylch gorchwylion eglwysig. Tybier fod cynifer o fechgyn a lodesi wedi dyfod i'r oedran priodol i'w derbyn, ond heb yr oll ohonynt yr un mor gymwys. Os derbynir rhai, a gadael ereill o'r neilldu, dyna blant a rhieni yn cymeryd achlysur i dramgwyddo. Ac felly, er gochel tramgwydd, ni bydd dim i'w wneyd ond derbyn yr oll, gan obeithio'r goreu. Ac fel hyn mae yn beryglus i oedran ddyfod yn fwy o safon i aelodaeth eglwysig hâd yr eglwys na chymhwysderau ereill mwy angenrheidiol. Byddai yn ddymunol pe gellid cael gwybod pa fodd y mae gwahanol eglwysi yn dyfod trwy yr anhawsder hwn. Yr ydym yn credu fod yr hyn sydd yn rhoddi hawl i rieni i ddwyn eu plant i fyny yn yr eglwys, yn gwestiwn sydd hyd yma heb gael yn agos ddigon o sylw a thrafodaeth yn y Cyfundeb. Mae iddo ei ochr dywyll yn gystal a'i ochr oleu. Tra yr ydym ni yn barod i ymffrostio yn hyn fel ein rhagoriaeth, mŷn ereill, sydd yn edrych arnom oddidraw, mai hyn yw ein gwendid, ac mai hyn hefyd fydd ein dinystr. Anturiwn ddywedyd mai yr hyn sydd fwyaf bygythiol i grefyddolrwydd yr eglwysi yn y dyfodol yw gwaith rhieni yn

magu eu plant yn yr eglwys heb yr ymgais briodol i'w magu yn grefyddol. Nid oes dim i'w ddisgwyl o beth felly ond dirywiad. Os bydd rhieni yn boddloni ar grefydd làc eu hunain, boddlonant hefyd ar beth cyffelyb i'w plant. Ac os ydyw y llacrwydd hwn o hyd i gynyddu, ac o hyd i gael ei gefnogi gan ddisgyblaeth làc, yna, atolwg, pa beth fydd y diwedd? Yr Arglwydd Iôr a gymero drugaredd arnom!

Mae yn briodol i bawb sydd yn teimlo rhywbeth yn llwyddiant dyfodol ein Cyfundeb, deimlo hefyd yn bryderus yn herwydd ein pobl ieuainc, gan mai y peth fydd eu dyfodol hwy a fydd dyfodol Methodistiaeth. Ai teimladau cymylog henaint sydd yn peri i ni betruso nad yw y dyfodol hwnw, os ydyw i'w farnu wrth y presenol, mor addawol ag y buasai ddymunol? Mae yn wybyddus y gall crefydd Cyfundeb waethygu llawer mewn adeg mor fèr ag un oes. Ein gweddi ar Dduw fyddo, am iddo "dywallt ei Yspryd ar ein hâd, a'i fendith ar ein hiliogaeth," ac onidê aiff yr Eglwys Fethodistaidd, fel eglwysi ereill o'i blaen, ar ei hochr i rywle! Yr ydym yn ymdroi fel hyn, er ceisio dangos nad yw y lluaws pobl ieuainc sydd yn yr eglwysi mewn un modd i wneyd yn ysgafn ohonynt. Mae ein rhwymedigaeth i Dduw, i'r oes hon, ac i'r oes a ddêl, yn galw arnom i gymeryd eu hachos i'n hystyriaeth gyda phob difrifwch.

Ar un olwg, yr ydys yn arfer talu cryn lawer o sylw i'n "pobl ieuainc"—yn eu dysgu a'u rhybuddio—yn eu beio a'u dwrdio—gan eu gorchymyn o hyd i beidio â hyn a gochel y llall. Rhoddir pwys mawr gan ddysgawdwyr y genedl ar iddynt gael eu dwyn yn mlaen mewn gwybodaeth a barn; a rhaid i bawb gydnabod y priodoldeb o hyny. Ond, ai nid doeth a fyddai hefyd, yn nghyda hyny, amcanu at roddi mwy o ryw waith iddynt? Yn nghyda phwnio gwybodaeth i'w penau, rhodder hefyd ryw arfau gweithio yn eu dwylaw. Mae dyn ieuanc yn naturiol yn llawn ysfa am gael gwneyd rhywbeth. Ei gadw yn llonydd nis gellir. Ys dywedai y diweddar Morris Jones, Jerusalem, "Mae mêr ei esgyrn fel arian byw; os bydd yn llonydd, sicr yw ei fod yn sâl." Ac oni ellir ei gyfeirio at yr hyn sydd dda, bydd i'w elyn ei gyfeirio at yr hyn sydd ddrwg. Ei gadw ar y *shelf*, yn unig yn beth i edrych arno, sydd annichon. Ac nid da iawn y mae'r ieuanc yn dygymod â bod o hyd dan y ffrewyll; wrth arfer cael ei feio a'i ddwrdio, tuedda hyny i'w benglogi. Yr ymarferol o hyd gyda phobpeth sydd rywfodd yn myned ar goll genym. Dywedyd yr ydym fod y lluaws pobl ieuainc yn yr eglwysi yn allu, ac yn allu grymus i wneyd rhywbeth; ac nid diberygl iddynt hwy, na chwaith i'r eglwysi, yw gadael y fath allu yn rhy segur. Ac eto

mae yma anhawsder ag y mae pawb sydd yn ymwneyd rhywbeth â'r ieuanc yn rhwym o'i deimlo. Fel rhyw elfen mewn natur, mae y naturiaethwr yn deall ei bodolaeth a'i nerth, ond hyd yma heb ddeall pa fodd i'w ffrwyno a'i darostwng i ufudd-dod. Felly yma: y mae arweinwyr yr eglwysi yn deall fod yr elfen ieuanc hon yn allu; ond cwestiwn arall, ac un pur anhawdd yw, pa fodd i ddal yr elfen wyllt hon a'i dwyn i ymarferiad.

Mae yn gŵyn gyffredinol trwy'r eglwysi fod yn anhawdd iawn cael gan y bobl ieuainc i wneyd dim yn gyhoeddus gyda'r gwaith, megys cymeryd rhan yn y cyfarfodydd gweddïau, ac yn mlaen. Mae i hyn hefyd ei wêdd ddifrifol. Os na cheir diwygiad, ofnir y bydd raid gwneyd yn fuan heb gyfarfod i weddïo, gan na bydd neb i ymaflyd yn ei ranau cyhoeddus. Mae y cylch eisoes mewn llawer eglwys wedi myned yn boenus o fychan. Dylem ystyried y byddai colli y cyfarfod i weddïo o gylch ein gwasanaeth crefyddol yr un peth yn y diwedd a cholli Duw. Rhaid i ni ofni fod yr achos o'r anmharodrwydd hwn i weddïo yn gyhoeddus yn fwy o'r golwg; nid oes ond ychydig o'n haelodau ieuainc wedi eu harfer i gymeryd rhan yn yr addoliad teuluaidd. A gwaeth eto: mae yn ofnus fod y lluaws o'r rhieni sydd yn proffesu eu hunain yn grefyddol heb gymaint a ffurf o addoliad i Dduw yn eu tai! Ac os felly, nis gellir disgwyl i'r rhai ieuainc, mwy nag ereill sydd heb arfer gweddïo yn deuluaidd, wneyd hyny yn gyhoeddus. Un feddyginiaeth ymarferol i'r diffyg hwn y cŵynir cymaint o'i herwydd, fyddai gallu llwyddo i gael gan y cyfeillion ieuainc hyn gydymgynull i gydweddïo eu hunain. Byddai iddynt felly gael mantais mewn cylch bychan i "arfer eu dawn," ys dywedir, achos gŵyr pawb fod dawn gweddïo yn gyhoeddus, fel pob dawn arall, yn rhwyddhau wrth ei harfer; a derbynient hefyd lesâd dirfawr i'w heneidiau, a chryfder i'w cymeriad crefyddol. Gwnaed prawf o hyn gan bobl ieuainc rhai eglwysi, ac y mae hyny eisoes yn dwyn ei ffrwyth gwerthfawr.

Ac os nad ellir cael y cyfeillion ieuainc hyn i ymgymeryd â rhan mor uchel o'r gwasanaeth crefyddol â gweddïo yn gyhoeddus, ai tybed nad oes rhyw wasanaeth arall, sydd ar hyn o bryd yn fwy cydnaws â'u teimladau, y byddai yn dda iddynt, ac yn dda ganddynt, gael eu cyfeirio ato? Nid yw y meistr byth yn gosod ar ei brentis sydd eto yn newyddian i wneyd y campwaith, ond yn tori rhyw waith iddo sydd agosach i'w allu a'i fedr. Felly yma: tôrer i'r bobl ieuainc ddigon o ryw waith ag y byddo ganddynt amcan ato a blâs arno. Ac felly dyger hwy yn mlaen o radd i radd; a chyn hir, gyda bendith y Goruchaf, ceir hwy yn ddigon ymroddgar i wneyd yr hyn y maent yn bresenol yn arswydo

rhagddo. Ar bob cyfrif na adawer hwy yn segur. Gwybydder fod llygaid y temtiwr arnynt hwy, druain, yn fwy na neb. Os gellir mewn modd yn y byd eu dwyn dan gyfrifoldeb gwaith, yna fe brofa hyny yn fesur helaeth o ddisgyblaeth arnynt. Bendith werthfawr i eglwys yw fod ynddi frawd neu frodyr yn meddu y ddawn i ddenu pobl ieuainc. Oes, y mae dawn neillduol at hyn, ac nid yw y ddawn hono gan bawb. Mae y diafol, yntau, yn deall hyn, ac mae yn gwneyd defnydd hael ohoni. Nis gwyddom am yr un ddawn a chwenychem yn fwy, os nad y ddawn i fwrw allan gythreuliaid. Ond gwyddom trwy brofiad mai peth anhawdd, os nad anmhosibl, yw ei chrëu lle nad ydyw. Pa beth yw y ddawn hon nis gallwn ddyweyd, heblaw ei bod fel y *magnet* mewn natur, yn rhyw allu atdyniadol, sydd yn swyno'r ieuanc ati, gan ennill ei serch a'i ymddiried. Yn sicr mae i'r ddawn hon ei mawrwaith; a dylai y neb sydd yn ei meddu gael pob cefnogaeth i'w defnyddio er adeiladaeth.

Dywedwn eto fod y bobl ieuainc yn yr eglwysi "yn allu" i wneyd llawer iawn o dda neu ddrwg, yn ol y cyfeiriad a gymerant. Dichon, wedi yr holl gŵyno yn eu cylch, nad ydyw mor anhawdd gwneyd y defnydd da ohonynt, ond cymeryd ffordd ddoeth at hyny. Byddai yn dda i'r hên wrth ymwneyd â'r ieuainc, alw i gôf pa fodd y byddent yn synio ac yn teimlo pan yn ieuainc eu hunain. Os ydyw yr hên wedi myned yn rhy hên i hyny, mae wedi myned, dybygem, yn rhy hên i bobpeth ond i gadw noswyl. Mae wedi digwydd aml i dro fod y rhai ieuainc yn llawn awydd i ryw ysgogiad newydd; ac er nad oedd yn hyny ddim yn beryglus, eto yr hên, yn fwy oddiar deimladau henaint na barn bwyllog, yn ei lethu, a thrwy hyny yn achlysuro gwrthdarawiad poenus mewn eglwys rhwng yr hên a'r ieuanc. Unwaith meddyliodd y bobl ieuainc am gael cyfarfod canu, er cynorthwyo rhyw amcan daionus, ond ni fynai yr hên frodyr son am y fath beth; yr oedd yr enw *concert* yn eu dychrynu; mynent hwy i bobpeth sefyll neu syrthio ar ei deilyngdod ei hun. Un tro, dymunai nifer o bobl ieuainc gael codi Ysgol Sul mewn cŵr esgeulusedig o'r ardal, ond mynai y rhai oedd yn arwain y gwnai hyny waethygu ysgol y capel, a bod hwnw yn ddigon agos i bawb. Tybiodd pobl ieuainc un gynulleidfa y byddai yn dda iddynt gael mwy o bregethu, a'u bod hefyd am gyfarfod y draul o hyny â'u haelioni eu hunain; ond mynai y rhai oedd yn blaenori fod hyny yn ymyriad rhy hŷf â'u gwaith hwy. Nid ydym, wrth ddywedyd hyn, mewn un modd yn awgrymu y gweddai i'r swyddogion ollwng dim o'r awdurdod sydd briodol iddynt o'u dwylaw, ond dylent bob amser fod yn wyliadwrus i arfer yr awdurdod hono mewn doethineb a mwyn-

eidd-dra. Mae rhyw ffordd i drin pawb ond cael gafael arni, oddieithr yr hwn a fo wedi ei feddiannu gan ddiafol, a'r ffordd gydag un felly, dywedai yr Apostol, wedi un ac ail rybudd, yw "ei ochel."

Tro hardd anghyffredin yn ddiweddar fu gwaith brawd a fu yn hir yn arwain y canu mewn cynulleidfa, yn rhoddi ei le i ddau ŵr ieuanc, a hyny nid yn gymaint am ei fod wedi blino ar ei waith, nac ychwaith yn anghymwys iddo, ond o wir awydd tynu y rhai ieuainc yn mlaen, gan addaw ar unwaith bod yn help iddynt. Campus, onide! Mewn un man, pan ddewiswyd dyn canol oed i arolygu yr Ysgol Sabbothol, dywedai nad ymaflai yn y gwaith heb gael un o'r brodyr ieuainc i'w gynorthwyo. Llawer o ryw bethau cyffelyb yn y naill ffordd a'r llall yw yr hyn yr ydym yn anog iddo. Rhodder pob gwaith i'r dyn ieuanc ag y galler ei gael ato, ac y bydd hefyd yn meddu mesur o gymhwysder iddo. Os rhaid i rywrai fod yn ddiwaith mewn eglwys, hyd y galler na oddefer i'r ieuainc fod felly. Ond nid rhaid i neb; y mae gan bob eglwys ei digonedd o "waith i bawb." Cawsom ein boddhau yn anghyffredin lawer tro ar achlysur o Gyfarfod Misol, neu gynulliad pwysig arall, wrth weled pobl ieuainc wedi eu gosod wrth y gwaith o "*dendio*," a'u gweled, meddwn, yn feibion a merched wrth eu gwaith mor fywiog a gwisgi—mor ewyllysgar a siriol—pob un fel yn ymorchestu i ragori; byddem yn barod i ddywedyd, a'r dagrau yn llon'd ein llygaid, Gwŷn fyd na chai y pethau ieuainc hawddgar ac anwyl hyn eu gwala o waith! Ar adeg felly, bydd ein gobaith am y dyfodol yn sirioli—yn cymeryd ail feddwl, ac yn dyweyd, Ho! y mae Methodistiaeth am fynu byw eto, o leiaf am un oes!

Dywedwn eto, rhodder ar ysgwyddau y cyfeillion ieuainc hyn gymaint o bwysau gwaith fel ag y teimlont oddiwrtho. Hyd y gellir gwneler pob defnydd da ohonynt—gwneler athrawon ac athrawesau ohonynt—gwneler casglyddion, trysoryddion, ac ysgrifenyddion ohonynt—gwneler negesyddion a chymwynasyddion ohonynt—ac os ceir mesur o gymwysder, gwneler blaenoriaid ohonynt. Pe gellid llwyddo fel hyn, trwy y naill foddion a'r llall, i gael dyn ieuanc i ymdeimlo â'i rwymedigaeth grefyddol, a bod ganddo yntau hefyd ryw oruchwyliaeth fechan i fod yn gyfrifol am dani, yna dyna un amcan bendigedig wedi cael ei ateb iddo. Bellach mae yntau yn ystyriol fod ganddo ei gyfran—ei *share* yn y *concern*—a bod y llwyddiant neu'r aflwyddiant yn dyfod yn rhywbeth personol iddo ef ei hun.

Wrth fyned o amgylch ogylch y dyffryn hwn o bobl ieuainc, ac edrych arnynt o wahanol gyfeiriadau, dichon, wedi'r cwbl, nad yw

yr olwg arnynt mor anobeithiol ag y mae rhai ohonom sydd yn heneiddio yn rhy barod i ofni. Os gwir fod nifer ohonynt yn benrhydd ac afreolus, ac os rhaid eu claddu yn meddau'r blŷs, atolwg, na rodder llawer o bridd arnynt, oherwydd y mae'r Gallu Dwyfol i agoryd beddau a bywhau y meirw eto heb adael Cymru! O drugaredd yr Arglwydd, y mae lluaws o'n pobl ieuainc, a dyweyd y lleiaf, yn *obeithiol.* Y maent yn naturiol yn llawn o'r llon ac am y llawen, fel y mae'r hên yntau yn rhy dueddol i'r lleddf a'r prudd. Ond beier a fyner, byddai cynulliad crefyddol heb bobl ieuainc yn ymddangosiad truenus o ddŵl. Gallwn hyderu oddiar seiliau da fod yna *under current* o ddwysder yn rhedeg trwy eu teimladau o dan y llonder sydd o hyd yn gymaint profedigaeth iddynt; ac wrth fyned rhagddynt yn eu gyrfa ddaearol, y bydd i wahanol dreialon bywyd, ac adegau o adfyd, fod yn fendithiol i gynyddu y dwysder, a dwyn eu calonau dan deyrnasiad grâs. Felly y bu; a phaham nad allwn obeithio nad felly y bydd? Mae yn digwydd yn barhaus fod yr hyn oedd unwaith yn anweledig o fychan, yn cynyddu yn raddol, ac yn myned yn bren mawr. Dywedwn eto: gwneler pob defnydd da o'r bobl ieuainc, canys ohonynt y cyfodir tadau a mamau ac enwogion i Fethodistiaeth; yn hytrach i eglwys Crist yn yr oesoedd a ddaw!

Medi, 1871.

---

## Y BEDWAREDD YSGRIF.

Y mae yn digwydd yn aml fod cenedl yn byw yn dlawd mewn gwlad gyfoethog o adnoddau, a hyny o ddiffyg deall, medr ac yni, i wneyd y defnydd goreu ohonynt. Mae peth rhy debyg i hyn yn wir hefyd am eglwysi. Oherwydd rhyw ddiffyg neu gilydd, mae cyfoeth gwerthfawr o adnoddau i wasanaethu achos y Gwaredwr yn cael ei adael rhywfodd i orwedd yn rhy lonydd. Gorchwyl hawdd i lawer eglwys a fyddai dyblu a threblu eu llafurwaith yn mhob cyfeiriad, a hyny heb i neb ymorchestu rhyw lawer pe gellid rhywfodd eu deffro at eu gwaith. A gresyn nad ellid hyny mewn adeg sydd yn galw am i bob gewyn yn yr eglwys fod ar ei lawn egni. Gresyn eto fod yn rhaid i'r Iesu bendigedig fod mor anghenus yn ei achos, tra mae cyflawnder o bobpeth i'w diwallu yn gorwedd yn llonydd yn ei eglwys!

O ddaionus ras Duw, mae yn perthyn i bob eglwys, ni a hyderwn, nifer o frodyr wedi eu *sadio* gan ddifrifwch y gwirionedd—wedi pasio gwagedd ieuenctyd, ac heb eu dal gan balldod henaint—dynion o gymeriad cyson a da—wedi ymbriodi âg achos

eu Gwaredwr, ac yn ei gyflawn ddilyn. Y brodyr hyn yw nerth a grym yr eglwysi; dyma y colofnau—y rhwymau cymdeithas sydd yn cadw eglwys wrth eu gilydd. Ac eto mae y cyfoeth hwn o adnoddau yn cael ei adael i orwedd yn rhy lonydd a diwaith, ac yn arbenig felly mewn eglwysi lluosog. Mae yn wir y ceir y brodyr hyn, ar y cyfan, yn gyson a ffyddlawn yn y cylch cyfyng y maent hwy wedi arfer troi ynddo. Ac eto mae llawer ohonynt yn ystyriol y dylent wneyd rhagor, er nas gwyddant yn iawn pa beth yn rhagor i'w wneyd. Mae teimlad o ledneisrwydd, neu rywbeth, yn eu cadw o fewn yr hyn a dybiant hwy sydd yn "derfynau gosodedig" iddynt. Ac os digwydd i ryw frawd yn ei sêl dori allan o'r cylch, odid nad dyna ben am dano, gan fel bydd y teimlad o eiddigedd yn enyn i'w erbyn. Er nad oes terfynau i weithgarwch crefyddol wedi eu gosod gan na *Chyffes Ffydd* na Chymdeithasfa, eto mae y cyfryw derfynau i'w cael, wedi eu sefydlu yn gadarn yn nheimlad y frawdoliaeth; ac mae brodyr, a chwiorydd hefyd, o duedd ochelgar ac o deimlad llednais, yn arswydo rhag eu troseddu, rhag iddynt trwy hyny golli teimlad da y frawdoliaeth tuagatynt. Yr ydym yn crybwyll hyn am y credwn fod rhywbeth o'r natur yma yn cyfyngu ac yn gwanychu gormod ar weithgarwch y brodyr da sydd genym dan sylw.

Fod y dosbarth hwn o frodyr yn cael eu gadael yn llonydd a diwaith sydd eglur oddiwrth y prawf a geir pan elwir rhai ohonynt i flaenori. Os bydd eglwys yn iach o ran ei hyspryd, i blith y brodyr hyn yr eir i chwilio am flaenoriaid. Ac nid gorchwyl hawdd, bob amser, fydd ethol un neu ragor, gan fod cynifer ohonynt mor ogyhyd â'u gilydd. Ond, er esiampl, dyna un brawd wedi ei ddal. Yr oedd y brawd hwn o'r blaen, wrth gwrs, yn ddyn crefyddol a chyson, fel y rhai adawyd ar ol; ac yr oedd hefyd yn ddyn diymwthio yn mlaen, ac onidê, ar ol y mae yn debyg y buasai yntau. Wedi ei alw i swydd, mae ei holl enaid yn deffro; mae yn teimlo i'r byw ei gyfrifoldeb, yn meddwl mwy, yn gweddïo mwy, ac yn mhob modd yn fwy ymroddgar. Fel canlyniad naturiol, mae y defnyddiau daioni oedd yn y dyn yna o'r blaen, fel yn gorwedd yn llonydd ac i fesur yn guddiedig, yn tori allan ac yn llewyrchu; ac yn raddol, wele efe yn dyfod yn brif ddyn yr eglwys a'r ardal. Pa eglwys yn y Cyfundeb na chaed y prawf o hyny ynddi? Pa beth, atolwg, a barodd y fath gyfnewidiad? Dim ond fod galw dyn i swydd yn deffro dyn at ei waith. Wrth weled peth fel hyn, pwy na ddywedai, Gwŷn fyd na byddai yn bosibl gwneyd yr holl frodyr sanctaidd, bob gopa walltog ohonynt, yn flaenoriaid! yna ni byddai dim gwaith a safai o'u blaen. Ond pa beth a ddaeth o'r holl frodyr a adawyd ar ol?

Maent wedi eu gadael i droi yn eu cylch distaw a llonydd, hyd oni byddo eisieu cynhyrfu y dwfr drachefn i ddal un neu ragor ohonynt i'w gosod mewn swydd; ac odid erbyn hyny na bydd rhai dynion da wedi eu gadael yn llonydd nes myned yn rhy hên. Dyma brawf clir fod adnoddau gwerthfawr o allu i wasanaethu Crist yn cael eu gadael yn yr eglwysi i orwedd yn rhy lonydd a diwaith.

Y cwestiwn pwysig iawn, gan hyny, ydyw, ac un teilwng o bob ystyriaeth, a oes dim y gellir ei wneyd er deffro y rhai hyny mewn eglwys y mae deffro arnynt, i gymeryd mwy o ddyddordeb yn llwyddiant yr achos yn ein plith? "Y mae deffro arnynt?" meddwch. Ië, onid ydym i ofni fod rhai i'w cael yn mhob eglwys nad oes deffro i fod arnynt gan ddim ond gan y "waedd haner nos?" A gadael heibio annuwiolion yn yr eglwysi, a throi at "y rhai byw yn Sion," mae rhai o'r rhai hyny yn llawer rhy gysglyd a disêl; ac eto o'r rhai hyn y gellir gobeithio cael eglwys weithgar. Ond pa fodd i "gyffroi eu meddwl puraidd," ar adeg y mae difrawder ysprydol, fel niwl barug, wedi ymdaenu dros fyd ac eglwys, sydd gwestiwn anhawdd; hawdd ei ofyn, ond nid mor hawdd ei ateb. Hawdd dyweyd, ond nid mor hawdd cael y gwneyd i'r golwg. Bid a fo, cymerwn ein cenad i daflu eto rai awgrymiadau yn y cyfeiriad yna.

A oes dim y gellir ei wneyd mewn ffordd ddoeth er lleihau rhyw gymaint ar y pellder gormodol sydd wedi cynyddu rywfodd yn yr eglwysi rhwng swydd a diswydd, os priodol y dyweyd? Pellder ydyw a gynyddodd yn raddol, heb fod neb yn gyfrifol am dano, ond pellder sydd yn gwanhau dyddordeb dosbarth teilwng o frodyr yn yr eglwys am ei llwyddiant. Nid ydym am leihau dim ar yr awdurdod a'r dylanwad sydd briodol i swyddogaeth eglwysig; dinystrio a fyddai hyny, ac nid adeiladu. Nid darostwng y swydd sydd yn ein golwg, ond dyrchafu teimlad y diswyddog, oherwydd yn y teimlad y mae'r pellder. Nid am lefelu i waered yr ydym, ys dywedai rhywun ar ddadl Eglwys yr Iwerddon, ond lefelu i fyny. Y peth mewn cwestiwn clir ydyw, a oes rhywbeth y gellir ei wneyd er deffro brodyr teilwng yn yr eglwys i deimlo mor selog yn ei llwyddiant a phe gelwid hwy i fod yn swyddogion? Nid awn i geisio ateb y gofyniad uchod; eto credwn y gallai swyddogion doeth a meddylgar wneyd llawer yn mhob rhyw fodd er tynu eu brodyr yn nês atynt, a thrwy hyny gael mwy o'u cydymdeimlad a'u help. Dymunem yn ostyngedig awgrymu hyn i'w hystyriaeth.

Gan ein bod yn sôn am swydd, os swydd ydyw gosod gofal a chyfrifoldeb rhyw wasanaeth crefyddol ar ddyn, yna onid da fyddai crëu cymaint o bob rhyw swyddau mewn eglwys ag a aller

gael o frodyr, a chwiorydd hefyd, i ymgymeryd â hwy? A ydyw hyn yn ymddangos i rywrai yn beth rhy wyllt ac anymarferol? Gwyddom am un hên weinidog Annibynol unwaith yn cymeryd mewn llaw eglwys oedd wedi dyrysu, pryd y gosododd bob aelod o'r bron mewn rhyw swydd neu gilydd, ac y rhybuddiodd bob un i ofalu am ei waith ei hun, am o leiaf un deuddeng mis. A thra yr oedd ei gymydogion Methodistaidd yn gwneyd yn bur ysgafn o'r tro, fe lwyddodd yr hên weinidog i wneyd Eglwys Weithgar mewn gwirionedd, a hyny o *chäos* o annhrefn! Mae y ffaith yn werth sylw. Mae rhyw ffordd, ond taro arni, i drin pawb y mae trin arnynt. Os nad doeth myned mor bell a'r hên ŵr da uchod, nid doeth na diberygl ychwaith yw gadael lluaws yr eglwys i geisio boddloni ar ddyfod yn nghyd o gyfarfod i gyfarfod, heb wneyd dim ond gwrando yn ddistaw, a chyfranu ychydig o'u harian pan y gelwir am hyny. Onid ar y gwastadedd unffurf a thrymaidd yna y mae gormod o'n heglwysi yn gwersyllu, heb gynyrchu ond ychydig o ffrwyth, mewn cymhariaeth i'r hyn y mae gan eu Harglwydd hawl i'w ddisgwyl oddiwrthynt? A pha ryfedd os bydd i gŵn Annwn gael eu gollwng yn rhydd arnynt, rhag iddynt yn eu llonyddwch geulo ar eu sorod?

Tra y mae yn angenrheidiol parchu y rheolau sydd yn ofynol er iawn drefn cymdeithas grefyddol, fel na byddo i'r naill fyned ar draws y llall hyd y gellir, eto da fyddai caniatau llawer ffordd—llawer o rydd-weithrediad, i rai a fo yn teimlo'n selog gyda'r naill beth neu y llall mewn eglwys. Brawd neu chwaer selog gyda chrefydd: chware têg iddynt! maent yn llawer rhy brin, ac nis gellir ar adeg fel hon fforddio bod hebddynt. Os digwydd iddynt weithiau yn eu sêl saethu hwnt i'r marc, neu ro'i tri ar ddeg yn y dwsin, mae hyny yn llawer mwy esgusodol na chlaearineb y rhai difraw. Dywedir fod gan yr Hybarch Robert Jones, Rhoslan, ei chwedl ar hyn hefyd fel ar bobpeth. Dywedai, "Mae'r gwartheg yn yr ŷd! Wel, dywedai un gwas, 'Nid gofalu am y gwartheg yw fy ngwaith i;' a dywedai un arall, 'Nid cadw yr ŷd yw fy ngwaith inau.' Ond dywedai bachgen yno, 'Gwaith pwy bynag, ni chaiff y gwartheg bori ŷd fy nhad!' ac ymaith ag ef i'w troi allan." Dyna'r peth: os bydd rhywrai yn eu sêl am redeg i wneyd yr hyn sydd yn cael ei esgeuluso gan ereill, na wahardder iddynt. Mae wedi digwydd yn aml, os bydd rhywrai mewn eglwys yn teimlo yn selog iawn, y bydd rhywrai ereill yn tybied mai eu gwaith hwy yw cadw rhai felly danodd. Mae yn aswy o beth os bydd neb mewn eglwys yn chwareu'r cî yn y rhesel; ni fynant wneyd y gwaith eu hunain, ac nis goddefant hyny i neb arall. Dywedwn eto, chwareu têg i rai selog!

Yr ydym yn tybied fod lluaws o eglwysi yn ceisio gwneyd ar rhy ychydig o flaenoriaid. Mae yn digwydd yn fynych fod eglwys luosog heb ond tri neu bedwar i'w blaenori; ac nid pob un o'r ychydig yna, oherwydd henaint neu rywbeth fo gwaeth, sydd mewn *order* gymwys i'w gwaith. Ond paham y rhaid i ddau neu dri feichio eu hunain â gofalon eglwysig, tra y mae yn yr eglwys frodyr ereill a allai ddwyn eu rhan o'r baich ond gosod hyny arnynt, a gwneyd cystal blaenoriaid a neb, ond eu galw i hyny? Os dywedir nad oes neb i'w cael, rhaid fod eglwys felly yn druenus o dlawd, neu mae dywedyd hyny yn sarhâd ar y frawdoliaeth. Ac os na bydd brodyr i'w cael, ai nid gwell fyddai edrych i blith y chwiorydd, a gwneyd diaconesau ohonynt hwy? Onid oes mwy o sail Ysgrythyrol i hyny na llawer peth yn ein plith? Onid gwell i'r gwaith gael ei wneyd gan rywun na'i fod heb ei wneyd oll? Os dywedir fod yn haws i'r ychydig gytuno â'u gilydd na'r llawer, onid yw dyweyd felly yn sawru mwy o yspryd ymawdurdodi nag o yspryd addfwyn golygu ac arwain? Mae yn bosibl i eglwys gael dirfawr gam oherwydd na byddai ei swyddogaeth yn fwy grymus.

Nid ydym, mewn un modd, am i eglwys luosogi ei swyddogion yn unig i edrych ar eu gilydd, nac ychwaith i edrych ar ol eu gilydd. Pe felly, goreu po leiaf fyddo eu rhif. Tybiwn fod rhyw wers i ni i'w dysgu gyda'n trefniadau eglwysig oddiwrth drefn swyddogol llywodraeth wladol. Mae yno luaws o swyddogion, ac i bob un ei swyddfa—ei waith penodol i ofalu am dano, a'r oll yn cyfansoddi un weinyddiaeth—yn eistedd mewn cyngor i ystyried pa fodd oreu i'r naill a'r llall weithredu. Peth felly a olygwn, fod i'r swyddogion yn eu plith eu hunain ranu y gwaith, ac felly bydd gan bob un ryw gyfran benodol i ofalu am dani, ac eto yr oll gyda'u gilydd yn cydymgynghori, gan gydolygu pa fodd oreu i weithredu. Trwy hyn byddai gan y naill a'r llall rywbeth neillduol i fod yn fwy cyfrifol am dano—gwnaent eu gwaith yn fwy hylaw—byddai y swyddogaeth yn fwy effeithiol, a cheid ymwared o'r hên gŵyn, "Yr hyn sydd yn waith i bawb nid yw yn waith i neb." Os gallai hyn fod yn welliant ar yr hen drefn *rywfodd, rywsut, rywlun*, sydd wedi bod cyhyd yn teyrnasu, paham nad ellid ei gael? Pa beth sydd yma yn anhawdd? A phaham, atolwg, y rhaid i swyddogaeth eglwysig fod yn fwy didrefn, dilûn, a diamcan na'r un gorfforiaeth ar y ddaear?

Mae yn ddïau na fethem wrth sylwi, mai ofer disgwyl am Eglwys Weithgar oni bydd y swyddogion ar y blaen gyda gweithgarwch, ac yn arbenig felly y blaenoriaid, am mai iddynt hwy yn benaf y mae llywodraethiad achosion eglwysig wedi ei ymddiried.

Teimlwn yn wylaidd hefyd wrth eu crybwyll ar hynyma, am y credwn fod y lluaws o'r brodyr hyn yn rhai rhagorol y cyfundeb, yn weithwyr difefl, yn cymeryd llawer o boen er mwyn enw yr Arglwydd Iesu, ac heb ddiffygio, er cyfarfod â llawer o wahanol dywydd a threialon wrth weini gyda'i achos, a hyny hefyd "heb na thâl na diolch," gan yr eglwysi a wasanaethant, ond yn hytrach fel arall, eu barnu a'u beio ar bob achlysur; ond "MAWR fydd eu gwobr yn y Nefoedd." Un camgymeriad y mae blaenoriaid da yn rhy dueddol iddo, yw gweithio eu hunain, a gadael ereill yn edrychwyr rhy segur. Y mae i hyn ei ffrwyth niweidiol; canys oni ba'i am segurdod y rhai segur, ni byddai gan y swyddogion gynifer i'w gwylio a'u beio ar bob achlysur. Pe gellid rhoddi yr edrychwyr segur hyn dan ryw gyfrifoldeb gwaith, yna, oni byddai diafol ynddynt, hwy a deimlent rywbeth oddiwrth eu diffygion eu hunain. Er y disgwylir i'r swyddogion fod ar y blaen mewn gweithgarwch, eto eu prif orchwyl hwy, fel goruchwylwyr Duw, yw hwylio ereill i weithio; ac, fel y gwyddant trwy brofiad, dyma eu gwaith anhawdd; gwaith sydd yn galw am fesur helaeth o ddoethineb a mwyneidd-dra. Ond mae hyn yn gysur iddynt: "Os bydd ar neb eisieu doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoddi yn haelionus i bawb." A diau nad yw y Duw hael yn barotach i roddi doethineb i neb nag i'w was ffyddlawn sydd yn ceisio hyny tuagat allu ymddwyn yn briodol yn ei dŷ.

Esgusoder ni os ydym yn arfer gormod o hyfdra wrth geisio galw sylw at yr hyn a dybir genym a fyddai yn ben y ffordd i gael Eglwys Weithgar. Tybiwn fod swyddogion unrhyw eglwys yn cydymgynghori â'u gilydd, ac yn nifrifwch yspryd grâs a gweddi yn trafod y cwestiwn pwysig, pa beth a allant ei wneyd yn rhagor nac a wneir ganddynt, er deffro yr eglwys dan eu gofal i gymeryd mwy o ddyddordeb yn llwyddiant yr achos yn eu plith, gan gydymholi, a ydyw yr eglwys yn peidio cael cam oherwydd rhyw ddiffygion yn y swyddogaeth? ai nid doeth fyddai cael ychwanegiad er ei gwneyd yn fwy grymus? Dyna nifer o frodyr o gymeriad clir a barn addfed,—ai nid da fyddai cael mwy o'u help yn y cyfarfodydd eglwysig, ac hefyd er "bwrw golwg," rhag na byddo y tlawd a'r afiach a'r neb sydd yn pallu, yn cael eu hesgeuluso? A oes dim y galler ei wneyd er cael dylanwad y chwiorydd i'w deimlo yn fwy grymus gyda'r achos yn y naill ffordd neu y llall? Pa beth a ellir ei wneyd gyda'r bobl ieuainc er eu tynu allan i fwy o weithgarwch? A ydyw y plant yn cael y sylw a ddylent, ac a oes rhywbeth i'w wneyd yn rhagor yn y cyfeiriad yna? Pa beth a ellir ei wneyd er cael gafael ar y rhai sydd wedi myned ar ddisberod? A oes rhywbeth yn rhagor i'w wneuthur er cael y

cyfarfod eglwysig, a'r un modd yr Ysgol Sabbothol, yn fwy effeithiol i'w hamcanion? Pe ceid y rhai sydd yn blaenori yn mhob eglwys i drafod yn bwyllog a difrifol gwestiynau o'r fath uchod, yn nghyda lluaws o'u cyffelyb, credwn y ceid gwedd pur wahanol ar waith yr Arglwydd yn ebrwydd yn eglwysi y Cyfundeb. A phaham nad ellid cael hyn? Pa beth sydd yn hyn yn anymarferadwy? Yr ydym yn gofyn ac yn disgwyl am yr Yspryd Glân: da; ond beth os ydyw yr Yspryd hefyd yn disgwyl wrthym ninau? A ydyw yn dêg i ni ddisgwyl am dywalltiad o'r Yspryd arnom tra y mae ein gwaith ein hunain yn gymaint ar ol? Pa beth! a raid anobeithio cael eglwys weithgar mewn rhai manau hyd nes y ceir newid dwylaw?

Wedi'r cwbl, rhaid addef fod i'r amcan hwn o gynyddu gweithgarwch eglwysig ei anhawsderau dirfawr; anhawsderau o bob math, ac yn dyfod o bob cyfeiriad. Nid yn mhob eglwys y ceir y swyddogion yn ffyddlawn ac unol, ac yn deall eu gwaith. Bydd un yn rhy gryf am ei ffordd ei hun, ac nid ystwytha i ddim arall; ac oni chaiff y brawd ei ffordd, bydd raid iddo gael sori. Tybia un arall fod pobpeth yn burion fel y maent, ac nad oes eisieu gwneyd rhyw gymaint o helynt; dim ond gadael i bethau ddyfod fel y delont. Ac felly bydd y rhai sydd yn teimlo gyda'r achos yn digaloni ac yn llaesu dwylaw, gan farnu mai gwell bod yn ddistaw na therfysgu. Mae rhai eglwysi wedi hir arfer rhoncio ar hyd yr un *rhowtiau;* y peth oeddynt ydynt, a'r peth ydynt a fynant fod. Mor bruddglwyfus yw gweled eglwysi yn dihoeni ac yn dirywio, golwg henaidd ar bobpeth i mewn ac allan, a phawb yn dwyn oddiarnynt!

Ond yr anhawsder cryfaf oll i weithgarwch crefyddol yw y difaterwch dychrynllyd a'r claearineb cyffredinol sydd wedi ymdaenu dros yr eglwysi, a hyny yn cael ei achosi gan feddylfryd rhy ddaearol. Ni waeth heb geisio celu; mae eglwysi'r saint yn cydffurfio gormod â'r byd hwn, a dyna eu gwendid i gyflawni y gwaith mawr a ordeiniwyd iddynt gan eu Pen. Cofus gan lawer yr ymdrech egnïol a wnaed gan y Ffrancod amser yn ol i waredu Paris o ddwylaw y Germaniaid. Er eu bod yn llwyddo i gasglu lluoedd aneirif o filwyr, o'r fath ag oeddynt, ac er rhoi dillad milwyr am danynt, ac arfau milwyr yn eu dwylaw, eto nis gellid gwneyd milwyr ohonynt; nis gellid rhoddi yspryd milwraidd ynddynt, na chael disgyblaeth filwraidd arnynt; ac felly yr oeddynt yn llawer gwaeth nag hebddynt, gan eu bod yn dyrysu cynlluniau eu harweinyddion, ac yn gwanhau dwylaw y rhai gwrol. Ai nid peth rhy debyg i hynyna yw yr hyn sydd yn gwanhau ac yn nychu llawer eglwys rhag dyfod i fyny â'i gwaith? Mae ein

rhifedi ar bapyr yn fawr, ac yr ydym yn meddwl eithaf gormod o hyny; ond pa faint o'r rhifedi hwn sydd o wir werth sydd beth arall; canys dyna, wedi'r cwbl, ydyw ein rhifedi gwirioneddol. Y fath lanw cryf o ddifaterwch sydd gan ddynion da yr oes hon i rwyfo yn ei erbyn! ac eto rhwyfo sydd raid, gan obeithio yn erbyn gobaith y daw pethau yn well. Sylw da a wnaed gan Dr. Edwards yn rhywle ydoedd, "Y mae'r byd yn myned yn ei flaen, ond nid ar linell uniawn." Mae yn myned yn ei flaen, ond yn groes ymgroes, fel llong yn hwylio yn groes i'r awel. Dichon y ceir gwynt têg rywbryd; ond tu yma i hyny, rhaid rhwyfo a thynu, poeni a hwbio, a bron yn yr un fan yn y diwedd! Cristion ardderchog yw hwnw, ac un cymwys i'w amser, sydd yn penderfynu cadw yn y blaen trwy bob dyfal-bara, gan amcanu gwneyd y goreu o bethau fel y maent.

Yr ydym yn ein sylwadau ar Eglwys Weithgar wedi cadw o fewn cylch yr *ymarferol*, gan adael yr *athronyddol* i'r neb sydd yn ei ddeall. Yr ymarferol o hyd sydd ar goll.

Ionawr, 1872.

---

## EIN CYFARFODYDD EGLWYSIG.

Nid ein hamcan yn hyn o ysgrif yw ymholi pa ddefnydd a wneir o Gyfarfodydd Eglwysig mewn Cyfundebau ereill lle maent, na pha fodd y gwneir i fyny y diffyg ohonynt lle nad ydynt. Gallai hyny fod yn destyn dyddorol i ddyn yn meddu y gallu a'r cyfleusdra i edrych i mewn iddo. Mae yn ymddangos i ni, o leiaf, yn beth anhawdd os nad anmhosibl ei ddirnad, pa fodd y gall eglwys i Grist, yr hon sydd i fod yn gymundeb neillduedig a didoledig oddiwrth y byd, hanfodi o gwbl heb yr un math o Gyfarfod Eglwysig.

Am Gyfarfod Eglwysig y Methodistiaid Calfinaidd, mae hwn yn adnabyddus. Gwyddys yn dda pa fodd y cychwynodd, a gwyddys hefyd iddo gynyrchu peth annhraethadwy o ddaioni. Bu yn foddion i weinyddu mwy na mwy o gysur, nerth a bywyd i'n hên dadau a'n hên famau yn y dyddiau gynt; ac y mae yn parhau i weinyddu yr un ymgeledd i eneidiau miloedd lawer o dduwiolion yr oes hon. Dechreuodd ein Cyfarfod Eglwysig gyda dechreuad ein Cyfundeb, a daeth ar unwaith yn elfen bwysig a gwerthfawr ohono, a chynyddodd felly i ganlyn pob cynydd arall. Càn gynted ag y deffrowyd ystyriaethau pechaduriaid cysglyd Cymru trwy weinidogaeth danllyd Howel Harris a'i gydlafurwyr, y dechreuodd y pechaduriaid deffrous hyn ymwasgu â'u gilydd ac ymffurfio yn

fân gymdeithasau crefyddol. A gwnaethant hyny yn naturiol ac ohonynt eu hunain, heb wybod nac ymholi cymaint pa un a oedd y fath gyfrinachau wedi bod gan Eglwys Crist erioed o'r blaen. Ac, yn wir, nis gallent beidio; mae grâs yn nghalon dyn yn rhyw reddf—anian; mae y dyn grasol yn naturiol yn ymwasgu â'i gyffelyb. Pan yr oedd duwiolion unwaith yn anaml yn y tir, elai y naill ddyn grasol yn mhell er cael cymdeithasu âg ereill a fyddai yn synio ac yn teimlo fel yntau, a melus fyddai y gyfrinach. Mae grâs Duw yn enaid dyn eto yr un peth, ac yn dwyn yr un cyffelyb ffrwyth; ac i'r cyfryw y mae cymdeithas y saint yn parhau yr un mor gyffelyb werthfawr. Y rheswm paham, gan hyny, am ddechreuad y cyfarfodydd hyn, fel am ddechreuad llawer o bethau ereill y Cyfundeb yw, grâs Duw yn nghalonau dynion yn gweithio allan ei ffrwythau naturiol ei hun. A'r un rheswm sydd hefyd am eu parhâd. Gellid, a dylid gwellâu llawer arnynt mewn llawer lle; ond am eu dilëu, nis gellir tra byddo duwiolion mewn cyrhaedd cymdeithasu â'u gilydd. Ond os rywbryd yn y dyfodol tywyll y derfydd dynion duwiol o'r Cyfundeb, yna hawdd y pryd hyny fydd gwneyd ymaith gyda'u cyfarfod hoff. Yr oedd duwiolion oes gyntaf Methodistiaeth yn hyn, fel mewn pethau ereill, yn gwneyd yn gyffelyb i'r saint yn oes gyntaf Cristionogaeth. Mae yn eglur hollol fod gan y brif-eglwys, fel ei gelwir, ei chyfarfodydd neillduol, lle y byddent yn neillduedig oddiwrth y byd, yn cyngori a dysgu, yn adeiladu ac yn diddanu, yn rhybuddio ac yn ceryddu eu gilydd. Yn wir, yr oedd oes gyntaf Methodistiaeth yn dwyn llawer o debygolrwydd i oes gyntaf Cristionogaeth; yr oedd y naill yn ail-argraffiad da o'r llall.

Y mae mawr werth ein Cyfarfodydd Eglwysig i'w ddeall, pan yr ystyriom mai eu hamcan uchel yw meithrin crefydd ysprydol y galon, cryfhau a gwresogi crefydd yn ei gwedd gymdeithasol, a dwyn yr oll allan i ymarferiad sanctaidd. A chyrhaeddant yr amcanion uchel hyn, nid yn unig trwy ddysgu a chyngori, ond hefyd trwy fod duwiolion yn mynegu i'w gilydd eu profiadau a'u gwahanol *dreialon* crefyddol; a pha foddion mor effeithiol i gyrhaedd yr amcan? Fel mae yn hysbys, yr hyn sydd wedi hynodi ein cyfarfodydd o'u dechreuad yw, yr hyn a elwir genym yn "ddyweyd profiad." Gwyddom fod yr hên *derm* hwn, "dyweyd profiad," yn myned yn wrthodedig gan luaws; eto, nid doeth i ni fwrw ymaith hên *dermau* anwyl ein tadau cyn cael eu gwell yn eu lle. Bydded a fo am y *termau*, mae "profiad" i fod mewn gwir grefydd. Mae y gwirionedd sanctaidd yn beth i'w deimlo a'i brofi yn gystal ag i'w ddeall; ac nid oes neb yn deall y gwirionedd yn iawn ond sydd yn ei brofi. Nis gall y ffydd a'r cariad sydd yn

Nghrist Iesu fod yn yr enaid heb i'r dyn deimlo eu gweithrediad. Bywyd a nerth duwioldeb yw goruchwyliaeth Yspryd y grâs trwy y gwirionedd yn y dyn oddifewn, yn argyhoeddi, yn ceryddu, yn egluro gogoniant y Gwaredwr a chyfoeth ei râs, gan gymhell a nerthu yr enaid i ddyfod o hyd at Dduw trwyddo ef. Mae y dyn sydd yn gwybod am y gweithrediadau grasol hyn yn ei enaid, yn gwybod yn dda pa beth yw galaru am bechod, pa beth yw helbul flin gyda deddf yn ei aelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl, pa beth yw llawer o bryder ac ofn rhag camgymeryd gyda pheth mor dra phwysig â chadwedigaeth ei enaid; a gŵyr hefyd pa beth yw derbyn bywyd a diddanwch o'i "gyflawnder Ef." Dyma yr hyn a elwir genym yn "brofiad;" ac mae gan yr hwn sydd yn ei feddu rywbeth i'w "ddywedyd" gwerth i'r eglwys gael ei glywed, am y gallai hyny roddi llawer o gysur ac addysg i ereill. Dywedai un gŵr "profiadol," "Deuwch, gwrandewch y rhai oll a ofnwch Dduw, a mynegaf i chwi yr hyn a wnaeth Efe i'm henaid." Chwenychai y brawd hwnw gael cyfle i "ddywedyd gair o'i brofiad," ond cofier wrth bwy, "y rhai oll a ofnant Dduw," rhai tebyg iddo ei hun.

Mae yr Yspryd Glân wedi rhoddi arbenigrwydd ar y moddion yma o râs yn gymaint ag mai profiadau y saint yw rhanau helaeth o Lyfr ein crefydd. Dyna amryw ranau o'r Hen Destament, yn enwedig llyfr y Salmau, lle y ceir cronfa ardderchog o holl deimladau calon rasol, a hyny mewn pob amrywiol amgylchiadau a *threialon*. Yn y Testament Newydd drachefn, cawn yr Iesu bendigedig yn nghyfrinach ei ddisgyblion yn hoffi cael "adrodd gair o'i brofiad." Ac O! mor dyner a llawn o deimlad yw yr ymadroddion grasol a ddyferai o'i enau sanctaidd! Yr un modd cawn yr Apostol Paul yn ei Epistolau yn ymryddhau i ddywedyd ei "brofiad" fel Cristion yn gystal ag fel pregethwr; a thrwy hyny mae genym fantais i adnabod gweithrediadau grâs Duw yn enaid y gwas enwog hwn i Grist. Mor werthfawr, mor llawn o addysg a dyddanwch yw profiadau duwiolion y Beibl i'r eglwys fawr hyd ddiwedd amser! Ac os ydyw eu profiadau hwy felly, paham nad ydyw profiadau y saint sydd eto yn fyw yr un mor werthfawr? Mae gwir grefydd yr un peth yn mhob gwlad ac oes; mae gan dduwiolion yr oes hon eu profiad o waith grasol Duw yn eu heneidiau yr un modd a saint yr hen oesoedd, ac mae y naill fel y llall yn gwybod yn dda am anhawsderau a *threialon* bywyd sanctaidd. Ac mae mor ddymunol gan y cyfryw gael y cyfle priodol i ddywedyd gair o'u profiad ag oedd gan y patriarch Dafydd neu yr Apostol Paul. Ac y mae profiadau y duwiolion sydd yn awr yn fyw o werth mawr i'r eglwys, yn gymaint a bod gwirionedd mawr

crefydd Crist yn cael ei ddwyn felly i sylw, nid mewn hanes yn unig, ond hefyd yn ffaith fyw.

Fel y crybwyllwyd genym, un o neillduolion ein Cyfarfodydd Eglwysig o'u dechreuad ydyw yr arferiad gan dduwiolion o gyd-ymddiddan am brofiadau eu gilydd. Yma y byddant yn rhydd yn mynegu i'w gilydd eu gwahanol *dreialon* mewnol, eu hofnau, a'u cysuron, a'r hyn a wnaeth Duw i'w henaid. Yma yn nghyfrinach eu gilydd y byddant yn agor eu *cabinet*, ac yn dwyn allan eu gemau gwerthfawr: rhyw frawd neu chwaer mewn iaith syml a diaddurn yn dwyn allan o'u calon ryw deimlad, ryw syniad byw, gwreiddiol, disglaer, nes bywiogi yr holl frawdoliaeth; rhyw berarogl nefol yn llenwi y lle, digon a gwneyd i enau yr hwn sydd yn cysgu lefaru; rhywbeth mor Ddwyfol fel i argyhoeddi pawb fod Duw yn wir yn eu plith. Rhyfedd mor effeithiol yw profiad y naill Gristion i fywiogi calonau ereill, gwresogrwydd yspryd y naill i gynesu ysprydoedd ereill, a thristwch a galar y naill i gynyrchu cydymdeimlad yn y lleill. Bydd un Cyfarfod Eglwysig llewyrchus yn talu yn llwyr gostau llawer o rai tywyll ac annyben. "Seiat dda," ys dywedai y Parch. D. Jones, Treborth, "yw y peth tebycaf i'r Nefoedd o ddim ar y ddaear." Mae y cydymddiddan yma hefyd y peth mwyaf effeithiol oll i beri cydymdeimlad mewn eglwys. Pan bydd y naill yn mynegu ei helynt ysprydol ei hun, bydd ereill yn teimlo mai cyffelyb fydd eu helynt hwythau; a bydd y naill yn cael help i'w ddeall ei hun trwy y llall, ac oll yn cydymdeimlo â'u gilydd. A bydd y cydymdeimlad hwn drachefn yn cynyrchu anwyldeb a brawdgarwch sanctaidd, fel i wneyd y gyfeillach yn wirioneddol *gymdeithas y saint*.

Ar ol hir brofiad, a llawer o ystyriaeth, yr ydym yn gryf o'r farn nas gellir gwneyd yn well gyda'n Cyfarfodydd Eglwysig na'u cadw yn y blaen rywbeth yn debyg i'r fel y cawsom hwy gan ein tadau. Gwyddom fod ereill yn barnu yn wahanol, sef y dylid eu newid yn drwyadl er eu gwneyd yn fwy dyddorus ac yn fwy cydnaws â chynydd gwybodaeth a chwaeth yr oes. Gwir y dylid amcanu eu gwneyd yn gyfarfodydd dyddorus; ond dyddorus i bwy? Nid i ddynion anianol ac amddifad o archwaeth grefyddol, gobeithio; canys nid oes ffydd gan bawb sydd yn proffesu hyny. Dichon nad yw y cyfarfodydd hyn mor effeithiol ac adeiladol yn llawer man ag y gallent fod, a hyny yn rhy aml oherwydd anffyddlondeb ac annoethineb y swyddogion, am mai hwynt yn benaf sydd gyfrifol am eu dygiad yn mlaen. Eto gallwn obeithio mai eithriad yw hyny ac nid y rheol. Pwy bynag a gymer y drafferth i chwilio, fe wêl eu bod ar y cyfan yn gyfarfodydd buddiol, ac yn amlach nag y tybia rhai, yn wirioneddol dda. Mae yn digwydd, a hyny yn y

*dyddiau marwaidd hyn*, fel eu gelwir, fod eglwys yn dyfod yn nghyd—y swyddogion, os nad yn meddu yr hyn a elwir gan y byd yn *allu*, eto yn meddu yr hyn sydd yn tra rhagori, yn weision ffyddlawn a doeth, yn teimlo i'r byw oddiwrth eu cyfrifoldeb—mor dda fuasai ganddynt gael eistedd a gwrando—ond mae Duw yn y Nefoedd wedi clywed eu llefain, yn tosturio wrth drueiniaid ei bobl, yn llewyrchu ei wyneb ar ei gysegr, ac yn dyddanu ei saint. O ddaioni ein Duw, mae y cyfarfodydd siriol hyn yn llawer amlach yn ein plith nag y gallai rhai dybied ar yr olwg gyntaf. Sylwer ar hyn: anfynych y ceir Cyfarfod Eglwysig trymaidd, os bydd y dynion sydd i'w arwain, wrth ddyfod i ymaflyd yn eu gwaith, yn teimlo yn ddwys eu hangen am gynorthwy Dwyfol.

Nid doeth, ac yn wir nis gellir, caethiwo y cyfarfodydd hyn at ryw reolau neillduol; rhaid iddynt gael bod yn rhydd. Fel y dywedai ein diweddar barchus dad, Mr. Roberts, Amlwch, "Mae yr Arglwydd wedi ymddiried llawer gyda'i deyrnas i *common sense* pobl dduwiol, i weithredu yn ol fel y byddai amgylchiadau yn galw." Eto gellir crybwyll rhai pethau y byddai yn dda i swyddogion yn enwedig wneyd sylw ohonynt.

Un peth y cwynir o'i herwydd mewn rhai eglwysi yw, rhyw *annybendod* poenus gyda phobpeth. Dyna ryw frawd yn dechreu cyfarfod. Wel, rhaid i'r penill hwyaf, y bennod a'r weddi hwyaf, gael eu lle. Dyna haner awr o'r amser prin wedi ei lyncu gyda'r *dechreu*, pryd y buasai haner hyny yn llawer doethach. Yna rhaid dechreu ar waith y cyfarfod. Mae y brodyr tua'r sêt fawr yn ymddangos yn hynod o annyben i gychwyn dim; y naill yn cymhell y llall, a neb yn cychwyn; pob un fel pe na byddai ganddo ddim ar ei feddwl i'w ddyweyd; ac mae yn bosibl mai felly y maent; y maent bob un, fe ddichon, newydd ddianc o ganol rhyw drafferthion bydol neu gilydd, fel ereill. Ac y mae codi i ddyweyd heb ddim i'w ddyweyd yn beth y mae pob dyn call am ei ochel. Dichon nad yw ychydig funydau o ddistawrwydd ar ddechreu Cyfarfod Eglwysig yn gymaint allan o'i le ond i'r frawdoliaeth ddeall mai distawrwydd i feddwl ac ystyried ydyw, ac nid i'r naill ddisgwyl wrth y llall. O'r diwedd, ar ol hir gymhell a disgwyl, dyna un o'r brodyr yn codi i ddywedyd gair; ac ar ol dechreu dyweyd, mae yn dyweyd ac yn dyweyd, yn llusgo dyweyd, yn hir a difywyd a diamcan. Erbyn iddo dewi, bydd brawd arall yn teimlo awydd dyweyd gair; ac y mae yntau yn traethu yn annyben a maith, ac ond odid na bydd rhyw drydydd yn gwneyd yn gyffelyb; a dyna haner eto o amser y cyfarfod wedi dianc ymaith. Yna eir at y gorchwyl o ymddiddan â'r eglwys am eu "profiad." Ar ol hir gymhell, llwyddir o'r diwedd i gael gan un neu ddau, neu ddwy,

ddywedyd gair o'u profiad, a dyna ddefnydd cynifer a chyffelyb areithiau âg o'r blaen. Bellach mae pawb yn bur foddlawn i'r cyfarfod maith a marwaidd gael dybenu. Os rhywbeth yn debyg i hyn y treulir y cyfarfod, pa ryfedd os bydd yr eglwys yn cwyno o'i herwydd ac yn ei esgeuluso? Ac eto mae Cyfarfod Eglwysig fel ei darluniwyd yn llawer gwell nag hebddo; gall, er ei holl ddiffygion, fod yn foddion grâs.

Er mai nid y priodol le i areithio yw y Cyfarfod Eglwysig, eto nid anmhriodol yw ei dreulio trwodd, ar adegau, i drafod rhyw faterion pan y byddo achlysuron yn galw am hyny. Pan y byddo felly, bydded y cyfarfod yn rhydd, a chymheller brodyr heb fod yn swyddogion i gymeryd rhan yn yr ymdrafodaeth. Ceir yn aml sylwadau buddiol ganddynt, a bydd iddynt hwythau hefyd deimlo eu bod yn rhywbeth; a pha niwed sydd yn hyny? Mae dyn yn mhob cysylltiad am gael ei ystyried *yn* ddyn, ac fel aelod o gymdeithas grefyddol nis gall ymostwng yn dawel i fod yn *neb*. Mewn rhai eglwysi, er mwyn amrywiaeth, rhoddir rhyw fater duwinyddol i'r eglwys i'w chwilio, a gelwir ar y brodyr i draethu eu syniadau arno. Gallai Cyfarfodydd Eglwysig yn y wêdd yma, ond eu harwain yn ddoeth, a gochel eu mynychu yn rhy aml, fod yn wir fuddiol er cymhell yr aelodau i lafurio mwy am wybodaeth o athrawiaethau mawrion ein crefydd.

Dichon mai un anhawsder i gael Cyfarfodydd Eglwysig mor gynhes ac effeithiol ag yn y dyddiau gynt yw, yr anmharodrwydd yn yr eglwys i ddywedyd eu profiadau yn rhydd a digymhell. Yr oedd yr anmharodrwydd hwn unwaith yn anadnabyddus yn y Cyfundeb. Y pryd hyny ni byddai eisieu cymhell; byddai y cyfeillion fel am y cyntaf, y naill a'r llall yn llosgi gan awydd mynegu yr hyn a wnaeth Duw i'w henaid. Yr anhawsder y pryd hyny fyddai cael terfynu y cyfarfod mewn amser gweddus. Ond erbyn hyn y mae yn bur wahanol; ychydig yn gyffredin mewn eglwys a ddywedant ddim ohonynt eu hunain. Yr anmharodrwydd yma, mae yn debygol, a barodd i rai dynion da farnu fod tymhor y "dyweyd profiad" yn yr eglwysi wedi myned heibio. Pa beth yw yr achos o'r cyfnewidiad hwn yn yr eglwysi, sydd, feddyliem, yn beth haws ei ofyn na'i ateb. A ydym i gasglu oddiwrth yr anmharodrwydd a nodwyd fod crefydd ysprydol y galon yn dirywio yn ein plith; ein bod fel Cyfundeb yn raddol ac yn ddiarwybod i ni ein hunain yn ymlygru oddiwrth y symlrwydd sydd yn Nghrist; bod balchder, bydolrwydd, digasedd, moethau, &c., yn enhuddo y tân sanctaidd lle y mae, ac yn ei gau allan lle nad yw? Mae yn ffaith fod eglwysi a fu unwaith mor danllyd efengylaidd ag y bu yr eglwys Fethodistaidd erioed, wedi ymlygru

mor llwyr oddiwrth Grist, fel ag i fod yn synagog satan. Ond ni a obeithiwn bethau gwell, er ein bod yn dyweyd fel hyn. Gallai y cyfnewidiad hwn gael ei achlysuro i fesur gan gyfnewidiad arall sydd yn ymweithio yn ddistaw a graddol i ansawdd cymdeithas yn ein plith fel cenedl. Yr oedd y Cymry unwaith yn hynod am eu dull syml, rhydd-agored, a chymdeithasol. A byddent felly yn eu cyfrinachau crefyddol. Ond fel yr ydym yn ymgymysgu fwy-fwy â'r Saeson, mae eu dullwedd cymdeithasol oer a gochelgar hwy yn ymwthio yn ddistaw i'n plith ninau. A gallai fod lluosogrwydd y cynulliadau eglwysig hefyd yn achlysuro rhyw gymaint o hynyma. Ac wrth gymeryd pobpeth gyda'u gilydd, yr ydym yn gryf o'r syniad fod y distawrwydd y cwynir cymaint o'i herwydd, wedi dyfod yn raddol yn beth yn fwy o arferiad nag o ddiffyg crefydd. Rhaid i ni gredu fod yr eglwysi eto yn gyfoethog o "brofiadau ysprydol;" os nad mor danllyd ac angerddol a duwiolion y dyddiau gynt, eto mor bur ac mor ddwys a'r eiddynt hwythau. Ac er nas gallent, rywfodd, ddywedyd eu teimladau ohonynt eu hunain, eto da iawn fydd ganddynt gael eu cymhell i hyny; a chŵyn llawer eglwys yw na byddai mwy o hyny yn eu plith. Teimla llawer yn ofidus oherwydd cael eu gadael am flynyddoedd heb wneyd yr un sylw ohonynt. A mynych wrth alw gyda'r cyfeillion distaw hyn yr adnabyddir yn eglur ôl llaw Duw yn gweithio yn eu heneidiau.

A chymeryd y Cyfarfod Eglwysig yn ei lwybr cyffredin, tybygem mai dechreu deheuig arno yw gyda gweinidogaeth y gair y Sabboth blaenorol. Nid hawdd y gall y swyddogion daflu mwy o anfri ar y weinidogaeth na thrwy beidio crybwyll dim am dani yn yr eglwys. Nid adolygiad maith sydd ddymunol, ond ychydig yn lled fyr a chynes, pe gellid eu cael, er tymheru yr eglwys i wneyd y defnydd goreu o'r cyfarfod o hyny i'w ddiwedd. Os bydd angen gwneyd rhyw sylwadau ceryddol, er dim cadwer hyny hyd y diwedd: os teflir pethau felly i mewn ar y dechreu, fe *dampir* y cyfarfod trwyddo. Pethau llednais i'w trin yw teimladau. Y peth diweddaf fyddo rhybuddio a cheryddu. Pan y byddys yn myned at y gorchwyl o "ymddiddan am brofiad," doeth fyddai cadw at yr hên arfer o gymhell, os bydd neb o "barodrwydd meddwl;" ac oni bydd hyny yn cael ei amlygu, annoeth yw bod yn hir gyda'r cymhell. Gwneir gormod o helynt gyda hyn gan rai; a byddant yn rhy barod i gymeryd yr "anmharodrwydd" yn arwydd anffafriol am sefyllfa ysprydol yr eglwys. Yn hytrach nag ymdroi, galwer yn ebrwydd gyda nifer o'r aelodau gan eu cymhell wrth eu henwau. O holl ranau gwasanaeth tŷ Dduw, dyma y gorchwyl sydd yn galw am fwyaf o ddoethineb a gofal ar ran y swyddogion;

a dylent fod yn deall eu gilydd, wedi rhagddarbod, ac yn unol yn eu cynllun. Dyna un o'r brodyr yn codi at y gwaith: mae yn bwriadu galw gydag amryw o'r aelodau; mae yn rhoddi rhybudd tirion o'i fwriad wrth gychwyn, fel y gwybydder i ba gyfeiriad i'w ddisgwyl. Gweddai i'r brawd yna yn anad neb fod yn ddyn profiadol ei hunan, yn meddu hunan-adnabyddiaeth ddofn, yn ddyn â'i holl enaid wedi ei ddarostwng a'i dymheru gan râs Duw, dyn yn gallu cydymdeimlo â'r gwan a'r ofnus, dyn yn meddu y fath ostyngeiddrwydd calon a'r cyfryw addfwynder yspryd, fel na byddo yn un brofedigaeth i'r rhai gwanaf yn yr eglwys ei weled yn dynesu atynt, ac eto dyn a dylanwad ei gymeriad crefyddol y fath na faidd neb ei ddirmygu. I'r cyfryw dymheredd bydd pob mynwes yn barod i ymagor. Os bydd yr ansawdd yspryd yma yn ddiffygiol mewn swyddogaeth eglwysig, rhaid ei bod yn ddiffygiol o'r peth penaf oll. Ond pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn? Pwy bynag sydd yn teimlo y tlodi yspryd hwnw, sydd am dderbyn ei ddigonedd o Dduw.

Yn yr ymddiddanion eglwysig hyn, nid doeth, dybygid, yw dirgymhell neb. Os dealler mai mwy dymunol gan y cyfryw fydd tewi ar y pryd, derbynier y nacâd yn garedig, ac eler heibio at un arall, am y gellir yn ddamweiniol fel hyn daro ar frawd neu chwaer ar adeg rhy anffafriol i ddim ond tewi. Er dim, gocheler yr *holi caled;* dim ond ychydig gwestiynau er cynorthwyo dyn i gael gafael ar ei feddwl ei hun. Ni ddylid defnyddio adeg fel hon i geisio mesur gwybodaeth dyn, nac ychwaith i geisio tynu meddwl dyn allan yn fwy nag y dymunai. Cadwer yn bell oddiwrth bobpeth tebyg i'r gyffesgell Babaidd. Dylid bod yn wyliadwrus hefyd rhag cyffwrdd â dim fyddo yn tueddu i gynyrchu teimladau poenus; dim yn edliwgar, dim yn geryddol. Nid dyma yr adeg i geryddu. Na chyffyrdder chwaith â dim a allai fod yn anafus yn y teimlad, neu yn dramgwyddus yn yr yspryd; yn bersonol ac nid yn gymdeithasol y mae trin pethau dolurus felly. Ond mae yr adeg hon yn fwyaf ffafriol i gynghori a dysgu mewn addfwynder. Gofaler hefyd am i'r eglwys gael clywed yr holl ymddiddan er ei wneyd mor gymdeithasol ag y gellir. Cofier yn wastad mai y *wedd gymdeithasol* hon ar ein Cyfarfodydd Eglwysig yw eu rhagoroldeb. Er treulio y cyfarfod yn fuddiol, gocheler rhag ymdroi yn rhy hir gyda'r un rhai. Nid un yn dywedyd "gair o'i brofiad," a'r swyddogion yn treulio haner awr neu fwy i areithio ar brofiad yr un hwnw; rhodder terfyn tragywyddol ar y dull poenus yna ag y mae rhai eglwysi yn gruddfan o'i herwydd. Sylw byr, cynes, ac i'r pwrpas, sydd yn gweddu oreu i'r Cyfarfod Eglwysig. Fel diweddglo i'r cyfarfod, da fyddai i un o'r swyddogion dynu

ychydig gasgliadau cryno a hawdd eu cofio oddiwrth yr hyn a fu dan sylw, gan eu taflu i ystyriaeth yr eglwys ar eu hymadawiad. Os bydd neb yn edrych ar ryw bethau fel a nodwyd genym yn bethau rhy fychain a dibwys i dalu sylw iddynt, da fyddai i'r cyfryw gofio mai diffyg talu sylw priodol i bethau bychain, yn rhy aml, sydd yn taflu tŷ i annhrefn. "Gwneler pob peth yn wedd-aidd ac mewn trefn."

Gwrthddadleuir, hwyrach, fod yr arfer yma o "ddywedyd profiad" yn temtio dynion i ragrithio, i geisio dangos eu hunain yn beth nad ydynt. Mae yn ofidus nas gellir gobeithio mor dda am ein heglwysi a'u bod yn lân oddiwrth ragrithwyr. Mae mor-wynion ffol eto yn mhlith y rhai call, ac efrau yn mhlith y gwenith; ac nid oes yr un arfer grefyddol, pa mor dda bynag, nad yw yn agored i gael ei *habusio.* Ond gŵyr pawb sydd alluog i roddi barn ar hynyma, mai nodweddiad dwfn y rhan yma o'r cyfarfodydd hyn ydyw *cywirdeb.* Wrth glywed y cyfeillion yn "dywedyd eu profiad," fel rheol gyffredin bydd raid i bawb gyd-nabod eu bod yn mynegu yn hollol fel y byddont yn deall ac yn teimlo. Yn wir, i'r ochr arall y byddys yn gogwyddo fwyaf; yn lle dangos pethau yn well, dangos pethau yn waeth nag y byddont; yn lle mynegu eu cysur a'u dyddanwch, amlygir eu pryder a'u hofnau. Ac nid rhyfedd hyny: mae pob Cristion cywir yn llawer mwy cydnabyddus â'r hyn sydd bechadurus ynddo nag â'i sancteiddrwydd. Y cymal o'i le sydd boenus ac yn cael sylw, ac nid yr un sydd esmwyth ac yn gweithio yn naturiol. A dyna un achos fod ein cyfeillachau crefyddol yn arddangos llawer mwy o'r pryderus a'r ofnus nag o'r cysurol.

Dichon y gofynir, Pa ddyben chwilio am "brofiad" lle gŵyr pawb nad yw i'w gael; dyma luaws o rai ieuainc ysgafn a gwamal, a rhai hynach hefyd mor ddigrefydd a hwythau, ac eto yn dewis bod mewn rhyw fath o gysylltiad eglwysig. Onid llawer mwy buddiol a fyddai i un o'r swyddogion, gweinidog os bydd, fynu cael ymddiddan personol â rhai felly, yn hytrach na gwneyd hyny ar g'oedd cynulleidfa? Wrth roddi ateb i hynyna, addefwn ein bod am i'r ymweliadau personol a theuluaidd gael llawer mwy o le nag a gawsant hyd yn hyn genym ni fel Cyfundeb. Diau mai yma y mae ein màn gwan. Ond na rodder y naill beth yn lle y llall; y personol yn lle y cymdeithasol. Rhaid addef hefyd nad yw troi y tyndir yma o ymddiddan â'r rhai dibrofiad yn yr eglwys, y gorchwyl mwyaf difyrus, ac eto nid oes yr un math o dir mewn mwy o angen am ei fraenaru. Gan eu bod yn aelodau, teg yw iddynt gymeryd eu rhan fel ereill. Ac os na cheir "profiad" ganddynt, gall "gofyn gair" iddynt eu dwyn i sylw yr eglwys, ac

hefyd i'w sylw eu hunain. Gallai hyn fod yn foddion effeithiol—a *moddion* yw pobpeth yn ein dwylaw ni—i gael sylw rhai diofal arnynt eu hunain; ac os llwyddir i hyny, dyna un amcan pwysig wedi ei gyrhaedd. Mae y cyngor a roddir hefyd iddynt ar gyhoedd fel yn dyfod atynt oddiwrth yr holl eglwys, ac felly yn llawer cryfach. Gallai hyn hefyd eu gwneyd yn fwy ystyriol o'u cyfrifoldeb fel aelodau eglwysig. Wrth i ddyn gael ei adael o flwyddyn i flwyddyn heb wneyd yr un sylw ohono, bydd mewn temtasiwn i dybied nad oes neb yn meddwl dim am dano, nac ychwaith yn meddwl dim ohono—nad yw yn werth sylw, a'i gysylltiad eglwysig ond peth mewn enw yn unig. Ond galwer gyda rhai fel hyn yn awr ac eilwaith, a theimlant fod sylw yr eglwys arnynt, a'i gofal am danynt. Ac oni bydd dyn wedi ei feddiannu gan radd anobeithiol o galedwch calon, bydd hyn yn foddion i'w dyneru, a'i wneyd yn fwy ystyriol o'i rwymedigaeth, a'i gynesu yn fwy yn mynwes yr eglwys.

Mawrth, 1867.

---

## ADGOFION AM DDIWYGIAD BEDDGELERT.

"Diwygiad Beddgelert" y galwai yr hên bobl yr adfywiad crefyddol grymus a dorodd allan ac a ymdaenodd dros Sir Gaernarfon, a rhanau ereill o'r Gogledd, yn y blynyddoedd 1817-18. Dyna yr amseriad a rydd *Methodistiaeth Cymru* iddo. Ond yr oedd argraff ar ein meddwl bob amser mai yn y flwyddyn 1818 y dechreuodd. Eithr nid oes dim pwys yn hyny, gan iddo barhau yn ei wres am fwy na dwy na thair blynedd. Gelwid ef yn ddiwygiad Beddgelert am mai yno y dechreuodd. Dywedai yr hybarch Robert Jones, Rhoslan, mai hwn oedd yr adfywiad mwyaf grymus ac ëang o ddim a brofwyd yn Ngogledd Cymru yn flaenorol iddo. A gwyddom ninau na bu dim yn gyffelyb iddo mewn *grymusder* ar ei ol.

Dichon na fethem wrth sylwi nad oes yr un genedl wedi ei ffafrio yn fwy, os yn gymaint, â'r hyn a elwir yn ddiwygiadau crefyddol â nyni fel cenedl, yn enwedig er cyfodiad Methodistiaeth. Byddai yr adfywiadau hyn weithiau yn ymdaenu dros ranau helaeth o'r wlad, gan grëu deffröad a chyffro yn y ffordd yr elent. Bryd arall byddent yn fwy lleol, Duw yn tywallt ei Yspryd ar un ardal, ac ardaloedd ereill cyfagos heb deimlo dim o hyny. Rhaid i râs Duw o hyd gael dangos ei benarglwyddiaeth. Mewn adeg o adfywiad, byddai gwaith mawr yn cael ei wneyd mewn byr amser, cenedl yn cael ei geni megys mewn un dydd, eglwys lesg a gwan

ar unwaith yn dyfod yn un luosog a chref, y capel gwâg yn troi yn rhy fychan, y weinidogaeth yn cael ei gwisgo â nerth o'r uchelder, annuwioldeb mewn dychryn gan nerthoedd y byd a ddaw, dynion difraw yn cael eu deffroi, a'r dewr yn gwaeddi yn groch; y balch wedi ei ddarostwng i'r llwch, y gwyllt wedi ei ddal, a'r gwamal wedi ei sobri; y rhai fyddai yn ymdroi "o fewn ychydig" yn dyfod yn gwbl oll, a'r afradloniaid yn troi adref. Mewn adeg o adfywiad, byddai yr eglwys yn cael ei hadnewyddu a'i bywhau; yr hên saint oedd fel llestri wedi glynu yn y traeth yn cael pen llanw ac yn nofio ymaith—hên delynau yn cael eu tynu oddiar yr helyg—Sion yn llawen fam plant, a sain cân a moliant yn llenwi ei phyrth. Pethau fel hyn a'u cyffelyb fyddai i'w cael yn ffrwyth toreithiog ar adegau y tywalltiadau grasol hyn ar ein cenedl. Mor briodol i ni ar adeg y mae difrawder ysprydol yn mallu ein cenedl, yw geiriau y Salmydd, "Eto cofiaf flynyddoedd deheulaw y Goruchaf, ïe, cofiaf ei wyrthiau gynt." Do, do! gwnaeth y Goruchaf bethau i ni fel cenedl teilwng o'u "cofio." Atolwg, a ydym i ofni fod adegau y tywalltiadau grasol hyn wedi myned heibio arnom? A fu ar ein cenedl, ar ryw adeg arni, fwy, os cymaint, o angen am bethau nerthol ag yn y tymhor presenol arni? Ein hamcan gyda'r adgofion hyn yw ceisio codi hiraeth ac awydd am danynt. Da iawn i ni gofio fod "deheulaw y Goruchaf" eto yr un mor nerthol a medrus, a'i glustiau yr un mor agored i weddïau ei bobl.

Nid yn unig byddai yr adfywiadau hyn yn gwahaniaethu cryn lawer yn eu nodwedd, ond byddent yn gwahaniaethu mwy na hyny yn y modd y dechreuent. Dechreuent weithiau trwy foddion digon annhebyg i'w cynyrchu. Unwaith, fel mae genym hanes, yr oedd nifer o bobl ieuainc mewn ardal yn dyfod yn nghyd i ddysgu canu, ac, fel arfer, maent yn llon a difeddwl. Cyn ymadael, maent yn rhoi tro ar yr hên anthem fwyaf addolgar, "Pâr i mi wybod dy ffyrdd." Ac wrth ddyblu a threblu y geiriau, "Tro ataf a thrugarhâ wrthyf; O! cadw fy enaid, ac achub fi," maent, er eu llonder, yn cael eu meddianu â difrifwch, yn tori allan i wylo, ac o wylo i lefain am drugaredd. A dyna ddechreuad adfywiad bendigedig yn yr ardal hono. Daeth y bobl ieuainc hyn yn ddynion gwerthfawr i grefydd; ac y maent, y rhai sydd fyw o honynt, yn parhau felly hyd henaint. Mewn ardal arall yn Arfon, yr oedd William Roberts, Clynnog, i bregethu yn y capel ar foreu Sabboth. Yr oedd efe yn un o'r pregethwyr mwyaf sylweddol ac Ysgrythyrol; yn wir, ni welsom neb yn fwy deheuig yn trin yr Ysgrythyrau ond Michael Roberts. Eto yr oedd ei ddawn, a'i lais, a'i feithder, yn ei wneyd y mwyaf annhebyg i

gynyrchu cyffro mewn cynulleidfa. Perthynai i'r eglwys hon hên chwaer hynod o grefyddol. Gyda iddi ddeffro boreu y Sabboth hwnw, meddyliai mor oer a diafael fyddai gweinidogaeth William Roberts ar y gynulleidfa. Dechreuodd weddïo am i'r Arglwydd roddi "eglurhâd yr Yspryd a nerth" trwy bregethiad ei air, a gorchfygodd. Aeth at y capel â'i meddwl yn siriol, a dywedodd yr helynt wrth ryw hên chwaer arall o gyffelyb yspryd iddi. Ac erbyn deall, yr oedd yr hên chwaer hono hefyd wedi teimlo a gweddïo yn gyffelyb. A chyn bod William Roberts wedi haner pregethu y boreu hwnw, yr oedd Duw yn llon'd y lle! Bu y tro yn achubiaeth i laweroedd, ac yn adfywiad i'r achos drwyddo yn y lle hwnw. Mewn ardal arall, nid yn mhell o droed y Wyddfa, yr oedd y pregethu yn dwysâu teimlad y gynulleidfa er's rhai wythnosau, a rhai yn dyfod i'r eglwys, eto dim yn gyffrous. Yr oedd yn yr ardal ŵr ieuanc hardd a balchaidd, a'r gwirionedd yn aflonyddu ei gydwybod, ac yntau yn gwingo ei oreu yn erbyn y symbylau. Ryw hwyr Sadwrn, penderfynodd fyned gyda'i gymdeithion i'r dafarn, i foddi yr argyhoeddiad â diod feddwol. Ond yn hytrach nag i'r dafarn foddi'r argyhoeddiad, fe foddodd yr argyhoeddiad y dafarn am y tro, o leiaf. Aeth y llanc yn ddychryn iddo ei hun, ac i bawb o'i gwmpas. Dechreuodd gynhyrfu a llefain, fel y tybiwyd ei fod ar wallgofi, a gwelai ei gymdeithion mai y goreu oedd ei gael adref. Ond nid gwaith hawdd oedd hyny; yr oedd iddynt ddwy filldir o ffordd, ac yntau yn ymgynhyrfu, yn llefain ac yn llesmeirio. Ac nid rhyfedd hyny, am y credai ei fod ar ddiphwys colledigaeth, ac mai yn uffern y byddai yn ebrwydd. Pa deimlad mor erchus a'r teimlad o anobaith? Caed ef adref yn hwyr y nos, ac yr oedd ei lefain yn cyffroi y fro. Ceisiwyd brodyr a dybid a allent weinyddu rhyw ymwared iddo; a da iawn fod y cyfryw i'w cael gerllaw. Erbyn goleu y dydd dranoeth, yr hwn ydoedd Sabboth, yr oedd goleuni gobaith efengyl Crist wedi tori i mewn i'w gydwybod derfysglyd, a'i lonyddu mewn Iawn! Bu y tro hwn yn achlysur i'r difrifwch oedd er's rhai wythnosau bellach yn ymweithio yn ddistaw yn meddyliau llaweroedd, dori allan yn gyffro byw trwy yr ardal. Mae yr ychydig sydd eto yn fyw oedd yn y cyfarfod eglwysig hwnw pan ddaeth y gŵr ieuanc hwn, ei dad a'i fam a'i frodyr, yn deulu cyfan, i'r eglwys am y tro cyntaf, yn ei chofio yn dda, er anghofio llawer un ar ei hol. Gofynwyd i'r hên ŵr i ddywedyd gair yn gyntaf, pryd y dywedai, "Frodyr anwyl, gadewch i mi gael gweddïo ychydig yn gyntaf." Yna syrthiodd ar ei liniau wrth y fainc ar lawr y capel, a gweddïodd; yna codai, ac eisteddai, a dywedodd, "Wel, dowch yrwan." Troes y gŵr ieuanc hwn allan yn hynod o grefyddol, ond bu farw yn gynar.

Goddefer un hanesyn eto. Mewn ardal y gwyddom am dani yn dda, yr oedd eglwys ac achos llwyddiannus wedi bod. Ond adeiladwyd Llan newydd yn yr un ardal, a daeth yno offeiriad newydd i wasanaethu. Yr oedd y gŵr hwn yn meddu llawer mwy o ddawn a medr na'r cyffredin o'i frodyr, ac yr oedd yn orselog dros ei blaid, ac yn elyn calon i Ymneillduaeth; ac yr oedd ganddo hefyd bob gallu a dylanwad bydol yn gefn iddo. A bu yn fedrus i ennill a phroselytio i'w eglwys. Yr oedd y Llan newydd yn llenwi, a'r capel yn gwaghau. Dechreuodd y brodyr yn y capel deimlo yn ddwys oherwydd y peth dyeithr hyn; gwelent, oni ddeuai ymwared, y darfyddai am yr achos yn y capel. Yr oedd eu cyfarfod pregethu blynyddol yn nesâu, a dechreuasant weddïo yn daer, ac oddiar deimlad byw, am i'r Arglwydd gadw ei amddiffyn drostynt, a pheidio eu gadael. Y cyfarfod pregethu a ddaeth, ac nid anghofir mohono hyd byth. Disgynodd yr Yspryd Glân ar y gynulleidfa mewn modd rhyfeddol. Nis gallasai dim dylanwad arall gynyrchu y fath effeithiau. Yr oedd teimladau y lluaws wedi myned yn rhy gryfion i'w cadw i mewn; yr oeddynt yn tori allan, rhai mewn llêf gorfoledd am fod Duw wedi gwrando eu gweddïau, ereill yn llefain am eu bywyd. Yn wir, yr oedd yma lefaru â "thafodau dyeithr;" dyeithr iawn i ddim a lefarwyd gan eu tafodau erioed o'r rlaen. Ac nid rhyfedd os byddai i rai yn eu cyffro lefaru pethau lled hynod, megys un wraig yn gwaeddi, "Gwerthu fy enaid am ddarn o wlanen! na wnaf byth!" Parhaes yr ymweliad bendigedig hwn i fyned rhagddo, ac ychwanegwyd nifer mawr at yr achos yn y lle. Cafodd yr achos yn y capel fuddugoliaeth lwyr, a tharawyd y cablwyr â mudandod. Bu y diwygiadau hyn yn ddiweddarach ac yn fwy lleol na'r un yn Beddgelert. Er i ni fyned ychydig o'n ffordd i wneyd coffhâd ohonynt, eto tybygem mai nid anfuddiol ein gwaith, gan fod iddynt eu gwersi.

Yr oedd i ddechreuad y diwygiad yn Beddgelert hefyd ei hynodion. Er y byddid yn arfer pregethu mewn tri lle yn y plwyf, eto nid oedd yma cyn y diwygiad ond un capel bychan yn y pentref, ac un eglwys o'r holl blwyf yn ymgynull i hwnw; a rhifai yr eglwys hon oddeutu deugain o aelodau. Ac yr oedd ei rhif wedi bod rywbeth yn debyg, fe ddywedir, er's mwy nag ugain mlynedd. Yr oedd rhywbeth wedi bod yn ystwyth yn y pregethu a'r cynulliadau crefyddol er's rhai misoedd yn flaenorol i doriad allan y diwygiad, a rhyw ddau neu dri wedi dyfod i'r eglwys, yr hyn oedd beth dyeithr iawn yn Meddgelert. Ond er fod disgwyliad y cyfeillion wedi bywiogi, eto nid oedd neb yn breuddwydio fod pethau mor fawrion wrth y drws. Drwg genym i ni oedi ysgrifenu yr adgofion hyn, hyd onid aeth yr hên frodyr oedd yn cofio y

manylion o'n cyrhaedd. Hyd yr ydym yn cofio, yn ol yr hyn a glywsom gan yr hên frodyr hyny, yn yr Ysgol Sul yn nghapel y pentref y disgynodd y dafnau cyntaf o'r gawod frâs a mawr hon. Yr oedd yno ferch ieuanc grefyddol yn athrawes ar ddosbarth o ferched ieuainc. Wrth ddarllen y pennodau diweddaf yn Efengyl Ioan, daeth rhyw wylo rhyfedd arnynt oll; nis gallent fyned yn mlaen gyda'u darllen gan wylo. Peth go hynod, onidê, mewn dosbarth o ferched ieuainc yn yr Ysgol Sul! Yn y diwedd yr oedd brawd, Richard Roberts, Caeygors, wrth ei enw, yn holi yr ysgol. Yr oedd gan y brawd hwn deimlad gwresog a dawn ystwyth. Ar ddiwedd yr holi, yr oedd yn rhybuddio y bobl ieuainc i ymddwyn yn weddaidd mewn rhyw ffair oedd i fod yn rhywle yr wythnos ganlynol. Ac wrth ddyweyd a dyweyd, disgynodd rhywbeth rhyfedd arno ef a'r holl ysgol. Daeth ar draws y llinell hono o ryw hên benill, "Mae'r afael sicraf fry." Ac â'i ddawn ystwyth a'i deimlad gwresog, chwareuai ar y gair "fry." "Oddi *fry* y daw pobpeth o werth i ni—oddi *fry* y daw y goleuni, y gwres, a'r gwlaw—oddi *fry* y daw bendithion iachawdwriaeth i'r ddaear—o'r uchelder y mae Duw yn tywallt ei Yspryd; dyma obaith am ddynion caled Beddgelert. Os ydyw yn dywyll yma, mae yn oleu *fry;* os yn wan yma, mae yn gadarn *fry.*" Gyda'i eiriau yr oedd rhywbeth mor ddwys, mor rymus, yn disgyn ar yr holl ysgol, yn hên ac ieuainc, fel y gwelid pawb yn tori allan i wylo. Mor rymus oedd y dylanwad, nes yr oedd y plant mewn dychryn; rhedai un bachgen bychan at ei dad, a llefai, "Nhad anwyl, dyma ddydd y farn wedi dyfod." Wylo dwys a distaw oedd yn llenwi'r lle. Dywedir na thorodd neb allan mewn llêf gorfoledd ar y pryd ond y llances a nodwyd.

I fyny o du y dwyrain o bentref Beddgelert, dan lethrau ysgythrog y Wyddfa, yr ymegyr Nant Gwynant, yn nghyda'r nentydd sydd yn ymagor ohoni. Ac o bob man, hyd y gwelsom ni, yma y bu natur fel yn ymorchestu i gymysgu yr aruthrol â'r prydferth. Tair milldir i fyny o'r pentref yn y cyfeiriad hwn y saif hên ffermdŷ Hafod y Llain, neu yn ol y dafodiaith gyffredin, Hafod y Llan. Bu yr hên ffermdŷ dan adgyweiriad ar ol hyny. Pa un ai yr un Sabboth ag y bu y tro hynod yn yr Ysgol Sul yn y pentref, ai y Sabboth drachefn y bu y tro hynotach fyth yn yr hên ffermdŷ hwn, nid ydym yn sicr. Pa fodd bynag, Richard Williams, Brynengan oedd yn pregethu yn y daith. Pregethai mewn tŷ anedd yn Nantmor y boreu, ac yn groes i'r arfer, yn y capel yn y pentref y prydnawn, ac yna i fyny i Hafod y Llan at yr hwyr. Digwyddai fod Mr. Elias yn pregethu y noswaith hono yn Tremadog, o fewn ryw saith milldir i Beddgelert. Ond beth oedd

hyny o ffordd i redeg i wrando John Elias? Ac er mwyn i bobl y pentref, a'r rhan isaf o'r ardal, gael ffordd rydd i fyned i wrando Mr. Elias, trefnwyd i Richard Williams fyned i Hafod y Llan. Cyfrifid yr hên frawd hwn yn Gristion cywir, yn ddyn hynod o ddiniwed, ond yn un o'r brodyr lleiaf fel pregethwr. Eto yr oedd ei ddawn bychan yn naturiol ac ystwyth, heb ddim ynddo yn boenus i'w wrando. Richard Williams o bawb fyddai cyfaill teithio Mr. Lloyd, Bala. Er fod y pellder mwyaf rhyngddynt o ran dygiad i fyny, dysg, a chyrhaeddiadau, eto dywedir fod y naill mor ddiniwed a'r llall, ac y mwynhäent gyfeillach eu gilydd yn rhagorol. Mor gydunol oeddynt, fel y safent weithiau ar eu ceffylau ar y ffordd, tra fyddai Mr. Lloyd yn egluro i'w gyfaill ryw fater yn dywyll iddo—yn llyfr y Dadguddiad, efallai—a gwrandawai y llall mor ddiniwed, fel yn deall ac yn yfed y cwbl.

Y nos Sabboth dan sylw, dyna drigolion y nentydd a'r cymoedd cyfagos, a rhai o'r pentref, yn cyfeirio tua hên ffermdŷ Hafod y Llan. Gan fod yr hîn yn hyfryd, mae pawb yn hên ac ieuanc yn codi allan; nid yn gymaint er clywed yr hên frawd o Brynengan yn pregethu, oherwydd meddwl cyffredin iawn oedd ganddynt o'r pregethwr ac o'i bregethu, eithr peth dymunol gan drigolion cymoedd anghysbell a fyddai cyfleusdra fel hyn i weled eu gilydd. Mae yr hên ffermdŷ yn llawn; ciliai y rhai ieuainc a difeddwl i'r siamber a'r tŷ llaeth, ac i rywle o'r golwg. Safai Richard Williams ar fainc wrth y bwrdd mawr yn y gegin, a bwrdd bychan crwn ar hwnw, er ffurfio math o bwlpud at ddal y Beibl. Mae yn dyfod drwy y dechreu yn fyr a hwylus; mae y canu a'r gweddïo yn gafael. Mae yn darllen ei destyn mewn tôn sydd braidd yn gwynfanus. Pa un o'r ddau air oedd hwnw, mae ein hadgof yn pallu, er i ni glywed fwy nag unwaith: naill ai "Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog," neu, "Yr hwn a ddêl ataf fi nis bwriaf ef allan ddim." Mae pobpeth yn addaw y caiff yr hên frawd bregeth rwydd. Ond cyn pen y chwarter awr y mae yma rywbeth rhagor na rhwydd. Mae nerthoedd y byd a ddaw—"*y peth yma*" y galwai Pedr ef—yn ymdywallt ar y pregethwr a'i wrandawyr—mae yn ddifrifol! mae yn ofnadwy! Ei ddesgrifio nis gellir. Er mai Richard Williams sydd yn llefaru, eto rywfodd nid ei leferydd ef ydyw; nid ei lais ef yw y llais, na'i ddawn ef yw y dawn, ac nid ei bregeth ef chwaith yw y bregeth! Yr oedd gan yr hên bregethwr ei bregeth ar y testyn; yr oedd wedi ei phregethu, mae'n debyg, lawer gwaith o'r blaen. Yr oedd ei sylwadau yn hyddysg i'w feddwl; a'r hên bregeth hono a fwriadai bregethu y tro hwn. Ond nid yr hên bregeth hono sydd yn dyfod allan, eithr rhyw bregeth newydd hollol nad oedd ganddo ddim ohoni

o'r blaen, ac nas gallodd gael gafael ar ddim ohoni drachefn. Cenadwri Duw am y tro ydoedd. Mae rhyw UN ARALL yn llefaru wrth gydwybod y gynulleidfa, ac mae yr hen bregethwr wedi colli ei hun yn hwnw! Dywedai Richard Williams ar ol hyn, ei fod yn petruso ar y pryd, pa un ai efe oedd yn pregethu, ynte gwrando yr ydoedd ar rywun arall. Wel, mae pawb wedi eu meddiannu gan ddifrifwch a dychryn. Mae y bobl ieuainc a gwamal oedd wedi cilio i'r siamber a'r tŷ llaeth wedi eu dal gan ddychryn y farn; tybient mai angel ac nid dyn sydd yn llefaru. A'r hyn oedd yn hynod, yn ol fel ein hysbyswyd: yr oedd y lluaws wedi eu meddiannu gan ormod o ddychryn i wylo. Ac ni waeddodd neb chwaith, ond un gŵr ieuanc, William Roberts, y Clogwyn, fel yr adwaenid ef wed'yn. Ac o'i enau ef yn benaf y cawsom yr hanes, a hyny rhagor nag unwaith. Addefodd iddo yn ei ddychryn waeddi yn groch, ond ni ddywedodd wrthym pa beth. Mae yr hên bregethwr, er wedi colli ei hun, yn diweddu trwy ryw lûn o weddi. Mae yn rhoddi penill allan i'w ganu; ac os yw ein hadgof yn gywir, dywedodd William Roberts fod y lluaws wedi eu meddiannu gan ormod o ddifrifwch i ganu, ond pawb yn prysuro ymaith mewn distawrwydd a dychryn. Ni ddywedai neb air y naill wrth y llall ar hyd y ffyrdd a'r llwybrau wrth fyned adref, nac ar ol myned, ond a fyddai raid. Nos Sabboth ddigwsg a fu y noswaith hon i amryw. A'r un distawrwydd prudd oedd i'w gael hyd y cymoedd hyn dranoeth. Dydd Llun tywyll ydoedd i lawer; mater enaid wedi llyncu pobpeth iddo ei hun, a'r wawr eto heb dori.

Rywbryd yn yr wythnos ganlynol, cynelid cyfarfod eglwysig yn y capel yn y pentref. Er fod yma dri lle i bregethu, nid oedd ond un cynulliad eglwysig, a chynelid hwnw y pryd hyny yn y dydd. Yr oedd y byd hwn eto heb lwyddo i hèl yr hên "seiat brofiad" i'r nos. Eisteddai y ddau hên flaenor, Rhys Williams, Hafod y Llan, a William Williams, Hafod y Rhisgl, yn y tŷ capel i aros y dechreu; yr oedd eu ffordd hwy yn mhell, ac felly deuent yn brydlawn. Ac yn wir, felly y ceir hyd heddyw: y rhai pellaf a fydd y rhai prydlonaf. Yr oedd William Williams yn ddyn prysur. Mae yn myned, ac yn brathu ei ben i'r capel i weled a ddaethai y cyfeillion yn nghyd, er mwyn cael dechreu y cyfarfod. Mae yn dyfod yn ol yn sydyn, ac yn dyweyd wrth ei frawd, "Yn siŵr dda, mae y bobl wedi camgymeryd; maent yn disgwyl am bregeth; mae'r capel yn llawn, mae pobl y plwyf i gyd yna," gan olygu, mae'n debyg, pob math ar bobl, a phobl nad oedd neb wedi meddwl eu gweled mewn *seiat* byth. Bid a fo, aeth y ddau flaenor i mewn, a mawr eu syndod; yn lle rhyw ddyrnaid wedi ymgasglu, fel y byddai arferol drwy y blynyddoedd, yr oedd y capel yn

rhwydd lawn. Nid oedd dim i'w wneyd ond hwylio rhyw frawd i ddechreu'r cyfarfod. Caed hamdden i ddarllen rhyw gyfran o'r Beibl, yna rhoed penill allan i'w ganu. Gyda llaw, mae rhywbeth mwy toddiadol a swynol wedi bod o oes i oes yn nghanu Beddgelert nag yn un man y gwyddom am dano. Pa un oedd y penill a genid ar ddechreu y cyfarfod hynod hwn, ni chlywsom. Ond tybiwn mai rhyw benill llawn o efengyl ydoedd, fel y mae genym gyflawnder yn ein hiaith. Wrth ganu y penill, mae yr argae yn tori yn un floedd fawr! Erbyn deall, llon'd capel o ddynion ar ddarfod am danynt oedd yno. Nid oedd ar y teimladau cynhyrfus a derfysgai oddifewn ond eisieu rhyw agorfa i dori; a rhoes y syniad o obaith, a geid yn y penill a genid, y rhyddid hwnw iddynt. Rhyfeddol fu y canlyniad! rhai yn llefain am drugaredd—rhai yn gorfoleddu wedi derbyn ymwared—rhai yn gweddïo—rhai yn canu—pobpeth yn blith draphlith—neb yn gofalu—neb yn meddwl am drefn! *Trefn* yn wir! dan ddylanwadau mor nerthol a hyn! rhaid i Meistar Trefn gadw draw am dro. Aeth y newydd am y cyffro yn y capel yn ebrwydd drwy y pentref, ac o dŷ i dŷ—o gwm i gwm trwy y fro, a phawb yn prysuro i'r lle, a phawb yn syrthio i afael yr un dylanwad cyffrous. Yn hwyr y dydd, neu yn hytrach yn hwyr y nos, mae y rhai mwyaf pwyllog yn llwyddo i hwylio eu cyfeillion mwy cynhyrfus tuag adref. Bellach mae y gorfoleddu oedd yn y capel yn ymdaenu i wahanol gyfeiriadau, hyd y ffyrdd a thrwy y cymoedd. Mae adsain y gorfoleddu yn cael ei gymeryd i fyny hefyd gan hên greigiau oesol y Wyddfa, y naill graig yn ymryson i ateb i'r llall. Gwaith newydd a dyeithr iawn i'r hên greigiau tragywyddol hyn oedd cael y cyfle hwn i gymeryd rhan yn nghlodforedd eu Creawdydd! O! na chaent ei gyffelyb drachefn!

Buwyd am yspaid heb gael nemawr i drefn ar na chadw *seiat* na phregethu, am y byddai y gweddïo neu ganu yn y dechreu yn rhoddi y cwbl ar dân. Ac os ceid hamdden i ddechreu pregethu, os na byddai y pregethwr yn wyliadwrus o oer, ni cha'i lonyddwch i orphen ei bregeth, gan mor danllyd fyddai teimladau y gynulleidfa. Da y sylwai y diweddar Mr. Jones, Treborth, unwaith, y byddai cael mesur o wresogrwydd yn nhymher y cynulleidfaoedd yn iechyd i gnawd ac esgyrn pregethwyr. Ac, yn wir, fe fyddai felly, yn lle bod fel yn bresenol, gorfod rhwyfo yn galed o Sabboth i Sabboth yn erbyn y llanw cryf o ddifaterwch, a'r weinidogaeth yn clecian ar galon-galedwch y genedl, fel olwynion cert ar balmant o'r ceryg caletaf. "Oddi fry," ys dywedai Richard Roberts, Caeygors, y mae ein gobaith am yr hyn a wna y callestr yn llyn dwfr.

Aeth y newydd am y cyffro rhyfeddol yn Meddgelert fel tân

gwyllt yn ebrwydd trwy'r wlad. Cyrchai y dynion o bell ac agos i weled y diwygiad; ac. yn wir, yr oedd yn werth ei weled. Byddai o werth gan yr angylion, o ran hyny, gael *trip* i'r ddaear er gweled grâs eu Duw yn gwneyd gwaith mor ogoneddus ar ei choll-edigion. Ond dyna oedd yn hynod, yr oedd y diwygiad hwn â rhywbeth yn heintus ynddo; pa air gwell? Byddai y dyfodiaid yno o ardaloedd ereill yn *catchio* yr haint, ac yn ei ddwyn gyda hwynt i'w gwahanol ardaloedd yn hollol yr un cyfryw beth ag yn Meddgelert! Pa gyfrif sydd gan yr athronwyr yna, sydd yn gwybod y dirgelion oll, i'w roddi am y ffaith hon, tybed? Ond ffaith ydyw, modd bynag. A chyn pen ychydig wythnosau neu fisoedd, yr oedd holl ardaloedd Arfon, Eifion, a Lleyn, yn un cyffro byw o adfywiad crefyddol. Daeth nifer o Ddolyddelen, fel o fanau ereill, i Beddgelert i weled y diwygiad. A dywedir eu bod wrth groesi y mynydd tuag yno, yn llawn cellwair, ac yn eu plith Cadwaladr Owen mor gellweirus a neb; ond daethant adref yn ol wedi eu lladd a'u bywhau. Yn ganlynol daeth Dolyddelen, Pen-machno, a'r cylchoedd, yn llawn o'r un deffröad, ac o'r un cyffro. Yr un modd y mae yn cyrhaedd y Penrhyndeudraeth, a thros y Traethau i Feirionydd; a pha le y bu ei derfynau eithaf, nis gwyddom. Amser rhyfedd oedd hwn! amser yr oedd dynion o bob oed, gradd, a rhyw, a llawer o rai diofal a diystyr, wrth y cannoedd a'r miloedd, yn cael eu dwysbigo yn eu calonau a'u cyffroi, a'u dychwelyd at Grist a'i grefydd. Sain cân a moliant fyddai i'w glywed drwy y bröydd, a hyny yn fynych hyd drymedd y nos. A mynai llawer fod yr angylion yn dyfod yn lluoedd i awyrgylch y ddaear i gymeryd rhan yn y cydgan. Ac nid rhyfedd hyny, gan eu bod yn cymeryd y fath ddawr yn ngwaith grâs Duw yn gwneyd saint o'i phechaduriaid. "Y canu yn yr awyr!" pa beth ydoedd, ai dychymyg ai rhywbeth arall, nid awn i ddyfalu. Ond hyn a wyddom, mai nid gwaith hawdd fyddai darbwyllo y rhai a'i clywsant i gredu nad ydoedd yn ffaith mor wirioneddol a dim a glywsant erioed. Ryw nos Sabboth yn ngwres y diwygiad, yn nhŷ Capel Coch, Llanberis, galwyd ar Mr. Richardson, Caernarfon, allan i glywed y "canu yn yr awyr," yr hwn oedd yntau yn anghrediniol o'r fath beth. Ar ol myned allan ac ymwrando, codai ei ddwylaw, a dywedai, "Dyna nhw fel sŵn dyfroedd lawer, ac fel sain telyn-orion yn canu ar eu telynau." Yn yr adeg hafaidd hon ar y diwygiad, byddai rhyw eneiniad bendigedig ar bob moddion o râs. Byddai yn hawdd pregethu—yn hawdd canu a gweddïo, a rhyw awelon hyfryd yn gwasgaru eu peraroglau gyda phobpeth. Y cwestiwn anhawdd ei benderfynu mewn teulu a fyddai, pwy a arosai gartre' i warchod; pawb am fyned i'r capel.

Byddai yn hawdd croniclo lluaws o bethau hynod a gymerodd le yn y cyffröad rhyfeddol hwn yn Meddgelert a manau ereill. Weithiau byddai deffröad a dychryn yn dal dynion yn sydyn ac ar unwaith, gan nad pa le y byddent. Megys un ferch ieuanc, merch fferm yn un o nentydd y Wyddfa, o ran pryd a pherson yn un o'r rhai mwyaf prydferth yn y fro, ac yr oedd hithau yn deall hyny, ac hefyd yn un o'r ychydig oedd yn dirmygu y diwygiad. Ond un boreu Sabboth, pan yn y fuches yn godro, disgynodd rhyw ystyriaeth i'w meddwl mor sydyn, mor nerthol, fel y torodd allan yn y fan i lefain dros y nant. A llefain am ei bywyd dan deimlad o ddychryn colledigaeth yr oedd y llances; ac nid gorchwyl hawdd a fu ei thawelu. Troes yr argyhoeddiad sydyn a hynod hwn yn wir ddychweliad i'r llances brydferth hon. Ac er na welodd henaint, eto daeth yn fam yn Israel; a chofir yn dda am ei sirioldeb hawddgar pan yn gweini i'r achos goreu. Mor wresog fyddai teimladau y lluaws y pryd hyn, fel y byddai dechreu sŵnio cânu rhyw benill yn ddigon i'w henyn i orfoledd. Dywedir fod Richard Williams, mab Hafod y Rhisgl, yn myned gyda'r forwyn yn y gert i bentref Beddgelert, ac iddynt ddechreu canu rhyw benill, ac o ganu i orfoleddu, a than orfoleddu y daethant i'r pentref. Ond nid oedd gorfoleddu y pryd hwnw yn beth mor gyffredin yn mhob rhyw le. Yr hyn a barai syndod oedd, fod y meirch wedi talu mwy o sylw i'r ffordd na'r neb oedd i'w gyru. Clywsom Richard Roberts, Caergors, Beddgelert, yn dywedyd eu bod yno, ar yr adeg boeth hon ar y diwygiad, yn cario gwair, a'i fod ef yn y gadlais yn gofalu am y dâs, ac iddo rywbryd o ben y dâs daflu ei olwg at y weirglodd, pan, er ei syndod, y gwelai griw y cae gwair wedi taflu eu cribiniau—yn gorfoleddu ac yn neidio â'u holl egni. A'r achlysur i hyn drachefn oedd dechreu sŵnio canu y penill,

> " Mae'r Iesu oll yn hawddgar,
> Ydyw'n wir;
> Mae yn well na phethau'r ddaear,
> Ydyw'n wir;
> Ennillodd ef fy nghalon;
> Ffarwel, eilunod mudion,
> Mae gwedd ei wyneb tirion,
> Ydyw'n wir,
> Yn foroedd o gysuron;
> Ydyw'n wir."

Yr ydym yn rhoddi y penill uchod yn llawn, am ei fod, yn nghyda phenillion o'r un hŷd, yn hoff benillion y diwygiad. Wel, mae yn anmhosibl i ni, mewn oes mor oer a rhewllyd ar deimladau

crefyddol ag yw yr un bresenol, gydymdeimlo â theimladau mor wresog a thanllyd, ac mor barod i dori allan yn orfoledd ag oedd y rhai hyn. Ac eto dylid cofio nad yw difrawder yr oes galed hon wedi newid dim ar bwysfawredd y pethau a gymhellir arnom i'w credu yn ngair Duw. Y mae cymaint o echryslonrwydd o hyd yn ngholledigaeth dyn, a'i weled yn glir, ag a lanwai y dyn cryfaf ei *nerve* â dychryn marwolaeth ; ac mae y fath fawredd gogoneddus o hyd yn parhau yn nhrefn grâs Duw i gadw pechadur colledig, a'i adnabod yn ngoleuni'r Yspryd, ag a roddai holl enaid dyn ar dân mewn mawl a chlodforedd! Nid oes un peth y gweddai i ni gywilyddio yn gymaint o'i herwydd a bod ein meddyliau yn rhy ddŵl i weled, a'n calonau yn rhy ddaearol i deimlo, yr hyn bethau y mae y Duwdod yn ymogoneddu ynddynt, a'r angylion yn chwenych edrych arnynt. Ond ni a gredwn, er pobpeth, fod y marwor sanctaidd—y "meddwl puraidd," i'w gael eto yn nghalonau miloedd o'n cenedl, ond ei fod dan ludw ; a phe delai yr hên awelon i chwythu arnynt, fe roddid ein Cymru anwyl eto ar dân er maint ei chlaearineb!

Yn mis Medi, yn y flwyddyn 1818, sef yn ngwres y diwygiad, y cynelid y Gymdeithasfa yn Nghaernarfon, yn yr hon y pregethodd Ebenezer Morris y bregeth hynod ar y geiriau, "Y gwaed hwn a wna gymod dros yr enaid." Pregeth i'w chofio oedd hon. Mae yr ychydig sydd eto yn fyw—a rhyw un yma ac un acw ydynt erbyn hyn—ag oedd yn gwrando pregeth "y gwaed hwn," yn cofio yn dda am dani. Nid rhaid ond ei choffa iddynt na bydd eu llygaid yn y fan yn sirioli. Er y cyfrifid Ebenezer Morris yn dywysog fel pregethwr yn mhlith ei frodyr, eto fe'i dyrchafwyd y tro hwn yn mhell uwchlaw iddo ei hun. Yr oedd ei lais yn naturiol, fe ddywedir, fel udgorn, yn uchel, yn glir, a soniarus, ac yn cynhyrfu teimladau y galon. Yr oedd pobpeth pregethwr o radd uchaf wedi cydgyfarfod ynddo yn gyflawn a phrydferth. Ond *ei floedd*, fel ein hysbysir, oedd yn coroni y cwbl. Bloeddiai ryw air fyddai yn ei destyn drachefn a thrachefn, a rhyw oleuni newydd yn fflachio i deimladau ei wrandawyr gyda phob bloedd. Yr oedd ei floedd y tro hwn wrth waeddi "Y gwaed hwn," drosodd a throsodd, yn fwy o udgorn Duw na dynol. Yr oedd Duw yn y floedd, nes yr oedd beddau yn agoryd, a meirw yn cael eu bywhau. Yr oedd dylanwad a nerth ei floedd, nid yn unig yn cynhyrfu ac yn tanio y gynulleidfa fawr oedd o'i flaen ar y maes, ond hefyd yn sobri ac yn distewi y crachfonedd oedd draw yn segura ac yn dirmygu ar fryn y Twthill. A disgynai ei floedd hefyd fel taran ar y dref, gan grëu braw a syndod ar y rhai a drigent yn y tai ac a grwydrent yr heolydd. Ië, pregeth i'w chofio a fu hon! mae pawb

a'i clywodd yn ei chofio yn mha fyd bynag y maent. Gwnaeth pregeth "y gwaed hwn" waith mawr; bu yn godiad i achos y Methodistiaid yn y dref, ac yn achubiaeth i gannoedd o bechaduriaid, fel y gellir hyderu; a bu felly i rai cymeriadau tra isel yn Nghaernarfon, ac yn eu plith un butain gyhoeddus nodedig. Daliwyd y fenyw ddrygionus hon yn ddisymwth megys â gwŷs o'r nef, ac ymddrylliai gan gnofeydd cydwybod; ond daeth y "gwaed hwn" a gobaith i'w henaid trallodedig. A bu y tro iddi yn edifeirwch i fywyd. Er y bu ei thymher naturiol wyllt yn llawer o boen iddi hi ac ereill drwy ei hoes, eto clywsom Mr. Robert Evans, yr hên ddiacon enwog yn Nghaernarfon, yn dywedyd am dani ar ryw achlysur mewn Cyfarfod Misol, yn mhen ugain mlynedd a mwy ar ol hyn, fod mwy o ôl grâs Duw ar Jane Prichard na neb a adwaenai efe. Bu y Gymdeithasfa hon, fel y gallesid disgwyl, yn hynod ar gyfrif ei gorfoledd. Ymwasgarai y dorf o'r maes i heolydd y dref, yn gannoedd, os nad miloedd, mewn hwyl gorfoledd. Rhoes hyn ail daniad i'r diwygiad, gan ei weithio rhagddo yn fwy angerddol nag o'r blaen, os oedd modd. O'r Gymdeithasfa hon y torodd y diwygiad drosodd i lànau Môn. Pa mor bell yr ymledodd dros yr ynys nid ydym yn gwybod. Os ydyw ein hadgof yn gywir, yr oedd yn ddiwygiad grymus yn Môn pan ddaeth y Gymdeithasfa yn mhen y ddwy flynedd drachefn i Gaernarfon. Ai parhad o'r un blaenorol oedd hwnw, nid ydym yn sicr.

Fel peth naturiol i'w ddisgwyl, nis gallasai cyffröad mor nerthol ag oedd y diwygiad hwn barhau am amser maith. Buasai hyny, ni a dybygem, yn ormod i'r natur ddynol yn y bywyd hwn. Mae cyffro mawr yn naturiol mewn amser yn disgyn i lonyddwch. Eto parhaodd gwres y diwygiad yn nheimladau lluaws mawr yn yr eglwysi i fesur lled helaeth am flynyddoedd. Ond fel yr oedd y cyffro yn tawelu, dechreuodd pethau dreio i'w *level* briodol. A daeth pethau poenus i ddechreu tori allan mewn cwympiadau a gwrthgiliadau; nifer nid bychan o'r rhai mwyaf tanllyd yn y diwygiad yn dychwelyd, fel yr hwch er ei golchi, i'w hymdreiglfa yn y dòm. A fu rhyw adfywiad crefyddol mewn unrhyw wlad neu oes, na byddai i'r diafol yn y diwedd lwyddo i wneyd rhyw gawl ohono i'w amcanion drygionus ei hun? Tebygol mai at gyffröadau fel y diwygiad hwn gyda'i deyrnas y cyfeiria ein Gwaredwr pan y dywed. "Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i rwyd a fwriwyd yn y môr, ac a gasglodd bob rhyw beth." Felly yn gymhwys y bu yma. A bellach, gwaith poenus yr eglwysi a'u swyddogion a fu bwrw ymaith y rhai drwg, a gwneyd y goreu o'r rhai da. Ond wedi tynu ymaith y *wear and tear*, ys dywed masnachwyr, yr oedd y cynyrch pur i'r eglwysi yn fawr dros ben.

Do, gwnaed gwaith mawr a gogoneddus, a hyny mewn amser byr! Nid oedd yn holl Arfon cyn y diwygiad hwn, os ydym yn cofio yn gywir, ond rhyw bymtheg o gapelau, a'r rhai hyny, oddieithr dau neu dri, yn rhai bychain a salw, wedi eu gwneyd y ffordd rataf. A dyna hefyd oedd rhif yr eglwysi, oddigerth fod un neu ddwy wedi dechreu ymffurfio mewn tai anedd, a'r rhai hyny hefyd yn wan a thlodaidd, a nifer ohonynt wedi bod er's amser maith yn boenus o ddigynydd. Golwg isel oedd ar Fethodistiaeth yn Arfon yn flaenorol i'r flwyddyn 1818; ond yn ganlynol i'r diwygiad bendithiol hwn, bu raid ëangu ac ailadeiladu braidd yr oll o'r capelau hyn. Ac yn bur fuan bu raid adeiladu deuddeg neu fwy o gapelau newyddion mewn manau nad oedd yr un yn flaenorol, a sefydlu cynifer â hyny o eglwysi newyddion. Mor ryfeddol y llwyddodd Gair Duw, ac y cynyddodd yr achos goreu trwy'r adfywiad hwn, fel y tybiwn, er nad oes genym ystadegau i brofi hyny, fod rhifedi yr aelodau eglwysig yn Arfon wedi treblu wrth yr hyn ydoedd yn flaenorol.

Dyma yr adeg hefyd y dechreuodd Methodistiaeth Arfon ddyfod yn enwog, goddefer y gair, ar gyfrif dyledion eu capelau. Ac y maent wedi cadw ar y blaen yn eu henwogrwydd hwn, bid a fo, hyd heddyw. Mae poblogaeth Arfon yn nghorff y triugain mlynedd diweddaf, fel y mae yn hysbys, wedi cynyddu yn llawer cyflymach nag un rhan arall o Ogledd Cymru. Ac o ddaioni Duw, y mae gwrandawiad yr efengyl wedi cynyddu bron yn gyfartal. Byddai y cynydd mor gyflym, yn enwedig yn ardaloedd y chwarelau, fel y byddai capel da yn ebrwydd yn myned yn rhy fychan, a byddai raid ei helaethu. Codai pentrefi poblogaidd mewn byr amser mewn lleoedd nad oedd neb wedi dychymygu am y fath beth yn flaenorol; a rhaid oedd i rywrai ddarparu lle a moddion crefyddol ar eu cyfer. Gwir y gwnaeth enwadau ereill eu rhan yn ardderchog at hynyma; a da fu eu gwaith: buasai y dasg yn ormod i un enwad, a hwnw braidd oll yn weithwyr. Disgynodd y gorchwyl hwn hefyd o ddarparu addoldai ar gyfer poblogaeth gynyddol ar Fethodistiaeth Arfon yn arbenig ar adeg wasgedig iawn ar amgylchiadau bydol y trigolion. Yr oedd masnach y deyrnas wedi parlysu, y gwaith yn brin, a'r cyflog yn brinach, a holl adnoddau y deyrnas wedi eu trethu i'r eithaf, oherwydd y rhyfel maith a mwyaf gwastraffus fu yn holl hanes Prydain Fawr, yr hwn oedd wedi terfynu ychydig yn flaenorol i ddiwygiad Beddgelert. Ac felly y gwaith mawr a pharhaus yn Arfon byth er y diwygiad hwnw a fu adeiladu, ac ail a thrydydd adeiladu capelau. Ac felly, wrth gymeryd pobpeth yn nghyd—wrth gofio nad oedd yn Arfon pan dorodd y diwygiad

allan ond rhyw bymtheg o gapelau bychain a salw, a bod yn yr un dosbarth yn bresenol deuddeg a thriugain, a'r rhai hyny hefyd yn adeiladau heirdd, ëang, a gorphenedig, ac y bu hefyd ail a thrydydd adeiladu ar y rhan fwyaf ohonynt, a hyny gan mwyaf gan ddosbarth o weithwyr, nid rhyfedd fod Arfon wedi cyrhaedd y fath enwogrwydd ar gyfrif ei dyled. A ydyw yn ormod i ni awgrymu, pe buasai y Methodistiaid trwy Gymru wedi anturio yn gyffelyb i'w brodyr yn Arfon, buasai ein dyled fel Cyfundeb yn aruthrol mae yn wir, *ond buasem yn gymaint arall o rifedi!* Yr hyn sydd yn dyfod yn brofedigaeth eto yw, fod amryw o'r capelau pryd-ferth a gorphenedig hyn yn Arfon ar fyned yn rhy fychain. Nid oes dim yn fwy trallodus a chapel rhy lawn ond capel rhy wag. Ond boed a fyddo, na oddefer i waliau ceryg a choed a morter gyfyngu dim ar achos y Gwaredwr. Yr ydym wedi ymdroi fel hyn, er ceisio dangos i'n brodyr mewn siroedd ereill paham a pha fodd y dechreuodd, y cynyddodd, ac y cyrhaeddodd Metho-distiaid Arfon y fath enwogrwydd ar gyfrif dyled eu capelau.

Cynyrchodd yr adfywiad nerthol hwn lu dirfawr o ddynion grymus a gwerthfawr, y rhai a ddaethant yn golofnau yn yr eglwysi, ac yn eu plith nifer helaeth o flaenoriaid a phregethwyr. Dyma a fu yn gychwyniad i John Jones, Talysarn, a'i frodyr, Cadwaladr Owen, a Moses Jones, Robert Owen, ac ereill. Mae cynyrch Diwygiad Beddgelert erbyn hyn yn mhlith y byw, modd bynag, wedi myned yn brin; ambell i hên frawd a hên chwaer yma ac acw, fel grawn addfed yn niwedd y cynhauaf; a bydd son wrthynt am y "diwygiad mawr" yn cyffwrdd â man tyneraf eu calon.

Yn ffodus iawn i ardaloedd Arfon, daeth y diwygiad hwn arnynt yn yr adeg yr oedd eu chwarelau yn dechreu ymagor i fri a phoblogrwydd; a thrwy hyny cafodd yr efengyl a'i chrefydd afael ar barch a theimlad y dosbarth pwysig hwn o weithwyr, pan nad ydoedd eto ond megys yn ei fachgendod. Ac y mae parch i Air Duw a'i weinidogaeth wedi dal gafael lled gref yn meddyliau y mwyafrif mawr o chwarelwyr Arfon a Meirion hyd heddyw. Onid yw yn ffaith lled hynod, na cheir yn mhlith miloedd chwarelwyr Arfon a Meirion gymaint ag un yn proffesu Anffydd-iaeth na Sosiniaeth! Yr ydym yn gwneyd y datganiad pwysig hwn ar ol gwneyd ymholiad. Er nad yw parch i grefydd a'i phethau ond prin ac arwynebol gan lawer, eto mae yn fil gwell na'r hyn fo gwaeth. Atolwg, a geir rhyw ddosbarth arall o weithwyr ar wyneb y ddaear mor glir oddiwrth yr heresiau dinystriol a nodwyd, ag yw chwarelwyr Gogledd Cymru? Gwir fod meddwdod ac afreolaeth wedi cynyddu yn ddirfawr yn ddi-

weddar yn mhlith y dosbarth hwn fel gyda phob dosbarth o ddynion. Tybia dyeithriaid wrth gyfarfod â nifer o chwarelwyr ieuainc ar yr heol, ar y *station*, ac yn y *train*, &c., a'u gweled mor feddwon ac afreolus, fod y chwarelwyr fel dosbarth yr isaf mewn cymdeithas. Nis gall dim fod yn fwy camsyniol. Erbyn gwneyd cyfrif lled fanwl, yn ddiweddar caed allan nad oedd y rhai meddwon afreolus yn eu plith ond rhy brin yn chwech neu saith y cant. A ellir dywedyd hyn am ryw ddosbarth arall o ddynion, isel neu uchel? Mae i'r chwarelwyr eu diffygion luaws, bid gwir, ac mae iddynt le mawr i ymwellhâu, ond mae iddynt hefyd eu rhagoriaethau. Pa ddosbarth o ddynion, a chymeryd y mwyafrif mawr o honynt, a geir mor barchus i Air Duw a gweinidogaeth yr efengyl? pa ddosbarth yn pwrcasu cymaint o bob llyfrau? pa ddosbarth mor haelionus at bob gwaith da? a pha ddosbarth a chynifer o honynt yn llwyrymwrthodwyr oddiwrth ddiodydd meddwol? Ond pa ragoriaeth bynag a berthyn iddynt fel adran fawr o'r dosbarth gweithiol, mae y cwbl i'w briodoli i ddylanwad efengyl Crist. Am danynt fel dosbarth dywedwn yn ngeiriau Cowper am Brydain,

"With all thy faults, I love thee still."

Medi, 1878.

---

## GOLWG AR ADFYWIAD CREFYDDOL Y FLWYDDYN 1832.

Fel y mae yn hysbys i'r rhai sydd mewn oed i gofio, bu amryw adfywiadau neu ddiwygiadau crefyddol trwy ranau o Ogledd Cymru, ac am a wyddom ni trwy ranau o'r Deheudir, ar ol yr un a ddechreuodd yn Meddgelert, at yr hwn y cyfeiriasom yn yr ysgrif flaenorol, pan oedd "bŷs Duw" mor amlwg. Y cyntaf a ganlynodd a dorodd allan yn y flwyddyn 1832; o leiaf, dyna yr adeg yr oedd yn ei rym yn Arfon. Wrth fyned heibio, gallwn nodi mai blwyddyn i'w chofio a fu hon yn hanes Prydain Fawr, gan mai dyma y flwyddyn y pasiwyd y *Reform Bill*, a hyny wedi yr ymdrech mwyaf egnïol a phenderfynol gan y Torïaid yn ei erbyn, a chan y Whigiaid o'i blaid; ymdrech mor fileinig, yn wir, ag a beryglodd yr orsedd a bodolaeth Tŷ yr Arglwyddi, ac a ddygodd y wlad o fewn dim i ddiphwys chwyldröad. Ond tra yr oedd rhanau ereill o'r deyrnas yn y cyffro politicaidd mwyaf, yr oedd Cymru dawel, oedd hyd yn hyn heb ymddeffro i gwestiynau politicaidd, yn cael ei deffroi gan adfywiad crefyddol, a'i dyfrhau

â chawodydd bendithiol efengyl y tangnefedd. Er nad oedd y diwygiad hwn yn llawn mor rymus a'r un a ddechreuodd yn Meddgelert, eto yr oedd yn fwy cyffredinol. Hyd yr ydym ni yn gallu cofio, bu diwygiad 1818 braidd yn gwbl gyda'r Methodistiaid, a brodyr parchus o enwadau ereill yn ei ddiystyru, gan ei gyfrif yn benboethni Methodistaidd. Eithr am ddiwygiad 1832, yr oedd pob enwad fel eu gilydd yn ei werthfawrogi ac yn ei fwynhau. A da iawn fu hyny. Yr oedd y Methodistiaid, ar ol cael y diwygiad blaenorol braidd yn gwbl iddynt eu hunain, yn y brofedigaeth o dybied eu bod hwy yn fwy yn ffafr y Goruchaf na Chyfundebau ereill, ac mai yr eiddo hwy oedd y diwygiadau. Ond trwy yr adfywiad diweddaf hwn, cawsant ddeall "nad yw Duw dderbynïwr wyneb, eithr yn mhob cenedl," yn mhob enwad, "y neb sydd yn ei ofni ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymeradwy ganddo ef." A gwelodd yr amrywiol enwadau Ymneillduol fod y diwygiadau hyn yn bethau i'w ffafrio yn hytrach nag i'w dibrisio; a chawsant eu rhan.

Nid yw ein hadgofion, rywfodd, yn gallu bod mor fanwl gyda'r modd, y lle, a'r pryd, y dechreuodd yr adfywiad hwn â'r un a ddechreuodd yn Meddgelert, pe byddai hyny o ryw bwys. Eithr dechreuodd y tu hwnt i'r Eifl, yn Lleyn neu Eifionydd, os nad oedd yn cyd-ddechreu mewn amryw fanau braidd ar unwaith. Yn mis Medi yn 1831, mewn Cymdeithasfa yn Mhwllheli y pregethodd Mr. Elias y bregeth hynod ar y geiriau "Cyfoded Duw, gwasgarer ei elynion, a ffoëd ei gaseion o'i flaen Ef." A chydnabyddir fod y bregeth ryfeddol hon wedi parotoi yr eglwysi i'r diwygiad grymus a dorodd allan yn mhen rhai misoedd ar ol hyn. Un o lawer o droion hynod Mr. Elias a fu y bregeth hon. Mae yr ychydig o'i gwrandawyr ag sydd eto yn fyw yn cofio yn dda am dani hyd heddyw. Byddai Mr. Elias bob amser, fel y mae yn hysbys, yn arfer bod yn feistr y gynulleidfa. Gwrandawsom lawer arno; ond ni chlywsom ef erioed yn digwydd bod yn llai nag ef ei hun, fel y digwyddai i bregethwyr ereill, pa mor enwog bynag. Yn wir, byddai yr olwg ar John Elias pan y cyfodai ac y safai gerbron cynulleidfa, ar unwaith yn ei meistroli. O leiaf, felly y gwelsom ac y teimlem ni. Yr oedd yr olwg ar Elias y tro hwn yn Sasiwn Pwllheli, pan y safai o flaen y gynulleidfa fawr, ac y darllenai ei destyn yn bwyllog a hyglyw, yn deffro ystyriaeth y dyrfa fod ganddo genadwri Duw i'w chyhoeddi, a'i fod ef ei hun yn teimlo i'r byw oddiwrthi; a bu raid i'r gynulleidfa deimlo felly cyn y diwedd. Ai nid dyma yn wastad ddirgelwch pregethu llwyddiannus? Pan y dwysdeimla pregethwr, bydd raid i'w wrandawyr deimlo rhywbeth. Atolwg, a oes dim nodiadau o'r

bregeth hynod hon i Mr. Elias wedi eu cadw gan neb? Mor bell ag yr ydym yn gallu cofio, darfu iddo, wrth gymhwyso ei destyn at agwedd bresenol y wlad, gyda'i hyawdledd anghydmarol, dynu darluniad tywyll a phrudd o agwedd foesol a chrefyddol y genedl; pechu rhyfygus a phenuchel oedd ar gynydd ac yn llenwi y wlad, a hyny yn nghanol goleuni yr efengyl, a bod y drygau oedd yn llifeirio yn y byd oddiallan yn tori i mewn yn llifeiriant i'r eglwysi, "y gelyn yn dyfod i mewn fel afon," a disgyblaeth yr eglwysi yn rhy lesg i'w atal, ac o'r herwydd fod yr Arglwydd yn cuddio ei wyneb oddiwrthynt; ac yn gerydd ar ei bobl oherwydd eu balchder ysprydol a'u hunan-ddigonedd, yn eu gadael i fyned yn mlaen gyda'i waith heb ei gynorthwyon grasol, megys yn awgrymu iddynt, "Gan eich bod yn gallu gwneyd hebof fi, myfi a äf ac a ddychwelaf i'm lle, hyd oni chydnabyddoch eich bai a cheisio fy wyneb; ewch chwithau rhagoch fel yr ydych: pregethwch, dysgwch, a llwyddwch." Och ni! meddai y pregethwr hynod, llwyddo heb Dduw! llwyddo i lenwi y wlad â gwatwarwyr, a'r eglwysi â rhagrithwyr! Nid rhyfedd, gan hyny, fod ei gaseion Ef mor hŷf, a'i elynion yn gofyn mewn dirmyg, Pa le yn awr y mae eich Duw chwi? Fel hyn yr elai Mr. Elias yn mlaen gyda'i ddarluniad tywyll, gan ddefnyddio ymadroddion cryfion a chynhyrfus, ac â'i hyawdledd llifeiriol yn cario y cwbl o'i flaen. Erbyn hyn, dyma y gynulleidfa fawr wedi ei meddiannu gan brudd-der dwys, a'i chau i fyny mewn tywyllwch oedd yn ymylu ar anobaith. Gofynai aml un iddo ei hun, "Wel, wel, pa beth ddaw ohonom?" a gruddfanai y lluaws dan faich y genadwri. Ar hyn, yn ol ei arfer, pan fyddai ei feddwl yn llawn cyffro, ac am daflu rhyw wirionedd adref, wele y pregethwr am foment yn ymatal; a theimlai pawb fod

> "Ei atal ddywedyd
> Yn gyfrwng o'i hyawdledd cu."

Tybiai llawer fod disglaerdeb wynebpryd angel yn ei wedd. Yna gan ddyrchafu ei law, a chyfeirio â'i fŷs, codai ei olygon tua'r nef, ac ar ben ei lais uchel, clir, gwaeddai, "CYFODED DUW, GWASGARER EI ELYNION, A FFOED EI GASEION O'I FLAEN EF?" Os nad oedd y ddaear dan draed y gynulleidfa yn crynu, fel y tybiai rhai, yr oedd uffern yn crynu! Yr oedd nerthoedd y byd a ddaw yn y lleferydd. Mae teimladau prudd ac ochain distaw y miloedd yn cael gollyngdod mewn goleuni gobaith—pob llygad yn ffynon o ddagrau—yr Amenau i'r weddi heb rifedi, a'r un modd y diolch—diolch—diolch, yn ngwyneb fod gobaith eto. Yna elai y pregethwr rhagddo bellach, mewn rhyw hyawdledd goruwch-ddynol, i ddar-

lunio pa beth a fyddai i'r eglwys—i'r byd—i'w elynion a'i gaseion, pan *gyfodai Duw*. Byddai ceisio darlunio yr hyawdledd rhyfedd, yn nghyda'r dylanwad gorthrechol ar y gynulleidfa fawr, yn rhwym o fod ynom yn fethiant truenus. O'r diwedd boddwyd llais uchel a chlir y pregethwr gan lêf gorfoledd y dyrfa luosog. Bu y bregeth nerthol hon yn foddion i ddychwelyd lluaws i'r eglwysi ar y pryd. Ac er na thorodd y diwygiad allan yn union-gyrchol, eto bu pregeth Mr. Elias yn barotoad bendithiol iddo. Gwelodd a theimlodd pobl grefyddol Lleyn ac Eifionydd fod yn rhaid cael Duw i lwyddo ei waith, ac os ydoedd wedi darfod o'r ddaear, nad ydoedd felly o'r nefoedd. Ac ni adawsant lonydd iddo hyd oni chyfododd a thrugarhau wrth Seion.

Rywbryd cyn diwedd y flwyddyn hon (1831), yr oedd pregethwr arall, ac un ofnadwy a dyeithr, wedi cychwyn i'w daith o rywle yn nghanolbarth Asia, gan deithio yn gyflym trwy Rwssia, Awstria, a Germany a pharthau ereill y Cyfandir, gan greu dychryn a gwneyd galanastra yn y ffordd yr elai—*y* CHOLERA *marwol*. Yr oedd y son am ei ddynesiad yn peri arswyd yn meddyliau pawb. Cyn hir daeth y newydd ei fod wedi tirio yn Ngogledd Lloegr, ac ar fyr daeth i Gymru. Nid oedd yn arbed na gradd nac oed; yr oedd ei saethau angeuol yn cyraedd y palas fel y bwthyn. Ac i chwanegu at y dychryn, ni wyddai y meddygon yn y byd pa beth i'w wneyd o hono, gan fel yr oedd mor hollol ddyeithr iddynt. Rywbryd yn ngwanwyn 1832, cyhoeddwyd dydd o ympryd i ymostwng ger bron Duw oherwydd y pla, ac i erfyn am arbed-iad. A'r fath oedd yr arswyd a feddianai bawb, fel y caed pob llàn a chapel yn llawn am y diwrnod hwnw, bid a fo. Bu ymwel-iad y pregethwr arswydus hwn yn foddion i brysuro yr adfywiad crefyddol rhagddo, yr hwn oedd eisoes wedi dechreu ymdaenu tua Lleyn ac Eifionydd, trwy ddifrifoli meddyliau dynion a'u deffroi i ystyriaeth o'u perthynas â byd arall. Atolwg, ai nid yw y difaterwch trwchus o genadwri dyner yr efengyl, sydd yn bresenol wedi ymdaenu fel niwl barug dros fyd ac eglwys, yn cymhell Duw i anfon y pregethwr erchyll hwn, neu ryw un cyffelyb iddo, i'n deffroi o'n trwmgwsg ysbrydol? Gŵyr Duw pa fodd i daro fel y bydd raid i bawb deimlo.

Fel y crybwyllasom, y tu hwnt i'r Eifl yn Lleyn ac Eifionydd dechreuodd ac yr ymdaenodd y diwygiad hwn gyntaf. Yr ydym yn cofio yn dda fel yr oedd ei sŵn yn dyfod i Arfon o'i flaen. Yr oedd y son am dano yn creu syched am ei gael, fel am y gwlaw ar amser sychder, a hyny hefyd yn barotoad i'w dderbyn. Mawr oedd y llawenydd pan ddeallwyd ei fod wedi tori allan tua Chlynog a Llanllyfni. Yn mhen enyd yr oedd holl ardaloedd

Arfon yn un berw byw o adfywiad crefyddol. Pa fodd y bu mewn siroedd ereill, nid oes genym yr un fantais i wybod ; ond yr ydym yn tybied i ranau helaeth o'n gwlad gael eu dyfrhau gan y cawodydd graslawn hyn.

Cynyrchwyd y diwygiad hwn, fel yr un o'i flaen a ddechreuodd yn Meddgelert, gan dywalltiad grymus o'r Ysbryd Glân trwy weinidogaeth y gair ; y pregethu wedi ei wisgo â nerth o'r uchelder. Nis gallasai hyawdledd na dawn dynol ar eu heithaf gynyrchu y fath effeithiau, na dim yn debyg. Nid oedd pregeth rymus Mr. Elias yn Mhwllheli ond blaenbrawf o lawer o bregethau yr un mor nerthol a fu trwy y wlad cyn pen y deuddeng mis. Peth cyffredin y pryd hwnw a fyddai cynulleidfa yn cael ei gorchfygu yn llwyr gan nerth yr efengyl ; nid nerth hyawdledd dynol—yr oedd hwnw y pryd hyn ar ei uchelfanau—ond "NERTH DUW" os gwelwch yn dda !—a'r gynulleidfa dan ei ddylanwad yn toddi yn foddfa o ddagrau, ac o'r diwedd yn gorfod tori allan mewn llêf gorfoledd. Ar rai adegau, byddai y Nerth Dwyfol yn tori i mewn yn sydyn heb ei ddisgwyl, megys gydag un gair, fel gwynt nerthol yn rhuthro ac yn llenwi y lle, annuwioldeb mewn dychryn, y caledgalon yn toddi yn llyn—cydwybod yr anghredadyn yn gorfod tystio fod Duw yn wir yn llanw y lle ! Peth a welwyd, a pheth a brofwyd gan lawer sydd eto yn fyw, ydoedd hyn. "Y peth hwn" y galwai Pedr ef ; ond "*y peth hwnw*" y gelwir ef bellach gan y nifer fu yn dystion ohono.

Ië, y weinidogaeth nerthol ! mae yn amheus genym a fedyddiwyd yr un genedl â chymaint o'r *nerthol* gyda gweinidogaeth y gair ag a brofwyd genym ni fel cenedl a chyfundeb, yn enwedig yn adegau y diwygiadau grymus a fu genym dan sylw, yn nghyda'u cyffelyb yn flaenorol iddynt. Gelwir y dylanwad Dwyfol hwn yn "nerthoedd y byd a ddaw." A pha enw mwy priodol ? y byd mawr, ysprydol ac anweledig, yn gollwng rhyw fesur prin o'i gynwys ei hun i'n byd bychan a daearol ni ! Pa ryfedd, gan hyny, ei fod yn beth mor ddyeithr, mor nerthol, ac mor annirnadwy ? gwasanaeth a chynulleidfa grefyddol dan eneiniad yr Yspryd Glân. O ! mor brydferth ac mor ogoneddus ! Mae yn deilwng o sylw nad yw y "peth hwn" byth yn disgyn i'n daear ni ond yn ei gynulliad priodol ei hunan. Ni adnabyddwyd mohono erioed mewn na Senedd na chwareudŷ, mewn *Concert Hall* nac Eisteddfod, nac un cynulliad arall o dalentau dynol, ond yn unig yn y cynulliad hwnw ag y mae yr Iesu bendigedig wedi addaw bod yn ganolwr iddo. Y *nefolion leoedd* o hyd ydyw y fan i ddisgwyl am y *nefolion bethau.*

Yn mhob adfywiad crefyddol y gwyddom am dano, byddai rhai

pregethwyr yn fwy nag ereill yn cael eu bedyddio âg yspryd y diwygiad. A digwyddai weithiau fod pregethwyr o ddoniau digon cyffredin â'u gweinidogaeth am yr adeg, dan eneiniad yr Yspryd, yn gwneyd gwaith mawr, ac am y pryd yn cael eu dyrchafu yn anrhaethol uwchlaw iddynt eu hunain; ond y brodyr hyny, drachefn, ar ol i'r cyffro dawelu, yn disgyn i'w *level* briodol, ac weithiau islaw hyny. Byddai Duw trwy hyny yn dangos fod "ffolineb Duw yn ddoethach na dynion, a gwendid Duw yn gryfach na dynion." Yr oedd cewri fel pregethwyr yn y wlad yn adeg y diwygiad sydd genym dan sylw. Yr oedd John Jones, Talysarn, y pryd hwn, yn nghyflawnder ei nerth, ac wedi ei lenwi âg yspryd y diwygiad. Cofir yn dda gan lawer sydd eto yn fyw, fel y byddai ei weinidogaeth nerthol, yn arbenig y pryd yma, yn berwi y cynulleidfaoedd lluosog a gyrchai i wrando arno pa le bynag y byddai. Yr oedd nifer o frodyr ereill, a gyfrifid yn llawer islaw iddo ef fel pregethwyr, eto wedi eu bedyddio â mesur helaeth am y pryd o'r un yspryd; a bu eu gweinidogaeth yn fendithiol i droi llaweroedd at yr Arglwydd. Ond dichon mai y mwyaf llwyddiannus yn adeg y diwygiad hwn, fel, yn wir, trwy ei oes, i ddeffroi meddyliau dynion a'u dychwelyd at Grist a'i grefydd a fu Cadwaladr Owen, Dolyddelen. Yr oedd John Williams, Llecheiddior, hefyd y tymor hwn, ys dywedai Mr. Lloyd, Beaumaris, am dano, fel ôg fawr yn rhwygo ac yn dryllio y ffordd yr elai. Yr oedd gweinidogaeth ysgythrog y gŵr hynod hwn yn cael gafael, rywfodd, ar ddosbarth o ddynion ag yr oedd pregethu pawb ereill yn eu pasio. Yr ydym yn cofio fod Mr. Griffith Hughes, Edeyrn, er's llawer blwyddyn bellach, mewn cyfarfod o bregethwyr mewn Cwrdd Misol yn Moriah, Caernarfon, yn gwneyd sylw i'r perwyl a ganlyn: mai "anffawd i ni fel Cyfundeb a fyddai i'r pregethwyr oll fyned yn rhy debyg i'w gilydd; fel cywion gwyddau, yr un faint, yr un lliw, a'r un llûn." Yr oedd hyny ar y pryd yn cael ei ddarogan—y byddai i goethder a disgyblaeth dysgeidiaeth Athrofäol leihau, os nad dinystrio, y gwahaniaeth naturiol rhwng dynion â'u gilydd. Ychwanegai Mr. Hughes, "Dyna yr hên frawd, John Williams, Llecheiddior, wedi cadw noswŷl. Yr oedd ganddo ef ddosbarth o wrandawyr nad oedd neb arall yn gallu pregethu iddynt. Mae ei wrandawyr ef bellach wedi eu gadael heb bregethwr. Gobeithio y cyfyd Duw rywun i bregethu i wrandawyr John Williams." Clywsom am un o'r dosbarth hwn yn dyfod i'r capel i wrando John Williams un boreu Sabboth, ac yn myned adref dan ei regu, ac eto yr un creadur barbaraidd yn prysuro i gapel arall i'w wrando at yr hwyr, ac yn myned adref dan weddïo. Mae y dosbarth yma wedi cynyddu yn ddirfawr yn ein hardaloedd

poblogaidd er y pryd hwnw, ac y maent eto, rywfodd, heb neb i bregethu iddynt. A pha ryfedd eu bod mor farbaraidd? Ystyriwn mai priodol gwneyd yr adgof hyn o'r hên frawd o Lecheiddior, gan y bu ei weinidogaeth arw mor fendithiol i laweroedd, yn arbenig yn adeg yr adfywiad dan sylw.

Er nad oedd y diwygiad hwn mor nerthol, o ran ei effeithiau ar gorff a theimlad a'r un blaenorol, eto byddai arddeliad anghyffredin yn fynych ar y pregethu, a llawer yn tori allan mewn hwyl gorfoledd. Ond plant a phobl ieuainc, gan mwyaf, a fyddai yn cadw mwyaf o dwrf. Bu yr adfywiad hwn yn achubiaeth i nifer luosog o bechaduriaid, fel y profodd eu bywyd dilynol. Ychydig ohonynt bellach sydd i'w cael yn mhlith y rhai byw. Heb son am yr hyn a wnaed mewn siroedd ereill, ac yn mysg enwadȧu ereill, ychwanegwyd drwyddo rai miloedd o eneidiau at eglwysi y Methodistiaid yn unig yn Sir Gaernarfon.

Eithr, megys yn niwedd pob adfywiad cyffrous, pan dderfydd y cyffro, ac yr oera y teimladau, y bydd llawer yn dychwelyd at eu hên arferion, felly hefyd y bu yn niwedd yr adfywiad hwn. Yr oedd diota a meddwdod eto mewn rhwysg. Dirwest, fel cymdeithas, heb ei geni, na neb yn breuddwydio am dani, ac eistedd yn y dafarn yn cael edrych arno gan bawb yn beth digon parchus. Bu hyny yn fagl i lawer. Ond anlladrwydd yn benaf a fu yn nithio disgyblion ieuainc y diwygiad. Fel yr oedd y diwygiad yn oeri, gwnaeth y drwg hwn hafoc difrifol yn yr eglwysi, a hyny hefyd ar ryw nifer o'r rhai mwyaf poethlyd yn ngwres y diwygiad. Wrth weled hyny, tybiodd rhai fod yr hyn a fyddo yn deffroi ac yn gwresogi teimladau y galon yn gwneyd dynion hefyd yn fwy agored i ymosodiadau chwantau anianol; ac os na bydd y cyfryw deimladau gwresog dan ddylanwad sancteiddiol yr Yspryd Glân, mae yn bur debyg y gall hyny fod yn gywir.

Pa fodd bynag, daeth un daioni parhaol o'r diwygiad hwn. Hyd y gwelsom ni, byddai pob diwygiad yn deffroi yr eglwysi at ryw waith penodol a fyddai wedi ei ordeinio iddynt gan eu Harglwydd. Trwy ddiwygiad Beddgelert, deffrowyd eglwysi Arfon, yr ydym yn sicr, i feddiannu y "tir lawer iawn oedd eto i'w feddiannu." Yr ydym yn enwi Arfon o hyd, am mai am y rhan hon o'r wlad y gwyddom oreu. Y daioni anmhrisiadwy a ddaeth i eglwysi Arfon, ac am a wyddom na bu yn gyffelyb mewn manau ereill, trwy adfywiad 1832, oedd eu deffroi i dalu mwy o sylw ar, ac i arfer gwell gofal am, y plant a fegid ynddynt. Er y byddai plant proffeswyr yn cael eu cychwyn yn yr eglwysi yn flaenorol i hyn, ac mewn rhai manau yn cael eu harfer i "ddywedyd eu hadnodau," ac y byddai cyfarfodydd a elwid yn "seiat y plant" yn cael eu

cynal yma ac acw ; eto, rywfodd, nifer bychan mewn cymhariaeth o'r plant hyny a fyddai yn aros yn yr eglwysi i oedran priodol i'w derbyn i gyflawn aelodaeth. Byddent yn ymadael o'r eglwysi yn dô ar ol tô, pan gyrhaeddent ddeuddeg neu bymtheng mlwydd oed. Barnai yr hên bobl nad cymhwys derbyn rhai pur ieuainc i gymundeb heb argoelion lled glir ynddynt o ofn yr Arglwydd. O leiaf, felly y byddent o fewn y cylch adnabyddus i ni. Pe buasai ystadegau yn cael eu casglu a'u cyhoeddi y pryd hwnw fel yn bresenol, ni a dybiem y buasai y nifer ar y golofn, "Derbyniwyd o hâd yr eglwys" yn druenus o fychan. Ond gan fod yr adfywiad hwn yn dylanwadu mor rymus ar blant a rhai pur ieuainc, dechreuwyd meddwl o ddifrif am wneyd y goreu ohonynt. Ac os ceid rhyw argoel o ddifrifwch crefyddol ynddynt, hwy a dderbynid yn bur ieuainc i gyflawn aelodaeth. Ac o hyny hyd yn bresenol, derbyniwyd llawer mwy, fel yr ydym ni yn credu, i aelodaeth eglwysig o hâd yr eglwys, fel eu gelwid, nag a dderbyniwyd o'r un cyfeiriad arall. O'r "hâd sanctaidd" hwn bellach y gwneir i fyny y corff mawr o'n pregethwyr, a'n blaenoriaid, a'n prif ddynion. Cyflawnodd yr Arglwydd yn nodedig ei addewid arnom, "Tywalltaf fy Yspryd ar dy hâd, a'm bendith ar dy hiliogaeth ;" a daeth y meibion yn lle y tadau yn dywysogion—yn swyddwyr a dynion blaenllaw—gyda'r gwaith da trwy holl eglwysi y Cyfundeb; a'r un modd daeth y merched yn lle y mamau i weini i'r Iesu a'i achos. Ni a gredwn mai diwygiad 1832, yn benaf oll, a roes y symbyliad hwn o wir ofalu am hâd yr eglwys yn ein Cyfundeb. Ac mor ryfeddol a fu y ffrwyth ! Os ydym, fel yr ofna rhai, wrth dderbyn rhai ieuainc fel hyn i gyflawn aelodaeth, oherwydd rhyw ddiffygion neu gilydd, yn dwyn i mewn i'r adeiladaeth eglwysig fwy nag a fyddai ddymunol o'r defnyddiau diwerth, coed a gwair, a sofl, yr ydym trwy yr un moddion yn cael i'r adeilad y defnyddiau mwyaf gwerthfawr, aur, arian, a meini drudfawr ; defnyddiau y bydd eu gwir werth a'u rhagoriaeth o hyd yn dyfod yn fwy-fwy i'r golwg.

Rhagfyr, 1878.

---

## ADFYWIAD CREFYDDOL Y BLYNYDDOEDD 1839 A 1840.

Cyn dyfod i ddechreu ymdroi gyda'r adfywiad bendithfawr a fu yn y blynyddoedd a nodir yn y penawd uchod, priodol, dybygem, fyddai aros ychydig gyda diwygiad arall, yr hwn, os nad oedd yn hollol o natur grefyddol, eto ydoedd y peth nesaf at hyny, sef y

Diwygiad Dirwestol, neu Lwyr-ymataliaeth, fel ei gelwid ar y cyntaf. Yr oedd yr ysgogiad llwyr-ymataliol wedi cychwyn, a gwneyd gwaith mawr, yn flaenorol i'r adeg a nodwyd uchod, ac wedi parotoi y ffordd yn rhagorol i'r adfywiad crefyddol a ganlynodd. Yn wir, yr oedd y diwygiad a'r adfywiad, y naill yn rhedeg i'r llall, fel nas gellid ac nas dylid ceisio eu gwahanu.

Yn flaenorol i doriad allan y diwygiad llwyr-ymataliol, yr oedd diota a meddwdod wedi cyrhaedd eu pwynt uchaf. Yr oeddynt fel llifeiriant o lanw cryf, o hyd yn codi yn uwch uwch, ac yn bygwth boddi y genedl, pob oed a gradd, mewn diluw o anghymedroldeb. Yr oedd yr ymarfer â diodydd meddwol wedi dyfod yn gyd-blethedig â holl arferion y genedl, yn gymdeithasol, teuluaidd, a chrefyddol. Tybid nas gellid na phrynu na gwerthu, trafaelio na gorphwys, bwyta na chysgu, pregethu, priodi na chladdu, heb eu symbyliad. Ystyrid na byddai y croesaw yn gyflawn mewn tŷ capel na lletty, nac unrhyw dŷ arall, oni ddygid y ddiod feddwol i'r bwrdd. Edrychid ar fasnachu mewn diodydd meddwol mor barchus ag unrhyw fasnach—cadw tafarn mor barchus a chadw siop. Yr oedd eistedd ac ymdroi yn y dafarn, hyd oriau hwyr, yn beth a dybid nad oedd gan neb hawl i'w feio. Ni chyfrifid undyn yn feddw os gallai rywfodd eistedd ar ei farch, neu gerdded y ffordd heb syrthio i'r clawdd ac i'r ffos. Trwy fod mor hawdd cael trwydded i werthu diodydd meddwol y pryd hwnw, yr oedd yr holl wlad wedi ei llenwi â thafarndai, a llawer ohonynt yn gutiau o'r fath isaf yn mhob ystyr. Ac i chwanegu at yr aflwydd, yr oedd disgyblaeth eglwysig yn yr achos o ddiota a meddwdod, mewn lluaws mawr o eglwysi, yn llesg, gan nad oedd llawer o'r swyddogion eu hunain yn ddigon dieuog i'w gweinyddu. Mae llawer o gwyno genym, ac nid heb achos, oherwydd y cynydd dychrynllyd sydd wedi bod ar ddiota a meddwdod yn y blynyddoedd diweddaf; ond y mae eto bellder dirfawr rhwng y drygau hyn â chyfodi i'r pwynt uchel y buont unwaith; ac, yn wir, ni chyfodant i hyny byth mwyach, gwnaed uffern a'i hofferynau eu gwala.

Yr oedd llawer o bobl grefyddol a dyngarol yn ystyriol o'r sefyllfa ddifrifol yr oedd y wlad ynddi, ac eto yn methu gwybod pa fodd i atal y pla, a gwaredu y genedl rhag y trychineb ofnadwy oedd yn bygwth llwyr ddinystr. Yr oedd pob pregethu, dysgu, a rhybuddio hyd yma yn rhy wan i atal y genllif. Yr oedd hên arferion y wlad, a'r cawr o feddwdod, yn eu dirmygu. Yn gyntaf oll, ffurfiwyd a dechreuwyd sefydlu Cymdeithasau Cymedroldeb, fel eu gelwid. Yr oedd y cymdeithasau hyn yn anog llwyr-ymataliad oddiwrth bob gwirodydd poethion, ond yn caniatau ymarfer cymedrol o bob diodydd meddwol ereill. Dechreuwyd

sefydlu y cymdeithasau daionus hyn, fel llawer o bethau daionus ereill, yn America. Yn bur fuan daethant i'r wlad hon, ac yn ebrwydd yr oedd gan bob ardal trwy Gymru ei Chymdeithas Cymedroldeb. Un daioni a gynyrchodd y cymdeithasau hyn oedd agoryd llygaid dynion da i weled anferthwch drygau y diodydd meddwol, ac nad oedd nemawr ddewis arnynt. Yr oedd drygedd meddwdod yn weledig i bawb o'r blaen, ond yr oedd drygedd y diodydd a'i cynyrchai, rywfodd, o'r golwg. Gwelwyd yn fuan fod y cymedroldeb hwn yn rhy wan i gyfarfod â'r mawr-ddrwg. Yr eithaf a ellid ddisgwyl oddiwrtho fyddai cadw dynion cymedrol rhag myned yn anghymedrol; ond am waredu y meddwon gwelwyd ei fod yn ddirmygus o eiddil at y fath amcan.

Yn America drachefn y cychwynodd yr ysgogiad llwyr-ymataliol. Mae ein cefndryd yr ochr arall i'r Werydd wedi rho'i cychwyn i beth mawr o ddaioni yn mhob rhyw fodd. Mýnai Jonathan Edwards mai yno y dechreua y milflwyddiant; ac y mae yr argoelion o hyny erbyn hyn yn llawer cryfach nag yn ei ddyddiau ef. Llyncwyd yr *idea* o lwyr-ymataliad yn bur fuan yn y deyrnas hon. Yn Preston, yn Lancashire, os ydym yn cofio yn gywir, y sefydlwyd y Gymdeithas Lwyr-ymataliol gyntaf o fewn Prydain; rhyw frawd yno ag atal dywedyd arno, meddir, yn ei sêl yn gwaeddi y gair *total* yn *te-e-total*, a fu yn achlysur i roddi yr enw *teetotal* ar yr ysgogiad. Daeth yr enw hwn yn un cyffredin ar lwyr-ymataliad, yn enwedig gan ei ddirmygwyr. Yn y flwyddyn 1835, yn un o gapelau Lerpwl, y ffurfiwyd y Gymdeithas Lwyr-ymataliol gyntaf yn mhlith y Cymry. Os oes rhai o'r ysgub flaenffrwyth hono i'w cael yn mhlith y byw, ac wedi parhau yn ffyddlawn i'w hymrwymiad, yr ydym yn barnu y teilyngant hwy fawr sylw a pharch.

Yr ydym yn cofio yn dda fod gŵr o Lerpwl o'r enw Robert Williams, tua'r adeg hon, yn dyfod ar ymweliad at berthynasau iddo yn ardal Dinorwig, ac yn llawn o'r sêl lwyr-ymataliol. Cyhoeddwyd cyfarfod iddo yn y capel i ddwyn yr achos i sylw yr ardalwyr. Aeth y cyhoeddiad yn ferw gwyllt trwy y chwarel, a llanwyd y capel. Y noswaith hono yn nghapel Dinorwig, cawsom y fraint, yn nghyda dau o frodyr ereill yn y weinidogaeth, o lawnodi yr ymrwymiad llwyr-ymataliol; y tri phregethwr cyntaf, dybygem, a wnaeth hyny yn Nghymru. Gcddefer hyn o fôst. Y ddau ereill oeddynt y Parch. Thomas Edwards, gweinidog yr Annibynwyr yn Ebenezer, a'r Parch. Ellis Foulkes, yn ddiweddaf o Upper Bangor; gwŷr da a fuont ffyddlawn yn ngwasanaeth eu Harglwydd hyd eu bedd. Y cyfarfod hwn yn nghapel Dinorwig fu y cyfarfod llwyr-ymataliol cyntaf yn y wlad hon; a bu yn dra llwyddiannus. Yn mhen ychydig wythnosau yr oedd yr ardaloedd

cylchynol yn llawn cyffro. Titotaliaeth oedd pobpeth. Rywbryd cyn hir cyfarfuom â'n hên gyfaill, y Parch. Griffith Hughes, Edeyrn a dywedasom, "A wyddoch chwi beth, Gruffydd? yr wyf wedi myned yn ditotal." Gan rythu ei lygaid arnom mewn syndod, gofynai, "Titotal! beth yw hyny, dywed?" "Wel, yr wyf wedi ymrwymo i beidio profi un math o ddiod feddwol." Dywedai yntau, "Y ffŵl gwirion, yn gwneyd *sport* ohonot dy hun! mae rhyw chwilen yn dy ben di er pobpeth." "Chwilen neu beidio," meddem, "nid oes dim arall a wna y tro i gyfarfod â'r holl feddwi sydd yn llenwi y wlad." Dropiwyd y mater ar hyny. Cyn hir aeth cyffelyb chwilen i ben y brawd o Edeyrn, a chafodd yno ddigon o le i dyrfu nes bu raid i Leyn ac Arfon a manau ereill deimlo oddiwrthi. Nis gwyddom am neb a wnaeth fwy yn erbyn meddwdod ac arferion drwg ereill sydd yn iselu dynoliaeth na'r hên frawd o Edeyrn. Pan fydd efe marw, caiff yntau glod.

Yr oedd llawer o'r hên frodyr, yn bregethwyr a blaenoriaid ac ereill, yn edrych ar y newyddbeth hwn yn bur amheus. A pha ryfedd? Yr oedd yn beth mor ddyeithr ac mor eithafol, yn dyfod am ben y wlad gyda'r fath ruthr, ac yn bygwth chwyldroad ar hên arferion ag yr oedd, debygent hwy, yn anmhosibl gwneyd heb-ddynt. Eithr mor nerthol oedd yr ysgogiad fel na feiddiai neb ei wrthwynebu ar gyhoedd. Ond yn raddol, daeth y mwyafrif mawr o'r hên dadau i weled priodoldeb llwyr-ymataliad fel y moddion mwyaf llwyddiannus i sobri y genedl. Yr ydym yn cofio, pan oedd yr ymrysonfa yn ei phoethder, fod yr hên frawd anwyl, yr hybarch John Jones, Tremadog, yn dyfod i Gyfarfod Misol yn Arfon, ac yn gwneyd datganiad rywbeth i'r perwyl a ganlyn, "Nid wyf yn cofio i mi fod un diwrnod er yn fachgen na byddwn yn arfer rhyw gymaint o ddiod feddwol; ond yr wythnos ddiweddaf penderfynais roddi prawf têg ar lwyr-ymataliad. Daethum i Beddgelert nos Wener, a phregethais, ac aethum i'm gwely heb brofi un dafn. Dydd Sadwrn daethum trwy Nant Gwynant, a thros Gorphwysfa, ar dywydd oer a dryghinog, i Rehoboth, Llanberis, at yr hwyr, a phregethais, ac aethum i'm gwely yno hefyd heb brofi un dafn. Doe y Sabboth yr oeddwn yn pregethu a chyfranu yn Rehoboth y bore, a phregethu yn y Capel Coch am ddau a'r nos, a chyfranu yno. Ac wele fi yn myned i'm gwely drachefn nos Sabboth, gan deimlo yn flin a llesg, ond heb brofi yr un dafn o ddiod feddwol. Er fy syndod yr oeddwn yn codi y boreu heddyw wedi cysgu yn dda, ac heb yr hên gur yn fy mhen, gan deimlo mor iach ac mor hoew a phan yn ieuanc." Gan godi ei ddwrn bach, a'i lygaid mawr yn tanio, dywedai, "A bellach *Teetotal* am byth!" Derbyniwyd y cyffesiad hwn gan

bleidwyr llwyr-ymataliad oddiwrth yr hên dad o Dremadog yn gyfystyr â datganiad o fuddugoliaeth lwyr.

Ar ol i'r ysgogiad llwyr-ymataliol ddechreu gafael, aeth rhagddo gyda nerth. Yr oedd yn syndod mor gyflym yr oedd y naill ardal ar ol y llall yn syrthio i mewn iddo. Eithr ar un olwg, nid rhyfedd hyny ychwaith; yr oedd y wlad yn aeddfed iddo. Ystyriai dynion sobr oedd yn gofidio oherwydd meddwdod y genedl fod "cymedroldeb" wedi troi yn fethiant. Yr oedd diotwyr a meddwon, lawer ohonynt, fel wedi blino ar eu diota a'u meddwi, ond eu bod rywfodd yn methu ymryddhau o'r hudoliaeth. Gwelent mai eu hunig obaith am ymwared oedd llwyr-ymataliad. Y canlyniad a fu i filoedd a miloedd o feddwon cyhoeddus a diotwyr cyson ddyfod yn llwyr-ymatalwyr trwyadl a selog. Cymerid yr ardystiad dirwestol y pryd hyny gyda difrifwch penderfynol, a pharhaodd y mwyafrif mawr i lynu wrtho yn drwyadl o hyny allan. Glanhawyd yr eglwysi yn llwyr, yn swyddogion ac aelodau, oddiwrth yr hên gŵyn a roddid yn eu herbyn trwy y blynyddoedd o yfed i ormodedd. Alltudiwyd y ddiod feddwol yn llwyr ac am byth o'r tŷ capel ac o'r llettŷ, o'r briodas ac o'r angladd, o'r Cwrdd Misol a'r Gymdeithasfa. Gwelid bellach y gellid gwneyd pobpeth yn llawer gwell, ac yn llawer mwy diberygl, heb ei symbyliad; a daeth y fasnach mewn diodydd meddwol dan fesur o warth. Sychwyd a diddymwyd peth aneirif o dafarndai oedd mor hudoliaethus yn llenwi y wlad. Cynyrchodd y diwygiad bendithiol hwn y fath chwyldroad yn yr arfer o ddiodydd meddwol, nad oedd neb yn flaenorol wedi ei ddychymygu fod yn bosibl i'r fath gyfnewidiad gymeryd lle byth. Ac nid rhyw danchwa o gyffro byrhoedlog, fel y gwelwyd lawer tro, ydoedd; ond cychwynodd gyda nerth, ac aeth rhagddo am flynyddoedd lawer, gan ddal ei ffordd a chwanegu cryfder. Gwreiddiodd mor ddwfn yn ein Cyfundeb, fel bron na ddywedem y daeth yn un o'i elfenau hanfodol. Mae y ffrwyth o hyn i'w gael yn ein heglwysi yn doreithiog y dydd hwn. Y fath nifer o swyddogion ac aelodau eglwysig sydd i'w cael, o ran dim a fu a wnelont â diodydd meddwol, yn Nazareaid o'r bru! Nac edrycher yn ddibris ar beth mor ardderchog a hyn, os gwelwch yn dda! Y Duw mawr a ŵyr pa faint o ddiogelwch ac ymwared i filoedd a fu eu Nazareaeth hwn! Mae yn annirnadadwy i neb y daioni a'r diogelwch a ddaeth i bregethwyr y Cyfundeb, heb son am ereill, trwy y diwygiad Dirwestol bendithfawr hwn. Pe buasai y diodydd meddwol wedi cael llonydd i deyrnasu gyda'r un rhwysg am y deugain mlynedd diweddaf ag y buont unwaith, pwy, atolwg, erbyn hyn a fuasai yn ddiogel rhag eu hudoliaethau a'u cwympiadau? Llawer a

gwympasant hwy yn archolledig, ïe, a gwŷr grymus lawer! Yn bendifaddeu teilynga y diwygiad llwyr-ymataliol gael lle helaeth a lle parchus yn hanes ein Cyfundeb a'n cenedl. Os yw Dirwestiaeth wedi llacio ei gafael ar luaws yn yr eglwysi, hyny sydd am fod pethau daionus ereill, a'r Efengyl yn eu plith, wedi llacio eu gafaelion yn gyffelyb; a phan ddêl adfywiad ar grefydd, daw adfywiad hefyd ar Ddirwest.

Fel y sylwyd, darfu i'r diwygiad Dirwestol barotoi y ffordd i'r adfywiad crefyddol, a daeth y naill i mewn megys yn ysgîl y llall. Yr oedd yr adfywiad hwn o nodwedd wahanol i'r un arall y gwyddom am dano. Ei nodwedd mewn gair oedd *dwys a dystaw*, megys "trwy losgiad a chynyd tân," heb ddim bra cyffrous yn perthyn iddo. Oherwydd ei nodwedd dystaw hw ni fynai rhai ei alw yn *ddiwygiad* o gwbl. Dechreuodd yn ddidrwst yn y flwyddyn 1839, neu gynt; a pharhaodd i fyned rhagddo nas gwyddom yn gywir dros ba hyd. Dylifai dynion o bob oed a gradd i'r eglwysi, weithiau gynifer a deg neu ddeuddeg ar unwaith, a hyny mewn pwyll ac wedi bwrw y draul, yn fwy fel mater o gydwybod a barn nag o deimladau cynhyrfus. Ac O! mor ddymunol fyddai yr olwg arnynt! Pe caem adfywiad eto fel a ddymunem ni, un fel hwn a fyddai. Er nad oes genym ystadegau i brofi, eto meiddiwn ddywedyd y bu y chwanegiadau at yr eglwysi trwy y wlad, a chyda'r amrywiol enwadau, yn amryw filoedd o rifedi. Yr hyn hefyd a wnaeth yr adfywiad mor dra dymunol ydoedd, mai ychydig iawn, os braidd neb, o'i ddychweledigion a droes allan yn siomedig. Nid peth dyeithr y pryd hyny fyddai gweled teulu cyfan—gŵr, a gwraig, a phlant, fel wedi penderfynu y cwestiwn gyda'u gilydd cyn cychwyn, yn dyfod i mewn i'r eglwys ar unwaith. Daeth nifer mawr o afradloniaid y diwygiadau blaenorol adref yn ol yn yr adfywiad hwn, wedi eu sobri gan Ddirwest a'u dwyshau gan y gwirionedd, a hên greithiau y diwygiadau gynt megys wedi eu hailagor yn eu teimladau.

Ni a dybygem mai yr hyn fu y moddion mwyaf arbenig i gynyrchu y chwanegiadau lluosog hyn at yr eglwysi oedd y nodwedd *gymhelliadol* ar bregethu a ddaeth yr adeg hon i fwy o arferiad. Yr oedd y pregethu wedi bod cyn hyn, mae yn ymddangos, yn fwy o athrawiaethol nac o ymarferol, a'i amcan yn fwy at adeiladu yr eglwys na dychwelyd y byd. Yr oedd Dirwest erbyn hyn wedi gwaredu lluaws mawr iawn o ddiotwyr a meddwon o gyfeddach y dafarn, a'u gwneyd yn ddynion sobr a dichlyn, yn wrandawyr cyson ac yn aelodau ffyddlawn o'r Ysgol Sabbothol. Er y byddai llawer ohonynt yn teimlo yn ddwys dan y pregethau, eto rhywfodd ymesgusodent rhag dyfod yn mlaen i wneyd proffes

gyhoeddus o Grist a'i grefydd, er y teimlent mai hyny a ddylasent. Gallem feddwl na bu yn ein gwlad na chynt na chwed'yn gymaint o wrandawyr yn cloffi rhwng dau feddwl, ys dywedir, âg yn yr adeg dan sylw. Un o'r rhai cyntaf i ganfod a theimlo i'r byw yn herwydd y lluaws mawr gwrandawyr hyn oedd yr enwog bregethwr John Jones, Talysarn; ac a'i ddawn anghydmarol efe a ymroes i ymosod ar a chwalu eu gau lochesau. Dilynwyd ef gan ereill, fel y daeth y wedd gymhelliadol a nodwyd ar bregethu yn beth cyffredinol; a bu dros dymhor yn hynod o lwyddianus. Yr oedd y nodwedd hwn ar y weinidogaeth ar y cyntaf braidd yn beth newydd, ac felly yn cael mantais i daro rhyw fan ar feddyliau dynion, os priodol dyweyd, na fu nemawr o guro arno yn flaenorol, ac felly yn cael ei deimlo yn fwy byw. A mawr fu y llwyddiant. Yn y cyfnod hwn galwyd allan yr holl destynau hyny oedd yn rhoddi mantais i'r wedd gymhelliadol hon o bregethu ddyfod i'w llawn waith, megys, "Nid ymryson fy Yspryd i â dyn yn dragywydd." "Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl?" "Pe dywedasai y prophwyd beth mawr wrthyt," &c. "Tâl dy addunedau i'r Arglwydd." "Canys pwy a ddiystyrodd ddydd y pethau bychain?" "Nid wyt ti bell oddiwrth deyrnas Dduw." "A hwy oll a ddechreuasant yn unfryd ymesgusodi." "Yr wyt ti o fewn ychydig i'm henill i fod yn Gristion," yn nghyda'r cyffelyb destynau. Tybiwyd gan lawer ar y pryd fod y testynau hyn a'u cyffelyb wedi eu dyhysbyddu gan amled y pregethu arnynt. Eithr bu i'r cyfeiriad cymhelliadol hwn ar bregethu ei dymhor. Gweithiodd yn dda dros ryw adeg, ac yna dechreuodd yn raddol golli ei afael ar y gwrandawyr. Dichon y cariwyd y dull hwn o bregethu gan rai brodyr yn rhy bell. Yn eu sêl aeth eu cymhell ganddynt yn ddirgymhell; neu pa air a ddywedwn? Tybiodd y gwrandawyr, ac nid heb achos bob amser, fod gan y pregethwr fwy o awydd i'w proselytio i'r eglwys na'u henill at Grist, a chauasant eu drysau yn erbyn y fath amcan gyda dirmyg.

Hwyrach mai Cadwaladr Owen, Dolyddelen, o bawb a fu y mwyaf llwyddianus yn yr adeg hon, ac yn wir drwy ei oes, i ddeffroi meddyliau dynion a'u dychwelyd at Grist a'i grefydd. Deuai ar gyhoeddiad drwy y naill ran neu y llall o'r wlad yn aml, ond nid yn rhy aml—i hyny yr oedd wedi ei dori allan; a byddai y wlad yn sychedu am ei weinidogaeth. Pan y deuai, byddai y dyfroedd megys yn frigwyn ar ei ol—y dychweledigion yn aml. Gyda llaw, a oes neb cyfarwydd a rydd ysgrif yn y *Drysorfa* ar ddirgelwch llwyddiant y gŵr hynod hwn fel pregethwr? Ni chyfrifid ef mewn un modd yn bregethwr mawr, ac nid amcanodd efe erioed at hyny. Yr oedd ganddo gyflawnder o ddawn ymadroddi

yn rhwydd a rhag blaen; ac y mae hyny yn rhywbeth i bregethwr; ond yr oedd ac y mae llawer mor rhwydd eu dawn âg yntau. Dyma un dirgelwch, dybygem, am ei fawr lwyddiant: yr oedd ei yspryd yn cael ei wresogi, a'i ddawn ei thymheru gan gariad Crist. A theimlai ei wrandawyr mai ei amcan syml a fyddai eu hachubiaeth. Tra byddai rhai o'i wrandawyr yn cadw gwyliadwriaeth rhag i ddim ddyfod i mewn trwy ddrws y proselytio, deuai Cadwaladr Owen o hyd i ryw agen yn eu cydwybod, ac heb eu cenad elai i mewn trwy hono, meddiannai'r castell a chwympai gedyrn. Diau fod ei goffadwriaeth yn barchus gan laweroedd fel eu tad yn Nghrist.

Gŵr arall y bu ei weinidogaeth yn llwyddianus hynod, yn adeg y chwanegiadau mawrion at yr eglwysi, oedd Griffith Williams, Bwlan. Yn nhŷ Capel Uchaf, Clynnog, yr oedd efe yn byw pan ddechreuodd bregethu. Gan ei fod yn ŵr priod, ac heb gael dim manteision dysgeidiaeth, ac yn gyffredin o ran gwybodaeth, bu gradd o wrthwynebiad iddo gael dechreu pregethu. Ond yn fuan ar ol dechreu, daeth rhyw eneiniad hynod ar ei weinidogaeth. Byddai y cynulleidfaoedd yn fynych yn toddi yn foddfa o ddagrau dani, ac weithiau yn tori allan mewn gorfoledd. Yr *enillgar* oedd nodwedd ei weinidogaeth yntau, fel y brawd o Ddolyddelen, a llaweroedd a droes efe at yr Arglwydd. Gwyddom i gynifer a deuddeg a phymtheg gael eu dychwelyd trwy ei weinidogaeth ar unwaith, a hyny hefyd heb ddim o'r dirgymhell. Buddugoliaeth nawsaidd yr Efengyl oedd yma yn toddi ac yn enill! O! mor fendigedig! Mae coffa cynhes am Griffith Williams, Bwlan, mewn llawer mynwes hyd heddyw. Tymhor yr adfywiad neu y chwanegiadau lluosog hyn at yr eglwysi, a fu tymhor byr ei weinidogaeth yntau. Yna bu farw.

Yr amser a ballai i ni ymdroi gyda brodyr ereill y bu eu gweinidogaeth yn fendithiol er dychweliad pechaduriaid at Grist a'i grefydd yn y cyfnod llwyddianus dan sylw. Er mai anfynych y byddai y nerthol iawn i'w deimlo gyda'r pregethu yn y cyfnod hwn fel yn y diwygiadau blaenorol, eto yr oedd yn hawdd pregethu, o achos yr oedd rhyw *atdyniad* dedwydd yn y gwrando.

Y ffrwyth parhaus i'r eglwysi, fel canlyniad i'r adfywiad hwn, a fu mwy o weithgarwch crefyddol. Chwanegwyd iddynt luaws mawr o ddynion gwir dda, dynion pwyllog, o wybodaeth a barn, y rhai a droisant allan yn weithwyr ymroddgar gyda holl ranau gwasanaeth Duw. A bu dda iawn i'r eglwysi eu cael ar y pryd. Mae dychweledigion yr adfywiad ddeugain mlynedd yn ol, er eu bod yn llawer y pryd hyny, erbyn hyn wedi myned yn ychydig;

ac eto mae y nifer ohonynt sydd i'w cael wedi eu profi yn weithwyr difefl, ac o hyd yn cadw tua'r blaen.

Mawrth, 1879.

---

## ADFYWIAD CREFYDDOL Y FLWYDDYN 1859.

RHAN I.

Ceisiasom alw sylw ein darllenwyr yn barod at ddiwygiadau crefyddol y blynyddoedd 1818, 1832, ac 1839. Y nesaf yn rhestr diwygiadau Cymru oedd yr un a fu yn y flwyddyn 1859. A hwn hefyd fel un cyffrous a chyffredinol iawn a fu yr un diweddaf; ac y mae hyny bellach er's ugain mlynedd. Tra yn bwriadu gwneyd rhyw adolygiad ar y diwygiad hwn, fel ar y rhai a'i blaenorodd, edrychasom i'r *Drysorfa* am y flwyddyn hono—1859; a gwelsom fod y diwygiad hwn wedi cael cyflawnder o le ynddi gan ohebwyr o wahanol barthau'r wlad. Ceir yma ddwy ysgrif arweiniol, ys dywedir; un yn rhifyn Ebrill, gan y gŵr anwyl, y diweddar Barch. Thomas Edwards, Penllwyn, yn rhoddi hanes manwl am ddechreuad y diwygiad, ac un arall yn mis Hydref gan y Parch. John Jones, Castellnewydd y pryd hwnw, yn rhoddi hanes cynydd y diwygiad hyd hyny, yn nghydag amddiffyniad iddo. Ddarllenydd! os ydyw y gyfrol hono o'r *Drysorfa* yn dy feddiant, ni a'th gynghorwn i ddarllen y nodiadau a geir ynddi ar y diwygiad dan sylw; ac nid rhyfedd os bydd i ti *deimlo* rhywbeth. Dichon yr edrycha rhai ar ryw hanesion fel hyn a groniclir yn y *Drysorfa*, a misolion ereill, ar y pryd yn bethau digon diwerth; ond fel y treigla amser rhagddo, bydd eu gwerth o hyd yn mwyhau; ac mewn oesoedd a ddêl byddant uwchlaw eu prisio. Wrth weled fod y diwygiad hwn wedi cael y fath gyflawnder o le yn nghylch-gyhoeddiad ein Cyfundeb, yr oeddym yn petruso ai doeth ynom a fuasai gwneyd rhyw sylw pellach ohono. Ond gan i ni ddechreu gyda'r diwygiadau, teimlem awydd gwneyd rhyw lun o orpheniad. Ac wrth ystyried hefyd fod oes arall wedi codi er hyny, ac felly doeth neu beidio, ni a grynhown yn nghyd rai o brif ffeithiau y diwygiad, yn nghyda'r gwersi y mae hyn yn eu cymhell arnom yn ein hadeg bresenol hon.

Wrth sylwi ar y nodiadau yn y gyfrol hon o'r *Drysorfa* (1859), gwelwn fod y diwygiad hwn wedi tori ar y wlad mewn adeg yr oedd gwir angen am dano. Ymddengys fod mawr gwyno oherwydd iselder crefydd ysprydol, a difaterwch cyffredinol y genedl o bethau Dwyfol, yn flaenorol i doriad allan y diwygiad hwn, cyffelyb i'r cwyno sydd gan ddynion difrifol yn yr adeg

bresenol hon. Adeg ydoedd o "sychder mawr" fel y pryd hwn. Cwynid y pryd hyny, megys yn awr, er amled y pregethu, mai ychydig iawn oedd y llwyddiant. Yr oedd blwyddyn a dwy o bregethu cyson a da yn myned heibio mewn llawer man heb un argoel fod neb yn cael eu hachub. Ac oddigerth am y derbyniad a wneid o "hâd yr eglwys," buasai y lleihad mewn llawer eglwys yn ddifrifol. Yr oedd rhai eglwysi, fe ddywedir, yn gwywo ymaith yn brysur, ac amryw o rai bychain a gweiniaid ar ddiflanu. Ceid y bobl ieuainc perthynol i'r eglwysi—y lluaws ohonynt, yn boenus o afreolus a phenrhydd, ac yn ddiafael mewn pethau crefyddol. Ac yr oedd y rhai i arfer gweddi gyhoeddus o hyd yn lleihau. Cwynid fod lluaws mawr—y mwyafrif fe ddywedir—o'r rhai oedd yn proffesu crefydd, heb gymaint â rhith o addoli Duw yn eu tai. Yr oedd y diffyg crefydd hwn drachefn yn y rhai a broffesent grefydd, yn rhoddi mantais i bechodau rhyfygus—i annuwioldeb o bob math, i dori allan yn fwy cynyddol a beiddgar. Ac yr oedd llawer o ddynion difrifol yn ofni ac yn petruso pa beth a ddeuai o'r genedl.

Ond yn adeg y sychder mawr hwn ar grefydd y genedl, fe gofiodd Duw am danom, a gwlawiodd gawodydd graslawn ar ei etifeddiaeth wedi ei blino gan hir sychder, nes mewn gwirionedd y daeth yr anialwch i flodeuo fel rhosyn. Daeth amser i'r adar ganu—clywid llais y ddurtur yn ein gwlad—llygaid y deillion a chlustiau y byddarion a agorwyd—daeth y cloff i lamu fel hydd, a thafod y mudan i ganu. Do! fe brofodd ein cenedl gyflawniad llawn yn y flwyddyn ryfedd hon o'r ymadroddion godidog uchod. Y fath gyfnewidiad rhyfeddol a ddaeth dros y wlad, a hyny mewn byr amser! Er na pharhaodd y diwygiad yn hir, eto yr oedd yn dda odiaeth ei gael ar y pryd. Ac fel y cawn ddangos eto, nid ydyw ei ffrwyth wedi colli i eglwysi Cymru hyd heddyw. A da fyddai i ni gofio fod yr un gallu Dwyfol a wnaeth rymusderau yn yr amser gynt, i'w gael eto i wneyd yn gyffelyb, a llawer mwy, ond ei geisio o ddifrif.

Oddiwrth y cofnodau yn y *Drysorfa*, ymddengys fod y blynyddoedd hyn—1858 a 1859, yn "flynyddoedd deheulaw y Goruchaf" mewn amrywiol wledydd heblaw Cymru. Torodd diwygiad grymus allan ar y pryd yn Ngogledd Iwerddon, ac hefyd yn Scotland, ac yn Sweden a Norway. Ond yn America y bu yn fwyaf grymus a chyffredinol o unman. Dechreuodd yno yn nechreu y flwyddyn 1858, neu gynt, mewn canlyniad i gynal cyfarfodydd gweddïau bob canol dydd gwaith yn New York i ddechreu, ac yna yn yr holl brif drefydd. A chyn diwedd y flwyddyn, yr oedd wedi ymdaenu dros yr holl Dalaethau Gog-

leddol, a Deheuol mewn rhan. Dichon mai hwn a fu y diwygiad mwyaf cyffredinol a gaed erioed yn yr Unol Dalaethau, ac hefyd y mwyaf llwyddiannus. A pharhaodd i fyned rhagddo heb oeri llawer, hyd oni ddaeth y cyffro politicaidd o ethol Arlywydd i'w lwyr ddiffoddi, yr hyn hefyd a ddiweddodd mewn rhyfel gartrefol o'r fath fwyaf ffyrnig a dinystriol. Mae yn eglur, debygem, nad yw diwygiad crefyddol a chyffro politicaidd erioed eto wedi gallu cydfyw â'u gilydd; ac mae yn debyg nas gallant byth. Rhydd "Llyfr y brophwydoliaeth" ar ddeall i ni yn ddigon clir, mai ar ol i "ryfel y dydd hwnw," a'r "daeargryn fawr, yr hon ni bu ei chyffelyb er pan yw dynion ar y ddaear," orpheu eu gwaith, y tỳr y diwygiad mawr a gogoneddus diweddaf ar drigolion y ddaear. A raid i ni aros eto yn Nghymru heb adfywiad crefyddol, hyd ar ol i gyffro yr Etholiad Cyffredinol sydd i fod cyn hir bellach dawelu arnom? Os felly, rhaid i lawer syrthio i'w beddau heb na'i weled na'i brofi; a rhaid i ddynion da y genedl rwyfo eto yn galed dros ryw dymhor, yn groes i'r llanw cryf o ddifaterwch sydd yn llifeirio i'w herbyn.

Cawn bob hysbysrwydd yn nghyfrol 1859 am y pryd, y lle, a'r modd y dechreuodd y diwygiad sydd i fod genym dan sylw. Mae yr hanes am ei ddechreuad, dybygem, yn un hynod o'r dyddorus; a bydd i ni ymdroi ryw gymaint gyda hyny. Dechreuodd gyda'r Methodistiaid yn Yspyttŷ Ystwyth, Sir Aberteifi, yn niwedd y flwyddyn 1858. Yr oedd wedi dechreu gyda'r Wesleyaid mewn rhyw fanau yn flaenorol, ond yn yr un sir. Yr hyn fu yn foddion i'w gychwyn oedd dyfodiad gweinidog ieuanc o Gymro, perthynol i Gyfundeb y Wesleyaid, i'r wlad hon o'r America, y Parch. Humphrey R. Jones. Yr oedd wedi ei fedyddio yn helaeth âg yspryd diwygiad cyn cychwyn; a daeth i'r hên wlad gyda'r amcan o ddeffroi yr eglwysi Wesleyaidd at eu gwaith. Ond yr oedd yn ddigon anenwadol i amcanu gwneyd hyny gyda pha enwad bynag y caffai gyfle. Yr oedd felly yn meddu yspryd diwygiwr o'r iawn ryw. Yn mhell y bo yr yspryd enwadol yma! Arwydd er daioni, arwydd fod yr hâf yn nesu, yw fod y gwahanol enwadau yn tueddu i ymgymysgu ychydig â'u gilydd weithiau. *Idea* gampus oedd y "Cyfarfodydd Gweddïau Undebol." Ysywaeth, profodd yr awyrgylch grefyddol yn rhy oer iddynt hyd yma i allu byw yn hir. Da fu y cynyg, serch hyny; daw yn gynesach bob yn ychydig. Amcan Mr. H. R. Jones oedd deffroi yr eglwysi a'u swyddogion at eu gwaith. Ystyriai y gŵr da hwn mai gobaith gwan oedd am ddeffroi y byd onid ellid llwyddo i ddeffroi yr eglwysi. A diau ei fod yn gywir. Da fyddai i ni ystyried fod eglwys gysglyd, a chrefyddwyr difraw, ar ffordd achubiaeth y byd.

Wrth eglwys a gweinidog felly y dywed y Pen Mawr, "Mi a'th chwydaf di allan o'm genau." Dychrynwn, a deffrown at ein gwaith.

Yr oedd y cynhwrf yn ngwersyll y Wesleyaid, ag y bu Mr. Jones yn offerynol i'w gyffroi, yn cael edrych arno gan y Methodistiaid gyda mesur o ddirmyg. Yr ydym yma yn arfer y termau Methodistiaid a Wesleyaid, cofier, nid o briodoldeb, ond er hwylusdod. Sylwai Mr. Edwards, Penllwyn, "Mae son fod rhywbeth tua Thre'rddol yna er's tro; ond nid yw yr hanes yn cael llawer o effaith arnom; yr ydym yn hynod o anghrediniol, ac i raddau yn rhagfarnllyd hefyd; ond nis gwyddom yn iawn beth i wneyd ohono hefyd." Cyfaddefiad gonest, priodol i feddwl pur y brawd anwyl o Benllwyn. Ond newidiodd Mr. Edwards ei feddwl cyn hir am y gweinidog Wesleyaidd, a'r cyffro y bu yn foddion i'w gynyrchu. Yn ei ysgrif dywed, "Bydd genym barch mawr i'r gŵr hwn fel un sydd wedi bod yn offeryn yn llaw Duw i ddeffroi yspryd amryw i ddechreu; a hyderwn y bydd llwyddiant mawr ar ei lafur yn mhob man lle byddo." Yr oedd Mr. Edwards, fel y gwelwn, yn agored i argyhoeddiad—yn ddigon rhydd i'w gyffesu, ac yn ddigon gwrol i'w ddilyn.

Daeth y gŵr effro hwn i gymydogaeth Yspyttŷ Ystwyth, a dechreuodd gynhyrfu ei frodyr Wesleyaidd yno. A daeth i gyfarfyddiad â'r Parch. David Morgan, gweinidog gyda'r Methodistiaid. Edrychai Mr. Morgan ar y cyffroad ar y cyntaf gyda mesur helaeth o ragfarn, fel yn wir yr edrychai y Methodistiaid yn gyffredinol arno. Ond wrth ddyfod yn nês i'w gyfeillach, gwelai a theimlai nad oedd yspryd ac amcan Mr. Jones mewn un modd yn beth i'w ddiystyru. Ac wrth ymrwbio yn eu gilydd, dechreuodd Mr. Morgan gyfranogi, rywfodd, o yspryd y diwygiwr ieuanc o'r America. Gadawn i Mr. Edwards, Penllwyn, gael adrodd yr hanes yn ei eiriau ei hun: "Mae Mr. H. R. Jones yn awgrymu i Mr. Morgan nad yw pethau yn iawn fel y maent yn bresenol—fod diffyg yn y pregethwyr a'r pregethu, ac yn fwy na'r cwbl diffyg yspryd grâs a gweddïau yn yr eglwysi. Mae, mewn gwirionedd, yr un peth a phe b'ai trydaniaeth yn myned trwyddo gyda phob gair. * * * * * *
Yn mhen ychydig dacw Mr. Morgan yn ymadael, ond yn methu cael fawr o lonydd. Yn fuan iawn dacw fe gyda Mr. Jones drachefn. Ac meddai Mr. Morgan, 'Yr wyf yn gweled nas gallai fod niwed mawr, beth bynag, i ni wneyd ein goreu i gyffroi y wlad, a chadw cyrddau gweddïau, pe na byddai ond dyn yn y cwbl wedy'n.' Sylwer ar atebiad Mr. Jones: 'Na fyddai, ond treiwch chwi hyny; nid hir y byddwch na bydd Duw yno gyda chwi.'"

Yn ol y darluniad uchod gan Mr. Edwards, Penllwyn, gwelwn fod Mr. Morgan yn cael gwaith mawr ymryddhau o'r hên syniad Methodistaidd, fod yn rhaid i ddiwygiad crefyddol ddyfod yn gwbl o'r nefoedd, ac nad oes gan yr eglwys ar y ddaear ddim i'w wneyd ond rhyw ofyn am dano a dysgwyl, yn hollol fel yr amaethwr am y gwlaw; ac os daw, deled, ac oni ddaw, na bydd ddim i'w wneyd ond cwyno a pharhau i ddisgwyl. Yr oedd Mr. Jones o'r tu arall yn llawn o'r syniad Americanaidd a Wesleyaidd, fod rhyw ofyn yn ffurfiol a dysgwyl yn glaear yn annheilwng o'r amcan—fod yn rhaid i'r gweddïo fod yn daer, ac oddiar deimlad byw—fod yn rhaid i'r hwn sydd yn deffro ereill fod wedi ymddeffro ei hun—ac os mynir diwygiad, fod yn rhaid myned mor bell yn y ffordd o'i gynyrchu ag y gall dynion fyned; a lle y byddo y *dynol* ar ei eithaf, yna gellir disgwyl yn hyderus i'r Yspryd gyflawni yr hyn y mae y *dynol* yn anrhaethol rhy wan i'w gyrhaedd, megys yn y geiriau hyny, "A mi a adawaf iddynt fy nghael pan y'm ceisiont â'u holl galon." Profodd y diwygiad dan sylw fod rhywbeth yn y syniad diweddaf na ddylid mewn un modd ei ddirmygu. Os ydyw adfywiad crefyddol yn beth i'w ddymuno o gwbl, yna mae yn deilwng o'i geisio gyda phob difrifwch. Nid yw ceisio yn unig fel mater o ffurf yn debyg o lwyddo. Nid yw y gweddïo hwnw nad oes ganddo afael ar deimlad y gweddïwr ei hun yn werth gan Wrandäwr gweddi gymeryd sylw ohono. Ond pan ddêl eglwys, neu nifer mewn eglwys, pe ond "dau neu dri," i geisio yr Arglwydd o ddifrif calon—oddiar deimlad byw fod yn *rhaid ei gael*, yna mae iddynt y sicrwydd mwyaf o lwyddiant: "Mi a adawaf iddynt fy nghael."

Mae y ddau frawd hyn, wrth ymrwbio yn eu gilydd, yn dyfod y naill yn gyfranog o yspryd y llall. Mae yr yspryd byw, gwresog, ac eiddigeddus am achubiaeth pechaduriaid, oedd yn llosgi yn y brawd o'r America, rywfodd, yn ymlenwi, yn cynhyrfu, ac yn enyn yn y brawd o'r Yspyttŷ. Wele eto beth teilwng o'n sylw—*yr yspryd diwygiadol*—neu beth ei galwn? Dyma ffaith hynod, pa esboniad bynag roddir arni. Er fod yn Nghymru ar y pryd luaws mawr o bregethwyr gwir dda, yn pregethu yr efengyl yn ei phurdeb, a chyda phob difrifwch, eto yr oedd y genedl, gan mwyaf, yn dawel mewn difaterwch, a'r llwyddiant yn boenus o brin. Ond wele ŵr ieuanc o ddawn a gallu digon cyffredin yn dyfod drosodd yma o'r America, eithr yn llawn o ryw yspryd angerddol am ddeffroi yr eglwysi ac ennill pechaduriaid at Grist a'i grefydd; a thrwyddo ef fel offeryn, mae yr un yspryd deffrous yn meddiannu ereill; a chyn pen ychydig fisoedd, dyna Gymru oll, pob sir ac ardal, yn un berw cyffrous o adfywiad crefyddol! Nid

ffaith yw hon i'w phasio heibio yn ddisylw, achos y mae yn sefyll yn unig yn hanes ein cenedl. Pa beth, atolwg, a allai yr *yspryd diwygiadol* hwn fod? Haws yw gofyn nag ateb. Nid dawn a medr dynol, nid dirnadaeth gref, ac nid hyawdledd chwaith mohono. Er y gall y pethau hyn fod yn fanteisiol iddo, eto gall y *peth byw* fod yn annibynol arnynt. Ac eto mae yr yspryd angerddol hwn yn gwneyd y neb a feddiennir ganddo, ar adegau, yn ofnadwy—y tuhwnt i bob darluniad o hyawdl! Dichon mai y darnodiad goreu o'r yspryd diwygiadol hwn yw yr un hwnw, "A HWY OLL A LANWYD O'R YSPRYD GLAN." Pa le bynag y byddo yr yspryd diwygiadol yma, er nas gellir dyweyd beth ydyw, eto bydd raid i'r byd deimlo oddiwrtho, nes naill ai gwaeddi fel gwrandawyr Pedr, "Ha wŷr frodyr, pa beth a wnawn ni?" neu ynte fel gwrandawyr Stephan, "Ysgyrnygu eu danedd arno." Pe byddai pregethwyr Cymru, neu nifer ohonynt, wedi eu llenwi â'r yspryd hwn, y fath hafog a wnaent ar deyrnas y diafol, er mor gadarn yw! "O frodyr, gweddïwch drosom!"

Un nodwedd arbenig ar y diwygiad dan sylw, a hyny o'i ddechreuad ydoedd, fod yr un yspryd deffrous ag oedd yn llosgi yn y naill ddyn yn cael, trwy gydgyfarfyddiad, wrth gwrs, gyfranogi ohono a'i enyn mewn dynion ereill. Pa fodd y mae yspryd y naill ddyn yn cyfranogi o ysprydiaeth dyn arall, sydd ddirgelwch i ni. Leied a wyddom am ysprydion wedi'r cwbl! Eithr fod yspryd y naill ddyn yn gallu dylanwadu yn ddeffrous ar ysprydoedd dynion ereill, sydd ffaith ag iddi ddigonedd o brofion. Ac y mae yr Yspryd Glân, yn ffordd ei râs achubol, yn gwneyd defnydd hael o'r dramwyfa ysprydol hon. Mae yn hên sylw, "Gair o galon a gyrhaedd galon." Cawn siampl nodedig o hyn yn y gyfrol hono o'r *Drysorfa* gan un a eilw ei hun yn "*Un o Blant y Diwygiad*." "Ar y Sabboth, y 3ydd o Hydref (1858), cafwyd Mr. H. R. Jones yma (Yspyttŷ), i bregethu. Cadwyd *society* ar ol; a chododd Mr. Jones, a dywedodd, mai oedfa led galed oedd efe wedi gael. Cododd blaenor o'r eglwys hon, a dywedodd mai peth anhawdd i ddyn pan fyddai y weinidogaeth yn ei gondemnio, a fyddai gwaeddi "Amen" gyda hi. Ar ei waith yn dywedyd y geiriau hyn, eisteddodd i lawr fel mewn llewyg. Ar yr adeg, yr oedd rhywbeth na ŵn i pa beth oedd, ond ei fod yn rhywbeth na theimlais i na neb arall oedd yno ar y pryd ei gyffelyb —wedi myned dros yr holl gynulleidfa, nes oedd pawb a'i ben i lawr yn wylo." Caed profion aneirif o bethau cyffelyb yn ein gwlad er boreu-ddydd Methodistiaeth: dyn a'i yspryd wedi ei gyffroi a'i danio gan gyffyrddiad rhyw yspryd arall, Yspryd y Duw byw, yn taflu gair neu frawddeg fèr nes lluchio teimlad

cyffelyb i bawb ereill. Teimlwyd llawer o'r "rhywbeth" cyffrous yma yn y diwygiad hwn. Nid rhyfedd fod "un o blant y diwygiad" yn ei alw "yn rhywbeth nas gŵn pa beth." Nid brodor ein daear ni ydyw, ac nid oes yn ngallu neb na dim daearol i'w gynyrchu. Ac nid oes chwaith yn ngallu neb, na dynol na dieflig, i'w wrthsefyll pan y delo; mae yn gryfach na phawb ac na phobpeth. Yn sicr, nid rhaid i'r rhai hyny sydd yn milwrio yn yr un ochr a Duw fod yn wan-galon. Mae ganddo ef gyflawnder o'r "*rhywbeth*" Dwyfol hwn i'w roddi o blaid ei deyrnas pan y gwelo hyny yn oreu. A da iawn mai ganddo Ef y mae. Pe byddai yn meddiant dynion, a dynion da, buan y gwneid rhyw ddifrod ohono. Mae yr eglwys, hyd yn hyn, yn rhy sectaidd ei hyspryd i ymddiried iddi allu mor feistrolgar a hwn. Fel hyna y cawn hanes am ddisgyniad dafnau cyntaf, hyd y gwyddom, ond dafnau breision, o'r gawod fawr o ddeffröad crefyddol a ddisgynodd ar Ddehau a Gogledd Cymru yn y misoedd canlynol.

Rhaid i ni symud yn mlaen. Bellach mae y brodyr hyn, Jones a Morgan, trwy fod yn gyfranog o'r un yspryd deffrous, yn ymosod gyda'r amcan o ddeffroi ardalwyr Yspyttŷ Ystwyth i ddechreu, trwy gynal cyfarfodydd gweddïau yn nghapelau y naill enwad a'r llall bob yn ail, yn nghydag arfer pob moddion arall i'r un amcan. A rhyfeddol fu y llwyddiant! Yn gymhwys fel y dywedodd Mr. Jones wrth Mr. Morgan ar y cyntaf, "Treiwch chwi hyny, ac nid hir y byddwch na bydd Duw gyda chwi." Mae yn dyfod yn gyffro byw trwy yr holl ardal: y capelau yn rhy fychain, dynion difraw o bob rhyw fath yn cael eu deffroi, dynion paganaidd na byddent byth i'w gweled mewn cynulliad crefyddol yn ymwthio i mewn, a hwy, fel ereill, a drallodid ac a ddelid. Mae y newydd am y cyffro tua'r Yspyttŷ yn ebrwydd yn ymdaenu. A beth i feddwl ohono? mae yn beth mor ddyeithr. Tra yr ydoedd yn ngwersyll y Wesleyaid yn unig, yr oedd yn fforddio i'r brodyr Methodistaidd ei ddirmygu, gan ei alw yn "ddiwygiad gwneyd." Ond bellach mae wedi disgyn i'w gwersyll hwy; ac y maent yn dechreu petruso, gan ofyn y naill i'r llall, Pa beth a ddichon hyn fod? Yr oedd yr hên frodyr wedi gweled diwygiadau grymus o'r blaen, ond nid yr un wedi cychwyn a'i ddwyn rhagddo yn gyffelyb i hwn; ac nid rhyfedd eu bod yn petruso. Ond tra yr oedd dynion da yn sefyll draw, yn beirniadu, ac yn beio, yr oedd y cyffro yn myned rhagddo o ardal i ardal gyda chyflymdra, ac heb eu cenad hwy. Go gâs oedd hyny hefyd. Mor gyflym y mae y naill ardal ar ol y llall yn cael eu cymeryd i mewn ganddo, fel tân wedi ei enyn a'i chwythu gan awel gref trwy anialwch o sychgoed! Mae y brodyr, yn bregethwyr a blaenoriaid, ac ereill, yn dechreu newid eu barn am

y cyffro, yn ei ddymuno, yn ei geisio, ac yn ei gael. Gan fod Mr. D. Morgan wedi ei fedyddio mor helaeth âg yspryd y diwygiad, mae y galwadau am ei wasanaeth yma ac acw ac i bobman yn dyfod ato yn aml; ac y mae llwyddiant yn ei ganlyn braidd yn mhob lle. Mae brodyr ereill yn y weinidogaeth yn dyfod yn gyfranog o'r unrhyw ysprydiaeth, ac yn eu plith y brawd anwyl o Benllwyn; ac, yn wir, efe oedd un o'r rhai cyntaf. Fel y tystia Mr. Jones, y pryd hyny o'r Castellnewydd, yn ei ysgrif, "ddarfod i'r Parch. David Morgan gael cydlafurwr ffyddlawn a doeth yn y Parch. Thomas Edwards, Penllwyn, yr hwn a deimlodd yspryd yr adfywiad yn ei gychwyniad cyntaf, a'r hwn hefyd a fu yn foddion neillduol, trwy ei yspryd addfwyn, ond gwrol, i'w amaethu. A gellir ychwanegu hefyd ddarfod i rywbeth hynod ddisgyn ar bregethwyr y sir, rhywbeth nas gellir rhoddi darluniad ohono, a gobeithio nas collir mohono mwy." Ond, ysywaeth, mae dynion da wedi profi yn llestri pridd rhy fregus, rhy graclyd, i ddal y "rhywbeth" hwn, fel y mynai Mr. Jones hefyd ei alw, heb oeri, cnawdoli, a cholli ymaith, oddieithr iddo yn fynych gael ei ail enyn gan yr Hwn a'i rhoddodd ar y dechreu!

Yn Sir Aberteifi, fel y gwelwn, y torodd y diwygiad hwn allan gyntaf, ac yno hefyd y teimlwyd ef gryfaf. Dywedir y bu yno yn y flwyddyn ryfedd hono, 1859, Gymdeithasfa yn Llangeitho, ac amryw Gyrddau Misol, mor hynod fel y mae coffa am danynt, a hiraeth am eu cyffelyb, yn aros yn fyw yn nheimladau llaweroedd hyd y dydd hwn. Wrth yr ysgrifau yn y *Drysorfa*, gwelwn y bu chwanegiadau at eglwysi y Methodistiaid yn unig yn y sir hon yn rhywbeth oddeutu wyth mil, a hyny mewn deuddeng mis o amser; ffaith, dybygem, na cheir dim yn gyfartal iddi yn holl hanes crefyddol Cymru. Esgusoded ein brodyr yn Ngheredigion nyni sydd mor ddyeithr iddynt, oherwydd arfer yr hyfdra o drafod fel hyn am y cyffröad rhyfeddol hwn, a ddechreuodd yn eu sir.

Mehefin, 1879.

---

RHAN II.

Ymdaenodd y newydd am y deffröad rhyfeddol yn Sir Aberteifi trwy yr holl wlad. Ac yr oedd y sôn am y diwygiad yno yn enyn awydd angerddol yn mhob man am gael peth cyffelyb. Yr oedd y genedl, yn fyd ac eglwys, yn addfed iddo, wedi blino bellach ar hir dawelwch a gwersyllu yn yr un fan. Teimlai llawer yn yr eglwys, ac allan ohoni, awydd cryf am ryw ddeffröad i'w cychwyn a'u symud oddiwrth fod fel yr oeddynt. A diau genym fod yr eglwys,

a'r byd hefyd i ryw fesur, yn teimlo yn gyffelyb yn yr adeg bresenol hon arnom. Gwyddom fod lluaws mawr wedi llwyr flino ar y tawelwch trymaidd sydd er's hir amser bellach wedi ymdaenu drosom fel cenedl. Ac mae y *blino* hwn, drachefn, yn arwydd er daioni.

Ffaith hynod am y diwygiad dan sylw, fel yn wir am ereill o'i flaen, oedd ei wedd *ymdaenol;* neu pa air a ddywedwn? Dechreuodd fel y gwelsom yn Yspyttŷ Ystwyth, ac ymdaenodd yn gyflym o ardal i ardal gan gymeryd y wlad megys o'i chŵr. Tybygem fod hyn, fel llawer o bethau ereill yn ngoruchwyliaeth grâs Duw, y tuhwnt i ni allu rhoddi cyfrif am dano. Gan fod y wlad mor addfed iddo, wele efe yn prysuro dros y Dyfi—drwy yr Abermaw—y Traethau, a bylchau yr Eryri, tua'r Gogledd. Nid oes nac afon na mynydd yn arafu dim arno. Ac am a wyddom na bu yn gyffelyb trwy holl siroedd y Deheudir. Hwnw, yn ddiau, oedd y diwygiad mwyaf cyffredinol a fu erioed yn Nghymru. Yr oedd pawb—pob enwad fel eu gilydd, a'r eglwysi gwladol fel ereill, ag oedd yn ei geisio, yn ei gael. "Nid yw Duw dderbyniwr wyneb," er mor gâsbeth yw hyny i'r teimlad enwadol. Dyweder a fyner am y diwygiad hwn, ni a gredwn mai y flwyddyn 1859 a fu yr un fwyaf hynod yn hanes grefyddol Cymru o'r un flwyddyn yn y ganrif hon o leiaf. Clywem gyda hyfrydwch fod y cyffro diwygiadol wedi ymdaenu dros Feirionydd, a chyn hir ei fod wedi tori allan yn nghyrau deheuol Sir Gaernarfon; ac yn ebrwydd dechreuodd gynhyrfu yn ardaloedd poblogaidd ein chwarelau yn Arfon. A mawr oedd ein llawenydd. Cofiwn yn dda y nos Sabboth y torodd allan yn hên gapel yr Ysgoldŷ, yn niwedd cymundeb wrth ganu y penill,

> "Pa le
> Y gwnaf fy noddfa dan y nef,
> Ond yn ei glwyfau anwyl ef?"

Yr oedd cysgu y nos Sabboth hwnw i lawer allan o gwestiwn. A chredwn fod llawer eto yn barod iawn i golli noswaith a dwy o'u cysgu, pe caent eu hatal gan gyffro cyffelyb i'r cyffro bendigedig hwnw.

Nodwedd neillduol y diwygiad hwn o'i ddechreuad ydoedd, *cyffrous.* Dynion wedi eu deffro gan gyffyrddiad y "peth byw" a fu yn foddion effeithiol i ddeffroi ereill. Mae yn deilwng o sylw nad yw hyny braidd byth yn methu yn ei amcan. Pregethwr a'i yspryd wedi ei ddeffroi gan yr Yspryd Glân yn bregethwr aflwyddiannus! Nac ydyw byth! Byddai dynion difraw, dynion hollol annuwiol, yn cael eu dihuno ar unwaith, a'u llenwi â dychryn a

thrallod. Aml i dro y gwelwyd y deffröad a'r dychryn hwn yn disgyn ar gynulleidfa fel rhuthrwynt ar goedwig, gan ddryllio a diwreiddio yn y ffordd yr elai. Dynion caled—dynion paganaidd —pobl ieuainc penrhydd ac afreolus—meibion a merched—dim gwahaniaeth pwy na pha fath, wedi eu dal megys â dychryn Duw, dychryn y byd a ddaw, ac yn ffoi yn eu trallod i'r eglwysi fel y noddfa nesaf i law! Yr oedd syrthio i lawr i weddïo bellach yn beth mor hawdd, ac mor naturiol iddynt, ag fyddai arfer llwon a rhegfeydd yn flaenorol. Ymddangosent, ar y pryd o leiaf, fel wedi eu troi a'u gwneyd fel plant bychain, yn barod i wneyd unrhyw beth a geisid ganddynt. Tröent ymaith ar unwaith oddiwrth eu hên arferion pechadurus. Codent addoliad teuluaidd yn eu tai yn y fan. A chan gofio fod y deffröad cyffrous hwn wedi ymdaenu dros holl Gymru, ac effeithio y cyfnewidiad rhyfeddol hwn ar ei miloedd mewn un flwyddyn—mewn gwirionedd, onid ydoedd yn beth hynod? Na ddirmyger ni, gan hyny, am geisio galw sylw at yr hyn a fu yn ein gwlad y flwyddyn ryfedd hon! Diolch i'r Nefoedd am brawf, pe ond unwaith bob ugain mlynedd, fod ei gallu hi yn gryfach nag annuwioldeb—yn gryfach nag anystyriaeth ac anghrefydd y genedl! Ydyw, y mae gweled gallu y tywyllwch yn cael un gurfa feistrolgar unwaith mewn oes, yn rhywbeth gwerth ei gofio a diolch am dano! Mae yn ernes i filwyr yr Oen, er maint eu haflwydd, fod gallu cryfach o'u tu hwy nag a ddichon fod i'w herbyn, ac mai yr eiddynt hwy yn y diwedd fydd y fuddugoliaeth! Ymwrolwn!

Fel un esiampl o laweroedd o bethau cyffelyb, yr ydym yn cofio yn dda fod cyfarfod gweddi mewn capel, fel y byddai bob nos braidd y pryd hyny; ac wrth gwrs cyhoeddid *seiat* i aros ar ol, fel yn niwedd pob moddion. Wedi i'r gynulleidfa ymwahanu, a chau y drysau, gwelwyd fod rhai o newydd wedi aros yn ol. Ond braidd gyda hyny, gwelwyd y drws yn cael ei agor drachefn, a chwech neu wyth o ddynion ieuainc yn brysio i mewn fel yn y dychryn mwyaf, yn eistedd yn rhês ar fainc, yn rhoddi eu penau i lawr, ac yn wylo yn hidl. Wrth eu gweled hwy aeth pawb i wylo. A chyfarfod i wylo, gan mwyaf, fu hwn: tadau yn wylo, a mamau yn wylo, brodyr a chwiorydd yn wylo; wylo distaw, wylo o'r galon, ac addoli wrth wylo. Nid oedd gan neb flâs dros enyd yn y cyfarfod hwn ar ddim ond ar wylo! Ac O! gyda'r fath foddhâd yr wylai rhai mamau! yn lapio y cadach llogell âg un llaw ar y wyneb, a churo y glin â'r llaw arall, a wylo o fodd calon. A pha ryfedd? hawdd y gallai y mamau hyn ddywedyd, "Am y bachgen hwn y gweddïais!" O! yr hên wylo anwyl a welwyd mor gyffredin yn nghynulliadau crefyddol Cymru! A ydyw wedi

myned allan o'r ffasiwn dros byth? Na ato Duw! Pwy a ŵyr na welir llawer eto yn dyfod "dan gerdded ac *wylo*" i ofyn y ffordd i Sïon, a Sïon hithau yn wylo gan lawenydd wrth eu gweled?

Ond at ein mater. Nodwedd y diwygiad hwn drwyddo oedd deffröad a chyffro. Ac nid rhyfedd hyny chwaith. Yn hytrach, y rhyfeddod yw fod dynion mewn gwlad fel Cymru, sydd mor lawn o wybodaeth gair Duw, a dynion o ddeall a barn, yn gallu byw yn dawel a difraw mewn sefyllfa y gwyddent, pe'r ystyrient, ei bod yn un ofnadwy o echryslawn—yn golledig, ac yn y perygl mwyaf bob dydd o syrthio i dragywyddol wae! Nid oes yr un cyfrif i'w roddi am y difaterwch damniol hwn, sydd wedi meddiannu corff mawr ein cenedl, yn fyd ac eglwys, ar hyn o bryd, heblaw mai twyll ydyw pechod, a bod duw'r byd hwn, trwy ei ystryw, yn gallu llwyddo yn hynod i ddallu a thwyllo meddyliau dynion. Nid oes yn eisieu ar unrhyw adeg ond i ddynion ymddeffro i ymdeimlo â difrifwch eu sefyllfa golledig, na byddant yn y fan wedi eu llenwi â'r pryder ac â'r trallod mwyaf. Mae'r fath ofnadwyaeth yn nghholledigaeth dyn, ag a wnai o'i adnabod yn drwyadl, y dyn mwyaf difraw, a chryfaf ei *nerves*, yn ddychryn iddo ei hun ac i'r mwyaf dewr floeddio yn chwerw. Na ryfedder, gan hyny, fod y deffröad a feddiannai y miloedd yn adeg y diwygiad hwn yn cynyrchu y fath gyffro.

Nodwedd arall, arbenig, ar y diwygiad hwn oedd, mai y cyfarfodydd gweddïau yn fwy na'r pregethu a fyddai yn foddion i'w gynyrchu. Gwir y byddai y pregethu dan eneiniad anghyffredin o rymus yn awr ac eilwaith; ond byddai y cyfarfod gweddi am dymor braidd bob tro yn sicr ohono. Gyda chyfarfodydd gweddïau y dechreuodd yn yr America; ac felly hefyd y dechreuodd ac y parhaodd i fyned rhagddo yn y wlad hon. Gan gofio, mewn cyfarfod i weddïo gan y disgyblion, tua dydd y Pentecost yn Jerusalem, y dechreuodd y diwygiad mwyaf grymus a llwyddiannus a fu erioed hyd yma yn hanes yr eglwys. Bydd.i dylanwadau mor anghyffredin o nerthol yn cael eu teimlo mewn cyfarfodydd gweddïau trwy y wlad y pryd hwn, fel nad anghofir mohonynt yn ddiau dros byth. Buont yn foddion i ddeffroi a dychwelyd miloedd a miloedd o bechaduriaid at Grist a'i grefydd. Fel engraifft o laweroedd o gyfarfodydd gweddïau a fu trwy y wlad yr adeg hon, gallwn nodi un amgylchiad a ddigwyddodd yn agos atom. Yr oedd yspryd grâs a gweddïau—ïe, yn ddios dyna ydoedd ac nid dim arall—wedi dechreu cael ei dywallt a'i deimlo gan laweroedd ar hyd yr ardaloedd hyn, Llanrug, Llanberis, Dinorwig, a'r cylchoedd cyfagos, yn nechreu Awst, 1859, nes yr oedd cyfarfodydd gweddïau yn dyfod yn amlach ac yn fwy poblogaidd na braidd yr un cynulliad. Ganol

dydd y 25ain o'r mis crybwylledig, gwelwyd pedwar neu bump o chwarelwyr ieuainc blaen uchaf chwarel Dinorwig yn troi allan i lanerch gerllaw, yn ochr yr Elidir, i gydweddïo. Deallwyd eu hamcan, a dilynwyd hwy gan luaws o'u cydweithwyr, fel yn ebrwydd y daeth i'r llanerch hon gynulleidfa gref, ac yn eu plith rai tra anystyriol. Ond cyfarfod i'w gofio ydoedd hwn. Disgynodd y "*peth rhyfedd*," fel y mynai y chwarelwyr ei alw y pryd hyny, ar y cynulliad, nes yr oedd dynion ieuainc, ac ereill dibris ac anystyriol, yn syrthio ar eu gwynebau, yn cydio yn ngwellt y ddaear, ar wallgofi gan drallod a dychryn, ac ereill drachefn wedi eu llenwi â gorfoledd anrhaethadwy. Trwy ganiatâd siriol yr hên oruchwyliwr, Mr. Griffith Ellis—coffa da am dano!—cyhoeddwyd drwy y chwarel y byddai cyfarfod i weddïo drachefn ar y llanerch oedd yn barod wedi ei chysegru ar fynwes yr Elidir, ganol dydd y cyntaf o Medi; a mawr oedd y disgwyl am dano. Ar yr awr benodol daeth corff mawr y chwarelwyr yn nghyd; a daeth cannoedd ereill o wŷr, gwragedd, a phlant, o bob cyfeiriad, i'r un lle, fel y bernir fod nifer y gynulleidfa o ddwy fil a haner i dair mil o eneidiau; a disgynodd "y peth rhyfedd" yr un mor rymus yn y cyfarfod hwn drachefn ag yn yr un cyntaf. Os teimlwyd "nerthoedd y byd a ddaw" mewn cyfarfod erioed—os yw yn synwyr dyweyd hyny—fe'i teimlwyd gan gannoedd yn y ddau gyfarfod hynod hyn. Bu llawer o gyffroadau ar lethr yr hên Elidir erioed, yn ol iaith y chwarelwyr, gan ergydion powdr hollt, a chwympiadau aruthrol; ond erioed o'r blaen hyd y tro hwn, ni aflonyddwyd dim ar ei mynwes dàlgref gan gyffro o'r byd anweledig. Cynyrch y cyffroad rhyfeddol hyn a fu ychwanegiadau dirfawr at yr holl eglwysi yn yr ardaloedd cylchynol o bob enwad.

Parodd fod cymaint o gyffroad gyda'r cyfarfodydd gweddïau, a dim neillduol gyda'r pregethu oddieithr yn anaml, gryn lawer o feirniadu a beio ar y pryd, fel yr oedd yn naturiol disgwyl. Dygwyddai yn gyffredin yr adeg hon i'r pregethwr druan fod wrthi yn pregethu â'i holl egni am awr; eto ni byddai llêf na neb yn ateb—pawb yn ddigon tawel a digyffro. Ar ol y bregeth, wele gyfarfod i weddïo, ac yn ebrwydd dyna bobpeth yn gyffro byw. Peth a welsom lawer gwaith oedd hyn. Yr oedd y gwahaniaeth mor amlwg ac mor hynod, fel mai nid rhyfedd fod y beirniadu mor hael. Edrychai llawer yn ddrwgdybus ar y diwygiad am na fuasai mwy o arddeliad ar y pregethu. Mynai ereill mai yn y pregethu, neu yn hytrach yn y pregethwyr, yr oedd y diffyg, a phe buasai yr un deffröad gwresog yn yspryd y pregethwr ag a enynai yn yspryd y gweddïwr, y buasai yr effeithiau yn gyffelyb. Elai rhai

mor bell ag i dybied, er fod y pregethu yn efengylaidd o ran mater, eto ei fod yn colli cymaint mewn amcan, fel nad oedd yn wiw gan yr Yspryd Glân roddi ei sêl arno. Ond yr esboniad mwyaf cymedrol, ac fe ddichon mai y mwyaf cyffredinol, ar y gwahaniaeth hwn ydoedd, fod Yspryd Duw yn rhoddi yr eneiniad hwn ar y cyfarfod gweddi, er mwyn amlygu ei allu grasol yn fwy, ac hefyd er rhoddi urddas ar gynulliad oedd wedi syrthio yn isel gan yr eglwys. Yr oedd y cyfarfod i weddïo, fel mae yn wybyddus, cyn y diwygiad hwn wedi syrthio yn isel; yn wir, y mwyaf diwerth a hawddaf ei hebgor o'r holl gynulliadau crefyddol ydoedd. Os byddai cyflawnder o bregethu gan gynulleidfa, ni chai y cyfarfod gweddi le ganddi i roddi gwadn ei droed i lawr o gwbl; dim ond rhyw fymryn ar y nos Lun cyntaf o'r mis; ac yr oedd hwnw hefyd mewn llawer man yn barod i farw. Mae yn argoel glir bob amser, dybygem, fod y teimlad addolgar wedi syrthio yn ddifrifol o isel mewn cynulleidfa, os bydd rhyw lûn o bregeth, gan yw enw o bregethwr, yn fwy derbyniol ganddi na chyfarfod i weddïo Duw. Ac felly barnai llawer o ddynion da, fod yr Yspryd Glan, er mwyn codi urddas y cynulliad crefyddol oedd wedi syrthio mor isel, yn tywallt ei gorn olew ar ben y Dafydd fychan hwn, yn hytrach nag ar y pregethu y meddyliai y lluaws lawer mwy ohono. Ac heblaw hyn hefyd, mae Efe, tuagat amlygu ei allu grasol, wedi arfer gwneyd pethau mawrion trwy offerynau a moddion a gyfrifid yn ddirmygus gan ddynion. A pheidiwn a rhyfeddu os bydd iddo Ef eto wneyd pethau mawrion yn ein gwlad mewn rhyw wêdd a thrwy ryw foddion gwahanol i'r hyn y byddwn ni yn disgwyl.

Yn hytrach na bod dim yn ngwêdd y diwygiad hwn yn tueddu at iselu gweinidogaeth y Gair, caed aneirif brofion drwyddo i'r gwrthwyneb, sef nad oedd yn y diwedd ond casgliad mawr o gynyrch y blynyddoedd blaenorol o bregethu. Wrth wrando y dychweledigion lluosog yn adrodd eu helynt, addefent heb eithriad, braidd, fod rhyw air neu sylw mewn pregeth a wrandawsent er's llawer dydd, wedi mynu aros yn eu cydwybodau, er gwaethaf holl rwysg eu bywyd digrefydd. Addefai llawer o wrandawyr cyson a moesol y bu gweinidogaeth y Gair trwy y blynyddoedd yn difa gwraidd cryfder eu hanufudd-dod i'r Efengyl; ac erbyn dyfod y cyffro hwn arnynt, nid oedd ynddynt nerth mwyach i'w wrthsefyll. Do, do! bu yr adfywiad cyffrous hwn yn adgyfodiad i lawer hên destyn, a pheth mawr "*o ryw air*" mewn pregethau, oedd wedi eu claddu yn nghydwybodau gwrandawyr Cymru, a hyny weithiau er's maith amser. Sylw da gan Mr. Charles, fel y clywsom, oedd hwnw wrth gynghori pregethwyr unwaith, "Gwnewch eich

pregeth mor dda ag y medroch; ond *rhyw air* ohoni a fendithir i wneyd y gwaith achubol, a hyny, o bosibl, ar ol llawer o ddyddiau." Clywsom Mr. Elias yn sylwi rywbryd, fod rhywbeth yn debyg yn ngoruchwyliaeth grâs Duw i ddynion yn saethu craig; rhaid cael dyn grymus a dyfal i dyllu y twll dwfn, a dyn medrus i roddi y pylor i mewn, i stampio a chodi y pricer, ac yn y blaen; ond dichon mai rhyw fachgen bywiog a llawn ysfa, a fydd yn cael cenad i redeg i danio y twll, ys dywedir, a hyny wedi'r cwbl a barai'r ymddrylliad. Felly y bu gyda'r diwygiad hwn. Yr oedd yn ganlyniad neu yn ffrwyth ugain mlynedd o bregethu, a llafur dyfal a blin. Ond talodd y costau yn dda pan y daeth. Ymdroisom gyda hynyma, am y gallai fod yn rhyw gysur i bregethwyr ac athrawon crefyddol y blynyddoedd hyn, feddwl nad yw yr holl bregethu a'r dysgu yn colli ymaith yn llwyr ar gydwybodau y lluaws, er mor aflwyddiannus yr ymddengys hyny ar y pryd. Os bydd bachau yn y bregeth, fel y dywedai un hên flaenor, mwy na thebyg y bydd i rai ohonynt lynu mewn cydwybodau; ac er holl ystryw diafol, yno y mynant fod. Gan hyny, fy mrodyr, awn rhagom gyda'n gwaith yn galonog. Pregethwn, llafuriwn, a phoenwn, a *gweddiwn, a chredwn* y daw adeg cynhauaf eto ar ein Cymru anwyl! "Canys nid yw Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofio eich gwaith a'ch llafurus gariad."

Peth arall yn y diwygiad dan sylw a fu yn foddion i ddeffroi meddyliau lluaws dirfawr, a'u chwanegu at yr eglwysi, oedd y cyfarchiad yn niwedd y bregeth, neu y bregeth ddwbl, fel y mynai rhai ei galw. Ar ol pregeth fèr yn y pwlpud, a gweddi fèr, yna disgynai y pregethwr i'r "sêdd fawr," fel ei gelwir, ac a roddai gyfarchiad difrifol o'r fan hono drachefn i'r rhan annychweledig o'r gynulleidfa yn benaf, gan eu cymhell, os byddai neb yn teimlo awydd, i aros yn ol yn y cyfarfod eglwysig a ddilynai. Gan fod hyn yn beth mor newydd a dyeithr, bu hyn hefyd yn destyn llawer o feirniadu a beio. Gofynid gyda mesur o ddirmyg, Pa synwyr sydd i'r un pregethwr draddodi dwy bregeth i'r un gynulleidfa yn yr un cyfarfod; un yn y pwlpud, a'r llall yn y sêdd fawr? Onid mwy rhesymol a gweddus a fuasai gwneyd un bregeth o'r ddwy, a thraddodi hono yn y pwlpud, neu dano, fel y buasai yn dewis? Ond, beio neu beidio, dyma'r dull oedd yn llwyddo; a llwyddiannus iawn a fu am ei dymhor. Hyd y gwyddom ni, Mr. D. Morgan a fu y cyntaf i arfer y dull newydd hwn; ac wrth ei weled ef yn llwyddo, dilynwyd ef gan ereill. Modd bynag, rhaid fod y brodyr hyn wedi eu gwresogi i fesur anghyffredin âg "yspryd y diwygiad," pan y meiddient fod yn ddigon gwrol i dori ar draws hên ffurfiau sefydlog pregethu trwy'r oesoedd. O! na, nid chwareu o

beth oedd hyn! Dygwyddai yn lled fynych i'r bregeth yn y pwlpud basio heibio yn ddigon cyffredin, heb argoel fod neb yn teimlo nemawr oddiwrthi; eithr nid felly bob amser. Ond pan ddelai y pregethwr i'r sêdd fawr i draddodi ei ail bregeth, byddai hono yn gafael. Dan y gyntaf byddai gwynebau pawb yn ddigon sychion; ond dan yr ail, gan amlaf, byddai gwynebau cynulleidfa yn llifeiriant o ddagrau. Ni byddai gan y pregethwr ddim i'w ddywedyd yn ei ail bregeth mwy nag yn y gyntaf nad ydoedd y gwrandawyr yn ddigon cynefin â'u gwrando trwy eu hoes; ac eto mor wahanol yr effeithiau! Dyma y ffaith, pa gyfrif bynag sydd i'w roddi am dani.

Cwestiwn naturiol sydd yn codi, ac yn bendifaddeu y cwestiwn teilwng o ystyriaeth ddofn pregethwyr y blynyddoedd hyn, ydyw, Paham yr oedd y cyfarchiad yn y sêdd fawr yn fwy effeithiol na'r bregeth yn y pwlpud? Cynygiwn yr atebion canlynol i'r cwestiwn gòr-bwysig hwn. Atebiad Mr. Edwards, Penllwyn, i hyn ydoedd, fod y pregethwr tra yn y pwlpud, a'i wrandawyr, megys mewn dau gylch gwahanol, ac mewn pellder y naill oddiwrth y llall; ond pan ddisgynai y pregethwr i'r sêdd fawr, ei fod ef a'i wrandawyr wedi dyfod megys o fewn yr un cylch, ac i'r agosrwydd mwyaf at eu gilydd. A gallwn ychwanegu; yn y pwlpud yr oedd y pregethwr yn ymosod ar ei wrandawyr megys o'i amddiffynfa; ond bellach wele yr ymrysonfa yn dyfod megys yn law-law. Os byddai y bregeth yn y pwlpud yn pasio yn ddiafael, byddai hyny drachefn yn cyffroi teimlad y pregethwr, ac yn minio ei ymadroddion at yr ail ymosodiad. Yr oedd a fynai y pregethwr yn ei gyfarchiad â'r rhan annychweledig o'i wrandawyr yn benaf, ac felly byddai yn fwy pwyntiol, yn dywedyd *wrth* ei wrandawyr, ac nid yn unig yn eu *clyw*; a byddai o hyny yn fwy difrifol. Byddai yn ei gyfarchiad yn fwy rhydd—yn fwy *extempore*, nag yn ei bregeth, ac felly yn fwy tarawiadol a bywiog. Gŵyr pregethwyr drwy brofiad, fod rhyw sylw newydd a fo yn taro i'r meddwl yn sydyn yn yr *act* o bregethu, yn eu cyffroi hwy eu hunain, ac felly yn taro meddyliau eu gwrandawyr yn llawer mwy grymus. Dyma y pelenau tanllyd, y *bombshells*, â pha rai y byddai yr hên bregethwyr yn gwneyd y fath hafog ar eu gwrandawyr. A byddai y gwrandawyr hwythau hefyd yn *disgwyl* am rywbeth yn y cyfarchiad uwch na'r boddhâd a ddisgwylient yn y bregeth; ac nid yn fynych yr oedd y *disgwyl* yna yn cael ei siomi. Wrth gymeryd yr amrywiol bethau hyn i'r cyfrif, yn nghydag yspryd gwresog y pregethwr, ei awydd angerddol am ennill eneidiau i Grist a'i grefydd, yr hyn hefyd a wnelai ei gyfarchiad yn ddifrifol, yn syml, yn dyner, ac eto yn finiog, nid rhyfedd fod y cyfarchiad hwn yn cario y fath ddylanwad.

Ië, yn *yspryd* y pregethwr, cofier, yr oedd dirgelwch y llwyddiant. Heb y *peth byw* yn yr yspryd, ni buasai tori allan o'r drefn gyffredin ond hyfdra dirmygus. Goddefer i ni yn ostyngedig awgrymu i'n brodyr anwyl y pregethwyr, Ai nid doeth fyddai i ni, yn yr adeg hon o aflwyddiant ar ein pregethu, ystyried yn ddifrifol gerbron Duw a ydyw ein hyspryd yn peidio bod yn rhy gyffredin gyda'r gwaith—myned i'r pwlpud yr un fath ag i rywle arall; ac a ydyw ein hamcan hefyd yn peidio bod yn rhy isel—boddhau cynulleidfa yn hytrach na cheisio ei deffroi, ac, yn mhellach, ai nid doeth fyddai newid rhyw gymaint yn y *dull* o bregethu er ei wneyd yn fwy effeithiol i'w amcan?

Bu llawer o feio ar y pryd ar y brodyr anwyl oedd yn fwyaf selog gyda'r diwygiad, am eu hyfdra hwn o dori ar draws yr hên drefn sefydlog gyda phregethu. Eithr hyd y gwelsom, peth naturiol i ddiwygiad cyffrous, fel yr un dan sylw, a fyddai taflu allan arferion dyeithr, a ymddangosai i sylwedydd oer yn bethau afreolus ac afresymol. Mor afreolus o beth a fyddai i'r hên Fethodistiaid, yn eu diwygiadau poethion, dori allan i orfoleddu wrth y degau, a hyny ar ganol y gwasanaeth! ac eto ar y pryd pa beth oedd mor naturiol ac mor brydferth? Peth afreolus yn ol y drefn bresenol a fyddai canu yr un penill drosodd a throsodd nas gwyddom pa faint, ac eto yr oedd mor naturiol i galonau gwresog, ag a ydyw i galonau oerion ganu yr un penill ond unwaith. Hên chwaer yn Nghlynog mewn adeg o ddiwygiad brwd, fel y clywsom, oedd y gyntaf erioed yn Nghymru a dorodd allan i neidio wrth orfoleddu. Nid oedd y chwaer hon wedi gweled na chlywed am neb erioed yn gwneyd peth mor afreolus: ond yn mhoethder ei hyspryd, gan nas gwyddai pa beth i wneyd â hi ei hun, dyna hi yn tori allan i neidio â'i holl egni, heb feddwl unwaith a oedd hyny yn weddus ai peidio. A daeth neidio wrth orfoleddu yn beth mor gyffredin gyda'r hên bobl, fel y dewisodd y Sais oer eu galw yn *Jumpers*. Mewn adeg o dawelwch difraw, mae cadw o fewn cylchoedd ffurfiol yn beth hawdd; yn wir, mae tori ar eu traws yn beth anhawdd. Ond i yspryd wedi ei danio gan gariad Crist ac awydd angerddol am achubiaeth dynion, rhaid iddo gael tori allan yn ei ffordd ei hun, ac eled ffurfiau i'r lle yr elont. Pa beth ond yr yspryd gwresog hwn yn tori ar draws hên ffurfiau gosodedig, a roes fôd i Brotestaniaeth, ac i Fethodistiaeth, a phob *aeth* arall y bu y byd yn well ohonynt? A meiddiwn ddywedyd, pa bryd bynag y ceir diwygiad mawr eto yn ein gwlad, y bydd yn ormod tâsg i unrhyw allu daearol ei gadw o fewn trofeydd ffurfiau gosodedig. Rhaid i yspryd wedi ei roddi ar dân gan sêl dros Dduw, gael ei ffordd ei hun, costied a gostio. "*A dryllir yr iau oherwydd yr*

*eneiniad.*" Yr "eneiniad" oedd yn gwroli y brodyr i dori allan o'r hên drofäu. Yr "eneiniad" oedd yn cysgodi yr annrhefn, ac yn prydferthu y cwbl. Pan gollwyd yr "eneiniad," fe gollwyd y prydferthwch a'r nerth. Ofer a dirmygus bellach oedd myned allan fel Samson ac ymysgwyd fel cynt! A da hefyd oedd cael yr hên gylchoedd sefydlog i syrthio i mewn iddynt. O! yr "eneiniad, yr eneiniad!" Pa bryd eto y disgyna ar bregethwyr ac eglwysi Cymru?

Awst, 1879.

---

RHAN III.

Yn yr adfywiad dan sylw, fel yr un fu ugain mlynedd o'i flaen, daeth y wêdd gymhelliadol o bregethu a chyfarch i lawn waith; a bu yn fwy llwyddiannus, os oedd modd, yn yr olaf hwn nag yn y cyntaf. Yr oedd teimladau y lluaws yn llawer mwy cyffrous yn hwn, ac felly yn haws dylanwadu arnynt. Megys yn y diwygiad blaenorol, felly yn awr, cyhoeddid cyfarfod eglwysig ar ol pob pregeth a chyfarfod gweddi; ac anogid, os byddai neb yn teimlo awydd i ymuno â chrefydd, i aros yn ol yn hono. Bu hyny yn llwyddiannus i gael chwanegiadau dirfawr at yr eglwysi gyda phob enwad trwy'r wlad. Yn y diwygiad cyntaf a nodwyd, yn rhy fynych byddai y cymhell gan frodyr yn meddu mwy o sêl nag o farn yn myned yn *ddirgymhell.* Bygythid y gwrandawyr yn erwin onid ufuddhäent; a byddai hyny gyda llawer yn peri gwrthdarawiad—yn caledu yn lle ennill. Ond yn y diwygiad diweddaf, byddai y brodyr yn fwy tyner a gwyliadwrus; ac eto cymhellent yn daer a difrifol, os byddai neb yn y gynulleidfa a'u meddwl yn gogwyddo at hyny, gan addaw rhoddi pob help llaw i rai pryderus er eu dwyn yn mlaen. Eithr bu y wêdd gymhelliadol hon drachefn yn destyn llawer o feirniadu a beio. Dywedid y pryd hyny, a dywedir gan lawer eto, mai perygl y dull hwn o gymhell dynion at grefydd, ys dywedir, yw dangos yr eglwys iddynt yn lle Crist, a rhoddi yr un cyffelyb bwys ar broffesu Crist ag ar gredu ynddo. A dywedid mai llawer diogelach a fuasai cyfeirio dynion deffrous at Grist fel yr unig noddfa i bechadur colledig, a gadael iddynt hwy eu hunain benderfynu y cwestiwn o broffesu Crist mewn pwyll ac wedi bwrw y draul. A dyma hefyd dybygid oedd syniad yr hên Fethodistiaid ar hynyma.

Mae yn ddios fod y cymhell hwn ar ddynion i wneyd proffes o grefydd, fel y dywed Gurnal, am "weddi anghyffredin," yn arf peryglus—yn galw am lawer o ddoethineb pa fodd a pha bryd i'w

ddefnyddio. Mae perygl o'r ddeutu. Mae yn fwy na thebyg y byddai y brodyr anwyl ar adegau, yn eu gòr-awydd i chwanegu dychweledigion, yn cario y cymhell hwn braidd yn rhy bell, ac felly yn y perygl o bacio dynion i fyny mewn proffes o grefydd heb ei bywyd. Ond mae perygl hefyd o'r tu arall, i ddynion pryderus gael eu gadael i ymdrallodi ynddynt eu hunain, ac i ymnychu mewn ofnau, heb roddi iddynt bob help i ddyfod yn mlaen yn y cyfeiriad y maent yn teimlo cymaint awydd. Barnai y brodyr wrth arfer y dull cymhelliadol hwn i gael dynion at grefydd, y gallai hyny fod hefyd yn foddion llwyddiannus i'w cael at Grist, megys y caed aneirif brofion yn hanes ein Cyfundeb. Tybier fod dyn i fesur wedi cael ei ddeffroi gyda'i fater ysprydol, ac mewn canlyniad i'r cymhell yn aros yn ol yn y cyfarfod eglwysig: oni fyddai hyny yn fantais werthfawr i arwain y meddwl cythryblus i'r iawn, ac i "agoryd ffordd Duw iddo yn fanylach?" Mae "dyfod at grefydd" i ddyn pryderus, a dyweyd y lleiaf, yn gychwyn yn yr iawn gyfeiriad. Yn wir, gwelsom rai yn gwneyd hyn er mwyn ennill gwraig, ac eto yn y canlyniad yn troi allan yn ddynion gwir grefyddol. Chwyrnu y byddai yr hên dadau ar y dull hwn o gymhell dynion at grefydd. Clywsom Mr. Elias, yn adeg y diwygiad ddeugain mlynedd yn ol, yn ei gondemnio yn ddifrifol, gan ei alw yn ysfa gnawdol o geisio myned a gwaith yr Yspryd Glân yn nychweliad pechaduriaid o'i law. Eto byddai rhai ohonynt hwy yn arfer y dull cymhellol yn awr ac eilwaith. Clywsom ŵr yn adrodd ei fod er's mwy na haner can' mlynedd yn ol yn gwrando y Parch. William Morris, o Gilgerran y pryd hwnw, yn pregethu ar nos Sabboth yn hên gapel Jewin Crescent, Llundain, ac ar ddiwedd y gwasanaeth yn cymhell, os oedd neb yn y gynulleidfa yn teimlo awydd i roddi eu hunain i Grist a'i grefydd, ar iddynt aros yn ol yn y cyfarfod eglwysig a ddilynai, ac y byddai yn dda gan y frawdoliaeth eu gweled; a chwanegai ddarfod iddo gymhell yn gyffelyb amryw droion yn Nghymru, a phob amser gyda mesur o lwyddiant. Y canlyniad y nos Sabboth hwnw a fu, i dri ar ddeg aros yn ol o newydd. Na! nid oedd, ac nid yw y *cymhell* hwn gyda phregethu yn gymaint peth allan o'i le ag y mŷn rhai brodyr i ni dybied, ond ei arfer mewn modd difrifol a doeth. Beth a wyddom ni pa bryder a ddichon fod ar feddyliau dynion gyda'u mater ysprydol, hyd yn nod ar adeg dawel fel yr un bresenol, a pha mor dda iddynt a fyddai cael yr help llaw a allai y cymhell hwn roddi iddynt?

Cyn myned yn mhellach, bydd genym air i'w ddyweyd wrth "ymholydd y byd hwn." Bu y doethyn yma a'i feirniadaeth yn

drymach ar ein diwygiad na neb rhyw ddyn. Mynai efe nad oedd yr holl gyffro a'r helynt yn ddim amgen nag effaith naturiol y dynol yn ymrwbio *yn* y dynol, fel rhwbio dau bren yn eu gilydd yn cynyrchu gwres a thân. Dyna, meddid, yr Americaniaid yn hèl at eu gilydd i'w *camp meeting* i wneyd diwygiad, ac wedi y cwbl "diwygiad gwneyd" a fyddai, ac fel un gwneyd y diflanai; canys cyn braidd i gynulleidfa y *camp meeting* ddychwelyd bawb i'w fan, byddai llawn cymaint o eisieu diwygiad ag erioed. Addefwn yn rhwydd fod gan y *dynol* ddylanwad grymus ar y *dynol*, er drwg neu er da. Felly y mae Awdwr natur yn ddoeth wedi ordeinio. Eithr byddai dyweyd y gallai y *dynol* heb y DWYFOL gynyrchu y deffröadau cyffrous a feddiannai y miloedd yn adeg y diwygiad hwn, yn berffaith ynfydrwydd. Pa allu dynol ar y ddaear allai ddarostwng dynion beilchion, hunanol, a chaled-galon, megys ar unwaith i'r llwch mewn trallod a dychryn gerbron Duw, i lefain am drugaredd? Beth? gallu dynol yn dwyn miloedd o bobl ieuainc gwylltion, penrhydd, ac afreolus y wlad i'w dillad a'u hiawn bwyll, i broffesu Crist a gweddïo Duw—i gefnu yn llwyr ac am byth, lawer ohonynt, ar eu holl arferion drygionus blaenorol; mewn gair, i'w troi a'u gwneyd yn hollol wahanol i'r hyn oeddynt unwaith! Ac nid, ychwaith, y dynion oedd yn meddu y graddau helaethaf o'r dynol a fu yn offerynau i wneyd y gwaith mawr hwn. Yr oedd dynion galluog y pryd hwnw yn teimlo awydd cryf i wneyd yr hyn y byddai eu brodyr a gyfrifid yn llawer îs-raddol iddynt yn llwyddo ynddo, ond yn hyny yn methu. Mae dynion da y blynyddoedd hyn yr un mor alluog ac mor "ddynol," a'r un mor awyddus i effeithio cyfnewidiadau ar eu cyd-ddynion, ag y llwyddodd dynion da ugain mlynedd yn ol mor rhyfeddol ynddo; eithr er gwneyd eu goreu, eto mor aflwyddiannus ydynt! Gan hyny, pe gallai y dynol gynyrchu yr hyn a wnaed y pryd hyny, paham nad allai gynyrchu y pryd hwn? Esgusoder ni am fyned ychydig o'r ffordd, gan i ni glywed rhyw awgrymiadau lled anny-munol o barth i'r *dynol* yma yn ei berthynas â'n diwygiadau.

Gan i ni gael taflu y gair hwn, "dynol," i'n danedd, yn ei gysyllt-iad â'r diwygiad dan sylw, purion; yr ydym yn barod i'w dderbyn. Rhaid cael y dynol, nis gall neb wadu. Y dynol yw y moddion, y cyfrwng a ordeiniodd Duw i'r *Dwyfol* weithredu trwyddo. A rhaid cael y *dynol* i ymrwbio *yn* y *dynol*. A pho agosaf y delo y dynol at y dynol, mwyaf llwyddiannus oll y gellir disgwyl i'r moddion fod er cyrhaedd ei amcan. Wele ni wedi ein harwain gan yr athronyddyn hwn, Mr. "Ymholydd," yn anfwriadol, mae yn wir, at wirionedd teilwng o ystyriaeth mwyaf difrifol pob un sydd yn amcanu at wir leshad ei gyd-ddynion. Mae Duw wedi ordeinio y

dynol yn foddion i'w ras; a pho agosaf y delo y dynol *at* y dynol, mwyaf llwyddiannus oll y gellir disgwyl i'r moddion hwn fod. Pan ofynwyd i'r diweddar Mr. Rees, fel y clywsom, Pa fath bregethu y gellir yn benaf ddisgwyl i'r Yspryd Glân ei fendithio er dychweliad pechaduriaid? ateb gŵr Duw i'r cwestiwn gòr-bwysig yna ydoedd, mai y pregethu hwnw a fyddai debycaf o lwyddo i hyny pe heb yr Yspryd Glân. O! ddarllenydd anwyl, dyna i ti gyfrol o synwyr mewn brawddeg fer! Pregethwr yn dywedyd wrtho ei hun, "Wele, mi wnaf fy ngoreu, yn ol y cymorth a gaffwyf, i ddwyn gwirionedd pwysig fy nhestyn—baich fy mhregeth, i afael âg ystyriaeth a chydwybod fy ngwrandawyr." Da, was da a ffyddlawn! oni lwyddi yn dy amcan, nid arnat ti y bydd y cyfrifoldeb, ac ni byddi heb dy wobr. Glanhäer pwlpudau Cymru, a Lloegr hefyd, oddiwrth y pregethau diamcan. Bu agos i ni a dywedyd, Gwnaed yr yspryd drwg ei faich ohonynt! Ond gan gofio, mae yn rhy dda gan y gelyn am bregethau diamcan; nis gall eu hebgor. Da fyddai i'r pregethwr gofio yn wastad mai dynion yw ei wrandawyr, dynion pechadurus mae yn wir, ond *dynion* serch hyny, a'i fod i amcanu deffroi y pechadur drwy y dyn, a pho agosaf y deuir at y dyn, agosaf hefyd at y pechadur. Hawdd llithro i edrych ar y dyn a'r pechadur fel dau fôd gwahanol, a chymeryd y naill ar wahân i'r llall, ac felly methu yn yr amcan. Hên lyfr yw y ddynoliaeth y gweddai i bawb sydd am wneyd y byd yn well ei efrydu yn dda er ei ddeall yn gywir. Efallai y dywed rhywun ein bod wedi llithro i rywle, ac anghofio y diwygiad. Nagê, ddarllenydd, yr ydym yn ei ganol, ond, druan, heb ond ychydig o'i yspryd. Nerth a bywyd y diwygiad hwn oedd fod Yspryd Duw yn deffroi meddyliau dynion, a'r rhai hyny drachefn, trwy ddefnyddio y moddion tebycaf i lwyddo, yn cael eu bendithio gan yr un Yspryd Dwyfol i ddeffroi y wlad. Nid yn unig dyna oedd nerth a bywyd diwygiad y flwyddyn 1859, ond dyma hefyd fydd nerth a bywyd diwygiad rhyw flwyddyn hynod sydd eto, ni a hyderwn, yn dynesu yn y dyfodol.

Crybwyllasom yn barod mai diwygiad y flwyddyn 1859, o ran ychwanegiadau at yr eglwysi ar y pryd, oedd yr un mwyaf llwyddiannus a fu yn Nghymru erioed o ddim cymhariaeth. Dywedwyd y bu ychwanegiad gyda'r Methodistiaid yn Sir Aberteifi yn unig tuag wyth mil. Pe cymerid yr holl siroedd, a phob enwad, yn nghyda'r Cymry yn nhrefi Lloegr i'r cyfrif, gallem dybied y bu ychwanegiad at yr holl eglwysi yn rhywbeth uwchlaw *hanner cant o filoedd* o eneidiau, a hyny, cofier, mewn yspaid mor fyr a deuddeng mis o amser! Wrth ystyried nad yw ein cenedl ond bechan, fe saif y ffaith hon yn un hynod yn hanes Cristionogaeth. Trwy y

cyffröad hwn, achubwyd miloedd o bechaduriaid o bob gradd ac oed—sobrwyd llu mawr o feddwon—bu raid i lawer o hên arferion drygionus, fel adar y nos, ffoi i'w llochesau, am dymhor o leiaf—daeth llawer cynulleidfa at grefydd braidd yn llwyr—gwaredwyd llawer o eglwysi bychain a gwanaidd rhag llwyr ddifianiad—daeth llawer o ddynion cyson a da, oedd o'r blaen "o fewn ychydig," trwy y deffröad hwn yn "gwbl oll" yn eiddo i Grist a'i grefydd, a chafwyd hwynt yn ddynion gweithgar a gwerthfawr, a pharhausant felly. Mae lluaws mawr eto yn fyw o frodyr a chwiorydd, wedi profi eu hunain yn ffyddlawn i Grist, yn priodoli dechreuad eu bywyd crefyddol i ddeffröad y flwyddyn ryfedd hon.

Eithr bu i'r diwygiad hwn, fel i bob diwygiad cyffrous y gwyddom am dano, ei ochr dywyll—ei amseroedd diweddaf yn ddyddiau enbyd. Parhaodd pethau i fyned rhagddynt yn lled hylaw am flwyddyn neu ddwy; yna tawelodd y cyffro, oerodd y teimladau gwresog, a daeth "awr y brofedigaeth" ar lawer o'r dychweledigion ieuainc yn arbenig. Dechreuasant fod yn anhydrin, fel plant wedi cael gormod o foethau. Llithrai llaweroedd ohonynt, y naill ar ol y llall, a'r naill wrth weled y llall, at eu hên arferion. Daeth gwrthgilio, llithro i bechodau, a diarddel, bellach, yn bethau cyffredin drwy yr eglwysi. Wrth weled hyny, tybiodd llawer fod y diwygiad wedi troi allan yn waeth i'r genedl, ac yn fwy colledus i'r eglwysi, na phe buasid hebddo, a bod yr Arglwydd wedi ei roddi yn ei lid, a'i gymeryd ymaith yn ei ddigllonrwydd, a hyny yn gerydd ar ei eglwys am geisio ganddo Ef wneyd yr hyn y bu ei bobl yn esgeulus o'i wneyd eu hunain. Pell oddiwrthym ni fyddo cyfranogi o'r syniad hwn hefyd. Yr hyn a ymddangosai yn dywyll ac anhawdd rhoddi cyfrif am dano oedd, fod deffroadau mor rymus ag a brofwyd gan lawer, ac mor debyg i beth gwirioneddol, eto yn syrthio yn fyr o wir ddychweliad. Pa fodd i esbonio y ffaith dywyll hon, nis gwyddom; ac am hyny nid awn i geisio. Un peth sydd eglur: yr oedd y deffroad hwn yn gychwyn da yn yr iawn gyfeiriad. Agwedd ar feddwl dyn pechadurus, sydd yn hanfodol iddo er iachawdwriaeth, yw ymddeffro—dyfod yn ystyriol o'r hyn ydyw, o'r hyn a wnaeth, ac o'r hyn a haeddai fel troseddwr euog yn erbyn Duw. Y peth cyntaf yn y ffordd o waredu pechadur yw ei argyhoeddi o bechod; a dyma y cychwyn yn nghyfeiriad ffordd y bywyd. Ond yn hytrach na ffoi at Iesu fel yr unig Waredwr, darfu i'r llaweroedd hyn yn eu trallod, trwy ystryw diafol a thwyll eu calonau, ffoi i ryw lochesau gau, a syrthio yn fyr o fywyd ysprydol; ac felly ciliasant yn ol. Bu yr Arglwydd Iesu yn ofalus i rag-rybuddio ei eglwys i beidio teimlo yn rhy siomedig pan ddelai adfyd o'r fath yma i'w chyfarfod. Efe a

gyffelybai gyffroadau a ymddangosai yn llwyddiannus fel hyn gyda'i deyrnas, i rwyd a fwriwyd yn y môr, yr hon a gasglodd bob rhyw beth. Ac felly yn gymhwys y bu gyda'r diwygiad hwn. Gwaith yr eglwysi a'u swyddogion am dymhor maith wedi hyn a fu gwneyd y goreu o'r "rhai da," a bwrw "y rhai drwg" ymaith. Eto meiddiwn ddywedyd, y bu yr ennill clir i eglwysi Cymru trwy y diwygiad hwn yn annrhaethadwy. Achubwyd miloedd a miloedd o bechaduriaid ein cenedl i fywyd tragywyddol—nid oes dim os am hyny—yn y flwyddyn ryfedd hon.

Daeth daioni parhaol i'n Cyfundeb o'r diwygiad hwn, heblaw yr ychwanegiadau a nodwyd at yr eglwysi. Yn un peth, bu yn symbyliad i haelioni crefyddol na bu dim yn hanes ein Cyfundeb yn flaenorol yn gyffelyb iddo. Mae ein casgliadau wedi mwy na threblu wrth yr hyn oeddynt yn flaenorol i'r diwygiad; ac am a wyddom ni, y mae felly gyda phob enwad. Yr unig gasgliad sydd wedi aros yn ddigynydd gyda ni yw yr un cenadol; a gresyn yw hyny. Dylasai y casgliad hwn yn arbenig fod wedi cynyddu yn ddirfawr. Mae swm yr hyn a gasglwyd ac a wariwyd ar ein capelau yn yr ugain mlynedd diweddaf yn aruthrol; bron na ddywedem, yn gymaint, os nad mwy nag a gasglwyd gan y Cyfundeb o'i ddechreuad hyd hyny. Yr un modd, mae y casgliad at y weinidogaeth wedi cynyddu yn fawr iawn er's ugain mlynedd.

Y diwygiad hwn hefyd a fu yn foddion i ddwyn y Fugeiliaeth yn ein Cyfundeb i fod yn ysgogiad llwyddiannus. Yr oedd yn yr esgoreddfa, mae yn wir, yn flaenorol, ond yno rhwng byw a marw. Eithr yn ganlynol i'r diwygiad hwn, daeth allan yn blentyn iach a chynyddol; a rhagddi y mae yn dyfod o flwyddyn i flwyddyn; ac y mae yn debygol mai rhagddi yr ä, tra y profa yn gweithio yn ddifefl. Ond na fydder yn rhy hyderus, canys y mae i'r Fugeiliaeth ei pheryglon.

Wele ni bellach yn diweddu gyda'r diwygiadau. Ein hamcan gyda'r ysgrifau hyn ydoedd ceisio deffroi pawb a'u darlleno i ystyried, Ai nid da iawn a fyddai i ni, fel cenedl, gael rhywbeth yn gyffelyb drachefn? A fyddai yn ddymunol i ni yn ein tymhor presenol hwn gael adfywiad crefyddol—rhywbeth yn gyffelyb i'r hyn a gaed yn yr amseroedd aeth heibio? Gwyddom fod dau feddwl ar hynyma. Y mae rhai dynion o wybodaeth a barn yn golygu mai lle yr eglwysi, yn hytrach na sychedu am ryw gyffroadau, yw gweithio yn mlaen yn gyson ac ymroddgar, gan foddloni ar *gynydd graddol*, oddiar farnu mai hwn yn y diwedd yw y cynydd iach, sylweddol, a mwyaf diogel. Ystyria y brodyr hyn fod yr eglwys yn Nghymru bellach wedi dyfod yn allu digon

grymus, ac yn meddu pob manteision i gyflawni ei chenadaeth, heb y cyffroadau diwygiadol a fu yn cynhyrfu y genedl ar adegau ereill, a bod yr Yspryd Dwyfol o hyd yn bendithio ymdrechion ei bobl yn ol mesur eu llafur, ac felly fod pob aflwyddiant gyda gwaith Duw i'w briodoli i ryw esgeulusdra anesgusodol yn y gweithwyr. Yr ydym yn ystyried nad yw syniadau y brodyr hyn mewn un modd yn rhai i'w diystyru. Cynwysant wirionedd pwysig, a theilwng o bob ystyriaeth. Eithr caniataer i ni droi i'r ochr arall, a thaflu nifer o awgrymiadau i ystyriaeth pawb a'u darlleno. A ydyw corff mawr eglwysi Cymru, yr aelodau mwyaf ystyriol ynddynt, yn gallu teimlo yn foddhaol ar y cynydd graddol presenol? Yn wir, a ydynt yn gallu gweled yn glir—a gochel pob eithafion—fod *crefydd* yn y blynyddoedd diweddaf hyn yn cynyddu o gwbl? Na chymerer golwg unochrog, ac na farner yn ol y teimlad ar gwestiwn mor dra phwysig. Onid yw yn rhy amlwg fod lluaws dirfawr yn yr eglwysi hyd yn hyn heb brofi y cyfnewidiad achubol—heb eu geni drachefn, ac felly heb yr un gwahaniaeth rhyngddynt âg un dosbarth, o leiaf, yn y byd oddiallan, ond yn unig mewn proffes? Ac os ydyw fel hyn, o ba le y daw yr ymwared?

Bu yr adfywiad a fu genym dan sylw yn fywyd o farwolaeth i filoedd yn yr eglwysi; ac onid tra dymunol a fyddai cael hyny drachefn? Bu y diwygiad diweddaf, ys dywedai hên frawd o ôf, yn "dwymniad asiad" i luaws pobl ieuainc yr eglwysi ar y pryd. Ac oni byddai yn ddymunol dros ben i ni gael eto yr unrhyw oruchwyliaeth rasol i *dwymno* ac i *asio* y miloedd pobl ieuainc sydd genym yn ein heglwysi? Galwai rhyw frawd yr un diwygiad yn "adeg nodi'r ŵyn." Mor fendigedig o werthfawr fyddai i ni gael adeg eto i nodi âg enwaediad y galon yr holl ŵyn dinôd sydd genym, nad oes neb yn gwybod yn iawn pwy yw eu perchen? Gwaith llafurus y gwinllanwyr, ar adeg o ddifaterwch digyffelyb fel yr un bresenol, yw dyfrhau ychydig ar yr eglwysi, rhag eu gwywo gan y sychder mawr. Ond beth am anialwch ein gwlad—y byd annuwiol a digrefydd sydd yn ymgaledu mewn anufudd-dod i'r efengyl, a chan y diafol wrth ei ewyllys? Onid y ffaith yw mai ychydig o annuwiolion Cymru sydd yn cael eu hachub yn bresenol? Yn y diwygiadau a fu genym dan sylw, byddai gwaith mawr yn cael ei wneyd mewn amser byr. Yn ol iaith y prophwyd, byddai Duw yn tywallt dyfroedd ar yr anialwch, fel y byddai i'w fwystfilod, ei asynod gwylltion, a chywion yr estrys, ddyfod i'w glodfori. Mae yn rhy eglur fod anialwch ein gwlad wedi dyfod eto yn llawn o'r creaduriaid gwylltion ac afreolus hyn. Oni byddai yn iachawdwriaeth i ni fel cenedl gael profi eto flynyddoedd deheulaw y Goruchaf, er

meistroli, dal, a dofi y pethau gwylltion yma? Y mae pob gallu arall yn methu gwneyd dim ohonynt?

Os gofynir, A oes rhyw sail i hyderu y ceir adfywiad crefyddol eto yn Nghymru? ni a dybygem mai digon o sicrwydd am hyny yw, fod miloedd saint Duw trwy y wlad yn hiraethu am dano, ac yn llefain arno ddydd a nos am ei gael, ac ni bydd taw arnynt nes ei fwynhau. Wele, ni edy yr Arglwydd i'w saint ei geisio Ef yn ofer. Ond pa bryd y daw? Pan ddelo ei Seion Ef yn ddigon claf —i deimlo yn ddigon difrifol fod yn rhaid cael Duw i lwyddo ei waith. Ein lle ni yw gweithio yn gyson ac ymroddgar, yn gymaint felly a phe ar ein llafur y dybynai ein llwyddiant, a chydymffurfio â chais y prophwyd Esaiah, " Y rhai ydych yn cofio yr Arglwydd, na ddistewch, ac na adewch ddistawrwydd iddo, hyd oni sicrhao, a hyd oni osodo Jerusalem yn foliant ar y ddaear."

Medi, 1879.

---

## CYFARFOD MISOL SIR GAERNARFON YN YR OES O'R BLAEN.

### RHAN I.

Cyfarfod Misol Sir Gaernarfon yn yr oes o'r blaen! Hyderwn na theimla neb o ddarllenwyr y *Drysorfa* fod hwn yn destyn rhy leol ganddynt; oherwydd rhywbeth tebyg i hanes y naill Gwrdd Misol oedd hanes a helynt yr oll ohonynt drwy bob sir yn Nghymru. Yr oedd yr hên dadau yn troi cymaint trwy eu gilydd yn eu gweinidogaeth deithiol, fel yr oedd eu cynulliadau crefyddol yn naturiol yn dyfod i wisgo yr un nodwedd. Ac er fod y Cyfarfodydd Misol yn mhob sir wedi gwellhau llawer yn eu trefniadau, o leiaf wrth y peth oeddynt, eto maent wedi gwneyd hyny gyda'u gilydd mewn modd hynod. Ac y maent y dydd hwn mor gyffelyb i'w gilydd, fel, wrth ddarllen hanes un ohonynt, y byddwn mewn ystyr wedi darllen hanes yr oll ohonynt. Ni bydd dim gwahaniaeth o bwys, ond yn enwau personau a lleoedd. Ac y mae yr unoliaeth hwn yn arwydd er daioni; mae yn profi fod y Cyfundeb yn ymsymud gyda'i gilydd. Ystyriwn fod y Cyfarfod Misol sydd genym dan sylw yn ddangoseg o'r hyn ydoedd y cyfarfodydd hyn yn gyffredinol ar y pryd. Gall ychydig ymdroi fel hyn gyda hanes crefydd yn yr oes o'r blaen, fod yn fuddiol er gweled cynydd y Cyfundeb, ac er galw i gof y gweithwyr grymus yn yr oes o'r blaen yn parotoi y wlad i lafurwyr yr oes hon; ac hefyd ceir mantais drwy hyn i ystyried pa bethau gwerthfawr oedd gan ein tadau sydd ar goll genym ni.

Yr oedd Sir Gaernarfon y pryd hyn yn un Cyfarfod Misol yn cyrhaedd o Riwgyfylchi, gerllaw Conwy, i Aberdaron, yn eithaf Lleyn, driugain milldir dda o bellder, yn cynwys deg a thriugain o gapelau, ond bod y lluaws ohonynt yn fychain a diaddurn. A bychain hefyd oedd y nifer mwyaf o'r eglwysi. Ac eto yr oedd y diwygiad a fu yn y flwyddyn 1832 wedi peri ychwanegiadau dirfawr yn rhif yr eglwysi, yn ogystal ag yn rhif yr aelodau. Byddai eglwys o driugain neu ddeg a thriugain o aelodau yn barod i feddwl cryn lawer ohoni ei hun. Yr oedd mwyafrif yr eglwysi islaw hyny. Nid oedd cwestiwn arian y weinidogaeth hyd yma yn blino nemawr ar yr eglwysi na'u swyddogion. Eu safon oedd cymeryd a gaent, a'u rhanu hyd yr elent. Yr oedd y Cyfarfod Misol y pryd hyn yn gynulliad yr edrychid arno yn un pwysig iawn, nid yn unig yn yr ardal lle y disgynai, ond hefyd yn yr ardaloedd cylchynol; a mawr fyddai y siarad yn ei gylch a'r disgwyl am dano; a mawr hefyd fyddai y cyrchu iddo, fel y byddai yn rhaid pregethu yn fynych yn ffenestr y pwlpud. Y pryd hyny byddai holl bregethwyr y sir yn bresenol, ac un blaenor, o leiaf, o bob eglwys. Ni byddai neb yn arfer gofyn na rhoddi cyhoeddiad ond am fis yn mlaen, sef hyd y Sabboth cyntaf ar ol y Cyfarfod Misol nesaf. Ac felly, yr oedd yn ofynol cael y brodyr, yn bregethwyr a blaenoriaid, yn nghyd yn mhob Cyfarfod Misol. Os byddai i bregethwr golli Cyfarfod Misol, un o ddeg na byddai allan o bregethu am y mis canlynol; a'r un modd, os collai y blaenoriaid, byddent hwythau allan o bregethwyr. Ac felly, yr oedd yn *rhaid* myned i'r Cyfarfod Misol, bydded y pellder y byddo, y tywydd a ddelo. Pan fyddai Cyfarfod Misol y tu hwnt i'r Eifl, ïe, yn eithaf Lleyn, byddai brodyr Arfon yn myned yno yn finteioedd, a'r un modd brodyr Lleyn ac Eifionydd i Arfon. Wrth gwrs, byddai gan bawb ei farch. Yr oedd march mor hanfodol i bregethwr y pryd hwnw â phregeth. Ac os byddai blaenor heb y cyfleusdra hwn, ystyrid hyny yn ddiffyg lled bwysig ynddo. Wrth ddewis blaenoriaid, ystyrid "ceffyl a chyfrwy" yn gymhwysder lled bwysig i'r swydd. Yr oedd gwesttŷ Plas Clynog yn cael edrych arno y pryd hyn yn lle pwysig. Yno y byddai y brodyr yn troi am adnewyddiad a gorphwysdra iddynt hwy a'u meirch, wrth groesi o'r naill ben i'r sir i'r llall. Ar ol ychydig o orphwyso, gwelid y brodyr ar feirch yn fintai gref yn llon'd y ffordd yn cydgychwyn i'r naill gyfeiriad neu y llall. Yr oedd Plas Clynog yn dŷ cyhoeddus parchus: yr oedd yn *Inn* Fethodistaidd, ac mor hanfodol i Fethodistiaeth fel y buasid yn rhy anhawdd gwneyd hebddo. Buasai allan o reswm i ddyn yru ei farch na cherdded ar draed am ddeg milldir ar hugain heb orphwyso. Cedwid y Plas y

pryd hyny gan hên chwaer grefyddol, Mrs. Roberts; ac yr oedd hi a'i mab a'i dwy ferch yn aelodau yn y Capel Uchaf.

Yr oedd nifer o ddynion enwog y Methodistiaid yn Sir Gaernarfon wedi machludo rai blynyddau yn flaenorol i'r adeg yr ydym ni yn cyfeirio ati, megys Robert Jones, Rhoslan, fel ei gelwid; John Jones, Edeyrn; Mr. Richardson, Caernarfon, ac ereill. Yr oedd Robert Roberts, Clynog, y seraph mwyaf tanllyd a adnabu Gogledd Cymru erioed, wedi machludo flynyddau lawer yn flaenorol i'r rhai uchod. Ac yr oedd ei frawd, John Roberts, Llanllyfni, wedi myned er's amryw flynyddoedd yn John Roberts, Llangwm (Meirionydd), a'r pryd hwn ar ymadael i'w orphwysfa. Gwŷr grymus yn eu dydd oedd y rhai a nodwyd. Darostyngwyd Sir Gaernarfon drwyddynt bron yn llwyr i Fethodistiaeth. A dylai eu coffadwriaeth fod yn fendigedig iawn gan Fethodistiaid yr oes hon.

Mae y Cyfarfod Misol sydd genym i wneyd sylw ohono y tro hwn yn dygwydd ymgynull yn Llanllyfni. Mae pobpeth yn gyfleus i gynulliad lluosog. Mae y lle yn ganolog, ac nid yw prysurdeb adeg cynhauaf a llafur yn debyg o atal neb, ac y mae yr hin yn hyfryd. Yr oedd dyfodiad y Cyfarfod Misol i Lanllyfni wedi bod yn destyn siarad yr ardal er's wythnosau. Yr oedd yr un oedd yn nesâu yn galw i gôf y Cyrddau Misol blaenorol, megys pwy oedd yn pregethu, beth oedd eu testynau, pa le y byddai pawb yn llettŷa, ac yn y blaen. Ac nid siarad a galw i gôf a fu y cwbl; O! na, bu yma weithio dyfal, pob tŷ yn y pentref a'r ardal wedi bod dan adgyweiriad trwyadl, oddieithr tŷ ambell i bagan a Sandemaniad. Do, do! bu yma beth mawr o drefnu a glanhau o fewn ac o faes; goruchwyliaeth yr ysgwrio a'r golchi, y gwyngalchu a'r slapdashio ar lawn waith. Caiff y trigolion eu hunain yn gystal a'r dyeithriaid dai glân am unwaith. Gan y bu y Cyfarfod Misol yn achlysur i alw i gôf ac i gynyrchu y fath ymddiddanion am y rhai blaenorol, ac hefyd yn achos o'r fath adnewyddiad ar dai y trigolion, yn sicr yr oedd y Cyfarfod Misol hwn wedi talu ei gostau ddwywaith drosodd cyn ei ddyfodiad. Ac yr oedd sêl a charedigrwydd yr ardalwyr yn eu parotoi i dderbyn bendithion llawer uwch. Ac nid rhyw eithriad fu y tro yn Llanllyfni. Mae yr hên Gyfarfod Misol hyd y dydd hwn, hyd y gwelsom ni, yn cael ei dderbyn yn mha ardal bynag y disgyno gyda sêl a gwresogrwydd calon. Mor fendigedig o beth fydd gweled pobl ieuainc ardal, yn feibion ac yn ferched, yn gweini ar ddydd y Cyfarfod Misol mor siriol ac mor ewyllysgar, a dim yn ormod ganddynt ei wneyd! Wrth eu gweled, byddwn yn barod i ddyweyd, Wel, rhaid i grefydd gael byw yn y fan hon am un oes eto, bid a fo!

Bu yma yn Llanllyfni hwylio prysur er yn foreu. Mae gŵr a

gwraig yn cadw tŷ y capel na bu mo'u rhagorach erioed gyda'r gorchwyl yn unman, nac ond ychydig o'u cyfartal. Mae Daniel Gruffydd yn wir ofalus a ffyddlawn, ac ni bydd dim o'i waith ef ar ol. Os bydd angenrhaid am air go blaen ar rywun, fe'i ceir gan Daniel heb flew ar ei dafod. Ond ei gamp dda yw gallu gwneyd hyny heb gythruddo neb. Am Anne Parry ei wraig, mae pawb oedd yn gydnabyddus â hi yn ddigon boddlawn i ni ddyweyd, ei bod yn un o'r rhai mwyaf rhagorol a fu yn cádw tŷ capel erioed. Gyda hi y llettŷai yr holl bregethwyr a ddeuent i Lanllyfni i wasanaethu. A bu gyda'r gwaith o gadw tŷ capel am fwy na haner can' mlynedd. Yr oedd yn wraig ddoeth a darbodus. Ar achlysuron fel hyn yr ydoedd yn feistres yn ei thŷ, a chai ufudd-dod gan bawb; ac y mae hyny yn rhywbeth o werth mewn tŷ capel ar adeg brysur Cyfarfod Misol. Yn wir, yr oedd mwy o'r blaenor yn Anne Parry na neb arall oedd yn Llanllyfni y pryd hwnw. Yr oedd yn fedrus i gynghori a dysgu pregethwyr ieuainc; a chymerem hyny ganddi yn bur rwydd. Wrth weled chwiorydd fel hyn yn llawn o sêl sanctaidd, ac yn meddu cymaint o ddeheurwydd i wasanaethu yr achos goreu, byddwn yn barod i resynu fod y swydd o ddiaconesau wedi colli o'r eglwys.

Mae y Cyfarfod Misol hwn, fel pob un, yn disgyn ar ddyddiau Llun a Mawrth. Gan ein bod yma er doe, a'r hin yn hyfryd, awn allan o dwrf y tŷ i gwrt y capel, i wylio dyfodiad y gwŷr dyeithr. Mae yma luaws o frodyr serchog yr olwg yn barod i'w derbyn, a gor-ddigon o fechgyn aflonydd yn disgwyl am y meirch. Wele, dyma ddau hên frawd wedi cael y blaen ar bawb, ac wedi dyfod yn gynarol. Mae y ddau yn wŷr traed, ac yn pwyso ar eu ffỳn. Hên frawd pylgryf yw y naill, tàl a grymus, iach o gorff ac iach o feddwl; cawr o ddyn, dybygid, na bu erioed yn glaf, ac na ddarllenodd chwaith ryw lawer ar y ddalen ddu. Dywed ei feddwl ar bobpeth rhag ei flaen; ymddengys fel heb deimlad, ac eto y mae yn ddigon o Gristion i barchu teimladau pawb ereill. Gruffydd Roberts, Tanygraig, hên flaenor yn Sion, Clynog, yw y brawd hwn; hên frawd siriol, yn cymeryd yr olwg oreu ar bobpeth, ac felly yn gysurus iddo ei hun ac i ereill. O ddyn cyffredin, mae wedi ymwthio i lawer o wybodaeth gyffredinol, yn gystal a Beiblaidd. Gwasanaethodd ei genhedlaeth yn dda, ac am dymhor maith. Mae yr hên frawd arall ychydig yn wahanol. Mae yntau yn ŵr tàl, ond yn deneu a drwg yr olwg, ac yn mesur llathen bob cam. Mae golwg dlodaidd arno, er nad yw felly. Er bod yr hîn yn hyfryd, mae yn gwisgo hên gób lwyd ddigotwm dros ddillad mor ddigotwm â hyny. Ond bydded a fo am y dyn oddiallan, mae yma hên Gristion cywir a gloew, a blaenor na cheir yn gyffredin ei

gyffelyb, er mor salw yr ymddangosiad. Yr hên frawd hwn yw Dafydd Prichard y gòf, Llanaelhaiarn, blaenor Cwmcoryn. Mae hynodion yn perthyn i'r hên frawd yma. Ni ddaw i'r cyfarfod heddyw yr un blaenor mor gyfarwydd yn yr Ysgrythyrau; ac mae yn gyfoethog y tuhwnt i neb o ddywediadau hên bregethwyr yr oes o'r blaen, ac yn fedrus anghyffredin i'w defnyddio yn y cynulliadau eglwysig. Bu yn ffyddlawn dros ben, a mawr fydd ei wobr yn y nefoedd. Mor anhawdd yw adnabod dynion wrth eu hymddangosiad! Tybia pregethwr yn y pwlpud, weithiau, wrth weled rhyw ŵr o ymddangosiad llawer mwy *respectable* nag ereill yn y gynulleidfa, ei fod hefyd yn helaethach ei wybodaeth ac yn uwch ei chwaeth nag ereill o'i wrandawyr, ac y mae hyny yn fagl i'r pregethwr, druan. Ond erbyn deall, yr un *respectable* hwnw oedd y llo mwyaf disyniad yn y gynulleidfa.

Dyma hên frawd eto yn dyfod o gyfeiriad arall; mae yntau ar ei draed ac yn pwyso ar ei ffon, am fod ei ffordd yn agos. Gŵr grymus, ac yn tàl-grymu ydyw. Erbyn deall, Gruffydd Jones, hên flaenor ac apostol Rhostryfan, yw y gŵr hwn. Dyma eto hên frawd ag y mae pobpeth blaenor llwyddiannus wedi cydgyfarfod ynddo. Mae yn ŵr doeth, pwyllog, ac ennillgar, yn fedrus i arwain eglwys ac i drin dynion. Bu yn llwyddiannus i fagu cenedlaethau o bobl ieuainc yn Rhostryfan, na fagwyd mo'u rhagorach, os eu cystal, mewn un ardal yn Sir Gaernarfon. Yr *ennillgar* yn mhob cylch sydd yn llwyddiannus. Mor dra gwerthfawr yw yr ennillgar mewn swyddog eglwysig! Dyma eto yn cydgerdded â'r brawd a enwyd frawd arall, a chydswyddog yn Rhostryfan, Gruffydd Evans. Mae efe ryw ddeng mlynedd yn ieuengach na Gruffydd Jones, ac o dymher hollol wahanol. Gŵr llym, a'i eiriau yn finiog, yw y brawd hwn. Mae yn fedrus i archolli ac agor hên gornwydydd, ond nid mor fedrus i'w gwellhau. A da os bydd Gruffydd Jones wrth law i roddi olew yn y briwiau. Ond mae yn rhaid i gymdeithas wrth ddynion o'r fath yma. Gwae i fyd ac eglwys pan elo pawb i ysmwddio.

Bellach, dyma y brodyr yn dyfod yn lluoedd o bob cyfeiriad, rhai ar draed a rhai ar feirch, ac nis gallwn weithiau eu cymeryd i sylw bob yn un. Aroswch, dyma ddau yn dyfod i mewn ar feirch, yn tynu cryn sylw, ac yn cael derbyniad croesawus. Y gwŷr hyn yw John Jones, Tremadog, yr hên weinidog, a William Williams, y Llanerch, blaenor yn yr un eglwys. Bu y ddau gyda'u gilydd mewn rhyw daith Sabbothol ddoe. Mae y ddau o dymherau naturiol hollol wahanol; un yn brysurdeb i gyd, a'r llall yn bwyll i gyd, eto y ddau yn gyfeillion mynwesol, yn cyd-ddwyn ac yn cyd-dynu â'u gilydd yn gampus. Peth dymunol mewn swyddog-

ion eglwysig yw eu bod o dymherau naturiol gwahanol, os byddant dan lywodraeth grâs, ac, onidê, gall y gelyn eu defnyddio i wneyd drygau. Dyma ddau eto yn dyfod i mewn: Daniel Jones, a'i hên gyfaill Rowland Abraham. Tebygol fod y ddau yn dychwelyd o ryw daith. Mae Daniel Jones yn edrych yn welw, ac fel wedi curo i fyny; dyna efe yn disgyn oddiar ei farch, ac yn prysuro i'r tŷ capel. Bu Rowland Abraham am dymhor maith yn flaenor yn yr Ysgoldŷ; a blaenor da odiaeth ydoedd. Ond pan yn 55 mlwydd oed, mynodd fyned i bregethu, ac efe a aeth i'r gynffon. Efe yw y mwyaf o gorffolaeth a ddaw yma heddyw; mae yn dàl, yn lled drwchus, ac yn gwàrgrymu. Mae efe yn ymdroi hyd gwrt y capel, gan gyfarch gwell i hwn a'r llall. Mae Dafydd Roberts, Bangor, yn dyfod i mewn, yn taro ar Rowland Abraham, ac yn gofyn, "Pa fodd y mae y farchnad yn myned yn mlaen heddyw, Rowland?" "Marwaidd iawn, Dafydd," ateba Rowland; "mae yma gyflawnder o wenith, a dim gofyn ar yr haidd." Mae golwg brysur ar hyd cwrt y capel; dyma farchnad y cyhoeddiadau, yr adeg i lenwi holl gapelau y sir am y mis dyfodol. Oni lwyddir i hyny heddyw, eithriad fydd cael cyfle i lenwi y gwagleoedd ar ol heddyw. Ac i wneyd yr anhawsder yn waeth, nid oes yn y sir ond prin ddigon o bregethwyr i lenwi y teithiau Sabbothol, ac i bob un fod yn ei sir ac ar waith. Mae yma ryw wyth o bregethwyr ieuainc wedi codi yn ddiweddar, ac onidê buasai y diffyg yn ddifrifol. Felly mae yn rhaid i'r blaenoriaid fod yn brysur i achub eu cyfle. Pan ddêl ambell i bregethwr i mewn i'r cwrt, bydd haner dwsin o flaenoriaid yn cydio ynddo ar unwaith. Ac wrth weled yr ymryson am dano, os nad yw y brawd yn meddu adnabyddiaeth ddofn ohono ei un, bydd yn y brofedigaeth o syrthio i fagl diafol. Ond dyna frawd arall yn ymdroi hyd y cwrt drwy yr amser, heb neb yn gofyn i ba beth y daeth yno. Peth poenus iawn i deimlad dyn, os bydd teimlad dyn ganddo, yw bod yn bregethwr dialw-am-dano. Mae yn ddigon a pheri i'r brawd betruso a ydyw wedi peidio camgymeryd ei waith. A pheth poenus iawn i flaenor o deimlad llednais, wrth hèl cyhoeddiadau i'w lyfr, a fydd gwneyd cig o un a photes o'r llall o'r pregethwyr. Ond nid oes mo'r help am dani; rhaid i bawb sefyll ar ei wadnau ei hun.

Yn mhlith y lluaws sydd yn brysur yn troi trwy eu gilydd ar hyd cwrt y capel, dyma un hên flaenor yn dwyn ein sylw neillduol. Ffermwr tewychus ydyw, mae yn ymddangos: wele efe a'i lyfr a'i bensil, un yn mhob llaw, yn benderfynol o wneyd ei hun i fyny â chyhoeddiadau. Ac nid yw yr hên frawd chwaith, chwareu têg iddo, yn gwneyd helynt yn y byd gyda'r pigo a'r dewis, ond cymer y brodyr fel y dygwydd iddo daro arnynt. John Jones, y Glyn, hên flaenor yn y Bontfechan, yw y brawd hwn, ac un y mae

iddo lawer o hynodion. John Jones, y Glyn, ei hun yw pobpeth yn y Bontfechan; efe ei hun fydd yn myned i bob Cyfarfod Misol drwy y flwyddyn, efe ei hun fydd yn hèl yr holl gyhoeddiadau, ac efe ei hun fydd yn llettŷa yr holl bregethwyr. A champ i neb, hyd yn nôd Mrs. Jones, ei wraig, gael gwybod dim o hanes ei Ddyddiadur ef, hyd nes y clywir cyhoeddi, os gellir deall wed'yn. Efe ei hun fydd yn dechreu pob cyfarfod; ac os bydd eisieu dechreu o flaen pregethwr, efe ei hun sydd i wneyd hyny. A rhaid i glust y gwrandawyr fod yn bur gyfarwydd cyn y gellir deall yr hyn a ddywedo neu a ddarlleno, gan fel y mae yn tori ei air mor gwta; a bydd wedi dyweyd tryfwl o eiriau, neu yn hytrach o ddarnau geiriau, tra y bydd tafod ambell i un yn llusgo dros un gair o gryn hŷd. Ond pa fodd bynag am bob diffygion o'r fath, gwasanaethodd yr hên frawd hwn yr achos crefyddol yn y Bontfechan mor ffyddlawn a phe buasai achos iddo ei hun, os nad yn fwy felly, a hyny heb dâl am ddim na diolch gan neb. Yr oedd Mrs. Jones, hithau, fel ei chwaer, yr hên Mrs. Roberts, Castell, yn hynod groesawus ac ymgeleddgar o'r lluaws pregethwyr a ddelai i lettŷa dan ei chronglwyd. Yr oedd y duedd hon o ddirgelu a chadw pobpeth iddynt eu hunain yn gref iawn a chyffredinol yn yr hên dadau o'r dechreuad. Ac yr oedd hyn hefyd yn beth naturiol. Ni byddai mewn eglwys y pryd hwnw ond un blaenor neu ddau, neu dri i'r eithaf; ac nid rhyfedd os byddai un brawd, oherwydd rhyw ragoriaethau, wedi cael y blaen ar ei gyd-swyddogion; ac os byddai y duedd lywodraethol ynddo—a phwy sydd hebddi?—tybiai y brawd hwnw, gan mai dyna oedd yr arferiad, mai efe oedd i fod yn bobpeth; efe oedd i gyhoeddi, i alw brodyr i weddïo yn gyhoeddus, i ddechreu pob cyfarfod trwy ddarllen a gweddïo, i fod yn drysorydd ac yn ysgrifenydd i bob casgliad; a'i grêd ef oedd fod arian y cysegr yn bethau rhy gysegredig i roddi cyfrif am danynt. Yr oeddid yn tybio, a thybir eto gan lawer, fod cyhoeddi taflen o gyfrifon yr eglwys yn ffordd i dristâu yr Yspryd Glân. Nid gorchwyl bychan a fu cael diwygiad yn hynyma yn y manau y caed hyny; a dangosir gwrthwynebiad cryf yn ei erbyn yn y manau sydd heb ei ddwyn i ymarferiad. Eithr gorchymyn yr Apostol Paul ydyw, "Darperwch bethau onest yn ngolwg pob dyn;" nid yn unig, Gwnewch yn onest, ond, Dygwch hyny i'r "golwg." A dyn gwerthfawr y tuhwnt i'w brisio yw hwnw, boed ef flaenor neu bregethwr, sydd, nid yn unig yn weithiwr da ei hun, ond hefyd yn meddu y ddawn uchelbris o fedru rhoddi pawb ereill i weithio. Eithr gallu prin ydyw; ysywaeth, nid yw y ddawn hon gan bawb.

Ionawr, 1881.

RHAN II.

Bellach mae y brodyr hyd gwrt y capel yn teneuo; maent yn ymwthio i mewn i'r tŷ er mwyn cael cwpanaid o dê cyn myned i'r capel. Nid oes dim i'w gael yn fwyd y dydd cyntaf ond bara a photes a thê; yr ail ddydd y bydd y ciniaw. Un cyfarfod sydd i fod heddyw, a hwnw i ddechreu bedwar o'r gloch, ac i barhau hyd saith neu wyth fel y byddo y gwaith. Ni cheir dim pregethu y noswaith gyntaf, oddieithr i'r Cyfarfod Misol fod mewn tref. Dyna John Jones, Tremadog, yn prysuro i mewn i'r capel, yn arwydd fod y cyfarfod i ddechreu, a phawb yn ymwthio ar ei ol. Mae yma gynulliad da; llawr y capel, er ei fod yn helaeth, yn rhwydd lawn. Ceir yma frodyr o bob oed a gradd, yn cynrychioli o leiaf dair oes: yr hên, y canol oed, a'r ieuanc. A rhyfedd hefyd fel y mae pawb yn adnabod ei le. Wele nifer o bregethwyr a blaenoriaid ieuainc yn hèl at eu gilydd i lechwedd y capel, a'r hên bregethwyr a hên flaenoriaid yn ymgrynhoi yn nghymydogaeth y pwlpud. Mae yma rhyw goffr pedaironglog o sêt fawr o dan y pwlpud. Gallai rhyw chwech, saith, neu fwy, eistedd ynddi yn lled hwylus; eithr nid oes heddyw ond pedwar o frodyr a faidd eistedd yn y brif sêdd hon. Mae Michael Roberts a James Hughes wedi meddiannu y rhan mwyaf mewnol ohoni, a John Jones, Tremadog, a John Jones, Beddgelert (yr olaf yw Ysgrifenydd y Cyfarfod Misol), wedi meddiannu y ddwy gongl nesaf allan i'r orsedd. Dyma mewn gwirionedd ydyw Cyfarfod Misol Sir Gaernarfon; dyma y gallu llywodraethol; a fyno y pedwar gwŷr hyn a fydd. Ac er cryfder dirfawr i'w dylanwad fel arweinwyr, bydd y pedwar brodyr hyn bob amser yn un a chyttun, heb yr un yn tynu yn groes. A thybygid nad yw Cyfarfod Misol Sir Gaernarfon yn eithriad yn hynyma. Yn oesoedd cyntaf ein Cyfundeb, ceid fod llywodraethiad pob Cwrdd Misol a Chymdeithasfa yn nwylaw dau neu dri o'r brodyr mwyaf dylanwadol, a phawb ereill yn eu cydnabod, ac yn ymostwng iddynt. Pa enw i'w roddi ar y fath yma o drefn eglwysig, nis gwyddom. Tybygem ei bod y nesaf *aeth* i Esgobyddiaeth, ac eto nid hyny ydyw yn hollol. Ac nid llithro a ddarfu y Cyfundeb i'r wêdd hon; yn hytrach yn y cyfryw wêdd y daeth i fodolaeth; ac yn y wêdd hon hefyd y llwyddodd yn rhyfeddol am ryw dair oes o leiaf. Felly y pedwar brawd ag sydd wedi meddiannu y sêdd fawr dan y pwlpud y tro hwn yw arweinwyr a llywodraethwyr Cyfarfod Misol Sir Gaernarfon. Yr hyn sydd yn gwneyd fod y drefn hon hyd yma yn gweithio yn hynod o hapus, ac hefyd o lwyddiannus, yw fod y corff lluosog o bregethwyr a blaenoriaid yn talu pob gwarogaeth o barch ac ufudd-

dod i'r brodyr hyn sydd yn eu harwain. Ac ni wnaeth yr hên frodyr teilwng hyn chwaith ond llithro yn naturiol i le yr ychydig frodyr oedd yn llywodraethu yn gyffelyb o'u blaen. Yr oedd eu parch a'u dylanwad fel gweinidogion y Gair yn gwneyd fod pawb yn foddlawn iddynt, ac, yn wir, yn eu gwthio i'w lle fel yr unig rai cymhwys i arwain. Gwir fod gwrthblaid wedi cyfodi yn Arfon, fel y cawn sylwi, ac wedi cario un mesur chwyldroadol er gwaethaf y brodyr llywodraethol. Ond wedi tawelu y cyffro hwnw, disgynodd pobpeth, mewn ymddangosiad, o leiaf, i'r un tawelwch drachefn.

Ond at y Cyfarfod Misol. Wele John Jones, Tramadog, yn codi yn sydyn, yn taflu ei olwg o gwmpas am ryw frawd i ddechreu y cyfarfod. Mae ei lygaid yn syrthio ar Rowland Abraham fel yr un cymhwys, ac y mae yn ei alw yn mlaen gydag awdurdod. Mae yr hên frawd yn llusgo ei gorff mawr afrosgo i'r lle priodol i ddechreu, a chyda llais mor afrosgo â'i gorff yn rhoddi penill o Salm allan i'w ganu:

"Bydd dda wrth Sïon fryn,
O Arglwydd, hyn a fyni,
Ac wrth Caersalem, gartref llon,
Cod furiau hon i fyny."

Mae John Jones, Beddgelert, âg oslêf hynod o swynol, yn cychwyn y canu. Mae priodoldeb y penill, y dôn, ac oslêf yr hên frawd o Feddgelert, yn cyffwrdd â phob calon yn y lle—pawb yn canu o'u calonau. Mae canu o'r fath yma, dybygid, yn rhoddi pawb yn yr yspryd goreu at waith y cyfarfod. Ar ol darllen Salm fèr, mae Rowland Abraham yn gweddïo yn fyr, yn gryno, ac i'r pwrpas. Mae pawb wedi eu boddhau ar y dechreu, modd bynag. Y fath flinder a geid, ac a geir eto, trwy fod brodyr yn treulio ugain mynud o amser prin Cyfarfod Misol gyda'r dechreu, ac felly yn bradychu eu diffyg o ddoethineb!

Goruchwylion y cyfarfod hwn fydd trafod pethau amgylchiadol y gwaith; lle ac amser y Cyfarfod Misol nesaf—galw casgliadau—darllen cyhoeddiadau—y mater o adeiladu ac adnewyddu capelau—anfon brodyr i gynorthwyo yr eglwysi i ddewis blaenoriaid a chodi pregethwyr, ac yn y blaen. Gan fod y cyfarfod mewn lle mor ganolog, mae yn debygol y bydd yma waith mawr, ac y bydd y blaenoriaid yn ogystal a'r pregethwyr yn cymeryd rhan ynddo. Ond, ha! wŷr, ni bu yma yr un gair o son am na dewis na gosod neb yn llywydd! Bydded felly; nid yw hyn yn brofedigaeth i neb, o achos gŵyr pawb na bydd Cyfarfod Misol Sir Gaernarfon heb ei lywyddu, yn iawn hefyd, os bydd John Jones, Tremadog, yn

bresenol. Mae efe wedi ei grëu i fod yn llywydd, gan ei fod bob amser mor fywiog ac mor barod; gall fod yn fỳr, yn bert, ac i'r pwrpas. Y gŵyn yn ei erbyn yw ei fod yn rhy dueddol i ddywedyd gormod ei hunan. Eithr nid yw efe byth yn gwneyd araeth hir ar un peth, ac nid da y gall oddef hyny mewn ereill; ond ceir ef yn dywedyd sylw bỳr ar bobpeth, ac yn dyweyd yn nghwt dyweyd pawb ereill. Bydd weithiau yn galw Michael Roberts neu James Hughes fel *matter of form* i lywyddu; ond efe ei hun wed'yn a fydd yn gwneyd y gwaith. A chan ei fod mor fedrus, yr oedd pawb ar y cyfan yn foddlawn iddo.

Y peth cyntaf yn y cyfarfod hwn yw trefnu lle ac amser y Cyfarfod Misol nesaf; a chymer hyny weithiau gryn lawer o amser, gan y bydd dau neu dri neu ragor o wahanol fanau yn ymryson am dano; ac nid oes gan y brodyr na thaflen na rheol i'w harwain yn hynyma. Mae y llywydd yn caniatau eithaf digon o le i'r ymddadleu, ac yna yn cipio y cwestiwn oddiar y brodyr, ac yn ei benderfynu ei hunan, gan gyhoeddi, bydd y Cyfarfod Misol nesaf yn y fan a'r fan, ar y pryd a'r pryd. Yr oedd hyn yn rhagorol yn yr hên frawd o Dremadog: yn hytrach na gadael i'r brodyr ddifa'r amser i ddadleu cwestiynau dibwys, efe a gymerai y cwestiynau o'u dwylaw, ac a'i dybenai ei hunan, gan ddywedyd mai fel a'r fel y mae yn *rhaid* i hyn a'r llall fod. Gwelsom ef yn gwneyd hyn rai gweithiau gyda chwestiynau lled bwysig. Wele flaenor o un o brif eglwysi Arfon yn dwyn i'r Cyfarfod Misol achos brawd oedd wedi ei dori o bregethu, er mwyn iddo gael ail ddechreu pregethu drachefn. Ychwanegai y blaenor, fod yr achos wedi bod o flaen yr eglwys y nos Sabboth diweddaf, a bod yr eglwys, trwy godiad llaw, wedi rhoddi arwydd o'i boddlonrwydd i hyny. Gellid meddwl fod achos fel hwn yn un lled bwysig. Gwrandawai John Jones ar y brawd yn rhoddi yr achos i lawr gan edrych yn myw ei lygaid; ac yna, gan godi ei ddwrn bach, dywedai, "Hwn a hwn eisieu cael pregethu! wel na chaiff; cafodd ddigon o amser i dreio, a phrofodd na fedr o ddim." Dyna achos y gŵr hwnw wedi ei *setlo* heb ofyn na barn nac arwydd, ond mae pawb yn foddlawn i'r dyfarniad. Yr oedd yr hên frawd yn graff i ddeall i ba gyfeiriad y byddai y farn gyffredin yn gogwydd.

John Jones, Beddgelert, fel y crybwyllwyd yw ysgrifenydd y Cyfarfod Misol, ac mae yn meddu llawer iawn o gymhwysderau i'r swydd. Hynafgŵr corffol ydyw, a golwg dda arno, ei ben yn crymu ychydig, ac wedi ei greu heb ofn. Mae efe, nid yn unig yn ben blaenor, ond hefyd yn dywysog yn Meddgelert, ac i fesur yn y Cyfarfod Misol; mae yn gwybod yn dda pa fodd i ddirwyn ei hên gyfaill o Dremadog. Ei brif waith fel ysgrifenydd yw ceisio a

threfnu cyhoeddiadau pregethwyr dyeithr i deithio trwy y sir. Mae y gwaith hwn wedi ei ymddiried iddo ef yn hollol, ac mae y pryd hyn yn orchwyl sydd yn galw am lawer o lafur a gofal. Mae y pregethu teithiol yn ei nerth. Ond yr oedd y gŵr o Feddgelert yn anghyffredin o fedrus yn y gwaith; yn wir byddai yn ei elfen yn hèl ac yn trefnu cyhoeddiadau. Ceisiodd a threfnodd nifer anarferol fawr o gyhoeddiadau trwy y sir yn ei oes. Teithiodd lawer gyda gweinidogion trwy bob parth o Gymru, ac felly daeth yn gydnabyddus â holl bregethwyr y Cyfundeb. A chan fod cymaint ar ei law gyda'r cyhoeddiadau, daeth yn ddyn o bwys yn y Cyfarfod Misol, am y gallai drefnu cyhoeddiad gŵr dyeithr fel y mynai, gan ei roddi ddydd neu y nos fel y dewisai. Clywsom ef yn flaenorol i ryw Gymdeithasfa yn darllen deuddeg neu ragor o gyhoeddiadau yn yr un Cyfarfod Misol, pryd y gofynai James Hughes iddo yn ei ddull chwareus, "Wel, John, John, beth a gawn ni ei wneyd?" "Chwi a gewch wrando," oedd yr ateb.

Heb gymeryd nemawr sylw o'r gwahanol faterion, ni a gawn ymdroi ychydig gyda gwahanol gymeriadau fydd yn cymeryd rhan yn y cyfarfod hwn. Mae yn dygwydd rhywfodd mai yr un rhai fydd yn dyweyd, ac mai yr un rhai hefyd fydd yn ddystaw yn mhob Cyfarfod Misol; felly erioed, ac felly eto. Ond cyn dechreu ymaflyd mewn dim arall, dyna hynafgwr yn un o'r eisteddleoedd gerllaw y pwlpud, yn codi ac yn achub y blaen i ddwyn rhyw achos oedd ganddo i sylw y cyfarfod. Gŵr tewychus, a gwyneb garw, ac mewn gwisgiad ffarmwr parchus ydyw, a rhywbeth yn fygythiol yn ei lais a'i wêdd; ond, wrth lwc, bydd y gair garw yn mlaenaf ganddo bob amser. Y gŵr hwn yw Hugh Gruffydd, Bodwrdda, hên flaenor yn Mhen y Caerau, Aberdaron. Mae yn llefaru mewn tymher gynhyrfus, ac yn gosod yn erwin ar bregethwyr, am ei fod yn methu eu cael i daith Aberdaron. "Buont y tri Sabboth diweddaf yno," meddai, "heb neb i bregethu, ac am a wyddai na byddent felly am y Sabbothau canlynol." Ac ychwanegai, "os oedd y ffordd yn bell i bregethwyr ddyfod i Aberdaron, ei bod yr un mor bell iddo yntau ddyfod i'r Cyfarfod Misol i'w ceisio." Chwareu têg i'r hên frawd! mae ganddo achos difrifol. Ond a ydyw y pregethwyr, yn enwedig pregethwyr Arfon, at y rhai y mae y cerydd yn benaf yn cael ei gyfeirio, yn edrych arno felly, sydd amheus. Mae pawb yn ddistaw. Eithr wele James Hughes yn codi gyda gwên, ac yn dywedyd, "Wel, Hugh Gruffydd, mae yn ofnus fod rhyw ddiffyg gyda chwithau yn Aberdaron. Pa fodd yr ydych yn disgwyl i'r brodyr ddyfod atoch? ai fel barcutan bapyr drwy yr awyr? Bu acw frawd o Arfon yn pregethu ryw Sabboth yn ddiweddar; ac er iddo wneyd y daith mor rhad ag oedd bosibl,

eto ni ddarfu tri chapel Aberdaron ei ddigolledu." Tybiai yr hên frawd o Bodwrdda, fel y tybiai lluaws o flaenoriaid yr un oes, gan y byddent hwy yn myned i bellder mawr i chwilio am gyhoeddiadau pregethwyr, fod hyny yn ddigon o gymhelliad, os nad yn ddigon o dâl, i bregethwyr am ddyfod o bellder cyffelyb i'w gwasanaethu. Bu cerydd tyner James Hughes y tro hwn yn achlysur i ryw gymaint o gyffro ac ymchwiliad yn Aberdaron, os nad mewn manau ereill hefyd.

Gan i ni sôn am James Hughes, dyma'r fan i wneyd sylw ohono, fel un o'r tri brawd a gaed am dymhor maith yn arwain Cyfarfod Misol Sir Gaernarfon. Yr oedd efe y pryd hwn yn hynafgwr, yn tynu at fod yn gorffol, a'i wynebpryd hefyd yn tueddu at y garw. Yr oedd yn ŵr anrhydeddus a pharchus gan bawb. Byddai golwg urddasol hynod arno yn y pwlpud; yr oedd rhywbeth yn ei safiad a'i ddull yn *commanding;* nis gwyddom pa air gwell. Safai yn syth, ond gollyngai ei ben ychydig at ei fron. Pregethai yn bwyllog a synhwyrol, ac mewn llais ac oslêf hynod o ddymunol i'w wrando. Eithr nid fel dyn y pwlpud, ond fel dyn y Cyfarfod Misol, y mae a wnelom ni âg ef. Er nad oedd i'w gymharu â Michael Roberts fel pregethwr, ac na ddywedai yn agos gymaint a John Jones, Tremadog, eto efe oedd y canolwr. Yr oedd yn meddu mesur helaeth o arabedd, a gwyddai pa bryd a pha fodd i'w ddefnyddio. Byddai doethineb a phwyll bob amser yn nodweddu ei ymadroddion. Pan fyddai pethau weithiau yn gwisgo gwêdd gyffrous, codai James Hughes gyda gwên, ac âg un sylw doeth i'r pwrpas, bwriai allan lu o gythreuliaid. "O! mor dda yw gair yn ei amser!" Yr oedd James Hughes yn meddu y gallu hwn y tuhwnt i'w frodyr. Dyn gwerthfawr mewn cymdeithas yw yr hwn sydd yn meddu y gallu i geryddu y gwynt a'r môr, ac i ostegu'r ystorm; ond un o fil ydyw. Bu yn dda iawn i eglwysi Lleyn yn arbenig wrth James Hughes; fe'i gwasanaethodd yn ffyddlawn, ac am dâl nad yw yn werth ei enwi; yr oedd efe yn dywysog Duw yn eu plith.

Mae gwaith y Cyfarfod Misol yn myned rhagddo. Nid oes gan y llywydd yr un *programme* i'w arwain ond sydd ganddo yn ei feddwl ei hun. Felly y mae yn cymeryd y gwahanol faterion o'r naill fan a'r llall, fel y bwrir hwy i'r llyn. Gan fod y Gymdeithasfa Chwarterol yn neshau, a bod y Cyfarfod Misol hwn yn fanteisiol i'w dwyn i sylw, wele ŵr yn sefyll ar lawr y capel, a phwys ei benelin ar ymyl un o'r seddau uchel gerllaw y pwlpud. Mae ganddo, fel y gwelir, rywbeth i'w hysbysu i'r cyfarfod. Gŵr tàl a lluniaidd, a golwg boneddigaidd arno, yw'r gŵr hwn, yn tynu at ddeugain mlwydd oed, ei wallt yn dechreu glasu, ac yntau

yn gwisgo *glasses*, ac y mae hyny yn ychwanegu at ei bryd-ferthwch. Er fod rhyw lusgiad yn ei lais, eto mae yn siarad yn dda, yn bwyllog, yn llawn o synwyr, ac yn cael gwrandawiad da. Mae *grace*, ys dywed y Sais, yn ei safiad a'i holl ystum. Y gŵr da hwn yw Mr. J. R. Jones, blaenor yn y Tabernacl, Bangor. Mae yn ŵr doeth, pwyllog, ac ysgolheigaidd, yn dduwinydd craff, ac o brofiad dwfn. Ar ol rhanu y Cyfarfod Misol, efe a ddewiswyd yn Ysgrifenydd Cyfarfod Misol Arfon; ac yr oedd yn gyflawn o bob cymhwysder i'r gwaith. Gresyn oedd i'r gŵr da hwn gael ei alw oddiwrth ei waith mor gynar yn ei oes. Wrth derfynu, y mae Mr. J. R. Jones yn galw sylw at nifer o bregethwyr ieuainc oedd, o ran amser, yn gymhwys i'w derbyn i'r Gymdeithasfa. Mae y llywydd yn cymeryd y mater i fyny, yn galw am enwau y brodyr ieuainc, sef William Griffith, Evan Williams, Owen Thomas, Ellis Foulkes, Robert Ellis, a Robert Jones. Mae y llywydd yn gofyn barn a chymeradwyaeth i'r gwŷr ieuainc hyn, gan flaenoriaid o'u gwahanol ardaloedd. Wrth drafod achos y gwŷr ieuainc hyn, mae pregethwyr a phregethu yn dyfod i sylw. Aroswch, dyna hynafgwr yn codi oddiar un o'r meinciau ar ganol y llawr, a chanddo rywbeth i'w ddywedyd ar hyn. Gŵr tàl, esgyrniog, heb fod yn dewychus, mewn dillad o frethyn cartref, ac o'r hên doriad, a gwallt du, llaes, yn disgyn yn ddidrefn ar ei ysgwyddau a thros ei lygaid. Mae golwg arw arno heb ddim yn hawddgar mewn llais na gwêdd, a'i lygaid duon, milain yn treiddio drwy bobpeth. Mae yn dywedyd synwyr, ac yn mynu gwrandawiad. Mae yn sefyll am eiliad ar ganol ei sylw, fel i chwilio am air digon cryf, neu am saeth digon blaenllem i'w amcan. Y gŵr hwn yw Richard Thomas, Tanyllan, blaenor yn Tydweiliog, Lleyn. Ar lawer cyfrif mae y gŵr hwn yn un hynod. Mae wedi darllen llawer ac wedi meddwl mwy; mae yn gyflawn o dduwinyddiaeth, yn feirniad craff, ac yn ddidrugaredd at bregethwyr a dybid yn gogwyddo at y *system* newydd. Mae Richard Thomas yn bobpeth yn Nhydweiliog a'r cylchoedd. Mae yn ddysgawdwr, yn physigwr a llawfeddyg, yn gyfferiwr, yn athronydd, yn gystal ag yn flaenor. Meistrolodd y Saesonaeg, a chafodd grap ar ieithoedd ereill; ac ymwthiodd i bob cangen o wybodaeth o'r braidd, a hyny trwy ei lafur ei hunan. Ond mae yn Galfin uchel, a braidd yn ddrwgdybus o rai o'r pregethwyr ieuainc a enwyd, yn gystal ag o ereill oedd wedi dechreu yn flaenorol. A dyna oedd baich ei sylwadau yn y cyfarfod hwn. Mynai fod rhai o'r pregethwyr ieuainc yn ddynion rhy hyfion, yn rhy ddibarch i'r hên bregethwyr, ac o ran eu syniadau yn gogwyddo yn gryf at Arminiaeth. Mae yn dywedyd yn arw ac yn fygythiol, gan ddangos fod y

pwlpud mewn perygl. Ond er pobpeth, mae yn amlwg ei fod yn cael cymeradwyaeth dosbarth helaeth o'r frawdoliaeth. Mae yma luaws o flaenoriaid o Leyn ac Eifionydd, a rhai o Arfon, yn tybied mai eu gwaith mawr hwy yw gofalu am yr athrawiaeth, a gwylio rhag i'r pregethu fyned ar gyfeiliorn. Gwrandawant rai pregethwyr yn hynod o'r drwgdybus, a gwnant ddyn yn droseddwr oherwydd gair. Mae yma ddwy blaid, rhaid addef; ac y mae eiddigedd y naill blaid at y llall yn dechreu tori allan mewn teimladau ac ymadroddion rhy annheilwng. Mae y mwyafrif mawr, ac yn eu plith yr oll o'r hên bregethwyr a'r hên flaenoriaid, yn Galfiniaid cryfion, o'r hên ysgol, ys dywedir, a rhai ohonynt yn eithafol o gyfyng, ac yn rhy barod i gondemnio pob gwêdd ymarferol ar bregethu, gan ei gyfrif yn ogwyddiad peryglus at Arminiaeth. Mae y blaid arall yn fechan o ran rhif, yn cael ei gwneyd i fyny o bregethwyr a blaenoriaid lled ieuainc, ac yn cael eu blaenori gan John Jones, Talysarn. Nid oes dim yn wrth-Galfinaidd yn syniadau y brodyr hyn mewn un modd; dim ond eu bod yn rhoddi lle pwysig i gyfrifoldeb dyn, yn ogystal ag i râs Duw, yn eu gweinidogaeth. Ac i wneyd y drwg yn waeth, byddai rhai blaenoriaid rhagfarnllyd yn rhy dueddol i gario chwedlau, wedi eu lliwio yn gryf, am eu brodyr i'r hên dadau oedd yn arwain y Cyfundeb, a hwythau hefyd yn rhy barod i roddi clust iddynt. Hyd y gwyddom, dyma y tro cyntaf i'r teimladau annymunol hyn wneyd eu hymddangosiad mewn Cyfarfod Misol yn Sir Gaernarfon. Yr oedd amryw o flaenoriaid yn barod i gefnogi sylwadau Richard Thomas, Tydweiliog; ac yr oedd amryw o'r ochr arall yn llosgi mewn awydd i amddiffyn y rhai cyhuddedig, fel y cawn achlysur i sylwi eto. Mae John Jones, Tremadog, fel llywydd, yn deall fod yr ymddiddan hwn wedi myned yn ddigon pell, am ei fod yn tueddu i gynyrchu teimladau rhy chwerwon mewn rhai brodyr tuagat eu gilydd, ac y mae yn llwyddo yn hynod i ddwyn rhyw faterion ereill i sylw y cyfarfod. Yr oedd yr hên frawd o Dremadog, fel llywydd, yn fedrus anghyffredin i droi y lloriad, ys dywedai John Jones o Edeyrn, os gwelai berygl i'r dyrnu fod yn ormodol ar yr un peth. Dymunol o beth a fyddai i bawb a elwir i lywyddu, fod yn gyfranog o'r un gallu—y gallu i newid y lloriad pan y bernir fod y brodyr wedi dyrnu digon arno, yn hytrach na'u gadael i ddifa'r amser trwy ddyrnu gwellt.

Chwefror, 1881.

---

RHAN III.

Fel y crybwyllwyd genym yn niwedd ein hysgrif flaenorol, bu ymdrafodaeth yn nechreu y Cyfarfod Misol hwn ar bregethwyr a

phregethu, yn tueddu braidd at fod yn gynhyrfus. A'r hyn fu yn achlysur i'r ymdrafodaeth oedd fod chwech o bregethwyr ieuainc yn briodol, o ran amser, os ceid cydsyniad y Cyfarfod Misol, i'w cyflwyno i'r Gymdeithasfa oedd i fod yn Mangor yn mis Medi. Yr oedd fod cynifer a chwech o ddynion ieuainc yn codi i bregethu yn yr un sir, ac ar yr un adeg, yn beth newydd, ac yn ymddangos i lawer yn ddyeithr. Ac nid rhyfedd eu bod yn wrthddrychau llawer o sylw a beirniadaeth. Gofynid yn gyffredin, a chyda mesur o ddrwg-dyb, pa beth a allai fod yn cynhyrfu y bechgyn i feddwl am bregethu. Yr oedd yn hawdd gofyn, ond nid mor hawdd oedd cael yr ateb. Gwyddai pawb mai nid bywoliaeth neu elw bydol oedd i'w cymhell, o achos nid oedd hyn i'w ddisgwyl; yr oedd pregethu yn fwy o golled i bawb nag o elw. Yr oedd yn ddigon amlwg hefyd mai nid esmwythdra a chael peidio gweithio oedd yn cymhell y bechgyn hyn; oherwydd ni oddefid i'r un pregethwr ieuanc fod heb ryw alwedigaeth ganddo. Yr hyn a ystyrid yn gymeradwyaeth uchel i rai o'r pregethwyr hyn oedd gwaith un blaenor yn tystio eu bod yn rhai diwyd gyda'u galwedigaethau bydol.

Fel diweddglo ar yr ymdrafod, mae James Hughes, yn ol ei arfer, yn cyfodi gyda gwên hawddgar, ac yn coffa sylw un o'r hên dadau, "Oni fegir y lloi, ni cheir mo'r ychain." Ni bu gwireb erioed yn fwy teilwng o'i lle; rhyw ddosbarth o ddynion o hyd yn disgwyl cael ychain o rywle, ond am ladd y lloi. Modd bynag, erbyn y diwedd mae teimlad y cyfarfod yn gymeradwyol iawn o'r brodyr ieuainc hyn.

Treuliwyd gweddill y cyfarfod i drafod rhyw faterion lleol o'r naill fan a'r llall; a chan fod y Cyfarfod Misol hwn mor ganolog, yr oedd yma gyflawnder ohonynt. Ond gan eu bod yn faterion cyffredin pob Cyfarfod Misol, ni a'u pasiwn, i gymeryd sylw o rai o'r hên flaenoriaid, y rhai a ystyrir yn ddynion y Cyfarfod Misol, ac yn golofnau ynddo. Yr ydym ni yn ymdroi fel hyn, am y teimlwn awydd i ddal coffadwriaeth yr hên dadau anwyl a wasanaethasant eu cenedlaeth mor ffyddlawn, ar gôf a chadw. Yn gyntaf oll, dyna hên frawd yn y sêdd agosaf i'r brif sêdd yn cyfodi i ddyweyd rhyw sylw oedd wedi bod yn berwi yn ei feddwl yn flaenorol. Bydd yr hên frawd hwn yn arfer berwi rhywbeth erbyn pob Cyfarfod Misol, a bydd bob amser yn edrych yn llygaid y llywydd i weled a fydd cymeradwyaeth i'r hyn a draethir ganddo. Mae pawb yn ddigon boddlawn i'r hên frawd gael dyweyd gair; ni chymer lawer o amser, ac ni ddisgwylir am ddim gwreiddiol ganddo. Mae yn adgoffa sylw gan Robert Roberts, o Glynnog, Jones, o Edeyrn, neu rai o'r hên dadau. Isaac Morris y gelwir yr hên frawd hwn; hên ffarmwr clŷd arno, a blaenor yn Pencaenewydd, ac un o golofnau

yr achos crefyddol yn Eifionydd; hên frawd siriol a llawn o natur dda. Cyfrifid ef yn gryn ysgolaig, a bu am flynyddoedd pan yn ieuanc yn cadw ysgol ddyddiol dda; a rhoes gychwyn i amryw o ddynion enwog Eifionydd, megys Nicander, Eben Fardd, John Owen, y Gwyndŷ, ac ereill. Isaac Morris oedd y gwrandawr goreu y gwyddem am dano. Yn ei gapel ei hun, byddai bob amser yn eistedd yn y brif sêdd, a'i wyneb at y pregethwr, ac â'i edrychiad siriol yn cymeryd sylw o bob gair a ddywedid. Os tybiai fod y pregethwr, oherwydd ieuenctyd neu rywbeth, yn teimlo yn ofnus, a'r pregethu yn afrwydd, byddai yr hên frawd hwn gyda'i "hy," a'i "ho," a'i "amen," yn bob help iddo. Ystyrid capel Isaac Morris, neu ysgoldŷ Moses, fel ei gelwid ar y cyntaf, yn amser yr hên frawd hwn, y lle hawddaf pregethu ynddo o unman yn y wlad, a hyny am fod dull siriol yr hên flaenor o wrando yn dylanwadu ar yr holl gynulleidfa. Ysywaeth, ymddygiad hollol wahanol i hyn a geir gan rai pregethwyr a blaenoriaid wrth wrando pregethau. Os bydd y pregethwr yn cael rhwyddineb, ac fel yn feistr ar ei waith, gwrandawant yn siriol, ac fel rhai yn cael boddhad. Ond os dygwydd i'r pregethwr fod islaw iddo ei hun, fel y mae yn dygwydd yn fynych, naw wfft yr olwg anfoddog a fydd arnynt; digon i ladd y pregethwr a'i bregeth. Byddai yn dda i rai ystyried fod yn bosibl lladd y gweision heblaw trwy eu llabyddio â meini. Mae yn annirnadwy bron y fath help i bregethu yw cael gwrandawiad siriol gan un neu ddau yn nghymydogaeth y pwlpud. Dywedai un o enwogion yr America, mai agwedd siriol un hên chwaer yn gwrando oedd ei law dde ef yn y pwlpud. Hen chwiorydd, mae ar eich llaw chwi wneyd llawer tuagat i bregethu gyrhaedd ei amcan. Esgusoder ni am grwydro.

Wele eto ŵr tàl a syth yn cyfodi yn un o'r seddau ar y chwith i'r llywydd. Tyna at driugain mlwydd oed. Cyfyd trwy gael ei anog gan y llywydd i draethu ei farn ar ryw fater oedd dan sylw. Robert Roberts, Blaenycae, blaenor yn nghapel Ysgoldŷ, Arfon, yw y gwr da hwn. Cyfrifir yntau yn un o golofnau y Cyfarfod Misol, ac y mae felly mewn gwirionedd. Mae yn dyweyd yn bwyllog, yn llawn o synwyr ac yn cael gwrandawiad da. Gŵr cadarn ydyw yn yr Ysgrythyrau, ac yn meddu golygiadau clir ar eu hathrawiaethau. Dywedai Michael Roberts ei fod yn ŵr cryf yn ei feingefn; ac o'r hen frodyr, efe o bawb oedd hoffddyn John Jones, Talysarn; a galwai Mr. Humphreys, y Dyffryn, ef y gŵr cymhwys. Bu llawer o flaenoriaid da yn yr Ysgoldŷ, ond profodd y gŵr hwn ei fod yn anrhydeddusach na'i frodyr. Profodd Robert Roberts ei fod ar flaen ei oes, yn un peth yn ei waith yn cynllunio capel yr Ysgoldŷ, er nad oedd yn adeiladydd, yr hwn a gyfrifid y pryd hyny

yr addoldŷ prydferthaf a mwyaf gorphenedig yn Arfon, a mawr fu y sôn am dano. Y gŵr da hwn hefyd oedd y cyntaf yn Arfon i godi tâl y pregethwyr o'r swllt, y dau, a'r tri—yr hen *rout* y bu y tâl yn cloncio am oes hir—i'r pum' swllt, a'r chwech, a'r saith. Yr oedd hyn yn cael edrych arno ar y pryd yn symudiad pwysig, ac yn groes i'r *grain* gyda lluaws o'r hen flaenoriaid.

Dyna eto hen frawd yn un o'r seddau ar y chwith, mewn ufudd-dod i'r llywydd, yn cyfodi i ddyweyd gair, a bydd mîn bob amser ar ei eiriau. Ystyrir yntau hefyd yn un o brif ddynion y Cyfarfod Misol. Gŵr lled deneu ydyw, heb ddim yn hawddgar yn ei wedd, ond yn hytrach yn edrych fel pe byddai wedi syrthio allan â phawb ac â phobpeth. Yr hen frawd hwn yw William Jones, Abercaseg, y pen blaenor yn y Carneddi. Nid ydym yn gwybod am neb yn Arfon a lafuriodd mor egnïol gyda'r Ysgol Sabbothol, yn nghyda rhanau ereill gwaith Duw yn ei ardal, a'r hen frawd hwn. Bu trwy ei oes yn elyn calon ac yn ymosodwr diymarbed yn erbyn pob arferion pechadurus yn ei ardal. Nid yn unig ymosodai arnynt yn yr Ysgol Sul a'r cynulleidfaoedd, ond ymlidiai arferion annuwiol ei ardalwyr o fan i fan, yn enwedig ar y Sabboth, nes eu chwalu ymaith am y pryd o leiaf. Ni phetrusai ymosod ar halogwyr Sabboth ar na phont na chornel. Pan welent William Jones yn cyfeirio atynt, fföent rhagddo fel rhag gŵr a chleddyf. Yn wir, gŵr a chleddyf oedd efe, a bu raid i lawer deimlo ei awch. Yr oedd yr hen filwr dewr hwn wedi deall trwy brofiad nad oedd yr annuwiolion ddim càn gryfed a'r olwg arnynt; fod cydwybod o fewn y mwyaf annuwiol, ac os llwyddid i daro ar hono y byddid yn taro ar wendid. Ac felly yr oedd efe yn ddigon gwrol i ymosod ar annuwioldeb yn ei wyneb, yn y fan ac ar y pryd, heb ofalu dim am y canlyniad. Lleng o filwyr o'i fath a wnai i'r byd naill ai diwygio neu erlid. Ond byddai sêl yr hên frawd weithiau yn mantoli ei ddoethineb. Yr ydym yn cofio yn dda, mewn Cyfarfod Misol yn Carneddi, fod tri o frodyr ieuainc o'r eglwys hono yn cael eu derbyn yn flaenoriaid iddi, a bod y tri, wrth adrodd hanes dechreuad eu crefydd, yn addef mai rhyw air o eiddo William Jones, Abercaseg, wrth holi yr ysgol, oedd wedi dechreu argraffu difrifwch ar eu meddyliau. A pha sawl tri heblaw hyny, yr Hwn sydd yn gwybod y cwbl a ŵyr.

Mae yn mhlith yr hên flaenoriaid sydd wedi dygwydd eistedd yn y sêddau ar y chwith i'r llywydd, ond sydd yn gwynebu ato, un hên frawd y byddai yn annheilwng ynom ei basio yn ddisylw. Gŵr ydyw o faintioli cyffredin, a golwg *stern* arno. Ymddengys fel pe heb gymeryd sylw o ddim a ddywedir gan neb. Mae un aelod iddo yn union ac wedi stiffio yn nghymal pen y glin, a hyny er yn

ieuanc ; a mýnai James Hughes fod ei feddwl yr un mor ddigymal ac anhyblyg. Yr hên frawd hwn yw Hugh Morris, Fachwen, blaenor yn Dinorwig, a chyn hyny yn Nghapel Coch, Llanberis. Er na ddywedodd yr un gair yn y Cyfarfod Misol hwn, eto dywedodd bethau mewn cyrddau Misol cyn hyn ag y bu raid i Sir Gaernarfon, os nad Gogledd Cymru, deimlo oddiwrthynt. Bu yn offeryn i gynyrchu chwyldroad pwysig yn ei sir ei hun ; a bu hyny yn achlysur i beth cyffelyb yn raddol mewn siroedd ereill. Ac felly edrychir ar Hugh Morris yn y Cyfarfod Misol hwn fel math o arwr. Ac o ran hyny mae yr hên frawd yn edrych felly arno ei hun. Tybygem mai y gronfa gyntaf gan yr hen Fethodistiaid oedd yr hyn a alwyd ar y dechreu y Casgl Dimai, ac wedi hyny y Casgl Chwarter. Disgwylid i bob aelod, mab a merch, roddi dimai yn yr wythnos, neu chwech a dimai yn y chwarter, mewn casgliad er cynorthwyo i adeiladu capelau. Byddai y casgl hwn ar y cyntaf yn dyfod i'r Gymdeithasfa i'w ranu yno ; ond mewn amser gwelwyd yn fwy cyfleus ei ymddiried i'r Cyfarfodydd Misol ; ac felly byddai y casgl chwarter hwn, yn nghyda'r gweddill o arian yr eisteddleoedd lle y byddent, yn cael eu hawlio gan a'u dwyn bob chwarter i'r Cyfarfod Misol. Yn gymaint a bod y gallu llywodraethol yn y Cyfarfod Misol yn Lleyn ac Eifionydd, a bod y casgliad yn cael ei ranu yn rhy fynych yn ol ewyllys y brodyr llywodraethol hyny, aeth brodyr Arfon i rwgnach eu bod hwy yn cael cam yn y weinidogaeth feunyddiol hon. Ac i wneyd y drwg yn waeth, byddai y Cyfarfod Misol lle y derbynid ac y rhenid y casgl hwn yn dygwydd bod y tuhwnt i'r Eifl, ys dywedir, ac ychydig swm mewn cymhariaeth fyddai yn dychwelyd yn ol, fel y daeth yn sylw cyffredin gan frodyr Arfon eu bod yn cario eu harian dros yr Eifl. Byddai brodyr Arfon, wrth fyned gyda'u gilydd yn ol ac yn mlaen i'r Cyfarfod Misol, yn trin ac yn trafod llawer ar yr annhegwch hwn tuagatynt. Ac yr oedd y syniad o hyd yn myned gryfach, gryfach yn Arfon, mai teg a rhesymol oedd i bob cynulleidfa ofalu am a thalu dyled ei chapel ei hun. Ond y cwestiwn oedd, pwy o'r blaenoriaid a geid yn ddigon gwrol i ddwyn mater mor chwyldroadol o flaen y Cyfarfod Misol. Fel yr oedd mintai o frodyr Arfon yn dychwelyd o Gyfarfod Misol yn mha un yr oedd y casgliad chwarterol yn cael ei alw, syrthiwyd yn unfrydol ar Hugh Morris, fel yr un cymhwys o ran oed a phwyll a gwroldeb i ymaflyd yn y gwaith ; ac â hyny yr oedd yr hên frawd yn cydsynio. Mewn Cyfarfod Misol a gynhaliwyd yn y Bontfechan, ryw dair blynedd yn flaenorol i'r Cyfarfod Misol hwn yn Llanllyfni, wele Hugh Morris yn codi ar ei draed yn nghanol llawr y capel, yn wynebu yn wrol at y sêdd fawr, ac yn dwyn yr achos i sylw yn bwyllog a

chyda rhesymau cryfion. A mawr oedd y syndod a'r cyffro. Yr oedd ymosodiad mor hŷf a beiddgar ar hen drefn y Corff, ac yn erbyn y gallu llywodraethol, yn beth mor ddyeithr, fel nad oedd neb yn cofio ei gyffelyb erioed o'r blaen yn Nghyfarfod Misol Sir Gaernarfon, a hyny hefyd gan hen frawd o ymddangosiad mor gyffredin! Michael Roberts oedd ysgrifenydd y casgliad; ac hyd y gwyddom nid oedd iddo yr un trysorydd, am y byddai y casgliad yn cael ei ranu yn llwyr ar y pryd, heb adael na gweddill na dyled. Yr oedd efe fel ysgrifenydd yn teimlo fod yr ymosodiad arno ef yn bersonol; yr oedd ei gyfrifon ganddo, ac yr oedd yn hèrio neb i brofi fod yn ei gyfrifon yr un math o gamwri; ac yr oedd John Jones, Tremadog, yn dadleu fod pob rhaniad yn cael ei wneyd trwy bleidlais yn y Cyfarfod Misol. Mae Hugh Morris a'i blaid yn teimlo iddynt fethu yn eu hamcan ar y pryd; eithr nid gŵr i roddi i fyny ar ol methu unwaith oedd yr hen frawd o'r Fachwen. Mewn Cyfarfod Misol ar ol hyn yn Moriah, Caernarfon, dygodd Hugh Morris y mater i sylw eilwaith. Yr oedd ganddo, erbyn hyn, un rheswm newydd, sef fod cyfrifon yr ysgrifenydd yn profi fod Lleyn ac Eifionydd yn derbyn llawer mwy o'r casgliad nag Arfon, er mai Arfon oedd yn cyfranu yn helaethaf iddo. Aeth yr ymeiriad rhwng Hugh Morris a Michael Roberts yn y cyfarfod hwn yn llawer rhy bell, ac yn annheilwng o frodyr crefyddol. Erbyn deall, yr oedd yr anmhariad a gymylodd gymaint ar y pregethwr disglaer o Bwllheli wedi ei gyffwrdd yn barod; a bu ddrwg iawn gan Hugh Morris pan ddeallodd hyny ei fod wedi dal ato cyhyd. Yr oedd Mr. Elias yn y Cyfarfod Misol hwn, ac yn dadleu yn gryf yn erbyn mesur Hugh Morris fel peth an-Fethodistaidd, ac yn tueddu at Annibyniaeth. Eithr yr oedd teimlad y cyfarfod, fel yr oedd yn hawdd deall, o blaid Hugh Morris. O'r diwedd mae y cyfarfod a fu yn faith o ran amser ac yn boenus o ran teimlad yn tori i fyny; ac er na phasiwyd yr un penderfyniad ffurfiol, eto mae brodyr Arfon, un ac oll, yn penderfynu gweithredu yn ol cynllun Hugh Morris; ac felly dyna ddiwedd ar y Casgl Chwarter a chronfa y Cyfarfod Misol. Bellach mae pob cynulleidfa i ddeall mai eu dyled hwy yw dyled eu capel, ac mai y gynulleidfa sydd i'w thalu, ac nad ydynt i ddisgwyl help o unman arall. Mewn amser, dilynwyd Arfon yn hynyma gan y siroedd ereill. Pa un ai y da ai y drwg a gynyrchodd y cyfnewidiad hwn sydd yn pwyso drymaf, nid awn i geisio penderfynu. Esgusoder ni am ddwyn y darn hwn yn hanes Cyfarfod Misol Sir Gaernarfon i sylw; teimlo yn anfoddlawn yr oeddym rywfodd iddo fyned i ddifancoll.

Cyn gadael yr hen flaenor o Fachwen, goddefer i ni adrodd un

hanesyn am dano sydd yn dangos y byddai yntau weithiau, er mor ddreng, yn cael ei godymu. Mewn seiat yn y Capel Coch, mae yn gofyn, yn ol yr arfer, a oedd gan neb air o'i brofiad i'w ddywedyd. Mae hen frawd a fyddai yn dyweyd yn lled aml, yn dyweyd gair, pryd y dywedai Hugh Morris gyda mesur o ddiflasdod, "O, Harri Morris sydd yna; yr *un peth* fydd gan Harri bob amser." Yn fuan ar ol hyn, aeth Harri Morris yn glaf ac ar farw. Clywodd Hugh Morris hyny, ac aeth i edrych am dano. Wedi myned i mewn i ystafell y claf, gofynodd, "Wel, Harri, pa fodd y mae arnat yn y gwely yma." Mae Harri Morris yn troi ei wyneb ato ac yn dywedyd, "Huwcyn, y'ch di sydd yna? Wel, Huwcyn, mae '*yr un peth*' yn talu yn *noble* i mi heddyw." A dyna Hugh Morris, er mor wrol, yn un bretyn, wedi ei lwyr orchfygu, ac nid allai ddywedyd gair gan ei deimlad a mesur o gywilydd.

Tra y buom ni yn ymdroi gyda'r hen flaenoriaid a fuont yn gwasanaethu eu cenedlaeth mor ragorol (buasai yn wir dda genym gael nodi ychwaneg ohonynt), y mae gwaith dydd cyntaf y Cyfarfod Misol yn Llanllyfni yn tynu at derfyniad. Mae John Jones, fel llywydd, yn penderfynu lluaws o fân gwestiynau yn bur ddiymdroi, heb ofyn na barn nac arwydd. Mae yn gofyn pa ddau frawd a anfonid am fis i wasanaethu yr achos yn y trefydd Liverpool a Manchester. Ond cyn i neb gael ateb, mae efe ei hun yn enwi dau, a rhaid i'r ddau fyned, a rhaid i'r trefydd eu derbyn a'u talu, bodd neu anfodd. A'r un modd gyda brodyr i Gymdeithasfa Llangeitho. Yna mae yn gorchymyn i'r drysau gael eu hagor. Yr oedd cwrt y capel yn llawn o garedigion yr ardal, wedi dyfod i arwain y dyeithriaid i'w llettŷau, lle y byddai swper da yn eu haros; a da oedd iddynt wrtho ar ol hir ddirwest. Yr oedd trefnu llettŷau i nifer mor lluosog mewn ardal wledig yn gryn orchwyl; ond byddai raid i rai fyned yn bell o ffordd.

Mawrth, 1881.

---

## RHAN IV.

Boreu ddydd Mawrth, am wyth o'r gloch i'r fynud, mae yr ail gyfarfod yn y Cyfarfod Misol yn dechreu. Cyfarfod i'r swyddogion yn unig ydyw hwn eto, ac ni faidd neb arall ddangos ei wyneb ynddo. Mae braidd yr oll o'r brodyr oedd yma ddoe yma eto heddyw. Mae yr arfer o ddianc adref y prydnawn cyntaf eto heb ddyfod i fodolaeth; ac edrychir ar y pregethwr neu y blaenor a wnelo hyny, heb ryw achos têg, yn ddyn anianol, yn ddyn bydol, rywbeth heb fod yn iawn. Mae y brodyr wedi cymeryd eu

heisteddleoedd rywbeth yn debyg i'r prydnawn cyntaf; mae cymydogaeth y pwlpud yn hollol felly. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei dreulio yn gwbl i ymdrin â phethau ysprydol y gwaith. Y swyddogaeth eglwysig, braidd heb eithriad, fyddai yn gyfeiriad i'r ymddiddan, ei rhwymedigaeth, ei chymhwysderau, a'i chyfrifoldeb. Yma y byddys yn ymddiddan â blaenoriaid y lle, yn derbyn blaenoriaid newyddion, ac hefyd yn derbyn pregethwyr. Mae pawb wrth ddyfod i'r cyfarfod hwn yn ymdeimlo ei fod yn dyfod i'r lle mwyaf cysegredig, ac felly yn ymwisgo â'r yspryd goreu. Y cyfarfod boreuol hwn bob amser fydd coron gogoniant y Cyfarfod Misol. Yn y cyffredin byddai rhyw eneiniad hynod arno. Byddai y seiat wyth o'r gloch yn foddion i finio yspryd y brodyr, yn bregethwyr a blaenoriaid, at eu gwaith, i ddeffroi y difraw, cryfhau y llesg, a gwroli y gwan. Clywsom yr hên dadau yn tystio lawer gwaith y byddent yn dychwelyd adref o'r cyfarfodydd hyn wedi cael rhyw adnewyddiad rhyfedd. Yr eneiniad hwn ar gynulliad crefyddol sydd o hyd yn talu costau y cynulliadau dŵl a dihwyl; ac nid rhyfedd os bydd y brodyr yn llawn awydd am y nesaf. Ond o'r ochr arall, cynulliad colledus dros ben yw hwnw sydd yn gollwng pawb ymaith yn y diwedd mewn gwaeth sut o ran eu hyspryd nag wrth ddechreu; a bydd yr awydd am y nesaf yn llawer llai. Galwai Michael Roberts, pan yn ei anhwyldeb meddwl, gyfarfod y prydnawn cyntaf "y corff anianol," ond cyfarfod boreu dranoeth "y corff ysprydol."

John Jones, Tremadog, sydd yn llywio y cyfarfod hwn eto; a rhaid iddo gael rhyw frawd i ddechreu sydd yn ddigon doeth i fod yn fŷr. Ac felly mae yn galw ar David Roberts, Bangor; a dyma eto ddechreu cyfarfod yn fŷr ac i'r pwrpas; ac mae yr hên frawd o Fangor yn cael edrych arno oherwydd hyn, gan y llywydd a phawb, ryw gymaint yn fwy parchus. Hynod fel y mae pethau bychain yn dyrchafu neu yn darostwng dynion! Nid yr un rhai yn hollol sydd yn cymeryd rhan yn y cyfarfod hwn â'r un y prydnawn ddoe. Mae y brodyr oedd yn llawn awydd i ddyweyd gair ar y pethau amgylchiadol yn tueddu at fod yn ddistaw heddyw, a'r rhai oedd yn ddistaw ddoe yw y dynion at y cyfarfod hwn.

Yr ydym wedi dwyn enw yr hên dad o Dremadog i sylw gynifer o weithiau yn ein nodiadau hyn, fel y byddai yn briodol i ni bellach geisio rhoddi darluniad bŷr ohono. Efe am flynyddoedd lawer a fu yn arweinydd ac yn dad i Gyfarfod Misol Sir Gaernarfon. Byddai yn cael pob cynorthwy gan James Hughes a Michael Roberts, ac ereill. Michael Roberts oedd y galluocaf o gryn lawer, a chydnabyddai John Jones hyny yn bur rhwydd. Yr oedd y ddau yn gyd-frodyr-yn-nghyfraith; a byddai John Jones bob amser yn

ofalus i ymgynghori â Michael Roberts ar bobpeth o bwys, ac i syrthio i'w farn. Ond nid oedd Michael Roberts, oherwydd llesgedd iechyd, yn gallu bod mor gyfanedd yn y Cyfarfod Misol a John Jones; a chyn hir, fel y mae yn wybyddus, fe ballodd yn hollol. O ran ei berson, dyn bychan, llai na'r cyffredin, oedd John Jones, eto yn llyfndew, a golwg iachus arno; pen mawr, rhy fawr i fod yn gymesur â'i gorff; gwyneb mawr llyfn, llygaid mawr ar wyneb y croen, a genau helaeth. O ran ei wisgiad mae yn brydferth, fel pin yn y papyr, ys dywedir; dim yn fŷr, na dim yn ormod, na dim yn rhodresgar, eithr yn mhobpeth yn foneddwr teilwng o'r enw. Dyna fo ar ei draed yn y brif sêdd, yn fywyd i gyd—gormod o fywyd i eistedd ond am bur ychydig, ac mae bod yn hir yn ddistaw yn ormod o dreth iddo. Eithr ni ddywed lawer ar unwaith; ond rhaid iddo gael taflu gair yn aml—sylw bŷr, a hyny yn nghwt sylw pawb arall. Dyna ryw frawd yn cyfodi i wneyd sylw; ond oherwydd ei fod yn safndrwm neu rywbeth, mae yn methu a dwyn yr hyn sydd ganddo i eglurdeb. Mae y gŵr bach, fel y byddem yn ei alw, yn edrych yn myw llygaid y llefarwr, yn deall fod ganddo rywbeth gwerth sylw, ac y mae yn cipio y syniad o'i enau; "Wel, ïe, dyna hi," meddai, a ffwrdd ag ef yn dân poeth am ben bawb. Ond gofalai yr hên frawd hefyd gyda phwy i arfer yr hyfdra hwn. Mae ei lais yn ystwyth a llafar; gall ei godi a'i ostwng, ei droi a'i drosi, fel y myno; gall ei ddyrchafu yn floedd uchel soniarus, a'i ostwng i gywair ymddiddan cyffredin, a hyny ar unwaith. Medr wylltio a phwyllo, a newid ei wêdd fel y myno, a'r pryd y myno. Nid oes neb yn gwybod y mynud hwn pa dôn fydd gan ei lais, a pha olwg ar ei wêdd y fynud nesaf; mae mor chwim, mor sydyn, mor bert, ac mor amrywiol. Ac eto mae ei ymadroddion yn weddus—dim i ferwino clust y mwyaf lledneis. Cyfrifid fod ganddo lawer mwy o allu i draethu nag i feddwl; ond yr oedd yn meddu y gallu i gipio meddwl rhywun arall, a gwneyd defnydd da ohono. Mae John Jones, Tremadog, y pryd hyn, ni a dybygem, yn rhywle tua phymtheg a thriugain mlwydd oed. Mae wedi ei eni i deyrnasu, ac wedi cael rhwydd hynt i hyny am amser maith; ac eto mae yn barchus dros ben, yn enwedig gan y dosbarth hynaf o'i frodyr. Yn ei gymdeithas mae yn rhydd a siriol, eto ni faidd neb fyned yn rhy hŷf arno. Mae yn gymeriad pur drwyddo; nis gall fod yn ddichellgar nac yn ddau-wynebog, ac y mae yn ormod o foneddwr i roddi gair isel am neb yn ei absenoldeb. Ond yn seiat y Cyfarfod Misol—gwared ni! ni byddai blew ar ei dafod. Er y byddai yn dyner wrth bregethwyr ieuainc mewn ymddiddan personol, yma caem y caswir ganddo. Yr oedd yn elyn calon i feithder gyda phregethu a phobpeth. Y troi gwallt hefyd oedd

yn beth adgas ganddo. Canwaith y dywedodd, "Hogia, gadewch lonydd i'r cudyn yna; gadewch i'r gwallt guddio y talcen fel mae y Creawdwr wedi ei ordeinio." Ni chyfrifid ef yn bregethwr mawr, na dim yn debyg, ond yr oedd yn wrandawr da odiaeth. Tybiwyd ar y cyntaf ei fod yn ail argraffiad gwan o Robert Roberts, Clynog, yn enwedig yn y gallu oedd ganddo i wneyd rhuthr ar ei wrandawyr mewn dull a modd na byddent yn disgwyl am dano. Er's rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn ol, bu cryn lawer o siarad yn mhlith blaenoriaid Arfon, os nad hefyd yn Lleyn, am godi y tâl am bregethu. Yr oedd yr hên frawd o Dremadog yn teimlo yn boenus fod y tâl i bregethwyr wedi dyfod yn destyn siarad o gwbl, am yr ofnai y byddai i hyny roddi argraff ar y wlad fod y pregethwyr yn myned yn fwy ariangar; a dywedai, "Os aiff dyn y pwlpud i gael edrych arno yn ddyn ariangar, bydd ei barch a'i ddylanwad ar ben." Ac ai nid oes llawer o wir yn y sylw? Yn bendifaddeu, bu yn was da a ffyddlawn yn ngwinllan yr Arglwydd; a bydded ei goffadwriaeth yn fendigedig.

Eithr at y Cyfarfod Misol eto unwaith. Ar ol darfod gyda'r dechreu, mae y llywydd ar ei draed, yn fywyd bob mymryn, yn hysbysu mai y swyddogaeth sydd i fod dan sylw yn y cyfarfod hwn. Yna mae yn galw ar frodyr y lle i ddyweyd gair o'u profiad yn a chyda'r gwaith. Mae yr ymddiddan yn myned rhagddo yn rhwydd a rhydd. Yn y sêddau ar y ddê i'r llywydd, ond a'u gwynebau ato, mae nifer o hên bregethwyr wedi dygwydd dyfod yn nghyd, ac mae y naill a'r llall ohonynt yn cymeryd rhan yn yr ymddiddan. Mae y cyfarfod yn troi allan yn un gwir dda, ac yn sicr o adael argraff ddaionus ar feddyliau pawb sydd yn bresenol. Yn raddol, ac heb yr un ymgais at hyny, mae yr ymddiddan yn cymeryd ffurf o fater, sef y mawr bwys i swyddogion eglwysig, yn bregethwyr a blaenoriaid, wrth addysgu ereill, fod eu hunain yn meddu profiad dwfn o'r gwirionedd; hên athrawiaeth y bu llawer o drafod arni yn nghynadleddau y Methodistiaid o oes i oes; a gobeithio nad ä byth allan o olwg. Gwae ni os aiff y swyddogion eglwysig yn ddynion ysgafn! Mae yr hên dadau yn gafael yn y mater hwn o ddifrif, a'r mater hefyd yn gafael yn ystyriaeth pawb sydd yn gwrando. Yn yr ymddiddan mae un o'r brodyr yn crybwyll y gair "bwyta y llyfr." Mae y gair hwn fel yn cyffwrdd â, ac yn deffro meddwl Michael Roberts. Yr oedd efe wedi bod yn ddistawach yn y Cyfarfod Misol hwn nag arfer. Ymddengys yn llêsg a gwanllyd, a'i anadl yn gaeth. Dichon na bu yn ei wely er's nosweithiau; bu felly filoedd o nosweithiau yn ei oes. Gwnaeth ychydig sylwadau byrion ddoe a heddyw o'i eistedd—dim ond rhywbeth braidd i gyfarwyddo y llywydd. Ond gyda'r gair

"bwyta'r llyfr," wele ef ar ei draed, a llygaid pawb oll arno. Drwg genym nad allem alw i gôf yr oll a ddywedodd. "Bwyta y llyfr," meddai, "ïe, frodyr, rhaid *bwyta* y llyfr. Nid yw darllen y llyfr, deall y llyfr, ei esbonio a'i feirniadu, yn ddigon; rhaid ei *fwyta*." Yr oedd ganddo rhywbeth felly yn ei sylw: "'Efe a chwerwa dy fol di;' efe a chwerwa dy falchder, efe a chwerwa dy syniadau cnawdol, efe a wna i ti deimlo yn fyw oddiwrth dy annigonolrwydd i wasanaethu Duw; efe a chwerwa yn dy enaid bobpeth croes i sancteiddrwydd; trwy fwyta y llyfr ti a ddoi dy hun yn ail argraffiad o'r llyfr, yn Feibl byw."

Gan i ni ddwyn y gŵr hynod hwn, Michael Roberts, i sylw, ceisiwn roddi darlun bŷr ohono. Yr oedd, yn ddiamheu, yn un o bregethwyr mwyaf hynod ei adeg. O ran ei berson yr oedd braidd islaw y cyffredin o daldra, ysgafn, ond lluniaidd, o gorff, wynebpryd cûl a gwelw, llygaid main, treiddgar, yn edrych drwy bobpeth. Yr oedd yn arfer ganddo i ollwng ei ben i grymu ychydig naill ochr, dichon fel efelychiad anfwriadol er yn fachgen o'i ewythr, Robert Roberts, Clynog. Y mae ei anadl, fel y nodwyd, yn gaeth. O ran ei wisg mae yn ddestlus a chryno. Mae ei holl ymagweddiad, yn y pwlpud a phobman, yn syml, yn arwyddo dwysder a difrifwch. Mae yn amheus a oes yn Nghymru bregethwr a phobpeth pregethu wedi cydgyfarfod ynddo yn fwy prydferth. Nid oes yma ddim yn eisieu, na dim yn fychan, pobpeth i mewn, a phobpeth yn ogyhyd. Nid rhaid iddo ef wrth ryw un peth mawr i guddio lluaws o fân ddiffygion. Mae ei lais, er yn wan, eto yn dreiddgar a mwyn, a than reolaeth dda, ac yn chwareu ar deimladau y gwrandawyr. Mor brydferth y mae yn ymadroddi—mor daclus y mae pob gair yn dyfod o'i enau, ac heb ddim yn gymhenllyd! Mae yn gynllun da o iaith y pwlpud. Mae ei feddwl yn gryf, yn dreiddgar, ac yn llàwn o yni, ac mae yn meddu cyflawnder o ddawn i'w ollwng allan yn rhwydd. Mae rywfodd yn gallu taflu ei enaid i'w eiriau; y mae yn teimlo ei fater, a rhaid i bawb ereill ei deimlo. Mae wedi ei feithrin o'i febyd yn ngeiriau y ffydd, ei gôf yn ymylu ar fod yn berffaith, ac felly bydd yn adrodd pob adnod yn gywir, byth yn darnio nac yn *hacio* geiriau y Beibl; ac âg un gair neu sylw byr teifl oleuni newydd ar braidd bob adnod a grybwylla. Bydd ei sylwadau yn gyfoethog o *illustrations*, a'r rhai hyny bob amser wedi eu tynu o'r Ysgrythyrau. Nid yw yn cymeryd arno ei fod yn gwybod ond dau lyfr—yr Ysgrythyrau a'r galon ddynol, yn enwedig calon credadyn. Pregethodd lawer yn llyfr y Salmau, ac yr oedd yn fedrus i ddwyn gwahanol deimladau y llyfr hwnw i ymgymysgu â theimladau y saint. Michael Roberts, o bawb, a fyddai pregethwr yr hên chwiorydd; ac eto byddai raid i'r rhai

mwyaf coeth a gwybodus dan ei weinidogaeth ef deimlo eu bod dan athraw. Yr oedd wedi ei eneinio i lefaru gair mewn pryd wrth eneidiau diffygiol. Un o bennodau tywyll Rhagluniaeth oedd i seren mor ddisglaer fod am bymtheng mlynedd dan gwmwl.

Un arall o golofnau Cyfarfod Misol Sir Gaernarfon y pryd hyn oedd Gruffydd Solomon. Mae efe yn eistedd yn y sêdd nesaf i'r brif sêdd. Mae yntau bellach yn hynafgwr, ac yn hynod yn mhlith ei frodyr. Gŵr llyfndew ydyw â gwyneb mawr, glân, ac yn gwisgo *glasses*. Nid yw mewn cotwm mor dda, eto nid oes dim yn aflêr o'i gwmpas. Mae yn ymddangos yn hollol ddidaro; mae wedi cael ei foreufwyd, ac nid yw yn gofalu dim o ba le y daw y ciniaw. A dichon mai cario y diofalwch hwn yn rhy bell fu yn brif ddiffyg ei oes. Clywsom fod Robert Jones, Rhoslan, yn ei geryddu ar g'oedd Cyfarfod Misol am ei ddiofalwch hwn, gan ddywedyd, " Nid wyf fi yn gwybod i ba beth y rhoes yr Hollalluog ddwylaw i chwi, Gruffydd, gan na wnânt gymaint o wasanaeth i chwi a rhoddi clem dan eich esgid." Mae yn debyg mai eisieu rhyw gymhorth oedd ar yr hên Solomon pan dderbyniai y fath sèn. Ond os nad oedd gweithio yn ei ddwylaw, byddai ei feddwl bob amser yn llawn gwaith. Yr oedd yn Gymreigydd da, ac ymwthiodd i'r Saesoneg ac ieithoedd ereill. Clywsom Mr. Parry, o Gaer, yn dywedyd mai Gruffydd Solomon oedd un o'r ysgrifenwyr Cymreig rhagoraf, pob brawddeg yn gryno, yn brydferth, ac yn llawn synwyr. Yr oedd yn Ysgrythyrwr rhagorol. Os crybwyllid unrhyw air o'r Beibl wrtho, byddai yn amlwg y bu efe gyda'r gair hwnw o'r blaen. Clywsom ef yn dywedyd y gallai wneyd ei hun yn " hapus trwy y dydd heb ddim ond hwn," gan daro ei law ar y Beibl. Mor anfynych y ceir ei gyffelyb ! Yr oedd yn gofiadur da odiaeth, a chanddo ystôr gyfoethocach na neb o ddywediadau yr hên dadau Methodistaidd. Cyfrifid ef y darllenwr cyhoeddus cyntaf yn ei oes. Elai dynion o'r naill ardal i'r llall er mwyn gwrando Gruffydd Solomon yn darllen pennod ar ddechreu'r gwasanaeth. Pregethai a dywedai bobpeth yn bwyllog, yn naturiol, a chyda llawn synwyr. Yr oedd ffraethineb yn naturiol iddo; gwnai i gynulleidfa wenu heb geisio. Byddai ei sylw a'i ateb ganddo bob amser yn barod. Rhedai ei bregeth allan yn syml a naturiol, heb ddim ôl *gwneyd* arni. Dyrchafai ychydig ar ei lais fel yr elai rhagddo. Gallai daflu dwy ffurf hynod ar ei wynebpryd; un fel pe yn chwerthin, ac eto nid chwerthin fyddai; ac un arall trwy daflu ei wefusau allan, fel yn dywedyd, Pw, ac eto nid oedd dim o hyny yn ei feddwl; a newidiai o'r naill i'r llall ar darawiad. Pan y gwelid Solomon yn codi ei law at ei wydrau, gan daflu ei wefusau allan, teimlai pawb fod ganddo rywbeth i'w ddywedyd

gwerth ei wrando. Cyfrifid ef o gryn werth yn y Cyfarfod Misol, gan y byddai bob amser mor barod, a'i sylw yn wastad yn fyr a synhwyrol.

Dyna hên frawd eto yn yr un sêdd, ac ar gais y llywydd yn cyfodi i wneyd sylw. Gŵr tâl, esgyrniog, yn crymu ychydig, lled ddiofal am ei drwsiad allanol, heb ddim yn serchog ynddo; ac eto bu iddo dair o wragedd. Mae ei leferydd yn anhyfryd ac yn annyben, a'i dymher yn oer. Nid yw yn blino dyweyd ar ol dechreu, ac nid yw yn gofalu a oes neb yn blino gwrando. Buasem yn amheu a oedd ganddo deimlad o gwbl, ond fel y byddai weithiau yn syrthio i rywbeth tebyg iawn i dymher ddrwg. Ond byddai hyny ynddo ef yn taflu pawb ereill i dymher dda. William Roberts, Clynog, yw yr hên frawd hwn, ac mae iddo lawer o hynodion. Gwnaeth y llywydd dro call wrth ei alw i draethu ar ryw gwestiwn duwinyddol a ddaeth i sylw yn y cyfarfod hwn. Mae yn Ysgrythyrwr da, a pheth mawr o'r Beibl ganddo yn ei gôf, ac os bydd eisieu tynu rhyw athrawiaeth trwy galon yr Ysgrythyrau, pe priodol yr iaith, efe o bawb yw y gŵr at y gwaith. Y mae trwy ei oes wedi talu sylw mawr i'r prophwydoliaethau, ac yn hynod o fedrus i'w cymhwyso at amgylchiadau presenol y byd a'r eglwys. Fel pregethwr, nid yw o un gwahaniaeth ganddo pa un ai yn gyntaf ai yn olaf y bydd, na chwaith a fydd y gynulleidfa yn cael ei boddio ai peidio. Rhaid iddo ef gael myned trwy ei bregeth i'w diwedd, heb ofalu dim am sylw ac amynedd y gwrandawyr. Mae ei lais yr un mwyaf aflafar, ond mae ei iaith yn goeth—dim gair gwan na geiriau llanw. Mae ei ddeheurwydd yn trin yr Ysgrythyrau yn ei wneyd yn bregethwr cymeradwy gan ddynion o farn. Yr oedd William Roberts, Clynog, yn un o hoff bregethwyr Mr. Rees.

Dyna eto, yn yr eisteddleoedd ar y ddê i'r llywydd, hên frawd y bu ei enw mewn cysylltiad â Chyfarfod Misol ei sir am oes hir—Daniel Jones, Carneddi, neu Daniel Jones, Llandegai, fel ei gelwid gyntaf. O ran ei berson mae yn tynu at fod yn dewychus, mewn trwsiad da, ei wynebpryd, er yn llawn, eto yn welw; mae yn gwisgo gwydrau, oherwydd golwg byr. Mae gwêdd ddifrifol arno yn edrych i waered. Bydd yn gyson yn y Cyfarfodydd Misol, ac yn cymeryd rhan ynddynt, ac yn pregethu yn mhob un. Ond dyn y pwlpud yw Daniel Jones yn fwy na dyn y gynhadledd. Fel pregethwr mae yn hollol ar ei ben ei hun. Bydd ei olwg ddifrifol, ei edrychiad sobr, ei eiriau llymion ofnadwy, a'i weinidogaeth ddeffrous, yn sobri cynulleidfa, ac yn cario braw a dychryn i gydwybodau y rhai mwyaf annuwiol a diystyr. Am y chwarter canrif cyntaf o'i weinidogaeth, ni bu neb yn y wlad hon mor lwyddiannus i ddeffroi pechaduriaid difraw, "a llawer a droes efe

at yr Arglwydd." Ond mae ei weinidogaeth yntau, fel pawb wrth heneiddio, yn colli llawer yn ei hawch.

Dyna sêdd hir yn arwain o ddrws y capel i'r pwlpud, wedi ei llenwi gan bregethwyr o dan y canol oed. Yn nesaf at y pwlpud, ac wedi ymollwng ar ei risiau, dyna ddyn byr, llawn cnawd, gwyneb crwn, siriol, genau prydferth, a'i gadach llogell wedi ei daflu yn ysgyfala dros ei ben. Dyna fe, yn barod i fwynhau pob peth a ddywedir; os bydd mymryn o fêl i'w gael, bydd Moses Jones yn sicr ohono. Y mwyaf parod a'r mwyaf ffraeth o'r cwbl ydyw. Dybygid y gall ddyweyd faint a fyno ar y peth a fyno. Mae ganddo gyflawnder o lais, ond heb ei ddisgyblu erioed. Llafuriodd dan bob anfanteision, daeth yn bregethwr cymeradwy, yn un a fyddai yn dda gan bawb. Dyna ŵr eto yn codi ar ei draed yn yr un sêdd. Beth yw y mater? Mae rhyw astudrwydd wedi meddiannu pawb yn y lle; pob clust, llygad, a genau, fel yn ymryson i gael gafael yn y gair cyntaf a ddaw allan ganddo. Gŵr tàl, lluniaidd, a glân odiaeth o bryd; natur fel wedi rhoddi ei holl urddas arno. Y mae ef, dybygem, yn nghymydogaeth pymtheng ar hugain neu ddeunaw ar hugain mlwydd oed. John Jones, Talysarn, yw y gŵr hynod hwn. Bu yn ddistaw yn y Cyfarfod Misol yma, am ei fod yn ei ardal ei hun; ond trwy gymhelliad taer y llywydd, cododd ar ei draed yn y cyfarfod hwn. Yr oedd ei hyawdledd yn llifeirio—yn cario y cwbl i'w ganlyn. Pwynt ei sylw yw fod profiad dwfn o'r gwirionedd yn dwyn dyn i'r fath adnabyddiaeth ohono ei hun fel ag i'w wneyd yn anmharod i farnu a chondemnio ereill. Mae yn amlwg ei fod wedi teimlo oddiwrth y sylwadau a wnaed ar bregethu yn y cyfarfod prydnawn ddoe.

Rhaid i ni adael lluaws o frodyr, yn bregethwyr a blaenoriaid, oedd y pryd hyn wedi dechreu cymeryd rhan yn y Cyfarfod Misol. Caiff rhywun gyfle i wneyd hyny wrth ysgrifenu hanes Cyfarfod Misol Arfon, os dewisir. Mae hwnw bellach yn un mlwydd a deugain oed. Oddiwrth yr hyn a fu dan sylw, mae yn hawdd i bregethwyr a blaenoriaid yr oesoedd a ddêl ddeall y bu gweithwyr grymus yn arloesi anialwch y wlad cyn eu geni hwy. A gwelwn hefyd fel y mae un oes yn dyfod i mewn i lafur oes arall. Dylai coffadwriaeth y tadau yn yr oes o'r blaen fod yn fendigedig gan y rhai a ddêl ar ol. Byddwn yn teimlo yn ofidus yn aml wrth ddeall fod enwau hên dadau fu yn llafurio mor ymroddgar gyda'r achos crefyddol yn eu dydd mor ebrwydd yn myned i ebar-gofiant. Yn sicr ni ddylai hyn fod felly. A cheisio rhagflaenu y difrod hwn a wneir gan amser oedd ein hamcan wrth ymdroi fel hyn cyhyd gyda'r hên dadau anwyl sydd wedi ein rhagflaenu.

Mai, 1881.

# PREGETHAU.

---

## CREFYDD BERSONOL.

"*Eithr yr hwn sydd yn y dirgel sydd Iuddew; ac enwaediad y galon 'sydd' yn yr yspryd, nid yn y llythyren; yr hwn 'y mae' ei glod, nid o ddynion, ond o Dduw.*"—RHUF. II. 19.

CREFYDD BERSONOL.—Wrth drafod mater fel hwn, yr ydym dan angenrheidrwydd i arfer y gair *crefydd* yn fwy aml nag y byddai ddymunol, ond nis gellir yn hwylus ei hebgor.

"*Yr hwn sydd yn y dirgel sydd Iuddew*"—sydd ddyn duwiol. Mae gwir grefydd yn beth o'r golwg—yn y dirgel—yn y galon ac yn yr yspryd—a rhwng dyn a Duw. Ond nid yno yn unig y mae. Os bydd pobpeth yn iawn yn y dirgel, gwna hyny bobpeth yn iawn yn yr amlwg. Os bydd grâs yn teyrnasu yn y galon, fe deyrnasa hefyd ar yr holl ymagweddiad. Nis gall dyn duwiol y dirgel fod yn un y bydd ei gymydogion yn amheus ohono. Ac eto mae nerth a bywyd ei holl ymarweddiad sanctaidd o'r golwg yn nirgel ddyn y galon.

"*Ac enwaediad y galon sydd yn yr yspryd.*" Hyny yw, mae crefydd y dirgel yn myned yn bellach ac yn ddyfnach na *defodau.* Mae helynt flin wedi bod erioed gyda defodau crefyddol; ac yr oedd dadl y defodau wedi dechreu mor gynar a dyddiau yr Apostol. Defod yr enwaediad oedd asgwrn y gynhen y pryd hyny. Haera rhai, "Onid enwaeder chwi, ni ellwch fod yn gadwedig." Yr oedd hyny yn rhoddi yr un fath bwys ar ddefod ac ar gredu yn Nghrist, ac yn chwalu sylfaen cyfiawnhad trwy ffydd. Mae dadl y defodau, ysywaeth, o hyd yn eu llawn rwysg. Mŷn rhywrai, oni weinyddir bedydd yn ol eu syniad hwy, nad bedydd mohono. Ac oni bydd y cymuno yn y lle, a'r dull a dybiant hwy, nad yw yn gymuno o gwbl. Ond y mae yr Apostol yn y testyn, ac yn mhob man arall yn ei Epistolau, yn gwneyd i ffordd â rhyw rodres o'r fath yma, ac yn rhoddi ystyr mwy mewnol ac ysprydol na'r un llythyrenol, i'r defodau hyn yr ymrysonid yn eu cylch: "Ac enwaediad y galon sydd yn yr yspryd, nid yn y llythyren." Y fath ysfa sydd mewn dynion o hyd, i wneyd ymaith â'r ysprydol mewn crefydd! Mynant lenwi lle gwâg y prydferthwch Dwyfol âg addurniadau dynol a defodau cnawdol! Onid yw y perygl yna yn nês atom na Llan y plwyf?

"*Yr hwn y mae ei glod, nid o ddynion, ond o Dduw.*" Dyma y dyn a dyma y grefydd y mae Duw yn eu hanrhydeddu. Nid bob amser y mae clôd dynion a chlôd Duw yn rhedeg yr un ffordd. Ond pan y byddont, nid hawdd deall ar ol pa un o'r ddau glôd y mae dyn yn *trotian.* Pan yn ymwahanu, mae y gwâs am ddilyn ei feistr. Mewn amgylchiad felly, mae duwiol y dirgel mewn profedigaeth gref i edrych yn fwy ar glôd Duw na chlôd dynion. "Nid *gan* ddynion ond *gan* Dduw," myn rhai. Nid bob amser y mae Duw a dynion yn cytuno i glodfori yr un rhai. Mae dyn clodforus y ddaear, yn fynych, yn ddyn dirmygus y Nefoedd, ac mae anwyl-ddyn y Nefoedd mor aml a hyny yn ddyn gwrthodedig y ddaear.

CREFYDD BERSONOL! Mae dwy wedd i grefydd—yr un bersonol a'r un gymdeithasol—yr hyn sydd i fod rhwng dyn a dynion, a'r hyn sydd i fod rhwng dyn a Duw, y *dirgel* a'r *amlwg.* Mae tuedd mewn dynion o hyd i redeg ymaith gyda'r naill neu y llall o'r *gweddau* hyn. Tybia rhai y gallant hwy wneyd purion crefyddwyr a myned i'r Nefoedd, wrthynt eu hunain, ac heb y *gymdeithasol.* Ac i fod yn gyson â'u credo, mae yn debyg mai wrthynt eu hunain y maent yn bwriadu bod yn y Nefoedd hefyd! Ond Duw a ordeiniodd y wêdd gymdeithasol hon ar ei eglwys. Ac oni buasai am yr ordeiniad hwn, ni buasai gan Dduw eglwys ar y ddaear o gwbl. Mae Efe wedi ordeinio fod i'r *bersonol* o hyd i ymdoddi i'r *gymdeithasol.* A ffordd Duw yw y ddiogelaf am y Nefoedd. Ond ar hyn o bryd, i'r ochr arall y mae yn gogwydd rhy gyffredin, cymeryd y *gymdeithasol* a gadael y *bersonol* ar ol: dynion yn boddloni eu hunain ar broffes a chredo, ar ffurfiau a defodau, crefydd y blaid—y lluaws—y Llan neu y capel—y cwbl gerbron dynion, a dim gerbron Duw! Dyn selog dros ei blaid! Ond pa gymaint o gariad Crist sydd yn ei sêl? Dyn deallus! Ond a ydyw wedi deall ei hun? Beirniad heb ei fath! ond heb erioed wneyd gwaith beirniad gonest arno ei hunan!

Crefydd bersonol, neu, os myner, crefydd y *dyn ei hunan,* sydd genym i droi o'i chwmpas. Creadur arswydus o ddifrifol yw *dyn ei hunan!* A pho fwyaf unig y byddo, mwyaf difrifol yw ei achos! Yr ydych yn adnabod ei wyneb, yn gwybod ei enw, a rhyw gymaint o'i hanes. Ond mae y *dyn ei hunan* yn fyd mawr o ddyeithrwch i bawb! Byd ydyw sydd yn llawn o elfenau cynhyrfus—llawn o ystormydd a *threialon,* a gwahanol deimladau, a byd llawn o ddefnyddiau pob trueni, ac nid oes neb yn ei ddeall ond yr Hwn a'i gwnaeth! Pe gallai y naill ddyn daflu ei hun i ddyn arall, fe ga'i ei hun mewn lle mor ddyeithr a phe teflid ef i Sadwrn neu Jupiter! Ond mor dda i gymdeithas fod hyn yn

anmhosibl! Ond dyna'r mater, mae yn rhaid i'r *dyn ei hunan* gael crefydd. Mae y dyn ei hunan yn bechadur brwnt ac andwyol, hên chwedl mae'n wir. Ond mae dyfnder o drueni yn yr un enw yna, *pechadur*, nad oes ond golygon y Duwdod a wêl i'w waelodion! Tra y mae dyn yn ymddiofalhau, mae elfenau trueni tragywyddol yn ymgrynhoi ac yn ymgryfhau yn nirgeloedd ei galon, ac oni ddaw ymwared o rywle aiff ei enaid gwerthfawr ar dân. Mor frawychus yw y syniad, ac eto mae gair Duw yn ei warantu. Gan hyny, rhaid i'r feddyginiaeth a'i gwellâ gyrhaedd dirgeloedd yr enaid. Oferedd a thwyll yw *lapio* dyn pechadurus mewn defodau; amdôi corff marw ydyw, rhaid cael *bywyd*, onidê fe lygra fwy-fwy yn nghanol ei brydferthion i gyd.

Mae crefydd y dyn ei hunan, yn ol y testyn, i ddechreu ac i barhau trwy yr hyn a elwir yma yn *enwaediad y galon yn yr yspryd*. Mae ystyr o hyd i'r hên air *enwaediad*, a'r ystyr hwnw yn un ysprydol a dwfn. "Wedi eich enwaedu âg enwaediad nid o waith llaw yn y cnawd." "Yr enwaediad ydym ni, y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn yr yspryd, ac yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu." Wrth ddyweyd fel hyn, mae yr Apostol fel am *setlo* am byth yr hên ymryson, "Pwy sydd yn iawn?" Yr ystyr sydd i'r enwaediad hwn yw, goruchwyliaeth lèm yr Yspryd Glân trwy y gwirionedd ar galon a chydwybod pechadur, yn goleuo ac yn argyhoeddi, gan ei wneyd yn ystyriol o'i ddrygedd a'i golledigaeth, yn datguddio iddo ei bechadur brwnt ac andwyol. "A hwy, wedi clywed hyn, a *ddwys-bigwyd* yn eu calonau." O dan yr oruchwyliaeth lèm hon y mae balchder y galon yn cael ei ddarostwng, y caledwch yn toddi, y difaterwch yn pallu, a dyn yn dyfod i deimlo nad ydyw, wedi ei holl ymchwydd, ond pechadur brwnt ac annheilwng, a bod pob gobaith am dano yn darfod o'i ran ef. Mai dyma ydyw dechreuad a pharhâd crefydd ysprydol y galon sydd eglur. Y mae gair Duw yn mhob dull a modd yn ei ddwyn i'n hystyriaeth. "Yn wir, meddaf i chwi, oddieithr eich troi chwi a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas Nefoedd." Dyma ddyweyd clir a phenderfynol ar fater o'r pwys mwyaf, ac nid oes yma le i ddau feddwl! "Aberthau Duw ydynt yspryd drylliedig, calon ddrylliog gystuddiedig, O! Dduw, ni ddirmygi." Mae ein gwasanaeth crefyddol, cofier, ein pregethu a'n gweddïo, ein canu a'n haddoli, gydag yspryd iâch, yn ddirmygus gan Dduw. Ar ansawdd y galon y mae Efe yn edrych. "Ar hwn yr edrychaf, sef y truan a'r cystuddiedig o yspryd, ag sydd yn crynu wrth fy ngair." Dyma anwyl-ddyn y Nefoedd, gan nad beth fyddo ei ragoriaethau ereill. Dywedai Crist, "Gwyn eu byd y rhai sydd yn galaru." Y rhai sydd yn galaru, cofier. Ond mor

groes yw hyn i syniad y byd am wynfydedigrwydd. Gofynwn, A wyddoch chwi pa beth yw *galaru* gerbron eich Gwneuthurwr? Y neb nid yw yn gwybod hyn, nid yw eto wedi gwybod dim yn iawn! Wel, mae lle pwysig i'r ansawdd yma ar ddirgel ddyn y galon yn ein crefydd bersonol.

II.—Yr oruchwyliaeth hon o enwaediad y galon yn yr yspryd ddaw a dyn, ac hefyd a'i ceidw, yn ddifrifol gyda'i achos tragywyddol ei hunan. "*Mater enaid*," ys dywedai ein hên dadau. Y mae hwn gan bawb, ac mae yn un drwg, dyrus a phwysig dros ben. *Dim* o'i gydmharu â hyn ydyw pobpeth arall! Ond y drwg ydyw, ni fyn dynion dalu yr un sylw i'w helynt ysprydol; dyma eu *câs-beth*. Mae yn haws cael dyn i bob man ac at bobpeth nag *ato ei hun*. Ymddyeithrio iddo ei hun ydyw y dinystr. Absenoli ei hun ohono ei hun—cau ei dŷ ei hun i fyny, a myned i wagedda i bob man, gan ymbleseru yn trin helyntion pobl ereill, a gadael hollol ryddid i ddiafol a phechod i fyned yn mlaen gyda'u gwaith dinystriol yn nirgeloedd y galon, a'r drysau megys yn gauad arnynt! Megys pe byddai dyn yn cysgu yn dawel yn ei *fedroom*, a'i lofrudd yn cynllunio brâd i waered yn ei *seler!* Er ein gwaredu o'r sefyllfa ddychrynllyd hon, rhaid i ni o hyd wrth yr oruchwyliaeth lem hon o *enwaediad y galon yn yr yspryd*, er ein dwyn a'n cadw i ymdeimlo â phwysigrwydd ein hachos tragywyddol ein hunain. Nid digon i'r Cristion oedd cael hyn yn nechreuad ei yrfa grefyddol; rhaid iddo wrth geryddon y gwirionedd bob dydd o'i fywyd er "cyffroi ei feddwl puraidd." Ac onidê mae y teimlad sanctaidd yn ei enaid yn marweiddio—y tân sydd ar ei aelwyd yn llosgi yn drymaidd—yn ddiwrês a dilewyrch— yn cael ei enhuddo megys â lludw ei galon anianol. Y mae sylw Gurnal yn llawn o wirionedd: "Ni thrŷ y *top* ond o dan y chwip."

A ydyw ein mater tragywyddol ein hunain yn peri i ni bryderu? Tri gair ddylent gael ein sylw:—1. Mae gan bob un ei achos tragywyddol ei hunan. 2. Rhaid cael pob un rywbryd a rhywfodd wyneb yn wyneb â hwn—yr angel ac asen Balaam. 3. Mae yn bosibl dyfod ato yn rhy ddiweddar.

III.—I'r graddau y bydd dyn yn teimlo difrifwch gyda'i achos tragywyddol ei hunan y bydd gwaredigaeth râsol Duw yn werthfawr ganddo. Ni fêdd Duw yr un drefn i gadw pechadur difraw. Pan ddaeth yr afradlawn ato ei hun y gwelodd werth tŷ ei dad. "Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg" ydyw o hyd. Gofyniad a glywir yn gyffredin ydyw, Pa beth yw yr achos fod yr holl bregethu mor aflwyddiannus i gadw pechaduriaid? Dyma un ateb, Am nad oes dim *pechaduriaid* i'w cael! Cymhell Crist yn Waredwr i ddynion heb weled dim gwerth ynddo! Pa beth ar y

ddaear mor aflwyddiannus? Ond i bechadur ystyriol ohono ei hun mae Crist, fel Gwaredwr holl-ddigonol, yn bobpeth i'w ddymuno ganddo. Trefn i gyfiawnhau yr annuwiol—maddeuant llawn a rhâd—gorseddfainc y grâs i nesâu ati! Dyma ei obaith, a dyma ei fywyd, a dyma ei orfoledd! A ydyw yr Iesu yr un i'w ddymuno genych? Trugaredd anfeidrol i ni ar hyn o bryd fyddai cael cyflawniad o'r addewid hono, "A mi a enwaedaf dy galon a chalon dy hâd, i garu ohonot yr Arglwydd dy Duw â'th holl galon, ac â'th holl enaid."

IV.—"Yr hwn sydd yn y dirgel sydd Iuddew." Y cwestiwn pwysig iawn sydd genym i'w ofyn ydyw, Pa faint o grefydd sydd genym *o'r golwg?* Nid pa faint yn y capel, yn y teulu, yn yr ardal, &c. Y mae y rhai hyn yn gwestiynau pwysig hefyd. Ond yn bresenol, Pa faint *o'r golwg?*

Er cael y gofyniad pwysig hwn i afael eich hystyriaeth, ni a'i rhanwn—

1. Pa faint o *weddïo* sydd *o'r golwg?* Pa faint o gymundeb â Duw? "Ein cymdeithas ni yn wir sydd gyda'r Tad a chyda'i Fab ef Iesu Grist." Dyna y peth mwyaf goruchel a *breiniol* a ddichon fod ar y ddaear. Pa faint o gyd-ffurfio â gorchymyn yr Arglwydd Iesu? "Tydi, pan weddïech, dos i'th ystafell; ac wedi cau dy ddrws, *gweddïa*." Dyma *weddïo personol.* Ar un olwg nid oes dim yn haws; ond eto, nid oes dim yn anhaws. Mae yn haws gan ddynion fyned i bob man nag i'r ystafell. Ai nid y peth mwyaf dyeithr i lawer ydyw hyn? Mae gan y dyn ei gapel, ei sêt, ei gredo, ei bregethwr, ei farn, a'i swydd; ond am weddïo'r ystafell—*dim!* Wel, *dim yw crefydd heb weddïo.* A rhagrith yw gweddïo yn mhobman, os nad oes *gweddïo o'r golwg.* Gochelwn rhag i'n crefydd fyned yn gulach po fwyaf *private* yr elom! Gorchfygu ein hanmharodrwydd i weddïo personol yw un o *orchestion* bywyd crefyddol.

2. Pa faint o helbul a geir genym gyda'n *drygau mewnol?* Nid ydym wrth hyn am i neb feddwl yn ysgafn o'u drygau *allanol.* Ond â'r *mewnol* y mae a wnelom yma. Mae yn bosibl i ddyn fod yn wyliadwrus gyda'r *allanol,* ond yn ddiofal gyda'r *mewnol.* Y wraig ragrithiol gyda'i phlant ar y Sabboth. Ond pwy sydd yn cael ei drallodi gan ei *ddrygau mewnol* ydyw y cwestiwn, gan chwantau cnawdol, gan galon ddrwg, anghrediniaeth, gan feddyliau annheilwng am y Duw byw, gan feddylfryd daearol, mewn gair, gan galon ddrwg, ansanctaidd. Deddf yn yr aelodau—y cnawd o hyd yn chwenych yn erbyn yr yspryd. Un o *arferion* crefydd bersonol yw croeshoelio'r cnawd yn nghyda'i wyniau a'i chwantau, a marweiddio pechod. Un argoel glir o ddyn dan deyrnasiad grâs

ydyw ei fod yn ymosod o hyd yn erbyn *drygau cuddiedig ei galon.* Ond a ydyw hyn yn eich hanes chwi?

3. Pwy sydd yn gwybod am awydd cyson am radd uwch o sancteiddrwydd calon ac ymarweddiad? Dyn o hyd yn sychedig am ragor o râs, rhagor o dduwioldeb, ffydd gryfach a chariad cryfach. Nis gall y dyn yna foddloni ei hun ar y peth ydyw. Y mae o hyd yn sychedig am y Duw byw, am ragor o'r Dwyfol yn ei yspryd. Mae o hyd yn syrthio allan âg ef ei hun, am na byddai yn amgen i'r peth ydyw. Mae yr yspryd mabwysiad sydd o'i fewn o hyd yn llefain, Abba Dad. Y mae genym air wrth fôdd ei galon, "Gwyn fyd y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder; canys hwy a *ddiwellir.*

4. A ydyw y Gwaredwr bendigedig yn un i'w ddymuno genych? Os na ellwch broffesu eich bod yn credu ynddo, a ydych yn dymuno hyny? A ydych yn ystyriol nad yw eich crefydd ar sylfaen dda os nad ydyw yr Iawn a dalwyd ar y Groes yn sylfaen iddi? Wel dyma y grefydd, a dyma y dyn y mae ei *glod, nid o ddynion, ond o Dduw.*

Mae mawr werth y grefydd bersonol hon yn dyfod i'r golwg ond i ni ystyried—

1. *Fod y dirgel o hyd yn dyfod i'r golwg.* Os bydd grâs yn teyrnasu yn y dirgel, daw hyny i'r golwg yn yr holl ymagweddiad.

Cofiwch mai cywirdeb syml yn y cymeriad sydd o hyd yn profi ei hun, ac ni faidd neb ei amheu, ond y dyn llawn o ragfarn. Nid creadur amgylchiadau mohono. Nid cochl i'w diosg a'i rhoi ydyw ei grefydd ef, ond *egwyddor ddofn ei enaid.*

2. *Bydd meddu y grefydd bersonol hon o werth dirfawr i ni erbyn yr adeg y byddwn yn myned i waered i'r glyn!* Dyna yr adeg y bydd ein cysylltiadau cymdeithasol yn tori, yn ymollwng, y naill ar ol y llall—y dyn a'r daearol yn pellhâu—a dyn a Duw yn nesâu at eu gilydd. Dyna y pryd y bydd profiad y drydedd Salm ar hugain o fwy o werth na'r holl greadigaeth, "Ië, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angeu, nid ofnaf niwed, canys yr wyt ti gyda mi"—

"Pan fo dyfroedd oer marwolaeth
O fy amgylch yn crynhoi,
Pwy a ddeil fy mhen i fyny?
Pwy a wna i'm hofnau ffoi?
Neb ond Iesu;
Gwênaf yno yn ei law."—**Amen.**

## DYRO I NI EIN BARA.

" *Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol; a maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninau i'n dyledwyr.*"—MATTHEW VI. 11, 12.

Mae Crist yn yr adran hon o'i bregeth ar y mynydd yn ein dysgu i weddïo. Yr oedd Efe yn un mawr mewn gweddi ei hunan. Ac y mae yn ein dysgu ninau i fod yn debyg iddo ef yn hyn. Y mae yn " rhaid i ni weddïo yn wastad ac heb ddiffygio." Cymhellir gweddi arnom fel peth hanfodol i fywyd gwir grefyddol. Mae crefydd heb weddïo, yn grefydd heb enaid, heb fywyd.

Mae Efe yma yn rhoddi i ni rai awgrymiadau buddiol gyda golwg ar weddïo. Yn un peth, y mae am i ni ochel meithder y weddi *aml-eiriog*, gweddi gwmpasog, gan mai gweddïau byrion yw y rhai llwyddiannus. Y mae Efe hefyd am i bwysau trymaf ein gweddïo fod *o'r* golwg. " Tydi, pan weddïech, dos i'th ystafell;" " Cau dy ddrws." *h.y.*, gwna dy weddi mor *brivate* ag y byddo bosibl. O'n holl arferion crefyddol, dyma yr un hawddaf. Bydd yr ystafell genym bob amser. Cawn fyned yno y pryd y mynom heb na gwlychu, nac oeri, na llafur. Ni bydd ofn dyn yno i ddwyn magl. Cawn agor ein holl helynt, tywallt ein calonau gerbron Duw. Ond eto dyma y peth anhawdd. Mae yn haws gan ddyn fyned i bobman nac at Dduw yn bersonol. Mae gweddi yr ystafell yn dyfod yn brawf o ansawdd grefyddol ein calonau—yn fath o *thermometer* i brofi ein tymheredd ysprydol. Mae yn brawf sicr, ac yn brawf eglur, ac felly yn fantais i ni brofi ein hunain. Gochelwn rhag i'n crefydd fyned yn gulach po mwyaf *private* yr elom. Un o orchestion bywyd crefyddol ydyw gorchfygu yr anmharodrwydd sydd ynom i weddïau personol.

Mae Crist yma yn rhoddi i ni gynllun o weddi, ac un prydferth a llawn, pob gair yn y weddi hon yn llawn o ystyr. Gweddïwch chwi fel hyn, i'r perwyl yma, yn y geiriau hyn. Nid *dywedwch* fel hyn, ond *gweddïwch* fel hyn. Gallwn *ddywedyd* fel hyn, ac heb *weddïo dim.* Tywalltwn ein calonau i'r geiriau hyn :—

### EIN TAD.

Dysgodd yr Arglwydd Iesu i ni roddi enw newydd ar Dduw yn ein gweddïau. Yr enw naturiol sydd yn cario gydag ef fwyaf o hyder ac o anwyldeb. Cawn ni bethau bychain, gwael, a diamddiffyn, nesâu at y Duw mawr a dywedyd—*Ein Tad.* A Thad ydyw yn llon'd yr enw.

### GWEDDI YR ARGLWYDD A'I GWERSI.

Oddiwrth y ddau ddeisyfiad, cymerwn y gwersi canlynol :—

1. *Mae Crist, wrth ein dysgu i weddïo fel hyn, yn ein dysgu i*

*gydnabod Duw fel y Rhoddwr o bobpeth i ni, ac i deimlo ein hymddibyniad yn llwyr arno.*

DYRO I NI.—Dy eiddo di ydyw pobpeth, ac nid allwn ni gael ond a roddir i ni. Ond mor anmharod ydyw ein calonau daearol ni i ddysgu y wers hon! Yr ydym ni o hyd am hawlio ein pethau i ni ein hunain. "Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiladais *i?*" Y fi piau hi yma! a dyna ninau, fy nhŷ i, fy arian i, fy anifeiliaid i. Druain ohonom! Mor dlawd fyddem pe cadwai Duw ei roddion oddiarnom! Ond deuwn at ein gwers o deimlo ein hymddibyniad yn llwyr ar y Duw byw. "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu." "Eiddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder; y byd, ac a breswylia ynddo." "Ynddo Ef yr ydym ni yn byw, symud, a bod." Efe "sydd yn rhoddi," ac Efe "sydd yn cymeryd ymaith." Ni byddwn ni byth mor ddedwydd, ac mor gyfoethog, a phan yn gallu teimlo ein hymddibyniad yn llwyr ar y Duw Hollalluog. Dyma deimlad dedwydd, "Duw sydd noddfa a nerth i ni; cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder."

*Rhyw roddwr rhyfeddol* yw y Duw mawr. Mae ganddo Ef gyflawnder tragywyddol i'w roddi. Y mae Efe yn gyfoethog o drugaredd. Dywediad llawn yw hwnw, "Agori dy law a diwalli bobpeth byw o'th ewyllys da." Sylw Ebenezer Morris ar y gair. ydyw, y byddai rhoddi un *brecwast* i deulu Duw yn ddigon i wneyd y ddau Ymherawdwr cyfoethocaf yn *Bankrupts.* Ond nid rhaid i'r Duw mawr ddim ond agor ei law, dyna bobpeth byw yn cael digon. Ac y mae y weddw gyda'i hamddifaid yn petruso! Ond y mae Efe, weithiau, yn cau ei law, a'r pryd hwnw dyna bobpeth wedi dyrysu. Oes, y mae gan y Goruchaf gloäu ar ei bethau. Ac os bydd iddo Ef gau, nis gall neb agor. Mae Efe yn cau ei law er mwyn i ni ddeall pwy sydd yn rhoddi. Y mae anghofio Duw wedi costio yn ddrud iawn i ddynion bob amser.

II. *Mae Crist, wrth ein dysgu i weddïo fel hyn, yn dysgu haelfrydedd mewn gweddi.* "*Dyro i* NI"—nid i *mi.* Dyro i ereill, i bobl y tŷ nesaf, i'r siop dros y ffordd, i'r dyn câs, ac i'r teulu câs. *Dyro i ni.* Mae y wers hon eto yn myned yn groes i'r *graen* gyda ni. Mae ein calonau drygionus wedi ein gwneyd ni yn *hunangar*; am y cwbl i ni ein hunain. Dyn am y cwbl iddo ef ei hun! Dyna y peth mwyaf atgas gan y Goruchaf o'r cwbl. Wel, y mae yr Arglwydd Iesu am i ni fod yn *haelfrydig* yn ein gweddïau a'n dymuniadau da i ereill. Byddwch chwi berffaith, fel y mae eich Tad yn berffaith. Mae Efe yn peri i'r haul godi ar y drwg a'r da. Mae Efe am i ni fod yn ddynion i ereill, yn ceisio llesâd ereill. Fel y mae efe yn berffaith mewn *cyfranu,* y dylem ninau fod yn berffaith mewn *dymuno.* Unwaith y clywais Williams y Wern yn

pregethu, a'r geiriau hyn oedd ei destyn. Dyma un sylw o'i bregeth. "Peidiwch a myned at y Goruchaf gyda chŵd cûl. Ewch a digon o le i dderbyn. Benthyciwch lestri gweigion y gymydogaeth, a chariwch hwy o'i flaen Ef. Mae ynddo Ef ddigon o gyfoeth a digon o haelioni i lenwi llestri pawb—*Dyro i ni.*" Un o bethau prin ein hoes ni ydyw gweddïo dros ein gilydd.

III. *Mae yr Arglwydd Iesu, wrth ein dysgu fel hyn, am i ni ddysgu byw ar y* PRESENOL. *Dyro i ni* HEDDYW, neu *o ddydd i ddydd.* Dyma eto wers fach yn groes iawn i'n hylldod ni—*byw ar y presenol!* Na, rhaid i ni gael rhaglunio byw am flwyddyn a blynyddoedd, ac oes mor hir nas gwyddom pa hyd i'w roddi ynddi. Mae rhaglunio yn nhoriad ein bogail. "Heddyw neu yfory ni awn i'r cyfryw ddinas," &c. "Beth yw eich heinioes chwi?" Dacw ryw ffarmwr cyfoethog, a'i ysguboriau yn llawnion, yn dyweyd wrth ei enaid, "Fy enaid gorphwys, bwyta, ŷf, bydd lawen." "O ynfyd! y nos hon y gofynant dy enaid oddiwrthyt," medd Duw wrtho. Ond dyro *heddyw* sydd yma. Mae gan yr Hollalluog ei ragluniaeth, a hono a saif. "Fy nghyngor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf." Mor fynych y mae ei Ragluniaeth fawr Ef yn myned ar draws ein rhagluniaeth fach ni. Ar ol i ni fod wrthi yn rhaglunio, dyna ryw law anweledig o'r tu ôl i'r llèn yn dyrysu y cwbl.

Deuwn at ein gwers. Y ffordd ddiogel i ni yw byw ar y presenol, a dilyn Rhagluniaeth Duw. Gwir ydyw fod a fynom ni â'r dyfodol, mor bell ag mae a fyno y dyfodol â'n dyledswyddau, a dim pellach. Ond *heddyw* ydyw ein hadeg ni at bobpeth. Dyro *heddyw*, neu o ddydd i ddydd. Dyna ddilyn Rhagluniaeth; ac mor ddiogel, mor gysurus yr elem trwy ein taith ddaearol fel hyn. *Dilyn* yn bwyllog, yn dda ein hamynedd, ac fel y bydd Rhagluniaeth fawr y Nef yn agor y ffordd o'n blaen. "Na ofelwch, gan hyny, dros dranoeth; canys tranoeth a ofala am ei bethau ei hun." Mor hapus, mor ysgafn ein teimladau yr elom drwy ein taith ddaearol, ond cyd-ffurfio â'r gorchymyn hwn! Ymaflwn yn ein dyledswyddau *presenol,* ac ymddiriedwn ein *dyfodol* i'r Duw byw. Y mae ein *dyfodol ni* yn *bresenol iddo Ef.* Ystyriwn mai *heddyw* ydyw ein diwrnod pwysig ni at bobpeth. "*Heddyw,* os gwrandewch ar ei leferydd ef." Wel, gwnawn y goreu o *heddyw.*

IV. *Mae Crist, wrth ein dysgu i weddïo fel hyn, yn ein dysgu i fod yn* ONEST *yn ein dymuniadau a'n harferion.* EIN *bara,* nid bara pobl ereill—nid dillad pobl ereill. *Ein bara,* yr hyn sydd yn dyfod i ni trwy ddiwydrwydd, heb na thwyll na thrais, ac heb fod yn *ochenaid* i neb. *Ein* bara, yr hyn sydd yn dyfod

i ni mewn ffordd onest ar lwybr diniweidrwydd. Sonir am *fara trais*—un drwg ydyw hwnw; ac am *fara segur*, nid yw hwnw chwaith yn un i weddïo am dano. Sonir hefyd am benderfyniad campus o eiddo rhyw wragedd, "Ein bara ein hun a fwytawn, a'n dillad ein hun a wisgwn." Gwyn fyd na byddai gwragedd a merched ieuainc—gwŷr a llanciau hefyd—yn penderfynu yn gyffelyb.

*Ein bara.* Mae Crist, ac felly gair Duw yn mhob man, yn ein dysgu ni i *fyw yn ol ein sefyllfa. Ein bara*—byw arnom ein hunain. Y felldith a'r dyryswch yn ein hardaloedd ydyw fod dynion, pob oed a gradd, yn byw yn uwch na'u moddion eu hunain, ac felly yn bwyta bara ac yn gwisgo dillad pobl ereill. Y mae dynion, wrth fyw yn uwch na'u moddion eu hunain, yn *tresmasu* ar foddion byw pobl ereill. Mor drallodus ac mor golledus i gymdeithas ydyw hyny. *Ein bara!* A ydym i weddïo am yr hyn sydd eisoes mewn ystyr yn feddiant genym? Gwir iawn yr ydym. Ar ol cael dy gynyrch i ddiddosrwydd, a dy gyflog i dy law, dywedwn wed'yn, *dyro i ni.* Mae y Sabeaid o hyd a'u llygaid arnom. Oni bydd amddiffyniad y Goruchaf yn cysgodi drosom, änt a'n bara o'n dwylaw, a'n harian o'n *pocedi.* Cofier, nid oes dim a feddwn yn ddiogel, ond o dan amddiffyniad y Brenin mawr.

V. *Mae yr Arglwydd Iesu, wrth ein dysgu i weddio fel hyn, yn ein dysgu i fod yn gymhedrol yn ein dymuniadau.* "Dyro i ni ein BARA." Dyro *fara*, yr hyn y mae ein natur mewn angen am dano, a'r hyn a brydfertha ein natur. Dyro i ni angenrheidiau bywyd. Mae Crist yma am i ni ddysgu cymhedroli ein dymuniadau. Nid gorchwyl hawdd mo hyn hefyd. Mae ein dymuniadau ni yn bethau gwylltion ac afreolus iawn, fel anifeiliaid *barus*, yn tori dros bob terfynau. A'r fath drueni mae hyny yn ei gynyrchu yn ein teimladau ni ein hunain ac yn y byd o'n cwmpas! Dyma un achos o fod dynion mor anniddyg yn blino ar eu sefyllfa. Boddlonrwydd dyn *ar* ei sefyllfa yw dedwyddwch dyn *yn* ei sefyllfa. Mor brydferth ydyw gweddi Agur, "Na ddyro i mi na thlodi na chyfoeth; portha fi â'm digonedd o fara." Dyna ddyn dedwydd. O'r ochr arall, "Yr hwn sydd yn ewyllysio ymgyfoethogi sydd yn syrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol." Boddi dynion ydyw peth fel hyn. Y fath drueni a'r fath ddyryswch y mae yr *ewyllysio* afreolus hwn yn ei gynyrchu! Gwelwn, gan hyny, fod i ni ryddid i nesâu at y Duw byw am fendithion tymhorol a theuluol. "Na ofelwch am ddim: eithr yn mhobpeth mewn gweddi ac ymbil gyda diolchgarwch, gwneler eich deisyfiadau chwi yn hysbys gerbron Duw." "Ymddarostyngwch, gan hyny, dan alluog law Duw, fel y'ch dyrchafo mewn amser cyfaddas,

gan fwrw eich holl ofal arno Ef, canys y mae Efe yn gofalu drosoch chwi."

VI. *Mae yr Arglwydd Iesu, wrth ein dysgu i weddïo fel hyn, am i ni gysylltu ein gweddïau am fendithion tymhorol, â gweddïo am fendithion ysprydol.* "*Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol, a maddeu i ni ein dyledion.*" "*Ein dyledion.*" Maent yn aneirif ac yn gymylau duon, bygythiol rhyngom â Duw. Pethau rhyngom ni â Duw yw ein dyledion hyn. Yn gymaint a'n bod yn bechaduriaid annheilwng yn erbyn Duw, yr ydym wedi myned yn ol am ei ogoniant. Ac felly mae pobpeth a dderbynir genym, a phobpeth a wneir genym yn aros yn ein herbyn yn ddyledion. *Meddyliwch* gymaint o ddaioni, o drugareddau a dderbynir genym trwy ein hoes, yr holl iechyd, y synwyrau, bendithion tymhorol, a manteision crefyddol. Wel, y maent yn aneirif. A *meddyliwch* drachefn am ein holl fywyd pechadurus—pechu, pechu, pechu—pob math o bechu—pob maint o bechu. Wel, y mae ein pechodau ni am un diwrnod yn aneirif. Mae rhyw Lyfr yn bod, mae y cwbl ar gael a chadw yn hwnw. Ond wele ein Gwaredwr yn rhoddi rhyw air bendigedig yn ein genau, a chawn nesâu at y Duw mawr gydag ef, a gofyn, "*A maddeu i ni ein dyledion.*" Priodol iawn i ni ydyw teimlo fel y Salmydd, "Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O! Arglwydd, pwy a saif? Ond y mae gyda thi faddeuant, fel y'th ofner." Mor werthfawr i ni yw y gwirionedd hwn. Y mae gan y Duw mawr y pechasom gymaint i'w erbyn, galon i faddeu a threfn i faddeu. Ond cofiwn, mae y maddeuant hwn yn dyfod i ni yn unig trwy waed ei groes Ef.

"Yr Iawn a dalwyd ar y groes
  Yw sylfaen f' enaid gwan;
Wrth bwyso arno ddydd a nos
  'Rwy'n disgwyl dod i'r làn."

Wel dyna fel y mae ein hachos ni yn sefyll heddyw, mae genym ddyled fawr a dim i dalu. Ac y mae ein dyledion yn gymylau duon rhyngom â'n Creawdwr. Ond mae Efe, yn ei râs anfeidrol yn aberth ei Fab, yn galw arnom i edifarhau a dychwelyd fel y maddeuo i ni ein pechodau. Wel, cymerwn ei eiriau gyda ni, a dychwelwn, a dywedwn, "Maddeu i ni ein holl anwireddau, a derbyn ni yn ddaionus."

Mae cysylltiad y ddau ddeisyfiad hyn yn ein dysgu yn—

1af.—Fod derbyn bendithion tymhorol heb dderbyn y fendith fawr o faddeuant pechodau yn mwyhau ein dyledion, ac yn gwaethygu ein hachos. Gwae, gwae, fydd i ni o dderbyn y naill, ac heb dderbyn y llall.

2il.—Tra yr ydym i fod yn gymhedrol wrth ofyn am ein bara beunyddiol, am bethau y bywyd hwn, y mae i ni ryddid i fod yn helaeth wrth weddïo am faddeuant pechodau a bendithion ysprydol. Cawn ofyn am faddeu yr holl anwiredd, ië, yn wir, cawn ofyn am fendithion mwyaf y Duwdod—ei gymod a'i dangnefedd—cawn ofyn am y bywyd tragywyddol. Cawn ofyn am Dduw yn Dad, am Grist yn Waredwr, ac am yr Yspryd Glân yn arweinydd a diddanydd.

3ydd.—Nid yw bendithion tymhorol o'u cael yn ddigon i ni. Nid ar fara yn unig y bydd byw dyn. *Dyn* fyw ar fara yn unig, ar aur ac arian, &c.! Dechreu agor ei lygaid i fyw y bydd dyn pan y bydd yr holl bethau hyn yn darfod a gwasanaethu iddo. Wrth ddymuno pethau tymhorol yr ydym fel y morwr yn hwylio ei long yn y culfôr, i ochel y glànau; ond gyda'r bendithion ysprydol, yr ydym fel y morwr yn hwylio yn y môr mawr, llydan, i redeg gyda'r awel. Cawn ddymuno, gweddïo a cheisio cyflawnder Duw. Y mae holl gyfoeth ei râs yn agored o'n blaen, ei faddeuant, ei râs, cyflawnder heb derfynau—"môr i nofio heb fyned trwyddo."

---

## CALEB.

"*Ond fy ngwas Caleb, am fod yspryd arall gydag ef, ac iddo fy nghyflawn-ddilyn, dygaf ef i'r tir y daeth iddo: a'i hâd a'i hetifedda ef.*"—NUMERI XIV. 24.

CALEB oedd un o'r deuddeg a anfonwyd i edrych ansawdd gwlad Canaan. Yr oedd y deuddeg yn wŷr cymeradwy y genedl, ond dau brofodd yn rhai teilwng. Mae hyn yn profi mai siomedig yw dynion. Cawn yma helynt flin yn Cades-Barnea. Dyma blant Israel wedi teithio o'r Aipht â llaw uchel, wedi bod yn ymdroi tua Sinai, ac yn mhen un mis a'r bymtheg, wedi cyrhaedd pen eu taith i Cades. Ond yno, oherwydd gau-dystiolaeth y deg yspiwyr, y maent yn syrthio i anghrediniaeth a gwrthryfel yn erbyn Moses ac Aaron. Yr oedd Duw wedi cyd-ddwyn llawer a'r genedl cyn hyn. Ond mae eu hanghrediniaeth a'u gwrthryfel y tro hwn yn gwisgo y fath wêdd, fel y mae yr Arglwydd yn tyngu yn ei lid na chaent fyned i Ganaan, ac yn eu tynghedu i grwydro y llanerchau mwyaf annifyr hyd derfyn eu hoes. Y fath siomedigaeth! Gweler y fath bechod dychrynllyd ydyw anghrediniaeth! Mae yn cau miloedd Cymru allan o well lle na Chanaan. Yn helynt Cades y daeth gwir gymeriad Caleb i'r golwg. Yr oedd yn ddyn cywir o'r blaen, ond yma y caed y prawf ohono. Amgylchiadau sydd yn

profi dynion. Nis gallwn ddeall ein hunain ond fel y byddo *treialon* yn ein dad-blygu. Peth o werth i ni yw meddu cymeriad crefyddol i ddal prawf. Yn y testyn mae'r Arglwydd yn rhoddi y ganmoliaeth uchaf i'w wâs Caleb, ac yn sicrhau iddo yr addewid o wlad Canaan. Y peth penaf gan y Duw mawr mewn dyn yw ffyddlondeb. Mae yr hanes a'r testyn yn llawn o addysg i ninau.

I. MAE TAITH PLANT YR ISRAEL O'R AIPHT I GANAAN, YN DDRYCH I NI WELED RHYWBETH O DAITH GREFYDDOL DYN TRWY Y BYD HWN. Fe'n cyfeirir yn fynych at y daith hon am ein haddysg.

*Teithwyr* ydym oll yn y bywyd hwn. Yr ydym yn ymsymud yn mlaen i ryw gyfeiriad, a hyny yn gyflym—yn llawer cyflymach nag y tybiwn—*teithio gyda'r train.* Yr ydym yn myned yn gyflym, ond i ba le? pa fath ddiwedd sydd yn nesâu i ni? Nid yw pawb ar yr un cyfeiriad.

1. *Fel y daith hono gynt, felly mae i'r daith grefyddol ei* CHYCHWYN.—Cryn helynt fu cychwyn Israel o'r Aipht. Mae i fywyd crefyddol ei *gychwyn*. Mae helynt y *cychwyn* yn fyw yn nghôf rhai o hyd. Diolch am gael cychwyn.

2. *Fel y daith hono, mae i'r daith grefyddol ei* HAMCAN.—Myned i Ganaan oedd amcan Israel wrth gychwyn o'r Aipht. Ond mae i'r daith grefyddol amcan mor uchel a myned i'r Nefoedd. Dyma'r amcan uwchaf sydd i fywyd crefyddol. Methu difrifol i ni fydd methu y Nefoedd, a'r *cael* mwyaf fydd cyrhaedd y Nefoedd. Cofiwn fod y fath le a'r Nefoedd yn bod. Y mae yn bosibl i ni fyned yno, ac mae yn bosibl i ni *fethu.* Y byw dedwydd ydyw i ni allu *claimio* fod y Nefoedd i ni yn gartref. "*Ein hymarweddiad* ni sydd yn y Nefoedd."

3. *Fel y daith hono gynt, mae i'r daith grefyddol ei* HANHAWSDERAU.—Gwych y canai yr Israel ar làn y Môr Coch; ond bychan y gwyddent am y blinderau oedd yn eu haros. Ond mae i *fywyd crefyddol* o hyd ei anhawsderau. "Trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid myned i mewn i deyrnas Dduw." "Nis gall na ddêl rhwystrau." Mae yn dda arnom ni, ond mae i *dywydd têg* ei anhawsderau. Ystyrier y fath lanw cryf o ddifaterwch crefyddol sydd genym ni yn yr oes hon i rwyfo yn ei erbyn. A rhwyfo sydd raid neu fyned gyda'r llifeiriant.

4. *Fel yn y daith hono, felly o hyd, nid pawb sydd yn cychwyn sydd yn cyrhaedd y pen.*—Y fath luaws o blant yr Israel a gollodd ar hyd y ffordd. Mae beddau'r blŷs, dyfroedd y gynhen, temtasiynau merched Moab, gwrthryfel Corah, anghrediniaeth Cades, o hyd yn myned a'u lluaws! Y fath nifer a welsom ni yn *cychwyn* o'r Aipht, ond yn dyrysu, yn colli ar y ffordd. Y dyrysu mwyaf

oll yw dyrysu gyda chrefydd. "Y neb a barhao hyd y diwedd, hwnw a fydd cadwedig."

II. Tuagat droi yn llwyddiannus yn ein taith grefyddol, rhaid i ninau feddu yr un yspryd arall ag oedd yn Caleb.

Yspryd arall. Nid oedd pawb yn nghynulleidfa Israel o'r un yspryd â'u gilydd. Yr oedd yno lawer yn cael eu blino gan ysprydion drwg a blinion iawn—yspryd anfoddog—yspryd cynhenus, cwerylgar—yspryd cynhenu yn erbyn Moses ac Aaron. Gwnaed Moses ac Aaron y peth a fynont, ni byddai dim yn boddloni rhai. Mae yr un ysprydion drwg o hyd ar eu llawn gwaith ac yn peri llawer o flinder yn eglwysi y saint. *Blinderau mewnol* yw ein blinderau ni yn yr oes hon gyda chrefydd. Mae rhywrai o hyd yn cael eu blino gan yspryd croes, anhydrin—yspryd cecru a chweryla. Mae rhywrai o hyd yn eu gwaith yn tuchan yn erbyn Moses ac Aaron. Ar Moses ac Aaron y bydd y *cwff* o hyd yn syrthio. Druain o Moses ac Aaron! Wel, edrychwn o ba yspryd y byddom. Mae y Duw mawr o hyd yn peri i ryw ddaear neu gilydd agor ei safn i lyncu cynulleidfa Corah. *Cofiwn*, fe fŷn Duw ei eglwys yn lân. Felly y bydd yn niwedd y byd hwn. Duw a ddenfyn ei angylion, a hwy a gynullant "ei etholedigion oddiwrth y pedwar gwynt, o eithaf y ddaear hyd eithaf y Nef."

Yspryd arall! Ni waeth hyny na mwy, nis gallwn droi allan yn llwyddiannus gyda chrefydd Crist heb ei *hyspryd*. Er bod yn llwyddiannus gydag unrhyw beth, rhaid cael yr yspryd priodol i hyny. Nis gellir gwneyd morwr o ddyn heb yspryd morwr, na milwr heb yspryd milwr, na masnachwr heb yspryd masnach. Nis gellir trin y byd heb yspryd y byd. Felly hefyd nis gall dyn wneyd dim i'r amcan uchel gyda chrefydd Crist heb ei *hyspryd*. Gwelsom lawer yn ceisio, ond wfft, mor ddilun! Llacio, tramgwyddo, a cholli y byddent. "Y rhai a arweinir gan yspryd Duw, y rhai hyny sydd blant i Dduw." "Ac od oes neb heb yspryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo Ef." I fod yn grefyddol, nid digon yw fod genym wybodaeth, a deall, a barn, cymeriad a swydd, rhaid cael yr *yspryd arall*. Corph marw yn llygru mewn amdo prydferth fydd dyn ar y goreu heb yr yspryd. Llanwer chwi â'r yspryd. Ond mae yr yspryd bendigedig hwn i'w gael i bawb sydd yn ei geisio ac yn ei ddymuno.

Yspryd arall! Beth ydyw? Wel, nis gallwn ni wneyd dim o yspryd, ond fel y daw i'r golwg. Y modd y mae yn amlygu ei hun yn y gŵr hwn yw mewn *meddwl mawr* am y Duw byw. Yr oedd Caleb wedi gweled yr anhawsderau fel ereill. Gwelodd yntau y Canaaneaid rhyfelgar, y dinasoedd caerog, meibion Anac, &c.; ond y gwahaniaeth tragywyddol rhwng Caleb a'r yspiwyr ereill

oedd ei fod ef yn gweled Duw, ac yn teimlo nerth geiriau Duw, Awn a meddiannwn y wlad.Ië, ond beth am y Canaaneaid rhyfelgar, y dinasoedd caerog, a meibion Anac? Beth yw pethau felly i Dduw? Yr Arglwydd sydd gyda ni, a chyda Duw, bara i ni ydynt.

GOSODIAD. Cuddiad cryfder bywyd crefyddol ydyw dyn yn meddu gallu yn ei enaid i weled Duw a theimlo nerth ei air. Trwy hyn, mae dyn yn gallu ymnerthu yn yr Arglwydd, yn nghadernid ei allu Ef—dyn yn gallu ymgodi oddiwrth y gweledig at yr anweledig, oddiwrth yr amserol at y tragywyddol, oddiwrth y dynol at y Dwyfol. Yn ngrym y nerth yma, mae y rhwystrau, pa mor olygus bynag, yn chwalu ac yn diflanu. Am Moses y dywedir, "Efe a ymwrolodd fel un yn gweled yr anweledig." "Trwy ffydd, Moses, wedi myned yn fawr, a wrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh." Ond pa fodd y gwnaeth beth felly? Edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gwobrwy. Trwy feddu yr yspryd arall hwn mae dyn yn gallu esgyn i dŵr clir i gael golwg ëang ar deyrnas Dduw; nid golwg arni yn ei chysylltiad â'r byd hwn—golwg gymylog sydd yma—ond yn hytrach yn ei chysylltiad â'r byd a ddaw—edrycher ar y daearol ac ar y presenol yn ngoleuni y byd a ddaw. Dyma lle y mae ei gryfder. Mae ffydd, yn y fan yna, yn ymylu ar fod yn hollalluog, o achos nerth Duw ydyw ei nerth hi. Dywed yr Apostol Paul, ar ol traethu ei anhawsderau ef a'i frodyr, "Eithr nid ydym yn pallu tra na byddwn yn edrych ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir."

Wel, nis gallwn ni, yn yr amser hafaidd hwn, droi allan yn llwyddiannus yn ein taith grefyddol heb yr yspryd arall hwn. Bydded y wybodaeth a'r gallu—y synwyr—y peth y byddont, aiff y dyn a'i grefydd ar ei hochr i rywle. "Am nad oes ganddo wreiddyn ynddo ei hun pan ddêl erledigaeth," rhywbeth croes, "yn y fan efe a rwystrir."

YSPRYD ARALL. Wel, rhyw yspryddiaeth ôd ydyw. Awn a meddiannwn y wlad. *Yspryd myned.* Mae y dyn sydd yn meddu yr *yspryd arall* hwn wedi ei feddiannu â rhyw *yspryd myned.* Mae am fyned, doed a ddêl. Nis gall aros. Y mae yn gyfranog o'r dduwiol anian, ac mae *myned* yn beth naturiol iddo. Nis gall beidio. Mae tynu yn ol allan o'r cwestiwn. Dyna fe ar unwaith. Dyna ddyn, mae ryw anian o'i fewn, mae am wasanaethu Duw, am fyw yn dduwiol, am weddïo, am gymeryd poen er mwyn enw yr Arglwydd Iesu, ac am gilio oddiwrth ddrygioni. Ac nis gŵyr lawer pryd *paham!* "Nid rhag ofn y gosb a ddêl, nag am y wobr chwaith," er fod *gwobr* a *chosb* yn cael eu teimlo ganddo i'r byw. Ond y mae yn ei enaid rywbeth arall, dan y cwbl, cryfach na'r cwbl. Mae yn gyfranog o yspryd arall, o'r dduwiol anian; am

hyny, nis gall beidio *myned*—dyna ei anian—dyna ei dynfa—dyna ei nerth. Dyna hên bererin wedi dilyn Crist a'i grefydd er's llawer dydd. Gofynwn, paham hwn a hwn, neu hon a hon, yr ydych wedi dilyn y grefydd yma trwy faith flynyddoedd? Ai ofn myned i uffern, ai disgwyl cael myned i'r Nefoedd? Wel, mae Nefoedd ac uffern yn eiriau pwysig ganddynt. Ond y gwir ydyw, mae cariad Crist wedi myned a'u hyspryd. Pe gofynid, "A fynwch chwithau hefyd fyned ymaith?" Mae yr ateb yn barod, "At bwy yr awn ni?" Hên flaenor yn ceisio bargeinio gyda hên chwaer am ei chrefydd, yn cael allan nad oedd digon wedi ei grëu gan Dduw i brynu ei chrefydd hi er saled ydoedd.

III. CYNYRCH NATURIOL YR YSPRYD ARALL HWN YW CYFLAWN DDILYN. Dyma ddarnodiad cryno, cyflawn o gymeriad gwir grefyddol—*cyflawn ddilyn.*

CYFLAWN DDILYN. Dilyn yn gyson. Elfen werthfawr a phwysig yn nghymeriad crefyddol dyn ydyw *cysondeb.* Mae anwadalwch yn cael ei gondemnio yn Ngair Duw, yn mhob modd. Gŵr dau ddyblyg ei feddwl sydd anwastad yn ei holl ffyrdd. Plantos yn bwhwman, sêr gwibiog yn gwibio o'r naill syniad i'r llall, o'r naill blaid i'r llall. Dynion sefydlog sydd yn cadw byd a chrefydd wrth eu gilydd. Pe byddai pawb mor anwadal a rhai, ni byddai yma drefn ar na byd na chrefydd. *Bobl ieuainc* sydd yn yr *act* o ffurfio cymeriad, dysgwch fod yn *gyson.* Dyn cyson gyda chrefydd, yw dyn yr un o hyd. Y cyfiawn a ddeil ei ffordd —dyn yn ei le—gyda'i waith—wrth ei bost, a hyny yn gyson.—Dyn yn dal ei *dresi* ar dŷn. Os athraw—athraw cyson. Os addoli Duw yn y teulu, gwneyd hyny yn gyson. Os dilyn moddion gras, gwneyd hyny yn gyson. Dyn cyson gyda phobpeth. Pa le yr oedd hwn a hwn, nid oedd yn y moddion? Pa'm y gofynir? Am na bydd eu lle byth yn wâg. Mae cysondeb gyda phethau *bychain* yn profi cywirdeb gyda phethau *mwy*—"Y neb sydd ffyddlawn yn y lleiaf, sydd ffyddlawn hefyd mewn llawer."

CYFLAWN DDILYN yw dilyn yn mhob man. Dyn a'i gymeriad crefyddol yn y golwg pa le bynag yr elo. Gan fod ei grefydd yn ei yspryd, nid cochl i'w diosg a'i rhoi yn ol fel y byddo yr amgylchiad mohoni. Dywedir fod nôd y bwystfil ar gledr llaw ei ddilynwyr i'w dangos a'i chuddio fel bo'r amgylchiad. Ond am ddilynwyr yr Oen, dywedir fod ei enw Ef yn ysgrifenedig ar eu talcenau yn amlwg i bawb. Dyna ddyn hawdd i'w adnabod. Aed i'r lle yr elo, mae ei gymeriad crefyddol yn y golwg—yn ei dŷ—gyda'i waith—yn y siop—ar y *station*—yn y *train*—aed i anialwch trefydd mawrion—aed i le neillduol am *holidays*—aed i America—

i Awstralia, mae ei gymeriad crefyddol yn tori allan ac yn llewyrchu. Nid rhaid i'r peth yna wrth gongl i bechu—wrth ddrws cefn mewn tŷ tafarn—*cyflawn ddilyn.*

CYFLAWN DDILYN. Dilyn trwy bobpeth, a dilyn *er* pobpeth. Cyfarfod â llawer o wahanol dymhorau, gwahanol dywydd, a gwahanol *dreialon—dilyn er hyny*—trwy barch, trwy anmharch, trwy glod, ac anghlod. Weithiau yn ddydd, weithiau yn nos—haf—gauaf—ond *cyflawn ddilyn.* Y byd hwn weithiau'n gwgu, weithiau yn gwenu; profedigaethau a *threialon* yn dilyn eu gilydd—adfyd a thrallod—ond *dilyn* er hyny. Cyfarfod â chwerwder chwerw yn y cysylltiad teuluaidd, cael siomedigaethau câs yn y fintai grefyddol, a chael mwy o siomedigaethau ynddo ei hun nac yn mhawb, ond cyflawn ddilyn er hyny.

"Trwy Baca tua Seion,
  Teithio'r wyf;
Er wylo dagrau heilltion,
  Teithio'r wyf;
Er Satan a'i ddichellion,
Er clwyfau ac archollion,
Yn nhŷ fy ngaredigion,
  Teithio'r wyf;
Yn nghyda'r pererinion,
  Teithio'r wyf.

"Er oerni nos a th'wllwch,
  Teithio'r wyf;
Ffyrdd, drysni, ac anialwch,
  Teithio'r wyf;
* * * *
* * * *
A llawer awr o dristwch,
  Teithio'r wyf;
Er oll, yn fyw, rhyfeddwch,
  Teithio'r wyf."

Onid oes yma esiamplau byw o'r ffyddlondeb yma i Grist a'i grefydd? Dyma nifer fechan o hên bererinion Seion wedi gadael yr Aipht yn gynar yn eu hoes, wedi cael y fraint o *gyflawn ddilyn* trwy bob gwahanol dywydd a gwahanol *dreialon*, wedi ymladd llawer brwydr â gelynion ffyrnig o fewn ac o faes—ofnau ac amheuon—ond o'r diwedd wedi cyrhaedd i rosydd Moab; y daith yn tynu at y pen. A dyna eu profiad, "Dal fi, Arglwydd, dal fi ronyn, ni raid i ti ddal yn hir," &c. O! deulu dedwydd!

IV. Mae i'r cyflawn ddilyn hwn ei fawr wobr. Yr urddas goruchel a rydd Duw ar y gŵr hwn, Caleb, oherwydd ei ffyddlondeb.

*Fy ngwâs Caleb.* Y Duw mawr yn dywedyd am ei greadur bach dyn, *Fy ngwâs!* Pa urddas tebyg i hyn! Nid yw holl urddas a theitlau daearol yn ddim o'u cydmharu â hyn. Nid oes neb yn gallu cario eu hurddas a'u teitlau daearol yn mhellach nag angau. Ond dyma urddas ddaw gyda ni i'r byd a ddaw. "Da, was, da a ffyddlawn," fydd y peth cyntaf â'n cyferfydd ar ol croesi trwodd. Meddyliwch am yr adeg y bydd y ffyddloniaid yn derbyn eu gwobr. "*Dygaf ef i'r tir.*" Bu ef yn ffyddlawn i mi, byddaf finau yn llon'd fy addewid iddo yntau. Y ffyddloniaid yn *cyrhaedd adref.* Mae cyrhaedd adref yn deimlad hapus iawn yn y bywyd hwn. Felly i'r môr-deithiwr a'r milwr ar ol bod am flynyddoedd yn y gwasanaeth tramor—ond yn cyrhaedd adref. Ond drych rhy wan ydyw i ddangos teimlad y pererin ffyddlon wedi bod yn hir yn mheryglon taith yr anialwch, ac o'r diwedd, wedi *cyrhaedd adref*, cael troi ato ei hun a dywedyd, Wel! wel! wel! dyma fi yn y Nefoedd o'r diwedd!! Dyma'r Nefoedd! a dyma finau ynddi! Dyma ysprydoedd y cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd, a minau mor berffaith a hwythau. Yr wyf yn eu hadnabod er nas gwn pa fodd! Ond dyma fy Ngwaredwr a'i lygaid siriol arnaf, ac yn fy nghroesawu â gwenau ei gariad.

> "O fryniau Caersalem ceir gweled
> Holl daith yr anialwch i gyd," &c.

Yr hên ffyddloniaid, peidiwch ag ofni y diwedd, cewch eich Duw yn llon'd ei addewidion.

Bobl ieuainc crefyddol, ymroddwch iddi, yr ydych wedi cychwyn yn dda, rhedwch yn dda, peidiwch ag ymdroi, a gochelwch droi ar ddê nac ar aswy. *Ewch rhagoch.*

Y *cyfryw* sydd eto heb gychwyn, goddefwch air y cyngor, "O ddinas distryw, brysiwch, ffowch; ar y gwastadedd nac ymdrowch." Tyred gyda ni, a ni a wnawn ddaioni i ti.—Amen.

---

## YR ASEN WYLLT.

"*Asen wyllt wedi ei chynefino â'r anialwch, wrth ddymuniad ei chalon yn yfed gwynt, wrth ei hachlysur pwy a'i try ymaith? pawb a'r a'i ceisiant hi, nid ymflinant; yn ei mis y cânt hi.*"—Jer. ii. 24.

Mae yr ymwneyd a fu rhwng yr Arglwydd ac Israel yn ddrych i

ni weled ein hunain. *Nyni* bellach yw y bobl y bu cymaint o helynt cydrhwng yr Arglwydd a hwy yn yr Hên Destament, a *nyni*, erbyn hyn, yw y rhai y mae yr Arglwydd, drwy y prophwydi, yn cwyno cymaint o'u herwydd. Pa ffafrau Dwyfol ga'dd yr hên genedl hono na chawsom ninau eu cyffelyb? A pha gŵyn fu gan yr Arglwydd yn erbyn y genedl hono nad oes ganddo gwynion cyffelyb yn ein herbyn ninau? Ac onid ydym ninau hefyd yn yr un perygl o gael ein gadael i redeg i'r canlyniadau echrys yr aeth yr hên genedl wrthnysig hono iddynt?

Er mantais i ni ddal ein hunain yn y drych hwn, y mae yr Arglwydd yn fynych yn personoli—yn llefaru wrth Israel yn y *person unigol—tydi*, ac felly y gwna yn y testyn hwn.

Yn y geiriau hyn, mae yr Arglwydd, drwy y prophwyd, yn rhoddi darluniad barddonol o wallgofrwydd cenedl Israel gydag eilun-addoliaeth. Dyma oedd eu *pechod parod* hwy. Cyffelybir hwy yma i'r creaduriaid gwylltaf yn eu hadeg wylltaf. Oni byddwn yn synu atynt! Er eu ceryddu a'u gwaredu, byddant yn y fan yn rhedeg yn wallgof i'r un pechod drachefn. Ond edrychwn gartref. Mae genym ninau ein *pechodau parod*. Onid yw eilunod wedi eu cerfio ar y galon yr un mor ddrygionus ac eilunod wedi eu cerfio ar bren a maen?

Yr ydym wedi cymeryd y geiriau hyn yn destyn am eu bod yn ddarlun byw o genhedlaeth wyllt ac afreolus yn ein hardaloedd a'n gwlad. Tybiwn fod y Cymry, fel cenedl, yn tra rhagori ar genedl Israel yn eu hadegau goreu. Mae yn mhlith ein cenedl luaws mawr o drugaredd yr Arglwydd o bob oed a gradd, pobl ieuainc yn gystal ac ereill, yn ymddwyn yn Gristionogol, yn ofni Duw, yn ei wasanaethu Ef, yn bobl briodol i'r Arglwydd. I Dduw a'i râs y byddo y diolch. Efe a wnaeth y gwahaniaeth.

Ond o'r ochr arall, er amled ein manteision crefyddol, y mae genym genhedlaeth wyllt ac afreolus iawn, er pobpeth yn gwallgofi i bob hylldod pechadurus. Nid pobl ieuainc yn unig ydynt, ond gwŷr a gwragedd, yn ymddwyn yn hollol fel pe na byddai na Duw nac enaid, na barn na byd arall yn bod. Y mae ein testyn yn ddarluniad byw ohonynt. Camel buan ydwyt—asen wyllt wedi ei chynefino â'r anialwch, &c. Nid dychymyg barddonol sydd genym, ond ffaith rhy amlwg i'w gwadu na'u chuddio. Gall dynion da yn briodol ddywedyd yn awr fel y Salmydd gynt, "Gwelais y troseddwyr a gresynais." Onid ydynt yn hawdd eu *gweled?* Nid un yma ac un acw, ond yn lluaws yn mhob cyfeiriad, ac ar bob achlysur. Mae y genhedlaeth wyllt hon i'w *gweled* a'u clywed—yn lluaws—yn y dref—ar y pentref—ar yr heol—ar y ffyrdd—yn y *train*—ar y *station*. Bydd ganddynt eu cynulliadau, ar gongl yr

heol, ar y groesffordd, &c., a golwg galed, anystyriol, gellweirus, geir arnynt, yn ddiofu Duw, ac yn ddibarch i ddynion. Y mae rhyw fanau penodol yn mhob tref a phentref lle bydd y gwylliaid hyn yn tyru at eu gilydd—“*Eisteddfa gwatwarwyr!*” Ac O! y siarad ynfyd, y cellwair ffol, y coeg-ddigrifwch, llw a rhêg ar ben pob gair, yr hyfdra ofnadwy ar enw y Duw byw! “Dy elynion a gymerant dy enw yn ofer.” *Dyma y ffaith.* Yr ydym *ni* yn gweled *llawer*, ond beth pe gwelem y *cwbl?* Beth pe gwelem, a phe clywem yr holl hylldod annuwiol yn nhai cyfeddach y wlad am un nos Sadwrn *setlo?* Ond mae Duw yn gweled ac yn clywed y cwbl. A rhaid bod amynedd yr Anfeidrol fel Efe ei hun pan yn goddef y fath ddirmyg arno!

Mae geiriau y testyn yn ddarluniad byw o'r *genhedlaeth wyllt* yr ydym yn cyfeirio ati. “*Camel buan ydwyt yn amgylchu ei ffyrdd!*” Dyna nhw! y *genhedlaeth wyllt* yn rhedeg yn wallgôf, ar draws ac ar hyd, heb gydnabod na chlawdd na therfynau. Nodwedd y *genhedlaeth wyllt* yw *afreolaeth.* Mae yn anobeithiol cael un math o ddisgyblaeth arnynt. Nid ydyw rheolau teuluaidd, lle ceir hwy, na rheolau cymdeithasol—moesol na chrefyddol—yn cael un effaith arnynt. Meibion a merched Belial ydynt, heb iau arnynt. Nid ydynt wedi eu dal na'u dofi erioed gan ddim na neb. Eu rheol hwy yw penrhyddid; dilyn eu tueddiad llygredig yn wallgof, ac yn ddall i bob canlyniad. Dyna eu rheol hwy, a dyna reol y diafol iddynt. Ac y maent ganddo, druain, wrth ei ewyllys!

“*Asen wyllt wedi ei chynefino â'r anialwch.*” Yr *asyn* yw y creadur mwyaf hurt, ond mae yr *asen wyllt* yn fwy felly na'r un o'i rhywogaeth. *Asen wyllt*—ac asen wyllt *yn yr anialwch!* Pwy all wneyd dim o'r fath greadur? Y mae ei dal a'i dofi allan o'r cwestiwn. Ac eto dyma y fath bethau gwylltion ac anhydrin sydd yn lluosogi yn ein hardaloedd. Dynion ieuainc, meibion a merched, gwŷr a gwragedd, rhai hardd o bryd, mewn diwyg dda, blodau ein cenedl, yn gwneyd *asynod* ohonynt eu hunain! Tybia y creadur *dwl* na bydd ddim yn llanc heb fod yn ddigon *swagger*—yn hŷf—yn ddibarch o bawb ereill—oni bydd llŵ a rhêg bob yn ail gair—a chymeryd enw y Duw mawr yn ofer ar ben pob stori—oni bydd pibell yn ei gêg a diod feddwol yn meddalu ei ben. Er ceisio gwneyd ei hun yn llanc, rhaid i'r creadur gael gwneyd ymaith â hyny o *ddyn* sydd ynddo. Ac eto mae genym ferched ieuainc digon ynfyd i roddi eu meddylfryd ar *asynod!* Ow, druain! Yn wir mae cyffelybu y fath greaduriaid i greadur direswm yn sarhâd ar y creadur direswm. Da y dywedodd un, “Y creadur meddw wedi syrthio i'r ffos, a'r mochyn yn ei basio fel gŵr bonheddig!” Os oes yma neb yn ateb i'r darlun, dymunem godi cywilydd arnynt.

Ond y mae gradd mewn hyfdra annuwiol sydd yn gwneyd nas gall dynion *gywilyddio*.

"*Wrth ddymuniad ei chalon yn yfed gwynt*." Dyma eto—*yfed gwagedd!* Dymuniad calon y creadur gwyllt yw cael digon o ryw wagedd, siarad gwagedd, gwrando gwagedd, canu gwagedd, cyfarfod gwagedd. Ni bydd darlith, na chyfarfod canu, na *choncert*, fawr o beth oni bydd eu haner o wagedd. Ac os ceir gwagedd mewn pregeth, dyna gofir. Os ceir llyfr a digon o wagedd ynddo, dyna y llyfr y bydd blâs arno. Y mae ganddynt bob manteision i yfed gwybodaeth a synwyr, ond nid oes gan yr *asynod gwylltion* flâs ar ddim ond ar yfed gwagedd. Y fath lu mawr sydd yn byw ar wagedd, a hyny yn nghanol sylweddau!

"*Wrth ei hachlysur pwy a'i try ymaith?*" Rhaid i'r creadur gwyllt gael ei ffordd ei hun er neb, doed a ddelo. Nid oes ar y ddaear ddim mor ddifrifol a bod dynion, mewn gwlad fel hon, yn *mynu* dilyn eu harferion pechadurus er pobpeth a wneir i geisio eu gwaredu. Er pob ymdrech a wneir i'w sobri, eto yn *mynu* y dafarn, y diotta a'r meddwi, *mynu* mathru Sabbothau, *mynu* y llwon hyll, a *mynu* cablu enw y Goruchaf, *mynu* dilyn eu pechodau, a *mynu* pechu yn rhyfygus. Dywedwch wrth y *genhedlaeth wyllt* am beidio mynychu y tai cyfeddach, am ochel y cynulliadau llygredig, am beidio myned i grwydro ar y Sabboth, yr un peth fydd a dywedyd wrth yr afon am droi yn ei hol! Pwy a'i try ymaith? Ceir fod pawb yn *ceisio*, a phawb yn *methu*. Onid oes rhyw olwg hŷf iawn, beiddgar ofnadwy ar annuwioldeb ac annuwiolion yn y tir? Byw y maent yn hollol fel pe na byddai na Duw, nac enaid, na barn, na byd arall yn bod. Y mae dynion, er pobpeth, yn rhuthro yn mlaen mewn pechu rhyfygus, yn ddall hollol i bob canlyniadau.

A'r hyn sydd yn ddifrifol eto, y mae y *genhedlaeth wyllt* hon o hyd yn cynyddu! Dyna luaws mawr o fechgyn a genethod yn cael eu parotoi ar hyd ein pentrefi, megys o'u mebyd i luosogi a chwyddo y fyddin ddu.

"*Pawb ar ei ceisiant hi, nid ymflinant*." Mae pawb sydd yn ceisio dal a dofi, a lleshau y *genhedlaeth wyllt* hon yn anobeithio llwyddo, pob moddion a arferir genym yn aflwyddo. Y mae pob pregethu, pob cyngbori a rhybuddio, yn aflwyddo; änt ymaith o'r bregeth fwyaf difrifol fel o'r chwareudŷ. Y mae holl ymdrechion yr Ysgol Sul yn fethiant, felly o leiaf i olwg dynion. Yr ydym trwy yr oes wedi bod yn cymbell llwyr-ymataliad a dirwest fel yr unig foddion i sobri meddwon, ac i waredu ereill rhag syrthio i'r dinystr ofnadwy, ond mor aflwyddiannus fuom! Buom yn cynyg fel hyn, ac yn treio fel arall, ond y cwbl yn fethiant. Er cael lluaws i arwyddo ac i arwyddo, eto nid oes digon o sadrwydd

yn y *genhedlaeth wyllt* i ddal at eu hymrwymiad am fis. Nid yw arwyddo yr ymrwymiad mwyaf difrifol, a'i dori, ond chwareu yn eu golwg. Mae *rhieni—llawer* o rieni—wedi bod yn cynghori ac yn ceryddu, trwy dêg a thrwy fygwth, ond er pobpeth yn gorfod bod yn dystion o weled eu plant yn troi allan yn galed, yn anufudd, yn annuwiol, ac yn dianc ymaith i'r anialwch! A dyma y prawf, Onid ydyw yr annuwiolion cyhoeddus o hyd yn cynyddu, ac annuwioldeb o hyd yn cryfhau? Byddwn weithiau yn y brofedigaeth o anobeithio am ein cenedl, ac i ddywedyd fel Jeremiah, "Yfwch, a meddwch, a chwydwch, a syrthiwch, ac na chyfodwch." "*Pawb ar ei ceisiant hi, nid ymflinant.*" Mor briodol yw y gair yn Llyfr Job i'w gymhwyso at asen wyllt yr anialwch, yr hon "ni wrendy ar lais y geilwad," hi "a chwardd am ben lluaws tref."

Pa gyfrif sydd i'w roddi dros fod y fath annuwioldeb, y fath hyfdra annuwiol, a hwnw yn cynyddu, mewn gwlad ac oes sydd mor llawn o bob manteision crefyddol a moesol? Onid oes driagl yn Gilead? Onid oes yno physigwr? *Paham?* Onid yw gair Duw yn llon'd y wlad? Onid oes addoldai gwych, cyfleus, wrth ddrysau pawb, yr Efengyl yn cael ei phregethu yn ei phurdeb yn mhob bryn a bro? Wel, paham, mewn difrif, y mae y fath annuwioldeb hŷf, pen-uchel yn gallu byw heb sôn am gynyddu mewn gwlad fel hon? Paham y mae y Duw mawr yn goddef i'w Efengyl fod mor aflwyddiannus? A ydyw Efe am ein gadael, fel cenedl, i ymgaledu mewn anufudd-dod? Gadawn y cwestiwn fel yna heb ei ateb.

Ond dyma y darlun yn newid. "*Yn ei mis y cânt hi*"—*y daliant* hi. *Mis y dal!* Daw y bywyd pechadurus, penrhydd, gwyllt, annuwiol i'w ddiwedd. Daw y creadur gwyllt, afreolus, i'r ddalfa. Nid oes dim sydd sicrach. Wrth weled y dyn ieuanc neu hên mor galed, mor annuwiol, mor ddibris, mor hŷf, byddwn yn barod i ddywedyd, Ha! mae adeg pur wahanol yn dy aros! "A bery dy galon, a gryfhâ dy ddwylaw yn y dyddiau y bydd i mi a wnelwyf â thi? Myfi, yr Arglwydd, a'i lleferais, ac a'i gwnâf." Ni oddef Duw i annuwiolion Cymru ei ddirmygu am dymhor maith. "Na fydd rŷ annuwiol; paham y byddit farw cyn dy amser?"

Mae gan yr Arglwydd dair goruchwyliaeth i ddal pechadur rhyfygus. Fe ddelir rhai gan wasgfeuon y bywyd hwn, gan afiechyd a chystudd, a gwasgfeuon a thlodi. Bychan y meddylia y genedl wyllt i ba gyfyngder y maent yn rhedeg. Adwaenem lawer ugain mlynedd yn ol oeddynt mor wyllt ac afreolus ag y mynai y diafol iddynt fód, ond i ba iselder o gystudd a thlodi y maent wedi eu dwyn erbyn hyn? Mor dda iddynt pe buasai rhyw gymaint o'r arian a wariwyd am oferedd i'w cael heddyw! Dy-

fydd ein mater yn y sylwadau canlynol, llwyddo gyda'r byd a llwyddo gyda'r enaid. Y mwyaf o'r ddau ydyw llwyddiant enaid. "DY ENAID YN LLWYDDO." Mae llwyddiant enaid yn gynwysedig mewn cael gwir grefydd, myned rhagom mewn cynydd yn y grefydd hono, ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da, a llwyddo i gyrhaedd hyder am ein diogelwch yn nhrefn grâs Duw. Y fath dir lawer sydd genym eto i'w feddiannu yn y cyfeiriad crefyddol yma. Yn nglŷn â'r ddau lwyddiant, sylwir—

I. *Mae yn ddigon posibl llwyddo yn y naill heb lwyddo yn y llall.* Gall dyn lwyddo o ran ei enaid, a'r llwyddiant tymhorol ar ol. Ceir y dyn gwir grefyddol yn fynych yn ddyn helbulus gyda'r byd, a'r hên chwaer dduwiol yn byw ar y plwyf. Enaid iach mewn corph afiach. Ond os yn *dlawd duwiol* y'th alwyd, na fydded gwaeth genyt. Bu dy Waredwr mewn tlodi. Oni ddewisodd Duw dlodion y byd hwn yn gyfoethogion mewn ffydd?

O'r ochr arall, dichon dyn lwyddo gyda'r byd, ond ei enaid yn cael ei adael mewn culni a thlodi. Medda fedr i drin y byd, ond ei enaid heb gael meddwl na gofalu dim am dano. Mae *ennill* a *cholli* gyda'r byd yn eiriau pwysig ganddo, ond nid yw cadw neu golli yr *enaid* yn pwyso dim ar ei feddwl. Yr enaid gwerthfawr yn cael ei adael i ddiafol a phechod i wneyd a fynont ohono. Onid yw yn resyn fod enaid gan lawer? Ni bu ennill y byd a cholli yr enaid erioed yn fwy yn y ffasiwn nag yn bresenol.

II. *Mae ein testyn yn lled awgrymu fod llwyddo gyda'r byd heb lwyddo gyda'r enaid yn llwyddiant peryglus.* Hawdd y gallai Ioan ddymuno llwyddiant tymhorol Gaius, gwyddai fod ei enaid yn llwyddo, ac felly nid oedd berygl i'r pŵn droi.

Y mae pawb am fod yn iach, ac am lwyddo gyda'r byd. Nid oes pall ar *ddymuno* hyny, bid a fo. Ond mae anturio i lwyddiant tymhorol heb fod yr enaid mewn gafael â'i bethau yntau, yn anturiaeth arswydlawn o beryglus, yn rhy debyg i anturio i'r môr mewn llong heb lyw. Dyna ddyn yn troi allan i'r byd, yn rhoddi ei holl ymadferthoedd ar waith i lwyddo, nid yw yn gadael un gareg heb ei throi er cyrhaedd ei amcan. Ond y mae yr enaid ganddo yn wâg o ddylanwad pethau Dwyfol. Mae tynged y cyfryw un wedi ei hysbysu yn barod. "Y rhai sydd yn ewyllysio ymgyfoethogi sydd yn syrthio i brofedigaeth a magl." Y mae yn boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth. Hyn yn cael ei brofi mewn modd grymus a difrifol yn hanes y goludog ynfyd a wysiwyd i wyddfod Duw noson ei ymffrost wâg ac ofer. Wrthych chwi, sydd yn amcanu am y llwyddiant tymhorol, dywedwn, amcenwch hefyd am

lwyddiant enaid, onidê yn wir, y drugaredd fwyaf â chwi fydd gweddïo am i'ch ffordd mewn llwyddiant fydol gael ei chau i fyny â drain. Da chwi, peidiwch temtio Duw i'ch trin yn arw. Mor briodol i ni ydyw gorchymyn Iesu Grist, "Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder Ef." Y ddau gwestiwn mawr ydynt —I ba beth y mae dynion mor ymroddgar gyda'r byd hwn? Ai er mwyn cael modd i fyw? Ië, ond i ba beth y mae dyn yn *byw* drachefn?

III. *Mae y testyn yn awgrymu fod yn bosibl llwyddo gyda'r ddau —gyda'r byd a chyda'r enaid hefyd.* "Yr ydwyf yn dymuno dy fod yn llwyddo fel *y mae* dy enaid yn llwyddo."

Y mae syniad ar led fod byw yn wir grefyddol a thrin y byd fel ag i fod yn llwyddiannus yn y ddau mor bell oddiwrth eu gilydd, nes y mae y naill o hyd am ddyrysu y llall. Mae y ffordd yn gûl rhaid addef, ond nid yn rhy gûl i'w cherdded yn nghymhorth grâs. Nis gallwn wneyd dim, o ran hyny, heb gymhorth grâs. Mae tymher wir grefyddol yn dyfod yn help yn lle bod yn rhwystr i drin y byd. Y dymher grefyddol yma ydyw yr oreu i fyned i'r capel i addoli, ac i'r gwely i farw, ond hi hefyd ydyw yr oreu i fyned i'r farchnad, i'r siop, i'r maes, &c. Gŵyr y merched yn dda y deuant i ben â'u goruchwylion teuluaidd yn llawer mwy hylaw pan mewn tymher canu penill o hymn. Y mae gair Duw am gymeryd oddiarnom y baich o bryder a rhag-ofalon, am ein gwahardd i arfer twyll a chamwri, ac am ein hatal rhag rhedeg i anturiaethau gwallgof, a'r fath ymwared i ni a'r byd fyddai hyny.

O'r ochr arall, mae *cymedroldeb* o lafur a gofalon bydol yn *help* i fyw yn grefyddol. Camgymeriad ydyw tybied pe ceid hamdden a llonyddwch gan y byd hwn y gwneid yn amgen gydag achos yr enaid. Mae colli y *stir* a wna llafur bydol yn y meddwl yn dyfod yn golled i'r enaid. Profedigaeth y tawelwch yna fydd *segurdod yspryd.* Y mae y gelyn yn hoffi y sut hwnw ar ddyn. Fe wna y diafol *gapital* o'r agwedd yma er llwyddiant ei achos. Ond y mae yn bosibl yn nghymhorth grâs troi llwyddiant y naill yn llwyddiant i'r llall. Mewn trefn i hyny, rhaid troi y byd hwn yn wasanaethgar i'r byd a ddaw.

IV. *Cymerwn ein cenad i droi y testyn ychydig yn ei wrth-ôl, er tynu un sylw arall.* Pe buasai Ioan yn anfon y llythyr at luaws crefyddwyr yr oes hon, felly y buasai yn dywedyd, "Yr wyf yn dymuno fod eich eneidiau yn llwyddo, fel y mae eich amgylchiadau bydol yn llwyddo." Yr ydym am gael eich sylw at beth mor ymarferol a hyn. Os ydyw o ryw bwys genych lwyddo gydag achos yr enaid, gwnewch rywbeth yn debyg gyda'ch crefydd ag yr

ydych yn gwneyd gyda'ch pethau tymhorol, a dyna y llwyddiant uchaf a mwyaf bendigedig wedi ei sicrhau.

Mae ffordd llwyddiant bydol yn awr yn agored a rhwydd, felly hefyd y mae genym bob cyfleusdra i lwyddo gyda'r enaid. Y mae i bob llwyddiant ei *ddeddfau*, ac mewn cydffurfiad â'r rhai hyn y mae ei sicrhau.

1. Un o ddeddfau llwyddiant tymhorol ydyw *diwydrwydd a gofal.* Nid ydyw byth yn methu. Y mae hon hefyd yn un o ddeddfau llwyddiant enaid. Y mae ein iachawdwriaeth o *râs*, ond y mae yspryd y grâs wedi ordeinio *moddion grâs*, ac nid oes llwyddo i fod gyda'r enaid heb fod yn ddiwyd a chyson gyda'r moddion a ordeiniodd Duw i gynyrchu y llwyddiant yma. Heb. vi. 11, 12. "Enaid y diwyd a wneir yn frâs" mewn ystyr ysprydol hefyd.

2. Deddf arall o eiddo llwyddiant ydyw *gwneyd y goreu o bob-peth.* Y fath gyfleusderau sydd genym i lwyddo gyda'r enaid. Bydded i'r enaid gael chwareu-têg am ei ddiwrnod ei hun, ei lyfr ei hun, ei gyfarfod ei hun, ei farsiandiaeth ei hun, a'i drysorfa ei hun. Mae esgeuluso cyfarfod crefyddol yn golled i ac yn gam â'r enaid.

3. Deddf arall o eiddo llwyddiant tymhorol ydyw *prydlondeb*—gwneyd pobpeth yn ei adeg. Y mae i'r enaid ei dymhor, dydd iachawdwriaeth, amser cymeradwy, dydd hwn dy ymweliad. Mae tymhor yr enaid yn fyr ac ansicr. Un enaid, un iachawdwriaeth, ac un adeg. Mae colli yr enaid mewn colli yr adeg.

4. *Diogelwch* ydyw un arall o ddeddfau llwyddiant tymhorol, rhoddi pobpeth yn ddiogel. Y mae gan Dduw drefn i ddiogelu yr enaid: Heb. vi. 18, 19. A ellwch fod yn dawel a'r enaid gwerthfawr yn y perygl o'i golli byth? Yr enaid! yr enaid!!

Mae llwyddiant yr enaid yn anrhaethol fwy pwysig i ni na phob llwyddiant arall. Byr-barhaol yw yr un tymhorol ar y goreu. "Pan ddêl angau chwi ffowch ymaith," ond bydd yr enaid genym byth, byth! Llafurio i ereill wneir yn fynych gyda phethau tymhorol, ond bydd llwyddiant yr enaid yn beth i ni ein hunain. Diwedd ein hanes yma ydyw, "Y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac y dychwel yr yspryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef." Pa le y byddi di, fy enaid, y diwrnod yna?

"Tragwyddoldeb mawr yw d' enw,
Ti yn fuan fydd fy lle," &c.

CAERNARFON: ARGRAFFWYD GAN J. R. EDWARDS, HIGH STREET.

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY

UTL AT DOWNSVIEW
D RANGE BAY SHLF POS ITEM C
39 15 15 02 06 013 6